Asesiad o Anghenion Fferyllol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Terfynol

Medi 2026

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol 3
1 Cyflwyniad 6
2 Trosolwg o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg 28
3 Anghenion iechyd cyffredinol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg 49
4 Grwpiau cleifion a nodwyd – problemau iechyd penodol 91
5 Darparu gwasanaethau fferyllol 138
6 Gwasanaethau eraill y GIG 161
7 Anghenion iechyd y gellir eu diwallu gan wasanaethau fferyllol 167
8 Clwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr 174
9 Clwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr 195
10 Clwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr 219
11 Clwstwr Merthyr Tudful 240
12 Clwstwr Gogledd Cwm Cynon 262
13 Clwstwr De Cwm Cynon 282
14 Clwstwr Cwm Rhondda 301
15 Clwstwr Taf Elái 322
16 Casgliadau at ddibenion atodlen 1 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 345
Atodiad A – cyd-destun polisi a phapurau cefndir 349
Atodiad B – gwasanaethau hanfodol 354
Atodiad C – gwasanaethau contractwyr cyfarpar a fferyllfeydd cymunedol cenedlaethol 357
Atodiad D – gwasanaethau clinigol ychwanegol 362
Atodiad E – telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr offer dosbarthu 366
Atodiad F – aelodaeth grŵp llywio asesiad anghenion fferyllol 369
Atodiad G – arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd 370
Atodiad H – ymatebion i'r holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd 382
Atodiad I – holiadur contractwyr fferyllfa 414
Atodiad J – Holiadur practis meddyg teulu sy'n dosbarthu 418
Atodiad K – adroddiad ar yr ymgynghoriad 421
Atodiad L – oriau agor fferyllfeydd 442

Crynodeb Gweithredol

Ers 1 Hydref 2021, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gyfrifoldeb statudol i gyhoeddi a diweddaru datganiad o'r anghenion am wasanaethau fferyllol ar gyfer y boblogaeth yn ei ardal, y cyfeirir ato fel 'asesiad o anghenion fferyllol'. Hwn yw ail asesiad anghenion fferyllol y bwrdd iechyd, ac fe'i datblygwyd dan oruchwyliaeth grŵp llywio y gwahoddwyd Fferylliaeth Gymunedol Cymru, Pwyllgor Meddygol Lleol Bro Taf a Llais i fod yn aelodau ohono.
Mae'r asesiad o anghenion fferyllol yn:

- Nodi anghenion iechyd presennol y boblogaeth a sut y byddant yn newid dros oes pum mlynedd y ddogfen (1 Hydref 2026 i 30 Medi 2031),
- Disgrifio'r ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau fferyllol gan fferyllfeydd, contractwyr offer fferyllol a meddygon fferyllol o fewn ardal y bwrdd iechyd a'r tu hwnt iddi,
- Ystyried newidiadau hysbys a fydd yn codi yn ystod oes y ddogfen megis newidiadau demograffig, datblygiadau tai, prosiectau adfywio, a newidiadau i leoliad darparwyr gwasanaeth eraill y GIG, a
- Nodi unrhyw fylchau cyfredol yn y ddarpariaeth gwasanaethau ac unrhyw rai a fydd yn codi yn ystod oes y ddogfen.

Bydd yr asesiad o anghenion fferyllol yn cael ei ddefnyddio gan y bwrdd iechyd wrth ystyried a ddylid caniatáu ceisiadau i ymuno â'i restr fferyllol neu restr meddygon fferyllol o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau ar geisiadau o'r fath i Weinidogion Cymru a fydd wedyn hefyd yn cyfeirio at y ddogfen wrth wrando ar unrhyw apêl o'r fath. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau ar geisiadau i adleoli safleoedd fferyllfa a meddygon fferyllol presennol, ceisiadau i newid oriau agor craidd fferyllfa, ac mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau newydd gan fferyllfeydd.

At ddibenion yr asesiad o anghenion fferyllol, diffiniwyd yr ardaloedd fel yr wyth clwstwr sy'n ffurfio'r bwrdd iechyd.

Wrth ddatblygu'r asesiad o anghenion fferyllol, defnyddiwyd nifer o ffynonellau gwybodaeth i gael trosolwg ar nodweddion demograffig a phroffil iechyd preswylwyr y bwrdd iechyd i bennu eu hanghenion iechyd a fferyllol cyffredinol.

Cafwyd barn trigolion am eu defnydd o fferyllfeydd a phractisau meddygon fferyllol, a gwybodaeth a ddarparwyd gan gontractwyr na ellid ei chyrchu'n genedlaethol, trwy ddefnyddio holiaduron. Defnyddiwyd yr wybodaeth a gafwyd, ynghyd â ffynonellau data eraill, i lywio casgliadau'r asesiad o anghenion fferyllol.

Bydd ymgynghoriad 60 diwrnod gyda'r personau statudol yn cael ei gynnal a bydd adroddiad ar yr ymatebion yn cael ei gynnwys yn atodiad K.

Mae trosolwg o nodweddion demograffig trigolion ardal y bwrdd iechyd wedi'i nodi ym mhennod 2, ac mae pennod 3 yn canolbwyntio ar eu hanghenion iechyd gyda

data wedi'i gynnwys ar lefel clwstwr, awdurdod lleol a bwrdd iechyd. Yn ogystal, mae unrhyw grwpiau penodol a nodwyd fel rhai sy'n bresennol yn ardal y bwrdd iechyd, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a'u hanghenion iechyd tebygol wedi'u cynnwys ym mhennod 4. Ystyriwyd sut y gall contractwyr yn ardal y bwrdd iechyd ddiwallu'r anghenion iechyd hyn.

Nodwyd a disgrifiwyd y gwasanaethau fferyllol a ddarperir ar hyn o bryd. Ystyriwyd hefyd y darparwyr hynny sydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd ond sy'n darparu gwasanaethau i'w breswylwyr. Ar ben hynny, mae rhai gwasanaethau sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol naill ai trwy gynyddu neu leihau'r galw. Mae gwasanaethau o'r fath yn cynnwys fferyllfeydd ysbyty, y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau ac unedau mân anafiadau, ac mae'r rhain wedi'u hystyried yn rhan o'r asesiad o anghenion fferyllol.

Er bod trosolwg wedi'i ystyried ar lefel bwrdd iechyd ac awdurdod lleol, cynhaliwyd adolygiad ar lefel clwstwr hefyd sy'n cwmpasu'r nodweddion demograffig, anghenion iechyd a'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir ar hyn o bryd i breswylwyr ym mhob clwstwr. Defnyddiwyd hyn i nodi a yw'r gwasanaethau presennol a ddarperir yn diwallu anghenion y preswylwyr hynny. Ystyriwyd hefyd a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir a allai godi yn ystod oes pum mlynedd y ddogfen. Ystyriwyd y cynnydd mewn tai o'r datblygiadau tai hysbys hefyd, gan nodi y byddai'r cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl sy'n byw yn ardal y bwrdd iechyd yn awgrymu na fydd pob preswylydd sy'n symud i'r tai newydd hyn yn newydd i ardal y bwrdd iechyd.

Mae 109 o fferyllfeydd yn y bwrdd iechyd, a phob un yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau hanfodol. Yn 2024/25, cafodd 95.2% o'r holl bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan feddygfeydd teulu yn y bwrdd iechyd eu cyflenwi gan y fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd, a chafodd y gweddill eu cyflenwi mewn mannau eraill yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae fferyllfeydd hefyd yn darparu ystod o wasanaethau cenedlaethol o ran fferylliaeth gymunedol a chontractwyr offer a gwasanaethau clinigol ychwanegol.

Mae tri phractis meddyg teulu fferyllol yn y bwrdd iechyd sy'n cyflenwi meddyginiaeth i gleifion cymwys. Fe wnaethant gyflenwi neu weinyddu'n bersonol oddeutu 1.3% o eitemau presgripsiwn. Gweinyddodd meddygon nad ydynt yn feddygon fferyllol ryw 1.0% o'r holl eitemau rhagnodedig yn bersonol. O'r ddau bractis cyflenwi yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr, mae un yn cyflenwi o'i is-feddygfa, sydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd, yng Nghastell-nedd Port Talbot (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe).

Er bod gwasanaethau da iawn yn cael eu darparu o fewn ardal y bwrdd iechyd, efallai y bydd rhai preswylwyr yn dewis cael at gontractwyr fferyllol y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Caiff tua 2.5% o'r presgripsiynau eu cyflenwi y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Er bod llawer ohonynt wedi'u cyflenwi gan gontractwyr mewn byrddau iechyd cyfagos, cafodd rhai eu cyflenwi yn Lloegr. Awgryma hyn ei bod yn well gan rai preswylwyr ddefnyddio gwasanaethau fferyllol sy'n agos at eu cartref, eu lleoliad gwaith, eu meddygfa deulu neu'r mannau lle maen nhw'n siopa, yn defnyddio

cyfleusterau hamdden neu'n mynd am resymau eraill. Nodir bod y rhan fwyaf o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr wedi'u cyflenwi gan gontractwr offer cyflenwi.

Mae gwasanaethau fferyllol ar gael yn dda i drigolion y bwrdd iechyd. Gall mwyafrif helaeth y preswylwyr gael at fferyllfa neu bractis meddyg fferyllol (lle bo'n gymwys cyflenwi iddynt) o fewn 20 munud mewn car, a gall llawer o breswylwyr gyrraedd fferyllfa o fewn llai o amser teithio. Prif gasgliad yr asesiad hwn o anghenion fferyllol yw nad oes bylchau yn y gwasanaethau fferyllol a ddarperir ar hyn o bryd.

Wrth ystyried a fydd unrhyw anghenion am wasanaethau fferyllol yn y dyfodol a allai godi yn ystod oes pum mlynedd yr asesiad o anghenion fferyllol, ystyriwyd y canlynol:

- y twf poblogaeth a ragwelir,
- y boblogaeth sy'n heneiddio,
- y datblygiadau tai hysbys,
- y cyfeiriad teithio a nodir yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach, a
- gallu fferyllfeydd i reoli cynnydd yn y galw.

Nodwyd angen yn y dyfodol am fferyllfa sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllfeydd am 40 awr yr wythnos, ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar fore Sadwrn yn y datblygiad ar hen safle gwaith glo brig Llanilid ar ôl cwblhau 80% o'r tai disgwyliedig.

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol hefyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd bod fferyllfa wedi ei thynnu oddi ar y rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllfeydd am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol hefyd wedi nodi, pe bai fferyllfa yn rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cofnod gweinyddu meddyginiaethau, bydd angen darparu'r gwasanaeth yn y dref/pentref hwnnw yn y dyfodol. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

1 Cyflwyniad

1.1 Pwrpas asesiad o anghenion fferyllol

Pwrpas yr asesiad o anghenion fferyllol yw asesu a nodi sut y gall darparu gwasanaethau fferyllol ddiwallu anghenion iechyd poblogaeth ardal bwrdd iechyd am gyfnod o hyd at bum mlynedd. Yna fe'i defnyddir i benderfynu ar geisiadau i'w cynnwys yn rhestrau fferyllol neu feddygon fferyllol y bwrdd iechyd.

Os yw person (fferyllfa neu gontractwr cyfarpar fferyllol) eisiau darparu gwasanaethau fferyllol, mae'n ofynnol iddynt wneud cais i'r bwrdd iechyd, yn yr ardal lle bydd y safle'n cael ei leoli, i gael eu cynnwys ar ei restr fferyllol. Yn gyffredinol, rhaid i'w cais gynnig diwallu angen sydd wedi'i nodi yn asesiad anghenion fferyllol y bwrdd iechyd hwnnw. Fodd bynnag, mae dau eithriad i hyn; ceisiadau i newid perchnogaeth ac adleoli at ddibenion busnes.

Os yw meddyg teulu'n dymuno dosbarthu mewn ardal newydd neu o adeilad newydd neu ychwanegol, mae'n ofynnol iddynt hefyd wneud cais i'r bwrdd iechyd er mwyn cael eu cynnwys ar ei restr o feddygon fferyllol, neu i ardal newydd neu safle newydd neu ychwanegol gael ei restru mewn perthynas â nhw. Yn gyffredinol, rhaid i'w cais hefyd gynnig diwallu angen sydd wedi'i nodi yn asesiad anghenion fferyllol y bwrdd iechyd hwnnw.

Yn ogystal â nodi a oes angen adeiladau ychwanegol, bydd yr asesiad anghenion fferyllol hefyd yn nodi a oes angen gwasanaeth neu wasanaethau ychwanegol. Gallai anghenion a nodwyd naill ai fod yn anghenion cyfredol neu'n anghenion a fydd yn codi o fewn oes pum mlynedd yr asesiad anghenion fferyllol.

Os nad yw angen honedig ymgeisydd wedi'i gynnwys yn yr asesiad o anghenion fferyllol, yna rhaid gwrthod y cais.

1.2 Dyletswyddau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â'r asesiad o anghenion fferyllol

Cyhoeddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ei asesiad o anghenion fferyllol cyntaf ar 1 Hydref 2021. Mae rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau penodol y bwrdd iechyd mewn perthynas ag asesiadau anghenion fferyllol a chefndir polisi asesiadau anghenion fferyllol ar gael yn atodiad A, fodd bynnag, yn gryno, rhaid i'r bwrdd iechyd:

- Gyhoeddi datganiadau diwygiedig (h.y. asesiadau o anghenion fferyllol dilynol), bob pum mlynedd, sy'n cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol,
- Cyhoeddi asesiad dilynol o anghenion fferyllol yn gynt pan fydd yn nodi newidiadau sylweddol i'r angen am wasanaethau fferyllol, oni bai y byddai gwneud hynny'n ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny, a
- Cynhyrchu datganiadau atodol sy'n esbonio newidiadau i argaeledd gwasanaethau fferyllol mewn rhai amgylchiadau.

1.3 Gwasanaethau fferyllol

Mae'r gwasanaethau y mae'n rhaid i asesiad o anghenion fferyllol eu cynnwys wedi'u diffinio yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

Gall gwasanaethau fferyllol gael eu darparu gan:

- Gontractwr fferyllfa sydd wedi'i gynnwys ar y rhestr fferyllol ar gyfer ardal y bwrdd iechyd,
- Contractwr cyfarpar fferyllol sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr fferyllol a gedwir ar gyfer ardal y bwrdd iechyd, a
- Meddyg neu bractis meddyg teulu sydd wedi'i gynnwys ar restr meddygon fferyllol a gedwir ar gyfer ardal y bwrdd iechyd.

Mae pob bwrdd iechyd yn gyfrifol am baratoi, cynnal a chyhoeddi ei restrau. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg mae 109 o fferyllfeydd, a thri phractis fferyllol (Mawrth 2026).

Gall contractwyr weithredu naill ai fel unig fasnachwr, partneriaeth, neu gorff corfforaethol. Mae Deddf Meddyginiaethau 1968 yn llywodraethu pwy all fod yn gontractwr fferyllfa, ond nid oes unrhyw gyfyngiad ar bwy all weithredu fel contractwr cyfarpar fferyllol.

1.3.1 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan gontractwyr fferyllol

Yn wahanol i feddygon teulu, deintyddion ac optometryddion, nid oes gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gontractau gyda'r contractwyr fferyllol yn ei ardal. Yn hytrach, maent yn darparu gwasanaethau o dan fframwaith cytundebol, y cyfeirir ato weithiau fel fframwaith cytundebol fferylliaeth gymunedol, y nodir manylion amdanynt (y telerau gwasanaeth) yn atodlen 5 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) 2022, a Chyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Cyfarpar) (Cymru) 2010.

Mae contractwyr fferylliaeth yn darparu tri math o wasanaeth sy'n dod o fewn y diffiniad o wasanaethau fferyllol a fframwaith cytundebol y fferyllfa gymunedol. Y rhain yw:-

- Gwasanaethau hanfodol – rhaid i bob fferyllfa ddarparu'r gwasanaethau hyn
    - Dosbarthu presgripsiynau, gan gynnwys cyflenwi cyffur neu gyfarpar ar frys heb bresgripsiwn
    - Dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy
    - Cael gwared ar gyffuriau diangen
    - Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw
    - Cyfeirio, a
    - Chymorth ar gyfer hunanofal

- Gwasanaethau fferyllfeydd cymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar – gall fferyllfeydd ddewis a ydynt yn darparu'r gwasanaethau hyn ai peidio. Os ydynt yn dewis darparu un neu fwy o'r gwasanaethau hyn, rhaid iddynt fodloni gofynion penodol a rhaid iddynt hefyd gydymffurfio'n llawn â'r gofynion gwasanaethau hanfodol a llywodraethu clinigol.
    - Gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar
    - Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol
    - Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau
    - Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol
    - Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd
    - Gwasanaeth brechu rhag y ffliw tymhorol
    - Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

- Gwasanaethau clinigol ychwanegol – mae manylebau gwasanaeth ar gyfer y math hwn o wasanaeth yn cael eu datblygu gan y bwrdd iechyd neu ar sail Cymru Gyfan ac yna'n cael eu comisiynu i ddiwallu anghenion iechyd penodol. Y rhestr o wasanaethau clinigol ychwanegol y gellir eu comisiynu yw:
    - Monitro gwrthgeulo
    - Gwasanaeth cartrefi gofal
    - Gwasanaeth rheoli meddyginiaethau penodol i glefydau
    - Gwasanaeth cyflenwi triniaeth pandemig brys a phroffylacsis
    - Gwasanaeth brechu pandemig brys
    - Gwasanaeth cyflenwi bwyd di-glwten
    - Gwasanaeth dosbarthu cartref
    - Gwasanaeth mynediad iaith
    - Gwasanaeth adolygu meddyginiaeth
    - Gwasanaeth asesu meddyginiaethau a chymorth cydymffurfiaeth
    - Gwasanaeth cyflenwi nodwyddau a chwistrellau
    - Argaeledd gwasanaeth cyffuriau arbenigol ar alw
    - Gwasanaeth y tu allan i oriau
    - Gwasanaeth cyfeirio grwpiau cleifion
    - Gwasanaeth cymorth i bresgripsiynwyr
    - Gwasanaeth i ysgolion
    - Gwasanaeth sgrinio
    - Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu
    - Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth
    - Gwasanaeth presgripsiynu
    - Gwasanaeth casglu gwrthfeirysol
    - Gwasanaeth lleihau gwastraff

Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion hanfodol, cenedlaethol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol a chontractwyr cyfarpar a gwasanaethau clinigol ychwanegol i'w gweld yn atodiadau B, C a D, yn y drefn honno.

Yn sail i ddarparu'r holl wasanaethau hyn mae'r gofyniad ar bob contractwr fferyllfa i gymryd rhan mewn system o lywodraethu clinigol. Mae'r system hon wedi'i nodi yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac mae'n cynnwys:

- Rhaglen ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd
- Cydweithio â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill drwy glystyrau er mwyn nodi a gwella iechyd a lles y boblogaeth a wasanaethir gan y fferyllfa
- Rhaglen rheoli risg
- Rhaglen effeithiolrwydd clinigol
- Rhaglen staffio a rheoli staff
- Rhaglen llywodraethu gwybodaeth, a
- Rhaglen safonau safle

Mae'n ofynnol i fferyllfeydd agor am o leiaf 40 awr yr wythnos, a chyfeirir at y rhain fel oriau agor craidd, ond gallant ddewis agor am gyfnod hirach a chyfeirir at yr oriau ychwanegol hyn fel oriau agor atodol. O dan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 mae'n bosibl i gontractwyr fferyllfa wneud cais llwyddiannus i agor fferyllfa gyda nifer fwy o oriau agor craidd er mwyn diwallu angen a nodwyd mewn asesiad o anghenion fferyllol. Os yw fferyllfa'n dymuno lleihau ei horiau agor craidd i lai na 40 yr wythnos, rhaid iddi wneud cais i'r bwrdd iechyd yn gyntaf, fodd bynnag, nid oes rhaid i'r bwrdd iechyd gytuno i gais o'r fath.

Mae'r oriau agor arfaethedig ar gyfer pob fferyllfa wedi'u nodi yn y cais cychwynnol, ac os caniateir y cais a bod y fferyllfa'n agor wedi hynny, dyma sy'n ffurfio oriau agor cytundebol y fferyllfa. Gall y contractwr wneud cais wedyn i newid ei oriau agor craidd a bydd y bwrdd iechyd yn asesu'r cais yn erbyn anghenion poblogaeth ei ardal fel y nodir yn yr asesiad anghenion fferyllol i benderfynu a ddylid cytuno i'r newid yn yr oriau agor craidd ai peidio. Os yw contractwr fferyllfa yn dymuno newid ei oriau agor atodol, yna maen nhw'n hysbysu'r bwrdd iechyd o'r newid, gan roi o leiaf 12 wythnos o rybudd.

1.3.2 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan gontractwyr cyfarpar fferyllol

Fel gyda chontractwyr fferyllfa, nid oes gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgan gontractau gyda chontractwyr cyfarpar fferyllol. Mae eu telerau gwasanaeth wedi'u nodi yn atodlen 6 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 a Chyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Cyfarpar) (Cymru) 2010.

Mae contractwyr cyfarpar fferyllol yn darparu'r gwasanaethau canlynol ar gyfer cyfarpar (nid cyffuriau), er enghraifft cathetrau a bagiau colostomi, sy'n dod o fewn y diffiniad o wasanaethau fferyllol:

- Dosbarthu presgripsiynau, gan gynnwys cyflenwi brys heb bresgripsiwn
- Dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy
- Gwasanaeth dosbarthu cartref ar gyfer rhai eitemau
- Cyflenwi eitemau atodol priodol (e.e. cadachau tafladwy a bagiau gwastraff)
- Rhoi cyngor clinigol arbenigol am y cyfarpar, a
- Chyfeirio

Gallant hefyd ddewis darparu gwasanaethau fferyllfa gymunedol genedlaethol a chontractwyr cyfarpar. Os ydyn nhw'n dewis eu darparu yna rhaid iddyn nhw fodloni gofynion penodol a rhaid iddynt hefyd gydymffurfio'n llawn â'u telerau gwasanaeth a'r gofynion llywodraethu clinigol. Y ddau wasanaeth fferyllfa gymunedol genedlaethol a chontractwr cyfarpar y gallent eu darparu yw:

- gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar
- gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Fel gyda fferyllfeydd, mae'n ofynnol i gontractwyr cyfarpar fferyllol gymryd rhan mewn system o lywodraethu clinigol. Mae'r system hon wedi'i nodi yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac mae'n cynnwys:

- Rhaglen ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd
- Rhaglen archwilio clinigol
- Rhaglen rheoli risg
- Rhaglen effeithiolrwydd clinigol
- Rhaglen staffio a staff
- Rhaglen llywodraethu gwybodaeth, a
- Rhaglen safonau safle

Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer y gwasanaethau hyn ar gael yn atodiad E.

Mae'n ofynnol i gontractwyr cyfarpar fferyllol agor am o leiaf 30 awr yr wythnos, a chyfeirir at y rhain fel oriau agor craidd. Gallant ddewis agor am gyfnod hirach a chyfeirir at yr oriau ychwanegol hyn fel oriau agor atodol. O dan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 mae'n bosibl i gontractwyr cyfarpar fferyllol wneud cais llwyddiannus i agor safleoedd gyda nifer fwy o oriau agor craidd er mwyn diwallu angen a nodwyd mewn asesiad o anghenion fferyllol.

Mae'r oriau agor arfaethedig ar gyfer pob contractwr cyfarpar fferyllol wedi'u nodi yn y cais cychwynnol, ac os caniateir y cais a bod y contractwr cyfarpar fferyllol yn agor wedi hynny yna mae'r rhain yn ffurfio oriau agor cytundebol y contractwr cyfarpar fferyllol. Gall y contractwr wneud cais wedyn i newid eu horiau agor craidd. Bydd y bwrdd iechyd yn asesu'r cais yn erbyn anghenion poblogaeth ei ardal fel y nodir yn yr asesiad anghenion fferyllol i benderfynu a ddylid cytuno i'r newid yn yr oriau agor craidd ai peidio.

1.3.3 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan feddygon

Mae Rheoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn caniatáu i feddygon ddosbarthu i gleifion cymwys mewn rhai amgylchiadau. Mae'r rheoliadau'n gymhleth ar y mater hwn ond yn gryno:

- Rhaid i gleifion fyw mewn ‘ardal reoledig’ (ardal y mae’r bwrdd iechyd neu sefydliad blaenorol wedi’i phennu fel un wledig ei natur, neu ar apêl gan

Weinidogion Cymru), mwy nag 1.6km (wedi'i fesur mewn llinell syth) o fferyllfa, a
- Rhaid i'w practis gael cymeradwyaeth safle a chaniatâd amlinellol i ddosbarthu i'r ardal honno

Mae rhai eithriadau i hyn, er enghraifft cleifion sydd wedi bodloni'r bwrdd iechyd y byddent yn cael anhawster difrifol i gael mynediad at fferyllfa oherwydd pellter neu annigonolrwydd dulliau cyfathrebu.

1.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae gwasanaethau eraill sy'n cael eu comisiynu neu eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol hefyd wedi'u cynnwys yn yr asesiad o anghenion fferyllol.

1.5 Sut y cynhaliwyd yr asesiad

1.5.1 Grŵp llywio i asesu anghenion fferyllol

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gyfrifoldeb cyffredinol am gyhoeddi'r asesiad o anghenion fferyllol, ac mae'r cyfarwyddwr gofal sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl yn atebol am ei ddatblygiad. Sefydlodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgan grŵp llywio i asesu anghenion fferyllol a'i ddiben oedd sicrhau bod asesiad trylwyr o anghenion fferyllol yn cael ei ddatblygu sy'n cydymffurfio â Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac yn diwallu anghenion y boblogaeth leol. Sicrhaodd aelodaeth y grŵp llywio fod yr holl brif randdeiliaid wedi'u cynrychioli a gellir eu gweld yn atodiad F.


1.5.2 Asesiad o ardaloedd lle mae anghenion fferyllol

Ar draws Cymru mae 60 o glystyrau, sydd â'r dasg o wella mynediad at ofal sylfaenol ac ansawdd gofal sylfaenol er mwyn gwella iechyd a lles lleol a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae'r clystyrau'n dwyn ynghyd wasanaethau lleol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal ar draws ardal ddaearyddol, gan wasanaethu poblogaeth rhwng 25,000 a 100,000 fel arfer. Mae gweithio fel clwstwr yn sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynu'n well i hyrwyddo lles unigolion a chymunedau. Felly mae'r bwrdd iechyd wedi penderfynu eu bod yn ôl troed naturiol ar gyfer yr ardaloedd o fewn yr asesiad am anghenion fferyllol hwn.

Mae wyth clwstwr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fel y gwelir ar y map isod.

Map 1.1: Y clystyrau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg



Cyfeiriwyd at yr ardaloedd at ddiben yr asesiad o anghenion fferyllol hwn fel clystyrau i ddefnyddio terminoleg gyfarwydd o ystyried y tebygrwydd daearyddol â chlystyrau gofal sylfaenol er nad yw'r ffiniau o reidrwydd yn cyd-fynd â chlystyrau gofal sylfaenol.


1.5.3 Ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd

Er mwyn cael barn cleifion a'r cyhoedd ar wasanaethau fferyllol, datblygwyd holiadur a'i roi ar gael ar-lein o 17 Mawrth i 7 Ebrill 2026. Hyrwyddwyd yr holiadur ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Roedd yr holiadur ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg ac mae copi, sy'n dangos y cwestiynau a ofynnwyd, i'w weld yn atodiad G. Mae'r canlyniadau llawn i'w gweld yn atodiad H.

Derbyniwyd ymatebion i'r holiadur gan bobl sy'n byw ar draws ardal y bwrdd iechyd fel y gwelir o'r map isod.


Map 1.2: Lleoliad yr ymatebwyr



Data map: © Open Door Logistics wedi'i greu gan Datawrapper

Cwblhaodd cyfanswm o 286 o bobl yr holiadur, fodd bynnag, nid oedd pawb wedi ateb pob cwestiwn. Roedd 86.2% o'r ymatebwyr yn fenywod a 13.1% yn ddynion. Roedd yn well gan 0.7% o'r ymatebwyr beidio â dweud. Roedd yr holl ymatebwyr a ddarparodd wybodaeth am eu hoedran dros 16 oed. Roedd 25.8% o'r ymatebwyr rhwng 55 a 64 oed, 21.2% rhwng 65 a 74 oed, 20.8% rhwng 45 a 54 oed, 14.1% rhwng 35 a 44 oed, a 9.5% rhwng 25 a 34 oed.

Ffigur 1.1: Ystod oedran yr ymatebwyr



- Dywedodd 98.6% mai Saesneg oedd eu dewis iaith wrth gael mynediad at wasanaethau mewn fferyllfa neu bractis meddyg teulu. Dywedodd 1.4% mai Cymraeg oedd eu dewis iaith.

Yna gofynnodd yr holiadur a oedd pobl yn casglu eu meddyginiaethau o fferyllfa neu o'u meddygfa. Dywedodd 98.2% eu bod yn casglu o fferyllfa a 1.8% o feddygfa.

O ran y sawl y mae'r practis meddyg teulu'n dosbarthu iddynt:


- Nid oedd gan 83.3% amser penodol wrth ymweld â'r fferyllfa yn eu practis meddyg teulu, a dywedodd 16.7% eu bod yn ymweld rhwng 08.00 a 12.00 hanner dydd.
- Nid oedd gan 83.3% ddiwrnod penodol wrth ymweld â'r fferyllfa chwaith a dywedodd 16.7% yn ystod yr wythnos fel arfer.
- Dywedodd 40.0% bod adegau yn ddiweddar pan nad oeddent yn gallu defnyddio'r fferyllfa yn y feddygfa. Aethon nhw i fferyllfa yn lle hynny. Dywedodd un person eu bod wedi mynd i fferyllfa oherwydd bod y practis wedi dweud wrthynt am wneud hynny. Nid yw'n glir o'r ymateb a oedd hyn i gael mynediad at feddyginiaeth neu wasanaeth arall.
- Mae 40.0% o bobl yn cerdded i'r fferyllfa, mae 40.0% yn gyrru ac mae 20% yn cael eu meddyginiaethau wedi'u cludo atynt.
- I 60.0% o'r ymatebwyr mae'n cymryd rhwng pump a 15 munud iddynt deithio i'r fferyllfa, i 20.0% mae'n cymryd llai na phum munud, ac i un person mae'n cymryd 20 munud neu fwy (er mai dyma'r person sy'n cael ei feddyginiaethau wedi'u cludo atyn nhw).
- Dywedodd un person eu bod yn cael trafferth teithio i'r fferyllfa ac mae hyn oherwydd eu bod yn anabl ac yn byw gyda phoen cronig a phroblemau eraill.

Fodd bynnag, mae meddyginiaethau'r person hwn yn cael eu cludo atynt o'u sylw, ac mai eu hanhawster yw teithio i'r feddygfa i weld meddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall yn hytrach nag i gasglu eu meddyginiaethau.

- Mae 60.0% o'r ymatebwyr hefyd yn defnyddio fferyllfa.


Pan ofynnwyd iddynt pam eu bod fel arfer yn ymweld â fferyllfa, atebodd 283 o bobl y cwestiwn. Gellid rhoi sawl ateb i'r cwestiwn hwn, ac mae nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn dangos bod rhai pobl wedi dewis mwy nag un rheswm. Mae'r mwyafrif o'r ymatebion a dderbyniwyd yn dangos bod pobl yn ymweld â fferyllfa i gael neu gasglu presgripsiwn iddyn nhw eu hunain (89.8%) neu i gael neu i gasglu presgripsiwn i rywun arall (52.5%). O'r naw o bobl a ymatebodd “arall”, dywedodd tri o bobl ei fod i gael mynediad at wasanaeth arall.

Ffigur 1.2: Rhesymau dros ymweld â fferyllfa




Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (64.3%) yn ymweld â fferyllfa bob mis/bob pedair wythnos, sy’n adlewyrchu hyd eu presgripsiwn. Dywedodd 18.7% fod yr ymweliad yn digwydd “yn ôl yr angen”, dywedodd 7.4% bob wythnos a dywedodd 5.3% bob pythefnos. O'r pedwar person a atebodd “arall”, mae tri yn ymweld bob dau fis.

Ffigur 1.3: Amlder defnyddio fferyllfa




Pan ofynnwyd iddynt pa amser sydd fwyaf cyfleus i ddefnyddio fferyllfa, dywedodd 33.6% nad oes gwahaniaeth gyda nhw. Dywedodd 26.1% rhwng 09.00 a 12.00, dywedodd 18.6% rhwng 14.00 a 18.00 a 9.9% rhwng 18.00 a 21.00.

Ffigur 1.4: Yr amser mwyaf cyfleus i ddefnyddio fferyllfa



Nid oedd gwahaniaeth gan y mwyafrif o'r ymatebwyr (54.4%) am y diwrnod mwyaf cyfleus i ddefnyddio fferyllfa. O'r ymatebion sy'n weddill, roedd 20.8% o'r farn mai yn ystod yr wythnos yn gyffredinol oedd yr amser mwyaf cyfleus i gael mynediad at fferyllfa a dywedodd 9.2% mai penwythnosau yn gyffredinol oedd yr amser mwyaf cyfleus. Roedd ymatebwyr eraill yn ffafrio diwrnod penodol o'r wythnos.


Ffigur 1.5: Y diwrnod mwyaf cyfleus i ddefnyddio fferyllfa



Pan ofynnwyd iddynt a oedd amser yn ddiweddar pan nad oeddent yn gallu defnyddio eu fferyllfa arferol, ymatebodd 26.7% 'oedd', ymatebodd 65.5% 'nac oedd' a dywedodd 7.8% nad oedd y cwestiwn yn 'berthnasol'.

Pan ofynnwyd iddynt beth wnaethant, dywedodd 61.8% eu bod wedi mynd i fferyllfa arall, 28.9% wedi aros nes bod y fferyllfa ar agor, 3.9% wedi cysylltu â GIG 111 Cymru, aeth 3.9% at eu meddyg teulu, 2.6% i'r adran damweiniau ac achosion brys, ac 1.3% i'r uned mân anafiadau. Gellid rhoi atebion lluosog i'r cwestiwn hwn. O'r tri pherson a ddywedodd "arall", aeth un heb driniaeth, dychwelodd un yn ddiweddarach, a chysylltodd un â'r adran ysbyty sy'n gofalu amdanynt.


Ffigur 1.6: Beth wnaeth ymatebwyr pan nad oeddent yn gallu defnyddio eu fferyllfa arferol



Mae'n well gan y rhan fwyaf o ymatebwyr ddefnyddio'r un fferyllfa (76.7%) gyda 21.9% yn defnyddio fferyllfeydd gwahanol ond mae'n well ganddynt ymweld ag un yn fwy aml. Dywedodd 1.1% eu bod bob amser yn defnyddio fferyllfeydd gwahanol a dywedodd 0.4% mai prin eu bod yn defnyddio fferyllfa.


Mae yna lawer o resymau sy'n dylanwadu ar ddewis fferyllfa. Rhoddwyd atebion lluosog gan yr ymatebwyr ynghylch beth sy'n dylanwadu ar eu dewis o fferyllfa. Y rhesymau mwyaf poblogaidd oedd ei fod yn agos at adref (67.1%), yn hoffi ac yn ymddiried yn y staff (41.0%), yn agos at fy meddyg (38.9%), lleoliad y fferyllfa yn hawdd i'w gyrraedd (36.4%).

Ffigur 1.7: Y rhesymau mwyaf poblogaidd sy'n dylanwadu ar ddewis fferyllfa



Mae mwyafrif yr ymatebwyr (63.1%), yn defnyddio'r fferyllfa sydd agosaf neu'n fwyaf cyfleus iddynt ei defnyddio. Nid oedd 3.5% yn gwybod a oedd fferyllfa yn agosach neu yn fwy cyfleus. Fodd bynnag, i 33.3% o'r ymatebwyr roedd fferyllfa yn fwy cyfleus neu yn agosach nad oeddent yn dewis ei defnyddio. Pan ofynnwyd pam nad oeddent yn defnyddio'r fferyllfa honno, nid oedd pawb wedi ymateb. I'r rhai a ymatebodd, y pedwar prif reswm a roddwyd oedd bod y gwasanaeth yn rhy araf (32.2%), wedi cael profiad gwael blaenorol (25.6%), nid oedd yr eitemau mewn stoc (25.6%) ac anhawster parcio ger y fferyllfa (23.3%).

Ffigur 1.8: Rhesymau dros beidio â defnyddio fferyllfa sy'n agosach neu'n fwy cyfleus




I'r rhai a ddewisodd "arall", y prif reswm oedd gwasanaeth cwsmeriaid - roedd ymatebwyr naill ai'n hapus iawn gyda'r fferyllfa maen nhw'n ei defnyddio ac yn gweld dim rheswm dros newid, neu bod y gwasanaeth cwsmeriaid yn y fferyllfa agosach ddim yn dda. Y ddau brif reswm arall oedd nad yw'r fferyllfa agosach yn cynnig yr holl wasanaethau y mae ymatebwyr yn dymuno eu defnyddio, neu nad yw oriau agor y fferyllfa agosach yn gyfleus.

Pan ofynnwyd iddynt sut maen nhw'n teithio i'r fferyllfa, dywedodd 66.8% o'r ymatebwyr eu bod nhw'n mynd mewn car, dywedodd 27.9% eu bod nhw'n cerdded, a dywedodd 3.2% eu bod nhw'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Dywedodd tri pherson eu bod yn defnyddio gwahanol ddulliau o gludiant.

Gallai bron pob ymatebydd (96.4%) gyrraedd fferyllfa mewn llai nag 20 munud. Roedd y daith i gyrraedd fferyllfa yn cymryd mwy nag 20 munud i 3.6% o'r ymatebwyr (deg o bobl). Allan o'r deg, roedd chwech yn teithio mewn car, tri yn cerdded ac un yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, fodd bynnag, dim ond dau a ddywedodd eu bod yn cael trafferth cael mynediad at fferyllfa.

Ffigur 1.9: Amser a gymerwyd i deithio i fferyllfa




Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (88.3%) nad oeddent yn cael trafferth cyrraedd fferyllfa. Dim ond 8.8% (25 o bobl) a ymatebodd eu bod yn cael trafferth a dywedodd 25% nad oedd y cwestiwn yn berthnasol. I'r rhai sy'n cael trafferthion, y prif resymau oedd:

- Problemau iechyd neu symudedd (saith o bobl)
- Nid yw'r fferyllfa ar agor pan fydd angen i'r ymatebwyr ei defnyddio (chwech o bobl)
- Anawsterau parcio (pedwar o bobl)
- Anhawster defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (tri o bobl)

Pan ofynnwyd iddynt am y dulliau neu'r adnoddau a ddefnyddir i ddod o hyd i wybodaeth am fferyllfa, fel amseroedd agor neu'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig, ymatebodd 283 gyda rhai yn rhoi sawl ateb.

Yn gyffredinol, y rhyngrwyd (72.1%) oedd y ffordd fwyaf poblogaidd a ddefnyddiwyd gan bobl i ddod o hyd i wybodaeth. Dywedodd 33.2% y byddent yn ffonio'r fferyllfa, a dywedodd 26.5% y byddent yn galw heibio a gofyn. Roedd 16.3% yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac un person yn defnyddio papurau newydd a chylchgronau lleol.


Ffigur 1.10: Y ffyrdd mwyaf cyffredin o ddod o hyd i wybodaeth am fferyllfeydd



Nid oedd 10.2% yn teimlo eu bod yn gallu trafod rhywbeth preifat gyda'u fferyllydd o'i gymharu â 68.6% a oedd yn gallu gwneud. Doedd 17.0% erioed wedi gorfod gwneud hynny a dywedodd 4.2% nad oeddent yn gwybod.


Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn ymwybodol y gallent gael mynediad at rai gwasanaethau gan fferyllfeydd fel rhan o'r GIG, dywedodd 280 eu bod gan restru sawl gwasanaeth. Brechiadau rhag y ffliw (88.9%) ac yna'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin (85.4%) yw'r gwasanaethau yr oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymwybodol ohonynt. Yn gyffredinol, roedd ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar (11.4%); fodd bynnag, dim ond y rhai sydd angen cyfarpar fel stoma a cholostomïau fyddai'n defnyddio'r gwasanaeth arbenigol hwn yn hytrach na'r grŵp cleifion ehangach. Nid oedd 4.6% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o unrhyw un o'r gwasanaethau a gynigir gan fferyllfeydd fel rhan o'r GIG.

Ffigur 1.11: Ymwybyddiaeth o argaeledd gwasanaethau fferyllfa fel rhan o'r GIG



Y gwasanaeth mwyaf poblogaidd y dywedodd ymatebwyr eu bod wedi'i ddefnyddio oedd y gwasanaeth anhwylderau cyffredin (58.8%) ac yna brechiadau rhag y ffliw (43.4%). Fodd bynnag, dywedodd 21.7% nad oeddent erioed wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau hyn.

Ffigur 1.12: Canran yr ymatebwyr sydd wedi defnyddio gwasanaethau fferyllfa'r GIG



Pan ofynnwyd a oedd unrhyw beth arall yr hoffai ymatebwyr ei rannu am eu profiad o'u fferyllfa leol neu bractis dosbarthu meddyg teulu, derbyniwyd cyfanswm o 153 o sylwadau er bod 12 o bobl wedi dweud “Na” neu “D.B.” wedyn. Daeth sawl thema i'r amlwg o'r sylwadau sy'n weddill, gyda rhai sylwadau’n cynnwys mwy nag un thema.

- Gwasanaeth cwsmeriaid - ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan staff cyfeillgar a hygyrch - 55 o bobl.
- Gwasanaeth cwsmeriaid gwael – agwedd staff, problemau gyda phresgripsiynau’n cael eu canfod, cyfathrebu gwael, oedi wrth i bresgripsiynau fod yn barod i'w casglu – 52 o bobl.
- Stoc annigonol – gwnaeth 15 o bobl sylwadau ar y diffyg stoc a gorfod gwneud sawl taith i'r fferyllfa.
- Oriau agor – gwnaeth 12 o bobl sylwadau ar y diffyg oriau agor amser cinio, gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- Amseroedd aros – gwnaeth wyth o bobl sylwadau ar faint o amser mae'n ei gymryd i bresgripsiynau gael eu dosbarthu, neu orfod aros yn y fferyllfa.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd unrhyw wasanaethau yr hoffent eu gweld yn cael eu darparu mewn fferyllfeydd, dywedodd 65 o bobl "Oedd" er nad oedd dau wedi ymhelaethu ar hynny. Mae'r gwasanaethau a grybwyllir amlaf yn cynnwys:

- Ystod estynedig o anhwylderau’n cael eu cwmpasu gan y gwasanaeth anhwylderau cyffredin
- Ehangu'r gwasanaeth presgripsiynwyr annibynnol i fferyllwyr – nifer y fferyllfeydd sy'n ei ddarparu a'r cyflyrau a gwmpesir ganddo.
- Darparu gwasanaethau gyda'r nos ac ar benwythnosau

1.5.4 Ymgysylltu â chontractwyr

Roedd holiadur ar-lein ar gael i fferyllfeydd a phenderfynwyd gofyn i gontractwyr am wybodaeth nad oedd modd ei chael yn unman arall yn unig.

Gellir dod o hyd i gopi o'r holiadur yn atodiad I.

Roedd yr holiadur ar agor rhwng 9 Mawrth a 7 Ebrill 2026 ac mae'r canlyniadau wedi'u crynhoi isod. Ymatebodd 78 o fferyllfeydd, cyfradd ymateb o 71.5%.

Dywedodd 76 o fferyllfeydd fod eu safle’n hygyrch mewn cadair olwyn ac mae gan 73 ardal ymgynghori sy'n hygyrch mewn cadair olwyn

Wrth ystyried a yw'r ardal ymgynghori yn bodloni'r gofynion sy’n ofynnol:

- Cadarnhaodd 77 fod eu hardal ymgynghori yn ystafell gaeedig.
- Cadarnhaodd pawb fod yr ystafell ymgynghori yn ardal ddynodedig lle gall y fferyllydd a'r claf eistedd i lawr gyda'i gilydd.
- Cadarnhaodd 76 fod y claf a'r fferyllydd yn gallu siarad ar lefelau arferol heb i staff y fferyllfa nac ymwelwyr â'r fferyllfa eu clywed.

- Cadarnhaodd 78 fod yr ardal ymgynghori wedi'i dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghori cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd y ddwy fferyllfa nad yw eu hardaloedd ymgynghori yn bodloni'r holl ofynion gofynnol bod ganddynt drefniadau eraill ar gyfer trafodaethau cyfrinachol.

Cadarnhaodd 30 o fferyllfeydd fod ganddynt siaradwyr Cymraeg a chadarnhaodd 17 fod ieithoedd eraill yn cael eu siarad (heblaw am Saesneg). Dyma nhw:-

- Sbaeneg (tair fferyllfa)
- Cantoneg (tri)
- Bengali (dau)
- Mandarin (dau)
- Urdu (dau)
- Japaneeg (dau)
- Maleieg (dau)
- Tagalog, Shona, Ffrangeg, Bahasa Melayu, Gujarati, Almaeneg, Hindi, Punjabi, a Phwyleg (un fferyllfa yr un)

Yn ogystal, nododd un fferyllfa fod yna un sy'n siarad ychydig o Ffrangeg, Eidaleg a Sbaeneg.

Dylid nodi bod rhai fferyllfeydd wedi rhestru mwy nag un iaith.

Cadarnhaodd 73 o fferyllfeydd fod presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar yn cael eu dosbarthu o'r safle. Dim ond rhwymau y mae pedair fferyllfa yn eu dosbarthu (nododd dwy nad ydynt fel arfer yn derbyn presgripsiynau ar gyfer cyfarpar gan fod practisau meddyg teulu yn eu hanfon yn uniongyrchol at gyflenwr arall) ac mae un fferyllfa yn dosbarthu pob math heblaw cyfarpar stoma ac anymataliaeth.

Pan ofynnwyd iddynt a ydyn nhw'n casglu presgripsiynau o bractisau meddyg teulu, ymatebodd 77 o fferyllfeydd eu bod nhw'n gwneud hynny. Dywedodd 71 o fferyllfeydd eu bod yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gyfer meddyginiaethau a ddosbarthir ar gais, ac mae pump yn darparu am ffi. Mae pump yn darparu i grwpiau cleifion penodol yn unig, yn bennaf y rhai sy'n gaeth i'r tŷ, ac mae dau yn cyfyngu'r gwasanaeth i ardaloedd penodol. Ni nododd unrhyw fferyllfa fod ganddi bwynt casglu awtomataidd.

Dylid nodi nad yw gwasanaethau casglu a dosbarthu yn wasanaethau cytundebol ac felly cânt eu darparu'n breifat gan fferyllfeydd yn ôl eu disgresiwn.

Pan ofynnwyd a oes galw am wasanaeth clinigol ychwanegol presennol nad yw'n cael ei ddarparu yn yr ardal ar hyn o bryd, atebodd pedair fferyllfa'n gadarnhaol.

- Monitro pwysedd gwaed (dwy fferyllfa)
- Cyfnewid chwistrellau a nodwyddau
- Gwasanaeth gwirio firysau a gludir yn y gwaed

- Gwasanaeth atal cenhedlu i gael ei ymestyn i gynnwys pigiadau Depo-provera
- Ehangu'r gwasanaeth heintiau'r llwybr wrinol i gynnwys y gallu i anfon samplau er mwyn dewis gwrthfiotigau priodol
- Casglu nodwyddau diabetig.

Pan ofynnwyd a oes galw am wasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd, dywedodd 21 o fferyllfeydd fod yna alw.

- Monitro/sgrinio pwysedd gwaed (chwe fferyllfa)
- Tynnu cwyr clust (pum fferyllfa)
- Gwasanaeth oedi'r mislif (dwy fferyllfa)
- Rheoli pwysau (dwy fferyllfa)
- Trin heintiau clust/ychwanegu otitis media acíwt at y gwasanaeth anhwylderau cyffredin (dwy fferyllfa)
- Clinig teithio
- Brechu rhag meningitis
- Unrhyw fath o wasanaeth lle mae canlyniad pendant o brawf swab neu brawf dipio sy'n rhoi canlyniadau cywir ac effeithlon i gleifion ac sydd angen cael eu trin yn gyflym
- Cyfarwyddiadau grŵp cleifion ar gyfer heintiau'r frest a fyddai y tu hwnt i'r gwasanaeth profi a thrin dolur gwddf gyda chanllawiau llym ar pryd i atgyfeirio a phryd i drin
- Cyfarwyddiadau grŵp cleifion ar gyfer yr eryr
- System dosau wedi'u monitro

Mae'r galw am wasanaethau fferyllol yn gyffredinol yn cynyddu felly gofynnodd yr holiadur i fferyllfeydd am eu gallu i ddiwallu angen cynyddol. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn.

- Dywedodd 70 o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd i reoli'r cynnydd yn y galw, dywedodd pump nad oeddent ond y gallent wneud addasiadau, a dywedodd dau nad oedd ganddynt gapasiti ac y byddent yn cael trafferth rheoli'r cynnydd yn y galw. Roedd un fferyllfa heb ateb y cwestiwn.
- Dywedodd 66 o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o gapasiti o ran staff i reoli'r cynnydd yn y galw, dywedodd pump nad oeddent ond y gallent wneud addasiadau, a dywedodd dau nad oedd ganddynt gapasiti ac y byddent yn cael trafferth rheoli'r cynnydd yn y galw. Roedd dwy fferyllfa heb ateb y cwestiwn.

Pan ofynnwyd i'r fferyllfeydd a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu safleoedd neu'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu, ymatebodd 39 fferyllfa yn gadarnhaol gyda 38 fferyllfa yn rhoi mwy o fanylion. Mae themâu'r ymatebion fel a ganlyn.

- Fferyllwyr yn hyfforddi i fod yn bresgripsiynwyr annibynnol neu'n recriwtio fferyllydd i hyfforddi fel presgripsiynwr annibynnol (un ar ddeg o fferyllfeydd).

- Dechrau darparu, neu ddatblygu darpariaeth y gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr (deg fferyllfa).
- Cynyddu ymwybyddiaeth cleifion o'r gwasanaethau a gynigir (deg fferyllfa).
- Defnyddio technoleg cofnodi meddyginiaeth cleifion uwch i ryddhau amser fferyllwyr (dwy fferyllfa).
- Datblygu perthynas â'r practis meddyg teulu agosaf ar gyfer gwell cydweithio a mwy o atgyfeiriadau gwasanaeth anhwylderau cyffredin (dwy fferyllfa).
- Ychwanegu mwy o ystafelloedd ymgynghori, neu ymestyn y rhai presennol (naw fferyllfa).
- Cynyddu'r gwasanaethau preifat a ddarperir (chwe fferyllfa).
- Hyfforddiant staff i ddod yn dechnegydd gwirio cywirdeb.
- Lleihau oriau agor.
- Ystyried cyflwyno awtomeiddio i'r broses ddosbarthu.

Cynhaliwyd holiadur ar-lein ar gyfer arferion dosbarthu hefyd. Fel gyda fferyllfeydd, mabwysiadwyd y dull o ofyn i gontractwyr am wybodaeth na ellid ei chael yn unman arall yn unig.

Gellir dod o hyd i gopi o'r holiadur yn atodiad J.

Roedd yr holiadur ar agor rhwng 9 Mawrth a 7 Ebrill 2026. O'r tri fferyllfa mewn meddygfa, un wnaeth ymateb.

- Mae'r fferyllfa ar agor rhwng 09.00 a 13.00 a 14.00 i 17.00 ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau, ac rhwng 09.00 a 13.00 ar ddydd Mercher a dydd Gwener.
- Yr unig gyfarpar sy'n cael eu dosbarthu yw rhwymau.
- Darperir gwasanaeth dosbarthu, am ddim.
- Mae siaradwyr Cymraeg yn y fferyllfa.
- Mae gan y practis ddigon o gapasiti ar ei safle i reoli’r cynnydd yn y galw am y gwasanaeth dosbarthu a gallai wneud addasiadau i'w lefelau staffio i reoli’r cynnydd yn y galw.

1.5.5 Ymgynghoriad

Bydd adroddiad o'r ymgynghoriad gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r asesiad o anghenion fferyllol i’w weld yn atodiad K.

2 Trosolwg o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

2.1 Cyflwyniad

Mae'r bwrdd iechyd wedi'i leoli'n ddelfrydol rhwng prifddinas Cymru, Caerdydd, i'r de, tref arfordirol Porthcawl i'r gorllewin, a golygfeydd godidog Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r gogledd. Mae llawer o Gymoedd De Cymru yn rhedeg o'r gogledd i'r de trwy ardal y bwrdd iechyd, gyda'u bryniau a'u mynyddoedd yn rhannu llawer o'r pentrefi a'r trefi yn hollol naturiol, rhai ohonynt wedi'u sefydlu fel rhan o ddiwydiant mwyngloddio haearn a glo hanesyddol yr ardal. Mae coridor yr M4 yn croesi Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf, gan gynnig mynediad ar ffordd i Lundain trwy Gaerdydd, Casnewydd a Bryste.

Y bwrdd iechyd yw'r pedwerydd bwrdd iechyd mwyaf yng Nghymru. Fe'i ffurfiwyd ym mis Ebrill 2019, ar ôl trosglwyddo awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr o gyn Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG i breswylwyr. Blaenoriaeth y bwrdd iechyd yw darparu gofal effeithiol, personol a chynaliadwy i'r bobl sy'n byw yn ei gymunedau.


2.2 Poblogaeth[1]

Merthyr Tudful yw'r awdurdod lleol lleiaf yn y bwrdd iechyd ac yng Nghymru o ran poblogaeth, gyda thua 58,972 o drigolion yn 2024. Rhondda Cynon Taf yw'r awdurdod lleol mwyaf yn ardal y bwrdd iechyd gyda phoblogaeth o 242,844, ac yna Pen-y-bont ar Ogwr gyda phoblogaeth o 147,530.


[1] Amcangyfrifon canol blwyddyn Nomis 2024 – Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr

Ffigur 2.1: Pyramidau poblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, 2024


Canran y boblogaeth yn ôl oedran a rhyw, awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, 2024



Canran y boblogaeth yn ôl oedran a rhyw, awdurdod lleol Merthyr Tudful, 2024



Canran y boblogaeth yn ôl oedran a rhyw, awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, 2024




Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yr oedran canolrifol[2] (yr oedran y mae hanner y boblogaeth yn hŷn nag ef a hanner y boblogaeth yn iau) yw 43.6 mlwydd oed, uwchlaw cyfartaledd Cymru sef 43.0 mlwydd oed. Yr oedran canolrifol ar gyfer Rhondda Cynon Taf yw 41.5 oed ac mae'n 41.3 oed ar gyfer Merthyr Tudful, sydd 1.5 mlynedd ac 1.7 mlynedd yn is na chyfartaledd Cymru, yn y drefn honno.

Mae mwyafrif y boblogaeth sy'n byw ym mhob un o'r tair bwrdeistref (tua 62%) rhwng 16 a 64 oed (oedran gweithio). Ar gyfer y grŵp oedran dan 15 oed, Merthyr Tudful sydd â'r gyfran uchaf sef 18.8% o'i gymharu ag 17.7% yn Rhondda Cynon Taf a 17.2% ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Wrth edrych ar y grŵp oedran dros 65 oed, Pen-y-bont ar Ogwr sydd â'r gyfran uchaf o'r boblogaeth yn y grŵp hwn sef 21.5%, tra bod poblogaeth dros 65 oed Rhondda Cynon Taf yn 20% ac ar gyfer Merthyr Tudful mae'n 19.6%.

[2] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Population estimates for England and Wales - Office for National Statistics

Ffigur 2.2: Canrannau poblogaeth, pob person yn ôl grŵp oedran ac yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2024



Rhwng 2023 a 2024 cynyddodd poblogaeth y bwrdd iechyd 1,514 (0.34%) o 447,832 yn 2023 i 449,346 yn 2024. Ar lefel awdurdod lleol, roedd yr holl gynnydd yn llai nag 1%. Pen-y-bont ar Ogwr oedd â'r cynnydd poblogaeth mwyaf o 630 (0.43%), ac yna Rhondda Cynon Taf gyda chynnydd poblogaeth o 753 (0.31%). Merthyr Tudful oedd â'r cynnydd lleiaf yn y boblogaeth, sef 131.

I awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, y prif reswm dros y cynnydd yn y boblogaeth oedd mudo mewnol; gyda mwy o bobl yn symud i ardal yr awdurdod lleol o ranbarthau eraill yng Nghymru neu o wledydd o fewn y Deyrnas Unedig, nag yn symud allan. I Ferthyr Tudful, mudo mewnol a mudo rhyngwladol oedd y ffactorau a gyfrannodd at y cynnydd yn y boblogaeth, ac yn Rhondda Cynon Taf, y prif reswm dros y cynnydd yn y boblogaeth oedd mudo rhyngwladol (mwy o fewnfudwyr rhyngwladol nag allfudwyr). O ran newid naturiol (genedigaethau a marwolaethau) gwelwyd fod gan bob awdurdod lleol fwy o farwolaethau na genedigaethau, sef yr un sefyllfa ag sydd yng Nghymru gyfan. Roedd newidiadau eraill, sy'n cynnwys newidiadau i bersonél y lluoedd arfog a charcharorion, yn llai na 0.1% ar gyfer pob un o ardaloedd yr awdurdodau lleol.

Tabl 2.1: Cydrannau'r newid yn y boblogaeth yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2023 i 2024

Ardal	Poblogaeth 2023	Newid naturiol	Mudo mewnol	Mudo rhyngwladol	Newidiad au eraill	Poblogaeth 2024
Pen-y-bont ar Ogwr	146,900	-391	695	252	74	147,530
Merthyr Tudful	58,841	-127	111	156	-9	58,972
Rhondda Cynon Taf	242,091	-653	-466	1,863	9	242,844
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	447,832	-1,171	340	2,271	74	449,346

2.2.1 Amcanestyniad o'r boblogaeth 2022 i 2032[3]

Rhwng 2022 a 2032, amcanestynnir y bydd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu hyd at 5.5%, y degfed cynnydd canrannol mwyaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Disgwylir y bydd ganddo boblogaeth o tua 154,191 erbyn 2032, gan ei wneud yr wythfed awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn cael ei yrru'n bennaf gan fudo net, h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Disgwylir i nifer y genedigaethau leihau a nifer y marwolaethau gynyddu, gan arwain at newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau). Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar draws pob grŵp oedran eang, ac eithrio y bydd gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc rhwng 0 a 15 oed. Bydd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth yn y grŵp oedran dros 65 oed, ac yna'r grŵp oedran 75 oed neu'n hŷn. Amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.

Dros yr un cyfnod, amcanestynnir y bydd poblogaeth Merthyr Tudful yn cynyddu hyd at 1.0%, sef y cynnydd canrannol lleiaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Disgwylir y bydd ganddo boblogaeth o tua 59,445 erbyn 2032, gan ei wneud yr wythfed awdurdod lleol lleiaf yng Nghymru. Bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn cael ei yrru'n bennaf gan fudo net, h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Disgwylir i nifer y genedigaethau leihau a nifer y marwolaethau gynyddu, gan arwain at newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau). Disgwylir y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth yn y grŵp oedran dros 75 ac yna'r grŵp oedran dros 65 oed. Disgwylir i'r boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 a 64 oed ostwng ychydig a rhagwelir cynnydd bach yn y grŵp 0 i 15 oed dros y cyfnod hwn. Amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.

Rhwng 2022 a 2032, amcanestynnir y bydd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu hyd at 4.9%, y degfed cynnydd canrannol mwyaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Disgwylir y bydd ganddo boblogaeth o tua 251,235 erbyn 2032, gan ei wneud y trydydd awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Bydd y cynnydd yn y

[3] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Amcanestyniadau o'r boblogaeth genedlaethol (yn seiliedig ar 2022)

boblogaeth yn cael ei yrru'n bennaf gan fudo net, h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Disgwylir i nifer y genedigaethau leihau a nifer y marwolaethau gynyddu, gan arwain at newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau). Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar draws pob grŵp oedran eang, ac eithrio plant a phobl ifanc 0 i 15 oed lle disgwylir iddi leihau. Bydd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth ymhlith pobl dros 75 oed, sy'n sylweddol o'i gymharu â'r grwpiau oedran eraill, 20% o'i gymharu â llai na 4%. Amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.

Tabl 2.2: Canran y newid yn y boblogaeth yn ôl grwpiau oedran eang yn seiliedig ar amcanestyniadau 2023 yn ôl awdurdod lleol, 2022 i 2032

	Pen-y-bont ar Ogwr			Merthyr Tudful			Rhondda Cynon Taf		
	Amcangyfrif o'r boblogaeth			Amcangyfrif o'r boblogaeth			Amcangyfrif o'r boblogaeth		
Grŵp oedran	2022	2032	% newid	2022	2032	% newid	2022	2032	% newid
0-15	25,840	23,533	-8.9%	10,445	10,661	2.1%	43,368	43,886	1.2%
16 i 64	89,535	92,758	3.6%	36,947	36,168	-2.1%	148,082	153,740	3.8%
65 - 74	16,013	19,514	21.9%	6,057	6,439	6.3%	25,167	26,149	3.9%
Dros 75 oed	14,785	18,386	24.4%	5,432	6,177	13.7%	22,877	27,460	20.0%
Pob oedran	**146,173**	**154,191**	**5.5%**	**58,881**	**59,445**	**1.0%**	**239,494**	**251,235**	**4.9%**

2.2.2 Dwysedd poblogaeth[4]

Pen-y-bont ar Ogwr yw'r awdurdod lleol mwyaf poblog yn y bwrdd iechyd gyda 588 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Rhondda Cynon Taf sydd wedi gweld y newid mwyaf mewn dwysedd poblogaeth rhwng 2021 a 2004, sef 2.7%. Mae Merthyr Tudful yn llai poblog gyda 529 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Mae pob ardal dros dair gwaith mor ddwys â phoblogaeth gyfartalog Cymru.

Tabl 2.3: Dwysedd poblogaeth (personau fesul cilomedr sgwâr) a chanran y newid yn ôl awdurdod lleol a Chymru rhwng 2021 a 2024

Ardal	2024	2021	Cynnydd canrannol
Pen-y-bont ar Ogwr	588	581	1.2%
Merthyr Tudful	529	528	0.2%
Rhondda Cynon Taf	573	560	2.7%
Cymru	154	150	1.5%

[4] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2024 – dwysedd poblogaeth

2.3 Ethnigrwydd[5]

Mae gan y bwrdd iechyd boblogaeth ethnig llai amrywiol na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ar lefel awdurdod lleol, Rhondda Cynon Taf sydd â'r boblogaeth fwyaf ethnig amrywiol yn y bwrdd iechyd, gydag amcangyfrif bod 3.3% o'i phoblogaeth yn Bobl Dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Amcangyfrifir bod 3.2% o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn Bobl Dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, tra bod gan Ferthyr Tudful y gyfran isaf sef 2.9%.

Tabl 2.4: Ethnigrwydd yn ôl grŵp ethnig ac yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2021

Ardal	Gwyn	Pobl Dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol eraill	Cyfanswm	Canran Pobl Dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
Pen-y-bont ar Ogwr	140,799	4,691	145,490	3.2%
Merthyr Tudful	57,140	1,699	58,839	2.9%
Rhondda Cynon Taf	229,923	7,730	237,653	3.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	427,862	14,120	441,982	3.2%
Cymru	2,915,848	191,646	3,107,494	6.2%

2.4 Iaith yr aelwyd[6]

Mae 10.9% o drigolion y bwrdd iechyd sy'n dair oed neu'n hŷn yn siarad Cymraeg, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 17.8%. Ar lefel awdurdod lleol, mae'r gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg ym Merthyr Tudful (8.9%) a'r uchaf yn Rhondda Cynon Taf (12.4%). Ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae 9.2% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.

Tabl 2.5: Pobl tair oed neu'n hŷn sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2021

Ardal	Pawb sy'n dair oed neu'n hŷn	Ydw, yn gallu siarad Cymraeg	Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg
Pen-y-bont ar Ogwr	141,294	13,037	9.2%
Merthyr Tudful	56,957	5,079	8.9%
Rhondda Cynon Taf	230,318	28,556	12.4%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	428,569	46,672	10.9%
Cymru	3,018,172	538,298	17.8%


[5] Ystadegau Cymru - Pobl fesul grŵp ethnig, ar gyfer Cymru ac awdurdodau lleol, Cyfrifiad 2021
[6] Cyfrifiad Nomis 2021 – TS033 - Sgiliau Cymraeg

2.5 Crefydd[7]

Yn y bwrdd iechyd, mae 38.2% yn gweld eu hunain fel Cristnogion. Mae 54.5% yn nodi nad oes ganddynt grefydd, 0.6% yn nodi eu bod yn Fwslemiaid, 0.5% o grwpiau crefyddol lleiafrifol eraill a 0.6% yn nodi crefyddau eraill.

Yn yr un modd, ar lefelau awdurdodau lleol, amcangyfrifir bod llai na hanner y boblogaeth yn Gristnogion. Islam yw'r ail grefydd fwyaf cyffredin.

Ffigur 2.6: Crefydd trigolion Cymru yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2021



2.6 Mynegai amddifadedd lluosog[8]

Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl mewn cymdeithas. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 yw'r dull a ddefnyddir yng Nghymru i nodi'r ardaloedd bach yng Nghymru sydd fwyaf amddifad. Mae'n dwyn ynghyd wyth math gwahanol o amddifadedd: incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, tai, diogelwch cymunedol ac amgylchedd ffisegol, i gynhyrchu set o fynegeion a mynegai cyffredinol. Mae hyn yn caniatáu rhestru ardaloedd bach yn ôl eu sgôr amddifadedd cymharol i benderfynu a yw ardal yn fwy neu'n llai amddifad o'i chymharu â phob ardal fach arall yng Nghymru. Mae 1,917 o ardaloedd bach neu ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yng Nghymru, sydd wedi'u rhestru o un (mwyaf amddifad) i 1,917 (lleiaf amddifad). Mae 280 o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y bwrdd iechyd.

O fewn y bwrdd iechyd, Merthyr Tudful sydd â'r lefel uchaf o amddifadedd gyda 16.7% o'i hardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y 10% mwyaf amddifad o

[7] Cyfrifiad Nomis 2021 – TS031 - Crefydd
[8] Llywodraeth Cymru - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 - canllawiau

ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yng Nghymru. Mae 72.2%[9] o'r holl ardaloedd cynnyrch ehangach haen is ym Merthyr Tudful yn gorwedd o fewn y 50% o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwyaf amddifad yng Nghymru. Yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwyaf amddifad ym Merthyr Tudful yw Penydarren 1 (safle 16) a Chyfarthfa 2 (safle 69). Yr ardal fach leiaf amddifad yw Cyfarthfa 4, sydd yn safle 1,768 allan o 1,917.

Mae 13.1% o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is Rhondda Cynon Taf yn y 10% mwyaf difreintiedig o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is a 64.1% ohonynt o fewn y 50% o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwyaf amddifad yng Nghymru. Yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwyaf amddifad yn Rhondda Cynon Taf yw Pen-y-waun 2 (safle 14) ac yna Tylorstown (Pendyrus) 1 (safle 23). Yr ardal leiaf amddifad yw Pentre'r Eglwys 3 sydd yn safle 1,907 allan o 1,917.

Pen-y-bont ar Ogwr yw'r awdurdod lleol lleiaf amddifad yn y bwrdd iechyd. Mae 6.6% o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is Rhondda Cynon Taf yn y 10% mwyaf difreintiedig o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is a 52.7% o fewn y 50.0% o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwyaf amddifad yng Nghymru. Yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwyaf amddifad ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 1 (safle 4) ac yna Bracla 3 (safle 41). Yr ardal leiaf amddifad yw Coety Uchaf 3, yn safle 1,913 allan o 1,917.

Tabl 2.6: Nifer a chanran yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn ôl pumed amddifadedd fesul awdurdod lleol a bwrdd iechyd, 2025

Ardal	Cyfanswm yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is	% yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y 10% mwyaf amddifad (safleoedd 1-191)	% yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn yr 20% mwyaf amddifad (safleoedd 1-382)	% yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y 30% mwyaf amddifad (safleoedd 1-574)	% yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y 50% mwyaf amddifad (safleoedd 1-958)
Pen-y-bont ar Ogwr	91	6 (6.6%)	17 (18.7%)	31 (34.1%)	48 (52.7%)
Merthyr Tudful	36	6 (16.7%)	12 (33.3%)	15 (41.7%)	26 (72.2%)
Rhondda Cynon Taf	153	20 (13.1%)	37 (24.2%)	64 (41.8%)	98 (64.1%)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	280	32 (11.4%)	66 (23.6%)	110 (39.3%)	172 (61.4%)

[9] Ystadegau Cymru - Safleoedd ACEHI yng Nghymru yn ôl MALIC Awdurdodau Lleol 2025

2.7 Genedigaethau[10]

Roedd 3,869 o enedigaethau byw yn y bwrdd iechyd yn 2024, gostyngiad o 3.0% ers 2023.

Yn 2024, cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb (y nifer cyfartalog o blant y mae menyw yn eu geni yn ystod y blynyddoedd atgenhedlu) ar gyfer Cymru oedd 1.41 o blant fesul menyw. Roedd hyn yn ostyngiad o 1.42 o blant fesul menyw yn 2023. Mae cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn gostwng ers 2010. Wrth ystyried y cyfraddau ffrwythlondeb sy'n benodol i oedran, gostyngodd y cyfraddau ym mhob grŵp oedran ac eithrio menywod 40 oed a throsodd, lle cynyddodd ychydig o 10.4 i 10.5 genedigaeth fesul 1,000 o fenywod. Mae hyn yn awgrymu y gallai menywod fod yn gohirio geni plant nes eu bod yn hŷn ac yn adlewyrchu'r duedd a welir yn y DU.

Roedd cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb ar gyfer awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2024, tra bod Rhondda Cynon Taf ychydig islaw cyfartaledd Cymru. Merthyr Tudful oedd â'r gyfradd ffrwythlondeb gyfan uchaf, sef 1.51 o blant fesul menyw, gostyngiad o 1.5 yn 2023. Wrth ystyried y cyfraddau ffrwythlondeb sy'n benodol i oedran, roedd cynnydd yn y grwpiau dan 18 oed, dan 20 oed, 20-24 oed a 30-34 oed, gyda gostyngiadau yn y grwpiau oedran sy'n weddill.

Gostyngodd cyfanswm cyfradd ffrwythlondeb Rhondda Cynon Taf o 1.4 o blant fesul menyw yn 2023 i 1.3 o blant fesul menyw yn 2024. Wrth ystyried y cyfraddau ffrwythlondeb sy'n benodol i oedran, roedd y gostyngiad ym mhob grŵp oedran ac eithrio menywod 20-24 oed a 40 oed neu'n hŷn.

Dros yr un cyfnod, gostyngodd cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr i 1.4 o blant fesul menyw o 1.5 o blant fesul menyw o'r flwyddyn flaenorol. Wrth ystyried y cyfraddau ffrwythlondeb sy'n benodol i oedran, roedd y gostyngiad ar draws pob grŵp oedran ac eithrio menywod rhwng 25 a 29 oed, a'r rhai dros 35 oed, (arhosodd y gyfradd ar gyfer menywod dros 40 oed yr un fath).

Yn 2023, oedran cymedrig safonol y fam wrth roi genedigaeth oedd 29.5 oed ym Merthyr Tudful, 30.1 oed ym Mhen-y-bont ar Ogwr a 30.0 oed yn Rhondda Cynon Taf. Roedd pob un yn is na chyfartaledd Cymru sef 30.4 mlynedd.

[10] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Genedigaethau yng Nghymru a Lloegr: 2024

Tabl 2.7: Newid canrannol mewn genedigaethau byw, a chyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yn ôl awdurdod lleol a Chymru, 2023 a 2024

Ardal	Genedigaethau byw 2023	Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb	Genedigaethau byw 2024	Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb	Newid % genedigaethau byw
Pen-y-bont ar Ogwr	1,294	1.50	1,231	1.40	-4.9%
Merthyr Tudful	566	1.53	558	1.51	-1.4%
Rhondda Cynon Taf	2,126	1.38	2,080	1.32	-2.2%
Cymru	27,374	1.39	26,832	1.35	-2.0%

2.8 Disgwyliad oes[11]

Yng Nghymru, y disgwyliad oes cyfartalog i fenywod adeg eu geni oedd 81.8 mlynedd a 77.9 mlynedd i ddynion rhwng 2020 a 2022.

Mae gan bob ardal awdurdod lleol yn y bwrdd iechyd ddisgwyliad oes byrrach i fenywod na'r cyfartaledd yng Nghymru (81.8 mlynedd). Pen-y-bont ar Ogwr sydd â'r disgwyliad oes uchaf ar draws y tair bwrdeistref, sef 81.6 mlynedd, gyda Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yn 80.7 mlynedd a 79.4 mlynedd, yn y drefn honno.

Mae gan ddynion hefyd ddisgwyliad oes byrrach na'r cyfartaledd yng Nghymru (77.9 mlynedd) ar draws y tri awdurdod lleol. Pen-y-bont ar Ogwr sydd â'r disgwyliad oes uchaf o 77.4 mlynedd, gyda Rhondda Cynon Taf yn 76.9 mlynedd a Merthyr Tudful yn 76.1 mlynedd.

Tabl 2.8: Disgwyliad oes adeg genedigaeth a 65 oed yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2020 i 2022

Ardal	Benyw adeg genedigaeth Blynyddoedd	Gwryw adeg genedigaeth Blynyddoedd	Benyw yn 65 oed Blynyddoedd	Gwryw yn 65 oed Blynyddoedd
Pen-y-bont ar Ogwr	81.6	77.4	19.6	17.8
Merthyr Tudful	79.4	76.1	18.4	16.6
Rhondda Cynon Taf	80.7	76.9	19.2	17.2
Cymru	81.8	77.9	20.2	17.9

[11] Info Base Cymru - Disgwyliad oes yn ôl awdurdod lleol 2020-22

Mae rhagor o fanylion am ddisgwyliad oes, disgwyliad oes iach a'r bwlch anghydraddoldebau ar gyfer 2020 i 2022 i'w cael yn y penodau lefel clwstwr.

2.9 Marwolaethau[12]

Roedd gan y bwrdd iechyd gyfradd marwolaethau safonedig oedran uwch fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer menywod (949.0) a dynion (1,372.3) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru yn 2024.

Yn y bwrdd iechyd, roedd gan y tri awdurdod lleol gyfraddau marwolaethau safonedig oedran uwch fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer dynion a menywod o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru. O'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, Merthyr Tudful (1,046.2) oedd â'r ail gyfradd marwolaethau safonedig oedran uchaf fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer menywod o'r holl awdurdodau lleol, ar ôl Blaenau Gwent. Rhondda Cynon Taf (958.8) oedd â'r bedwaredd gyfradd uchaf a Phen-y-bont ar Ogwr (900.4) oedd â'r nawfed gyfradd uchaf ar gyfer menywod.

Roedd y tri awdurdod lleol ymhlith y pedwar cyfradd marwolaethau safonedig yn ôl oedran uchaf fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer dynion o'r holl awdurdodau lleol. Merthyr Tudful oedd â'r gyfradd uchaf sef 1,478.2, Rhondda Cynon Taf (1,428.7) oedd â'r ail gyfradd uchaf a Phen-y-bont ar Ogwr (1,256.2) oedd â'r bedwaredd gyfradd safonedig yn ôl oedran uchaf fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer dynion ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 2.9: Cyfradd marwolaethau safonedig yn ôl oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd, Cymru a'r DU, 2024

Ardal	Cyfradd marwolaethau safonedig yn ôl oedran fesul 100,000		
	Pob person	Benywod	Gwrywod
Pen-y-bont ar Ogwr	1,063.4	900.4	1,256.2
Merthyr Tudful	1,250.9	1,046.2	1,478.2
Rhondda Cynon Taf	1,165.8	958.8	1,428.7
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	1,140.0	949.0	1,372.3
Cymru	1,016.5	872.7	1,190.0

Roedd y gyfradd marwolaethau y gellid eu hosgoi (marwolaethau a ddiffinnir fel rhai y gellid eu hatal neu eu trin) ar gyfer menywod yng Nghymru yn 277.3 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2023. O'r 8,193 o farwolaethau y gellid eu hosgoi yng Nghymru yn 2023, gellid priodoli 5,305.5 (64.8%) i gyflyrau yr ystyrir y gellir eu hatal a gellid priodoli 2,887.5 (35.2%) i gyflyrau yr ystyrir y gellir eu trin[13].

[12] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Marwolaethau a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr
[13] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Marwolaethau y gellir eu hosgoi gan Fyrddau Gofal Integredig yn Lloegr a Byrddau Iechyd yng Nghymru

Roedd gan y bwrdd iechyd y gyfradd uchaf o farwolaethau y gellid eu hosgoi ar gyfer yr holl bobl ar draws y saith bwrdd iechyd yng Nghymru. Roedd ganddo'r ail gyfradd uchaf o farwolaethau y gellid eu trin ar gyfer dynion o'r holl fyrddau iechyd, yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Wrth edrych ar y marwolaethau y gellid eu hatal, mae gan y bwrdd iechyd y gyfradd uchaf ar draws yr holl fyrddau iechyd yng Nghymru.

Tabl 2.10: Nifer a chyfraddau marwolaethau y gellid eu hosgoi, eu hatal a'u trin wedi'u safoni yn ôl oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl rhyw, bwrdd iechyd a Chymru, 2023

Ardal		Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth – y gellir eu hosgoi	Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth – y gellir eu trin	Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth – y gellir eu hatal
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	Pob person	323.9	105.8	218.1
	Gwryw	398.9	119.9	279.0
	Benyw	252.3	92.2	160.1
Cymru	Pob person	277.3	97.4	179.9
	Gwryw	346.2	109.9	236.3
	Benyw	212.1	85.6	126.5

2.10 Pobl ag anableddau

Mae cofrestrau anabledd awdurdodau lleol yn wirfoddol ac yn anghyflawn. Dim ond pobl sy'n dewis cofrestru sydd wedi eu cynnwys ynddynt ac felly maen nhw'n tanamcangyfrif yn sylweddol nifer gwirioneddol y bobl ag anableddau yn y boblogaeth.

Peidiodd Llywodraeth Cymru â chyhoeddi data cofrestrau anabledd ar ôl 2021–22, gan eu disodli â setiau data gofal a chymorth ar lefel person o dan fframwaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn lle hynny, mae amcangyfrifon newydd ar draws y boblogaeth yn cael eu tynnu'n bennaf o ddata Cyfrifiad 2021.

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod cyfran lai a nifer lai o bobl yn anabl yng Nghymru (21.6%, 670,264), o'i gymharu â 2011 (23.4%, 696,000).[14]

[14] Cyfrifiad Nomis 2021 - Anabledd, Cymru a Lloegr

Tabl 2.11: Cyfran y boblogaeth sydd ag anabledd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn ardal Cwm Taf Morgannwg a Chymru

Ardal	Anabl	Gweithgareddau dyddiol wedi'u cyfyngu'n fawr	Gweithgareddau dyddiol wedi'u cyfyngu ychydig	Ddim yn anabl
Pen-y-bont ar Ogwr	22.6%	11.3%	11.4%	77.4%
Merthyr Tudful	23.8%	12.8%	11.0%	76.2%
Rhondda Cynon Taf	23.6%	11.9%	11.7%	76.4%
Cymru	21.6%	10.3%	11.3%	78.4%

Mae gan y tri awdurdod lleol gyfradd uwch o'r boblogaeth wedi ei nodi'n anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb o'i gymharu â chyfartaledd Cymru. Merthyr Tudful sydd â'r ganran uchaf o'r boblogaeth sydd wedi'u cofrestru'n anabl ar draws y tri awdurdod lleol (23.8%) a'r drydedd ganran uchaf ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Nododd 12.8% o'r trigolion fod eu gweithgareddau wedi'u cyfyngu'n fawr, tra bod 11.0% wedi nodi bod eu gweithgareddau wedi'u cyfyngu ychydig, ac mae'r ddau ohonynt yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Rhondda Cynon Taf sydd â'r pumed canran uchaf o'r boblogaeth sydd wedi'i chofrestru'n anabl ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru (23.6%). Nododd 11.9% fod eu gweithgareddau wedi'u cyfyngu'n fawr, tra bod 11.7% wedi nodi bod eu gweithgareddau wedi'u cyfyngu ychydig, ac mae'r ddau ohonynt yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Pen-y-bont ar Ogwr sydd â'r gyfradd isaf o'r boblogaeth wedi'i chofrestru'n anabl a'r nawfed uchaf ar draws holl awdurdodau lleol Cymru. Nododd 11.3% fod eu gweithgareddau wedi'u cyfyngu'n fawr, tra bod 11.7% wedi nodi bod eu gweithgareddau wedi'u cyfyngu ychydig. Mae gweithgareddau o ddydd i ddydd y nodir eu bod wedi'u cyfyngu'n fawr un pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru, tra bod gweithgareddau wedi'u cyfyngu ychydig yn unig ychydig yn uwch (0.1%).

2.11 Aelwydydd[15]

Mae tua 26,048 o bobl 66 oed a hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain yn y bwrdd iechyd, sef 13.6% o'r boblogaeth. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru.

[15] Cyfrifiad Nomis 2021 – TS003 - cyfansoddiad aelwydydd

Tabl 2.12: Cyfansoddiad aelwydydd, nifer a chanran aelwydydd un person yn ôl grŵp oedran, awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2021

Aelwyd un person	66 oed neu'n hŷn		65 oed neu'n iau	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Pen-y-bont ar Ogwr	8,535	13.7%	10,129	16.2%
Merthyr Tudful	3,464	13.4%	4,794	18.6%
Rhondda Cynon Taf	14,049	13.6%	18,121	17.5%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	26,048	13.6%	33,044	17.3%
Cymru	196,056	14.6%	233,505	17.3%

2.12 Perchnogaeth car[16]

Mae ychydig o dan chwarter o gartrefi yn y bwrdd iechyd heb gar na fan, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Merthyr Tudful (25.0%) sydd â'r ganran uchaf o aelwydydd heb geir na faniau. Mae 22.2% o boblogaeth Rhondda Cynon Taf heb gar. Mae canran Pen-y-bont ar Ogwr (18.2%) yn is na chyfartaledd Cymru.

Tabl 2.13: Nifer a chanran yr aelwydydd heb geir na faniau yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2021

Ardal	Nifer yr aelwydydd heb geir na faniau	
	Nifer	Canran
Pen-y-bont ar Ogwr	11,366	18.2%
Merthyr Tudful	6,455	25.0%
Rhondda Cynon Taf	22,958	22.2%
Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg	40,779	21.3%
Cymru	261,859	19.4%

2.13 Gweithgarwch economaidd

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023, roedd y gyfradd ddiweithdra ar gyfer pobl 16 oed neu'n hŷn yng Nghymru yn 3.7%, cynnydd o 0.7% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd cyfradd y DU hefyd yn 3.7%, i fyny 0.1% dros y flwyddyn.

Tabl 2.14: Crynodeb o weithgarwch economaidd yn ôl awdurdod lleol a Chymru, y flwyddyn hyd at Ragfyr 2023

Ardal	Cyfradd ddiweithdra (16+ oed)	Cyfradd ddiweithdra (16 i 64 oed)	Anweithgarwch economaidd (16 i 64 oed)
Pen-y-bont ar Ogwr	3.5%	67.1%	30.6%
Merthyr Tudful	3.5%	73.9%	23.3%
Rhondda Cynon Taf	3.8%	69.1%	27.0%
Cymru	3.7%	74.1%	23.0%

[16] Cyfrifiad Nomis 2021 – TS045 - Perchnogaeth car

Merthyr Tudful oedd â'r ganran uchaf o gyflogaeth (cyfanswm y bobl 16 oed neu'n hŷn sydd mewn cyflogaeth) ar draws y tri awdurdod lleol sef 28,400. O'r bobl rhwng 16 a 64 oed sy'n byw ym Merthyr Tudful, roedd 73.9% mewn cyflogaeth yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023. Mae hwn yn gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022 pan oedd y gyfradd leol yn 70.1%. Roedd tua 1,000 o bobl 16 oed neu'n hŷn ym Merthyr Tudful yn ddi-waith yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023. Mae hon yn gyfradd o 3.5%, cynnydd bach o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022 pan oedd y gyfradd ddiweithdra yn 3.4%.

Roedd cyfradd gyflogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn is nag ar draws Cymru gyfan yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023. O'r bobl rhwng 16 a 64 oed sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd 67.1% mewn cyflogaeth yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023, gostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022 pan oedd y gyfradd leol yn 71.9%. Ar y cyfan, roedd tua 61,600 o bobl 16 oed neu'n hŷn ym Mhen-y-bont ar Ogwr mewn cyflogaeth yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023. Mae hyn yn is na'r flwyddyn flaenorol pan oedd tua 64,500 o bobl 16 oed neu'n hŷn mewn gwaith. Roedd tua 2,200 o bobl 16 oed neu'n hŷn ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddi-waith yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023. Mae hon yn gyfradd o 3.5%, cynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022 pan oedd y gyfradd ddiweithdra yn 2.7%.

Roedd cyfradd cyflogaeth Rhondda Cynon Taf yn is nag ar draws Cymru gyfan yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023. O'r bobl rhwng 16 a 64 oed sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf, roedd 69.1% mewn cyflogaeth yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023, gostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022 pan oedd y gyfradd leol yn 70.1%. Ar y cyfan, roedd tua 105,000 o bobl 16 oed neu'n hŷn ym Mhen-y-bont ar Ogwr mewn cyflogaeth yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023. Mae hyn yn is na'r flwyddyn flaenorol pan oedd tua 107,000 o bobl 16 oed neu'n hŷn mewn gwaith. Roedd tua 4,100 o bobl 16 oed neu'n hŷn yn Rhondda Cynon Taf yn ddi-waith yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023. Mae hon yn gyfradd o 3.8%, cynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022 pan oedd y gyfradd ddiweithdra yn 2.9%.
Y gyfradd anweithgarwch economaidd yw canran y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed nad ydynt yn gweithio ac nad ydynt yn chwilio am waith nac ar gael i weithio. Mae pobl sy'n economaidd anweithgar yn cynnwys pobl sy'n gofalu am y teulu a/neu'r cartref, pobl sydd wedi ymddeol a phobl â salwch neu anabledd. Nid yw'n cynnwys myfyrwyr.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023, Pen-y-bont ar Ogwr (30.6%) oedd â'r gyfradd anweithgarwch economaidd uchaf yn y bwrdd iechyd a Rhondda Cynon Taf (27.0%) oedd â'r ail gyfradd anweithgarwch economaidd uchaf ar draws y bwrdd iechyd, y ddau yn uwch na chyfartaledd Cymru. Merthyr Tudful (23.3%) oedd â'r gyfradd anweithgarwch economaidd isaf o'r tri awdurdod lleol, sydd ond ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.

2.14 Cyfeiriadedd rhywiol

Nododd[17] Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2024:

- Yr amcangyfrifir bod 93.4% o oedolion 16 oed a throsodd yn y DU wedi nodi eu bod yn heterorywiol neu syth.
- Roedd pobl iau yn fwy tebygol o uniaethu fel lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (LHD) na phobl hŷn yn 2024. Roedd 8.0% o bobl 16 i 24 oed yn uniaethu fel LHD, o'i gymharu ag 1.2% o bobl 65 oed neu'n hŷn.
- Roedd y twf mwyaf yng nghanran y bobl a oedd yn uniaethu fel LHD rhwng 2019 a 2024 ymysg y rhai rhwng 25 a 34 oed, gan gynyddu o 3.6% i 6.4%.
- Roedd dynion yn fwy tebygol o uniaethu fel hoyw neu lesbiaidd (2.9%) nag fel deurywiol (1.1%) yn 2024, tra bod menywod yn fwy tebygol o uniaethu fel deurywiol (2.0%) nag fel hoyw neu lesbiaidd (1.4%).
- Roedd cyfran y bobl a nododd eu bod yn LHD yng Nghymru yn 3.6% yn 2024.

Mae amcangyfrifon ar draws y boblogaeth hefyd ar gael o Gyfrifiad 2021 a ofynnodd gwestiynau gwirfoddol am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd am y tro cyntaf. Mae data Cyfrifiad 2021 yn rhoi gwell sylw daearyddol i hyn ond mae angen ei ddehongli'n ofalus o hyd, yn enwedig ar gyfer amcangyfrifon hunaniaeth rhywedd, sy'n cael eu hystyried yn ystadegau swyddogol sy'n datblygu.

Dangosodd data o Gyfrifiad 2021 mai Merthyr Tudful (91.5%) oedd â'r gyfran uchaf yn ardal y bwrdd iechyd yn uniaethu fel heterorywiol neu syth. Rhondda Cynon Taf (1.5%) oedd â'r gyfran uchaf o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd, gyda Phen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful â'r un gyfran o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd (1.4%). Roedd y ganran uchaf o bobl a nododd eu bod yn ddeurywiol yn Rhondda Cynon Taf (1.1%), ac yna Pen-y-bont ar Ogwr (0.9%) a Merthyr Tudful (0.8%), yn y drefn honno.

Tabl 2.15: Cyfeiriadedd rhywiol yn ôl awdurdod lleol, 2021

Ardal	Syth neu heterorywiol	Hoyw neu lesbiaidd	Deurywiol	Pob cyfeiriadedd rhywiol arall	Heb ateb
Pen-y-bont ar Ogwr	91.0%	1.4%	0.9%	0.2%	6.5%
Merthyr Tudful	91.5%	1.4%	0.8%	0.2%	6.1%
Rhondda Cynon Taf	90.1%	1.5%	1.1%	0.2%	7.1%
Cymru	89.4%	1.5%	1.2%	0.3%	7.6%

2.15 Gofalwyr

Mae gofalwyr yn unigolion nad ydynt efallai'n ystyried eu hunain fel gofalwyr, ond sy'n ystyried eu hunain yn anad dim yn rhiant, gwraig, gŵr, partner, mab, merch, ffrind neu gymydog. Mae amgylchiadau gofalwyr yn amrywio'n fawr, yn ogystal â'r math a faint o gefnogaeth maen nhw'n ei rhoi. Gall gofalu fod yn broses raddol gan

[17] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Cyfeiriadedd rhywiol, DU: 2024

fod rhywun yn mynd yn fwy bregus dros amser ac angen mwy o gefnogaeth neu gall ddigwydd yn sydyn, er enghraifft os yw rhywun yn cael damwain neu broblem iechyd fel strôc. Yn aml, mae gan ofalwyr ifanc gyfrifoldebau gofalu fel oedolion tra bod ganddynt statws cyfreithiol fel plant. Er bod gofalu yn rhoi boddhad, gall fod yn flinedig yn gorfforol ac yn llawn straen emosiynol. Yn aml, mae gofalwyr yn teimlo'n ynysig, heb gefnogaeth ac ar eu pen eu hunain. Mae eu hiechyd yn waeth, a chanddynt lai o ddiogelwch ariannol a llai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn bywyd beunyddiol y tu allan i'w rôl ofalu. [18]

Yng Nghyfrifiad 2021, roedd 46,512 o oedolion wedi hunan-adrodd fel gofalwyr di-dâl yn y bwrdd iechyd. Mae hyn yn ostyngiad ar ddata'r Cyfrifiad blaenorol, fodd bynnag, mae'n debygol bod y ffigur hwn yn llawer uwch nag y mae'r data yn ei awgrymu[19]. Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig Covid-19, a allai hefyd fod wedi dylanwadu ar sut roedd pobl yn gweld ac yn cyflawni eu darpariaeth gofal di-dâl ac felly efallai fod hyn wedi effeithio ar sut roedd pobl yn dewis ymateb.

Mae canran y gofalwyr di-dâl sy'n darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer y tri awdurdod lleol.

Tabl 2.16: Nifer y gofalwyr di-dâl a'r ganran sy'n darparu 50 neu fwy o oriau o ofal di-dâl yr wythnos[20]

Ardal	Cyfanswm nifer y gofalwyr di-dâl	Canran y gofalwyr di-dâl sy'n darparu 50 neu fwy o oriau o ofal di-dâl yr wythnos
Pen-y-bont ar Ogwr	15,310	36.4%
Merthyr Tudful	6,212	38.4%
Rhondda Cynon Taf	24,990	37.3%
Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg	46,512	37.1%
Cymru	310,748	34.4%

2.16 Cymunedau teithwyr a sipsiwn

Yng Nghyfrifiad 2021 roedd 4,000 o drigolion Cymru (0.1%) wedi nodi eu bod yn "Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig" o ran ethnigrwydd, cynnydd ers 2011 pan ymatebodd bron i 3,000 o drigolion gyda'r ethnigrwydd hwn. Yn 2021, cafodd "Roma" ei gynnwys fel categori blwch ticio o fewn y categori lefel uchel "Gwyn" am y tro cyntaf ar ffurflen gyfrifiad, gyda bron i 2,000 o breswylwyr arferol yng Nghymru (0.1%) yn uniaethu â'r grŵp ethnig hwn.[21]

[18] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg - Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022-2027
[19] Ymddiriedolaeth Gofalwyr - Ymateb i ddata Cyfrifiad 2021 – Chwefror 2023
[20] Cyfrifiad 2021 - Gofal di-dâl, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021
[21] Llywodraeth Cymru - Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)

Ar 16 Ionawr 2025[22], roedd 1,320 o garafannau Sipsiwn a Theithwyr, a 177 o safleoedd wedi'u cofnodi yng Nghymru. Ar lefel awdurdod lleol, Pen-y-bont ar Ogwr oedd â'r nifer uchaf o garafannau (87), gyda 79 wedi'u lleoli ar draws ei 11 safle awdurdodedig (awdurdod lleol a phreifat). O'r 31 o garafannau yn Rhondda Cynon Taf, roedd 28 o garafannau ar y chwe safle awdurdodedig oedd ar gael (awdurdod lleol a phreifat). Ym Merthyr Tudful roedd cyfanswm o 28 o garafannau, ac roedd pob un ohonynt ar yr un safle awdurdodedig yr awdurdod lleol.

Tabl 2.17: Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr yn ôl awdurdod lleol a Chymru, Ionawr 2025.

Ardal	Carafannau ar safleoedd awdurdodedig yr awdurdodau lleol	Carafannau ar safleoedd awdurdodedig preifat	Carafannau ar safleoedd heb awdurdod	Pob carafán
Pen-y-bont ar Ogwr	35	44	8	87
Merthyr Tudful	28	0	0	28
Rhondda Cynon Taf	11	17	3	31
Cymru	692	455	173	1,320

Yn ardal y bwrdd iechyd, Pen-y-bont ar Ogwr oedd â'r nifer uchaf o leiniau gyda 45 o leiniau preswyl, ac roedd 35 ohonynt yn llawn (77.7%). Roedd gan Ferthyr Tudful 24 o leiniau, pob un ohonynt yn llawn. Roedd gan Rhondda Cynon Taf chwe llain, pob un ohonynt yn llawn.

Tabl 2.18: Nifer y lleiniau yn ôl statws preswyl, a ydynt yn llawn ai peidio, ac awdurdod lleol, Ionawr 2025

Ardal	Lleiniau preswyl sy'n llawn	Lleiniau preswyl sy'n wag	Cyfanswm y lleiniau	Canran sy'n llawn
Pen-y-bont ar Ogwr	35	10	45	77.7%
Merthyr Tudful	24	0	24	100.0%

2.17 Troseddwyr[23]

Mae Carchar EF y Parc yn garchar i ddynion categori B/C gydag uned fach i droseddwyr ifanc. Fe'i gweithredir yn breifat gan G4S ac mae ganddo boblogaeth o tua 1,829 (Chwefror 2026). Cyfanswm capasiti'r carchar yw 1,849.

[22] Llywodraeth Cymru - Cyfrif carafannau Sipsiwn a Theithwyr: Ionawr 2025 (ystadegau swyddogol o dan ddatblygiad) [HTML] | LLYW.CYMRU

[23] Prif Arolygydd Carchardai EF - Adroddiad ar arolygiad dirybudd o CEF y Parc gan Brif Arolygydd Carchardai EF, 6–17 Ionawr 2025

2.18 Digartrefedd a chysgu ar y stryd[24]

Diffinnir pobl sy'n cysgu ar y stryd fel pobl sy'n cysgu dros nos yn yr awyr agored (megis drysau siopau, llochesi bysiau neu barciau) neu mewn adeiladau, cerbydau neu leoedd eraill nad ydynt wedi'u cynllunio ar gyfer byw ynddynt (megis grisiau, ysguboriau, siediau, meysydd parcio, pebyll, ceir/faniau).


Cesglir data am bobl sy'n cysgu ar y stryd drwy ffurflenni misol gan awdurdodau lleol. Mae nifer yr unigolion sy'n cysgu ar y stryd yn giplun ar ddiwrnod olaf y mis.

Tabl 2.19: Cyfrif y bobl sy'n cysgu ar y stryd yn ôl awdurdod lleol, Cymru, 2025/26 (hyd at fis Ionawr 2026)

Dyddiad cyfrif	Pen-y-bont ar Ogwr	Merthyr Tudful	Rhondda Cynon Taf	Cymru
30 Ebrill 25	7	3	0	116
31 Mai 25	6	1	0	131
30 Mehefin 25	6	1	0	169
31 Gorffennaf 25	7	7	0	160
31 Awst 25	14	12	0	168
30 Medi 25	11	6	0	160
31 Hydref 25	9	8	0	157
30 Tachwedd 25	6	6	0	137
31 Rhagfyr 25	4	3	0	140
31 Ionawr 26	8	2	0	128

[24] Ystadegau Cymru - Pobl sy'n cysgu ar y stryd yn ôl ardal awdurdod lleol

Ffigur 2.4: Tuedd niferoedd sy'n cysgu ar y stryd, awdurdod lleol a Chymru, 2023-2026



3 Anghenion iechyd cyffredinol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Mae data iechyd, anabledd a gofal di-dâl, i gyd yn gysylltiedig yn agos ag oedran poblogaeth. Mewn poblogaethau mwy oedrannus, disgwylir iechyd gwaeth, mwy o anabledd a mwy o ofal di-dâl. Felly, er mwyn cymharu data'n deg ar draws ardaloedd â gwahanol broffiliau oedran, defnyddiwyd cyfraddau wedi'u safoni o ran oedran trwy gydol y bennod hon, oni nodir fel arall[25].

Mae'r broses hon yn dileu effaith oedran, gan ddangos sut olwg fyddai ar y canlyniadau pe bai gan bob ardal yr un strwythur oedran, yn seiliedig ar boblogaeth safonol Ewrop 2013.

Lle defnyddiwyd data fframwaith ansawdd a chanlyniadau, dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r data. Mae data fframwaith ansawdd a chanlyniadau a adroddir yn dibynnu ar ddiagnosis a chyffredinrwydd a gofnodwyd (yr hyn y mae meddyg teulu wedi'i gofnodi) o fewn system glinigol ymarfer cyffredinol. Os nad yw cyflwr wedi'i godio, nid yw'n cael ei gyfrif yn y gofrestr fframwaith ansawdd a chanlyniadau. Mae hefyd yn dibynnu ar nodweddion cymdeithasol a demograffig y boblogaeth a'u parodrwydd i geisio gwasanaethau gofal iechyd. Mae cyffredinrwydd yn y boblogaeth ("gwir" gyffredinrwydd) yn aml yn amcangyfrif yn rhy isel nifer y bobl â chyflwr nad ydynt eto wedi ei gyflwyno i'w meddyg teulu nac wedi cael diagnosis ganddo. Felly, dylid ystyried bod data fframwaith ansawdd a chanlyniadau yn fesur o ddiagnosis a gofal a reolir yn hytrach na "gwir" gyffredinrwydd absoliwt clefyd yn y boblogaeth.

Mae'r bwrdd iechyd yn cynnwys wyth clwstwr. Fodd bynnag, mae data cyflwr iechyd ar gyfer y tri chlwstwr yn ardal Rhondda Cynon Taf (Merthyr Tudful, Cwm Rhondda a Taf Elái) wedi'i rannu rhwng y Gogledd a'r De. Am y rheswm hwn, mae'r bennod hon yn cyfeirio at chwe chlwstwr.

3.1 Clefyd cronig

3.1.1 Cyflyrau cronig

Dengys y tabl isod gyffredinrwydd a gofnodwyd o ran cyflyrau hirdymor dethol yn seiliedig ar fframwaith ansawdd a chanlyniadau 2025 a adroddwyd gan ddata meddygfeydd teulu ar draws clystyrau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Caiff y ffigurau eu cymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru.

[25] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Age standardising data: What does this mean and why does it matter? (Ionawr 2023)

Tabl 3.1: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[26]

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phyliau o isgemia dros dro
Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	7.0%	3.4%	1.9%	8.4%	1.4%	2.6%
Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	8.4%	4.1%	3.1%	10.3%	1.9%	2.8%
Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	8.5%	4.5%	2.7%	8.5%	1.7%	3.3%
Gogledd Merthyr Tudful	7.5%	3.6%	3.5%	9.6%	1.3%	2.4%
De Merthyr Tudful	7.4%	3.1%	2.0%	8.8%	1.1%	2.0%
Gogledd Cwm Cynon	7.2%	3.7%	3.0%	9.5%	1.2%	2.3%
De Cwm Cynon	6.5%	3.5%	3.1%	10.0%	1.0%	2.0%
Gogledd Cwm Rhondda	7.5%	4.2%	3.5%	10.0%	1.1%	2.6%
De Cwm Rhondda	7.8%	3.6%	2.7%	9.6%	1.0%	2.2%
Gogledd Taf Elái	7.1%	3.1%	2.4%	8.4%	1.0%	2.0%
De Taf Elái	7.9%	3.3%	1.8%	7.7%	0.8%	2.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	7.5%	3.6%	2.6%	9.0%	1.2%	2.4%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Fel y gwelir o'r tabl uchod, mae gan y bwrdd iechyd amcangyfrif uwch o gyffredinrwydd ar draws yr holl gyflyrau iechyd cronig uchod, ac eithrio methiant y galon, o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru.

Ar lefel clwstwr, mae gan glystyrau Pen-y-bont ar Ogwr amcangyfrif uwch neu gywerth o gyffredinrwydd cyflyrau iechyd cronig o'u cymharu â'r bwrdd iechyd a Chymru ac eithrio'r clystyrau canlynol:

- Asthma – mae Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr (7.0%) yn is na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (7.5% a 7.1% yn y drefn honno)
- Clefyd coronaidd y galon – mae Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr (3.4%) yn is na chyfradd y bwrdd iechyd (3.6%)
- Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint – mae Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr (1.9%) yn is na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (2.6% a 2.3% yn y drefn honno)
- Diabetes – mae Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr (8.4%) a Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr (8.5%) ill dau yn is na chyfradd y bwrdd iechyd (9.0%)

Mae gan glystyrau Merthyr Tudful amcangyfrif uwch neu gywerth o gyffredinrwydd cyflyrau cronig o'u cymharu â'r bwrdd iechyd a Chymru ac eithrio'r clystyrau canlynol:

- Asthma – mae De Merthyr Tudful (7.4%) yn is na chyfradd y bwrdd iechyd (7.5%)
- Clefyd coronaidd y galon – mae De Merthyr Tudful (3.1%) yn is na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (3.6% a 3.4% yn y drefn honno)
- Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint – mae De Merthyr Tudful (2.0%) yn is na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (2.6% a 2.3% yn y drefn honno)
- Diabetes – mae De Merthyr Tudful (8.8%) yn is na chyfradd y bwrdd iechyd (9.0%)
- Methiant y galon – mae Gogledd Merthyr Tudful (1.3%) yn is na chyfradd Cymru (1.4%) ac mae De Merthyr Tudful (1.1%) yn is na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (1.2% ac 1.4% yn y drefn honno)
- Strôc a phyliau o isgemia dros dro – mae De Merthyr Tudful (2.0%) yn is na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (2.4% a 2.2% yn y drefn honno)

Mae gan glystyrau Rhondda Cynon Taf amcangyfrif uwch neu gywerth o gyffredinrwydd cyflyrau cronig o'u cymharu â'r bwrdd iechyd a Chymru ac eithrio'r clystyrau canlynol:

- Asthma – mae De Cwm Cynon (6.5%), Gogledd Taf Elái (7.1%) a Gogledd Cwm Cynon (7.2%) yn is na chyfraddau'r Bwrdd Iechyd a Chymru (7.5% a 7.1% yn y drefn honno)
- Clefyd coronaidd y galon – mae Gogledd Taf Elái (3.1%), De Taf Elái (3.3%) a De Cwm Cynon (3.5%) yn is na chyfradd y bwrdd iechyd (3.6%) ac mae Gogledd Taf Elái (3.1%) a De Taf Elái (3.3%) ill dau yn is na chyfradd Cymru (3.4%)
- Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint – mae De Taf Elái (1.8%) a Gogledd Taf Elái (2.4%) ill dau yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd (2.6%) ac mae De Taf Elái yn is na chyfradd Cymru (2.3%)
- Diabetes – mae De Taf Elái (7.7%) a Gogledd Taf Elái (8.4%) ill dau yn is na chyfradd y bwrdd iechyd (9.0%) ac mae De Taf Elái (7.7%) yn is na chyfradd Cymru (8.4%)

[26] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

- Methiant y galon – Mae pob un o'r chwe chlwstwr yn is na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (1.2% ac 1.4% yn y drefn honno)
- Strôc a phyliau o isgemia dros dro – mae De Cwm Cynon (2.0%), Gogledd Taf Elái (2.0%), De Cwm Rhondda (2.2%), Gogledd Cwm Cynon (2.3%) a De Taf Elái (2.3%) i gyd yn is na chyfradd y bwrdd iechyd (2.4%) ac mae De Cwm Cynon a Gogledd Taf Elái ill dau yn is na chyfradd Cymru (2.2%)

Dengys y tabl isod gyffredinrwydd cyflyrau cyhyrysgerbydol a gofnodwyd trwy ddangosyddion penodol osteoporosis (50 oed a hŷn) ac arthritis gwynegol (16 oed a hŷn) ar draws y clystyrau. Caiff y ffigurau eu cymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru.

Tabl 3.2: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd osteoporosis (50 oed a hŷn) ac arthritis gwynegol (16 oed a hŷn) yn seiliedig ar bobl ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025[27]

Ardal	Osteoporosis (50 oed a hŷn)	Arthritis gwynegol (16 oed a hŷn)
Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	0.6%	0.9%
Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	0.6%	0.9%
Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	0.4%	1.0%
Gogledd Merthyr Tudful	0.4%	1.1%
De Merthyr Tudful	0.1%	1.1%
Gogledd Cwm Cynon	0.2%	1.1%
De Cwm Cynon	0.2%	1.1%
Gogledd Cwm Rhondda	0.2%	1.0%
De Cwm Rhondda	0.4%	0.8%
Gogledd Taf Elái	0.4%	0.7%
De Taf Elái	0.6%	1.0%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	0.4%	1.0%
Cymru	0.6%	0.9%

Fel y gellir ei weld, mae osteoporosis yn is yn y bwrdd iechyd na Chymru ac mae'r gyfradd arthritis gwynegol ychydig yn uwch yn ardal y bwrdd iechyd na Chymru.

Yn gyffredinol, mae cyfraddau osteoporosis ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn amrywio o 0.4% (Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr) i 0.6% (Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr a Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr). Mae un o'r tri chlwstwr yn hafal i gyfradd y bwrdd iechyd, ond yn is na chyfradd Cymru. Mae dau glwstwr yn uwch na chyfradd y bwrdd iechyd ac yn hafal i gyfradd Cymru. Ar gyfer arthritis gwynegol, mae'r cyfraddau'n amrywio o 0.9% (Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr a Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr) i 1.0% (Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr). Mae dau o'r tri chlwstwr yn is na chyfradd y bwrdd iechyd, ac mae un yn hafal iddi. Mae dau glwstwr yn is na chyfradd Cymru ac un yn hafal iddi.

[27] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

Ym Merthyr Tudful, mae cyfraddau osteoporosis yn amrywio o 0.1% (De Merthyr Tudful) i 0.4% (Gogledd Merthyr Tudful). Mae un clwstwr yn hafal i gyfradd y bwrdd iechyd ond yn is na chyfradd Cymru ac mae un clwstwr yn is na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru. Ar gyfer arthritis gwynegol, mae dau glwstwr Gogledd Merthyr Tudful a De Merthyr Tudful yn gyfartal (1.1%), a'r ddau'n uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru.

Yn Rhondda Cynon Taf, mae cyfraddau osteoporosis yn amrywio o 0.2% (Gogledd Cwm Cynon, De Cwm Cynon a Gogledd Cwm Rhondda) i 0.6% (De Taf Elái). Mae pump o'r chwe chlwstwr yn is neu'n hafal i gyfradd y bwrdd iechyd ac mae pob clwstwr yn is neu'n hafal i gyfradd Cymru. Ar gyfer arthritis gwynegol, mae'r cyfraddau yn amrywio o 0.7% (Gogledd Taf Elái) i 1.1% (Gogledd Cwm Cynon a De Cwm Cynon). Mae pedwar o'r clystyrau yn is neu'n hafal i gyfradd y bwrdd iechyd a dau yn uwch. Mae pedwar o'r clystyrau yn uwch na chyfraddau Cymru ac mae dau glwstwr yn is.

3.1.2 Iechyd meddwl

Dengys y tabl isod gyffredinrwydd cyflyrau iechyd meddwl a gofnodwyd ar draws y clystyrau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Caiff y ffigurau eu cymharu â chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru.

Tabl 3.3: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025[28]

Ardal	Cyflwr iechyd meddwl
Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	1.1%
Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	1.3%
Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	1.3%
Gogledd Merthyr Tudful	1.0%
De Merthyr Tudful	1.0%
Gogledd Cwm Cynon	1.2%
De Cwm Cynon	1.0%
Gogledd Cwm Rhondda	1.3%
De Cwm Rhondda	1.1%
Gogledd Taf Elái	1.0%
De Taf Elái	0.9%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	1.1%
Cymru	1.1%

Mae cyfraddau cyflyrau iechyd meddwl yn y bwrdd iechyd yn cyfateb i gyfradd Cymru.

[28] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

Ar draws clystyrau Pen-y-bont ar Ogwr, mae cyffredinrwydd cyflyrau iechyd meddwl a gofnodwyd yn amrywio o 1.1% (Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr) i 1.3% (Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr a Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr). Mae un o'r tri chlwstwr yn hafal i gyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr) ac mae dau yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (Gogledd a Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr).

Ar gyfer clystyrau Merthyr Tudful, mae cyffredinrwydd cyflyrau iechyd meddwl a gofnodwyd yn cyfateb i'r ddau glwstwr (1.0%). Mae'r ddau glwstwr yn is na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (Gogledd Merthyr Tudful a De Merthyr Tudful).

Ar gyfer clystyrau Rhondda Cynon Taf, mae cyffredinrwydd cyflyrau iechyd meddwl a gofnodwyd yn amrywio o 0.9% (De Taf Elái) i 1.3% (De Cwm Rhondda). Mae pedwar o'r chwe chlwstwr yn is neu'n hafal i gyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (De Cwm Cynon, De Cwm Rhondda, Gogledd Taf Elái a De Taf Elái) ac mae dau glwstwr yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (Gogledd Cwm Cynon a Gogledd Cwm Rhondda).

Yn rhan o arolwg cenedlaethol Cymru 2024/25[29] Llywodraeth Cymru, holwyd pobl ynghylch eu lles meddyliol gan ddefnyddio Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick Caeredin, sef graddfa o 14 cwestiwn hunanasesu gyda sgoriau yn amrywio o 14 i 70. Dosbarthir bod sgôr uwch (58 i 70) yn cyfleu llesiant meddyliol uchel, 45 i 57 yn cyfleu llesiant meddyliol canolig, a 44 neu is yn cyfleu llesiant meddyliol isel.

Sgôr gyfartalog Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick Caeredin yn 2024/25 yw 48.4. Mae gan 33% o bobl lesiant meddyliol isel, mae gan 52% lesiant meddyliol canolig, ac mae gan 15% lesiant meddyliol uchel. Ar gyfartaledd, mae gan bobl iau lesiant meddyliol is, sef y rhai rhwng 16 a 44 oed (sgôr o 47.5), o gymharu â sgôr o 49.7 ar gyfer y rhai 65 oed a hŷn. Mae'r ffigurau hyn i gyd yn debyg i'r rhai yn 2022/23 ac eithrio gostyngiad yn y rhai 65 oed a throsodd (y sgôr llesiant gymedrig ar gyfer y grŵp hwn yn 2022/23 oedd 50.7).

Nid oedd Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2024/25 yn mesur lefelau unigrwydd yng Nghymru. Fodd bynnag, cafodd gwybodaeth am unigrwydd ei chynnwys yn Llesiant Cymru 2025 Llywodraeth Cymru[30].

Roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer y cyfnod 2022/23 yn cynnwys pob un o'r chwe mesur unigrwydd emosiynol a chymdeithasol. Canfuwyd bod 13.0% o bobl yng Nghymru yn unig, sef yr un peth ar gyfer cyfnod arolwg 2021/22 a 2020/21, ond roedd yn uwch yn 2019/2020. Fodd bynnag, roedd rhai amrywiadau amlwg yng nghanrannau'r bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig ar draws mesurau unigol:

- Yn 2019/20, dywedodd 36.0% o bobl eu bod yn hiraethu am gael pobl o gwmpas. Cynyddodd hyn yn sylweddol yn ystod pandemig Covid-19 (71.0% yn 2020/21 a 53.0% yn 2021/22), cyn syrthio'n ôl eto i 36.0% yn 2022/23

[29] Llywodraeth Cymru - Prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2024 i Fawrth 2025
[30] Llywodraeth Cymru - Llesiant Cymru 2025

- Cynyddodd canran y bobl a nododd fod ganddynt bobl y gallant ymddiried ynddynt o 59.0% yn 2019/20 i 67.0% yn 2020 i 2021. Cynhaliwyd hyn yn 2021/22 a 2022/23
- Rhwng 2019/20 a 2021/22 cafwyd cynnydd yng nghanran y bobl a ddywedodd fod ganddynt ddigon o bobl yr oeddent yn teimlo'n agos atynt, a digon o bobl y gallent ddibynnu arnynt. Roedd y ffigurau ar gyfer 2022/23 ychydig yn is ond nid oedd newid ystadegol sylweddol o 2020/21

Awgrymodd y canlyniadau diweddaraf (2022/23) o Arolwg Cenedlaethol Cymru fod oedolion iau (16 i 44 oed) yn fwy tebygol o deimlo'n unig na'r rhai 65 oed a hŷn.

Roedd pobl sy'n byw mewn amddifadedd materol, ac unigolion â chyflwr iechyd meddwl neu mewn iechyd cyffredinol gwaeth, yn fwy tebygol o fod yn unig. Roedd gwahaniaethau hefyd yn ôl ethnigrwydd, gyda phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o fod yn unig. Gall effaith yr anghydraddoldebau hyn gael ei gwaethygu lle maent yn croestorri.

Ym mis Ebrill 2025 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Dealltwriaeth: strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio 2025 - 2035[31]" a oedd yn cymryd lle strategaeth "Siarad â fi 2" 2015 i 2022. Dylid darllen y strategaeth newydd hon mewn cysylltiad â strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol 2025-2035[32]. Mae'r ffactorau risg ar gyfer iechyd meddwl gwael, hunan-niweidio a hunanladdiad yn debyg ac weithiau'n gysylltiedig â'i gilydd.

Mae'r strategaeth newydd yn cyd-fynd â chynllun cyflawni tair blynedd Llywodraeth Cymru "Dealltwriaeth: Cynllun Cyflawni Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio ar gyfer Cymru 2025-2028[33]" ac mae'n adeiladu ar y cynnydd a wnaed o dan strategaethau blaenorol "Siarad â Fi" (2009 – 2013) a "Siarad â Fi 2" (2014 – 2018).

Mae'r tabl isod yn dangos y gyfradd hunanladdiad ar lefel awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru ar gyfer 2020-24[34]. Fel y gwelir, mae'r cyfraddau ar gyfer y bwrdd iechyd a Phen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf i gyd yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru (13.1). Mae Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf ill dau yn is (13.3 a 14.1 yn y drefn honno) na chyfradd y bwrdd iechyd (14.4%), tra bod Merthyr Tudful yn uwch (18.8).

[31] Llywodraeth Cymru - Dealltwriaeth: Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru (2025-2035)
[32] Llywodraeth Cymru - Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol 2025-2035
[33] Llywodraeth Cymru - Dealltwriaeth: Cynllun Cyflawni Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru 2025-2028
[34] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus

Tabl 3.4: Hunanladdiad, cyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni ar sail oedran fesul 100,000 o bobl 2020-2024[35]

Ardal	Cyfradd
Pen-y-bont ar Ogwr	13.3
Merthyr Tudful	18.8
Rhondda Cynon Taf	14.1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	14.5
Cymru	13.1

3.2 Ffactorau risg

3.2.1 Ffactorau risg clinigol

Gellir categoreiddio ffactorau risg yn fras yn rhai addasadwy ac anaddasadwy. Gall ffactorau risg addasadwy fod yn uniongyrchol o fewn rheolaeth unigolyn, fel gweithgarwch corfforol. Gall polisi, penderfyniadau neu newid deddfwriaethol llywodraeth leol neu genedlaethol effeithio arnynt hefyd. Mae atal a gwella iechyd cyhoeddus yn canolbwyntio'n bennaf ar y ffactorau risg addasadwy hyn[36].

Mae ffibriliad atrïaidd a gorbwysedd yn flaenoriaethau iechyd cyhoeddus pwysig ill dau. Mae mwy nag 80,000 o bobl yng Nghymru wedi cael diagnosis o ffibriliad atrïaidd, ac amcangyfrifir bod gan ryw 750,000 o oedolion yng Nghymru bwysedd gwaed uchel, a bod tua 540,000 (Ebrill 2025[37]) o bobl yng Nghymru ar gofrestr gorbwysedd eu meddygfa deulu[38].

Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru "Cyffredinrwydd clefydau cardiofasgwlaidd – tueddiadau, ffactorau risg, ac amcanestyniadau 10 mlynedd[39]" sy'n nodi'r canlynol:

3.2.1.1 Gorbwysedd

- Mae'n ffactor risg clinigol a'r prif risg addasadwy ar gyfer clefydau'r galon a'r cylchrediad yng Nghymru
- Mae tua hanner y trawiadau ar y galon a strôc yng Nghymru yn gysylltiedig â phwysedd gwaed uchel
- Er bod bron i 530,000 (Ebrill 2024[40]) o bobl yng Nghymru wedi'u cofnodi ar gofrestr gorbwysedd eu meddyg teulu, amcangyfrifir y gallai cynifer â 220,000 o bobl fod heb ddiagnosis

[35] Iechyd Cyhoeddus GIG Cymru - Offeryn adrodd Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru
[36] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Crynodeb o dueddiadau mewn ffactorau risg ar gyfer clefydau anhrosglwyddadwy (Chwefror 2025)
[37] StatsCymru Llywodraeth Cymru - Cofrestr clefyd ar gyfer gorbwysedd Cymru
[38] Sefydliad Prydeinig y Galon - Taflen Ffeithiau Clefyd Cardiofasgwlaidd Cymru (v2) Ionawr 2026
[39] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Cyffredinrwydd clefydau cardiofasgwlaidd – tueddiadau, ffactorau risg, ac amcanestyniadau 10 mlynedd (Ebrill 2025)
[40] StatsCymru Llywodraeth Cymru - Cofrestr clefyd ar gyfer gorbwysedd Cymru

- Rhagwelir y bydd nifer y bobl ar y gofrestr gorbwysedd yn cynyddu o 529,300 yn 2023/24 i 565,900 o bobl yn 2033/34. Mae'r ffigurau hyn yn cyfateb i ychydig dros 1 o bob 6 o bobl, sef cynnydd o 7%. Mae hyn yn dilyn cynnydd o 11% rhwng 2009/10 a 2023/24.

Mae gorbwysedd yn ffactor risg mawr ar gyfer clefyd y galon, strôc, clefyd yr arennau, clefyd rhydwelïol ymylol a dementia fasgwlaidd. Gall ei ganfod yn gynnar a'i reoli'n effeithiol ei atal rhag troi'n glefyd cardiofasgwlaidd. Er bod gorbwysedd yn cael ei ddosbarthu'n fwy o ffactor risg clinigol, mae ei atal neu leihau yn destun effaith dewisiadau ffordd o fyw fel cymeriant gormodol o halen, diet gwael a gordewdra, yfed gormod o alcohol, diffyg gweithgarwch corfforol, lles meddyliol a straen. Mae baich pwysedd gwaed uchel ar ei fwyaf ymhlith unigolion o aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig[41].

Dengys y tabl isod y cyffredinrwydd a gofnodwyd yn seiliedig ar gyfraddau cyffredinrwydd fframwaith canlyniadau ansawdd 2025 a adroddwyd gan feddygfeydd teulu, ar gyfer gorbwysedd ar draws clystyrau. Caiff y ffigurau eu cymharu â chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru.

Tabl 3.5: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â gorbwysedd yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025[42]

Ardal	Cyffredinrwydd gorbwysedd
Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	16.3%
Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	20.4%
Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	17.6%
Gogledd Merthyr Tudful	17.7%
De Merthyr Tudful	16.4%
Gogledd Cwm Cynon	16.9%
De Cwm Cynon	17.8%
Gogledd Cwm Rhondda	18.8%
De Cwm Rhondda	17.3%
Gogledd Taf Elái	16.0%
De Taf Elái	16.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	17.3%
Cymru	16.3%

Mae gan y bwrdd iechyd gyffredinrwydd uwch o orbwysedd na'r gyfradd yng Nghymru (17.3% a 16.3% yn y drefn honno).

Fel y gellir ei weld, ar draws clystyrau Pen-y-bont ar Ogwr, mae cyffredinrwydd gorbwysedd a gofnodwyd yn amrywio o 16.3% (Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr) i 20.4% (Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr). Mae un o'r tri chlwstwr yn is na chyfradd y bwrdd iechyd ond yn hafal i gyfradd Cymru (Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr) ac mae

[41] Public Health England (2017). Guidance Health matters: combating high blood pressure
[42] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

dau glwstwr yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr a Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr).

Ar gyfer clystyrau Merthyr Tudful, mae cyffredinrwydd gorbwysedd a gofnodwyd yn amrywio o 16.4% (De Merthyr Tudful) i 17.7% (Gogledd Merthyr Tudful). Mae Gogledd Merthyr Tudful yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru, tra bod De Merthyr Tudful yn is na'r bwrdd iechyd ond yn uwch na Chymru.

Ar gyfer clystyrau Rhondda Cynon Taf, mae cyffredinrwydd gorbwysedd a gofnodwyd yn amrywio o 16.0% (Gogledd Taf Elái) i 18.8% (Gogledd Cwm Rhondda). Mae pedwar o'r chwe chlwstwr yn is na chyfradd y bwrdd iechyd neu'n hafal iddi (Gogledd Cwm Cynon, De Cwm Rhondda, Gogledd Taf Elái a De Taf Elái) ac mae dau glwstwr yn uwch (De Cwm Cynon a Gogledd Cwm Rhondda). Mae pedwar o'r chwe chlwstwr yn uwch na chyfradd Cymru (Gogledd Cwm Cynon, De Cwm Cynon, Gogledd Cwm Rhondda a De Cwm Rhondda) ac mae dau glwstwr yn is (Gogledd Taf Elái a De Taf Elái).

3.2.1.2 Ffibriliad atrïaidd[43]

- Y math mwyaf cyffredin o rhythm annormal y galon (arhythmia) ac un o brif achosion strôc.
- Mae'n ffactor sy'n cyfrannu at un o bob pum strôc yng Nghymru, ac mae pobl â ffibriliad atrïaidd bum gwaith yn fwy tebygol o gael strôc na phobl heb y cyflwr.
- Yn 2009/10 roedd tua 53,400 o bobl wedi cael diagnosis o ffibriliad atrïaidd yng Nghymru, a chynyddodd hyn i 84,900 yn 2023/24 (cynnydd o 59%). Dengys amcanestyniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru y gallai hyn gynyddu i 106,900 yn 2033/34 (cynnydd o 26%).
- Mae ffibriliad atrïaidd yn aml yn asymptomatig, yn aml heb ei ganfod a heb gael diagnosis, sy'n golygu ei bod yn debygol y bydd y cyflwr yn effeithio ar filoedd yn rhagor ledled Cymru.

Ffibriliad atrïaidd yw'r arhythmia cardiaidd parhaus mwyaf cyffredin ac mae'n ffactor risg sylweddol ar gyfer strôc a mathau eraill o afiachedd. Mae'n effeithio'n fwy cyffredin ar ddynion na menywod ac mae'r cyffredinrwydd yn cynyddu ag oedran. Mae gorbwysedd yn ffactor risg ar gyfer ffibriliad atrïaidd a hwn yw'r cyflwr cardiofasgwlaidd mwyaf cyffredin sy'n gysylltiedig ag ef.

Dengys y tabl isod y cyffredinrwydd a gofnodwyd yn seiliedig ar gyfraddau cyffredinrwydd fframwaith canlyniadau ansawdd 2025 a adroddwyd gan feddygfeydd teulu, ar gyfer ffibriliad atrïaidd ar draws y clystyrau. Caiff y ffigurau eu cymharu â chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru.

[43] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Cyffredinrwydd clefydau cardiofasgwlaidd – tueddiadau, ffactorau risg, ac amcanestyniadau 10 mlynedd (Ebrill 2025)

Tabl 3.6: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â ffibriliad atrïaidd yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025[44]

Ardal	Cyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd
Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	2.8%
Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	3.0%
Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	3.5%
Gogledd Merthyr Tudful	2.5%
De Merthyr Tudful	2.5%
Gogledd Cwm Cynon	2.9%
De Cwm Cynon	2.5%
Gogledd Cwm Rhondda	2.9%
De Cwm Rhondda	2.6%
Gogledd Taf Elái	2.2%
De Taf Elái	2.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2.7%
Cymru	2.7%

Mae gan y bwrdd iechyd gyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd sy'n cyfateb i gyfradd Cymru (2.7%).

Ar draws clystyrau Pen-y-bont ar Ogwr, mae cyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd a gofnodwyd yn amrywio o 2.8% (Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr) i 3.5% (Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr). Mae'r tri chlwstwr i gyd yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr, Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr a Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr).

Mae gan glystyrau Merthyr Tudful yr un cyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd a gofnodwyd (2.5%). Mae'r ddau glwstwr yn is na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru.

Ar gyfer clystyrau Rhondda Cynon Taf, mae cyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd a gofnodwyd yn amrywio o 2.2% (Gogledd Taf Elái) i 2.9% (Gogledd Cwm Cynon a Gogledd Cwm Rhondda). Mae pedwar o'r chwe chlwstwr yn is na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (De Cwm Cynon, De Cwm Rhondda, Gogledd Taf Elái a De Taf Elái) ac mae dau glwstwr yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (Gogledd Cwm Cynon a Gogledd Cwm Rhondda).

3.2.2 Ymddygiadau ffordd o fyw oedolion

Ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y “Crynodeb o dueddiadau mewn ffactorau risg ar gyfer clefydau anhrosglwyddadwy” sy’n amlygu:

[44] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

- Nad yw diet gwael, yfed alcohol ac anweithgarwch corfforol yn gwella
- Bod y gostyngiadau yng nghyffredinrwydd ysmygu wedi arafu
- Bod ymddygiadau afiach yn gyffredinol uwch mewn ardaloedd mwy difreintiedig, ac eithrio yfed alcohol
- Er bod unigolion sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig efallai'n yfed llai o alcohol, maent yn tueddu i ddioddef canlyniadau iechyd gwaeth (Lewer et al., 2016)[45]
- Mae cyffredinrwydd oedolion sy'n byw gyda gordewdra yng Nghymru wedi cynyddu 44% yn ystod yr 20 mlynedd ddiwethaf. (Arolwg Cenedlaethol Cymru (2016/17 - 2022/23), Llywodraeth Cymru)
- Ers 2003/04, mae cyffredinrwydd oedolion sy'n byw gyda gordewdra wedi cynyddu o ychydig o dan un o bob pump o bobl, i ychydig dros un o bob pedwar o bobl yn 2022/23 (Arolwg Iechyd Cymru, 2003/04 – 2015/16, Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17 - 2022/23, Llywodraeth Cymru).
- Roedd ymagwedd aml-ddull yn cwmpasu addysg, rhaglenni, gwasanaethau a deddfwriaeth yn llwyddiannus wrth leihau cyffredinrwydd ysmygu. Fodd bynnag, nid yw hyn eto wedi'i ailadrodd i'r un graddau ar gyfer ffactorau risg eraill, megis byw gyda gordewdra.

Cyflwyna'r tabl isod ganran yr oedolion 16 oed a hŷn, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf sydd wedi hunan-adrodd eu bod yn cymryd rhan mewn chwe ymddygiad ffordd o fyw allweddol, fel y cofnodwyd gan Arolwg

Cenedlaethol Cymru[46] rhwng 2021 a 2023.

[45] Lewer, D., Meier, P., Beard, E. et al. Unravelling the alcohol harm paradox: a population-based study of social gradients across very heavy drinking thresholds. BMC Public Health **16**, 599 (2016)
[46] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)

Tabl 3.7: Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw yn ôl awdurdod lleol a Chymru, 2021 i 2023[47]

	Cyfrif	Cyffredinrwydd					
Ardal	**Poblogaeth 16 oed a hŷn[48, 49]**	**Ysmygu (gan gynnwys e-sigaréts)**	**Yfed mwy na 14 uned yr wythnos**	**Dros bwysau gyda mynegai màs y corff o 25+**	**Gordew gyda mynegai màs y corff o 30+**	**Gweithgarwch corfforol am 150 munud yr wythnos**	**Wedi bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol**
Pen-y-bont ar Ogwr	122,161	18.0%	14.0%	70.0%	30.0%	51.0%	32.0%
Merthyr	47,880	28.0%	15.0%	75.0%	33.0%	48.0%	22.0%
Rhondda Cynon Taf	199,852	25.0%	16.0%	65.0%	28.0%	54.0%	22.0%
Cymru	2,641,000	20.0%	16.0%	62.0%	25.0%	56.0%	29.0%

3.2.2.1 Ysmygu

Mae ysmygu yn hynod niweidiol i iechyd. Ysmygu yw achos marwolaeth tua hanner yr holl ysmygwyr hirdymor[50] ac mae Sefydliad Iechyd y Byd[51] yn amcangyfrif bod tybaco yn lladd mwy nag wyth miliwn o bobl bob blwyddyn ledled y byd.
Mae ysmygu yn parhau i fod yn un o brif achosion marwolaethau a salwch yng Nghymru. Dros y cyfnod 2020 – 2022[52]:

- Amcangyfrifir bod 3,845 o farwolaethau y flwyddyn ymhlith y rhai 35 oed a hŷn yng Nghymru oherwydd ysmygu. Mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd, fod 10.7% o'r holl farwolaethau yng Nghymru ymhlith y rhai 35 oed a throsodd yn y blynyddoedd hyn yn briodoladwy i ysmygu.
- Mae nifer y marwolaethau sy'n briodoladwy i ysmygu yn amrywio'n sylweddol yn ôl amddifadedd. Ymhlith y rhai 35 oed a hŷn sy'n byw yn y pumed mwyaf difreintiedig o ardaloedd, roedd 14.5% o'r holl farwolaethau yn briodoladwy i ysmygu. Y gyfradd Ewropeaidd, wedi'i safoni o ran oedran, o farwolaethau sy'n briodoladwy i ysmygu oedd 337 fesul 100,000 o oedolion 35 oed a

[47] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)
[48] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024
[49] Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2025 - Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024
[50] Doll, R., et al. (2004). Mortality in relation to smoking: 50 years' observations on male British doctors
[51] Sefydliad Iechyd y Byd 2022 - Tobacco: Fact sheet (Mehefin 2025)
[52] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Marwolaeth a chlefydau ysbyty sy'n perthyn i ysmygu ar gyfer Cymru, 2020-22 (dadansoddiad newydd)

throsodd yn y pumed mwyaf difreintiedig o ardaloedd, sef mwy na thair gwaith yn uwch o'i chymharu â'r pumed lleiaf difreintiedig o ardaloedd.

- Amcangyfrifir bod 17,195 o dderbyniadau i'r ysbyty bob blwyddyn yng Nghymru oherwydd ysmygu. Mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd, fod 3.4% o'r holl dderbyniadau i'r ysbyty yng Nghymru ymhlith y rhai 35 oed a throsodd yn y blynyddoedd hyn yn briodoladwy i ysmygu.

Dengys y tabl isod farwolaethau sy'n briodoladwy i ysmygu, yn ôl cyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni o ran oedran, fesul 100,000 o bobl 35 oed a hŷn yn ôl bwrdd iechyd a Chymru, 2020-2022 ar gyfer y saith bwrdd iechyd yng Nghymru.

Safle: Y cyntaf (un) sy'n cyfateb i'r bwrdd iechyd gyda'r nifer isaf o farwolaethau sy'n briodoladwy i ysmygu a saith yw'r bwrdd iechyd gyda'r nifer uchaf.

Tabl 3.8: Marwolaethau sy'n briodoladwy i ysmygu, cyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni o ran oedran, fesul 100,000 o bobl 35 oed a throsodd yn ôl bwrdd iechyd a Chymru, 2020-2022[53]

Safle	Bwrdd Iechyd	Marwolaethau sy'n briodoladwy i ysmygu fesul 100,000 o bobl, 25 oed a throsodd
1	Powys	152
2	Caerdydd a'r Fro	165
3	Hywel Dda	172
4	Betsi Cadwaladr	188
5	Bae Abertawe	200
6	Aneurin Bevan	206
7	Cwm Taf Morgannwg	220
	Cymru	190

Gwyddom hefyd fod ysmygu yn cynyddu risg pobl o ddatblygu ystod eang o afiechydon, a all fod yn angheuol neu achosi niwed hirdymor anadferadwy i iechyd[54]. Mae'r rhain yn cynnwys canserau, clefydau anadlol, a chlefydau cardiofasgwlaidd, gan gynnwys strôc, trawiadau ar y galon a dementia.

Dangoswyd bod amlygiad i fwg ail-law yn achosi niwed sylweddol, gan gynyddu'r risgiau i bobl nad ydynt yn ysmygu o ddatblygu clefydau sy'n gysylltiedig ag ysmygu gan gynnwys canser yr ysgyfaint a chlefyd cardiofasgwlaidd[55]. Mae dod i gysylltiad â mwg ail-law yn arbennig o niweidiol i blant, gan arwain at gyflyrau gan gynnwys clefyd y glust ganol, asthma ac alergeddau[56].

[53] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Marwolaeth a chlefydau ysbyty sy'n perthyn i ysmygu ar gyfer Cymru, 2020-22 (dadansoddiad newydd)
[54] GIG 2018 - What are the health risks of smoking?
[55] Pwyllgor Gwyddonol yr Adran Iechyd ar Dybaco ac Iechyd (SCOTH) 2004. Secondhand Smoke: Review of the evidence since 1998
[56] Coleg Brenhinol y Meddygon Llundain - Passive smoking and children (Mawrth 2010)

Gwyddys bod ysmygu yn ystod beichiogrwydd yn cael ystod o effeithiau ar y beichiogrwydd a'r plentyn yn ddiweddarach yn ei oes, gan gynnwys risg uwch o gamesgoriad, genedigaeth gynamserol a syndrom marwolaeth sydyn babanod[57].

Dengys y tabl isod ganran gyfartalog yr ysmygwyr presennol (oedolion 18 oed a hŷn) ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng 2020 a 2024 (Mae'r cyfartaleddau a gyflwynir yn rhai pum mlynedd, wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio data rhwng 2020 a 2024, lle bo hynny ar gael).

Caiff yr awdurdodau lleol eu rhestru yn seiliedig ar ganran gyfartalog yr ysmygwyr presennol. Rhif un yw'r ganran gyfartalog isaf o ysmygwyr yn ôl awdurdod lleol a 22 yw'r uchaf.

Mae Awdurdod Pen-y-bont ar Ogwr yn wythfed (12.5%), Merthyr Tudful yn 22ain (15.7%) a Rhondda Cynon Taf yn 19eg (14.4%) allan o 22 awdurdod lleol.

Tabl 3.9: Canran gyfartalog yr ysmygwyr presennol (oedolion 18 oed a hŷn) ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng 2020 a 2024[58]

Safle	Awdurdod lleol	Canran yr ysmygwyr cyfredol (cyfartaledd) 2020 i 2024
1	Sir Fynwy	7.6
2	Bro Morgannwg	8.5
3	Powys	9.5
4	Sir Gaerfyrddin	11.6
5	Caerdydd	11.8
6	Ceredigion	11.9
7	Sir y Fflint	12.3
8	Pen-y-bont ar Ogwr	12.5
9	Abertawe	12.6
10	Ynys Môn	12.7
11	Conwy	12.7
12	Sir Benfro	13.3
13	Wrecsam	13.4
14	Sir Ddinbych	14.0
15	Caerffili	14.0
16	Casnewydd	14.0
17	Castell-nedd Port Talbot	14.2
18	Gwynedd	14.4
19	Rhondda Cynon Taf	14.4
20	Blaenau Gwent	15.4
21	Torfaen	15.4
22	Merthyr Tudful	15.7

[57] Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr - Smoking and pregnancy (2021)
[58] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Adult smoking habits in the UK: 2024

Dengys y tabl isod ganran yr oedolion 16 oed a hŷn, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf sydd wedi hunan-adrodd eu bod yn cymryd rhan mewn ysmygu ac e-sigaréts fel y cofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[59] rhwng 2021 a 2023.

Tabl 3.10: Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) a ddywedodd eu bod wedi cymryd rhan mewn ysmygu ac e-sigaréts yn ôl awdurdod lleol a Chymru, 2021 i 2023

Ardal	Poblogaeth 16 oed a hŷn[60, 61]	Canran yr ysmygwyr a hunanadroddwyd	Canran y defnyddwyr e-sigaréts a hunanadroddwyd
Pen-y-bont ar Ogwr	122,161	11.0%	7.0%
Merthyr Tudful	47,880	19.0%	9.0%
Rhondda Cynon Taf	199,852	16.0%	9.0%
Cymru	2,641,000	13.0%	7.0%

Mae nifer y bobl ifanc sy'n fepio wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er y bu'n anghyfreithlon gwerthu fêp i unrhyw un o dan 18 oed ers 2015[62].

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod argaeledd dyfeisiau tafladwy a'r ffyrdd y mae fêps yn cael eu marchnata wedi cyfrannu'n gryf at eu hapêl ymhlith pobl ifanc. Cyhoeddwyd nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â chynnydd fepio ymhlith pobl ifanc, gan gynnwys gwahardd gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un a anwyd ar ôl 1 Ionawr 2009.

Mae Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr mewn ysgolion uwchradd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, 2023 yn seiliedig ar 129,761 o ddysgwyr o flwyddyn saith i 11 o 201 o ysgolion yng Nghymru yn ymateb i'r arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr a weinyddwyd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2023. Dyma oedd y canfyddiadau allweddol:

- Mae nifer y dysgwyr ym mlwyddyn saith i 11 yng Nghymru sy'n adrodd eu bod yn fepio o leiaf unwaith yr wythnos yn 7.0%, sef cynnydd o 5.4% (2021) a 2.7% (2019)

[59] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)
[60] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024
[61] Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2025 - Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024
[62] GIG Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion - Fepio a Smygu ymhlith Dysgwyr ym Mlwyddyn 7 i 11 yng Nghymru - Dadansoddiad o Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr mewn ysgolion uwchradd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, 2023

- Ers 2021, mae fepio wedi cynyddu ymhlith merched, dysgwyr blwyddyn 11 a rhai nad ydynt yn ysmygu, ond cynyddodd fepio wythnosol rhwng 2021 a 2023 ym mhob grŵp blwyddyn ac eithrio blwyddyn saith
- Mae merched (8.6%) yn fwy tebygol o fepio'n rheolaidd na bechgyn (5.1%). Mae'r rhai ym mlwyddyn 11 (15.9%) yn fwy tebygol o fepio na'r rhai mewn grwpiau blwyddyn iau
- Mae mwy na chwarter (25.7%) o'r holl ddysgwyr ym mlwyddyn saith i 11 wedi rhoi cynnig ar fêp, sef cynnydd o 20.5% (2021). Ymhlith dysgwyr blwyddyn 11 roedd y ffigwr yn 45.4%
- Dim ond 2.7% o ddysgwyr ym mlynyddoedd saith i 11 sydd bellach yn ysmygu'n rheolaidd. Mae mwyafrif y rhain hefyd yn fepio
- Mae nifer y dysgwyr ym mlwyddyn saith i 11 sy'n fepio yn unig yn 5.2%, sy'n uwch nag yn 2021 (3.5%)
- Mae cyfran y dysgwyr sy'n ysmygu yn unig a'r gyfran sy'n ysmygu ac yn fepio'n rheolaidd wedi gostwng ers 2021
- Ar hyn o bryd, mae defnyddio nicotin trwy ysmygu neu fepio o leiaf unwaith yr wythnos yn 8.0% ymhlith dysgwyr ym mlynyddoedd saith i 11. Mae'r gyfran hon wedi cynyddu ar bob Arolwg ers 2019 pan oedd yn 5.4%
- Mae'r data'n darparu tystiolaeth bod nifer cynyddol o ddysgwyr nad ydynt erioed wedi ysmygu'n rheolaidd ac na fyddent byth yn gwneud hynny, yn fepio'n rheolaidd

Dengys y tabl isod ganran y bobl ifanc 11 i 16 oed a oedd yn ysmygwyr a defnyddwyr E-sigaréts wythnosol yn 2023. Cymerwyd y canlyniadau o Ddangosfwrdd Iechyd a Lles Plant Ysgolion Uwchradd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru: Data Arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion[63].

Tabl 3.11: Canran yr ysmygwyr a defnyddwyr e-sigaréts wythnosol yn eu harddegau yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2023

Ardal	Canran yr ysmygwyr wythnosol rhwng 11 a 16 oed	Canran y defnyddwyr e-sigaréts wythnosol rhwng 11 a 16 oed
Pen-y-bont ar Ogwr	2.1%	7.4%
Merthyr Tudful	4.2%	10.2%
Rhondda Cynon Taf	2.3%	7.5%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2.5%	7.8%
Cymru	2.6%	6.9%

3.2.2.2 Gordewdra, diet a gweithgarwch corfforol

Mae cyffredinrwydd gordewdra ar gynnydd yng Nghymru, (fel y mae'n fyd-eang).

[63] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Dangosfwrdd Iechyd a Lles Plant Ysgolion Uwchradd: Data Arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Mae bod dros bwysau neu'n ordew yn cynyddu'r risg o ystod eang o glefydau cronig, yn bennaf diabetes math 2, gorbwysedd, clefyd cardiofasgwlaidd gan gynnwys strôc, yn ogystal â rhai mathau o ganser, clefyd yr arennau, apnoea cwsg rhwystrol, y gymalwst, osteoarthritis, a chlefyd yr afu, ymhlith eraill[64].

Mae gordewdra yn gymhleth a gall nifer o ffactorau ddylanwadu arno, gan gynnwys penderfynyddion economaidd, masnachol, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan dorri ar draws adrannau'r llywodraeth.

Mynegai màs y corff uchel (h.y. bod dros bwysau neu'n ordew) ac anweithgarwch corfforol yw trydydd a phedwerydd prif achos afiechyd yn y DU. Gyda'i gilydd, gellir dadlau mai nhw yw'r cyfrannwr pwysicaf at les gwael mewn cymunedau heddiw. Mae gordewdra plentyndod yn arwain at ordewdra oedolion, ac yn ei waethygu, sydd yn ei dro'n achosi neu'n gwaethygu ein cyflyrau salwch hirdymor cyfyngol mwyaf cyffredin. Derbynnir yn helaeth fod gordewdra oedolion yn arwain at lai o ddisgwyliad oes iach ac at ddisgwyliad oes byrrach.

Mae diet iach, cytbwys yn elfen hanfodol o fywyd iach. Mae diet cytbwys ynghyd â gweithgarwch corfforol yn helpu i reoleiddio pwysau'r corff ac yn cyfrannu at iechyd da. Mae cynnal pwysau corff iach hefyd yn lleihau risg problemau iechyd fel diabetes, clefyd coronaidd y galon, strôc a rhai canserau. Mae gweithgarwch corfforol rheolaidd yn rhan hanfodol o fyw'n iach. Mae diffyg gweithgarwch corfforol ymhlith prif achosion salwch y gellir ei osgoi a marwolaeth gynamserol.

Yn ôl cyngor y llywodraeth, dylai pawb gael o leiaf bum dogn o amrywiaeth o ffrwythau a llysiau bob dydd. Mae dogn o ffrwythau neu lysiau i oedolyn yn 80g. Mae canllawiau gweithgarwch corfforol ar gyfer oedolion rhwng 19 a 64 oed yn cynnwys o leiaf 150 munud o weithgaredd dwysedd cymedrol yr wythnos neu 75 munud o weithgaredd dwysedd egnïol yr wythnos.

Dengys y tabl isod ganran yr oedolion 16 oed a hŷn, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf sydd wedi hunan-adrodd ymddygiadau ffordd o fyw, fel y cofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[65] rhwng 2021 a 2023.

[64] GIG Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru - Gordewdra a gorbwysau
[65] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)

Tabl 3.12: Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw yn ôl awdurdod lleol a Chymru, 2021 i 2023

Ardal	Poblogaeth 16 oed a hŷn[66], [67]	Dros bwysau gyda mynegai màs y corff o 25+	Gordew gyda mynegai màs y corff o 30+	Gweithgarwch corfforol am 150 munud yr wythnos	Wedi bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol
Pen-y-bont ar Ogwr	122,161	70.0%	30.0%	51.0%	32.0%
Merthyr	47,880	75.0%	33.0%	48.0%	22.0%
Rhondda Cynon Taf	199,852	65.0%	28.0%	54.0%	22.0%
Cymru	2,641,000	62%	25%	56%	29%

Mae'r tabl isod yn cymharu'r awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'n dangos canrannau'r oedolion (16 oed a hŷn) sydd wedi hunanadrodd ymddygiadau ffordd o fyw yn y cyfnod 2021-2023, ac ymhle mae safleoedd Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Safle: Yn gyntaf (un) mae'r awdurdod lleol gyda'r ganran isaf o oedolion a 22 yw'r awdurdod lleol gyda'r ganran uchaf.

[66] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024
[67] Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2025 - Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024

Tabl 3.13: Cymhariaeth o oedolion (16 oed a hŷn) a hunanadroddodd ymddygiadau ffordd o fyw ar gyfer y cyfnod 2021-2023 ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru, ac ymhle mae safleoedd Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, a Rhondda Cynon Taf

Ymddygiad ffordd o fyw	Ystod canran ffordd o fyw	Pen-y-bont ar Ogwr	Merthyr Tudful	Rhondda Cynon Taf	Awdurdod lleol rhif un (isaf)	Awdurdod lleol rhif 22 (uchaf)
Bod dros bwysau (mynegai màs y corff dros 25)	51.0% - 77.0%	19eg	21ain	16eg	Powys	Blaenau Gwent
Bod yn ordew (mynegai màs y corff dros 30)	17.0% - 37.0%	18fed	21ain	14eg	Sir Ddinbych	Blaenau Gwent
Bod yn egnïol am 150 munud yn yr wythnos	37.0% - 69.0%	Nawfed	Chweched	12fed	Conwy	Bro Morgannwg
Wedi bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol	14.0% - 41.0%	15fed	Pedwerydd	Chweched	Blaenau Gwent	Caerdydd

Dengys y tabl isod y cyffredinrwydd a gofnodwyd yn seiliedig ar fframwaith ansawdd a chanlyniadau 2025, o ran y cyfraddau cyffredinrwydd a adroddwyd gan feddygfeydd teulu ar gyfer gordewdra ar draws clystyrau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Caiff y ffigurau eu cymharu â chyfraddau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chymru.

Tabl 3.14: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai gordew yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025[68]

Ardal	Cyffredinrwydd gordewdra
Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	12.0%
Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	21.3%
Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	13.1%
Gogledd Merthyr Tudful	19.8%
De Merthyr Tudful	15.1%
Gogledd Cwm Cynon	18.9%
De Cwm Cynon	19.8%
Gogledd Cwm Rhondda	16.7%
De Cwm Rhondda	19.6%
Gogledd Taf Elái	16.9%
De Taf Elái	12.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	16.4%
Cymru	14.4%

Mae gan y bwrdd iechyd gyffredinrwydd uwch o orbwysedd na'r gyfradd ar gyfer Cymru (16.4% a 14.4% yn y drefn honno).

Ar draws clystyrau Pen-y-bont ar Ogwr, mae cyffredinrwydd gordewdra a gofnodwyd yn amrywio o 12.0% (Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr) i 21.3% (Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr). Mae dau o'r tri chlwstwr yn is na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr a Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr) ac mae un clwstwr yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr).

Yng nghlystyrau Merthyr Tudful, mae cyffredinrwydd gordewdra a gofnodwyd yn amrywio o 15.1% (De Merthyr Tudful) i 19.8% (Gogledd Merthyr Tudful). O'r ddau glwstwr mae un yn is na chyfradd y bwrdd iechyd ond yn uwch na chyfradd Cymru (De Merthyr Tudful) ac mae'r clwstwr arall yn uwch na chyfraddau bwrdd iechyd a Chymru (Gogledd Merthyr Tudful).

Ar gyfer clystyrau Rhondda Cynon Taf, mae cyffredinrwydd gordewdra a gofnodwyd yn amrywio o 12.1% (De Taf Elái) i 19.8% (De Cwm Rhondda). Mae pob clwstwr yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru, ac eithrio De Taf Elái sy'n is na'r ddwy.

Dengys y tabl isod yr ystod cyffredinrwydd gordewdra a gofnodwyd yn ôl ardal awdurdod lleol, o gymharu â chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru.

[68] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

Tabl 3.15: Ystod o gyffredinrwydd gordewdra canrannol a amcangyfrifir yn seiliedig ar bobl ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2025

Ardal	Cyffredinrwydd gordewdra
Pen-y-bont ar Ogwr	12.0% - 21.3%
Merthyr Tudful	15.1% - 19.8%
Rhondda Cynon Taf	12.1% - 19.8%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	16.4%
Cymru	14.4%

3.2.2.3 Alcohol[69,70]

Yn 2016, cyhoeddodd Prif Swyddog Meddygol y DU ganllawiau newydd sy'n cynghori yfed dim mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos i gadw risgiau iechyd yn isel[71]. Mae defnyddio alcohol yn parhau i fod yn her fawr i iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'n gysylltiedig â datblygiad llawer o gyflyrau iechyd fel pwysedd gwaed uchel, clefyd y galon, sirosis yr afu a chanserau'r geg, y gwddf a chanser y fron. Fe'i nodwyd hefyd yn ffactor achosol (mae yfed alcohol yn achos uniongyrchol neu rannol) mewn mwy na 200 o gyflyrau meddygol.

Mae camddefnyddio alcohol hefyd yn achosi cwympiadau, damweiniau ac anafiadau yn ogystal â phroblemau cymdeithasol fel ymosodiadau a throseddau. Yng Nghymru, mae 49% o'r holl droseddau treisgar yn gysylltiedig ag alcohol, yn ogystal â chyfrannu at drefn gyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau, esgeulustod plant, trais domestig a phartner agos a cham-drin unigolion sy'n agored i niwed[72].

Tyfu i fyny mewn teuluoedd lle mae camddefnyddio alcohol neu sylweddau yn broblem a gall gael effeithiau negyddol sy'n parhau ymhell i oedolaeth. Bu 14% o oedolion yn agored i gamddefnyddio alcohol yn ystod plentyndod. Gall lleihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gwtogi 35% ar lefelau yfed niweidiol.

Yn 2023, cynyddodd marwolaethau penodol i alcohol (a achosir yn gyfan gwbl gan alcohol) yng Nghymru i'r lefel uchaf erioed gyda 562 o farwolaethau wedi'u cofnodi, sy'n nodi cynnydd o 16.0% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (486). O'r marwolaethau penodol i alcohol yn 2023, roedd bron i ddwy ran o dair (64.8%) yn ymwneud â dynion.

Mae derbyniadau i'r ysbyty sy'n benodol i alcohol yn parhau i gynyddu, a thros 12,000 o dderbyniadau yn cynnwys mwy nag 8,000 o unigolion. Oedolion hŷn 50 oed a hŷn oedd dwy ran o dair (67.0%) o'r achosion hynny.

[69] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Alcohol
[70] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn uwch nag erioed yng Nghymru yn amlygu pryderon brys iechyd y cyhoedd (Mawrth 2025)
[71] Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol - UK Chief Medical Officers' Low Risk Drinking Guidelines (2016)
[72] Alcohol Change UK - Alcohol, crime and disorder

Er bod derbyniadau cyffredinol i'r ysbyty sy'n benodol i alcohol ymhlith y rhai dan 25 oed wedi gostwng 17.4% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, cyrhaeddodd nifer y gwaharddiadau ysgol sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol lefel uwch nag erioed sef 939 o achosion ym mlwyddyn academaidd 2022/23.

Cyflwyna'r tabl isod ganran yr oedolion 16 oed a hŷn, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf sydd wedi hunan-adrodd eu bod yn yfed 14 uned neu ragor yr wythnos, fel y cofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[73] rhwng 2021 a 2023.

Tabl 3.16: Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n adrodd eu bod yn yfed 14 uned neu ragor yr wythnos, yn ôl awdurdod lleol a Chymru, 2021 i 2023[74]


Ardal	Poblogaeth 16 oed a hŷn[75, 76]	Canran yr oedolion a ddywedodd eu bod yn yfed 14 uned neu ragor yr wythnos
Pen-y-bont ar Ogwr	122,161	14.0%
Merthyr Tudful	47,880	15.0%
Rhondda Cynon Taf	199,852	16.0%
Cymru	2,641,000	16.0%

Roedd canran yr oedolion a ddywedodd eu bod yn yfed 14 neu ragor o unedau alcohol yr wythnos yn y cyfnod 2021-2023, ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru, yn dangos bod y ganran isaf o oedolion yn Ynys Môn (12.0%) a'r ganran uchaf yn Sir Fynwy (24%), bod Pen-y-bont ar Ogwr yn y pumed safle, Merthyr Tudful yn y nawfed a Rhondda Cynon Taf yn y 13eg.

Amlyga'r ffigur isod y patrymau yfed a grybwyllwyd yn y bwrdd iechyd, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf o'u cymharu â'r gyfradd ar gyfer Cymru.

[73] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)
[74] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)
[75] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024
[76] Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2025 - Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024

Ffigur 3.1: Lefelau yfed wythnosol oedolion yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru (2021-2023)[77]



Allwedd

Lefelau yfed alcohol yr wythnos
1. Heb yfed (dim unedau)
2. Yfwr cymedrol (hyd at ac yn cynnwys 14 uned)
3. Yfwr peryglus (hyd at 35 uned i fenywod a 50 uned i ddynion)
4. Yfwr peryglus (mwy na 35 uned i fenywod a 50 uned i ddynion)

Yn 2021-23, y gyfradd Ewropeaidd, wedi'i safoni o ran oedran, o farwolaethau priodoladwy i alcohol yng Nghymru oedd 54.9 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth, sef 3.4% o gynnydd o'i chymharu â 2020-22[78].

Mae'r cyfartaledd treigl tair blynedd o farwolaethau o achosion penodol i alcohol dros y cyfnod adrodd pum mlynedd diweddaraf yn dangos bod y gyfradd marwolaethau Ewropeaidd, wedi'i safoni o ran oedran, fesul 100,000 o'r boblogaeth wedi cynyddu rhwng 2017-19 a 2021-23. Yn 2021-23, y gyfradd Ewropeaidd gyfartalog dreigl tair blynedd, wedi'i safoni o ran oedran, oedd 16.0 o farwolaethau penodol i alcohol fesul 100,000 o'r boblogaeth. Mae'r gyfradd hon wedi cynyddu'n raddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Y gyfradd fesul 100,000 yn y bwrdd iechyd oedd 21.0. Y

[77] Gofal Cymdeithasol Cymru - Porth data gofal cymdeithasol cenedlaethol i Gymru - Yfed
[78] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Cloddio data Cymru: Y proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2023/24

bwrdd iechyd oedd yr uchaf o'r saith bwrdd iechyd, yr ail uchaf oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (18.4), yr isaf oedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (10.9).

3.3 Heneiddio'n iach

3.3.1 Pwysau geni isel

Diffinnir pwysau geni isel fel pwysau geni sy'n llai na 2.5kg (tua 5.5 pwys) a gall fod yn gysylltiedig â risgiau iechyd ym mlwyddyn gyntaf bywyd baban[79]. Mae agweddau ar ffordd o fyw mamau, fel ysmygu, yn dylanwadu ar bwysau geni isel. Mae pwysau geni yn gysylltiedig yn wrthdro â marwolaethau babanod, disgwyliad oes, ac mae'n rhagfynegi dyfodiad cyflyrau cronig yn ystod bywyd oedolion[80].

Yn 2024 roedd gan y bwrdd iechyd ganran uwch o bwysau geni isel o'i gymharu â Chymru (6.9% a 6.3% yn y drefn honno), ac ym Merthyr Tudful oedd y ganran uchaf o'r tri awdurdod lleol gydag 8.0% o'i gymharu â Phen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (5.9% a 7.2% yn y drefn honno)[81].

3.3.2 Bwydo ar y fron

Mae bwydo ar y fron yn darparu'r dechreuad maethol gorau i fywyd baban. Yn 2024, roedd cyfraddau bwydo ar y fron yng Nghymru ar eu huchaf erioed yn ddeg diwrnod oed, chwe wythnos oed a chwe mis oed. Roedd 64.0% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron adeg eu geni. Roedd 57.3% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron yn ddeg diwrnod oed, 44.1% yn chwe wythnos oed a 32.5% yn chwe mis oed.

Yn 2024, canran y babanod a gafodd eu bwydo ar y fron (unrhyw fwydo ar y fron) yn ardal y bwrdd iechyd[82] adeg eu geni oedd 56.1%, yna 46.8% yn ddeg diwrnod oed, 32.8% yn chwe wythnos oed a 22.8% yn chwe mis oed. Roedd y cyfraddau canrannol hyn yn is o'u cymharu â chyfraddau Cymru.

3.3.3 Plant sy'n byw mewn tlodi

Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024[83]" newydd, sef strategaeth ddeng mlynedd, yn lle "Strategaeth Tlodi Plant" 2015. Mae'r strategaeth yn nodi'r dull hirdymor o fynd i'r afael â thlodi plant a chyflawni canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc, waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau. Darparu fframwaith strategol i wneud y gorau o'r ysgogiadau sydd ar gael i gyfrannu at ddileu tlodi plant.

---

[79] Llywodraeth Cymru - Ystadegau mamolaeth a genedigaethau: 2024
[80] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Pwysau Geni Isel - Adroddiad cryno adolygiad o ffactorau risg ac ymyriadau (2014)
[81] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus
[82] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Bwydo ar y fron yn ôl oedran y babi, y math o fwydo ar y fron a'r bwrdd iechyd lleol
[83] Llywodraeth Cymru - Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024

Ym mis Rhagfyr 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Fframwaith Monitro Strategaeth Tlodi Plant[84]" newydd, yn lle "Fframwaith Monitro Strategaeth Tlodi Plant" 2024. Mae'r fframwaith monitro yn cyflwyno data cadarn ar lefel poblogaeth ar draws ystod o ddangosyddion tlodi plant, gan gynnig mewnwelediad i effaith camau gweithredu a chyfeiriad teithio wrth wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae canran y bobl yn Rhondda Cynon Taf (27.2%) a Merthyr Tudful (27.7%, a'r ail ganran uchaf yng Nghymru ar ôl Blaenau Gwent) rhwng 0 a 15 oed sy'n byw mewn tlodi yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru (24.0%). Pen-y-bont ar Ogwr sydd â'r gyfradd isaf, sef 22.5%[85].

3.3.4 Iechyd y geg

Mae modd atal pydredd dannedd ymhlith plant ifanc i raddau helaeth. Gall arwain at boen, heintiau, ac anawsterau bwyta, cysgu a chymdeithasu. Mae'n gysylltiedig â maeth gwael a gordewdra ac mae wedi'i gysylltu'n agos ag anfantais gymdeithasol ac economaidd. Mae iechyd y geg yn agwedd bwysig ar statws iechyd cyffredinol plentyn ac ar ei barodrwydd i fynd i'r ysgol[86].

Yn 2024/25, o'r 1,227 o blant pum mlwydd oed a archwiliwyd mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth yn ardal y bwrdd iechyd:[87]

- Effeithiodd pydredd dannedd ar 29.7% (amrywiad ledled Cymru rhwng 20.2% a 36.0%), sef gostyngiad ers 2022/23.
- Roedd cyffredinrwydd pydredd dannedd ar ei uchaf ym Merthyr Tudful (34.8%) ac ar ei isaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr (27.2%).
- Effeithiodd pydredd dannedd ar 1.05 o ddannedd, sy'n ostyngiad yn nifrifoldeb pydredd dannedd ers 2022/23 ond yn dal yn uwch na'r gyfradd yng Nghymru.
- Roedd gan 25.9% o blant bydredd dannedd heb ei drin, yn uwch na'r gyfradd yng Nghymru.
- Cafodd iechyd y geg effaith negyddol ar 15.3% o'r plant a archwiliwyd, o gymharu â 17.7% ledled Cymru.

Yn 2023/24, o'r 807 o blant 12 oed a archwiliwyd mewn 29 o ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth yn ardal y bwrdd iechyd:[88]

- Roedd pydredd dannedd yn effeithio ar 21.9% (dros un o bob pump) o blant, yn is na Chymru.
- Ledled Cymru, roedd cyffredinrwydd pydredd dannedd yn effeithio ar blant yn amrywio o 16.8% i 36.4%.

[84] Llywodraeth Cymru - Fframwaith Monitro Strategaeth Tlodi Plant 2025
[85] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus
[86] Public Health England. Health Matters: Child dental health. O: Health Matters: Child dental health - Public health matters (blog.gov.uk)
[87] Iechyd Cyhoeddus Cymru – Rhaglen epidemioleg ddeintyddol i Gymru
[88] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Iechyd y geg ymhlith plant blwyddyn ysgol saith (12 oed) 2023/2024 Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

- Ar draws awdurdodau lleol a Chymru roedd y cyffredinrwydd yn amrywio o 16.8% (Pen-y-bont ar Ogwr) i 24.8% (Merthyr Tudful), a chyfradd Cymru oedd 25%.
- Mae gan oddeutu un o bob wyth o blant bydredd dannedd heb ei drin (12.4%)
- Cafodd iechyd y geg effaith negyddol ar 41.2% o'r plant a archwiliwyd, o gymharu â 28.1% ledled Cymru.

3.3.5 Iechyd rhywiol

Cyhoeddodd Coleg Brenhinol y Bydwragedd "Cyflwr gwasanaethau mamolaeth Cymru 2023[89]" ac isod ceir rhai o'r canfyddiadau o'r ddogfen hon:

- Mae cyfansoddiad demograffig menywod sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru yn newid, er enghraifft, mae mwyafrif y menywod sy'n rhoi genedigaeth yng Nghymru bellach dros 30 oed. Newid sylweddol dros y degawd diwethaf, lle mae cyfran y genedigaethau i fenywod 30 oed neu hŷn wedi neidio o 42% (2011) i 53% (2021).
- Cafodd ychydig dros 15,000 o fabanod eu geni i fenywod 30 oed neu hŷn, ac ychydig dros 13,500 o enedigaethau i fenywod a merched iau.
- Roedd bron i chwech o bob deg menyw feichiog yng Nghymru yn 2021 dros bwysau neu'n ordew. Mae mynegai màs y corff uwch yn ystod beichiogrwydd yn ffactor risg sylweddol, i fenywod a'u babanod, a gall arwain at gyflyrau fel diabetes yn ystod beichiogrwydd.
- Yn 2021 cyfanswm nifer y genedigaethau "byw" yng Nghymru oedd 28,879, ac roedd 4,213 ohonynt yn y bwrdd iechyd.
- Yn 2021, yr oedran mwyaf cyffredin i famau yn y bwrdd iechyd oedd 30-34, ac yna 25-29. Yr oedran lleiaf cyffredin oedd 19 oed ac iau.

Yn 2022, o'r awdurdodau lleol yng Nghymru, roedd Pen-y-bont ar Ogwr yn yr 16eg safle gyda 17.8 achos o feichiogi fesul 1,000 o fenywod 18 oed ac iau, roedd Merthyr Tudful yn y degfed safle gyda 15.5 achos o feichiogi a Rhondda Cynon Taf yn yr 22ain safle (24.4)[90].

Mae data o'r adroddiad diweddaraf ar Dueddiadau Iechyd Rhywiol yng Nghymru[91] wedi dangos bod yr achosion o ddiagnosio gonorea wedi cynyddu 27.0% yn 2023 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan gyrraedd cyfanswm o 5,292 o achosion. Yn yr un modd, cynyddodd achosion o ddiagnosio siffilis 20.0%, gyda 507 o achosion wedi'u cofnodi, gan nodi cynnydd o 17.0% o'r brig blaenorol yn 2019[92].

[89] Coleg Brenhinol y Bydwragedd – Cyflwr gwasanaethau mamolaeth Cymru 2023
[90] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Conceptions in England and Wales
[91] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Tueddiadau Iechyd Rhywiol yng Nghymru: Adroddiad Blynyddol 2024 ar Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol, Darpariaeth
Atal Cenhedlu ar Frys ac Atal Cenhedlu Cyfnod Hir Gwrthdroadwy a Therfynu Beichiogrwydd (Data hyd at ddiwedd 2023)
[92] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Achosion o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yn cynyddu yng Nghymru: Adroddwyd am gynnydd mewn Gonorea a Siffilis (Awst 2024)

Gall y cynnydd hwn fod yn rhannol oherwydd gwell ymdrechion profi, sydd wedi gwella'r broses o ganfod achosion. Fodd bynnag, mae hefyd yn debygol o gynrychioli cynnydd yn nhrosglwyddiad y clefydau hyn yng Nghymru. Bu cyflwyno'r gwasanaeth profion cartref Profi a Phostio[93] yn 2020 yn bwysig i sicrhau bod profion cyfrinachol am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ar gael i bawb yng Nghymru. Mae'r pecynnau hyn yn caniatáu i unigolion brofi am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol gartref.

Mae'r adroddiad yn amlinellu bod y profion cyffredinol am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ar y lefel uchaf mewn degawd. Yn 2023, cafodd 87,235 o unigolion eu profi am gonorea, a 65,742 am siffilis, sy'n dangos cynnydd sylweddol yn niferoedd y profion o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r ffaith bod profion ar gael mwyfwy bellach yn debygol o fod yn datgelu mwy o achosion a allai fod wedi mynd heb ddiagnosis yn y gorffennol, gan ddarparu darlun cliriach o'r heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ledled Cymru.

3.3.6 Eiddilwch a chwympiadau ymhlith pobl hŷn

Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o gwympo. Maent hefyd yn fwy tebygol o ddioddef canlyniadau difrifol, megis colli annibyniaeth a hyder, gan arwain at ddirywiad corfforol a meddyliol ac eiddilwch. Gall eiddilwch ei hun achosi cwympiadau. Gall eiddilwch fod naill ai'n gorfforol neu'n seicolegol, neu'n gyfuniad o'r ddau. Fel arfer, mae'n golygu bod person mewn mwy o berygl o ddirywio'n sydyn yn ei iechyd corfforol a meddyliol. Mae nodi pobl a allai fod yn byw gydag eiddilwch yn ymyriad allweddol wrth atal cwympiadau.

Yn aml, gellir atal cwympiadau a thoresgyrn ymhlith pobl hŷn. Mae lleihau cwympiadau a thoresgyrn yn bwysig ar gyfer cynnal iechyd, lles ac annibyniaeth pobl hŷn.

Mae nifer o ffactorau'n cyfrannu at achosion cwymp – mae cwymp o ganlyniad i ryngweithio rhwng nifer o ffactorau risg. Yn eu plith mae:

- Gwendid cyhyrau
- Cydbwysedd gwael
- Nam ar y golwg
- Amlgyffuriaeth – a defnyddio meddyginiaethau penodol
- Peryglon amgylcheddol
- Rhai cyflyrau meddygol penodol, a allai wneud person yn fwy tebygol o gwympo

Digwyddiadau sy'n deillio o bresenoldeb ffactorau risg yw cwympiadau. Mae tebygolrwydd a difrifoldeb anaf sy'n deillio o ddigwyddiad yn gysylltiedig â nifer o ffactorau posibl gan gynnwys iechyd esgyrn, risg o gwympiadau, eiddilwch a phwysau isel. Mae esgyrn cryf yn bwysig i iechyd person. Mae pobl â dwysedd

[93] Iechyd Rhywiol Cymru GIG Cymru - Profi a Phostio: Profi cartref am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol

mwynol esgyrn isel yn fwy tebygol o dorri asgwrn ar ôl cwympo. Osteoporosis yw un o'r rhesymau pam mae gan bobl ddwysedd mwynol esgyrn isel.

Mae osteoporosis ar fwy na thair miliwn o bobl yn y DU ac maen nhw mewn llawer mwy o berygl o doresgyrn eiddilwch. Toresgyrn eiddilwch yw toresgyrn sy'n deillio o rymoedd mecanyddol na fyddent fel arfer yn arwain at dorasgwrn, a elwir yn drawma lefel isel (neu 'egni isel'). Mae toriadau clun yn unig yn cyfrif am 1.8 miliwn o ddiwrnodau gwely ysbyty a £1.1 biliwn o gostau ysbyty bob blwyddyn, ac eithrio cost uchel gofal cymdeithasol.

Yn y DU, mae bron i draean o bobl dros 65 oed yn cwympo o leiaf unwaith ac amcangyfrifir bod 500,000 o doresgyrn eiddilwch bob blwyddyn.

Yn yr asgwrn cefn, ac esgyrn yr arddyrnau a'r cluniau y mae toresgyrn eiddilwch yn fwyaf cyffredin. Dechreua risg osteoporosis gynyddu mewn menywod ar ôl y menopos am nad yw eu hofarïau bellach yn cynhyrchu estrogen, sy'n helpu i amddiffyn yr esgyrn. Gall pobl hefyd fod mewn mwy o berygl o osteoporosis am ei fod yn rhedeg yn eu teulu neu oherwydd sgil-effeithiau rhai meddyginiaethau fel tabledi neu bigiadau steroid. Mae therapïau a thriniaethau ar gael i helpu i atal toresgyrn ymhlith pobl ag osteoporosis.

Y ffactorau eraill a all hefyd olygu bod person yn fwy tebygol o dorri asgwrn yw:

- Pwysau corff isel (mynegai màs y corff yn llai na 19)
- Deiet sy'n brin o galsiwm a fitamin D
- Symudedd gwael
- Ysmygu
- Alcohol
- Diabetes, a
- Rhai meddyginiaethau hirdymor, yn enwedig corticosteroidau.

Dengys y tabl isod y cyffredinrwydd a gofnodwyd yn seiliedig ar fframwaith ansawdd a chanlyniadau 2025 gan feddygfeydd teulu o ran osteoporosis (50 oed a throsodd) ar draws clystyrau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Caiff y ffigurau eu cymharu â chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru.

Tabl 3.17: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai ag osteoporosis (50 oed a throsodd) yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025[94]

Ardal	Osteoporosis (50 oed a hŷn)
Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	0.6%
Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	0.6%
Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	0.4%
Gogledd Merthyr Tudful	0.4%
De Merthyr Tudful	0.1%
Gogledd Cwm Cynon	0.2%
De Cwm Cynon	0.2%
Gogledd Cwm Rhondda	0.2%
De Cwm Rhondda	0.4%
Gogledd Taf Elái	0.4%
De Taf Elái	0.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	0.4%
Cymru	0.6%

Mae osteoporosis yn is yn y bwrdd iechyd (0.4%) nag yng Nghymru (0.6%).

Yng nghlystyrau Pen-y-bont ar Ogwr, mae cyfraddau osteoporosis yn amrywio o 0.4% (Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr) i 0.6% (Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr a Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr). Mae un o'r tri chlwstwr yn hafal i gyfradd y bwrdd iechyd, ond yn is na chyfradd Cymru (Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr). Mae dau glwstwr yn uwch na chyfradd y bwrdd iechyd ac yn hafal i gyfradd Cymru (Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr a Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr).

Ym Merthyr Tudful, mae cyfraddau osteoporosis yn amrywio o 0.1% (De Merthyr Tudful) i 0.4% (Gogledd Merthyr Tudful). Mae un clwstwr yn hafal i gyfradd y bwrdd iechyd ond yn is na chyfradd Cymru ac mae un clwstwr yn is na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru.

Yn Rhondda Cynon Taf, mae cyfraddau osteoporosis yn amrywio o 0.2% (Gogledd Cwm Cynon, De Cwm Cynon a Gogledd Cwm Rhondda) i 0.6% (De Taf Elái). Mae pump o'r chwe chlwstwr yn is neu'n hafal i gyfradd y bwrdd iechyd ac mae pob clwstwr yn is neu'n hafal i gyfradd Cymru.

Dengys y tabl isod yr ystod cyffredinrwydd osteoporosis (50 oed a hŷn) a gofnodwyd yn ôl ardal awdurdod lleol, o gymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru.

[94] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

Tabl 3.18: Ystod o gyffredinrwydd osteoporosis (50 oed a hŷn) canrannol a amcangyfrifir yn seiliedig ar bobl ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2025[95]

Ardal	Ystod cyffredinrwydd canrannol osteoporosis (50 oed a hŷn)
Pen-y-bont ar Ogwr	0.4% - 0.6%
Merthyr Tudful	0.1% - 0.4%
Rhondda Cynon Taf	0.2% - 0.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	0.4%
Cymru	0.6%

3.3.7 Dementia

Term yw dementia a ddefnyddir i ddisgrifio casgliad o symptomau gan gynnwys colli cof, problemau gyda rhesymu, canfyddiad a sgiliau cyfathrebu. Caiff ei achosi gan wahanol glefydau'r ymennydd, a chlefyd Alzheimer yn fwyaf cyffredin. Mae dementia yn fater iechyd a gofal cymdeithasol sylweddol sy'n effeithio nid yn unig ar y rhai sy'n byw gyda dementia, ond hefyd ar eu teuluoedd, ffrindiau a gofalwyr. Mae'n fwy cyffredin ymhlith pobl hŷn.

Mae dementia yn her iechyd fyd-eang fawr a chynyddol[96]. Yn 2019, amcangyfrifir bod 57 miliwn o bobl ledled y byd yn byw gyda'r cyflwr, ffigur y rhagwelir y bydd yn codi i 153 miliwn erbyn 2050. Ar hyn o bryd, hwn yw seithfed prif achos marwolaeth yn fyd-eang ac mae'n cyfrannu'n helaeth at anabledd ymhlith oedolion hŷn.

Awgryma ymchwil y gellid atal hyd at 45.0% o achosion dementia trwy fynd i'r afael â 14 ffactor risg addasadwy yn ystod oes. Yn eu plith mae:

- Anweithgarwch corfforol
- Ysmygu
- Yfed gormodol o alcohol
- Colli clyw a golwg heb ei drin
- Ynysigrwydd cymdeithasol, a
- Chyflyrau fel gorbwysedd, diabetes, a gordewdra.

Mae'r dystiolaeth hon yn herio'r farn hirsefydlog bod dementia yn rhan anochel o heneiddio ac yn amlygu pwysigrwydd gweithredu cynnar a pharhaus i ddiogelu iechyd yr ymennydd.

Dengys y tabl isod y cyffredinrwydd a gofnodwyd yn seiliedig ar fframwaith ansawdd a chanlyniadau 2025 o ran y cyfraddau cyffredinrwydd a adroddwyd gan feddygfeydd teulu ar gyfer dementia ar draws clystyrau ym Mhen-y-bont ar Ogwr,

[95] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[96] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Gellid Atal Bron i Hanner yr Achosion o Ddementia drwy Newidiadau i Ffordd o Fyw (Mawrth 2026)

Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Caiff y ffigurau eu cymharu â chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru.

Tabl 3.19: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai â dementia yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025[97]

Ardal	Cyffredinrwydd dementia
Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	0.7%
Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	0.7%
Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	0.9%
Gogledd Merthyr Tudful	0.6%
De Merthyr Tudful	0.6%
Gogledd Cwm Cynon	0.7%
De Cwm Cynon	0.5%
Gogledd Cwm Rhondda	0.7%
De Cwm Rhondda	0.8%
Gogledd Taf Eláí	0.6%
De Taf Eláí	0.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	0.7%
Cymru	0.8%

Mae cyffredinrwydd dementia yn is yn y bwrdd iechyd nag yng Nghymru (0.7% a 0.8% yn y drefn honno).

Ar draws clystyrau Pen-y-bont ar Ogwr, mae cyffredinrwydd dementia a gofnodwyd yn amrywio o 0.7% (Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr a Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr) i 0.9% (Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr). Mae dau o'r tri chlwstwr yn hafal i gyfradd y bwrdd iechyd ond yn is na chyfradd Cymru, ac mae un clwstwr yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru.

Mae gan glystyrau Merthyr Tudful yr un cyffredinrwydd dementia a gofnodwyd (0.6%), mae'r ddau glwstwr yn is na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru.

Ar gyfer clystyrau Rhondda Cynon Taf, mae cyffredinrwydd dementia a gofnodwyd yn amrywio o 0.5% (De Cwm Cynon) i 0.8% (De Cwm Rhondda). Mae pump o'r chwe chlwstwr yn is na chyfradd y bwrdd iechyd neu'n hafal iddi ac mae un clwstwr yn uwch (De Cwm Rhondda). Mae pob clwstwr yn is na chyfradd Cymru neu'n hafal iddi.

3.4 Canser a sgrinio

3.4.1 Canser

Y pedwar math mwyaf cyffredin o ganser yng Nghymru[98] yw canser y prostad,

[97] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[98] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Canser yng Nghymru – tueddiadau ac amcanestyniadau (Medi 2025)

canser y fron, canser yr ysgyfaint, a chanser y colon a'r rhefr. Roedd gan y mathau hyn o ganser rhwng 2,500 a 3,100 o achosion newydd yr un yn 2019. Gyda'i gilydd, roedden nhw'n ffurfio mwy na hanner yr holl achosion canser newydd yng Nghymru (heb gynnwys canser y croen nad yw'n felanoma).

Erbyn 2025, rhagamcanodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y byddai tua 24,000 o achosion canser newydd bob blwyddyn ymhlith pobl sy'n byw yng Nghymru, i fyny o ryw 20,000 yn 2019. Mae hyn yn bennaf oherwydd y bydd mwy o bobl hŷn nag yn y gorffennol, a chanser yn fwy cyffredin ymhlith pobl hŷn.

Mae canser yn achosi tuag un o bob pedwar o holl farwolaethau pobl sy'n byw yng Nghymru (2024). Canser yr ysgyfaint yw prif achos marwolaeth canser yng Nghymru ac yn 2024, achosodd 1,759 o farwolaethau, sydd bron ddwywaith cynifer â'r achos mwyaf cyffredin nesaf. Canserau eraill a achosodd fwy na 500 o farwolaethau yn 2024 oedd canser y colon a'r rhefr (987), canser o darddiad sylfaenol anhysbys (659), canser y prostad (624), canser y fron (590, 589 y fron fenywaidd)), a chanser y pancreas (555).

Nodir y mathau o ganser mwyaf cyffredin ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn unol ag Offeryn Adrodd Canser Iechyd Cyhoeddus Cymru (Mawrth 2026)[99].

Dengys y tabl isod ddigwyddedd y chwe math mwyaf cyffredin o ganser i fenywod rhwng 2020 a 2022.

Tabl 3.20: Digwyddedd canser yn ôl math o ganser, cyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni o ran oedran fesul 100,000, menywod, pob oedran, yn ôl bwrdd iechyd, awdurdod lleol a Chymru (cyfnod o dair blynedd, 2020 – 2022)

Ardal	Y fron	Yr ysgyfaint	Y colon a'r rhefr	Y groth	Melanoma y croen	Canser o darddiad sylfaenol anhysbys
Pen-y-bont ar Ogwr	132.4	67.2	49.3	29.9	36.1	18.4
Merthyr Tudful	153.3	77.9	47.4	41.2	28.2	21.0
Rhondda Cynon Taf	169.5	78.5	59.1	36.5	24.6	17.4
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	154.7	74.5	54.2	34.8	29.0	18.2
Cymru	163.3	68.1	58.7	31.4	28.4	16.2

[99] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Offeryn adrodd ar ganser Cymru (Mawrth 2026)

Ar draws y cyfnod o dair blynedd (2020–2022), mae Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn dangos patrymau digwyddedd gwahanol ar draws y mathau o ganser a ddangosir ar gyfer menywod (pob oedran) fesul 100,000.

- Roedd digwyddedd canser y fron yn uwch yn Rhondda Cynon Taf (169.5 fesul 100,000) na Phen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful (132.4 a 153.3 yn y drefn honno). Roedd Rhondda Cynon Taf yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (154.7 a 163.3 yn y drefn honno), tra bod Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful yn is.
- Roedd digwyddedd canser yr ysgyfaint yn uwch yn Rhondda Cynon Taf (78.5) na Phen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful (67.2 a 77.9 yn y drefn honno). Roedd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (74.5 a 68.1 yn y drefn honno), tra bod Pen-y-bont ar Ogwr yn is.
- Roedd digwyddedd canser y colon a'r rhefr yn uwch yn Rhondda Cynon Taf (59.1) na Phen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful (49.3 a 47.4 yn y drefn honno). Roedd Rhondda Cynon Taf yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (54.2 a 58.7 yn y drefn honno), tra bod Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful yn is.
- Roedd digwyddedd canser y groth yn uwch ym Merthyr Tudful (41.2) na Phen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (29.9 a 36.6 yn y drefn honno). Roedd Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (34.8 a 31.4 yn y drefn honno), tra bod Pen-y-bont ar Ogwr yn is.
- Roedd digwyddedd canser melanoma'r croen yn uwch ym Mhen-y-bont ar Ogwr (36.1) na Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf (28.2 a 24.6 yn y drefn honno). Roedd Pen-y-bont ar Ogwr yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (29.0 a 28.4 yn y drefn honno), tra bod Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn is.
- Roedd digwyddedd canser o darddiad sylfaenol anhysbys yn uwch ym Merthyr Tudful (21.0) na Phen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (18.4 a 17.4 yn y drefn honno). Roedd Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (18.2 a 16.2 yn y drefn honno), tra bod Rhondda Cynon Taf yn is na chyfradd y bwrdd iechyd, ond yn uwch na chyfradd Cymru.

Dengys y tabl isod ddigwyddedd y chwe math mwyaf cyffredin o ganser i ddynion rhwng 2020 a 2022.

Tabl 3.21: Digwyddedd canser yn ôl math o ganser, cyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni o ran oedran fesul 100,000, dynion, pob oedran, yn ôl bwrdd iechyd, awdurdod lleol a Chymru (cyfnod o dair blynedd, 2020 – 2022)

Ardal	Y prostad	Y colon a'r rhefr	Yr ysgyfaint	Melanoma y croen	Y pen a'r gwddf	Y llwybr wrinol ac eithrio'r bledren
Pen-y-bont ar Ogwr	195.6	96.7	69.8	40.0	38.3	20.8
Merthyr Tudful	195.5	121.5	95.0	50.4	40.9	21.4
Rhondda Cynon Taf	168.8	92.1	90.5	38.8	35.1	27.9
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	181.7	97.3	84.0	40.7	37.0	24.6
Cymru	164.4	94.0	79.9	32.9	31.8	27.9

Ar draws y cyfnod o dair blynedd (2020–2022), mae Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn dangos patrymau digwyddedd gwahanol ar draws y mathau o ganser a ddangosir ar gyfer dynion (pob oedran) fesul 100,000.

- Roedd digwyddedd canser y prostad yn uwch ym Mhen-y-bont ar Ogwr (195.6 fesul 100,000) a Merthyr Tudful (195.5) na Rhondda Cynon Taf (168.8). Roedd Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (181.7 a 164.4 yn y drefn honno), tra bod Rhondda Cynon Taf yn is na chyfradd y bwrdd iechyd, ond yn uwch na chyfradd Cymru.
- Roedd digwyddedd canser y colon a'r rhefr yn uwch ym Merthyr Tudful (121.5) na Phen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (96.7 a 92.1 yn y drefn honno). Roedd Merthyr Tudful yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (97.3 a 94.0 yn y drefn honno), tra bod Pen-y-bont ar Ogwr yn is na chyfradd y bwrdd iechyd ond yn uwch na chyfradd Cymru, a Rhondda Cynon Taf yn is na'r ddwy.
- Roedd digwyddedd canser yr ysgyfaint yn uwch ym Merthyr Tudful (95.0) na Phen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (69.8 a 90.5 yn y drefn honno). Roedd Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (84.0 a 79.9 yn y drefn honno), tra bod Pen-y-bont ar Ogwr yn is na'r ddwy.
- Roedd digwyddedd canser melanoma'r croen yn uwch ym Merthyr Tudful (50.4) na Phen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (40.0 a 38.8 yn y drefn honno). Roedd Merthyr Tudful yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (40.7 a 32.9 yn y drefn honno), tra bod Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf yn is na chyfradd y bwrdd iechyd ond yn uwch na chyfradd Cymru.

- Roedd digwyddedd canser y pen a'r gwddf yn uwch ym Merthyr Tudful (40.9) na Phen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (38.3 a 35.1 yn y drefn honno). Roedd Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (37.0 a 31.8 yn y drefn honno), tra bod Rhondda Cynon Taf yn is na chyfradd y bwrdd iechyd, ond yn uwch na chyfradd Cymru.
- Roedd digwyddedd canser y llwybr wrinol ac eithrio'r bledren yn uwch yn Rhondda Cynon Taf (27.9) na Phen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful (20.8 a 21.4 yn y drefn honno). Mae Rhondda Cynon Taf yn uwch na chyfradd y bwrdd iechyd ac yn hafal i gyfradd Cymru (24.6 a 27.9 yn y drefn honno), tra bod Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful yn is na'r ddwy.

Dengys y tabl isod gyffredinrwydd canser a gofnodwyd yn seiliedig ar fframwaith ansawdd a chanlyniadau 2025, ar draws clystyrau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Caiff y ffigurau eu cymharu â chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru.

Tabl 3.22: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai â chanser yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025[100]

Ardal	Cyffredinrwydd canser
Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	3.7%
Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	4.0%
Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	5.0%
Gogledd Merthyr Tudful	3.7%
De Merthyr Tudful	2.9%
Gogledd Cwm Cynon	3.0%
De Cwm Cynon	3.1%
Gogledd Cwm Rhondda	3.7%
De Cwm Rhondda	3.0%
Gogledd Taf Elái	3.0%
De Taf Elái	3.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	3.5%
Cymru	3.7%

Mae cyffredinrwydd canser yn is yn y bwrdd iechyd cyfan nag yng Nghymru (3.5% a 3.7% yn y drefn honno).

Yng nghlystyrau Pen-y-bont ar Ogwr, mae cyffredinrwydd canser a gofnodwyd yn amrywio o 3.7% (Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr) i 5.0% (Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr). Mae'r tri chlwstwr i gyd yn uwch na chyfradd y bwrdd iechyd, mae dau glwstwr yn uwch na chyfradd Cymru (Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr a Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr) ac mae un clwstwr yn hafal i gyfradd Cymru (Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr).

[100] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

Yng nghlystyrau Merthyr Tudful, mae cyffredinrwydd canser a gofnodwyd yn amrywio o 2.9% (De Merthyr Tudful) i 3.7% (Gogledd Merthyr Tudful). Mae Gogledd Merthyr Tudful yn uwch na chyfradd y bwrdd iechyd ond yn hafal i gyfradd Cymru, tra bod De Merthyr Tudful yn is na'r ddwy.

Ar gyfer clystyrau Rhondda Cynon Taf, mae cyffredinrwydd canser a gofnodwyd yn amrywio o 3.0% (De Cwm Cynon, De Cwm Rhondda a Gogledd Taf Elái) i 3.7% (Gogledd Cwm Rhondda). Mae pump o'r chwe chlwstwr yn is na chyfradd y bwrdd iechyd a chyfradd Cymru, tra bod un clwstwr yn uwch na chyfradd y bwrdd iechyd ac yn hafal i gyfradd Cymru (Gogledd Cwm Rhondda).

Mae'r tabl isod yn dangos y cyfraddau marwolaethau canser yng Nghymru, y bwrdd iechyd, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf ar draws y cyfnod o dair blynedd (2022-2024), ar gyfer pob canser, pob canser (o dan 75 oed), canser y colon a'r rhefr, canser y fron fenywaidd, canser y prostad a chanser y tracea, y broncws a'r ysgyfaint (wedi'i safoni yn ôl oedran fesul 100,000 o bobl, pob oedran oni nodwyd).

Tabl 3.23: Cyfraddau marwolaethau canser (wedi'u safoni yn ôl oedran fesul 100,000) ar gyfer pob canser, pob canser (o dan 75 oed), canser y colon a'r rhefr, canser y fron fenywaidd, canser y prostad a chanser y tracea, y broncws a'r ysgyfaint yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru (cyfnod o dair blynedd, 2022 – 2024)[101]

Ardal	Pob canser	Pob canser (o dan 75 oed)	Canser y colon a'r rhefr	Canser y fron fenywaidd	Canser y prostad	Canser y tracea, y broncws a'r ysgyfaint
Pen-y-bont ar Ogwr	253.3	126.7	30.4	28.0	34.6	47.2
Merthyr Tudful	300.0	151.8	36.1	30.5	44.0	64.2
Rhondda Cynon Taf	276.2	136.8	25.0	29.4	43.2	53.6
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	271.2	135.4	28.3	29.1	40.1	52.7
Cymru	264.1	131.1	28.3	30.7	43.3	51.2

Ar draws y cyfnod o dair blynedd (2022–2024), mae Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn dangos cyfraddau marwolaethau gwahanol ar draws y mathau o ganser a ddangosir ar gyfer dynion a menywod (pob oedran, oni nodir) fesul 100,000.

[101] Iechyd a Gofal Digidol Cymru GIG Cymru - Dangosfwrdd marwolaethau canser

- Roedd cyfraddau marwolaethau pob canser yn uwch ym Merthyr Tudful (300.0 fesul 100,000) na Phen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (253.3 a 276.2 yn y drefn honno). Roedd Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn uwch na chyfradd y bwrdd iechyd a chyfradd Cymru (271.2 a 264.1 yn y drefn honno), tra bod Pen-y-bont ar Ogwr yn is na'r ddwy.
- Roedd cyfraddau marwolaethau pob canser ymhlith pobl o dan 75 oed yn uwch ym Merthyr Tudful (151.8) na Phen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (126.7 a 136.8 yn y drefn honno). Roedd Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (135.4 a 131.1 yn y drefn honno), tra bod Pen-y-bont ar Ogwr yn is na'r ddwy.
- Roedd cyfradd marwolaethau canser y colon a'r rhefr yn uwch ym Merthyr Tudful (36.1) na Phen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (30.4 a 25.0 yn y drefn honno). Roedd Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (28.3), tra bod Rhondda Cynon Taf yn is na'r ddwy.
- Roedd cyfradd marwolaethau canser y fron fenywaidd yn uwch ym Merthyr Tudful (30.5) na Phen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (28.0 a 29.4 yn y drefn honno). Mae Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd (29.1), tra bod Pen-y-bont ar Ogwr yn is. Mae'r tri awdurdod lleol i gyd yn is na chyfradd Cymru (30.7).
- Roedd cyfradd marwolaethau canser y prostad yn uwch ym Merthyr Tudful (44.0) na Phen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (34.6 a 43.2 yn y drefn honno). Mae Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn uwch na chyfradd y bwrdd iechyd (40.1), tra bod Pen-y-bont ar Ogwr yn is. Mae Merthyr Tudful yn uwch na chyfradd Cymru (43.3), tra bod Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf yn is.
- Roedd cyfraddau marwolaethau canser y tracea, y broncws a'r ysgyfaint yn uwch ym Merthyr Tudful (64.2) na Phen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (47.2 a 53.6 yn y drefn honno). Roedd Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn uwch na chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru (52.7 a 51.2 yn y drefn honno), tra bod Pen-y-bont ar Ogwr yn is na'r ddwy.

Mae'r tabl isod yn cymharu'r awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'n dangos amrywiadau yn y gyfradd marwolaethau canser ar draws y mathau o ganser a ddangosir ar gyfer dynion a menywod (pob oedran (oni nodir) fesul 100,000) ar draws yr un cyfnod adrodd tair blynedd (2022-2024) a safleoedd Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Safle: Yn gyntaf (un) mae'r awdurdod lleol gyda'r gyfradd marwolaethau isaf a 22 yw'r awdurdod lleol gyda'r gyfradd uchaf.

Tabl 3.24: Cymharu ystodau cyfradd marwolaethau canser ar draws y mathau o ganser a ddangosir ar gyfer dynion a menywod (pob oedran (oni nodir) fesul 100,000) ar draws yr un cyfnod adrodd tair blynedd (2022-2024) ar gyfer yr awdurdodau lleol yng Nghymru, a Phen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, a Rhondda Cynon Taf[102]

Math o ganser	Ystod cyfradd marwolaethau canser	Pen-y-bont ar Ogwr	Merthyr Tudful	Rhondda Cynon Taf	Awdurdod lleol rhif un (isaf)	Awdurdod lleol rhif 22 (uchaf)
Pob canser	229.5 - 315.4	Pumed	21ain	16eg	Bro Morgannwg	Blaenau Gwent
Pob canser (o dan 75 oed)	104.0 – 155.1	Chweched	20fed	16eg	Sir Fynwy	Blaenau Gwent
Canser y colon a'r rhefr	23.3 – 37.9	17eg	21ain	Ail	Abertawe	Blaenau Gwent
Canser y fron fenywaidd	23.3 – 36.9	Chweched	Nawfed	Wythfed	Ynys Môn	Wrecsam
Canser y prostad	29.5 – 61.0	Trydydd	13eg	12fed	Caerdydd	Sir Gaerfyrddin
Canser y tracea, y broncws a'r ysgyfaint	38.2 – 65.7	Pumed	21ain	15fed	Sir Fynwy	Blaenau Gwent

3.4.2 Sgrinio

3.4.2.1 Sgrinio coluddion

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer a fanteisiodd ar sgrinio coluddion ar gyfer y clystyrau, y bwrdd iechyd a Chymru yn 2023/24.

[102] Iechyd a Gofal Digidol Cymru GIG Cymru - Dangosfwrdd marwolaethau canser

Tabl 3.25: Manteisio ar sgrinio coluddion ar lefel clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru gyfan ar gyfer 2023/24[103]

Ardal	Nifer yn manteisio ar sgrinio coluddion
Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	67.1%
Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	64.9%
Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	67.5%
Gogledd Merthyr Tudful	58.1%
De Merthyr Tudful	62.7%
Gogledd Cwm Cynon	64.3%
De Cwm Cynon	63.6%
Gogledd Cwm Rhondda	63.5%
De Cwm Rhondda	64.2%
Gogledd Taf Elái	61.7%
De Taf Elái	70.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	64.5%
Cymru	65.5%

3.4.2.2 Sgrinio llygaid diabetig[104]

Y nifer a fanteisiodd yn 2023/24 yn y bwrdd iechyd oedd 76.7%. Gwahoddwyd 14,858 o bobl i ddod i apwyntiad sgrinio diabetig a daeth 11,402 o bobl.

3.4.2.3 Sgrinio serfigol[105]

Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio serfigol yn 2022/23 ymhlith menywod cymwys 25 i 49 oed yn y bwrdd iechyd oedd 67.4% a'r nifer ymhlith menywod cymwys 50 i 64 oed oedd 70.1%.

3.4.2.4 Sgrinio'r fron[106]

Mae cwmpas sgrinio'r fron wedi cynyddu, ar lefel genedlaethol, o 56.1% (31 Mawrth 2023) i 70.0% (31 Mawrth 2024). Caiff y patrwm hwn ei ailadrodd ar draws pob bwrdd iechyd ac mae oherwydd adferiad yn dilyn effaith pandemig Covid-19. Ar gyfer y bwrdd iechyd, roedd y cwmpas canrannol ar 31 Mawrth 2024 ar gyfer menywod sy'n preswylio yn ardal y bwrdd iechyd (2022-2024) rhwng 53 a 70 oed yn 69.2%, islaw targed y rhaglen o 70%.

[103] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Sgrinio Coluddion Cymru - Adroddiadau rhaglen
[104] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru 2023-24
[105] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Serfigol Cymru 2022-2023
[106] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Adroddiad Ystadegol Blynyddol Bron Brawf Cymru 2023-24

3.5 Atal clefydau heintus

3.5.1 Manteisio ar frechiadau yn ystod plentyndod

Mae'r canlyniadau blynyddol ar gyfer 2024/25 ar gyfer carfannau blwyddyn o blant sy'n byw yng Nghymru ar 31 Mawrth 2025. Adroddir am y nifer sy'n manteisio ymhlith y rhai sy'n cyrraedd eu pen-blwydd cyntaf, a'u hail, pedwerydd a phumed pen-blwydd rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Cyflwynir nifer y rhai sy'n manteisio ar frechiadau ymhlith y rhai sy'n cyrraedd 14, 15 ac 16 oed ar gyfartaledd yn y flwyddyn ysgol[107].

Yn 2024/25, roedd y nifer a fanteisiodd ar bob un o'r tri dos o frechlyn 6 mewn 1 DTaP/IPV/Hib/HepB1 ymhlith plant yn cyrraedd eu pen-blwydd cyntaf yn 96.0% yn ardal y bwrdd iechyd, 96.2% ym Mhen-y-bont ar Ogwr, 95.4% ym Merthyr Tudful a 96.1% yn Rhondda Cynon Taf, o'u cymharu â 94.1% yng Nghymru.

Cyflwynwyd brechiad seroteip B meningococol ym mis Medi 2015 ar gyfer y rhai a anwyd 1 Mai 2015 ymlaen. Y nifer a fanteisiodd ar gwrs cyflawn ymhlith plant dwy oed oedd 92.3% ar gyfer cyfartaledd Cymru, a 94.7% ar gyfer y bwrdd iechyd. Ar lefel awdurdod lleol, Pen-y-bont ar Ogwr (95.0%), Merthyr Tudful (94.0%) a Rhondda Cynon Taf (94.7%).

Roedd canran y plant preswyl yn cyrraedd eu pedwerydd pen-blwydd ac sy'n gyfredol â'r holl frechlynnau a drefnwyd yn 88.0% ar gyfer y bwrdd iechyd, yn uwch na chyfartaledd Cymru (85.3%). Mae amrywiad rhwng y tri awdurdod lleol, gyda'r nifer yn manteisio ym Mhen-y-bont ar Ogwr (90.8%) yn uwch na Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf (84.5% ac 87.3% yn y drefn honno).

Y frech goch, clwy'r pennau a rwbela - y nifer a fanteisiodd ar ddau ddos ymhlith plant pum mlwydd oed oedd 92.2% ar gyfer y bwrdd iechyd, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 89.5%. Y nifer a gafodd ddau ddos ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau yn troi'n 16 oed rhwng 1 Medi 2024 a 31 Awst 2025 oedd 92.9% yng Nghymru a 95.3% ar gyfer y bwrdd iechyd – Pen-y-bont ar Ogwr (95.4%), Merthyr Tudful (94.2%) a Rhondda Cynon Taf (95.6%).

3.5.2 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw[108]

Yn 2024/25 y nifer a fanteisiodd ar frechiadau rhag y ffliw ymhlith y rhai 65 oed a hŷn yng Nghymru oedd 70.4% ac yn y bwrdd iechyd oedd 69.3%. Roedd y gyfradd frechu yn 2021/22 yn 76.7% ac mae'r cyfraddau wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn ers hynny.

[107] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Manteisio ar frechlynnau ymhlith plant yng Nghymru - adroddiad blynyddol CLAWR 2025 - y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2025
[108] Iechyd Cyhoeddus Cymru – Adroddiadau blynyddol gwyliadwriaeth ffliw a brechu rhag y ffliw 2024/25

Y nifer a fanteisiodd ymhlith y rhai o dan 65 oed ac mewn perygl yng Nghymru oedd 36.9% ac yn ardal y bwrdd iechyd roedd yn 35.4%. Roedd y gyfradd frechu yn 2021/22 yn 43.2% ac mae'r cyfraddau wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn ers hynny.

Yng Nghymru, cafodd 43.7% o blant dwy a thair oed eu brechu rhag y ffliw mewn practis cyffredinol rhwng 1 Medi 2024 a 31 Mawrth 2025 o'u cymharu â 44.2% ar gyfer y bwrdd iechyd. Roedd y nifer a fanteisiodd ymhlith plant rhwng pedair a 15 oed yn uwch ar gyfer y bwrdd iechyd o'i gymharu â Chymru ymhlith plant pedair i ddeg oed ac yn is ymhlith y rhai 11 i 15 oed.

4 Grwpiau cleifion a nodwyd – problemau iechyd penodol

Mae'r grwpiau canlynol o gleifion wedi'u nodi fel rhai sy'n byw o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, neu'n ymweld â'r ardal:

- Y rhai sydd ag un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig canlynol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010:
    - Oedran
    - Anabledd, a ddiffinnir fel amhariad corfforol neu feddyliol sydd ag effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu rhywun i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd
    - Beichiogrwydd a mamolaeth
    - Hil, sy'n cynnwys lliw croen, cenedligrwydd, a gwreiddiau ethnig neu genedlaethol
    - Crefydd (gan gynnwys dim crefydd) neu gred (unrhyw gred grefyddol neu athronyddol);
    - Rhyw
    - Cyfeiriadedd rhywiol
    - Ailbennu rhywedd
    - Priodas a phartneriaeth sifil
- Plant a phobl ifanc mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid
- Pobl ddigartref a phobl sy'n cysgu ar y stryd
- Cymunedau teithwyr a sipsiwn
- Ceiswyr lloches, ffoaduriaid ac ymfudwyr
- Cyn-filwyr
- Myfyrwyr prifysgol
- Ymwelwyr â'r ardal ar gyfer busnes, neu i ymweld â ffrindiau a theulu neu atyniadau twristaidd, e.e. ardal Porthcawl
- Gofalwyr
- Pobl sy'n byw mewn amddifadedd
- Pobl sy'n gadael carchar
- Pobl â dibyniaeth ar sylweddau
- Cyn-lowyr, gweithwyr dur a'u cymunedau

Er y cyfeirir at rai o'r grwpiau hyn mewn rhannau eraill o'r asesiad o anghenion fferyllol, mae'r adran hon yn canolbwyntio ar eu problemau iechyd penodol.

4.1 Oedran[109]

Mae pobl ifanc iawn a phobl hen iawn yn tueddu i wynebu rhagor o broblemau iechyd. Fodd bynnag, er ei bod yn amlwg bod nifer a chyfran y bobl 65 oed a throsodd yn mynd i gynyddu a bod achosion o'r holl gyflyrau cronig a hirdymor yn cynyddu gydag oedran, mae'n bwysig cydnabod bod y boblogaeth hŷn yn amrywiol iawn o ran natur gyda llawer o bobl yn parhau i fod yn heini ac yn egnïol. Mae'n amlwg y bydd poblogaeth hŷn sy'n tyfu yn arwain at nifer cynyddol o bobl sy'n byw

[109] Cwm Taf Morgannwg - Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022 - 2027

gydag anghenion iechyd a gofal cymhleth, ond bydd niferoedd cynyddol hefyd ar draws pob grŵp oedran hŷn yn byw heb unrhyw anghenion cymorth sylweddol.

Ar ben hynny, nid yw caffael cyflwr iechyd neu anabledd o reidrwydd yn arwain at lefelau uchel o alw am wasanaethau iechyd a gofal. Bydd gan lawer o bobl 75 oed a hŷn un neu fwy o gyflyrau iechyd ond efallai na fyddant yn ystyried bod eu cyflwr iechyd yn cael effaith sylweddol ar eu bywyd. Mae pobl hŷn hefyd yn darparu cryn dipyn o amser ac egni yn gofalu am eraill.

Dros y 10 mlynedd nesaf (2022 i 2032) rhagwelir y bydd poblogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn codi i 463,809 (3%), ac i 475,229 (5%) dros yr 20 mlynedd nesaf (2022 – 2042). Cyfanswm y bobl sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg sydd dros 50 oed yw 178,087, sy'n cyfateb i 40% o'r holl boblogaeth.

Rhagwelir y bydd nifer y plant a'r bobl ifanc yn cynyddu 846 (0.6%) dros y 10 mlynedd nesaf. Rhagwelir y bydd y boblogaeth 64 oed ac iau yn gostwng. Y disgwyliad yw y bydd nifer y bobl 65 oed yn cynyddu gyda'r cynnydd mwyaf sylweddol yn y rhai 85 oed a hŷn. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar unigolion, eu cymunedau a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi.

Mae'r cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl hŷn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg dros y blynyddoedd i ddod yn debygol o arwain at gynnydd mewn dementia a chyflyrau cronig fel clefydau cardiofasgwlaidd, clefydau anadlol a chanserau. Bydd yn arwain hefyd at gynnydd yn y nifer o bobl sydd angen cymorth a gofal gan wasanaethau. Nod y Datganiad Cydgomisiynu ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn[110] yw sicrhau bod "pobl hŷn yn byw bywydau hirach, iachach, llawnach a hapusach, lle maent yn cael eu hannog a'u cefnogi i gadw eu hannibyniaeth mor hir â phosibl, ond wrth gydnabod hefyd y bydd rhai yn mynd yn sâl, yn eiddil neu'n agored i niwed a sicrhau bod y bobl hyn yn derbyn y parch, y gofal a'r cymorth sydd eu heisiau ac sydd eu hangen arnynt ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn".

I bobl hŷn:

- Oedran yw'r ffactor unigol mwyaf sy'n gysylltiedig â chael cyflwr hirdymor gyda dwy ran o dair o bobl 65 oed a hŷn yng Nghymru yn dweud bod ganddynt o leiaf un cyflwr hirdymor neu gronig. Mae gan draean (33%) o oedolion hŷn (65+) gyflyrau hirdymor lluosog (cydafiechedd) ac mae dros dri chwarter o bobl 85+ oed yn dweud bod ganddynt salwch cyfyngus hirdymor[111]. Rhoddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ymateb ysgrifenedig ym mis Mehefin 2023 i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gefnogi pobl â chyflyrau cronig[112] gan nodi "considerable proportion of the burden of disease and ill-health in Wales is preventable" drwy fynd i'r afael â ffactorau risg

[110] Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf - Datganiad Cydgomisiynu ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn 2015 - 2025
[111] Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Proffil o gyflyrau hirdymor yng Nghymru
[112] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Supporting people with chronic conditions Public Health Wales written response June 2023

ymddygiadol (ffordd o fyw) fel ysmygu, yfed gormod o alcohol, deietau afiach ac anweithgarwch corfforol.

- Mae ymddygiadau afiach yn gyffredin mewn pobl hŷn hefyd, yn union fel gweddill y boblogaeth. Mae ymddygiadau fel ysmygu, yfed gormod o alcohol, deietau afiach ac anweithgarwch corfforol yn rhai o brif achosion cyflyrau hirdymor. Yn benodol, mae pryder am nifer sylweddol o bobl hŷn sy'n yfed gormod o alcohol.
- Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o ddioddef o salwch neu anafiadau a all eu hatal rhag gallu gwneud y pethau yr oeddent yn arfer eu gwneud drostyn nhw eu hunain.
- Mae atal cwympiadau yn elfen hollbwysig o'r gwaith o wella iechyd a lles ymysg pobl hŷn. Mae cwympiadau yn un o'r prif achosion o anabledd a marwolaeth ymhlith pobl hŷn yng Nghymru, ac mae'n arwain at sgil effeithiau sylweddol i bobl o ran poen, colli hyder a cholli annibyniaeth. Yn 2020/21 roedd 6,573 o gwympiadau ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a oedd angen ambiwlans, gyda bron i 50% o'r rhai oedd angen ambiwlans yn ymwneud â phobl dros 80 oed. Bu cynnydd sylweddol yn y galwadau ers y flwyddyn 2018/19, gyda niferoedd 2020/21 dros 80% yn uwch na 2018/19[113].
- Mae pobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n eiddil, yn dioddef yn aml iawn o gyfuniad o broblemau sy'n effeithio ar y ffordd maent yn ymwneud ag eraill. Gall hyn fod oherwydd anhawster wrth gerdded yn sefydlog, wrth gofio pethau neu wrth glywed a gweld yn dda. Mae'r holl bethau hyn yn effeithio ar hyder pobl a'u gallu i wynebu'r byd a byw eu bywydau.
- Mae teimlo'n unig neu golli cysylltiad â ffrindiau yn gallu effeithio'n negyddol ar les ac iechyd pobl. Mae'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael a chyflyrau fel clefyd cardiofasgwlaidd, pwysedd gwaed uchel a dementia. Mae'r cyfyngiadau symud a osodwyd yn ystod pandemig Covid-19 yn 2020 yn debygol o fod wedi gwaethygu'r materion hyn ar draws pob grŵp oedran. Mae effaith unigrwydd ar iechyd y cyhoedd yn ehangach na hyn, fodd bynnag, gan fod cysylltiad rhwng unigrwydd a nifer o ganlyniadau iechyd negyddol, yn eu plith marwolaeth, morbidrwydd, iselder a hunanladdiad. Mae pobl unig yn tueddu i ddefnyddio mwy ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac maent yn fwy tebygol o gael eu derbyn yn gynt i ofal preswyl neu ofal nyrsio. Mae edrych ar ffyrdd gwahanol o sicrhau bod pobl hŷn yn aros mewn cysylltiad â'r pethau sy'n bwysig iddynt, ac o sicrhau bod cyfleoedd ganddynt i aros yn egnïol ac mewn cysylltiad ag eraill, yn bwysig.
- Dangosodd gwybodaeth o Gyfrifiad 2021 fod 26,048 o bobl 66 oed a hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, sef tua 13.6% o'r boblogaeth[114]. Heb y gallu i adael eu cartrefi, neu wrth dderbyn llai o ymweliadau gan weithwyr cymunedol a darparwyr gwasanaethau, bydd nifer gynyddol o bobl hŷn yn teimlo'n unig ac yn ynysig, a bydd hynny'n niweidiol i'w hiechyd meddwl.
- Iselder yw'r angen iechyd meddwl mwyaf cyffredin ymhlith pobl hŷn. Cynhaliodd Age Cymru ddigwyddiad ym mis Ebrill 2024, a dynnodd sylw at y bwlch rhwng y lefel bresennol o fuddsoddiad mewn iechyd meddwl pobl hŷn

[113] Cwm Taf Morgannwg - Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022 - 2027
[114] NOMIS TS003 – Cyfansoddiad aelwydydd

a'r anghenion dybryd ledled Cymru. Tynnodd y digwyddiad sylw at rai ystadegau allweddol ynghylch iechyd meddwl gwael ymhlith grwpiau oedran hŷn yng Nghymru, gan nodi bod 22% o ddynion a 28% o fenywod dros 65 oed yn dioddef o iselder, tra bod 30% o ofalwyr hŷn yn profi iselder ar ryw adeg. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod unigolion hŷn sy'n profi profedigaeth bedair gwaith yn fwy tebygol o ddioddef iselder[115].

- Dementia yw prif achos marwolaethau yng Nghymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod 42,000 o bobl dros 65 oed yn byw gyda dementia yng Nghymru, ond mae amcangyfrifon Cymdeithas Alzheimer's Cymru[116] yn awgrymu y gallai'r nifer fod mor uchel â 51,000. Disgwylir i'r ffigur hwn godi 37% i bron i 70,000 o bobl erbyn 2040.
- Mae datblygu cymunedau sy'n gefnogol o bobl gyda dementia yn hanfodol i les pobl hŷn, yn enwedig y miloedd o bobl sy'n byw gyda dementia ni waeth a gawsant ddiagnosis swyddogol ai peidio, a'r bobl o'u cwmpas sydd hefyd yn cael eu heffeithio. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Dementia newydd (2026 – 2036) yn 2026 a fydd yn disodli'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia a gyhoeddwyd yn 2018[117], a'r Ddogfen Gydymaith ddilynol yn 2021. Nod Strategaeth Dementia 2026 yw gwella gofal a chymorth dementia ledled Cymru. Ar adeg ysgrifennu'r asesiad o anghenion fferyllol hwn, nid oedd y strategaeth wedi'i chyhoeddi.
- Mae bod mewn iechyd corfforol da yn hynod o fuddiol i iechyd a lles mewn pobl hŷn. Mae'r gallu i fod yn gorfforol egnïol yn gwella cryfder cyhyrau ac iechyd emosiynol ac yn lleihau'r risg o gwympo ac o arwahanrwydd ar yr un pryd.
- Roedd astudiaeth yng Nghymru[118,119] a ariannwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd, yn archwilio sut i wella bywydau pobl sy'n byw gydag amhariad ar eu golwg. Dechreuodd yr astudiaeth ar 1 Hydref 2022 a daeth i ben ar 30 Medi 2024. Yn 2020, cafodd dros 1,000 o bobl hŷn yng Nghymru eu cofrestru'n ffurfiol fel rhai ag amhariad ar eu golwg neu ag amhariad difrifol ar eu golwg. Amhariad ar y golwg yw un o'r cyflyrau mwyaf cyffredin sy'n achosi anabledd ymhlith pobl hŷn ac mae'n effeithio ar eu bywydau bob dydd, gan gynnwys eu perthynas ag eraill a chysylltiadau cymdeithasol. Yn ôl Age UK, mae tua 1.5 miliwn o bobl yn y DU, dros 65 oed, yn byw gydag amhariad ar eu golwg.
- Mae colli golwg yn broblem iechyd cyhoeddus sylweddol, yn enwedig i bobl hŷn, gan ei fod yn gallu effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol ac annibyniaeth person, gan wneud pobl yn fwy tebygol o gael cwymp neu ddioddef ynysigrwydd cymdeithasol.

I bobl ifanc:

---

[115] Age Cymru - Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar iechyd meddwl a llesiant, a strategaethau atal hunanladdiad (2024)
[116] Cymdeithas Alzheimer's Cymru - Cynllun gweithredu newydd ar gyfer dementia i Gymru (2025)
[117] Llywodraeth Cymru - Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia 2018 - 2022
[118] Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru - Ymchwil i lwybr ar gyfer pobl hŷn sydd â nam ar eu golwg i lywio cymorth a gwasanaethau
[119] Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru - A preventative approach to ensuring access to a sustainable, whole system pathway for older people with vision impairment (ASSIST)

- Mae tystiolaeth bod y 1,000 diwrnod cyntaf yn oes plentyn[120] (sy'n cynnwys y diwrnodau cyn i blentyn gael ei eni, hyd nes ei fod yn ddwy oed) yn effeithio'n sylweddol ar weddill ei fywyd. Fel y mae Cymru Well Wales wedi egluro, "Mae gan y blynyddoedd hyn effaith hirhoedlog ar unigolion a theuluoedd. Maent yn penderfynu tynged plant wrth iddyn nhw dyfu: eu cyflawniadau addysgol, eu gallu i sicrhau incwm, eu dylanwadau ar eu plant eu hunain, a'u hiechyd pan fyddant yn hŷn".
- Mae plant sy'n cael eu geni mewn tlodi yn fwy tebygol o dyfu'n oedolion gydag iechyd gwael, o gymharu â phlant o gefndir mwy cefnog.
- Mae tystiolaeth dda bod bwydo ar y fron yn fuddiol i iechyd y fam a'i babi, a'i fod yn helpu i greu bond rhyngddi hi a'i babi. Fodd bynnag, mae mamau ifanc ymhlith y grwpiau lleiaf tebygol o fwydo ar y fron.
- Mae babanod i fenywod gordew ac sydd wedi ysmygu trwy gydol y beichiogrwydd yn wynebu risg uwch o ddatblygu arferion ffordd o fyw yn y dyfodol nad ydynt yn iach, ac o ddioddef o gyflyrau cronig difrifol. Bydd hyn yn effeithio ar ansawdd eu bywyd a'u disgwyliad oes.
- Mae hefyd grwpiau penodol o blant sy'n fwy tebygol o fod angen gwasanaethau gofal a chymorth yn ystod eu hoes. Ymhlith y grwpiau hyn y mae plant o deuluoedd lle mae anghenion gofal a chymorth eraill, plant sydd wedi eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd a phlant gydag anableddau.
- Mae rhai plant yn dioddef o gamdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol, neu'n byw mewn teuluoedd lle mae'r rhieni wedi gwahanu, lle mae sylweddau'n cael eu camddefnyddio, lle mae salwch iechyd meddwl ac mewn cartref lle mae trais domestig. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn brofiadau anodd sy'n digwydd yn ystod plentyndod sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol neu'n effeithio ar yr amgylchedd y mae'r plentyn yn byw ynddo a gallant barhau i niweidio iechyd plant trwy gydol eu hoes.
- Yn 2016 cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr astudiaeth gyntaf o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yng Nghymru[121]. Mae cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru, bron i hanner (47%) o oedolion, wedi profi o leiaf un profiad niweidiol yn ystod plentyndod cyn 18 oed, a 14% wedi dioddef pedwar neu fwy. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn achosi niwed hirhoedlog i iechyd, sy'n parhau wrth i blant dyfu'n oedolion a heneiddio.
- Mae pobl sydd wedi profi pedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod:
    - bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn yfwr risg uchel
    - Chwe gwaith yn fwy tebygol o ysmygu
    - Chwe gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael rhyw dan oed
    - Chwe gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael neu wedi achosi beichiogrwydd anfwriadol yn eu harddegau
    - 11 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi ysmygu canabis
    - 14 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi bod yn ddioddefwr trais yn y 12 mis blaenorol

[120] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf
[121] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Adverse Childhood Experiences

    - 15 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni trais yn erbyn person arall yn y flwyddyn flaenorol
    - 16 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio heroin neu grac cocên, a
    - 20 gwaith yn fwy tebygol o gael eu carcharu yn ystod eu hoes.
- Yng Nghymru, roedd chwarter (23%) yr oedolion wedi profi cam-drin geiriol fel plentyn, ac un o bob pump (20%) wedi profi eu rhieni'n gwahanu; 17% wedi profi cam-drin corfforol, 16% wedi profi trais domestig, 14% wedi dod i gysylltiad â salwch meddwl, 14% wedi dod i gysylltiad â chamddefnyddio alcohol, 10% wedi profi cam-drin rhywiol, a 5% yr un wedi profi rhiant yn defnyddio cyffuriau neu'n mynd i'r carchar. Gall gwasanaethau 'ystyriol o drawma' ddarparu amgylchedd cefnogol i bobl sydd wedi profi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan eu hannog i ymgysylltu a rheoli cyflyrau yn well.
- Bydd sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i gymryd rheolaeth dros eu bywydau a'u lles eu hunain yn eu helpu i fyw'r bywyd gorau posibl. Mae darparu gwybodaeth glir a hawdd dod o hyd iddi, am ba gymorth cynnar sydd ar gael i bobl ifanc a'u teuluoedd yn eu hardal, yn bwysig.
- Mae'r arddegau hefyd yn bwysig, ac mae tystiolaeth gref bod arferion ffordd o fyw arddegwyr yn effeithio ar ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol yn y tymor hwy. Mae llawer o blant yn meithrin arferion nad ydynt yn iach o ran gweithgarwch corfforol a diet, a bydd dylanwadu ar ddewisiadau ffordd o fyw cadarnhaol mewn pobl ifanc yn effeithio ar ganlyniadau iechyd i bobl ifanc ac ar y galw am ystod eang o wasanaethau gan oedolion yn y dyfodol.
- Ar gyfartaledd ledled Cymru, mae un o bob pedwar o blant naill ai dros eu pwysau neu'n ordew (25.5%). Wrth i lefelau amddifadedd gynyddu yng Nghymru, mae canran y plant sydd mewn perygl o fod yn ordew hefyd yn cynyddu. Er enghraifft, mae ychydig dros un o bob saith o blant sy'n byw yn y cymdogaethau â'r amddifadedd mwyaf yn debygol o fod yn ordew yn y dyfodol, o'i gymharu â llai nag un o bob deg sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf[122]. Mae Cynghrair Gordewdra Cymru yn eu hymateb yn 2025 i'r astudiaeth "Bwyta ac yfed yn iach mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru" yn nodi bod astudiaethau wedi dangos bod plant a phobl ifanc sy'n byw gyda gordewdra tua phum gwaith yn fwy tebygol o fyw gyda gordewdra yn oedolion, gydag 80% o'r bobl ifanc sy'n byw gyda gordewdra yn dal i fod yn ordew fel oedolion[123].
- Casglodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ddata ledled Cymru yn ystod blwyddyn ysgol 2022-2023.[124] Dangosodd y data ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg:
    - roedd cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai 'dros bwysau ond nid yn ordew' ychydig yn is, sef 14.1% o gymharu â'r 15.0% a arsylwyd yn 2018/19. Roedd cyfran y plant a oedd dros bwysau ond nid yn ordew yn uwch ym Merthyr Tudful, sef 15.8% o gymharu â'r ddau ALl arall.

[122] Chemisy4u - Obesity Statistics Report 2025
[123] Ymateb Cynghrair Gordewdra Cymru - Bwyta ac Yfed yn Iach mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru (2025)
[124] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Rhaglen Mesur Plant 2022-2023

    - cyfran y plant a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai gordew oedd 12.9%. Roedd hyn yn is na'r 15.2% a arsylwyd yn 2018/19. Roedd tuedd ar i fyny cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae arsylwadau 2022/23 yn is. Dylid dehongli hyn yn ofalus gan mai dim ond un arsylwad sydd ers y pandemig.
    - Dechreuodd 90% o bobl sy'n ysmygu yn y DU wneud hynny cyn eu bod yn 21 oed[125]. Erbyn hyn, fepio yw'r ymddygiad nicotin a welir fwyaf ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Mae 5% o blant a phobl ifanc 11–16 oed yn fepio o leiaf yr wythnos (cynnydd o 3% yn 2019)[126].
- Gall heintiau a drosglwyddir yn rhywiol heb eu trin effeithio ar iechyd unigolion yn y tymor hwy, a gallant hefyd achosi anffrwythlondeb. Gall ymddygiad rhywiol pobl ifanc achosi beichiogrwydd heb ei gynllunio hefyd; gall hyn beri risgiau sylweddol i iechyd a gall fod yn niweidiol hefyd i iechyd hirdymor a chyfleoedd bywyd y fam a'r babi fel ei gilydd. Ar ben hynny, gwyddys y gall fod cysylltiad rhwng pwysau geni isel a beichiogrwydd yn yr arddegau a menywod sy'n ysmygu yn ystod beichiogrwydd. I leihau'r risg y bydd babanod yn cael eu geni'n gynamserol, gyda phwysau geni isel a'r risg o anableddau sy'n cyd-fynd â hynny, mae'n bwysig bod cymorth ar gael i'r rhai all fod yn wynebu'r risgiau hynny.
- Mae 50% o bobl gyda salwch meddwl gydol oes yn dechrau dioddef o salwch meddwl erbyn iddynt gyrraedd 14 oed[127]. Mae'r plant a phobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael problemau iechyd meddwl yn cynnwys y plant a phobl ifanc hynny y mae eu teulu wrthi'n chwalu, y rhai sydd yn y system gofal, y rhai sy'n dangos problemau ymddygiad a'r rhai sydd wedi profi trawma.
- Cynhyrchodd Canolfan Cymru ar gyfer Gofal sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth y rhagolwg cenedlaethol diweddaraf o gyflyrau hirdymor ar draws grwpiau oedran yng Nghymru[128]. Disgwylir i faich cyflyrau hirdymor godi dros y deng mlynedd nesaf, wedi'i ysgogi gan gynnydd mewn cydafiechedd, gordewdra, maeth gwael, ac anghydraddoldebau iechyd parhaus.

4.2 Anabledd[129]

Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd[130], amcangyfrifir bod 1.3 biliwn o bobl yn profi anabledd sylweddol, ac mae'r nifer hwn yn tyfu oherwydd newidiadau demograffig ac epidemiolegol yn y boblogaeth (fel heneiddio a'r cynnydd byd-eang mewn cyflyrau iechyd cronig), ac argyfyngau iechyd (fel achosion o glefydau, trychinebau naturiol, a gwrthdaro).

- Mae rhai pobl ag anableddau yn marw hyd at 20 mlynedd yn gynt na'r rhai heb anableddau.

[125] Cancer Research UK - Around 350 young adults start smoking every day in the UK - Cancer News
[126] Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru - Smygu ac anweddu
[127] Cymdeithas y Plant - Children's mental health statistics
[128] Canolfan Cymru ar gyfer Gofal sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth - Forecasted prevalence and incidence of long-term conditions in Wales (2023)
[129] Cwm Taf Morgannwg - Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022 - 2027
[130] Sefydliad Iechyd y Byd - Disability factsheet 2023

- Mae gan bobl ag anableddau ddwywaith y risg o ddatblygu cyflyrau fel iselder, asthma, diabetes, strôc, gordewdra, neu iechyd y geg gwael.
- Mae pobl ag anableddau yn wynebu llawer o anghydraddoldebau iechyd.
- Mae pobl ag anableddau yn gweld cludiant anhygyrch ac anfforddiadwy 15 gwaith yn anoddach na phobl heb anableddau.
- Mae anghydraddoldebau iechyd yn deillio o amodau annheg sy'n wynebu pobl ag anableddau, gan gynnwys stigma, gwahaniaethu, tlodi, cau allan o addysg a chyflogaeth, a rhwystrau a wynebir yn y system iechyd ei hun.

Nid yw pobl ag anableddau yn grŵp homogenaidd. Maent yn cynnwys pobl o wahanol oedrannau, rhywiau ac ethnigrwydd a bydd hynny'n dylanwadu ar eu hanghenion gofal iechyd a'u trefniadau mynediad.

Rhwng 2021 a 2023:

- Dywedodd 9.0% o oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr bod eu hiechyd yn wael neu'n wael iawn,
- Dywedodd 12% ym Merthyr Tudful yr un peth a
- 8% yn Rhondda Cynon Taf.

Dywedodd 55% o bobl yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg eu bod yn 'cael eu cyfyngu gan salwch hirsefydlog[131].

Mae llawer o wahanol fathau o anableddau. Gall rhywun ag anabledd corfforol, problem iechyd neu amhariad ar y synhwyrau' ei chael yn anodd gwneud gweithgareddau pob dydd, oherwydd cyfyngiadau ar ei synhwyrau neu oherwydd bod ei allu i symud yn gyfyngedig. Ystyr amhariad ar y synhwyrau yw colli golwg neu glyw, neu'r ddau. Mae hyn yn cynnwys pobl ddall, pobl rhannol ddall, pobl fyddar a'r rhai sy'n drwm eu clyw. Gall unigolyn fod ag anabledd ers ei eni, neu gall yr anabledd ddigwydd yn ystod ei oes.

Roedd briffiad colli golwg Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023 yn amcangyfrif bod 14,780 o bobl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn byw gyda cholli eu golwg. Erbyn 2032 disgwylir y bydd 17,270 yn byw gyda cholli eu golwg, cynnydd amcangyfrifedig o 17% dros y degawd nesaf.

Ffigur 4.1: cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl sy'n byw gyda cholli eu golwg

Difrifoldeb colli golwg	2022	2032
Mân golli golwg	9,500	11.090
Colli golwg cymedrol	3,330	3,860
Colli golwg difrifol	1,950	2,340
Cyfanswm	**14,780**	**17,270**

[131] StatsCymru - Iechyd cyffredinol ac afiechyd oedolion yn ôl awdurdod lleol a bwrdd iechyd, 2020-21 ymlaen

Mae 1,899 o bobl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi'u cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall.

Ffigur 4.2: nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall yn ôl grŵp oedran

Band oedran	Wedi'u cofrestru'n ddall	Wedi'u cofrestru'n rhannol ddall	Cyfanswm
0-17	38	46	84
18-64	309	241	550
65+	658	894	1,265
Cyfanswm	**1,005**	**894**	**1,899**

Po hynaf ydych chi, po fwyaf yw eich risg o golli'ch golwg. Mae cyfran y bobl 75 oed a throsodd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn debyg i'r cyfartaledd yng Nghymru - mae 9.0% o'r boblogaeth yn 75 oed a hŷn, o'i gymharu â 10% yng Nghymru. Mae pobl o wahanol gymunedau ethnig mewn mwy o berygl o rai o brif achosion colli golwg. Mae cyfran y bobl o grwpiau ethnig leiafrifol yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru - mae 2.5% o'r boblogaeth yn dod o grwpiau ethnig leiafrifol, o'i gymharu â 4.3% ledled Cymru.

Mae nifer y bobl yr effeithir arnynt gan golli eu golwg a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu bywyd bob dydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fel a ganlyn:

- Dim ond un o bob pedwar o bobl o oedran gweithio wedi'u cofrestru'n ddall a rhannol ddall sydd mewn cyflogaeth.
- Mae hanner y bobl ddall a rhannol ddall bob amser neu yn aml yn gyfyngedig yn y gweithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt.
- Nid yw 36% o bobl ddall a rhannol ddall fyth yn defnyddio'r rhyngrwyd neu nid oes ganddynt fynediad iddo. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd y DU o 10%.

Mae'r niferoedd amcangyfrifedig ar gyfer pobl sy'n byw gyda chyflyrau llygaid penodol sy'n peryglu'r golwg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fel a ganlyn:

Dirywiad maciwlaidd cysylltiedig ag oedran

Difrifoldeb y cyflwr	Nifer amcangyfrifedig y bobl sy'n byw gydag ef
Dirywiad maciwlaidd cysylltiedig ag oedran cyfnod cynnar	20,660
Dirywiad maciwlaidd cysylltiedig ag oedran sych cyfnod hwyr	1,500
Dirywiad maciwlaidd cysylltiedig ag oedran gwlyb cyfnod hwyr	3,100
Dirywiad maciwlaidd cysylltiedig ag oedran cyfunol cyfnod hwyr	4,370

Rhwng 2022 a 2032 amcangyfrifir y bydd cynnydd o 20% yn nifer y bobl sy'n byw gyda dirywiad maciwlaidd cysylltiedig ag oedran cyfnod hwyr.

Cataract

Cyflwr llygaid	Nifer amcangyfrifedig y bobl sy'n byw gydag ef
Cataract	4,900

Rhwng 2022 a 2032 amcangyfrifir y bydd cynnydd o 20% yn nifer y bobl sy'n byw gyda chataract.

Glaucoma

Cyflwr llygaid	Nifer amcangyfrifedig y bobl sy'n byw gydag ef
Gorbwysedd ocwlar	9,440
Glaucoma	4,900

Rhwng 2022 a 2032 amcangyfrifir y bydd cynnydd o 14% yn nifer y bobl sy'n byw gyda glaucoma.

Clefyd diabetig y llygaid

Difrifoldeb y cyflwr	Nifer amcangyfrifedig y bobl sy'n byw gydag ef
Oedolion sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes	29,480
Pobl sy'n byw gyda retinopathi diabetig, o'r rhain	8,910
O'r rhai sy'n byw gyda retinopathi diabetig, y nifer sydd â retinopathi diabetig difrifol, cam diweddarach o'r clefyd sy'n debygol o arwain at golli golwg sylweddol y gellir ei ardystio o bosibl	820

Rhwng 2022 a 2032 amcangyfrifir y bydd cynnydd o 5.0% yn nifer y bobl sy'n byw gyda retinopathi diabetig.

Gall colli golwg fod yn gysylltiedig ag iechyd gwael a chyflyrau iechyd eraill. Mae pobl hefyd yn fwy tebygol o brofi strôc wrth iddynt fynd yn hŷn, bydd tua 60% o bobl sy'n dioddef strôc hefyd yn profi rhyw fath o amhariad ar y golwg yn syth ar ôl hynny.

Gall rhai ffactorau risg hefyd gynyddu'r siawns o golli golwg. Er enghraifft, gall ysmygu ddyblu'r risg o ddirywiad maciwlaidd cysylltiedig ag oedran ac mae gordewdra yn cynyddu'r risg o ddatblygu diabetes a all achosi colli golwg. Mae cwympiadau yn fwy cyffredin ac yn fwy tebygol o gael canlyniadau difrifol ymhlith pobl hŷn. Mewn rhai achosion, gall cwympiadau arwain at broblemau meddygol difrifol ac ystod o ganlyniadau niweidiol i iechyd a lles. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, amcangyfrifir:

- Mae 1,890 o bobl sydd â cholled golwg dros 65 oed yn profi cwymp y flwyddyn,
- o'r cwympiadau hyn, gellir priodoli 900 yn uniongyrchol i golli golwg,
- Mae 150 o bobl dros 65 oed â cholled golwg yn profi cwymp difrifol y flwyddyn (diffinnir cwymp difrifol fel cwymp sy'n arwain at dderbyn y claf yn yr ysbyty trwy Ddamweiniau ac Achosion Brys), ac
- o'r cwympiadau difrifol hyn, gellir priodoli 75 yn uniongyrchol i golli golwg.

Mae pobl ag anableddau dysgu ddeg gwaith yn fwy tebygol o brofi colled golwg na'r boblogaeth gyffredinol. Yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, amcangyfrifir fod gan 565 o oedolion anabledd dysgu a golwg rhannol. Mae gan 160 o oedolion eraill anabledd dysgu a dallineb.

Mae achosion o golli golwg yn uwch ymhlith pobl â dementia, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal. Yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, amcangyfrifir bod 7,120 o bobl yn byw gyda dementia. O fewn y grŵp hwn amcangyfrifir bod gan 2,520 o bobl ddementia ac amhariad ar y golwg.

Amcangyfrifir yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fod gan 48,820 o bobl amhariad cymedrol neu ddifrifol ar y clyw, ac mae gan 1,020 o bobl amhariad dwys ar y clyw. Amcangyfrifir hefyd bod 2,820 o bobl yn byw gyda rhywfaint o golled synhwyraidd deuol. O'r bobl hyn, amcangyfrifir bod 1,070 yn byw gyda cholled synhwyraidd deuol difrifol (colli golwg a chlyw).

Yn 2022 amcangyfrifwyd bod 1,010 o bobl wedi'u cynnwys ar gofrestr amhariad ar y clyw ayr awdurdod lleol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, 248 o bobl ym Merthyr Tudful a 986 o bobl yn Rhondda Cynon Taf[132].

Rhwng 2021 a 2022 roedd 427 o bobl wedi'u cofrestru ag anableddau dysgu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, 17 o bobl ym Merthyr Tudful a 1,045 o bobl yn Rhondda Cynon Taf.[133] Mae pobl gydag anableddau dysgu yn fwy tebygol o ddatblygu problemau corfforol a phroblemau iechyd meddwl o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Er enghraifft, mae dementia yn gyffredin iawn ymysg pobl gyda syndrom Down. Mae ymchwil yn awgrymu bod pobl gydag anableddau dysgu 58 gwaith yn fwy tebygol o farw cyn eu bod yn 50 oed. Maent hefyd yn fwy tebygol o fod â diabetes, amhariad ar y synhwyrau, problemau iechyd meddwl neu epilepsi, ac yn fwy tebygol o farw o gyflyrau sy'n gysylltiedig â'u cyflyrau dysgu. Gall iechyd pobl gydag anableddau dysgu fod yn waeth, oherwydd arferion ffordd o fyw fel diet gwael a diffyg ymarfer corff nad ydynt wedi derbyn digon o gyngor a chymorth amdanynt[134].

Mae pobl gydag anableddau dysgu bellach yn byw yn hirach ac, o ganlyniad i hynny, mae'r nifer o bobl hŷn gydag anabledd dysgu yn cynyddu. Mae angen ar bobl hŷn

[132] Stats Cymru - Pobl ag anableddau corfforol/synhwyraidd yn ôl awdurdod lleol, anabledd ac ystod oedran
[133] StatsCymru - Pobl ag anableddau dysgu yn ôl awdurdod lleol, gwasanaeth ac ystod oedran
[134] Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal - Care and support of people growing older with learning disabilities (2018)

gydag anabledd dysgu fwy o gymorth i heneiddio'n iach, i aros yn egnïol ac i aros yn iach mor hir â phosibl.

Yng Nghymru[135], mae yna:

- 54,000 o oedolion ag anabledd dysgu
- 40,000 o oedolion o oedran gweithio ag anabledd dysgu (18 i 64 oed)
- 15,000 o blant ag anabledd dysgu (0 i 17 oed)
- 6,000 o blant 0 i 7 oed ag anabledd dysgu

Mae arwahanu cymdeithasol ac unigrwydd yn broblem i bobl gydag anableddau corfforol gan gynnwys amhariad ar y synhwyrau a phobl gydag anableddau dysgu. Mae angen mynediad at gyfathrebu a gwybodaeth hygyrch, gan gynnwys y gwasanaethau sydd ar gael.

4.3 Beichiogrwydd a mamolaeth

Mae beichiogrwydd yn gyfnod hollbwysig lle gall lles corfforol a meddyliol y fam gael effeithiau gydol oes ar y plentyn. Gall straen mamol, deiet a chamddefnyddio alcohol neu gyffuriau beryglu datblygiad plentyn yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae beichiogrwydd hefyd yn ysgogydd pwerus ar gyfer newid gan ei fod yn amser pan mae menywod a phartneriaid yn fwy agored i wybodaeth newydd ac yn fwy tebygol o wneud newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw i ddarparu'r amodau gorau posibl i sicrhau iechyd a lles y babi heb ei eni.

Mae'r cyfnodau cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd hefyd yn gyfleoedd i roi cyngor ymarferol, cyson i fenywod i'w helpu i reoli eu pwysau a rhoi'r gorau i ysmygu er mwyn osgoi cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag ysmygu.

4.3.1 Iechyd meddwl amenedigol[136,137]

Mae salwch meddwl amenedigol yn effeithio ar o leiaf 10% o fenywod ac, os na chaiff ei drin, gall gael effaith ddinistriol arnyn nhw a'u teuluoedd. Pan fydd mamau yn dioddef o'r afiechydon hyn mae'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn profi anawsterau ymddygiadol, cymdeithasol neu ddysgu ac yn methu â chyflawni eu potensial. Os nad yw salwch meddwl amenedigol yn cael ei drin, gall gael goblygiadau hirdymor i les menywod, eu babanod a'u teuluoedd.

Canfyddiadau allweddol[138].

[135] Mencap - How Common Is Learning Disability In The UK?
[136] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal - Antenatal and postnatal mental health: clinical management and service guidance, 2020. Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal
[137] Coleg Brenhinol y Bydwragedd - Strengthening perinatal mental health, a roadmap to the right support at the right time
[138]Sefydliad Ymwelwyr Iechyd - Supporting Perinatal Mental Health Through the Power of Reading

- Mae o leiaf un o bob pump o fenywod yn profi problemau iechyd meddwl yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl genedigaeth.
- Gorbryder ac iselder yw'r ystyriaethau iechyd mamolaeth difrifol mwyaf cyffredin, sy'n effeithio ar 10 i 15% o fenywod.
- Yng Nghymru, mae bron i 9,000 o famau newydd yn profi problemau iechyd meddwl amenedigol bob blwyddyn.

Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yn nodi mai iselder a gorbryder yw'r problemau iechyd meddwl mwyaf cyffredin a brofir yn ystod beichiogrwydd, gyda thua 12% o fenywod beichiog yn profi iselder a 13% yn profi gorbryder ar ryw adeg, gyda llawer yn profi'r ddau. Gall y ddau barhau i effeithio ar fenywod am hyd at flwyddyn ar ôl genedigaeth eu plentyn.

Yn ystod beichiogrwydd a'r cyfnod ôl-enedigol, gall anhwylderau gorbryder, gan gynnwys anhwylder panig, anhwylder gorbryder cyffredinol, anhwylder obsesiynol-gorfodaethol, anhwylder straen ôl-drawmatig a thocoffobia (ofn eithafol o enedigaeth), ddigwydd ar eu pennau eu hunain neu gallant gydfodoli ag iselder. Gall seicosis ailymddangos neu mae'n bosibl y bydd yn gwaethygu yn ystod beichiogrwydd a'r cyfnod ôl-enedigol. Mae seicosis ôl-enedigol yn effeithio ar rhwng un a dwy o bob 1,000 o fenywod sydd wedi rhoi genedigaeth. Mae menywod ag anhwylder deubegynol I mewn perygl arbennig, ond gall seicosis ôl-enedigol ddigwydd mewn menywod heb hanes seiciatrig blaenorol.

Gall newidiadau i siâp y corff, gan gynnwys ennill pwysau, mewn beichiogrwydd ac ar ôl genedigaeth fod yn bryder i fenywod ag anhwylder bwyta. Er bod nifer yr achosion o anorecsia nerfosa a bwlimia nerfosa yn is mewn menywod beichiog, mae'r achosion o anhwylder bwyta mewn pyliau yn uwch.

Yng Nghymru[139]:

- Adroddodd 32% o fenywod beichiog bod ganddynt gyflwr iechyd meddwl yn eu hasesiad cychwynnol yn 2023. Mae hyn yn gynnydd o 1.4% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a chynnydd o 12.2% ers 2016 (blwyddyn gyntaf data tebyg).
- Dywedodd 38% o fenywod beichiog rhwng 16 a 19 oed a 40% o'r rhai rhwng 20 a 24 oed fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl yng Nghymru yn 2023. Gostyngodd y gyfran i 29% ar gyfer y rhai yn y grwpiau oedran 30 i 34 a 35 i 39.
- Adroddodd 38% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig cymysg a 36% o grwpiau ethnig Gwyn fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl yn eu hasesiad cychwynnol yn 2023. Roedd y rhain yn ddau grŵp ethnig gyda'r gyfran uchaf o fenywod beichiog yn adrodd fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl ac mae'r ffigurau yn dilyn tuedd ar i fyny ers casglu data gyntaf yn 2016.

DS Nid yw canran y menywod a nododd fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl yn eu hasesiad cychwynnol yn cynnwys data ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi

[139] Llywodraeth Cymru - Ystadegau mamolaeth a genedigaethau Cymru 2023

Cadwaladr na Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

4.3.2 Ysmygu

Ysmygu yw'r ffactor risg mwyaf y gellir ei addasu ar gyfer canlyniadau gwael mewn beichiogrwydd. Gall annog menywod beichiog i roi'r gorau i ysmygu yn ystod beichiogrwydd eu helpu i roi'r gorau i'r arfer am byth, darparu manteision iechyd i'r fam a'r plentyn heb ei eni, a lleihau amlygiad plant i fwg ail-law.

Yng Nghymru[140]:

- Nid oedd 20% o fenywod a oedd yn ysmygu yn yr asesiad cychwynnol yn ysmygwyr adeg yr enedigaeth. Mae hyn yn ostyngiad o 6.5% ers y flwyddyn flaenorol, a chynnydd o 2.0% ers casglu data gyntaf yn 2016. Mae'n bosibl bod y ffaith bod bron yr holl ddata yn cael ei hunan-adrodd yn effeithio ar y cynnydd mawr ers 2021, yn hytrach na monitro carbon monocsid a'r swm uwch na'r arfer o ddata coll yn y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Cofnodwyd bod 14% o fenywod beichiog yn ysmygwyr yn eu hasesiad cychwynnol yn 2023 a chofnodwyd bod 12% o'r menywod a roddodd enedigaeth yn 2023 yn ysmygwyr ar yr adeg y gwnaethant roi genedigaeth. Mae'r ddwy gyfradd yn debyg i'r ddwy flynedd flaenorol.
- Cofnodwyd bod 28% o fenywod beichiog o dan 20 oed yn ysmygwyr yn yr asesiad cychwynnol, o'i gymharu â 21% rhwng 20 a 24 oed, a 12% yn 35 oed neu'n hŷn.
- Cofnodwyd bod 27% o fenywod beichiog o dan 20 oed yn ysmygwyr adeg yr enedigaeth, o'i gymharu â 19% rhwng 20 a 24 oed, a 10% yn 35 oed neu'n hŷn.
- Roedd cyfraddau ysmygu uchaf ymhlith mamau iau a mamau o gefndiroedd ethnig Gwyn a Chymysg.
- Mae canran y menywod beichiog y cofnodwyd eu bod yn ysmygwyr yn wahanol iawn yn ôl grŵp ethnig. Yn yr asesiad cychwynnol yn 2023, roedd cyfraddau ysmygu yn amrywio o 2% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Asiaidd i 16% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Gwyn.
- Ar adeg genedigaeth yn 2023, roedd cyfraddau ysmygu yn amrywio rhwng 1% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Du a 2% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Asiaidd i 14% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Gwyn a Chymysg.
- Dros y pum mlynedd diwethaf mae'r cyfraddau ysmygu wedi gostwng yn y grwpiau ethnig Gwyn a Chymysg, tra bod cyfraddau wedi bod yn fras yn debyg (ond ar lefel llawer is) ar gyfer menywod beichiog o grwpiau ethnig Eraill, Du ac Asiaidd.
- Mae gostyngiadau mawr yn y gyfradd ysmygu yn yr asesiad cychwynnol ers 2020 yn cyd-fynd â'r cyfnod y mae bron yr holl ddata yn cael ei hunan-adrodd, yn hytrach na chael ei fonitro â charbon monocsid. Wedi'i atal ers pandemig Covid-19 yn 2020. Gall y newid hwn yn y dull casglu data esbonio'r gostyngiadau sydyn o'r pwynt hwn ymlaen.

[140] Llywodraeth Cymru - Ystadegau mamolaeth a genedigaethau Cymru 2023

DS Nid yw'r canrannau ar gyfer ysmygu adeg genedigaeth yn cynnwys data gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

4.3.3 Defnydd o sylweddau ac alcohol

Mae camddefnyddio cyffuriau gan famau yn ystod beichiogrwydd yn cynyddu'r risg o bwysau geni isel, genedigaeth cynamserol, marwolaethau amenedigol, a marwolaeth annisgwyl sydyn mewn babandod (a elwir weithiau'n farwolaeth yn y crud).

Mae nifer o risgiau yn gysylltiedig ag yfed alcohol yn ystod beichiogrwydd[141], gan gynnwys:

- mwy o siawns o gamesgoriad,
- yn effeithio ar y ffordd y mae'r babi yn datblygu yn y groth ac, yn benodol, ar y ffordd y mae ei ymennydd yn datblygu,
- yn effeithio ar y ffordd y mae'r babi yn tyfu yn y groth trwy achosi i'r brych beidio â gweithio cystal ag y dylai,
- yn cynyddu'r risg o farw-enedigaethau,
- yn cynyddu'r risg o esgor cynamserol,
- yn gwneud y babi yn fwy tueddol o gael salwch yn ystod babandod a phlentyndod, a hefyd fel oedolyn, ac
- yn achosi anhwylder sbectrwm alcohol y ffetws neu syndrom alcohol y ffetws.

Mae peidio â defnyddio cyffuriau yn ystod beichiogrwydd yn lleihau'r risg o:

- genedigaeth gynnar,
- pwysau geni isel,
- problemau bwydo ac anadlu,
- cael heintiau,
- cael problemau gyda'u datblygiad a'u twf,
- camesgoriad,
- marw-enedigaeth, a
- marwolaeth sydyn heb esboniad yn ystod babandod.

4.3.4 Pwysau iach a maeth

Mae bod dros bwysau yn ystod beichiogrwydd yn cynyddu'r siawns o gymhlethdodau i'r fam, er enghraifft camesgoriad, diabetes yn ystod beichiogrwydd, pwysedd gwaed uchel a chyneclampsia a chlotiau gwaed. I'r babi, gall bod dros bwysau arwain at y babi yn cael ei eni'n gynnar (cyn 37 wythnos) a mwy o siawns o farw-enedigaeth. Mae yna hefyd fwy o siawns y bydd gan y babi gyflwr iechyd, fel diffyg tiwb niwral fel spina bifida.

[141] Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr 2018 - Alcohol and pregnancy patient information

Yng Nghymru[142]:

- Yn 2023, roedd 32% o fenywod beichiog yn ordew yn ôl eu sgôr mynegai màs y corff yn yr asesiad cychwynnol, mae hyn yn gynnydd o 0.8% o'r flwyddyn flaenorol, gan barhau â'r duedd ar i fyny ers 2016 ac mae wedi cynyddu bob blwyddyn ers dechrau casglu data yn 2016. Yn 2023 roedd 5.8% yn uwch nag yn 2016.
- Roedd gan 33% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Du a 33% o grwpiau ethnig Gwyn fynegai màs y corff o 30 neu fwy. Dim ond mân newid oedd yn y ganran ar gyfer y ddau grŵp ethnig o'r flwyddyn flaenorol. Tuedd ar i fyny ers i ddata gael ei gasglu gyntaf yn 2016.
- Roedd gan 27% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig cymysg fynegai màs y corff o 30 neu fwy. Roedd hyn yn ostyngiad bach ar y flwyddyn flaenorol, ond canran y grŵp hwn oedd â'r duedd ar i fyny hirdymor mwyaf serth ac roedd 8.7% yn uwch yn 2023 nag yn 2016.
- Menywod beichiog yn y grwpiau ethnig Arall ac Asiaidd oedd â'r gyfran isaf o fenywod gyda mynegai màs y corff o 30 neu fwy o'r pum grŵp ethnig ar 21% a 19% yn y drefn honno.
- Roedd gan 32% o fenywod beichiog heb grŵp ethnig a nodwyd fynegai màs y corff o 30 neu fwy yn 2023.
- Nid oedd llawer o amrywiad yng nghanran y menywod beichiog gyda mynegai màs y corff o 30 neu fwy rhwng y rhan fwyaf o grwpiau oedran. Roedd y ganran yn amrywio rhwng 30% a 34% ym mhob grŵp oedran rhwng 20 a 24 a 40 i 44; roedd y ganran yn sylweddol is ar gyfer y grwpiau oedran dan 16 oed (5%), 16 i 19 (21%), a'r grwpiau oedran 45 neu'n hŷn (25%).

DS: Mae person sydd â mynegai màs y corff o 30 neu fwy yn cael ei ystyried yn ordew.

4.3.5 Bwydo ar y fron[143]

Mae bwydo ar y fron yn bwysig ar gyfer iechyd a datblygiad babanod a'u mamau ac mae'n gysylltiedig ag atal anghydraddoldebau iechyd mawr. Darparu llaeth dynol yw'r gweithgaredd mwyaf hygyrch a chost-effeithiol sydd ar gael i iechyd y cyhoedd y gwyddys ei fod yn atal ystod o glefydau heintus ac anhrosglwyddadwy, yn benodol gastroenteritis, gordewdra ymysg plant, diabetes math 2 a chanser y fron mamol.

Dylai pob plentyn yng Nghymru gael y dechrau gorau mewn bywyd[144], a gall bwydo ar y fron wella'r dechrau hwn. Fodd bynnag, efallai nad yw pob menyw yn dewis bwydo ar y fron. Felly, mae'n hanfodol bod gan bob teulu fynediad at ddigon o wybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wneud dewis gwybodus ac yna cael eu cefnogi ym mha bynnag ddewis y maent yn ei wneud.

Mae data bwydo ar y fron ar gyfer Cymru ar gyfer 2024[145] yn seiliedig ar fwriad

[142] Llywodraeth Cymru - Ystadegau mamolaeth a genedigaethau Cymru 2023
[143] Llywodraeth Cymru - Data bwydo ar y fron: 2024 (Cymru)
[144] Llywodraeth Cymru - Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
[145] Llywodraeth Cymru - Data bwydo ar y fron: 2024 (Cymru)

mamau i fwydo ar y fron cyn geni, felly mae'r data yn seiliedig ar famau y ganwyd babanod iddynt yn 2024 yn hytrach na phlant a anwyd yn 2024.

- Roedd 65% o'r holl famau yng Nghymru yn bwriadu bwydo ar y fron cyn rhoi genedigaeth. Mae'r ganran hon wedi aros yn sefydlog ar y cyfan, fodd bynnag, yn y flwyddyn ddiwethaf roedd wedi gostwng 1.0% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond wedi cynyddu 1.7% o'i gymharu â phum mlynedd yn ôl.
- Roedd 61% o famau a roddodd enedigaeth i fwy nag un plentyn (efeilliaid, tripledi neu bedrypledi) yn bwriadu bwydo ar y fron yn 2024. Mae hyn 1.9% yn is na'r flwyddyn flaenorol a 3.1% yn uwch na'r gyfradd bum mlynedd yn ôl.
- Roedd 64% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron adeg eu geni. Mae'r ganran wedi bod ar duedd ar i fyny ac mae 2.2% yn uwch na phum mlynedd. Ond gostyngodd hefyd yn y flwyddyn ddiweddaraf gan ei fod 1.2% yn is o'i gymharu â 2023.
- Roedd 57% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron yn 10 diwrnod oed. Mae'r ganran wedi bod ar duedd ar i fyny ac mae 8.3% yn uwch na phum mlynedd yn ôl ac 1.9% yn uwch na 2023.
- Roedd 44% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron yn 6 wythnos oed. Mae'r ganran wedi bod ar duedd ar i fyny ac mae 9.8% yn uwch na phum mlynedd yn ôl a 3.4% yn uwch na 2023.
- Roedd 32% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron yn 6 mis oed. Mae'r ganran wedi bod ar duedd ar i fyny ac mae hefyd 10% yn uwch na phum mlynedd yn ôl a 3.8% yn uwch na 2023.

Roedd mamau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o fwydo ar y fron na'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Roedd 52% o famau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn 2024 yn bwydo ar y fron adeg genedigaeth o'i gymharu â 75% o famau yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn 2024.
Mae cyfraddau bwydo ar y fron adeg geni o fewn pob cwintel o amddifadedd wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2019. Fodd bynnag, bu cynnydd o dros 3% mewn cyfraddau bwydo ar y fron adeg genedigaeth yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o 49% yn 2019 i 52% yn 2024. Bu cynnydd o 0.7% dros yr un cyfnod ar gyfer y rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

DS Nid yw'r canrannau yn cynnwys data ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

4.3.6 Anghenion iechyd cyffredinol

Mae llawer o broblemau iechyd cyffredin sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd. Rhai o'r rhai mwyaf cyffredin yw:

- Mynd i'r tŷ bach yn aml i ollwng dŵr
- Poen yn y pelfis
- Y peils (haemoroidau)
- Newidiadau ar y croen ac i wallt
- Diffyg cwsg
- Olion ymestyn ar y croen

- Ffêr, traed a bysedd chwyddedig
- Deintgig chwyddedig a llidus, ac sydd o bosibl yn gwaedu
- Blinder
- Arllwysiad o'r wain
- Gwaedu o'r wain
- Gwythiennau faricos

4.4 Hil

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi canfod bod ethnigrwydd yn fater pwysig oherwydd, ar wahân i anghenion penodol yn ymwneud ag iaith a diwylliant, mae pobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o ddod o deuluoedd incwm isel, dioddef o amodau byw gwaeth ac ennill cymwysterau addysgol is.

Ar ben hynny, mae cyfraddau uwch o rai cyflyrau iechyd ymhlith rhai grwpiau ethnig. Er enghraifft, mae gan bobl sy'n tarddu o Dde Asia a'r Caribî risg sylweddol uwch o ddiabetes; mae pobl sy'n tarddu o Fangladesh yn llai tebygol o yfed alcohol ond yn fwy tebygol o ysmygu, ac mae anaemia cryman-gell yn anhwylder gwaed etifeddol sy'n effeithio'n bennaf ar bobl o darddiad Affricanaidd neu Garibïaidd.

Mae gwahaniaethau iechyd ethnig ar eu mwyaf amlwg o ran lles meddyliol, canser, clefyd y galon, y Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol (HIV), Twbercwlosis a Diabetes.

Mae cynnydd yn nifer y bobl ddu hŷn ac ethnig leiafrifol yn debygol o arwain at fwy o angen am ddarparu gofal cymdeithasol a gofal lliniarol sy'n ddiwylliannol sensitif.

Gall poblogaethau du ac ethnig leiafrifol wynebu gwahaniaethu ac aflonyddu a gallant fod yn dargedau posibl ar gyfer troseddau casineb.

Er bod grwpiau ethnig leiafrifol yn profi'r un ystod o afiechydon a chlefydau ag eraill, mae tueddiad gan rai o fewn grwpiau ethnig leiafrifol i adrodd fod ganddynt iechyd gwaeth na'r boblogaeth gyffredinol ac mae tystiolaeth o fwy o achosion rhai afiechydon penodol sy'n peryglu bywyd.

Archwiliodd adroddiad gan Gronfa'r Brenin[146] wahaniaethau ethnig mewn canlyniadau iechyd, gan dynnu sylw at yr amrywiaeth ar draws grwpiau ethnig a chyflyrau iechyd, ac ystyried yr hyn sydd ei angen i leihau anghydraddoldebau iechyd.

- Cyn pandemig Covid-19, roedd disgwyliad oes adeg genedigaeth yn uwch ymhlith grwpiau ethnig leiafrifol na'r grwpiau gwyn a chymysg. Mae'r prif ffigurau fodd bynnag yn cuddio gwahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau ethnig, er enghraifft:
    - pobl o gymunedau sipsiwn neu deithwyr Gwyddelig Gwyn, Bangladesh a Phacistan sydd â'r canlyniadau iechyd gwaethaf ar draws ystod o ddangosyddion,

[146] Cronfa'r Brenin, 2023 - The health of people from ethnic minority groups in England

    - mae cyfraddau marwolaethau babanod a mamau, clefyd cardiofasgwlaidd a diabetes yn uwch ymhlith grwpiau Du a De Asiaidd, a
    - mae marwolaethau o ganser, a dementia a chlefyd Alzheimer ar eu huchaf ymhlith grwpiau gwyn.
- Mae mynediad at wasanaethau iechyd gofal sylfaenol yn gyffredinol yn deg i grwpiau ethnig leiafrifol, ond mae hyn yn llai cyson, er enghraifft gofal iechyd deintyddol. Fodd bynnag, mae pobl o rai grwpiau ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o adrodd eu bod mewn iechyd gwael ac i adrodd am brofiadau gwael wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd na'u cymheiriaid gwyn.
- Mewn perthynas â chlefyd cardiofasgwlaidd:
    - mae nifer uwch o achosion a marwolaethau o glefyd cardiofasgwlaidd mewn grwpiau De Asiaidd o'i gymharu â'r grŵp gwyn neu'r cyfartaledd cenedlaethol,
    - Grwpiau De Asiaidd sydd â'r marwolaethau uchaf o glefyd y galon ac maent hefyd yn datblygu clefyd y galon yn iau, a
    - mae nifer yr achosion o strôc a'r marwolaethau strôc hefyd yn uwch yn y boblogaeth De Asiaidd.
- Clystyru uwch ym mhobl De Asiaidd o'r ffactorau risg sy'n cynyddu'r risg o glefyd y galon, strôc a diabetes:
- er bod lefelau mynegai màs y corff yn is ymhlith grwpiau De Asiaidd o'i gymharu ag amrediadau arferol, mae cyfraddau gormodol o fraster abdomenol ac ymwrthedd inswlin yn uwch, a
- mae nifer yr achosion o bobl sy'n ysmygu yn is ymhlith grwpiau De Asiaidd; fodd bynnag, mae ganddynt gyfraddau gweithgarwch corfforol is, yn enwedig ymhlith menywod.
- Mae gan grwpiau Du yn y DU risg sylweddol is o glefyd y galon o'i gymharu â mwyafrif y boblogaeth, er bod ganddynt nifer uchel o achosion o bwysedd gwaed uchel a diabetes (ffactorau risg ar gyfer clefyd y galon a strôc).
- Mae'r risg o ddatblygu diabetes hyd at chwe gwaith yn uwch mewn grwpiau De Asiaidd nag mewn grwpiau gwyn, ac mae ganddynt gyfradd marwolaethau uwch o ddiabetes.
- Mae achosion o ddiabetes mewn grwpiau Du hyd at dair gwaith yn uwch nag yn y boblogaeth wyn ac mae ganddynt gyfradd marwolaethau uwch o ddiabetes. Mae ganddynt hefyd risg uwch o bwysedd gwaed uchel a strôc ond, yn wahanol i bobl De Asiaidd, maent yn llai tueddol o ddatblygu clefyd y galon.
- Mae nifer yr achosion o ganser yn gyffredinol yn is ymhlith grwpiau ethnig leiafrifol yn Lloegr nag mewn grwpiau gwyn. Mae gan grwpiau Asiaidd, Tsieineaidd a Chymysg risg sylweddol is (o 20-60%) o gael canser na'r grŵp gwyn ac mae cyfraddau ysmygu yn gyffredinol yn is yn y grwpiau hyn. Mae nifer yr achosion o ganser hefyd yn is ymhlith menywod Du o'i gymharu â menywod gwyn ond yn debyg ymhlith dynion Du a gwyn.

4.5 Crefydd a chred[147]

Mae credoau ynghylch iechyd, salwch a gofal iechyd yn gallu amrywio rhwng crefyddau a diwylliannau, ac o fewn unrhyw grŵp crefyddol neu ddiwylliannol hefyd. Gall credoau crefyddol effeithio ar ba mor dderbyniol y bydd agweddau ar ofal meddygol i bobl, fel archwiliadau diagnostig a mathau penodol o driniaeth er enghraifft, a gall arferion crefyddol effeithio ar gynlluniau iechyd a thriniaeth yn yr un modd, fel cyfnodau o ymprydio.

Ni ddylid byth ei chymryd yn ganiataol y bydd unigolyn sy'n perthyn i grŵp penodol o reidrwydd yn dilyn pob un o safbwyntiau ac arferion ei grŵp yn ofalus, na chwaith y bydd yn cadw at y safbwyntiau a'r arferion hyn yn gyffredinol. Gall sawl ffactor ddylanwadu ar sut y bydd claf unigol yn ymateb i sefyllfa glinigol, yn eu plith i ba gangen o grefydd neu gred benodol y mae'n perthyn a pha mor gryf yw ei gredoau crefyddol (er enghraifft, uniongred neu ddiwygiedig, cymedrol neu ffwndamentalaidd). Am y rheswm hwn, dylid trin pob person fel unigolyn.

Mae credoau, arferion a defodau yn ymwneud â beichiogrwydd a genedigaeth, 'dod i oed', y mislif, priodi a marwolaeth yn amrywio'n fawr rhwng crefyddau a diwylliannau, a gall pob un effeithio ar iechyd ac ar sut y bydd pobl yn ceisio gwasanaethau iechyd.

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn gysylltiedig â ffactorau diwylliannol, crefyddol a chymdeithasol o fewn teuluoedd a chymunedau, er nad oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r un grefydd neu ffydd. Mae'n arfer anghyfreithlon sy'n codi pryderon iechyd difrifol.

Mae 'trais ar sail anrhydedd', sy'n fath o drais domestig sy'n gysylltiedig â'r cysyniad o anrhydedd, yn digwydd yn y cymunedau hynny lle mae'r cysyniad o anrhydedd yn gysylltiedig â'r ymddygiad a ddisgwylir gan deuluoedd ac unigolion.

Mae posibilrwydd y bydd troseddau casineb yn cael eu cyflawni yn gysylltiedig â chrefydd a chred.

4.6 Rhyw

- Y disgwyliad oes ar gyfartaledd adeg genedigaeth i Gwm Taf Morgannwg yw 79.1 oed (ffigurau 2017-19) sy'n is na chyfartaledd Cymru o 80.4 oed. Pan edrychwn ar y rhaniad rhwng y rhywiau ar draws y rhanbarth, rhagwelir y bydd menywod yn byw am 3.7 o flynyddoedd yn hirach na dynion[148].
- Ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg gall dynion ddisgwyl byw mewn iechyd da neu dda iawn nes eu bod yn 61.1 oed a menywod hyd nes eu bod yn 62.8 oed. Ar gyfer y ddau rywedd. mae'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru, sef 65.3 a 66.7 yn y drefn honno[149].

[147] Llywodraeth y DU - Culture, spirituality and religion: migrant health guide
[148] Cwm Taf Morgannwg - Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022 - 2027
[149] Cwm Taf Morgannwg - Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022 - 2027

- Mae dynion yn tueddu i ddefnyddio gwasanaethau iechyd yn llai na menywod, ac yn ceisio gwasanaethau iechyd am afiechydon yn hwyrach nag y byddai menywod. Dangosodd ymchwil defnyddwyr yn 2009 gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol[150] am y defnydd o fferyllfeydd fod dynion rhwng 16 a 55 yn tueddu i 'osgoi' gwasanaethau fferyllol h.y. maent yn osgoi mynd i fferyllfeydd yn fwriadol ac yn teimlo'n anghyfforddus mewn fferyllfeydd oherwydd y gred bod yr amgylchedd yn fenywaidd/ar gyfer pobl hŷn/heb ddigon o breifatrwydd o ran gwasanaethau cwsmeriaid. Dangosodd canlyniadau o'r holiadur i gleifion a'r cyhoedd fod 86.2% o'r ymatebwyr yn fenywod a bod 13.1% yn ddynion.
- Mae dynion yn fwy tebygol o farw o glefyd coronaidd y galon yn gynamserol, ac yn fwy tebygol o farw yn ystod digwyddiad cardiaidd sydyn. Mae risg menywod o glefyd cardiofasgwlaidd yn gyffredinol yn cynyddu yn ddiweddarach mewn bywyd, ac maent yn fwy tebygol o farw o strôc.
- Yn seiliedig ar ystadegau gordewdra gan Lywodraeth Cymru[151], adroddwyd bod 25% o ddynion a 27% o fenywod yn ordew yn 2022/23, gyda 65% o ddynion a 57% o fenywod yn cael eu hystyried naill ai dros bwysau neu'n ordew. Roedd y cyfraddau gordewdra uchaf yn y grŵp oedran 45-64 (31%) a'r cyfraddau isaf yn y grwpiau oedran 16-24 a 75 a hŷn (19% a 17% yn y drefn honno).
- Mae menywod yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt iselder a gorbryder, ceisio cyngor am iselder a gorbryder a chael diagnosis o iselder a gorbryder. Mae'n bosibl bod y nifer o ddynion sydd ag iselder a gorbryder yn uwch na'r nifer sydd wedi cael diagnosis ohonynt. Mae hunanladdiad yn fwy cyffredin ymhlith dynion, fel y mae pob ffurf ar gamddefnyddio sylweddau.
- Yn ôl diweddariad modelu 2025 Llywodraeth Cymru ar yfed alcohol[152], mae 23% o oedolion sy'n yfed yng Nghymru yn yfed mwy na chanllawiau risg isel wythnosol y DU. Mae'r grŵp hwn yn yfed 70% o'r holl alcohol sy'n cael ei werthu yng Nghymru, gan dynnu sylw at grynodiad o ran yfed alcohol ymhlith yfwyr trymach. Mae anhwylderau alcohol ddwywaith mor gyffredin mewn dynion, er bod goryfed mewn pyliau yn cynyddu ar gyfradd gyflymach ymhlith menywod ifanc. Ymhlith pobl hŷn, mae'r bwlch rhwng dynion a menywod yn llai amlwg.
- Mae morbidrwydd a marwolaethau yn gyson uwch ymhlith dynion ar gyfer bron pob canser nad yw'n benodol i ryw. Ar yr un pryd, mae cyfraddau morbidrwydd a marwolaethau canser yn gostwng yn gyflymach i ddynion nag i fenywod[153].

4.7 Cyfeiriadedd rhywiol

Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan y Sefydliad LGBT yn 2023 [154]yn tynnu sylw at ystadegau allweddol y credant eu bod yn rhoi'r dystiolaeth fwyaf clir o'r effaith

[150] Pharmacy consumer research - Pharmacy usage and communications mapping – Executive summary. Mehefin 2009
[151] Chemist4u - Obesity Statistics Report 2025
[152] Llywodraeth Cymru - Modelu newydd o bolisïau prisio alcohol, yfed alcohol a niwed yng Nghymru
[153] Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol "The Gender and Access to Health Services Study" 2008
[154] Sefydliad LGBT - Hidden Figures: LGBT Health Inequalities in the UK

ddilyniannol a sylweddol o brofi anghydraddoldeb gydol oes.

Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan y Sefydliad LGBT yn 2023 [155]yn tynnu sylw at ystadegau allweddol y credant eu bod yn rhoi'r dystiolaeth fwyaf clir o'r effaith ddilyniannol a sylweddol o brofi anghydraddoldeb gydol oes.

- Yn 2017, dywedodd 21% o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol eu bod wedi profi trosedd casineb homoffobig, deuffobig neu drawsffobig yn y 12 mis blaenorol, gyda hyn yn codi i 41% ar gyfer pobl draws.
- Mae 23% o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol ar un adeg wedi gweld sylwadau gwrth-lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol gan staff gofal iechyd.
- Yn 2017, dywedodd un o bob chwech o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol eu bod wedi yfed bron bob dydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn yn cymharu ag un o bob deg oedolyn yn y boblogaeth gyffredinol sy'n adrodd eu bod yn yfed alcohol ar bum diwrnod neu fwy yr wythnos.
- Mae 45% o bobl ifanc traws (11-19 oed) a 22% o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol cis wedi ceisio cymryd eu bywyd eu hunain. Ymhlith y boblogaeth gyffredinol, mae'r GIG yn amcangyfrif bod y ffigwr hwn yn 13% ar gyfer merched a 5% ar gyfer bechgyn 16-24 oed.
- Mae 24% o bobl ddigartref 16-24 oed yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol ac mae 69% o'r bobl hyn yn credu bod cael eu gwrthod gan eu rhieni yn brif ffactor o ran achosi digartrefedd.
- Dywedodd 42.8% o fenywod lesbiaidd, deurywiol, trawsryweddol eu bod wedi profi trais rhywiol o'i gymharu ag amcangyfrif o 20% o'r holl fenywod yn y DU.
- Nid oedd 55% o ddynion hoyw, deurywiol a thraws yn ddigon egnïol i gynnal iechyd da, o'i gymharu â 33% o ddynion yn y boblogaeth gyffredinol.
- Yn 2017, dywedodd 52% o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol eu bod wedi profi iselder yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynnwys 67% o bobl draws a 70% o bobl anneuaidd.
- Yn 2017, dywedodd 40% o bobl draws a oedd wedi ceisio neu wedi cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd cyhoeddus eu bod wedi profi o leiaf un profiad negyddol oherwydd eu hunaniaeth ryweddol yn y 12 mis blaenorol.
- Mae 93% o arbenigwyr a defnyddwyr gwasanaethau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn ystyried bod angen gwneud mwy o waith i wella gwasanaethau diwedd oes i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.
- Mae pobl LHD+ 2.2 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi hunan-niweidio neu geisio lladd eu hunain na phobl heterorywiol.
- Mae dynion hoyw a deurywiol 2.5 gwaith yn fwy tebygol o geisio lladd eu hunain.
- Mae bron i un o bob pump (18.6%) o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol (16–24 oed) wedi ceisio lladd eu hunain[156].

[155] Sefydliad LGBT - Hidden Figures: LGBT Health Inequalities in the UK
[156] Data ledled y DU o ddata'r SYG ONS Data: LGB+ Community Facing Higher Mental Health Risks | LGBT HERO

4.8 Ailbennu rhywedd[157]

Mae ailbennu rhywedd yn cyfeirio at unigolion, sydd naill ai:

- wedi cael, yn bwriadu cael neu sy'n mynd trwy broses ailbennu ar hyn o bryd (triniaeth feddygol a llawfeddygol i newid y corff), neu
- ddim yn bwriadu cael triniaeth feddygol ond yn dymuno byw yn barhaol mewn rhywedd gwahanol i'w rhywedd adeg eu geni.

Mae 'trosglwyddo' yn cyfeirio at y broses a/neu'r cyfnod o amser y mae ailbennu rhywedd yn digwydd ynddo (gydag ymyrraeth feddygol neu hebddo). Yn ôl y Gymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth Ryweddol, mae nifer o ffactorau iechyd a lles sy'n gysylltiedig ag ailbennu rhywedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mae cyffuriau ac alcohol yn cael eu prosesu gan yr afu, fel y mae hormonau croesrywiol. Gall defnydd trwm ar alcohol a/neu gyffuriau wrth gymryd hormonau gynyddu'r risg o wenwyndra'r afu ac o niwed i'r afu.
- Gall alcohol, cyffuriau, tybaco a'r defnydd o therapi hormonau oll gynyddu'r risg o niwed cardiofasgwlaidd. O'u cymryd gyda'i gilydd, gallant gynyddu'r risg sydd eisoes yn bresennol oherwydd therapi hormonau.
- Gall ysmygu effeithio ar lefelau oestrogen, sy'n gallu cynyddu'r risg o osteoporosis a lleihau effeithiau benyweiddio meddyginiaethau oestrogen.
- Mae pobl drawsryweddol yn wynebu sawl rhwystr a all eu hatal rhag gwneud ymarfer corff rheolaidd. Mae llawer o bobl drawsryweddol yn ei chael yn anodd gyda delwedd eu corff, ac o ganlyniad i hynny gallant fod yn amharod i wneud ymarfer corff.
- Dysfforia rhywedd yw'r term meddygol a ddefnyddir i ddisgrifio'r anesmwythyd hwn.
- Mae pobl drawsryweddol yn debygol o ddioddef o salwch meddwl oherwydd yr anesmwythyd maent yn ei deimlo. Y prif beth sy'n achosi hyn yw teimlad eu bod yn wahanol, ac nad yw'r gymdeithas wedi eu derbyn. Os yw person trawsryweddol am drawsnewid a byw yn y rôl rhywedd y mae'n uniaethu â hi, gall boeni hefyd am wneud drwg i berthnasau, colli ei swydd a bod yn destun trosedd casineb a gwahaniaethu. Mae ofni'r rhagfarn a'r gwahaniaethu hyn, a all fod yn wirioneddol neu'n ddychmygol, achosi trallod seicolegol sylweddol. Y prif beth sy'n achosi hyn yw teimlad eu bod yn wahanol, ac nad yw'r gymdeithas wedi eu derbyn.
- Os yw person trawsryweddol am drawsnewid a byw yn y rôl rhywedd y mae'n uniaethu â hi, gall boeni hefyd am wneud drwg i berthnasau, colli ei swydd a bod yn destun trosedd casineb a gwahaniaethu. Mae ofni'r rhagfarn a'r gwahaniaethu hyn, a all fod yn wirioneddol neu'n ddychmygol, achosi trallod seicolegol sylweddol.

4.9 Priodas a phartneriaeth sifil

Nid oes unrhyw anghenion iechyd penodol sy'n unigryw i'r boblogaeth hon.

[157] Cymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth Ryweddol. O: Trans Health Factsheets

4.10 Plant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid

Gall fod mwy o anghenion iechyd a lles gan bobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid o gymharu â phlant eraill o'r un oedran. Maent yn aml wedi colli sylw cynnar i'r anghenion hyn. Maent yn aml yn wynebu amrywiaeth o anawsterau eraill, sy'n aml wedi'u gwreiddio, gan gynnwys gwahardd o'r ysgol, perthnasoedd teuluol sydd wedi chwalu, profedigaeth, amodau byw ansefydlog, a rhianta gwael neu niweidiol a allai fod yn gysylltiedig â thlodi rhieni, camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl.

Efallai y bydd llawer o'r plant a'r bobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid hefyd yn gyfarwydd i wasanaethau gofal cymdeithasol plant ac ymhlith y plant a'r bobl ifanc hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Ar 28 Ionawr 2021, cyhoeddodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ail set o ystadegau arbrofol ar gyfer 2019/2020[158], (cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ar ystadegau arbrofol o anghenion a aseswyd ar gyfer plant a ddedfrydwyd yn y System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr ar 28 Mai 2020) a dangosodd fod nifer y pryderon a oedd gan bob plentyn wedi cynyddu gyda difrifoldeb y math o ddedfryd a dderbyniwyd. Ar gyfer pump o'r 19 pryder, aseswyd bod gan 71% o blant bryder yn bresennol. Y rhain oedd:

- diogelwch a lles (90%)
- risg i eraill (87%)
- camddefnyddio sylweddau (76%)
- iechyd meddwl (72%)
- lleferydd, iaith a chyfathrebu (71%)

Ar ben hynny, roedd dros hanner (57%) y plant a aseswyd yn 'Blentyn mewn Angen' presennol neu flaenorol; ystyriwyd bod gan 1% statws cyfredol ac roedd gan tua 38% statws blaenorol. Aseswyd bod bron i draean (32%) â sgôr risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol, ac roedd gan bron i hanner (46%) ohonynt sgôr uchel neu uchel iawn ar gyfer diogelwch a lles.

Ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid, mae lles yn ymwneud â chryfhau'r ffactorau amddiffynnol yn eu bywyd a gwella eu gwytnwch yn wyneb y ffactorau risg a'r rhwystrau sydd mor amlwg ac sy'n debygol o gael effaith andwyol barhaus ar eu datblygiad hirdymor. Mae lles hefyd yn ymwneud â phlant yn teimlo'n ddiogel ynghylch eu hunaniaeth a'u diwylliant personol. Dylai rhoi sylw dyledus i'w hanghenion iechyd a lles helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a lleihau'r risg o aildroseddu gan bobl ifanc.

[158] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid - Assessing the needs of sentenced children in the Youth Justice System 2019/20 England and Wales (2021)

4.11 Digartrefedd a chysgu ar y stryd

Mae cysgu ar y stryd yn beryglus ac mae'n hynod niweidiol i iechyd corfforol ac i iechyd meddwl. Canfu ymchwil gan yr elusen digartrefedd Crisis[159], fod pobl sy'n cysgu ar y stryd 17 gwaith yn fwy tebygol o fod yn destun trais na'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae mwy nag un ym mhob tri o bobl sy'n cysgu ar y stryd wedi cael eu taro neu eu cicio'n fwriadol, neu wedi profi rhyw fath arall o drais, tra oeddent yn ddigartref. Mae pobl ddigartref dros naw gwaith yn fwy tebygol o gyflawni hunanladdiad na'r boblogaeth gyffredinol.

Mae'r disgwyliad oes cyfartalog i rywun sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru yn parhau i fod yn 45 oed i ddynion a 43 oed i fenywod ac nid yw wedi gwella ers y 1990au. Mae hyn yn cael ei gymharu â'r disgwyliad oes cyfartalog o 77.9 ar gyfer dynion ac 81.8 ar gyfer menywod ymysg y boblogaeth gyffredinol. Mae nifer y bobl sydd wedi marw tra'n ddigartref ledled y DU wedi cynyddu 9% gyda phedair marwolaeth bob dydd ar gyfartaledd. Bu farw 90 o bobl tra'n ddigartref yng Nghymru yn 2024 gyda Phen-y-bont ar Ogwr yn gweld cynnydd amlwg iawn. Gellir dosbarthu'r mwyafrif o farwolaethau ymhlith y digartref (55%) bellach fel 'marwolaeth yn sgil anobaith' gyda mwy o farwolaethau trwy hunanladdiad yn cael eu hadrodd a thystiolaeth o gyfradd uwch o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Mae problemau mawr gyda sylweddau seicoweithredol fel sbeis ac opioidau synthetig[160].

Mae'r nifer sy'n cysgu ar y stryd bob mis bellach yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru[161]. Mae data diweddar yn dangos bod Pen-y-bont ar Ogwr dros gyfnod o chwe mis (Chwefror i Orffennaf 2025) wedi cofnodi bod 35 o bobl ar gyfartaledd yn cysgu ar y stryd, gyda saith o bobl yn cysgu ar y stryd fel y nifer uchaf mewn un mis, ac roedd gan Ferthyr Tudful 16 o bobl yn cysgu ar y stryd, gyda saith yn cysgu ar y stryd wedi'u nodi fel y nifer uchaf mewn un mis, fodd bynnag, ni chofnodwyd bod unrhyw rai yn cysgu ar y stryd yn Rhondda Cynon Taf.

Yn ôl adroddiad gan Centrepoint[162], pobl ifanc sy'n ddigartref yw'r grŵp mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol. Mae ymchwil flaenorol wedi dangos bod gan lawer ohonynt broblemau cymhleth gan gynnwys camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl ac iechyd corfforol, a bod llawer wedi dioddef o gamdriniaeth neu wedi profi digwyddiadau trawmatig.

Roedd canfyddiadau allweddol adroddiad gan Homeless Link yn 2022[163] fel a ganlyn.

- Mae pobl sy'n profi digartrefedd yn dioddef o iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwaeth na'r boblogaeth gyffredinol.

[159] Crisis, Sanders, B. & Albanese, F. - "It's no life at all" - Rough sleepers' experiences of violence and abuse on the streets of England and Wales (2016)
[160] Yr Amgueddfa Ddigartrefedd – Marwolaethau yn sgil digartrefedd Wallich (2025)
[161] StatsCymru - Pobl sy'n cysgu ar y stryd yn ôl ardal awdurdod lleol
[162] Centrepoint - Toxic Mix: The health needs of homeless young people
[163] Homeless Link - The unhealthy state of homelessness 2022: Findings from the homeless health needs audit

- Rhwng 2018 a 2021 dywedodd 63% o'r ymatebwyr fod ganddynt salwch hirdymor, anabledd neu waeledd (22% yn y boblogaeth gyffredinol).
- Dywedodd 80% o'r rhai â chyflwr iechyd corfforol fod ganddynt o leiaf un cydafiachedd, gyda 29% wedi cael rhwng pump a deg diagnosis.
- Y cyflwr a adroddwyd fwyaf aml oedd poenau/problemau gyda'r esgyrn a'r cyhyrau, ac yna problemau deintyddol/dannedd.
- Mae nifer y bobl sydd â diagnosis iechyd meddwl wedi cynyddu'n sylweddol o 45% yn 2014 i 82% yng ngharfan 2018 – 2021, o'i gymharu â 12% yn y boblogaeth gyffredinol.
- Dywedodd 81% o'r rhai â chyflwr iechyd meddwl eu bod wedi profi o leiaf ddau gyflwr iechyd meddwl, gyda 17% yn adrodd pump neu fwy.
- Dywedodd 45% o'r ymatebwyr eu bod yn cymryd hunanfeddyginiaeth ar ffurf cyffuriau neu alcohol i'w helpu i ymdopi â'u hiechyd meddwl.
- Mae rhwystrau wrth gael mynediad at gymorth angenrheidiol ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn golygu bod pobl sy'n profi digartrefedd yn or-ddibynnol ar wasanaethau gofal iechyd brys, gyda 48% o'r ymatebwyr wedi defnyddio gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, teirgwaith yn fwy na'r boblogaeth gyffredinol.
- Rhwng 2018 a 2021 roedd 38% o'r ymatebwyr wedi cael eu derbyn i'r ysbyty yn ystod y 12 mis cyn iddynt gymryd rhan mewn archwiliad anghenion iechyd digartref. Roedd y rheswm mwyaf cyffredin dros gael eu derbyn i'r ysbyty yn ymwneud â chyflwr iechyd corfforol (37%), a 28% yn ymwneud â chyflwr iechyd meddwl neu hunan-niweidio neu ymgais i gyflawni hunanladdiad.
- O'r rhai a oedd wedi cael eu derbyn i'r ysbyty, roedd bron i chwarter (24%) wedi cael eu rhyddhau i'r strydoedd.
- Roedd 54% o'r ymatebwyr wedi defnyddio cyffuriau yn y 12 mis cyn cymryd rhan mewn asesiad anghenion iechyd digartref. Dywedodd 38% fod ganddynt broblem cyffuriau neu eu bod yn gwella yn dilyn problem o'r fath.
- Roedd 20% yn yfed mwy na'r canllawiau yfed risg isel yn rheolaidd (o'i gymharu â 24% yn y boblogaeth gyffredinol) a dywedodd 29% fod ganddynt, neu eu bod yn gwella o, broblem alcohol.
- Dywedodd 76% o'r ymatebwyr eu bod yn ysmygu sigaréts, sigârs, neu bibell (13.8% yn y boblogaeth gyffredinol). O'r rhain, byddai 50% yn hoffi rhoi'r gorau iddi.
- Mae maeth yn her fawr gyda thraean o'r ymatebwyr yn dweud mai dim ond un pryd y dydd maen nhw'n bwyta ar gyfartaledd. Roedd 66% yn bwyta un neu lai dogn o ffrwythau neu lysiau y dydd, gyda dim ond 4% yn bwyta'r pump neu fwy a argymhellir.

Mae astudiaeth Groundswell, Healthy Mouths[164] yn datgelu bod pobl ddigartref yn dioddef iechyd y geg gwael iawn o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

- Mae 90% wedi cael problemau gyda'u ceg ers dod yn ddigartref. Yn arbennig o gyffredin oedd deintgig yn gwaedu (56%), tyllau mewn dannedd (46%) a chrawniadau deintyddol (26%).

[164] Groundswell - Healthy Mouths, 2017

- Roedd llawer o gyfranogwyr wedi profi poen deintyddol sylweddol. Roedd 60% wedi profi poen o'u ceg ers iddynt fod yn ddigartref. Roedd 30% yn dioddef poen deintyddol ar hyn o bryd.
- Dywedodd 70% eu bod wedi colli dannedd ers iddynt fod yn ddigartref ac nid oedd gan 7% ddannedd o gwbl. Roedd 35% wedi cael triniaeth tynnu dannedd gan weithiwr proffesiynol meddygol, 17% wedi colli dannedd yn dilyn achosion o drais a 15% o'r cyfranogwyr wedi tynnu eu dannedd eu hunain allan.

Nododd yr astudiaeth rai ffactorau allweddol sy'n sail i iechyd y geg gwael mewn pobl ddigartref.

- Mae deiet y cyfranogwyr yn niweidiol i iechyd y geg – roedd diffyg mynediad at fwyd iach ac angen ffynhonnell egni yn golygu bod lefelau uchel o ddefnyddio siwgr yn bresennol.
- Roedd cyfraddau uchel o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol ac ysmygu tybaco yn debygol o fod yn niweidiol i iechyd y geg. Roedd gan 37% broblemau camddefnyddio alcohol, roedd gan 33% broblemau camddefnyddio cyffuriau a 78% yn ysmygwyr ar hyn o bryd.
- Roedd iechyd meddwl gwael yn gyffredin a oedd yn cael effaith sylweddol ar eu gallu i ofalu amdanynt eu hunain a cheisio triniaeth.
- Er bod cyfranogwyr yn gwerthfawrogi ac yn deall pwysigrwydd gofalu am eu hiechyd y geg, roedd digartrefedd yn effeithio ar eu gallu i wneud hynny.
- Roedd cyfraddau glanhau dannedd yn sylweddol is na'r lefelau lleiaf a argymhellir - roedd 35% yn glanhau eu dannedd ddwywaith neu fwy y dydd o'i gymharu â 75% o'r boblogaeth gyffredinol. Roedd 29% yn glanhau eu dannedd lai nag unwaith y dydd neu byth.
- Defnyddiwyd alcohol a chyffuriau yn gyffredin mewn ymgais i reoli problemau iechyd y geg. Roedd 27% o'r cyfranogwyr wedi defnyddio alcohol i'w helpu i ddelio â phoen deintyddol a 28% wedi defnyddio cyffuriau.

4.12 Cymunedau teithwyr a sipsiwn[165]

Mae Sipsiwn a Theithwyr ymhlith poblogaethau ethnig lleiafrifol hynaf y DU. Mae Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn grwpiau hil a gydnabyddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yng Nghyfrifiad 2021 nododd 3,630 o bobl eu bod yn Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yng Nghymru, sy'n cynrychioli 5.1% o gyfanswm y boblogaeth Sipsiwn/Teithwyr Gwyddelig ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn oddeutu 0.12% o boblogaeth Cymru ac mae'n gynnydd o 845 o bobl ers Cyfrifiad 2011[166].

Yng Nghymru, mae hawl gan Sipsiwn a Theithwyr i gael triniaeth gan feddyg teulu, fel preswylydd parhaol neu dros dro. Mae astudiaethau wedi dangos bod Sipsiwn a Theithwyr yn wynebu heriau wrth ddefnyddio gwasanaethau, a gall fod mai'r isod sy'n achosi'r heriau hyn:

[165] Llywodraeth Cymru - Teithio i Iechyd Gwell Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr (2015)
[166] Cyfrifiad 2021 Gypsy or Irish Traveller populations, England and Wales - Office for National Statistics

- y ffaith nad ydynt yn aros yn yr un ardal yn barhaol,
- lleoliad y safleoedd,
- cludiant - mae hyn yn arbennig o berthnasol yn aml i fenywod na allant yrru
- lefelau isel o wybodaeth am wasanaethau iechyd a'u hawl i'w defnyddio, neu sut i'w defnyddio.

Mae cymunedau Sipsiwn Romani, Roma a Theithwyr Gwyddelig yn wynebu rhai o'r anghydraddoldebau mwyaf difrifol o ran mynediad at ofal iechyd a chanlyniadau ymhlith poblogaeth y DU, gan gynnwys o'u cymharu â grwpiau ethnig leiafrifol eraill. Mae'r rhesymau dros y canlyniadau iechyd gwael hyn yn gymhleth, ond yn cynnwys effaith gwahaniaethu a stigmateiddio, natur gymhleth systemau iechyd ac effeithiau penderfynyddion cymdeithasol iechyd ehangach.

Mae bod yn Sipsi, Roma neu Deithiwr fel arfer yn rhan bwysig o hunaniaeth rhywun. Ymhlith eu credoau diwylliannol y mae credu y dylai aelodau o'r cartref neu'r uned deuluol estynedig ddelio â phroblemau iechyd. Mae rhaniad cryf rhwng y rhywiau hefyd yn y diwylliant Sipsiwn a Theithwyr, ac mae preifatrwydd yn bwysig iawn iddynt.

Tynnodd cyflwyniad ar iechyd a lles yn Doncaster ym mis Tachwedd 2023[167] sylw at y ffeithiau canlynol.

- Bydd Sipsiwn a Theithwyr yn byw rhwng deg a 25 mlynedd yn llai na'r boblogaeth gyffredinol.
- Mae iechyd cyfartalog pobl ifanc 60 oed o gymunedau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn debyg i iechyd 80 oed person gwyn Prydeinig ar gyfartaledd.
- Mae dynion Sipsiwn, Roma a Theithwyr dros 12 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef gyda mwy na dau gyflwr iechyd corfforol na dynion gwyn Prydeinig.
- Pobl Roma oedd â'r risg uchaf o beidio â gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae mamau ymhlith Sipsiwn a Theithwyr 20 gwaith yn fwy tebygol o brofi marwolaeth plentyn.
- Mae 29% o rieni Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn debygol o brofi un camesgoriad neu fwy (o'i gymharu â 16% yn y grŵp a arolygwyd nad oeddynt yn deithwyr).
- Mae mamau Roma yn profi cyfraddau uwch o ganlyniadau babanod gwael, fel genedigaethau cynamserol a phwysau geni isel.
- Er bod y dystiolaeth ar iechyd meddwl a hunanladdiad yn gyfyngedig oherwydd trefniadau casglu data gwael, mae'n dangos:
    - lefelau uchel o angen heb ei ddiwallu,
    - mae pobl yn y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr dair gwaith yn fwy tebygol o fod yn bryderus a dwywaith yn fwy tebygol o ddioddef o iselder
    - mae iechyd meddwl yn bwnc tabŵ,

[167] Doncaster Health and Wellbeing Board meeting (Item 11) - Health inequalities – a focus on Gypsy Roma Traveller communities

    - mae dynion yn fwy tebygol o "estyn am y rhaff" na siarad, ac
    - mae dynion ymhlith Teithwyr Gwyddelig saith gwaith yn fwy tebygol o farw trwy hunanladdiad, gyda menywod chwe gwaith yn fwy tebygol.
- Mae'r heriau a wynebir wrth gael mynediad at iechyd a gofal yn cynnwys:
    - troseddau casineb, ymylu, gwahaniaethu,
    - credoau diwylliannol,
    - llythrennedd isel neu ddim llythrennedd o gwbl,
    - iaith gyntaf heblaw Saesneg,
    - allgáu digidol,
    - diffyg addysg,
    - tlodi,
    - trafnidiaeth, a
    - rhagfarn anymwybodol/agwedd staff.
- Datgelodd yr Arolwg Cenedlaethol Evidence for Equality[168] yn 2023 fod mwy na thraean o bobl o grwpiau ethnig a chrefyddol leiafrifol wedi profi rhyw fath o ymosodiad hiliol. Roedd yr arolwg yn cynnwys y nifer fwyaf o gyfranogwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn unrhyw arolwg cenedlaethol hyd yma gan ddatgelu:
    - roedd 62% o Sipsiwn a Theithwyr wedi profi cam-drin hiliol, sef yr uchaf o'r holl grwpiau ethnig leiafrifol a arolygwyd,
    - roedd 47% o bobl Roma wedi dioddef ymosodiad hiliol, a
    - mae 37% o bobl Roma wedi dioddef ymosodiad corfforol.
- Mae effeithiau eang gwahaniaethu yn cynnwys:
    - tai gwael, mynediad cyfyngedig i amwynderau,
    - mae Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn profi'r lefelau uchaf o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd,
    - nid oes gan fwy na hanner y Sipsiwn, Roma a Theithwyr unrhyw gymwysterau addysgol,
    - roedd 85% o ddynion Sipsiwn neu Deithwyr a 65% o ddynion Roma mewn cyflogaeth ansicr, o'i gymharu â 19% o ddynion gwyn Prydeinig, a
    - mae'r gymuned Sipsiwn Roma Teithwyr yn cyfrif am 6% o boblogaeth carchardai.
- Mewn perthynas â phlant a phlant ifanc Sipsiwn Roma Teithwyr:
    - yn ystadegol, dyma'r grŵp mwyaf agored i niwed o unrhyw grŵp yn y DU,
    - dywedodd 86% mai bwlio oedd eu her fwyaf yn yr ysgol,
    - maent yn gadael yr ysgol yn gynnar,
    - mae tua 50% methu â mynychu'r ysgol yn barhaus,
    - mae ganddynt y cyrhaeddiad isaf o'r holl grwpiau ethnig, a
    - maent yn cyfrif am 15% o unedau hyfforddi diogel.

4.13 Ceiswyr lloches, ffoaduriaid ac ymfudwyr[169]

Mae ceisiwr lloches yn berson sydd hefyd yn ceisio amddiffyniad rhyngwladol rhag

[168] Evidence for Equality National Survey, Centre on the Dynamics of Ethnicity - Racism and ethnic inequality in a time of crisis
[169] Llywodraeth Cymru - Cenedl Noddfa - Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (2019)

peryglon yn ei wlad enedigol, ond nad yw ei hawliad am statws fel ffoadur wedi'i bennu yn gyfreithiol. Er enghraifft, person sydd wedi dod i'r DU i ymarfer ei hawl i geisio lloches o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig 1951 sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid, y'i gelwir yn fyr yn Gonfensiwn Ffoaduriaid 1951. Os yw eu hawliad yn llwyddiannus, rhoddir statws ffoadur i berson.

Mae ffoadur yn berson sydd wedi cael ei orfodi i ffoi o'u cartref oherwydd rhyfel, trais neu erledigaeth, yn aml heb rybudd ac nad yw'n gallu dychwelyd adref oni bai bod amodau yn eu gwlad enedigol yn ddiogel iddynt.

Mae ymfudwr yn derm ymbarél nad oes ganddo ddiffiniad cyfreithiol o dan gyfraith ryngwladol. Fel arfer mae'n disgrifio person sydd wedi gadael eu cartref, naill ai yn eu gwlad neu ar draws ffiniau. Gall hyn fod dros dro neu'n barhaol ac oherwydd amrywiol resymau. Er enghraifft, efallai y byddant yn teimlo nad oes ganddynt ddewis ond gadael eu cartrefi oherwydd aflonyddwch gwleidyddol, tlodi neu amgylchiadau difrifol eraill a allai wneud dychwelyd yn anniogel. Mae eraill yn gadael yn wirfoddol am resymau fel addysg, cyfleoedd gwaith tymhorol neu i ymuno â'u teuluoedd.

Nid yw materion yn ymwneud â mewnfudo na cheisio lloches wedi eu datganoli i Gymru. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldebau dros lawer o agweddau ar fywyd a fydd yn effeithio ar geiswyr lloches yng Nghymru, ac un o'r agweddau hyn yw eu mynediad at wasanaethau iechyd.

Mae ceiswyr lloches yn un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed o fewn cymdeithas, gydag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth yn aml. Gall y rhain gael eu dylanwadu gan brofiadau cyn gadael eu gwlad enedigol, yn ystod y daith, neu wrth iddynt gyrraedd y DU.

Mae gan lawer o geiswyr lloches anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth. Mae menywod beichiog, plant heb oedolyn cyfrifol, y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl sylweddol, a'r rhai sydd wedi profi digwyddiadau trawmatig fel treisio neu artaith, yn debygol o fod yn arbennig o agored i niwed.

Yr un yw llawer o'u gofynion iechyd â gofynion pobl yn y gymuned leol, er y gall fod ganddynt rai problemau iechyd neu broblemau yn gysylltiedig ag iechyd sy'n wahanol[170]. Gall y gwasanaethau hyn gynnwys:

- problemau penodol yn sgil eu profiadau a'u hamgylchiadau a allai fod wedi peri iddynt wneud cais am loches, e.e. wedi bod yn destun artaith/camdriniaeth neu wedi bod yn dyst i hynny,
- heriau iechyd megis:
    - Imiwneiddiadau anghyflawn
    - clefydau trosglwyddadwy fel twbercwlosis, HIV/AIDS a mathau eraill o glefydau a drosglwyddir yn rhywiol
    - bod yn fwy agored i gael cyflyrau penodol,
- afiechyd cronig,

[170] Llywodraeth Cymru - Darpariaeth iechyd a llesiant i ffoaduriaid a cheiswyr lloches (2018)

- problemau iechyd meddwl a all fod yn gysylltiedig â phrofiadau yn y gorffennol neu broblemau sydd ganddynt eisoes, ond sy'n cael eu gwaethygu gan eu hamgylchiadau presennol e.e. anhwylder straen ôl-drawmatig
- iechyd deintyddol.

Mae tystiolaeth bod unigolion nad ydynt wedi'u geni yn y DU sy'n byw yn y DU yn cael canlyniadau gwaeth o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl na thrigolion eraill, er bod hyn yn amrywio yn ôl hanes mudo. Mae amgylchiadau economaidd-gymdeithasol a rheoliadau mewnfudo sy'n effeithio ar rai grwpiau o fudwyr yn effeithio'n negyddol ar eu mynediad at ofal iechyd a'u defnydd ohono. Mae cyfraddau clefydau heintus, gan gynnwys twbercwlosis a HIV, yn uwch nag ar gyfer pobl nad ydynt yn fudwyr. Gall diffyg ymwybyddiaeth o gymhwysedd ar gyfer gofal iechyd, problemau iaith, ac ofn y bydd rhywun yn rhoi gwybod amdanynt i Asiantaeth Ffiniau'r DU, fod yn rhwystrau i gael mynediad at ofal.

Mae tystiolaeth o lefelau uwch o iselder a gorbryder ymhlith ceiswyr lloches a ffoaduriaid o'i gymharu â'r boblogaeth genedlaethol, ac mae llawer o ymchwil wedi canolbwyntio ar effaith gorfforol a meddyliol gwrthdaro a rhyfel yn eu gwledydd gwreiddiol. Mae plant, a menywod sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol a chorfforol yn grwpiau sy'n arbennig o agored i niwed.

Ym mis Ionawr 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru 'Cenedl Noddfa - Cynllun ffoaduriaid a cheiswyr lloches[171], sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r materion pwysicaf canlynol o ran ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

- Gall ffoaduriaid a cheiswyr lloches ddefnyddio gwasanaethau iechyd (gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl) y mae arnynt eu hangen drwy gydol y 'daith lloches'. Mae hyn yn cynnwys asesiadau iechyd wrth gyrraedd y wlad, ac yn ystod y cyfnodau gwasgaru ac ôl-drawma.
- Bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael y wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i ddechrau integreiddio i gymdeithas Cymru o'r diwrnod cyntaf.
- Nad yw ceiswyr lloches yn cael eu hatal rhag cael mynediad at gynlluniau priodol Llywodraeth Cymru a fyddai'n eu helpu i integreiddio.
- Bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches newydd yn llai tebygol o wynebu amddifadedd.
- Bod pob ffoadur a cheisydd lloches (yn enwedig plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches) yn cael eu diogelu'n briodol ac yn gallu cael gafael ar gefnogaeth eirioli.
- Bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn gallu cael mynediad at gyfleoedd addysgol, gan gynnwys sgiliau iaith, i'w helpu i ailadeiladu eu bywydau a chyflawni eu potensial llawn.

4.14 Cyn-filwyr[172]

Y diffiniad o gyn-filwr yw unrhyw un sydd wedi gwasanaethu am o leiaf un diwrnod

[171] Llywodraeth Cymru - Cenedl Noddfa - Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (2019)
[172] Y Weinyddiaeth Amddiffyn - Veterans Key Facts

yn Lluoedd Arfog ei Mawrhydi (rheolaidd neu wrth gefn), neu forwyr masnachol sydd wedi gwasanaethu mewn ymgyrchoedd milwrol â diffiniad cyfreithiol.

Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr[173] oedd y cyntaf i ofyn i bobl a oedden nhw wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU o'r blaen. Gofynnwyd i bobl 16 oed a hŷn a oeddent wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog rheolaidd neu wrth gefn y DU, neu'r ddau. Rhoddwyd cyfarwyddyd i bobl sy'n gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU ar hyn o bryd a'r rhai nad oeddent erioed wedi gwasanaethu i dicio "na".

Mae data'r Cyfrifiad yn nodi:

- Roedd 1,853,112 o bobl wedi gwasanaethu yn flaenorol yn lluoedd arfog y DU yng Nghymru a Lloegr yn 2021, 3.8% o'r boblogaeth 16 oed a hŷn. Mae hyn bron yn un o bob 25 o bobl 16 oed a hŷn yng Nghymru a Lloegr.
- Roedd dros dri chwarter cyn-filwyr lluoedd arfog y DU sy'n byw yng Nghymru wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog rheolaidd yn unig o'r blaen (88,000 o bobl), ac roedd 22,000 wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog wrth gefn yn unig. Roedd y 5,000 arall wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog rheolaidd a'r lluoedd arfog wrth gefn.
- Roedd cyfran cyn-filwyr lluoedd arfog y DU yn uwch yng Nghymru (4.5% o'r boblogaeth 16 oed a hŷn) nag oedd yn Lloegr (3.8%).
- Ledled Cymru, yr awdurdodau lleol gyda'r ganran uchaf o gyn-filwyr oedd Conwy (5.9%), Sir Benfro (5.7%) ac Ynys Môn (5.6%). Mae'r awdurdodau lleol hyn i gyd yn cynnwys neu wedi'u lleoli ger sefydliadau milwrol, sy'n awgrymu bod cyn-filwyr lluoedd arfog y DU yn tueddu i aros yn yr un ardaloedd ar ôl iddynt adael y gwasanaeth.
- Caerdydd oedd â'r gyfran isaf o gyn-filwyr gyda llai na 2.9% o'r boblogaeth.
- Nododd 15,564 o drigolion Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg eu bod wedi gwasanaethu yn flaenorol yn lluoedd arfog y DU[174] (naill ai fel milwyr rheolaidd a/neu wrth gefn). Mae dosbarthiad oedran y cyn-filwyr hyn yn gwyro tuag at y rhai sydd dros oedran ymddeol. Fodd bynnag, oherwydd y gostyngiad a ragwelir yn y nifer o bobl yn y grŵp hwn, ynghyd â'r newidiadau[175] sydd ar y gweill yn Lluoedd Arfog y DU, bydd nifer uwch o gyn-filwyr y dyfodol yn bobl iau. O'r herwydd, mae eu hanghenion iechyd yn debygol o fod yn wahanol i anghenion cyn-filwyr hŷn.
- Mae'r rhan fwyaf o gyn-filwyr yn dweud iddynt gael profiad dymunol yn y fyddin, ac nid ydynt yn dioddef o ganlyniadau iechyd andwyol o ganlyniad i'w hamser yn y fyddin. At ei gilydd, mae iechyd cyffredinol y boblogaeth cyn-filwyr yn dda, yn enwedig o ran ffitrwydd corfforol cyffredinol. Fodd bynnag, mae cyfraddau uwch o rai cyflyrau ymhlith cyn-filwyr yn sgil gwasanaethu yn y fyddin o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Ymhlith y cyflyrau hyn y mae iselder, problemau gyda'r cefn, problemau gyda'r coesau a'r breichiau, problemau gyda'r galon, diabetes a phroblemau clyw a golwg. Mae proffil oedran hŷn cyn-filwyr yn cyfrif am lawer o'r gwahaniaethau hyn.

[173] Cyfrifiad 2021 - UK armed forces veterans, England and Wales - Office for National Statistics
[174] NOMIS TS071 – previously served in UK Armed Forces
[175] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Health and Wellbeing Needs of Armed Forces Veterans

- Mae 8.7% o gyn-filwyr y DU yn anabl[176] (hunan-adrodd, amcangyfrif wedi'i bwysoli). Roedd cyn-filwyr anabl yn llawer iawn fwy tebygol o grybwyll lles gwael, unigrwydd, a rhwystrau wrth gael mynediad at wasanaethau. Problemau cyhyrysgerbydol[177] yw'r problemau iechyd hirdymor mwyaf cyffredin ymhlith cyn-filwyr y DU, yn aml yn deillio o ofynion corfforol trwm yn ystod eu gwasanaeth.
- Mae'r cyflyrau hyn wedi'u cysylltu'n gryf â:
    - poen cronig
    - problemau symudedd
    - llai o annibyniaeth
    - risg uwch o iselder ac unigrwydd

Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd Kings Centre for Military Health Research adroddiad[178] sy'n cynnwys data a gasglwyd gan bersonél lluoedd arfog y DU sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd ac a fu'n gwasanaethu'n flaenorol. Ymatebodd 4,104 i holiadur manwl yn archwilio symptomau anhwylderau meddwl cyffredin, anhwylder straen ôl-drawmatig cludadwy, anhwylder straen ôl-drawmatig cymhleth a chamddefnyddio alcohol. Dangosodd y data hwn:

- Adroddodd 28% o'r ymatebwyr fod ganddynt symptomau anhwylderau meddwl cyffredin, i fyny o 22% yn 2014/16 ac 20% yn 2004/2006.
- Adroddodd 9% o'r ymatebwyr fod ganddynt anhwylder straen ôl-drawmatig tebygol, i fyny o 6% yn 2014/16 a 4% yn 2004/2006.
- Roedd cyn-bersonél rheolaidd yn adrodd cyfraddau anhwylder straen ôl-drawmatig tebygol uwch na milwyr Rheolaidd sy'n gwasanaethu ar 11% yn erbyn 7% yn y drefn honno.

Mae'r data yn tynnu sylw at yr achosion yn seiliedig ar statws gwasanaethu gyda chyn-bersonél rheolaidd ar 11% a phersonél rheolaidd sy'n gwasanaethu ar 7%. Mae hyn yn cefnogi canfyddiadau'r gorffennol bod anhwylder straen ôl-drawmatig yn aml yn dod i'r amlwg neu'n gwaethygu ar ôl gadael y lluoedd arfog, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio i fywyd sifil.

Phase 4 yw'r tro cyntaf i anhwylder straen ôl-drawmatig cymhleth gael ei fesur yn y garfan hon gan ddarparu tystiolaeth newydd hanfodol. Mae'n gyflwr is-set o anhwylder straen ôl-drawmatig sy'n aml yn cael ei achosi trwy brofi digwyddiadau trawmatig hirdymor neu ailadroddus ar yr un pryd â phrofi symptomau ychwanegol fel anhawster rheoli emosiynau. Canfu ymchwilwyr fod bron i dri chwarter (72%) o'r ymatebwyr ag anhwylder straen ôl-drawmatig tebygol yn bodloni'r trothwy ar gyfer anhwylder straen ôl-drawmatig cymhleth.

Dywedodd Dr Marie-Louise Sharp, Uwch Gymrawd Ymchwil yn Kings Centre for Military Health Research a phrif awdur yr adroddiad, 'mae anhwylder straen ôl-

[176] GOV.UK - Health and wellbeing of UK Armed Forces veterans: Veterans' Survey 2022, UK
[177] Forward Assist - Alone After Service: Addressing the Crisis of Isolation Among UK Veterans with Musculoskeletal Mobility Issues
[178] Office for Veterans' Affairs - Office for Veterans' Affairs Final Report. Health and Wellbeing Study of Serving and Ex-Serving UK Armed Forces Personnel: Phase 4

drawmatig yn gyflwr a allai newid bywyd a all fod yn anodd ei drin. Gall darparu triniaeth effeithiol i unigolion ag anhwylder straen ôl-drawmatig cymhleth fod yn anoddach, oherwydd gallant gymryd mwy o amser i ddod ymlaen a gofyn am help ac maent yn fwy tebygol o fod yn rheoli nifer o wahanol afiechydon meddwl. Bydd angen i wasanaethau sy'n darparu ar gyfer cyn-bersonél y lluoedd arfog asesu pa mor dda y maent yn cefnogi ac yn trin cyflyrau iechyd cymhleth a chydafiachedd.".

Roedd cyfraddau camddefnyddio alcohol wedi gostwng yn y cyfnodau blaenorol ond mae'n ymddangos ei fod yn aros yn ei unfan ac yn parhau ar lefel uchel o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

Canfuwyd bod problemau iechyd meddwl yn sgil wynebu brwydr ac ar ôl dychwelyd o'r fyddin yn ffactorau risg ar gyfer trais yn y cartref a'r tu allan iddo.

Dangosodd y data cenedlaethol cyntaf a gyhoeddwyd ar hunanladdiad ymhlith cyn-filwyr yng Nghymru a Lloegr[179] fod 253 o gyn-filwyr lluoedd arfog y DU wedi marw trwy hunanladdiad yn 2021, gyda 93.7% ohonynt yn ddynion a 6.3% yn fenywod. Roedd 5.9% o'r 253 o hunanladdiadau ymhlith cyn-filwyr lluoedd arfog y DU yn 2021 yng Nghymru.

Nid oedd cyfraddau cyffredinol ar gyfer cyn-filwyr y DU yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, mae cyfraddau hunanladdiad dwy i bedair gwaith yn uwch ymhlith cyn-filwyr gwrywaidd a benywaidd rhwng 16 a 24 oed o'i gymharu â'r un grŵp oedran yn y boblogaeth gyffredinol.

Canfu Suicide after leaving the UK Armed Forces 1996–2018: a cohort study[180,181] a gyhoeddwyd yn 2023, fod cyn-filwyr lluoedd arfog y DU fwyaf mewn perygl o hunanladdiad yn ystod eu dwy flynedd gyntaf ar ôl gadael y lluoedd arfog. Mae'r canlynol yn ffactorau sy'n gysylltiedig â risg uwch o hunanladdiad:

- bod yn wrywaidd,
- gwasanaethu yn y Fyddin,
- yn cael eu rhyddhau rhwng 16 a 34 oed,
- llai na 10 mlynedd o wasanaeth, a
- heb ei hyfforddi adeg eu rhyddhau.

Roedd chwarter yr holl gyn-filwyr a fu farw trwy hunanladdiad wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl yn y flwyddyn cyn iddynt farw.

Cyhoeddwyd The United Kingdon armed forces Veteran's Health and Gambling Study yn 2021[182] a chanfu bod cyn-filwyr yn llawer mwy tebygol o gael trafferth gyda phroblemau gamblo na rhai nad ydynt yn gyn-filwyr yn y DU. Roedd cyn-filwyr a

[179] Cyfrifiad 2021- Suicides in UK armed forces veterans, England and Wales - Office for National Statistics
[180] National Confidential Inquiry into Suicide and Safety in Mental Health, The University of Manchester - Suicide after leaving the UK Armed Forces 1996–2018: A cohort study
[181] Y Samariaid - Armed Forces and Veteran Suicide
[182] Prifysgol Abertawe - The United Kingdom Armed Forces Veterans' Health and Gambling Study

ymatebodd i'r arolwg yn fwy na deg gwaith yn fwy tebygol nag ymatebwyr nad ydynt yn gyn-filwyr o brofi niwed gamblo. Roedden nhw hefyd bedair gwaith yn fwy tebygol o fod wedi gamblo yn ddiweddar, ac ar fwy o weithgareddau nag ymatebwyr nad ydynt yn gyn-filwyr. Roedd gamblo ymhlith cyn-filwyr saith gwaith yn fwy tebygol o gael ei ysgogi gan angen i ddianc neu osgoi trallod a chanfuwyd hefyd eu bod mewn llawer mwy o berygl o ganlyniadau iechyd meddwl gwael gan gynnwys iselder, gorbryder, anhwylder straen ôl-drawmatig, a bod ganddynt ddibyniaeth ar alcohol a/neu nicotin.

Ymhlith y materion eraill sy'n bwysig i gyn-filwyr yn ôl astudiaethau y mae:

- Argaeledd tai addas ac atal digartrefedd.
- Cefnogi cyn-filwyr i gael gwaith.
- Cael cymorth a gwybodaeth ariannol priodol am fudd-daliadau perthnasol.
- Defnyddio gwasanaethau iechyd a chymorth.
- Cefnogi cyn-filwyr sydd wedi bod yn y system cyfiawnder troseddol.
- Unigrwydd ac arwahanrwydd.
- Cefnogi teuluoedd ehangach cyn-filwyr.

4.15 Myfyrwyr prifysgol

I lawer o fyfyrwyr prifysgol, hwn fydd y tro cyntaf iddynt symud i ffwrdd o'r cartref i fyw'n annibynnol. Mae'n gyfnod o newid mawr iddynt, a gall heriau'r bywyd prifysgol effeithio ar ofal iechyd. Mae anghenion iechyd[183] a nodwyd yn cynnwys:

- Sgrinio ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, a thrin yr heintiau hyn.
- Rhoi'r gorau i ysmygu.
- Brechu rhag Meningitis.
- Cymorth i fyfyrwyr ynghylch y defnydd o alcohol a sylweddau.
- Darparu dulliau atal cenhedlu, gan gynnwys dulliau atal cenhedlu brys.
- Cymorth iechyd meddwl (mae straen, gorbryder, ac iselder yn gyffredin oherwydd pwysau academaidd a materion personol).
- Cymorth lles cymdeithasol (teimlo'n gysylltiedig a chael sicrwydd o gefnogaeth o fewn cymuned y brifysgol. Gall unigrwydd ac ynysigrwydd effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl a chorfforol).
- Pryderon ynghylch iechyd corfforol (maeth gwael, diffyg ymarfer corff, ac aflonyddwch cwsg)

Cynhaliwyd astudiaeth yn y DU gan Transforming Access and Student Outcomes in Higher Education a The Policy Institute Kings College London yn archwilio addysg uwch ym Mhrydain yn 2024[184] a chanfuwyd:

- Adroddodd bron i un o bob pump (18%) o fyfyrwyr fod ganddynt broblem iechyd meddwl yn 2024, deirgwaith y gyfradd yn 2017, pan oedd yn 6%.

[183] Addysg - Health and Wellbeing Services for Students in UK Universities
[184] Transforming Access and Students outcomes in Higher Education - Report Student mental health in 2024: How the situation is changing for LGBTQ+ students

- Mae 17.9% o fyfyrwyr yn adrodd fod ganddynt heriau iechyd meddwl, sy'n dangos bod bron i un o bob pump o fyfyrwyr, neu tua 300,000 o fyfyrwyr yn y DU bellach yn profi anawsterau iechyd meddwl.
- Gorbryder ac iselder yw'r prif heriau iechyd meddwl o hyd ymhlith myfyrwyr, sy'n gysylltiedig â:
    - pwysau costau byw,
    - straen academaidd,
    - effeithiau yn dilyn y pandemig, a
    - ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd.
- Mae anawsterau iechyd meddwl yn uwch ymhlith myfyrwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol, cwiar a chynghreiriaid. Yn 2024 myfyrwyr deurywiol oedd â'r gyfradd uchaf (30%), ac yna myfyrwyr Lesbiaidd (29%).
- Mae mwy na hanner y myfyrwyr anneuaidd a myfyrwyr â hunaniaeth cwiar bellach yn profi anawsterau iechyd meddwl.
- Mae myfyrwyr benywaidd ddwywaith yn fwy tebygol o adrodd fod ganddynt anawsterau iechyd meddwl (22%) o'i gymharu â myfyrwyr gwrywaidd (11%), gyda'r bwlch yn cynyddu o'i gymharu â 2023, er bod marwolaeth trwy hunanladdiad yn fwy cyffredin ymhlith dynion ifanc na menywod ifanc, sy'n awgrymu angen dybryd iawn am gymorth ymhlith myfyrwyr gwrywaidd.
- Gofynnwyd i 40,810 o fyfyrwyr a oeddent wedi ystyried gadael y brifysgol, roedd 27.9% neu ychydig dros un o bob pedwar myfyriwr wedi ystyried hynny gan roi anawsterau iechyd meddwl fel y rheswm mwyaf cyffredin. Roedd y rheswm hwn yn sylweddol fwy na phob rheswm arall, gan gynnwys anawsterau ariannol.
- Mae data 2024 yn dangos bod cyfran y myfyrwyr sydd wedi ystyried gadael y brifysgol wedi gostwng yn dilyn cyfraddau eithaf cyson yn y blynyddoedd blaenorol.

4.16 Ymwelwyr â'r ardal ar gyfer busnes, neu i ymweld â ffrindiau a theulu neu atyniadau twristaidd

Mae ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, sy'n rhan o Gymoedd De Cymru, wedi'i lleoli rhwng yr arfordir a Bannau Brycheiniog ac mae'n ardal gyfoethog o ran hanes, natur a gweithgareddau hwyliog, gan gynnwys atyniadau fel Parc Treftadaeth y Rhondda (glofaol), Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Beicio Cymru, Profiad y Bathdy Brenhinol, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, Zip World Tower, llwybrau cerdded fel Llwybr Pererindod Penrhys, Amgueddfa Cwm Cynon, a mannau arfordirol fel Ynys y Barri gyda'i pharc pleser a'i thraethau.

Gall ymwelwyr archwilio cestyll, mwynhau anturiaethau awyr agored, a darganfod treftadaeth leol yn yr ardal amrywiol hon o gymoedd Cymru.

Ni ragwelir y bydd anghenion iechyd y grŵp cleifion hwn yn debygol o fod yn wahanol i anghenion y boblogaeth gyffredinol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Gan na fyddant ond yn yr ardal am gyfnod byr, mae'r canlynol yn debygol o fod ymhlith eu hanghenion iechyd:

- triniaeth ar gyfer cyflwr acíwt sydd angen presgripsiwn,
- ymgynghoriadau ar gyfer mân anhwylderau neu salwch,
- y angen am bresgripsiynau amlroddadwy,
- cymorth hunan-ofal, neu
- cymorth am sut i ddod o hyd i wasanaethau iechyd eraill fel meddygon teulu neu ddeintyddion

4.17 Gofalwyr

Mae Carers Wales[185] yn diffinio gofalwr di-dâl fel person sy'n darparu cymorth a gofal di-dâl i un neu fwy o bobl oherwydd eu bod yn sâl, bod ganddynt anabledd, eu bod yn agored i niwed, bod ganddynt gyflwr iechyd meddwl, bod ganddynt ddibyniaeth weithredol neu eu bod yn hŷn.

Nododd tua 310,751 o bobl ledled Cymru yng Nghyfrifiad 2021 eu bod yn ofalwr di-dâl. Mae hyn yn cyfateb i tua 10.5% neu un o bob 11 o bobl pump oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru. Mae tua 58% o'r gofalwyr yng Nghymru yn fenywod a 42% yn ddynion. Mae'r gyfran uchaf o ofalwyr di-dâl yn y grŵp oedran 55 i 59.

Roedd cyfran y bobl sy'n darparu gofal wedi gostwng yng Nghymru rhwng y ddau gyfrifiad - o 13% i 10.5%. Mae'r canlynol yn resymau posibl dros y gostyngiad:

- roedd llai o bobl yng Nghymru yn darparu gofal di-dâl
- cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig Covid-19 gyda chyfyngiadau ar deithio ac aelwydydd yn cymysgu a allai fod wedi golygu bod pobl wedi stopio neu leihau'r gofal a ddarparwyd ganddynt. Efallai bod un person wedi ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu a oedd wedi'u rhannu yn flaenorol, sy'n golygu bod llai o bobl yn darparu gofal ond bod rhai unigolion yn ymgymryd â mwy o oriau.
- roedd hefyd nifer uwch o farwolaethau na'r disgwyl yn y boblogaeth hŷn ar ddechrau 2021 oherwydd Covid-19 ac achosion eraill[186]. Mae'n bosibl bod hyn wedi arwain at lai o angen am ofal di-dâl.

Roedd Cyfrifiad 2021 hefyd yn nodi canran uwch o bobl sy'n darparu gofal di-dâl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (11.5%) o'i gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig (9.7%) a'r honiad yw bod awdurdodau lleol sydd â chyfraddau uchel o ofal di-dâl yng Nghymru yn cyd-fynd â'r hen gymunedau glofaol yng Nghymoedd De Cymru, sydd hefyd â chyfran uchel o bobl anabl sy'n nodi bod ganddynt iechyd "gwael" neu "wael iawn".

Mae llawer o ofalwyr yn annhebygol o fod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu rôl gofalu a gall straen sy'n gysylltiedig â darparu gofal fod yn aml yn barhaus, yn anreoladwy ac yn anrhagweladwy. Mae'r heriau y gall gofalwyr eu profi[187] fel a ganlyn.

---

[185] Carers Wales making life better for carers - final-census-2021-briefing-welsh.pdf
[186] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Excess deaths in England and Wales
[187] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal – Tachwedd 2020 Support for adult carers: What challenges do carers experience?

- Effaith ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl
  - Esgeuluso eu hiechyd eu hunain - gall hyn fod oherwydd nad yw'n flaenoriaeth oherwydd eu rôl gofalu, neu oherwydd nad ydynt yn gallu gadael y person y maent yn gofalu amdano er mwyn mynychu apwyntiadau.
  - Yn fwy tebygol o adrodd fod ganddynt gyflwr hirdymor, anabledd, neu salwch o'i gymharu â phobl nad ydynt yn ofalwyr a gallant brofi anaf corfforol o ganlyniad i ofalu, er enghraifft anafiadau i'r cefn a'r ysgwyddau.
  - Mae hyd at 40% o ofalwyr yn profi trallod ac iselder sylweddol o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, ac mae gofalwyr yn y DU bron ddwywaith yn fwy gorbryderus.
  - Canfu arolwg cenedlaethol o 195,364 o ofalwyr yn Lloegr ansawdd bywyd gwaeth mewn cysylltiad ag iechyd (mewn perthynas â symudedd, hunanofal, poen, gorbryder, iselder a gweithgareddau arferol) ymhlith gofalwyr, o'i gymharu â phobl nad ydynt yn ofalwyr o oedran, rhyw, ethnigrwydd ac amddifadedd cymdeithasol tebyg.
- Effeithiau cymdeithasol, er enghraifft ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd
  - O'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, mae gofalwyr saith gwaith yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn aml neu bob amser yn unig. Gall gofalu hefyd effeithio ar berthnasoedd a'r gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol.
- Anawsterau ariannol
    - Mae'n bosibl y bydd eu rôl gofalu yn effeithio ar eu hincwm. Gall amser a chostau darparu gofal hefyd arwain at filiau uwch a phwysau ariannol.
    - Nid yw llawer o ofalwyr yn hawlio'r holl fudd-daliadau y maent yn gymwys i'w derbyn.

Ategir hyn ymhellach gan arolwg a gynhaliwyd gan Carers Wales[188] rhwng Mehefin ac Awst 2025, gydag ymatebwyr yn adrodd bod eu rôl gofalu yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl, iechyd corfforol, lefelau diffyg cwsg, ac unigrwydd ac ynysigrwydd.

Mae gan ofalwyr yng Nghymru hefyd broblemau iechyd aml sy'n cynnwys gorbryder, iselder, pwysedd gwaed uchel, anhwylderau cyhyrysgerbydol, a blinder cronig. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol hefyd yn profi canlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys ymdeimlad o bwrpas, twf personol a pherthnasoedd agosach[189,190,191],

4.18 Pobl sy'n byw mewn amddifadedd

Mae amddifadedd yn Ne Cymru wedi'i wreiddio'n ddwfn ac yn grynodedig, yn enwedig o fewn hen gymoedd diwydiannol a phocedi o ddinasoedd mawr, gydag

[188] Carers Wales State of Caring in Wales 2025
[189] Gwasg Prifysgol Bryste Digidol Gorffennaf 2020 - The positive effects of caring for family carers of older adults: a scoping review
[190] Gwasg Prifysgol Caergrawnt Mehefin 2022 - Positive experiences in dementia care-giving: findings from the IDEAL programme
[191] Aum Care Tachwedd 2023 - Emotional and Psychological Benefits of Caregiving

awdurdodau lleol fel Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, a Chaerdydd yn dangos y crynodiadau uchaf o anghydraddoldeb. Yn yr ardaloedd hyn, mae gwahaniaethau iechyd yn amlwg, gyda thrigolion yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn byw ar gyfartaledd 17 mlynedd yn llai mewn iechyd da o'i gymharu â'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig[192].

Yn seiliedig ar ddata amrywiol, mae'r grwpiau canlynol yng Nghymru yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan amddifadedd[193,194,195]:

- Plant (0 i 19 oed)
    - Mae tua 29.3% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi, gyda chyfraddau yn codi yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.
    - Plant ifanc 0-4 oed yw'r grŵp oedran mwyaf tebygol o fyw mewn aelwydydd ag amddifadedd incwm.
- Pobl anabl
    - Mae'r rhai y mae eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig "iawn" yn fwyaf tebygol o fyw yn y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- Rhieni sengl ac unigolion sydd wedi gwahanu
    - Mae bron i hanner (49%) o rieni sengl yng Nghymru yn profi amddifadedd materol.
- Grwpiau ethnig penodol
    - Mae pobl sy'n uniaethu fel Affricanaidd, Du Arall, neu Bangladeshaidd ymhlith y rhai mwyaf tebygol o fyw yn y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- Oedolion iau (16 i 34 oed)
    - Mae'r grŵp oedran hwn fyn fwy tebygol o fyw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o'i gymharu ag unigolion hŷn, sydd wedi ymddeol.
- Gofalwyr di-dâl
    - Mae unigolion sy'n darparu 20 neu fwy o oriau o ofal yr wythnos yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o fyw mewn ardaloedd difreintiedig.

Mae amddifadedd yn gweithredu fel ffactor sy'n "gwaethygu", gyda chyfraddau marwolaethau uwch, disgwyliad oes is, a nifer uwch o glefydau cronig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Roedd adolygiad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021[196] yn crynhoi'r dystiolaeth allweddol sy'n ymwneud â sut mae amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar bobl Cymru. Mewn perthynas ag iechyd, mae'r dystiolaeth yn dangos bod anghydraddoldebau iechyd yn effeithio'n anghymesur ar

[192] Iechyd Cyhoeddus Cymru Ionawr 2025 - Mae atal iechyd gwael yn rhoi gwell gwerth am arian i GIG Cymru ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau
[193] Llywodraeth Cymru - Dadansoddiad o nodweddion poblogaeth yn ôl amddifadedd ardal
[194] Llywodraeth Cymru - Tlodi ac amddifadedd (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2021 i Fawrth 2022
[195] Llywodraeth Cymru - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: dadansoddiad amddifadedd sy'n ymwneud â phlant ifanc
[196] Llywodraeth Cymru Adolygiad o dystiolaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau

gymunedau penodol, ac mae amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd gwaeth. Mae canlyniadau iechyd yn gysylltiedig â ffactorau fel:

- gallu cynnal diogelwch incwm ac amddiffyniadau cymdeithasol,
- amodau byw gweddus,
- cyfalaf cymdeithasol a dynol,
- mynediad at wasanaethau iechyd digonol, a
- cyflogaeth ac amodau gwaith gweddus.

Yn ogystal â disgwyliad oes is i oedolion sy'n byw yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru, mae plant yn yr ardaloedd hynny yn cael canlyniadau iechyd gwaeth. Mae iechyd meddwl pobl yn waeth mewn ardaloedd o'r fath, gydag amddifadedd yn gysylltiedig â chynnydd mewn straen, problemau iechyd meddwl a hunanladdiad.

Mae ffactorau cydgysylltiedig fel cael mynediad gwael i chwaraeon a bod yn llai abl i gael deiet iachach yn gallu arwain at ganlyniadau corfforol gwaeth. Gall straen economaidd a chysylltiedig â gwaith, a methu â chymryd rhan a theimlo'n rhan o gymuned, gynyddu unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, gan arwain at les meddyliol gwaeth.

4.19 Pobl sy'n gadael y carchar

Mae pobl sy'n gadael y carchar yn y DU yn wynebu anghenion iechyd sylweddol, sy'n aml yn gymhleth, a'r rheiny'n aml yn cael eu gwaethygu gan allgáu cymdeithasol, ansefydlogrwydd tai, a pharhad gofal gwael, gan arwain at boblogaeth sydd â chanlyniadau iechyd llawer gwaeth na'r boblogaeth gyffredinol. Mae gan tua 90% o'r 72,000 o bobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar bob blwyddyn yn y DU ryw fath o angen iechyd meddwl neu angen mewn cysylltiad â chamddefnyddio sylweddau[197].

Mae cyfran sylweddol o bobl sy'n gadael carchar yng Nghymru yn ddigartref neu heb lety sefydlog ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, sy'n rhwystr i gael mynediad at ofal iechyd. Mae pobl sy'n gadael carchar yng Nghymru yn aml yn dod o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, gan brofi "anfantais ddwbl" trwy anghydraddoldeb iechyd ac anhawster cael mynediad at wasanaethau.

Mae anghenion iechyd pobl sy'n gadael y carchar yn cynnwys[198,199,200]:

- iechyd meddwl,
- camddefnyddio sylweddau,
- materion iechyd corfforol, sy'n cynnwys cyflyrau anadlol, clefydau heintus, a phroblemau symudedd. Yn aml, mae gan garcharorion sy'n heneiddio

[197] Centre for Mental Health Report: From prison to work (2018)
[198] Sage Journals May 2024 - People on probation as an inclusion health group: Exploring needs, barriers and service provision in Wales
[199] GOV.UK - Wales Reducing Reoffending Strategy 2014 - 2016
[200] Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM - Cynllun Lleihau Aildroseddu ar gyfer Cymru 2022-25

broblemau iechyd cymhleth, ac yn ymddangos ddeng mlynedd yn hŷn na'r boblogaeth gyffredinol,
- firysau a gludir yn y gwaed,
- cyflyrau iechyd cronig gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd,
- gofal cymdeithasol ac anabledd,
- cyfathrebu a niwroamrywiaeth - mae tua 25% o boblogaeth carchardai'r DU yn cael anawsterau cyfathrebu neu brosesu gwybodaeth, sy'n aml yn arwain at fwy o fregusrwydd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau,
- gall cyfraddau marwolaethau pobl yn y pythefnos cyntaf o dan oruchwyliaeth ar ôl eu iddynt gael eu rhyddhau fod hyd at 12.5 gwaith yn uwch a risg hunanladdiad 3.7 gwaith yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol, a
- problemau o ran meddyginiaeth a pharhad gofal sy'n pontio'r bwlch rhwng gwasanaethau iechyd carchar a chymunedol, yn enwedig ar gyfer mynediad at feddyginiaeth a gofal parhaus.

4.20 Pobl â dibyniaeth ar sylweddau

Yn seiliedig ar y data diweddaraf ar gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru[201], roedd cyfanswm o 869 o waharddiadau mewn ysgolion o ganlyniad i alcohol neu gyffuriau ymhlith plant oedran ysgol yn 2022/23, cynnydd o 119% ers 2020/21. Dyma'r nifer uchaf o waharddiadau ers 2011/12.

Roedd 4,960 o blant yng Nghymru yn derbyn gofal a chymorth oherwydd camddefnyddio sylweddau gan rieni yn 2022/23, gyda 630 o blant yn derbyn gofal a chymorth am gamddefnyddio sylweddau eu hunain.

Roedd cyflyrau alcohol yn cyfrif am niferoedd is o bobl ifanc o dan 25 oed a dderbyniwyd i'r ysbyty, sef gostyngiad o 34.6 y cant o gymharu â 2021/22. Ar gyfer oedolion 25-49 oed, roedd nifer y derbyniadau i'r ysbyty oherwydd gwenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon wedi gostwng 10.6 y cant yn y flwyddyn flaenorol, o 4,859 yn 2021/22 i 4,342 yn 2022/23.

Ar gyfer oedolion 25-49 oed, roedd nifer y derbyniadau i'r ysbyty oherwydd gwenwyno cyffuriau anghyfreithlon wedi gostwng 10.6%, o 4,859 yn 2021/22 i 4,342 yn 2022/23. Pan fydd derbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyffuriau anghyfreithlon yn digwydd, mae opioidau yn parhau i gyfrif am lawer mwy o dderbyniadau nag unrhyw grŵp arall o sylweddau anghyfreithlon. Roedd 38.3% o dderbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyffuriau anghyfreithlon yng Nghymru yn 2022/23 yn sgil opioidau.

Cannabinoids oedd yr ail grŵp sylweddau uchaf gyda 1,097 o dderbyniadau i'r ysbyty yn 2022/23 yn ymwneud â 917 o unigolion a dderbyniwyd i'r ysbyty. Yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y cynnydd mwyaf mewn derbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyffuriau anghyfreithlon wedi cynnwys cocên. Fodd bynnag, gostyngodd y derbyniadau dros y 3 blynedd blaenorol gyda chynnydd bach yn y flwyddyn ddiweddaraf.

[201] Iechyd Cyhoeddus Cymru Cyhoeddi'r data diweddaraf ar gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru (2023 to 2023)

Mae derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer ffetysau a babanod newydd-anedig yr effeithiwyd arnynt gan ddefnydd gan famau, neu ddiddyfnu o ddibyniaeth ar alcohol neu sylweddau eraill wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2022-23 roedd 63 o dderbyniadau ymhlith trigolion Cymru lle cofnodwyd y cyflyrau hyn.

Roedd marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau uchaf yn y categori 40-49 oed, yn cyfrif am 33.7 y cant o'r holl farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau a gofrestrwyd yn y flwyddyn flaenorol. Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd â'r nifer uchaf o dderbyniadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon (152.1 fesul 100,000 o'r boblogaeth) ac ynghyd â phob bwrdd iechyd (heblaw am ardaloedd byrddau iechyd Caerdydd a'r Fro a Phowys) roedd ganddo gyfraddau uwch na chyfartaledd Cymru yn 2022/23.

Oedolion hŷn dros 50 oed sydd fwyaf tebygol o gael eu derbyn am gyflyrau sy'n benodol i alcohol, gan gyfrif am 65% o'r holl rai a dderbyniwyd i'r ysbyty oherwydd materion yn ymwneud ag alcohol. O fewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol, alcohol oedd y sylwedd problematig mwyaf cyffredin i bobl dros 50 oed, yn cynrychioli dros 80% o asesiadau. Yn y cyfamser, nodwyd bod opioidau yn cael eu cymryd mewn 13.5 y cant o asesiadau yn y grŵp oedran hŷn.

Mae'r anghenion iechyd ar gyfer pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn cynnwys[202]:

- llwybrau gofal integredig sy'n creu cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaeth camddefnyddio sylweddau, gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd meddwl,
- mesurau lleihau niwed fel rhaglenni chwistrelli a nodwyddau, rheoli clwyfau i leihau marwolaethau a heintiau sy'n gysylltiedig â chyffuriau,
- triniaeth arbenigol megis mynediad at driniaeth amnewid opioidau,
- cymorth iechyd meddwl,
- monitro iechyd corfforol – profi a thrin firysau a gludir yn y gwaed,
- gwasanaethau wedi'u teilwra ar gyfer demograffeg benodol, gan gynnwys pobl ifanc sydd angen ymyrraeth gynnar a chymorth i deuluoedd, ac oedolion hŷn dros 50 oed, ag anghenion iechyd penodol, a
- cymorth y tu allan i oriau fel gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar argyfwng i leihau'r risg o ailwaethygu a chymryd gorddos.

4.21 Cyn-lowyr, gweithwyr dur a'u cymunedau

Fe wnaeth cynnydd diwydiannau trwm yng Nghymru fel glo, haearn a dur, llechi, cemegion a thun ysgogi datblygiad economaidd a chymdeithasol dros gyfnod o thua 300 mlynedd a daeth â ffyniant a chynnydd cymdeithasol ac economaidd. Fe wnaeth hefyd adael etifeddiaeth economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol boenus.

Roedd amodau gwaith garw yn gyfrifol am achosi salwch cronig a chaledi corfforol sy'n cyfyngu ar fywyd i lawer, sydd mewn rhai achosion yn parhau hyd heddiw[203].

[202] Llywodraeth Cymru Hydref 2019 - Cynllun cyflawni ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2019 i 2022
[203] Industrial Communities Alliance (Wales) - The environmental and economic legacy of Wales industrial past - Ionawr 2025

Mae ardaloedd tlotaf Cymru, yn enwedig y rhai a oedd unwaith yn gysylltiedig â hen ddiwydiannau trwm, megis Cwm Pen-y-bont ar Ogwr, Cwm Cynon, Merthyr Tudful, a Rhondda Cynon Taf, yn wynebu gwahaniaethau sylweddol o ran iechyd a lles. Er enghraifft, mae trigolion mewn hen ardaloedd diwydiant trwm ar gyfartaledd yn byw 17 yn llai o flynyddoedd iach na'r rhai mewn rhanbarthau cyfoethocach ac mae cyfraddau marwolaethau y gellir eu hosgoi bron bedair gwaith yn uwch[204].

Mae dirywiad y diwydiannau trwm wedi gwaethygu caledi economaidd, gan olygu bod hen ardaloedd diwydiannol yn wynebu heriau gyda niferoedd uchel ar fudd-daliadau analluogrwydd a llai o gyfleoedd gwaith. Mae analluogrwydd yn parhau i fod yn uchel yn hen gymunedau diwydiannol Cymru oherwydd bod y lleoedd hyn nid yn unig yn wynebu lefelau sylfaenol uchel o afiechyd ond hefyd llai o'r cyfleoedd a welir yn rhannau mwy cyfoethog Prydain sy'n caniatáu i drigolion â phroblemau iechyd neu anableddau aros mewn cyflogaeth.

Cyhoeddodd Prifysgol Sheffield Hallam adroddiad yn 2024[205] sy'n canolbwyntio ar yr hen feysydd glo o'u cymharu â gweddill Prydain.

- Mae gan faes glo De Cymru ddwysedd swyddi eithriadol o isel, niferoedd uchel ar fudd-daliadau di-waith, iechyd gwael ac amddifadedd helaeth. Nid yw'r twf mewn swyddi warws wedi effeithio rhyw lawer ar yr ardaloedd hyn.
- Mewn llawer o'r hen feysydd glo, mae swyddi warysau wedi dod yn ffynhonnell cyflogaeth pwysig iawn mewn mannau penodol. Mae rhwydweithiau traffyrdd hygyrch wedi cynorthwyo i raddau helaeth wrth ateb i ofynion gweithredol y diwydiant. Mae llawer o hen safleoedd pyllau glo wedi'u clirio hefyd sy'n golygu eu bod bellach ar gael ar gyfer datblygiadau newydd, megis:
    - Maes glo Swydd Efrog 60,000 (cynyddodd y nifer 26,000 rhwng 2012 a 2022).
    - Mae meysydd glo cyfagos, Swydd Nottingham a Gogledd Swydd Derby yn cyfrif am oddeutu 30,000.
    - Maes glo Swydd Gaerhirfryn 20,000.
    - Mewn cyferbyniad â hyn, mae llawer llai o swyddi mewn warysau ym maes glo De Cymru (ac ym meysydd glo yr Alban hefyd).
- Mae'r disgwyliad oes cyfartalog yn 2020/22 (data awdurdodau lleol) yn yr hen feysydd glo ar gyfer dynion (78 mlynedd) a menywod (82 mlynedd) flwyddyn yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol. Cynyddodd disgwyliad oes tua blwyddyn i ddynion a menywod rhwng diwedd y 2000au a chanol y 2010au, fodd bynnag, mae'r bwlch rhwng yr hen feysydd glo a'r cyfartaledd cenedlaethol wedi aros yr un fath.
- Mae data Cyfrifiad 2021 yn darparu mesur defnyddiol o iechyd ar sail atebion hunan-ddatgan. Mae'r cyn-feysydd glo yn dangos nifer uchel o broblemau iechyd gydag 8% o oedolion (16 oed a hŷn) yn profi iechyd gwael a gwael iawn o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 5.5%. Mae nifer y bobl sy'n

[204] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Buddsoddi mewn Cymru Iachach: blaenoriaethu atal
[205] Prifysgol Sheffield Hallam, Centre for Regional Economic and Social Research, awduron Steve Fothergill, Tony Gore a David Leather State of the coalfields 2024

hawlio lwfans byw i’r anabl neu daliad annibyniaeth personol yn dystiolaeth pellach o iechyd gwael. Mae'r budd-daliadau hyn yn rhai lles a delir i helpu i wrthbwyso costau gofal a/neu symudedd sy'n deillio o anabledd. Fe’u telir i'r boblogaeth o oedran gweithio a allai fod yn gyflogedig neu beidio ac fe’u telir i nifer sylweddol o bobl sy’n hŷn nag oedran pensiwn y wladwriaeth.

- Ym mis Medi 2023 roedd ychydig dros 10% o boblogaeth gyfan y cyn-feysydd glo yn hawlio lwfans byw i'r anabl neu daliad annibyniaeth personol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol 7.7%. O'r 600,000 o bobl sy'n hawlio lwfans byw i'r anabl neu daliad annibyniaeth personol, roedd 58.3% o oedran gweithio. Ym maes glo De Cymru, roedd 13.3% o gyfanswm y boblogaeth yn hawlio lwfans byw i'r anabl neu daliad annibyniaeth personol, bron i 60% o oedran gweithio.

Mae'r hen feysydd glo yn tueddu i fod â lefel gymharol unffurf o incwm a statws cymdeithasol ar draws eu cymdogaethau, yn hytrach na chael eu rhannu'n ardaloedd cyfoethog iawn a thlawd iawn fel llawer o ddinasoedd modern sydd â maestrefi cyfoethog ac ardaloedd canol dinas difreintiedig sy'n aml yn bodoli ochr yn ochr.

Mae natur hanesyddol, un diwydiant yr ardaloedd glofaol wedi golygu bod y rhan fwyaf o bobl yn byw mewn tai tebyg ac yn cael cyflogaeth debyg, gan greu cymunedau gydag anghydraddoldeb llai eithafol, gweladwy a lleol. Fel y cyfryw, mae tlodi ac amddifadedd yn tueddu i gael eu gwasgaru'n fwy cyfartal ar draws ardaloedd mwy. Mae cyflogau isel ac iechyd gwael yn effeithio ar lawer o'r ardaloedd glofaol ond yn aml nid ydynt yn ymddangos yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Y dull gorau, felly, o fesur amddifadedd y meysydd glo yw rhannu cymdogaethau yn y 30% gwaethaf ym mhob gwlad.

Yng Nghymru, mae hen faes glo De Cymru yn sefyll allan fel un difreintiedig; mae mwy na dwy ran o dair o gymdogaethau ymhlith y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Gyda phoblogaeth o 750,000, mae meysydd glo De Cymru yn cyfrif am bron i chwarter cyfanswm poblogaeth Cymru.

Mae rhai hen feysydd glo wedi'u disgrifio fel 'Pentrefi Glo' - aneddiadau llai yn aml mewn lleoliad lled-wledig, y mae eu bodolaeth yn llwyr ddyledus i'r diwydiant glo, a lle y cafwyd fawr ddim o weithgarwch busnes arwyddocaol arall. Felly, pan gaeodd y pyllau glo, diflannodd y rheswm dros fodolaeth y mannau hyn.

Ceir tri phentref glo yn Lloegr, Grimethorpe (De Swydd Efrog), Easington (Swydd Durham) ac Aylesham (Dwyrain Caint), ac un yn Ne Cymru - Y Maerdy sy'n sefyll ar ben y Rhondda Fach, mewn lleoliad anhygyrch, 25 milltir i'r gogledd o Gaerdydd a gyda dim ond ffordd serth dros y mynydd i'r cyfeiriad arall. Caeodd y pwll glo hwn ym 1990.

Mae adferiad cymoedd glofaol De Cymru ar ôl colli'r diwydiant glo wedi bod yn araf iawn. Mewn lleoliad mor anodd, mae'r Maerdy yn un o'r hen aneddiadau glofaol mwyaf heriol yn Ne Cymru ac o bosibl yn achos eithafol ym Mhrydain gyfan.

Mae'r tabl isod yn dangos ystadegau lleol dethol a gymerwyd o ddata budd-daliadau Cyfrifiad 2021 a data 2023 yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer y Maerdy o'u cymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr.

Ffigur 4.3 – ystadegau poblogaeth ar gyfer y Maerdy o'u cymharu â Lloegr a Chymru[206]

	Y Maerdy (De Cymru)	Cyfartaledd Cymru a Lloegr
Poblogaeth	3,100	59.6 miliwn
Aelwyd ag amddifadedd (ar o leiaf un dangosydd swyddogol*)	73%	48%
Preswylwyr sy'n adrodd fod ganddynt iechyd gwael neu wael iawn (% o'r holl breswylwyr)	18%	5%
Cyfraddau hawlwyr lwfans byw i'r anabl / taliad annibyniaeth personol (% o'r holl breswylwyr)	22%	7%
Cyfradd cyflogaeth (% o'r holl bobl 16 i 64 oed)	53%	71%
Cyfradd diweithdra (% o bobl economaidd 16 i 64 oed)	9%	6%
Economaidd anweithgar (ac eithrio myfyrwyr) (% o'r holl bobl rhwng 16 a 64 oed)	35%	17%
Economaidd anweithgar yn sâl neu'n anabl yn y tymor hir (% o'r holl bobl rhwng 16 a 64 oed)	18%	5%
Cyfradd gyffredinol hawlwyr budd-dal diweithdra (% o'r holl bobl 16-64)	38%	13%

*Cymwysterau isel, diweithdra/anweithgarwch economaidd, iechyd gwael, tai gwael.

Gan ganolbwyntio ar gymuned y Maerdy, mae'r wybodaeth ystadegol yn dangos:

- mae amddifadedd yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr (y cyfartaledd cenedlaethol),
- mae cyfran y trigolion sy'n adrodd fod ganddynt "iechyd gwael neu wael iawn" sawl pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol,
- mae'r gyfradd sy'n hawlio budd-dal i'r anabl sawl pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol,
- mae'r gyfradd cyflogaeth ymhlith oedolion o oedran gweithio (16 i 64 oed) yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol,
- mae'r boblogaeth economaidd anweithgar (16 i 64 oed) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol gyda chyfran uchel yn bobl sy'n sâl yn y tymor hir neu'n anabl, a

[206] Codwyd o "State of the coalfields 2024". Nodwyd mai'r ffynonellau yw data Cyfrifiad Poblogaeth 2021 a data budd-daliadau DWP 2023

- mae'r gyfradd sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae hefyd yn golygu bod yr ardal yn dal i deimlo canlyniadau colli'r diwydiant glo, hyd yn oed yn y cenedlaethau sy'n rhy ifanc i fod wedi gweithio erioed yn y diwydiant.

Mae'r etifeddiaeth iechyd i weithwyr a'u cymunedau o ddiwydiannau trwm fel mwyngloddio glo a haearn a gwaith dur yng Nghymru yn sylweddol[207].

- Cyflyrau anadlol (clefyd y llwch)
    - Niwmoconiosis glowyr (clefyd y llwch) - roedd 85% o lowyr Prydain â'r cyflwr hwn yn byw yn Ne Cymru[208]. Achoswyd y clefyd gan anadlu llwch glo, ac mewn rhai achosion, llwch silica, gan arwain at glefyd yr ysgyfaint difrifol ac anabledd.
    - Diwydiant dur - gall amlygiad galwedigaethol mewn ffowndri dur gynyddu'r risg o ganser yr ysgyfaint 500% ac mae'r tebygolrwydd o ddatblygu canser yr ysgyfaint ymhlith gweithwyr haearn a dur sydd wedi ymddeol yn un o'r peryglon iechyd mwyaf yn y diwydiant[209].
    - Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint – nifer uchel o achosion o froncitis cronig ac emffysema a geir mewn glowyr, hyd yn oed pan fydd ysmygu dan reolaeth.
    - Asthma galwedigaethol – pryder mawr i weithwyr dur, a achosir yn sgil amlygiad i fygdarth, llwch a deunydd gronynnol.
    - Silicosis – a achosir gan anadlu llwch silica (yn enwedig wrth dorri creigiau/twnelu), gan arwain at ffibrosis yr ysgyfaint a risg o dwbercwlosis a chanser yr ysgyfaint.
    - Cysylltiad ag ysmygu/ffordd o fyw - mae glowyr yn aml yn arddangos cyfraddau uwch o ysmygu a defnyddio alcohol, gan waethygu effeithiau amlygiad galwedigaethol i lwch[210].
- Clefyd cardiofasgwlaidd
    - Clefyd y galon a strôc – gall amlygiad i ddeunydd gronynnol a nwyon fel sylffwr deuocsid mewn gweithfeydd dur achosi llid, gwenwyndra systemig, a cheulo gwaed sy'n arwain at broblemau cardiofasgwlaidd.
    - Gwenwyn metel trwm – prin, ond gall amlygiad i fetelau gwenwynig fel cromiwm, sinc, plwm, manganîs ddigwydd wrth gynhyrchu dur.
- Anafiadau galwedigaethol a chorfforol
    - Colli clyw a achosir gan sŵn - yn gyffredin iawn ymhlith glowyr a gweithwyr dur oherwydd peiriannau, torri a malu.
    - Syndrom dirgryndod llaw-braich a dirgryndod bys gwyn - a achosir gan ddefnyddio offer dirgrynu.

---

[207] ScienceDirect - The health legacy of coal mining: Analysis of mortality rates over time in England and Wales (1981–2019)
[208] Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru - Treftadaeth gyfoethog o ymchwil ragorol yng Nghymru
[209] AirBench - Dust and Fume Hazards in Iron and Steel Founding
[210] ScienceDirect - Coal as an energy source and its impacts on human health (Cyfrol 2, Rhifyn 2, April 2021)

    - Anhwylderau cyhyrysgerbydol - mae anafiadau i'r cefn, anafiadau straen ailadroddus, a phroblemau cyhyrol yn gyffredin oherwydd codi a chario ac, ar adegau, mannau gwaith sy'n gyfyngedig.
    - Llosgiadau ac anafiadau acíwt - mae llosgiadau i'r croen o offer / cemegau wedi'u gwresogi a damweiniau o beiriannau yn gyffredin mewn ffowndri dur.
    - Dermatitis galwedigaethol – llid y croen a achosir gan gyswllt â rhai sylweddau peryglus neu elfennau eraill o'r amgylchedd gwaith.
- Iechyd meddwl a gwaddol galwedigaethol
    - Effeithiau dad-ddiwydiannu - mae ymchwil ar gymunedau maes glo Cymru yn datgelu problemau iechyd meddwl hirhoedlog, gan gynnwys gorbryder, iselder a straen, sy'n aml yn gysylltiedig â dirywiad economaidd a chau diwydiannau.
    - Trallod seicolegol - mae byw yng nghysgod safleoedd diwydiannol neu domenni glo segur, ansefydlog yn achosi, neu wedi achosi, straen iechyd meddwl sylweddol.
- Problemau amlygiad penodol yn yr amgylchedd ac mewn gweithleoedd
    - Llygredd aer (gronynnau) - mewn ardaloedd fel Port Talbot, mae lefelau uchel o hydrocarbonau aromatig polysyclig o waith dur wedi'u cysylltu â phroblemau iechyd lleol ac ansawdd aer gwael.
    - Llygredd mwyngloddiau metel - mae hen safleoedd mwyngloddiau metel (plwm, sinc, cadmiwm) yn peri risgiau parhaus i iechyd trwy anadlu llwch neu halogiad amgylcheddol.

Mae dosbarthiad oedran poblogaeth y maes glo yn wahanol iawn i'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn y maes glo mae mwy o bobl hŷn (65 a hŷn) a llai o oedran gweithio (16 i 64) ar gyfartaledd, ac mae'n debygol fod hyn oherwydd bod gan yr oedolion iau fwy o gymwysterau a'u bod yn symud i ffwrdd am fwy o gyfleoedd a chyflogaeth. Mae cyfran y bobl dan 16 oed yn agos at y cyfartaledd cenedlaethol. Mae ychydig dros un o bob pump o boblogaeth y maes glo yn 65 oed neu'n hŷn, o'i gymharu ag un o bob saith yn y dinasoedd rhanbarthol mwyaf ac un o bob wyth yn Llundain. Rhwng 2011 a 2021 cynyddodd poblogaeth 65 oed a throsodd y meysydd glo bron i 3%, ac ehangodd y bwlch rhwng y meysydd glo a'r cyfartaledd cenedlaethol hefyd[211].

[211] Prifysgol Sheffield Hallam, Centre for Regional Economic and Social Research, awduron Steve Fothergill, Tony Gore a David Leather State of the coalfields 2024

5 Darparu gwasanaethau fferyllol

Mae'r mapiau a ddefnyddir yn y bennod hon ynghyd â'r rhestr lawn o gontractwyr fferylliaeth yn ôl clwstwr a geir yn Atodiad L a'r safleoedd dosbarthu meddygon teulu yn adran 5.1.5 yn nodi'r safleoedd lle darperir gwasanaethau fferyllol a gwasanaethau dosbarthu meddygon teulu yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mewn penodau dilynol, ac yn enwedig y rhai sy'n rhoi gwybodaeth ar lefel clwstwr, dylid ystyried unrhyw fapiau fel arwydd o leoliadau safleoedd a'u darllen ar y cyd â data perthnasol. Dylid nodi, oherwydd maint yr ardal a wasanaethir gan y bwrdd iechyd, a graddfa fach y mapiau hyn, nad oes modd adnabod llawer o'r safleoedd ar wahân.

5.1 Y ddarpariaeth bresennol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg


Mae 109 o fferyllfeydd wedi'u cynnwys yn y rhestr fferyllol ar gyfer ardal y bwrdd iechyd (Tachwedd 2025), a weithredir gan 33 o gontractwyr gwahanol.

O'r 44 o bractisau meddygon teulu yn ardal y bwrdd iechyd, mae tri phractis meddyg teulu yn dosbarthu i gleifion cymwys. Mae dau o'r practisau dosbarthu wedi'u lleoli yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr, ac un ym Merthyr Tudful. O'r ddau bractis dosbarthu yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr, mae un yn dosbarthu o'i ddwy is-feddygfa a'r llall yn dosbarthu o'i is-feddygfa, sydd wedi'i lleoli y tu allan i ardal y bwrdd iechyd, yng Nghastell-nedd Port Talbot (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe).

Ym mis Rhagfyr 2025, roedd y tri phractis meddyg teulu yn dosbarthu i 4,678 o'u cleifion cofrestredig, sef 19.1% o gyfanswm maint y rhestr ar gyfer y tri phractis. Roedd canran y cleifion y dosbarthwyd iddynt ar lefel practis yn amrywio rhwng 6.7% a 40.6% o gleifion cofrestredig.

Mae'r map isod yn dangos lleoliadau'r fferyllfa a'r safleoedd practis dosbarthu yn ardal y bwrdd iechyd. Dylid nodi, lle mae eiddo mewn agosrwydd, bydd y cylchoedd sy'n eu cynrychioli yn croesi. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd gwyrdd, a'r safle meddygfeydd dosbarthu gan gylchoedd coch.

Map 5.1: Lleoliad fferyllfeydd a safleoedd practis dosbarthu



Daearyddiaeth a Thechnoleg 022.26-27 Dyddiad 2026-9-11

© Hawlfraint a hawl cronfa ddata 2026. Arolwg Ordnans AC0000849488. Llywodraeth Cymru

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr asesiad o anghenion fferyllol a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad bod y fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn neu ger ardaloedd â dwysedd poblogaeth uwch a bod safleoedd y meddygon fferyllol mewn ardaloedd gwledig â dwysedd poblogaeth is. Yn ogystal, mae fferyllfeydd a safleoedd y meddygon fferyllol wedi'u lleoli mewn neu ger ardaloedd â lefelau uwch o amddifadedd. Gan nodi lleoliadau presennol y fferyllfeydd a safleoedd y meddygon

fferyllol, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys.

Yn 2024/25, cafodd 95.2% o eitemau a roddwyd ar bresgripsiwn gan bractisau meddygon teulu yn ardal y bwrdd iechyd eu dosbarthu gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd. Nid yw'n bosibl mesur cyfanswm nifer yr eitemau a roddwyd yn bersonol gan bractisau meddygon teulu gan fod y ffigurau cyhoeddedig yn cynnwys eitemau sydd naill ai wedi'u rhoi'n bersonol neu wedi'u dosbarthu gan bractisau dosbarthu. Fodd bynnag, roedd y tri phractis meddyg teulu sy'n dosbarthu yn ardal y bwrdd iechyd yn dosbarthu neu'n rhoi 1.3% o eitemau'n bersonol.

5.1.1 Mynediad at safleoedd

Mae maes mynediad at wasanaethau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025[212] yn cynnwys amddifadedd o ganlyniad i anallu aelwyd i gael mynediad at ystod o wasanaethau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer byw o ddydd i ddydd, gan gynnwys amser teithio dwyffordd cyfartalog (mewn munudau) i fferyllfa o'r annedd breswyl i'r fferyllfa agosaf ar drafnidiaeth gyhoeddus (bws, trên, ar droed neu goets) neu drafnidiaeth breifat h.y. mewn car.

Yng Nghymru, yr amser teithio dwyffordd i fferyllfa ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfartaledd yw 40.4 munud. Mae hyn yn gostwng i 7.1 munud ar gyfer trafnidiaeth breifat. Mae gan bob un o'r tri awdurdod lleol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg amser teithio dwyffordd i fferyllfa byrrach na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

[212] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Data dangosyddion Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 fesul ardal gynnyrch ehangach haen is ac awdurdod lleol: maes mynediad at wasanaethau

Tabl 5.1: Amser teithio i fferyllfa ar drafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth breifat yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2025

Ardal	Teithio dwyffordd ar gyfartaledd ar drafnidiaeth gyhoeddus	Ystod yr amser teithio dwyffordd ar gyfartaledd ar drafnidiaeth gyhoeddus	Amser teithio dwyffordd ar gyfartaledd ar drafnidiaeth breifat	Ystod yr amser teithio dwyffordd ar gyfartaledd ar drafnidiaeth breifat
Pen-y-bont ar Ogwr	28.5 munud	5 i 90 munud	6 munud	2 i 16 munud
Merthyr Tudful	29 munud	7 i 107 munud	6 munud	2 i 21 munud
Rhondda Cynon Taf	23.4 munud	7 i 89 munud	5.1 munud	2 i 12 munud
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	25.9 munud		5.6 munud	
Cymru	40.4 munud		7.1 munud	

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr asesiad o anghenion fferyllol a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad y gall y mwyafrif helaeth o drigolion gyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud, ac i lawer byddai'r daith yn cymryd 15 munud neu lai. Yr ardaloedd nad ydynt o fewn 20 munud o daith mewn car i fferyllfa yw cefn gwlad agored, bryniau coediog a mynyddoedd gyda phoblogaeth breswyl fach neu ddim o gwbl. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd wedi newid, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae trigolion yn dal i allu cyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach.

Mae ymatebion i'r holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhoi'r awgrymiadau ymarferol i gael mynediad at fferyllfeydd.

I'r sawl sy'n defnyddio fferyllfa:

- Mae 66.8% yn teithio mewn car, 27.9% ar droed, a 3.2% ar fws.
- O ran 56.8% o'r ymatebwyr mae eu taith yn cymryd rhwng pump a 15 munud, o ran 34.3% ohonynt mae'n cymryd llai na phum munud, o ran 5.4% ohonynt mae'n cymryd mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud , ac o ran 3.6% ohonynt mae'n cymryd 20 munud neu fwy. O ran y sawl y mae eu taith yn cymryd 20 munud neu fwy, mae chwech yn teithio mewn car, tri ar droed, ac un ar fws.

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (88.3%) nad oeddent yn cael trafferth cyrraedd fferyllfa. Dim ond 8.8% a ymatebodd eu bod yn cael trafferth a dywedodd 2.8% nad oedd y cwestiwn yn berthnasol. Roedd y themâu allweddol pam mae pobl yn cael trafferth yn cynnwys:

- oriau agor fferyllfeydd yn cyd-fynd ag oriau gwaith,
- problemau symudedd,
- problemau trafnidiaeth (e.e. diffyg gwasanaeth bws, dim yn gyrru, neu ddim digon o barcio yn y fferyllfa neu gerllaw), a
- phroblemau iechyd.

O ran y sawl y mae'r feddygfa'n dosbarthu iddynt:

- Mae 40.0% yn teithio mewn car, a 40.0% ar droed. Mae'r practis yn dosbarthu meddyginiaethau i'r unigolyn sy'n weddill.
- O ran 60.0% o'r ymatebwyr mae eu taith yn cymryd rhwng pump a 15 munud, o ran 20.0% ohonynt mae'n cymryd llai na phum munud, ac o ran 20.0% ohonynt mae'n cymryd mwy na 20 munud neu fwy (mae meddyginiaethau'r unigolyn hwn yn cael eu danfon iddo).

Dywedodd un unigolyn (20.0%) eu bod yn cael trafferth cyrraedd y fferyllfa yn eu meddygfa a'r rheswm am hyn yw nad ydynt yn gallu gyrru na fforddio tacsi i fferyllfa.

5.1.2 Mynediad at y gwasanaethau hanfodol

Er y bydd y mwyafrif o bobl yn ymweld â fferyllfa yn ystod y cyfnod rhwng 8.30am a 6.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn dilyn ymweliad â'u meddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, bydd adegau pan fydd pobl angen, neu'n dewis cael mynediad at fferyllfa y tu allan i'r amseroedd hynny. Gall hyn fod i gael presgripsiwn wedi'i ddosbarthu ar ôl cael ei weld gan y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau, neu i gasglu eitemau wedi'u dosbarthu ar eu ffordd i'r gwaith neu oddi yno, neu gall fod i gael mynediad at un o'r gwasanaethau eraill a ddarperir gan fferyllfa y tu allan i ddiwrnod gwaith arferol unigolyn.

Dangosodd yr holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd, o ran y sawl sy'n defnyddio fferyllfa:

- Nid oes gan 33.6% ohonynt amser a ffefrir i ymweld â fferyllfa, dywedodd 26.1% ohonynt 9am i hanner dydd, dywedodd 18.7% ohonynt 2 i 6pm, dywedodd 10.2% ohonynt hanner dydd i 2pm, a dywedodd 9.9% ohonynt 6 i 9pm.
- Nid oes gan 54.4% ohonynt ddiwrnod a ffefrir i ymweld â fferyllfa, dywedodd 20.8% ohonynt yn ystod yr wythnos yn gyffredinol, dywedodd 9.2% ohonynt ar benwythnosau yn gyffredinol, dywedodd 5.7% ohonynt ddydd Sadwrn a dywedodd y gweddill ddiwrnod penodol yn ystod yr wythnos.

O ran y sawl sy'n defnyddio'r fferyllfa yn eu practis meddyg teulu, nid oedd gan 83.3% ohonynt amser a ffefrir i ymweld, gyda'r gweddill yn dweud 8am i hanner dydd. Nid oedd gan 88.3% ohonynt ddiwrnod a ffefrir, gyda 16.7% yn dweud yn ystod yr wythnos yn gyffredinol.

Mae Atodiad L yn rhoi gwybodaeth am oriau agor y fferyllfeydd ym mis Rhagfyr 2025 ac ar yr adeg honno roedd:

- Saith fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- Deg fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- 51 o fferyllfeydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn, ac roedd
- 41 o fferyllfeydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener.

At hynny, mae'r bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaeth rota fferyllol ar y Sul, yn ychwanegol at y gwasanaeth dosbarthu presennol a ddarperir o fewn y gwasanaeth hanfodol, er mwyn sicrhau bod o leiaf un fferyllfa ar agor ym mhob un o ardaloedd Gogledd Cwm Cynon, Merthyr Tudful a Chwm Rhondda, ar wahanol adegau ar y Sul. Gall y trigolion hynny sy'n byw ger ardaloedd y ffin gyda chlystyrau neu fyrddau iechyd eraill hefyd gael mynediad at fferyllfeydd oriau estynedig yn yr ardaloedd hynny. Ceir rhagor o fanylion yn adran 5.1.4.10.

Mae practisau meddygon teulu wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau rhwng 8.00am a 6.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus. Yn gyffredinol, bydd fferyllfeydd meddygon teulu ar agor ar yr un pryd â'r practis meddyg teulu, ac yn dosbarthu presgripsiynau fel rhan o ymgynghoriad yn ystod y cyfnod hwn yn ogystal â dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy.

Mae gan y bwrdd iechyd y gallu i wahodd a/neu roi cyfarwyddyd i gontractwyr presennol addasu eu horiau agor i ddiwallu unrhyw anghenion yn y dyfodol yn ôl yr angen.

5.1.3 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth cymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer

5.1.3.1 Mynediad at y gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

5.1.3.2 Y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol


Mae pob un o'r 109 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

5.1.3.2.1 Mynediad at yr elfen gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Darparodd pob un o'r 109 fferyllfa elfen gwasanaeth anhwylderau cyffredin y gwasanaeth hwn rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025, gan ddarparu cyfanswm o 69,159 o ymgynghoriadau yn 2024/25, a 46,453 o ymgynghoriadau yn saith mis cyntaf 2025/26.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm yr ymgynghoriadau anhwylderau cyffredin a hawliwyd (115,612) o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025.


Ffigur 5.1: Nifer yr ymgynghoriadau anhwylderau cyffredin a hawliwyd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025



Darparodd 102 o fferyllfeydd gyfanswm o 11,042 o ymgynghoriadau profi a thrin dolur gwddf yn 2024/25, ac yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd 104 o fferyllfeydd gyfanswm o 5,541 o ymgynghoriadau profi a thrin dolur gwddf.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm yr ymgynghoriadau profi a thrin dolur gwddf a hawliwyd o dan yr elfen hon o'r gwasanaeth rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025.


Ffigur 5.2: Nifer yr ymgynghoriadau profi a thrin dolur gwddf a hawliwyd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025



Darparodd 82 o fferyllfeydd gyfanswm o 2,059 o ymgynghoriadau heintiau'r llwybr wrinol yn 2024/25, ac yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd 101 o fferyllfeydd gyfanswm o 2,814 o ymgynghoriadau heintiau'r llwybr wrinol.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm yr ymgynghoriadau heintiau'r llwybr wrinol a hawliwyd o dan yr elfen hon o'r gwasanaeth rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025.

Ffigur 5.3: Nifer yr ymgynghoriadau heintiau'r llwybr wrinol a hawliwyd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025




5.1.3.2.2 Mynediad at yr elfen gwasanaeth atal cenhedlu brys

Darparodd 108 o fferyllfeydd gyfanswm o 4,500 o ymgynghoriadau yn 2024/25, a 2,798 yn saith mis cyntaf 2025/26.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm yr ymgynghoriadau atal cenhedlu brys a hawliwyd o dan yr elfen hon o'r gwasanaeth rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025.

Ffigur 5.4: Nifer yr ymgynghoriadau atal cenhedlu brys a hawliwyd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025




5.1.3.2.3 Mynediad at yr elfen gwasanaeth cyflenwad brys o feddyginiaethau

Darparodd pob un o'r 109 o fferyllfeydd gyfanswm o 22,301 o gyflenwadau yn 2024/25 a darparu cyfanswm o 13,967 o gyflenwadau yn saith mis cyntaf 2025/26 o dan yr elfen hon o'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm y cyflenwadau cyflenwad brys o feddyginiaeth a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025.

Ffigur 5.5: Nifer y cyflenwadau brys o feddyginiaeth a hawliwyd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025




5.1.3.3 Mynediad at y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Darparodd 95 o'r 109 o fferyllfeydd gyfanswm o 3,796 o ymyriadau gwasanaeth llawn yn 2024/25, a darparodd 94 o fferyllfeydd gyfanswm o 2,073 o ymyriadau gwasanaeth llawn yn ystod saith mis cyntaf 2025/26.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm yr ymyriadau gwasanaeth llawn a hawliwyd gan fferyllfeydd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025.

Ffigur 5.6: Cyfanswm nifer yr adolygiadau meddyginiaethau wrth ryddhau a hawliwyd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025




5.1.3.4 Mynediad at y gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Darparodd 107 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn a rhwng Medi 2024 a Mawrth 2025 darparwyd cyfanswm o 17,728 o frechiadau. Ym mis Hydref 2025 a Thachwedd 2025, dau fis cyntaf tymor 2025/26, darparodd y fferyllfeydd gyfanswm o 17,454 o frechiadau.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm y brechiadau a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng Medi 2024 a Thachwedd 2025.

Ffigur 5.7: Nifer y brechiadau ffliw a hawliwyd rhwng Medi 2024 a Thachwedd 2025




5.1.3.5 Mynediad i'r gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Mae 73 o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn ac wedi darparu cyfanswm o 1,767 o becynnau prawf llif unffordd yn 2024/25. Yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd 26 o fferyllfeydd gyfanswm o 217 o becynnau prawf llif unffordd.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm y pecynnau prawf a gyflenwyd gan fferyllfeydd rhwng Ebrill 2024 a Thachwedd 2025.

Ffigur 5.8: Nifer y pecynnau prawf llif unffordd a gyflenwyd rhwng Ebrill 2024 a Thachwedd 2025




5.1.3.6 Mynediad i'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd

Mae 43 o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn. Yn 2024/25, darparodd 35 o fferyllfeydd gyfanswm o 23,059 o ymgynghoriadau ac yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd 41 o fferyllfeydd gyfanswm o 15,084 o ymgynghoriadau.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm yr ymgynghoriadau a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025.

Ffigur 5.9: Nifer yr ymgynghoriadau presgripsiynu annibynnol fferyllydd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025



5.1.3.7 Mynediad at wasanaeth addasu offer stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn.


5.1.4 Mynediad at y gwasanaeth clinigol ychwanegol

5.1.4.1 Mynediad at y gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Cofrestrodd 15 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Yn 2024/25, darparodd wyth fferyllfa gyfanswm o 50 o ymgynghoriadau sgrinio ac yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd pum fferyllfa gyfanswm o 54 o ymgynghoriadau sgrinio.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm yr ymgynghoriadau sgrinio a hawliwyd o dan y gwasanaeth yn ôl ardal fferyllfeydd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025.

Ffigur 5.10: Nifer yr achosion sgrinio firws a gludir yn y gwaed rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025



Mae'r tabl isod yn dangos nifer a lleoliad y fferyllfeydd sydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth firws a gludir yn y gwaed.

Tabl 5.2: Nifer a lleoliad y fferyllfeydd sydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth firws a gludir yn y gwaed

Clwstwr	Nifer y fferyllfeydd
Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	Pedwar
Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	Dau
Gogledd Cwm Cynon	Un
Merthyr Tudful	Tri
Cwm Rhondda	Tri
Taf Elái	Dau

DS Yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr darparodd un o'r ddwy fferyllfa dreial gwasanaeth sgrinio firws a gludir yn y gwaed a gafodd ei ymestyn tan Awst 2025. Mae'r tair fferyllfa Merthyr Tudful yn darparu'r gwasanaeth sgrinio firws a gludir yn y gwaed atodol yn unig.

5.1.4.2 Mynediad at y gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau lefel 1

Cofrestrodd 12 o'r fferyllfeydd ar gyfer y gwasanaeth hwn. Yn 2024/25, darparodd pedair fferyllfa gyfanswm o 90 o ymweliadau cymorth ac yn wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd tair fferyllfa gyfanswm o 41 o ymweliadau cymorth.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a lleoliad y fferyllfeydd sydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Tabl 5.3: Nifer a lleoliad y fferyllfeydd sydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau lefel 1


Clwstwr	Nifer y fferyllfeydd
Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	Dau
Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	Dau
Gogledd Cwm Cynon	Tri
Cwm Rhondda	Tri
Taf Elái	Dau

5.1.4.3 Mynediad at y gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

mae 67 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn. Yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd pum fferyllfa gyfanswm o 265 o ddyfeisiau atgoffa am feddyginiaeth.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm y dyfeisiau atgoffa am feddyginiaeth a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng Ebrill 2025 a Hydref 2025.

Ffigur 5.11: Nifer y dyfeisiau sy'n atgoffa am feddyginiaeth a hawliwyd rhwng Ebrill 2025 a Hydref 2025



Mae'r tabl isod yn dangos nifer a lleoliad y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth.

Tabl 5.4: Nifer a lleoliad y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth dyfeisiadau sy'n atgoffa am feddyginiaeth


Clwstwr	Nifer y fferyllfeydd
Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	Dau
Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	Un
Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	Dau

5.1.4.4 Mynediad at y gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Cofrestrodd 107 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Yn 2024/25 cefnogodd 88 o fferyllfeydd gyfanswm o 4,557 o gleifion gyda siartiau cofnodi rhoi meddyginiaethau ac yn saith mis cyntaf 2025/26 cefnogodd 90 o fferyllfeydd 3,395 o gleifion.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm y siartiau cofnodi rhoi meddyginiaethau a gyflenwyd ac a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025.

Ffigur 5.12: Nifer y cleifion y rhoddwyd siart cofnodi rhoi meddyginiaethau iddynt rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025




5.1.4.5 Mynediad at raglenni nodwyddau a chwistrellau

Cofrestrodd 34 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Yn 2024/25, darparodd 28 o fferyllfeydd gyfanswm o 5,742 o becynnau nodwyddau a chwistrellau ac yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd 26 o fferyllfeydd gyfanswm o 3,437 o becynnau nodwyddau a chwistrellau.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm y pecynnau a ddarparwyd a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025.

Ffigur 5.13: Nifer y pecynnau nodwyddau a chwistrellau a gyflenwyd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025




5.1.4.6 Mynediad at y gwasanaeth helpa fi i stopio @ fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Cofrestrodd 107 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Yn 2024/25, darparodd 90 o fferyllfeydd gyfanswm o 3,718 o ymgynghoriadau ac yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd 77 o fferyllfeydd gyfanswm o 1,458 o ymgynghoriadau.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm yr ymgynghoriadau a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025.

Ffigur 5.14: Nifer yr ymgynghoriadau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 a hawliwyd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025




5.1.4.7 Mynediad at y gwasanaeth helpa fi i stopio @ fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Cofrestrodd 102 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Yn 2024/25, darparodd 81 o fferyllfeydd gyfanswm o 4,700 o ymgynghoriadau ac yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd 65 o fferyllfeydd gyfanswm o 2,101 o ymgynghoriadau.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm yr ymgynghoriadau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3 a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025.

Ffigur 5.15: Nifer yr ymgynghoriadau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3 a hawliwyd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025



5.1.4.8 Gwasanaeth gofal lliniarol


Mae tair fferyllfa yn ardal y bwrdd iechyd, un ym mhob un o Ferthyr Tudful, Cwm Rhondda a Thaf Elái, sy'n darparu mynediad "yn ystod oriau agor arferol" at gyffuriau gofal lliniarol o dan y gwasanaeth hwn.

5.1.4.9 Mynediad at y gwasanaeth wrth gefn (gwasanaeth gofal lliniarol)

Cofrestrodd 92 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Yn 2024/25, darparodd 23 o fferyllfeydd gyfanswm o 87 o becynnau ac yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26 darparodd 11 fferyllfa gyfanswm o 39 o becynnau.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm y pecynnau a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025.

Ffigur 5.16: Nifer y pecynnau wrth gefn a hawliwyd rhwng Ebrill 2024 a Thachwedd 2025



5.1.4.10 Mynediad at wasanaethau fferyllol ar ddydd Sul, gyda'r nos yn ystod yr wythnos a gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc

Mae gan y bwrdd iechyd ddyletswydd i sicrhau bod trigolion ei ardal yn gallu cael mynediad at wasanaethau fferyllol bob dydd. Nid yw'n ofynnol i fferyllfeydd agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc, na Sul y Pasg, er bod rhai yn dewis gwneud hynny. Gan fod practisau meddygon teulu wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau rhwng 8.00am a 6.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus) ni ddisgwylir i bresgripsiynau gael eu hysgrifennu dros y cyfnodau hyn ac eithrio gan y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau, sy'n dal cyflenwad brys o feddyginiaethau. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau felly ddarparu triniaeth os yw ei angen yn glinigol yn ystod amseroedd cau fferyllfeydd.

Mae'r bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaeth fferyllol y tu llan i oriau yn ychwanegol at y gwasanaeth dosbarthu presennol a ddarperir o fewn y gwasanaeth hanfodol, er mwyn sicrhau bod o leiaf un fferyllfa ar agor ym mhob un o ardaloedd Gogledd Cwm Cynon, Merthyr Tudful a Chwm Rhondda, ar wahanol adegau yn ystod cyfnodau gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc. Mae hyn yn hwyluso mynediad prydlon at feddyginiaethau yn ystod y cyfnod y tu allan i oriau.

Trwy gytundeb ymlaen llaw gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, mae o leiaf un fferyllfa ym mhob un o Ogledd Pen-y-bont ar Ogwr a Thaf Elái ar agor ar wahanol adegau yn ystod cyfnod gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc.

Mae o leiaf un fferyllfa ar agor ar nosweithiau'r wythnos, ar wahanol adegau ym mhob un o Ogledd Cwm Cynon, Merthyr Tudful (ac eithrio dydd Iau), a Chwm Rhondda (ac eithrio gwyliau banc).


Yn yr un modd, mae rota dydd Sul hefyd ar waith yn ardal y bwrdd iechyd sy'n sicrhau bod o leiaf un fferyllfa ym mhob un o Ogledd Cwm Cynon, Merthyr Tudful, a Chwm Rhondda ar agor ar wahanol adegau yn ystod dydd Sul. Mae un fferyllfa ym Merthyr Tudful ar agor ar Sul y Pasg a Dydd Nadolig.

5.1.4.11 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Cofrestrodd 97 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Yn 2024/25, rhoddwyd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth 61,714 tro gan 89 o fferyllfeydd ac yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26 rhoddwyd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth 32,714 tro gan 84 o fferyllfeydd

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm yr achosion o roi meddyginiaeth dan oruchwyliaeth a hawliwyd o dan y gwasanaeth yn ôl ardal fferyllfeydd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025.

Ffigur 5.17: Nifer yr achosion o roi meddyginiaeth dan oruchwyliaeth a hawliwyd rhwng Ebrill 2024 a Thachwedd 2025



5.1.4.12 Mynediad at y gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae gan y gwasanaeth meddyginiaethau brys ddwy lefel gwasanaeth:

- Lefel 1 (safonol) – bydd y fferyllfa yn cadw o leiaf isafswm stoc pob meddyginiaeth a nodir ar y rhestr stoc safonol y cytunwyd arni'n lleol (uchafswm o 25 o feddyginiaethau).
- Lefel 2 (uwch) – bydd y fferyllfa yn cadw o leiaf isafswm stoc pob meddyginiaeth a nodir ar y rhestr stoc safonol y cytunwyd arni'n lleol (uchafswm o 40 o feddyginiaethau).

Cofrestrodd 16 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae deg fferyllfa yn darparu lefel 1 (safonol) a chwech yn darparu lefel 2 (uwch) ac mae'r tabl isod yn dangos eu lleoliad a pha lefel y maent yn ei darparu.

Tabl 5.5: Nifer a lleoliad y fferyllfeydd sydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth meddyginiaethau brys


Clwstwr	Nifer y fferyllfeydd – lefel 1	Nifer y fferyllfeydd – lefel 2
Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	Dau	Un
Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	Dau	Un
Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	Un	Un
Merthyr Tudful	Un	Un
Cwm Rhondda	Un	Un
Taf Elái	Tri	Un

5.1.4.13 Mynediad at y gwasanaeth lleihau gwastraff

Cofrestrodd 97 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Yn 2024/25, darparodd 97 o fferyllfeydd gyfanswm o 13,645 o ymyriadau ac yn ystod chwe mis cyntaf 2025/26 darparodd 90 o fferyllfeydd gyfanswm o 7,756 o ymyriadau.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm yr ymyriadau lleihau gwastraff a hawliwyd o dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng Ebrill 2024 a Hydref 2025.

Ffigur 5.18: Nifer yr ymyriadau lleihau gwastraff a hawliwyd rhwng Ebrill 2024 a Medi 2025



5.1.5 Gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan rai practisau meddygon teulu

Bydd practisau meddygon teulu sy'n dosbarthu yn darparu'r gwasanaeth dosbarthu yn ystod eu horiau craidd sef 8.00am i 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc. Gellir darparu'r gwasanaeth hefyd yn ystod unrhyw oriau agor estynedig a ddarperir gan y practis.

Ym mis Rhagfyr 2025, roedd 4,678 o bobl wedi'u cofrestru gyda'u practis fel claf y dosbarthir iddynt, 19.1% o gyfanswm maint y rhestr ar gyfer y tri phractis. Roedd canran y cleifion y dosbarthwyd iddynt ar lefel practis yn amrywio rhwng 6.7% a 40.6% o gleifion cofrestredig. Mae'r dosbarthu yn digwydd o safle cymeradwy o ran y practis gydag un practis meddyg teulu yn dosbarthu o ddau safle, ac un practis meddyg teulu yn dosbarthu o un safle.

Tabl 5.6: manylion y practisau meddygon teulu sy'n dosbarthu

Practis meddyg teulu sy'n dosbarthu	Cyfeiriad y lleoliad dosbarthu	Clwstwr
Practis Cwm Garw (Pontycymer)	Heol Arfryn, Betws, Pen-y-bont ar Ogwr CF32 8TP Heol Gellilodrau, Llangeinor, Pen-y-bont ar Ogwr CF32 8PS	Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr
Canolfan Gofal Sylfaenol Treharris (Treharris)	Meddygfa Oaklands, Stryd Oaklands, Bedlinog CF46 6TE	Merthyr Tudful

Mae gan Feddygfa Llynfi (Maesteg) gontract gyda'r bwrdd iechyd i ddarparu gwasanaethau meddygol cyffredinol ac mae'n dosbarthu i gleifion cymwys o'i safle ar Heol Maesteg, Port Talbot sydd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

5.2 Y ddarpariaeth bresennol y tu allan i ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

5.2.1 Mynediad at wasanaethau hanfodol a gwasanaethau sy'n cyfateb i gontractwyr offer

Mae gan gleifion ddewis o ble i gael mynediad at wasanaethau fferyllol; gall hyn fod yn agos at eu cartref, eu practis meddyg teulu, eu lleoliad gwaith neu le maen nhw'n siopa, defnyddio cyfleusterau hamdden neu resymau eraill. O ganlyniad, nid yw'r holl bresgripsiynau a ysgrifennwyd ar gyfer trigolion ardal y bwrdd iechyd yn cael eu dosbarthu o fewn yr un ardal, er fel y nodir yn adran 5.1, mae'r rhan fwyaf o'r eitemau yn cael eu dosbarthu o fewn yr un ardal.

Yn 2024/25, cafodd 2.5% o eitemau eu dosbarthu y tu allan i ardal y bwrdd iechyd - cafodd 2.1% eu dosbarthu mewn mannau eraill yng Nghymru gan 600 o gontractwyr

gwahanol (yn masnachu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw) a chafodd y 0.4% oedd yn weddill eu dosbarthu yn Lloegr.

O'r 290,156 o eitemau a ddosbarthwyd mewn mannau eraill yng Nghymru yn 2024/25:

- Cafodd 164,025 eu dosbarthu gan 111 o gontractwyr yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro,
- Cafodd 117,196 eu dosbarthu gan 1170 o gontractwyr yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
- Cafodd 6,507 eu dosbarthu gan 83 o gontractwyr yn ardal Bwrdd Iechyd Bae Abertawe.
- Cafodd 1,921 eu dosbarthu gan 78 o gontractwyr yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda.
- Cafodd 331 eu dosbarthu gan 16 o gontractwyr fferyllfeydd yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, a
- Cafodd 176 eu dosbarthu gan 43 o gontractwyr yn ardal Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Gwelwyd patrwm tebyg yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

5.2.2 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth cymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer

Nid oes gwybodaeth ar gael am y math o wasanaethau fferylliaeth cymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer a ddarperir gan fferyllfeydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd i'w drigolion. Wrth hawlio am y gwasanaethau hyn, dim ond am y cyfanswm a ddarperir ar gyfer pob gwasanaeth y mae contractwyr yn ei hawlio. Yr eithriad i hyn yw'r gwasanaeth addasu offer stoma lle gwneir taliad yn seiliedig ar yr wybodaeth ar y presgripsiwn. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r gwasanaeth hwn, dim ond cyfanswm yr eitemau offer perthnasol a nodir at ddibenion talu. Fodd bynnag, gellir tybio y bydd trigolion ardal y bwrdd iechyd yn cael mynediad at y gwasanaethau hyn gan gontractwyr y tu allan i'r ardal.

5.2.3 Mynediad at y gwasanaethau gwasanaeth clinigol ychwanegol

Yn yr un modd â gwasanaethau fferylliaeth cymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer nid oes gwybodaeth ar gael am y ddarpariaeth o wasanaethau clinigol gan fferyllfeydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd i'w drigolion. Fodd bynnag, gellir tybio y bydd trigolion ardal y bwrdd iechyd yn cael mynediad at y gwasanaethau hyn gan gontractwyr y tu allan i'r ardal.

5.2.4 Gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan rai practisau meddygon teulu

Bydd rhai o drigolion ardal y bwrdd iechyd yn dewis cofrestru gyda phractis meddyg teulu y tu allan i'r ardal a byddant yn defnyddio'r gwasanaeth dosbarthu a gynigir gan eu practis.

5.3 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 5.1 a 5.2, mae trigolion ardal y bwrdd iechyd ar hyn o bryd yn arfer eu dewis i raddau helaeth o ran ble i gael mynediad at wasanaethau fferyllol. O fewn ardal y bwrdd iechyd, mae ganddynt ddewis o 109 o fferyllfeydd, sy'n cael eu gweithredu gan 33 o wahanol gontractwyr. Y tu allan i ardal y bwrdd iechyd, dewisodd trigolion gael mynediad at 582 o fferyllfeydd eraill a'r pedwar contractwr sy'n dosbarthu offer yng Nghymru yn unig yn 2024/25, er nad yw llawer yn cael eu defnyddio'n rheolaidd.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, dewisodd trigolion gael mynediad at 421 o fferyllfeydd a'r pedwar contractwr sy'n dosbarthu offer mewn mannau eraill yng Nghymru.

Pan ofynnwyd iddynt beth sy'n dylanwadu ar eu dewis o fferyllfa, yr ymatebion mwyaf cyffredin yn yr holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd oedd:

- Yn agos at fy nghartref (190 o bobl)
- Rwy'n hoffi ac yn ymddiried yn y staff sy'n gweithio yno (116)
- Yn agos at fy meddyg (110)
- Mae lleoliad y fferyllfa yn hawdd ei gyrraedd (103_
- Mae man preifat os oes angen i mi siarad â'r fferyllydd (86)
- Y gwasanaeth i gwsmeriaid (85)
- Mae'r staff yn fy adnabod ac yn gofalu amdanaf (81)
- Mae'r fferyllfa yn darparu cyngor a gwybodaeth dda (81).

Sylwch y gellid darparu mwy nag un opsiwn i'r cwestiwn hwn.

Pan ofynnwyd iddynt a oes fferyllfa fwy cyfleus a/neu agosach nad ydyn nhw'n ei defnyddio, dywedodd 63.1% o'r ymatebwyr 'na'. Dywedodd 33.3% o'r ymatebwyr 'ie' a dywedodd 3.5% nad oeddent yn gwybod. Pan ofynnwyd iddynt pam nad oeddent yn defnyddio'r fferyllfa agosach honno, ymatebodd 90 o bobl. Y pedwar prif reswm a roddwyd oedd:

- mae'r gwasanaeth yn rhy araf (29 o bobl)
- Rydw i wedi cael profiad gwael yn y gorffennol (23)
- Nid oes ganddyn nhw'r hyn sydd ei angen arnaf mewn stoc (23), ac
- dydy hi ddim yn hawdd parcio yn y fferyllfa (21).

6 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae'r bennod hon yn disgrifio gwasanaethau GIG y mae'r bwrdd iechyd yn credu eu bod yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal.

6.1 Fferyllfeydd ysbytai

Mae tri phrif ysbyty acíwt ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg:

- Ysbyty'r Tywysog Siarl - Merthyr Tudful, Morgannwg Ganol, CF47 9DT
- Ysbyty Tywysoges Cymru - Heol Coety, Pen-y-bont ar Ogwr, Morgannwg Ganol CF31 1RQ
- Ysbyty Brenhinol Morgannwg - Ynysmaerdy, Pont-y-clun, Llantrisant, CF72 8XR

Mae'r tri ysbyty yn darparu ystod lawn o wasanaethau acíwt cyffredinol gan gynnwys mamolaeth, cleifion allanol, llawdriniaeth ddydd, gofal dwys a gwasanaethau damweiniau ac achosion brys i'r ardal gyfagos. Mae gan bob un o'r tri ysbyty adran fferylliaeth fewnol.

Yn gyffredinol, bydd meddyginiaethau cleifion mewnol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cael eu meddyginiaethau wedi'u dosbarthu gan fferyllfa'r ysbyty. Ar ôl cael eu rhyddhau, mae cleifion fel arfer yn derbyn cyflenwad o hyd at bedair wythnos o'u meddyginiaethau. Gall cleifion sy'n mynychu'r ysbytai ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol dderbyn cyflenwad o feddyginiaethau.

Mae yna hefyd bedwar ysbyty cymunedol ac amrywiaeth o gyfleusterau iechyd yn ardal y bwrdd iechyd, sy'n cynnig amrywiaeth o glinigau cleifion mewnol, gofal dydd a chlinigau cleifion allanol. Mae'r rhain yn cynnwys y tair uned cleifion mewnol iechyd meddwl, Parc Iechyd Prifysgol Keir Hardie a'r ganolfan iechyd menywod integredig yn Ysbyty Cwm Cynon.

Efallai y bydd angen presgripsiynau yn y gymuned ar gleifion sy'n mynychu'r ysbytai neu'r cyfleusterau iechyd hyn, naill ai fel cleifion mewnol neu fel cleifion allanol. Lle mae gan yr ysbyty neu'r cyfleuster iechyd adran fferylliaeth, bydd presgripsiynau cleifion mewnol ac allanol yn cael eu dosbarthu gan yr adran fferylliaeth yn y rhan fwyaf o achosion. Fel arfer darperir cyflenwad o hyd at bedair wythnos ar ôl rhyddhau o'r ysbyty. Gellir darparu cyflenwad o hyd at 12 wythnos ar gyfer cleifion allanol.

Gall clinigau cleifion allanol a'r adran achosion brys roi presgripsiwn ysbyty (WP10HP) i gleifion, y gall cleifion fynd af ef i fferyllfa i'w ddosbarthu. Mae hyn fel arfer yn digwydd pan nad oes adran fferylliaeth ar y safle neu wrth weld cleifion y tu allan i oriau gweithredu adran fferylliaeth yr ysbyty.

Mae'r ysbytai felly yn lleihau (trwy ddosbarthu meddyginiaethau cleifion mewnol) ac yn cynyddu (trwy gyhoeddi presgripsiynau i'w dosbarthu gan fferyllfeydd) yr angen am wasanaethau fferyllol.

6.2 Darparu cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar ar gyfer triniaeth ar unwaith neu weinyddu eitemau yn bersonol gan feddygon teulu

O dan eu contract gwasanaethau meddygol sylfaenol gyda'r bwrdd iechyd, bydd achlysuron lle mae meddyg teulu neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn y practis:

- rhaid iddynt ddarparu cyffur, meddyginiaeth neu gyfarpar i glaf lle mae angen darpariaeth o'r fath ar gyfer triniaeth y claf ar unwaith cyn y gellir cael darpariaeth fel arall, neu
- gall ddarparu cyffur, meddyginiaeth neu gyfarpar i glaf y mae'r meddyg teulu neu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ei weinyddu neu'n ei gymhwyso i'r claf.

Yn gyffredinol, pan fydd claf angen meddyginiaeth neu gyfarpar, bydd eu meddyg teulu yn rhoi presgripsiwn iddynt sy'n cael ei ddosbarthu gan eu fferyllfa neu gontractwr cyfarpar dosbarthu dewisol. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, bydd y meddyg teulu neu'r nyrs practis yn cyflenwi'r eitem yn erbyn presgripsiwn, a chyfeirir at hyn fel gweinyddiaeth bersonol gan y bydd yr eitem a gyflenwir yn cael ei rhoi i'r claf gan y meddyg teulu neu'r nyrs wedyn. Mae hyn yn wahanol i roi presgripsiynau a dim ond i rai eitemau penodol y mae'n berthnasol, er enghraifft brechlynnau, anesthetigion, pigiadau, dyfeisiau atal cenhedlu mewngroth a phwythau.

Ar gyfer yr eitemau hyn, bydd y feddygfa yn cynhyrchu presgripsiwn ond nid oes rhaid i'r claf fynd ag ef i fferyllfa, ei gael wedi'i ddosbarthu ac yna dychwelyd i'r feddygfa iddo gael ei roi. Yn lle hynny, bydd y practis yn cadw'r presgripsiwn ac yn ei gyflwyno ar gyfer ad-daliad i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar ddiwedd y mis.

Ar wahân i hyn, gall practis meddyg teulu ddarparu cyffur, meddyginiaeth neu gyfarpar ar gyfer trin claf ar unwaith oherwydd nad yw'r claf yn gallu cael gafael ar yr eitem o fferyllfa o fewn yr amserlen ofynnol.

Nid yw'n bosibl mesur cyfanswm nifer yr eitemau a weinyddwyd yn bersonol neu a ddarparwyd ar gyfer triniaeth ar unwaith gan bractisau meddyg teulu yng Nghymru gan fod y ffigurau cyhoeddedig yn cynnwys eitemau sydd naill ai wedi'u gweinyddu'n bersonol, wedi'u darparu ar gyfer triniaeth ar unwaith neu wedi'u dosbarthu gan feddygfeydd fferyllol. Fodd bynnag, fel isafswm yn 2024/25, rhoddwyd 135,037 o eitemau yn bersonol neu fe'u darparwyd nhw ar gyfer triniaeth ar unwaith gan feddygfeydd nad ydyn nhw hefyd yn dosbarthu. Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, rhoddwyd o leiaf 43,654 o eitemau yn bersonol neu fe'u darparwyd nhw ar gyfer triniaeth ar unwaith.

Felly mae'r gwasanaeth hwn yn lleihau'r galw am y gwasanaeth dosbarthu hanfodol gan y bydd rhai eitemau'n cael eu rhoi'n bersonol neu'n cael eu darparu i'r claf ar gyfer triniaeth ar unwaith.

6.3 Gwasanaeth GIG 111 a meddygon teulu y tu allan i oriau

Mae gwasanaeth GIG 111 yn darparu un pwynt mynediad i ofal iechyd nad yw'n argyfwng, 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain yn glinigol, gyda thrinwyr galwadau hyfforddedig yn cydweithio â chlinigwyr, fel meddygon teulu, nyrsys, uwch ymarferwyr nyrsio a fferyllwyr. Gofynnir cyfres o gwestiynau i alwyr i benderfynu natur a brys eu pryder iechyd a pha ofal meddygol sydd ei angen. Trwy ffonio 111 mae cleifion yn cael eu cyfeirio i'r 'lle cywir, i gael y driniaeth gywir ar yr adeg iawn'.

Mae gwasanaeth GIG 111 hefyd yn cynnwys mynediad at y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau gwaith ar adegau pan fydd y practisau meddyg teulu ar gau. Mae'r gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau ar gael i'r rhai sydd angen triniaeth feddygol frys y tu allan i oriau agor arferol practisau meddyg teulu. Mae hyn ar gyfer gofal brys yn unig ac nid ar gyfer materion meddygol arferol neu ofal mewn argyfwng. Mae'r gwasanaeth ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener 6:30pm i 8:00am a 24 awr ar ddydd Sadwrn, dydd Sul a gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc.

Trefnir pob apwyntiad ar gyfer gwasanaeth y tu allan i oriau meddyg teulu drwy GIG 111, yn dilyn asesiad cychwynnol dros y ffôn. Os penderfynir, ar ôl asesiad, fod angen unrhyw feddyginiaeth, gellir rhoi presgripsiwn i'w ddosbarthu mewn fferyllfa gymunedol.

Felly, mae'r gwasanaeth yn cynyddu'r angen am wasanaethau fferyllol.

6.4 Unedau mân anafiadau

Mae dwy uned mân anafiadau yn ardal y bwrdd iechyd sy'n agor o ddydd Llun i ddydd Gwener (Ysbyty Cwm Rhondda ac Ysbyty Cwm Cynon) ac un sydd ar agor ar benwythnosau a gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc (Ysbyty Brenhinol Morgannwg). Mae'r unedau hyn yn asesu oedolion a phlant dros blwydd oed gydag:

- anafiadau i'r coesau ac i'r breichiau, a mân anafiadau i'r pen, yr wyneb, y gwddf, y cefn a'r frest
- brathiadau gan bobl, anifeiliaid neu bryfed
- mân losgiadau neu sgaldiadau
- clwyfau neu grafiadau
- corffynnau estron yn y clustiau, y trwyn a'r feinwe feddal.

Felly mae'r unedau mân anafiadau yn lleihau'r angen am gefnogaeth ar gyfer gwasanaeth hunanofal hanfodol ac elfen gwasanaeth anhwylderau cyffredin y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol.

6.5 Carchardai

Carchar EF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yw'r unig garchar preifat yng Nghymru ac mae wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'n garchar dynion Categori ‘B’ ar gyfer oedolion a throseddwyr ifanc (18 i 21 oed) sydd wedi'u dedfrydu a'u cadw yn y ddalfa. Yn ogystal, mae uned ar wahân i bobl ifanc ar gyfer troseddwyr ifanc (15 i 17 oed).

Darperir amrywiaeth o wasanaethau iechyd yn y carchar gyda meddyginiaethau'n cael eu cyflenwi gan wasanaeth fferyllfa fewnol. Mae hyn felly’n lleihau'r galw am y gwasanaeth dosbarthu hanfodol.

6.6 System gwasanaeth archebu heb bresgripsiwn ar-lein ar gyfer rhwymau

Cyflwynwyd y system caffael rhwymau clwyfau i wella rheolaeth gofal clwyfau ac i leihau gwastraff. Mae'n caniatáu i nyrsys ac ymarferwyr awdurdodedig eraill archebu rhwymyau y cytunwyd arnynt yn y fformiwlari trwy borth ar-lein i'w cyflenwi trwy fferyllfeydd sy'n cymryd rhan, heb yr angen am bresgripsiwn. Mae'n caniatáu i dimau nyrsys gadw stoc o rwymau yn eu canolfan. Mae hyn yn caniatáu i gleifion gael eu trin yn fwy effeithlon. Mae hefyd yn atal gwastraff gan, yn wahanol i rwymau ar bresgripsiwn, gellir defnyddio cynnyrch gofal clwyfau a geir drwy'r gwasanaeth ar unrhyw glaf o fewn llwyth achosion y tîm. Mae hyn yn atal yr angen i daflu bocsys o rwymau sydd wedi'u defnyddio'n rhannol os nad ydyn nhw'n addas i'r claf, fel sy'n arferol ar hyn o bryd gyda rhwymynnau ar bresgripsiwn.

Mae hyn felly’n lleihau'r galw am y gwasanaeth dosbarthu hanfodol.

6.7 Presgripsiwn gan ddeintyddion ac optometryddion

Yn wahanol i bractisau meddyg teulu, nid yw presgripsiynau a ysgrifennwyd gan ddeintyddion wedi'u halinio â phractis y deintydd. Felly nid yw'n bosibl nodi faint o eitemau sydd ar bresgripsiwn gan y practisau deintyddol yn ardal y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, mae'n bosibl nodi nifer y presgripsiynau deintyddol a ddosbarthwyd gan y fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2024/25, dosbarthwyd cyfanswm o 31,419 o eitemau gan y fferyllfeydd a dosbarthwyd 24,241 o eitemau yn naw mis cyntaf 2025/26.

Mae'r sefyllfa yr un fath ar gyfer presgripsiynau a ysgrifennwyd gan optometryddion. Yn 2024/25, dosbarthwyd cyfanswm o 5,754 o eitemau gan y fferyllfeydd ac yn naw mis cyntaf 2025/26 dosbarthwyd 6,926 o eitemau.

Felly, mae'r gwasanaethau hyn yn cynyddu'r galw am y gwasanaeth dosbarthu hanfodol.

6.8 Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu o dan eu contract gwasanaethau meddygol cyffredinol

Mae practisau meddyg teulu yn ardal y bwrdd iechyd yn darparu'r gwasanaethau canlynol sy'n lleihau'r angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu cyngor a rhoi presgripsiynau mewn perthynas â dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys
- Brechiadau rhag y ffliw a Covid-19
- Cyngor a thriniaeth ar gyfer anhwylderau cyffredin
- Cefnogaeth i roi'r gorau i ysmygu.

Mae darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol yn cynyddu'r angen am y gwasanaeth dosbarthu hanfodol wrth i bresgripsiynau gael eu rhoi. Fodd bynnag, bydd hefyd yn lleihau'r angen i ddarparu rhai o'r gwasanaethau fferyllfa gymunedol genedlaethol a'r gwasanaethau contractwyr cyfarpar a gwasanaethau clinigol ychwanegol.

6.9 Gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc

O dan y gwasanaethau hyn, mae tîm o weithwyr proffesiynol â gwahanol gefndiroedd, sgiliau a hyfforddiant sy'n berthnasol i iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc yn darparu cefnogaeth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Yn 2024/25, cafwyd presgripsiwn ar gyfer cyfanswm o 10,625 o eitemau a 7,596 o eitemau yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Felly, mae'r gwasanaethau hyn yn cynyddu'r galw am y gwasanaeth dosbarthu hanfodol.

6.10 Tîm cyffuriau ac alcohol cymunedol

Mae'r tîm hwn yn darparu gwasanaeth i bobl sy'n profi problemau gyda chamddefnyddio sylweddau. Fel rhan o'r gwasanaeth mae pobl yn derbyn asesiad cymunedol a chynllun gofal cydlynol.

Yn 2024/25, cafwyd presgripsiwn ar gyfer cyfanswm o 20,338 o eitemau a 14,067 o eitemau yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Felly, mae'r gwasanaethau hyn yn cynyddu'r galw am y gwasanaeth dosbarthu hanfodol.

6.11 Tîm iechyd meddwl cymunedol i oedolion

Mae'r tîm hwn yn darparu ystod o wasanaethau i oedolion (18 – 65 oed) sydd â phroblemau iechyd meddwl ansefydlog, cymedrol i ddifrifol. Mae'r tîm yn cynnig cefnogaeth i bobl sydd ag amrywiaeth o anawsterau iechyd meddwl. Mae

enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys seicosis, anhwylder deubegwn, anhwylder personoliaeth, iselder difrifol a gorbryder.

Yn 2024/25, cafwyd presgripsiwn ar gyfer cyfanswm o 2,432 o eitemau a 2,057 o eitemau yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

7 Anghenion iechyd y gellir eu diwallu gan wasanaethau fferyllol

Yng Nghymru, mae dros 11,000 o ymgynghoriadau cyngor yn digwydd bob dydd ar draws y rhwydwaith fferylliaeth gymunedol[213]. Mae'r rhain yn gyfle gwerthfawr i gefnogi newid ymddygiad trwy wneud i bob un o'r cysylltiadau hyn gyfrif. Gallai gwneud dewisiadau iach fel rhoi'r gorau i ysmygu, gwella deiet a maeth, cynyddu gweithgarwch corfforol, colli pwysau a lleihau faint o alcohol sy'n cael ei yfed wneud cyfraniad sylweddol at leihau'r risg o glefyd, gwella canlyniadau iechyd i'r rhai â chyflyrau hirdymor, lleihau marwolaethau cynamserol a gwella llesiant meddyliol. Mae fferyllfeydd mewn sefyllfa ddelfrydol i annog a chefnogi pobl i wneud y dewisiadau iach hyn fel rhan o'r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol a gomisiynwyd gan y bwrdd iechyd.

7.1 Yr angen am gyffuriau ac offer

Bydd angen i bawb gael presgripsiynau ar ryw adeg, p'un ai ydynt yn un o'r grwpiau a nodwyd yn adran pedwar ai peidio, gan mai meddyginiaethau ar bresgripsiwn yw un o'r ymyriadau mwyaf cyffredin mewn gofal iechyd. Gall hyn fod ar gyfer cwrs untro o wrthfiotigau neu ar gyfer meddyginiaeth y bydd angen iddynt ei gymryd, neu offer y bydd angen iddynt ei ddefnyddio, am weddill eu bywyd er mwyn rheoli cyflwr hirdymor. Dim ond trwy ddarparu gwasanaethau fferyllol y gellir diwallu'r angen iechyd hwn o fewn gofal sylfaenol boed hynny gan fferyllfeydd, contractwyr offer dosbarthu neu feddygon dosbarthu.

Ynghyd â hyn mae casglu a gwaredu cyffuriau diangen neu hen gyffuriau yn ddiogel. Mae gan y bwrdd iechyd a fferyllfeydd ddyletswydd i sicrhau y gall pobl sy'n byw gartref neu mewn cartref gofal preswyl ddychwelyd cyffuriau diangen neu hen gyffuriau i'w gwaredu'n ddiogel.

Dylid nodi nad yw gwasanaethau casglu a dosbarthu yn wasanaethau cytundebol ac felly cânt eu darparu'n breifat gan fferyllfeydd yn ôl eu disgresiwn. Yr unig eithriad i hynny yw pan fo dosbarthu'n cael ei gomisiynu o dan wasanaeth contractwr offer a fferylliaeth gymunedol cenedlaethol, neu wasanaeth clinigol ychwanegol.

Bydd y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau yn rhoi cymorth i gleifion a ryddhawyd yn ddiweddar rhwng lleoliadau gofal drwy sicrhau bod newidiadau i feddyginiaethau cleifion a wneir mewn un lleoliad gofal (e.e. yn ystod derbyn i'r ysbyty) yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd yn y gymuned, gan helpu i leihau'r risg o broblemau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau y gellir eu hatal a chefnogi cadw at feddyginiaeth sydd newydd ei roi ar bresgripsiwn. Mae hwn yn wasanaeth contractwr offer a fferylliaeth gymunedol cenedlaethol, y gall contractwyr ddewis ei ddarparu.

Efallai y bydd achlysuron pan fydd person yn gorffen ei feddyginiaeth reolaidd ac mae'r fferyllydd yn credu na fyddai'n ymarferol i'r person gael y meddyginiaethau a roddwyd ar bresgripsiwn yn flaenorol sydd eu hangen arnynt mewn amserlen briodol yn glinigol trwy'r llwybr arferol heb oedi gormodol. O dan y gwasanaeth fferylliaeth

[213] Fferylliaeth Gymunedol Cymru (2020) Pharmacy advice audit (adroddiad llawn) Richard Brown PhD, FRPharmS

gymunedol glinigol, efallai y bydd person yn gallu cael mynediad at gyflenwad o'u meddyginiaethau sydd eu hangen ar frys.

I'r rhai sydd ag offer, bydd y gwasanaeth adolygu defnydd offer yn helpu i wella eu gwybodaeth a'u defnydd ohono. Nod y gwasanaeth yw sicrhau bod pobl yn cael y budd mwyaf posibl o'r defnydd o'u hoffer a gwella eu profiad o'i ddefnyddio.

I'r rhai sydd ag offer stoma sydd angen ei addasu, bydd y gwasanaeth addasu offer stoma yn sicrhau bod yr offer yn cael ei ddefnyddio'n gywir a'i ffitio'n gyfforddus ac yn gwella hyd ei ddefnydd a thrwy hynny'n lleihau gwastraff.

7.2 Camddefnyddio sylweddau

Gall darparu gwasanaeth clinigol ychwanegol methadon a buprenorphine dan oruchwyliaeth, y cyfeirir ato at ddibenion yr asesiad anghenion fferyllol hwn fel gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth gan fferyllfeydd:

- gynorthwyo clinigwyr sy'n presgripsiynu i ddarparu presgripsiynu yn y gymuned,
- gwella cydymffurfiaeth â chynllun triniaeth y cytunwyd arno,
- rhoi cymorth a mynediad at gyngor a chymorth pellach, gan gynnwys cyfeirio unigolion at wasanaethau triniaeth arbenigol neu wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill,
- lleihau'r risg o gymryd meddyginiaethau amhriodol, a allai arwain at niwed
- sicrhau bod yr unigolyn yn cymryd y drefn ddosio gywir o feddyginiaeth fel y'i presigripsiynwyd,
- lleihau'r risg o feddyginiaeth bresgripsiwn yn cael ei ddargyfeirio i'r farchnad anghyfreithlon,
- lleihau'r posibilrwydd o wenwyno damweiniol, yn enwedig plant, a
- lleihau achosion o farwolaeth ddamweiniol trwy orddos.

Bydd gwasanaeth clinigol ychwanegol sy'n darparu nodwyddau a chwistrelli yn cynorthwyo i leihau rhannu nodwyddau (ac offer) a all arwain at drosglwyddo firysau a gludir yn y gwaed a heintiau eraill (megis y Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol (HIV), hepatitis B ac C). Yn ei dro, gallai hyn arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion o feirysau a gludir yn y gwaed, felly hefyd o fudd i gymdeithas ehangach.

Mae yna hefyd elfennau o ddarpariaeth gwasanaethau hanfodol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn:

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedair ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr trwy hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Maent fel arfer yn cael eu cynnal dros gyfnod o bedair wythnos, ond gellir ymestyn rhai. Mae'r pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn yn cael eu dewis gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Gallai ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus gynnwys codi ymwybyddiaeth am risgiau yfed alcohol trwy drafod risgiau yfed mwy o alcohol na'r hyn a argymhellir, arddangos posteri a dosbarthu taflenni,

cardiau crafu a deunyddiau perthnasol eraill. Os nad yw'r fferyllfa'n darparu'r gwasanaethau clinigol ychwanegol o ran darparu nodwyddau a chwistrellau a/neu roi meddyginiaethau dan oruchwyliaeth, cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr eraill y gwasanaethau.
- Cyfeirio pobl a allai fod yn ddibynnol ar alcohol i ddarparwyr triniaeth alcohol arbenigol lleol.
- Rhoi cyngor byw'n iach yn ystod ymgynghoriadau ac ymgysylltu â phobl sy'n mynd i'r fferyllfa.

7.3 Canser

Yn ogystal â dosbarthu presgripsiynau, gall fferyllfeydd gyfrannu at lawer o'r materion iechyd cyhoeddus sy'n ymwneud â gofal canser fel rhan o'r gwasanaethau hanfodol y maent yn eu cynnig:

- Gwaredu cyffuriau diangen, gan gynnwys cyffuriau a reolir.
- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedair ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr trwy hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Mae'r pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn yn cael eu dewis gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys ymwybyddiaeth o ganser a/neu sgrinio.
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau neu gymorth eraill, er enghraifft darparwyr gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu.
- Pan fydd yn ymddangos i staff fferyllfa y byddai person yn elwa o gyngor i'w helpu i reoli cyflwr meddygol, rhoi cyngor gan gynnwys cyngor ar opsiynau triniaeth a newidiadau i'w ffordd o fyw. Gallai hyn gynnwys rhoi cyngor i ofalwr i'w helpu i reoli cyflwr meddygol person arall.
- Mae gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan fferyllfeydd, yn rhan o ragsefydlu cyn cael eu derbyn ar gyfer triniaethau canser.

7.4 Cyflyrau hirdymor

Yn ogystal â dosbarthu presgripsiynau, gall fferyllfeydd gyfrannu at lawer o'r materion iechyd cyhoeddus sy'n ymwneud â chyflyrau hirdymor fel rhan o'r gwasanaethau hanfodol y maent yn eu cynnig:

- Pan fydd person yn cyflwyno presgripsiwn, ac yn ymddangos i'r fferyllydd ei fod yn dioddef o broblem iechyd niweidiol neu mewn perygl o'i datblygu, rhaid i'r fferyllydd roi cyngor i'r person hwnnw gyda'r nod o gynyddu ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r materion iechyd sy'n berthnasol i'w amgylchiadau personol
- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedair ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr trwy hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Mae'r pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn yn cael eu dewis gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys cyflyrau hirdymor
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau neu gymorth eraill

- Pan fydd yn ymddangos i staff fferyllfa y byddai person yn elwa o gyngor i'w helpu i reoli cyflwr meddygol, rhoi cyngor gan gynnwys cyngor ar opsiynau triniaeth a newidiadau i'w ffordd o fyw. Gallai hyn gynnwys rhoi cyngor i ofalwr i'w helpu i reoli cyflwr meddygol person arall
- Rhoi cyngor byw'n iach yn ystod ymgynghoriadau ac ymgysylltu â phobl sy'n mynd i'r fferyllfa

Bydd rhoi'r brechiadau ffliw, profion llif unffordd, addasu offer stoma, adolygiad defnydd offer, darparu nodwyddau a chwistrellau, rhoi'r gorau i ysmygu, gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth, gwasanaeth cartrefi gofal, sgrinio feirws a gludir gan y gwaed, a phecynnau rhag ofn y bydd gwasanaethau clinigol ychwanegol hefyd yn helpu pobl i reoli eu cyflyrau hirdymor er mwyn gwneud y mwyaf o'u hansawdd bywyd.

7.5 Dros bwysau a gordewdra

Bydd pedair elfen o'r gwasanaethau hanfodol yn mynd i'r afael â'r angen iechyd hwn:

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedair ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr trwy hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Mae'r pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn yn cael eu dewis gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys gordewdra.
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau neu gymorth eraill ar gyfer gwasanaethau rheoli pwysau.
- Pan fydd yn ymddangos i staff fferyllfa y byddai person yn elwa o gyngor i'w helpu i reoli cyflwr meddygol, rhoi cyngor gan gynnwys cyngor ar opsiynau triniaeth a newidiadau i'w ffordd o fyw. Gallai hyn gynnwys rhoi cyngor i ofalwr i'w helpu i reoli cyflwr meddygol person arall.
- Rhoi cyngor byw'n iach yn ystod ymgynghoriadau ac ymgysylltu â phobl sy'n mynd i'r fferyllfa.

7.6 Iechyd rhywiol

Ochr yn ochr â'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol sy'n cynnwys cynnig gwasanaeth atal cenhedlu, mae elfennau o ddarpariaeth gwasanaeth hanfodol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn:

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedair ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr trwy hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Mae'r pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn yn cael eu dewis gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a HIV.
- Pan fydd yn ymddangos i staff fferyllfa y byddai person yn elwa o gyngor i'w helpu i reoli cyflwr meddygol, rhoi cyngor gan gynnwys cyngor ar opsiynau triniaeth a newidiadau i'w ffordd o fyw. Gallai hyn gynnwys rhoi cyngor i ofalwr i'w helpu i reoli cyflwr meddygol person arall.

- Pan nad yw'r fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa i ddarparwyr eraill gwasanaethau iechyd rhywiol, gan gynnwys pecynnau sgrinio heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.
- Rhoi cyngor byw'n iach yn ystod ymgynghoriadau ac ymgysylltu â phobl sy'n mynd i'r fferyllfa.

7.7 Beichiogrwydd yn yr arddegau

Bydd gwasanaeth atal cenhedlu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol ynghyd ag elfennau o ddarpariaeth gwasanaeth hanfodol yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn:

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedair ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr trwy hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Mae'r pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn yn cael eu dewis gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys beichiogrwydd yn yr arddegau.
- Pan nad yw'r fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth atal cenhedlu gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa i ddarparwyr eraill y gwasanaeth.

7.8 Ysmygu

Yn ogystal â gwasanaethau clinigol ychwanegol lefelau 2 a 3 gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu Helpa Fi i Stopio @ Fferylliaeth, mae elfennau o ddarpariaeth gwasanaeth hanfodol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn:

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedair ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr trwy hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Mae'r pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn yn cael eu dewis gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys ysmygu.
- Pan nad yw'r fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth clinigol ychwanegol rhoi'r gorau i ysmygu, cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa i ddarparwyr eraill y gwasanaeth.
- Trafod rhoi'r gorau i ysmygu wrth werthu meddyginiaethau perthnasol dros y cownter.
- Rhoi cyngor byw'n iach yn ystod ymgynghoriadau ac ymgysylltu â phobl sy'n mynd i'r fferyllfa.

7.9 Cymorth ar gyfer hunanofal

Mae cymorth ar gyfer hunanofal yn wasanaeth hanfodol. Fel rhan o'u gwasanaethau hanfodol, rhaid i fferyllfeydd roi cyngor ar hunanofal i gleifion o ran opsiynau triniaeth a newidiadau ffordd o fyw.

7.10 Feirysau a gludir yn y gwaed

Nod y gwasanaeth clinigol ychwanegol ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed yw

gwella mynediad at sgrinio am feirysau a gludir yn y gwaed, triniaethau cysylltiedig a chyngor iechyd drwy gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu profi a lleihau'r risgiau iechyd personol a chyhoeddus sy'n gysylltiedig â haint gan hepatitis B ac C a feirws imiwnoddiffygiant dynol[214,215,216].

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi canfod a diagnosis cynnar y rhai sydd mewn perygl o feirysau a gludir yn y gwaed fel feirws imiwnoddiffygiant dynol, hepatitis B ac C gan ddefnyddio profion smotiau gwaed sych, ac yn sicrhau bod triniaeth yn cael ei gychwyn yn gynnar, gan atal trosglwyddo'r feirws ymhellach. Mae'r grŵp o gleientiaid yr ystyrir eu bod mewn perygl o haint yn defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan fferyllfeydd yn rheolaidd, fel darparu nodwyddau a chwistrellau a rhoi meddyginiaethau dan oruchwyliaeth.

7.11 Cymorth cartrefi gofal ac ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau lefel 1

Mae'r gwasanaeth clinigol ychwanegol ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau lefel 1 a chymorth cartrefi gofal yn cefnogi archebu, cyflenwi, storio a gweinyddu meddyginiaethau ac offer yn ddiogel mewn cartrefi gofal. Mae'n cynnwys adolygiad systematig o'r holl brosesau rheoli meddyginiaethau yn y cartref gofal a datblygu protocolau a gweithdrefnau meddyginiaethau i gefnogi defnydd effeithiol o feddyginiaethau, lleihau risg a lleihau gwastraff y gellir ei osgoi. Mae hefyd yn cynnwys adolygu meysydd risg therapiwtig presgripsiynu y dangosir eu bod yn digwydd mewn cartrefi gofal, gyda fferyllwyr yn gweithio ar y cyd â'r bwrdd iechyd a chydweithwyr practisau meddygon teulu i gefnogi cartrefi gofal yng Nghwm Taf Morgannwg, er mwyn sicrhau bod gwelliannau yn y ddarpariaeth gwasanaethau yn cael eu cynnal a datblygu protocolau a gweithdrefnau meddyginiaethau i gefnogi defnydd effeithiol o feddyginiaethau, lleihau risg a lleihau gwastraff y gellir ei osgoi.

7.12 Gwasanaeth gofal lliniarol

Mae'r gwasanaeth pecyn rhag ofn yn rhoi pecyn meddygaeth frys gofal lliniarol i unigolion y disgwylir y gall eu cyflwr meddygol ddirywio i gyfnod terfynol y salwch. Gan gynnig cwrs meddyginiaeth hawdd ei adnabod i hwyluso rheolaeth effeithiol o symptomau annisgwyl gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn sefyllfaoedd brys.

Bydd nodi fferyllfeydd allweddol sydd wedi cytuno i gynnig y gwasanaeth pecyn rhag ofn yn galluogi cynllunio rhagweithiol ar gyfer gofal cleifion y mae eu cyflwr yn dirywio.

[214] Llywodraeth Cymru Ionawr 2023 - Cael gwared ar hepatitis (B a C) fel bygythiad i iechyd y cyhoedd yng Nghymru – Camau gweithredu ar gyfer 2022-23 a 2023-24 (Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2023/001)
[215] Llywodraeth Cymru - Datganiad Ysgrifenedig: Diwrnod Hepatitis y Byd 2024 (26 Gorffennaf 2024)
[216] Llywodraeth Cymru - Datganiad Ysgrifenedig: Dileu hepatitis B ac C yng Nghymru (7 Awst 2025)

7.13 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa

Gall presgripsiynwyr annibynnol fferyllfa bresgripsiynu unrhyw feddyginiaeth drwyddedig ar gyfer unrhyw gyflwr meddygol, o fewn eu maes cymhwysedd therapiwtig. Ar hyn o bryd mae hyn yn eithrio tri chyffur a reolir ar gyfer trin dibyniaeth. Mae cynllun Pwyllgor Fferyllol Cymru 'Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach (2019)'[217], yn gosod y nod y bydd presgripsiynydd annibynnol ym mhob fferyllfa gymunedol a mwy o ffocws ar atal a chanfod salwch yn gynnar, erbyn 2030.

Mae gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferylliaeth yn wahanol i'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin o dan y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol gan ei bod yn ofynnol i fferyllwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol bresgripsiynu meddyginiaethau ar gyfer cyflenwad y GIG lle bo hynny'n briodol, yn aml yn disodli'r angen am apwyntiad meddyg teulu. Yn wahanol i'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin, sydd fel arfer yn canolbwyntio ar fân faterion iechyd ac yn cyflenwi triniaethau dros y cownter, mae'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol yn grymuso fferyllwyr i reoli ystod ehangach o gyflyrau yn annibynnol. Mae'r rôl uwch hon yn cefnogi cleifion drwy gynnig mynediad amserol at ofal iechyd, gan leihau'r pwysau ar feddygon teulu a gwella'r ddarpariaeth o ofal o fewn y gymuned.

Rhaid i unrhyw gontractwr fferylliaeth sy'n dymuno darparu gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferylliaeth hefyd ddarparu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol sy'n cynnwys tair elfen; gwasanaeth anhwylderau cyffredin, gwasanaeth atal cenhedlu brys, cyflenwad tymor byr o'r bilsen atal cenhedlu neu QuickStart a gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng.

7.14. Brechu yn erbyn clefyd heintus

Brechiadau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o atal llawer o glefydau heintus ac atal miliynau o farwolaethau ledled y byd bob blwyddyn.

Mae'r ffliw yn ffactor allweddol yng ngwydnwch GIG Cymru, gan effeithio ar iechyd cleifion a'r galw am wasanaethau. Mae'r rhaglen frechu flynyddol yn lleihau derbyniadau annisgwyl a phwysau ar Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Mae'r bwrdd iechyd yn comisiynu fferyllfeydd i gynnig y gwasanaeth brechu rhag y ffliw tymhorol.

[217] Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol - Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach (cyrchwyd 15/02/2026)

8 Clwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr

8.1 Trosolwg

Clwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yw'r mwyaf o'r tri chlwstwr o fewn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gwasanaethu poblogaeth o 84,301[218] sydd wedi cofrestru gyda phractis, a hynny mewn amgylchedd trefol yn bennaf. Mae 12 fferyllfa yn y clwstwr a phum meddygfa deulu; mae gan ddwy o'r meddygfeydd teulu safleoedd meddygfa cangen. Mae gan un dri safle cangen, ac mae gan y llall un safle cangen.

Yn dilyn cynnydd o 4.5%[219] yn y boblogaeth rhwng 2011 (139,200) a 2021 (145,500), twf poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr oedd y trydydd uchaf yng Nghymru ar ôl Casnewydd (9.5%) a Chaerdydd (4.7%), gan fynd heibio i gyfartaledd cyffredinol Cymru (1.4%) hefyd. Pen-y-bont ar Ogwr yw'r seithfed dwysaf ei boblogaeth o'r 22 awdurdod lleol, sy'n golygu mai hwn yw'r wythfed awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru.

gan awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr ddisgwyliad oes is adeg genedigaeth ar gyfer menywod (81.6 oed) a dynion (77.4 oed) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 81.8 oed (menywod) a 77.9 oed (dynion).

Nid yw amddifadedd wedi'i grynhoi'n drwm yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr. Mae 8.5% o'r trigolion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru o'u cymharu ag 20.7% ledled Cymru a 24.7% ar gyfer y bwrdd iechyd.

Mae gan Ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr broffil cymysg o gyflyrau iechyd hirdymor, yn seiliedig ar gyffredinrwydd amcangyfrifedig, o'i gymharu â'r bwrdd iechyd a Chymru gyfan.

- Yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru o ran asthma a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint
- Yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru o ran ffibriliad atrïaidd a strôc a phyliau o isgemia dros dro
- Yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn cydredeg â chyfartaledd Cymru o ran clefyd coronaidd y galon, diabetes a gorbwysedd
- Mae methiant y galon yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn cydredeg â chyfartaledd Cymru
- Mae dementia yn cydredeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd, ond mae'n is na chyfartaledd Cymru
- Mae iechyd meddwl yn cydredeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru

Mae ymddygiadau ffordd o fyw o fewn y boblogaeth oedolion (16 oed a hŷn) ledled

[218] Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - dadansoddi practisiau meddyg teulu a chofrestriadau cleifion yn ôl practis (Ionawr 2026).
[219] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Sut newidiodd y boblogaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr: Cyfrifiad 2021

Pen-y-bont ar Ogwr, a gofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[220] ac a ddisgrifir ym mhroffil iechyd adran 8.2.4, yn datgelu cymysgedd o arferion cadarnhaol a heriau parhaus. Er enghraifft, mae preswylwyr yn ysmygu llai (gan gynnwys e-sigaréts), yn yfed llai o alcohol, ac yn bwyta mwy o ffrwythau a llysiau. Fodd bynnag, mae mwy o breswylwyr yn dweud eu bod dros bwysau a/neu'n ordew ac mae llai o breswylwyr yn ymgymryd â gweithgarwch corfforol na Chymru gyfan.

8.2 Nodweddion allweddol y boblogaeth

8.2.1 Amcanestyniad poblogaeth 2022 i 2032

Amcanestynnir y bydd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu hyd at 5.5% rhwng 2022 (146,173) a 2032 (154,189).

Rhagwelir y bydd awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, erbyn 2032[221] yn:

- Gweld gostyngiad yn nifer y bobl rhwng 0 a 15 oed
- Ymhlith wyth awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf a ragwelir yn y boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 a 64 oed
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 65 oed a throsodd. Pen-y-bont ar Ogwr fydd un o dri awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf (23.1%) ar ôl Sir Benfro (24.6%) a Bro Morgannwg (23.2%)
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 75 oed a throsodd

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn cael ei yrru'n bennaf gan fudo net, h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Disgwylir i nifer y genedigaethau leihau a nifer y marwolaethau gynyddu, gan arwain at newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau).

8.2.2 Cyfanswm disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a'r 'bwlch anghydraddoldeb' (2020 i 2022)

- Mae gan awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr ddisgwyliad oes ychydig yn is adeg genedigaeth ar gyfer menywod a dynion o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (tabl 8.1).
- Diffinnir mai disgwyliad oes iach[222] yw nifer y blynyddoedd y gall person ddisgwyl byw mewn iechyd da ac mae'n cael ei fesur ar lefel awdurdod lleol. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, y disgwyliad oes iach yw 61.3 oed i ddynion a 61.4 oed i fenywod. Yn gymharol, mae cyfartaledd Cymru ychydig yn is, sef 60.8 oed i ddynion a 60.2

[220] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)
[221] Llywodraeth Cymru - Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol: sail-2022
[222] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Disgwyliad oes iach, y DU: rhwng 2011 a 2013 a rhwng 2022 a 2024

oed i fenywod. Dengys hyn fod dynion a menywod ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn tueddu i fwynhau cyfnod hirach o iechyd da na'r cyfartaledd ledled Cymru.
- Cyfeirir at y gwahaniaethau mewn disgwyliad oes iach sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig fel y 'bwlch anghydraddoldeb'. Y bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw 4.9 mlynedd i ddynion a 4.7 mlynedd i fenywod[223].

Tabl 8.1: Cyfanswm disgwyliad oes adeg genedigaeth menywod a dynion, 2020 i 2022[224]

Ardal	Benywod adeg genedigaeth (oed)	Gwrywod adeg genedigaeth (oed)
Awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr	81.6	77.4
Cymru	81.8	77.9

Ymwadiad**:** Er bod y data a gyflwynir o ran disgwyliad oes iach yn dangos ffigurau ar gyfer 2024, defnyddiwyd data o'r blynyddoedd 2020 i 2022 i sicrhau cysondeb a chymharedd ar draws pob blwyddyn.

8.2.3 Amddifadedd

Mae'r cysylltiad rhwng amddifadedd ac iechyd gwael wedi'i ddogfennu'n dda. O'r tri chlwstwr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr sydd â'r crynodiad isaf o bobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (8.5%), sy'n is na chyfartaledd y bwrdd iechyd (24.7%).

Fodd bynnag, mae ardaloedd bach o amddifadedd 'dwfn'[225] sydd wedi aros o fewn y 50 ardal fwyaf difreintiedig frig yng Nghymru, sy'n hafal yn fras i'r 2.6% brig o ardaloedd bach yng Nghymru ar gyfer y chwe chyhoeddiad diwethaf (2005, 2008, 2011, 2014, 2019 a 2025) o safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Lle mae ardaloedd o amddifadedd yn bodoli, mae'r boblogaeth yn debygol o fod yn destun yr iechyd gwaethaf.

Dengys y tabl isod y ganran amcangyfrifedig o bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr, o'i gymharu â'r bwrdd iechyd.

[223] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus 2025
[224] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus -Disgwyliad oes dynion a menywod (2020 i 2022)
[225] Llywodraeth Cymru Rhagfyr 2025 - Adroddiad canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2025: mynegai cyffredinol

Tabl 8.2: Amcangyfrif o'r ganran o gleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr a'r bwrdd iechyd (2025)[226]

Ardal	Canran
Clwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	8.5%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	24.7%

8.2.4 Proffil iechyd

Mae clefydau anhrosglwyddadwy[227], a elwir hefyd yn glefydau cronig, fel arfer yn hirdymor a chronig eu natur, sy'n deillio o gymysgedd o ddylanwadau genetig, ffisiolegol, amgylcheddol ac ymddygiadol. Gall y cyflyrau hyn effeithio'n sylweddol ar ansawdd bywyd ac yn aml mae angen sylw a rheolaeth feddygol arnynt. Y prif gategorïau o glefydau cronig yw:

- Clefydau cardiofasgwlaidd (fel trawiadau ar y galon a strôc)
- Canserau
- Clefydau anadlol cronig (megis clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac asthma)
- Diabetes

Dengys y tabl isod amcangyfrif o gyffredinrwydd clefydau cronig yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr o'i gymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru.

Tabl 8.3: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[228]

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phyliau o isgemia dros dro
Clwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	7.0%	3.4%	1.9%	8.4%	1.4%	2.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	7.5%	3.6%	2.6%	9.0%	1.2%	2.4%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Dengys y tabl isod ganran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr, ochr yn ochr â'r cyfartaledd ar

[226] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[227] Sefydliad Iechyd y Byd Medi 2025 - Clefydau anhrosglwyddadwy
[228] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

gyfer y bwrdd iechyd a Chymru gyfan. Mae'r data'n datgelu bod Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yn cydredeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru. Mewn cyferbyniad, mae canran y bobl sydd wedi'u cofrestru â dementia yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yn cydredeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd ond mae ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (0.1% yn is).

Tabl 8.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl a dementia, yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025[229]

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Clwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	1.1%	0.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	1.1%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Mae'r tabl isod yn dangos yr amcangyfrif o gyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd a gorbwysedd ymhlith pobl sydd wedi'u cofrestru ar gofrestrau meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr, o'i gymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru gyfan. Mae cyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr ychydig yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru (0.1% yn uwch). Mewn cyferbyniad, mae cyffredinrwydd gorbwysedd yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yn cydredeg â chyfartaledd Cymru ond yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd (1.0% yn is).

Tabl 8.5: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd gorbwysedd a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025[230]

Ardal	Ffibriliad atrïaidd	Gorbwysedd
Clwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr	2.8%	16.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2.7%	17.3%
Cymru	2.7%	16.3%

Cyflwyna'r tabl isod ganran yr oedolion 16 oed a hŷn ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd wedi hunan-adrodd eu bod yn cymryd rhan mewn chwe ymddygiad ffordd o fyw allweddol, fel y cofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[231]. Mae'r wybodaeth hon yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr i'r arferion cyffredin a'r dewisiadau ffordd o fyw ymhlith y boblogaeth oedolion yn yr ardal.

[229] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[230] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[231] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)

Tabl 8.6: Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw yn ôl awdurdod lleol a Chymru rhwng 2021 a 2023

	Cyfrif	Cyffredinrwydd					
Ardal	**Poblogaeth 16 oed a hŷn**	**Ysmygu (gan gynnwys e-sigaréts)**	**Yfed mwy na 14 uned yr wythnos**	**Dros bwysau gyda mynegai màs y corff o 25+**	**Gordew gyda mynegai màs y corff o 30+**	**Gweithgarwch corfforol am 150 munud yr wythnos**	**Bwyta pump y dydd**
Awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr	122,161[232]	18%	14%	70%	30%	51%	32%
Cymru	2,641,000[233]	20%	16%	62%	25%	56%	29%

Awgryma hyn fod ymddygiadau ffordd o fyw cadarnhaol yn gyffredin ym Mhen-y-bont ar Ogwr o'i gymharu â Chymru gyfan, megis llai o ysmygu (2.0% yn is) ac yfed gormodol (2.0% yn is), yn ogystal â mwy o fwyta ffrwythau a llysiau (bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd) (3.0% yn uwch). Fodd bynnag, dywedodd nifer uwch o bobl eu bod dros bwysau (8.0% yn uwch), eu bod yn ordew (5.0% yn uwch) a'u bod yn gwneud llai o weithgarwch corfforol (5.0% yn is) na Chymru.

8.3 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol o fewn y clwstwr


Mae 12 fferyllfa yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cael eu gweithredu gan saith contractwr gwahanol.

Yn 2024/25, cyflenwyd 80.2% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cyflenwyd 80.4% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr.

[232] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024
[233] Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2025 - Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024

Map 8.1: Lleoliad safleoedd fferyllfa o fewn y clwstwr



Daearyddiaeth a Thechnoleg 022.26-27 Dyddiad 2026-9-11

© Hawlfraint a hawl cronfa ddata 2026. Arolwg Ordnans AC0000849488. Llywodraeth Cymru

Mae clwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yn boblogaeth drefol yn bennaf a chanddi ardaloedd gwledig bach. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr asesiad o anghenion fferyllol a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad bod y fferyllfeydd yn y clwstwr hwn mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, ac o fewn ardaloedd o amddifadedd uwch neu gerllaw. Yn ogystal, gallai pob preswylydd gyrraedd un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn 15 munud, a'r mwyafrif o fewn pump i ddeng munud. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd wedi newid, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae trigolion yn dal i allu cyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 15 munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae dwy fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- Mae dwy fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae pedair fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener, a bore Sadwrn

- Mae pedair fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor y fferyllfeydd, dangosir yr ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod.

Tabl 8.7: Oriau agor a chau fferyllfeydd

Dyddiau	Ystod oriau agor	Ystod oriau cau
Dydd Llun i ddydd Gwener	8.00am i 9.00am	5.00pm i 8.00pm
Dydd Sadwrn	8.00am i 9.00am	12.00pm i 8.00pm
Dydd Sul	10.00am	4.00pm

- Mae un fferyllfa yn cau am 5.00pm ddydd Llun i ddydd Gwener
- Mae naw fferyllfa yn cau rhwng 5.30pm a 6.30pm ddydd Llun i ddydd Gwener
- Mae un fferyllfa yn cau am 7.00pm ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae un fferyllfa yn cau am 8.00pm ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae dwy fferyllfa'n cau am 5.30pm ddydd Sadwrn

Gellir dod o hyd i fanylion llawn oriau agor fferyllfeydd yn Atodiad L.

Ymatebodd pedair fferyllfa i'r holiadur contractwr, a chymerwyd yr wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Mae tair o'r fferyllfeydd yn hygyrch i gadair olwyn ac yn cynnwys ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadair olwyn. Mae'r pedair ardal ymgynghori yn:

- ystafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad yn arferol o uchel heb gael eu clywed, ac
- wedi'u dynodi'n glir yn ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd tair fferyllfa fod ganddyn nhw siaradwyr Cymraeg ymysg eu staff. Cadarnhaodd dwy fferyllfa fod ieithoedd eraill yn cael eu siarad. Mae gan un fferyllfa staff sy'n siarad Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg a Japaneg, ac mae gan un arall staff sy'n siarad Sbaeneg.

Mae'r pedair fferyllfa i gyd yn cyflenwi presgripsiynau ar gyfer pob math o offer.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu:

- mae pob un o'r pedair fferyllfa yn casglu presgripsiynau gan feddygfeydd teulu.
- mae tair fferyllfa'n darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais, ac
- mae un yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ffi.

Nid oedd unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwasanaeth clinigol ychwanegol presennol nad yw'n cael ei ddarparu yn yr ardal ar hyn o bryd, nac awgrymiadau fod angen gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt gapasiti i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol, dywedodd tair fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau a'u lefelau staffio. Nid oes gan y bedwaredd ddigon o gapasiti o fewn ei lefelau staffio ond gallai wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw. Nid oes ganddi ddigon o gapasiti yn ei safle a byddai'n anodd iddi ymdopi â chynnydd yn y galw.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r safle neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, dywedodd un fferyllfa fod ganddi gynlluniau ar gyfer ail ystafell ymgynghori wedi'u cymeradwyo ac y byddai'n cael ei gosod yn fuan.

8.3.1 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

8.3.1.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Ni wnaeth yr un o'r fferyllfeydd ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.3.1.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae pob un o'r 12 fferyllfa wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 8,927 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 135 i 1,384)
- 1,028 o ymgynghoriadau ar gyfer dolur gwddf (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 15 i 210)
- 289 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 70)
- 882 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 13 i 197)
- 2,316 o gyflenwadau meddyginiaeth frys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 7 i 614)

Yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 6,128 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 46 i 1,134)
- 592 o ymgynghoriadau ar gyfer dolur gwddf (yn amrywio ar lefel fferyllfa o un i 127)
- 518 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 129)

- 568 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu (yn amrywio ar lefel fferyllfa o dri i 131)
- 1,410 o gyflenwadau meddygaeth frys (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 9 i 342)

8.3.1.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Darparodd wyth fferyllfa y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 265 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o ddau i 98).

Darparodd naw fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 137 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 51).

8.3.1.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae 11 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd 11 fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,798 o frechiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o bump i 554).

Darparodd deg fferyllfa'r gwasanaeth ym mis Hydref a mis Tachwedd 2025, gan ddarparu cyfanswm o 1,678 o frechiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 11 i 481).

8.3.1.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Cyflenwodd deg fferyllfa 373 o becynnau yn 2024/25 (yn amrywio ar lefel fferyllfa o ddau i 108).

Cyflenwodd pum fferyllfa 41 o becynnau yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 (yn amrywio ar lefel fferyllfa o ddau i 20).

8.3.1.6 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd

Mae pedair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pedair o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,284 o ymgynghoriadau yn 2024/25 (yn amrywio ar lefel fferyllfa o ddau i 1,181).

Darparodd pedair fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 1,129 o ymgynghoriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 14 i 878).

8.3.1.7 Gwasanaeth addasu stoma

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

8.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

8.3.2.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Nid oes yr un fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

8.3.2.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Mae dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd dwy fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan gynnal 21 ymweliad i gyd.

Darparodd yr un ddwy fferyllfa y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gynnal 14 ymweliad i gyd.

8.3.2.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae naw fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pum fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan gyflenwi cyfanswm o 21 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o un i 13).

Darparodd pedair fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gyflenwi cyfanswm o 10 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o un i bedwar).

8.3.2.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae chwe fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd dwy fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 178 o ddyfeisiau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 12 i 166).

8.3.2.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae'r holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd saith fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu siartiau i 35 o gleifion (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 10).

Darparodd wyth fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu siartiau i 43 o gleifion (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 7).

8.3.2.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Cafodd ei ddarparu gan un fferyllfa yn 2024/25, sef 150 o ddarpariaethau i gyd, ac yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, sef 81 o ddarpariaethau i gyd.

8.3.2.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae pob un o'r 12 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd 11 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi o 588 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 6 i 103).

Darparodd wyth fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi 223 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 4 i 118).

8.3.2.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae deg fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd deg fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi 491 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o un i 141).

Darparodd wyth fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 138 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 42).

8.3.2.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae wyth fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd saith fferyllfa'r gwasanaeth i 310 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o chwech i 134), gan oruchwylio cyfanswm o 4,069 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 61 i 1,943).

Yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, darparodd saith fferyllfa'r gwasanaeth i 197 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 4 i 91), gan oruchwylio cyfanswm o 2,636 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 48 i 1,295).

8.3.2.10 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

8.3.2.11 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 2 (uwch)

Mae un fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

8.3.2.12 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Darparodd deg fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 262 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o chwech i 77).

Darparodd deg fferyllfa’r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 312 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o un i 95).

8.4 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol y tu allan i ardal y clwstwr

Efallai y bydd rhai preswylwyr yn dewis cyrchu contractwyr y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gwasanaethau:

- Wedi’u cynnig gan gontractwyr offer cyflenwi.
- Sy’n agos at eu mannau gwaith, siopa, neu fannau y maent yn ymweld â nhw at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yn 2024/25 wedi'u cyflenwi gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (80.2%), cyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 11.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr
- 6.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Taf Elái
- 0.4% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- 0.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- 0.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu eu cyflenwi gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (80.4%), a chyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 11.5% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr
- 6.5% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Taf Elái
- 0.4% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- 0.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- 0.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

Yn ogystal, efallai y bydd preswylwyr wedi cael un neu ragor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl meintioli'r gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

8.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

8.6 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 8.3 a 8.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd

wedi'u cofrestru gydag un o'r meddygfeydd teulu yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i gyflenwi eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael at fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i gyflenwi gan fferyllfa neu gontractwr offer y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 326 o gontractwyr a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr, yr oedd 240 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 8,711 o eitemau presgripsiwn eu cyflenwi yn Lloegr.

Gwnaeth cyfanswm o 299 o gontractwyr a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2025/26 (hyd at fis Rhagfyr 2025) gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr, yr oedd 211 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 6,075 o eitemau presgripsiwn eu cyflenwi yn Lloegr.

8.7 Datblygiadau tai

Mae Cynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr 2018 i 2033[234] yn cynnwys cynlluniau datblygu ar draws ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r taflwybr ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun wedi'i gynnwys yng Nghynllun Monitro Blynyddol cynllun datblygu lleol 2018 i 2033[235] Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r wybodaeth isod yn crynhoi'r cynllun ar gyfer y datblygiadau mwy o faint (dros 100 o dai).

8.7.1 Craig y Parcau, Pen-y-bont ar Ogwr

- 108 o anheddau
- Nifer y preswylwyr: (2.5 fesul aelwyd) 270
- Ers 2025/26, roedd deg annedd naill ai'n cael eu hadeiladu neu wedi'u cwblhau (wedi'u hadeiladu)
- Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr anheddau sydd i'w cwblhau rhwng 2026 a 2033

Tabl 8.8: nifer yr anheddau y rhagwelir y byddant yn cael eu cwblhau yn ôl blwyddyn

2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
50	48	0	0	0	0	0

- Nid oes unrhyw anheddau pellach wedi'u nodi y tu hwnt i'r cynllun.

[234] Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Cynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr 2018 i 2033
[235] Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Hydref 2025 - Adroddiad monitro blynyddol (2025) - Cynllun datblygu lleol 2018 - 2033

8.7.2 Tir i'r dwyrain o Bencoed (safle Coleg Amaethyddol Pencoed)

- 804 o annedd, bydd 20% (161 annedd) yn dai fforddiadwy
- Nifer y preswylwyr: (2.5 fesul aelwyd) 2,010
- Mae'r safle wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad cynhwysfawr, defnydd cymysg
- I'r gogledd-ddwyrain o Ben-y-bont ar Ogwr ac i'r gogledd o draffordd yr M4, mae'r safle'n gorwedd yn uniongyrchol gyfagos i'r ffin â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Ers 2025/26, nid oes unrhyw anheddau newydd yn cael eu hadeiladu nac wedi'u cwblhau (wedi'u hadeiladu)
- Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr anheddau sydd i'w cwblhau rhwng 2026 a 2033

Tabl 8.9: nifer yr anheddau y rhagwelir y byddant yn cael eu cwblhau yn ôl blwyddyn

2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
84	120	120	120	120	120	120

- Nid oes unrhyw anheddau pellach wedi'u nodi y tu hwnt i'r cynllun.

8.7.3 Tir i'r de o Ben-y-bont ar Ogwr (Island Farm)

- 788 annedd, bydd 20% (158 annedd) yn dai fforddiadwy
- Nifer y preswylwyr: (2.5 fesul aelwyd) 1,970
- Mae'r safle wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad defnydd cymysg, cynhwysfawr, dan arweiniad seilwaith gwyrdd
- Ers 2025/26, nid oes unrhyw anheddau newydd yn cael eu hadeiladu nac wedi'u cwblhau (wedi'u hadeiladu)
- Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr anheddau sydd i'w cwblhau rhwng 2026 a 2033

Tabl 8.10: nifer yr anheddau y rhagwelir y byddant yn cael eu cwblhau yn ôl blwyddyn

2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
68	120	120	120	120	120	120

- Nid oes unrhyw anheddau pellach wedi'u nodi y tu hwnt i'r cynllun.

8.7.4 Tir i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr (Bryntirion/Trelales)

- 850 o anheddau
- Nifer y preswylwyr: (2.5 fesul aelwyd) 2,125

- Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr anheddau sydd i'w cwblhau rhwng 2025 a 2033

Tabl 8.11: nifer yr anheddau y rhagwelir y byddant yn cael eu cwblhau yn ôl blwyddyn

2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
30	100	100	100	100	100	100	100

- Mae 120 o anheddau wedi'u nodi y tu hwnt i'r cynllun.

8.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau fferyllol a ddarperir mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am wasanaethau. Nid oes gan y bedwaredd ddigon o gapasiti o fewn ei lefelau staffio ond gallai wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw. Nid oes ganddi ddigon o gapasiti yn ei safle a byddai'n anodd iddi ymdopi â chynnydd yn y galw.

8.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr a'r ffaith y gall y boblogaeth gyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 15 munud, ac i lawer y bydd yr amser teithio yn fyrrach. Er nodi nad oes car ar gael i bob aelwyd trwy gydol y dydd, mae natur y clwstwr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o drigolion ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Mae pedwar datblygiad tai hysbys yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr i fod i ddigwydd yn ystod oes y ddogfen hon a fydd yn darparu hyd at 2,550 o dai newydd i 6,375 o breswylwyr (2.5 fesul aelwyd).
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Yn seiliedig ar yr uchod, ac yn arbennig ledaeniad presennol oriau agor fferyllfeydd trwy gydol yr wythnos, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaethau hanfodol o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y datblygiadau tai hysbys a fydd yn darparu tai yn y clwstwr yn ystod oes y ddogfen hon, ac y gallai rhai ddarparu tai y tu hwnt i fis Hydref 2031. Mae'n fodlon y bydd yr angen am wasanaethau hanfodol gan y rhai sy'n symud i'r tai newydd yn cael ei ddiwallu gan y fferyllfeydd presennol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth

fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

8.8.2 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

8.8.2.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oes yr un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr hwn yn 2024/25 ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Yn ogystal, o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, cyflenwyd 83.0% gan gontractwyr offer cyflenwi a 72.7% yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Mae unigolion y mae angen y gwasanaeth adolygu defnydd offer arnynt yn debygol o gyrchu'r gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n cyflenwi eu presgripsiynau ar gyfer offer neu gallant ei gyrchu gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

8.8.2.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pob un wedi'i ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

8.8.2.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod naw o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

8.8.2.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 11 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 11 fferyllfa wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr. Gan fod meddygfeydd teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth hwn, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

8.8.2.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod deg o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod y gwasanaeth hwn ar gael i grwpiau cleifion penodol yn unig. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

8.8.2.6 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pump o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a bod dwy ar fin dechrau ei ddarparu yn 2026.

Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau interim o 50% o fferyllfeydd erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn 2029. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y rhagwelir, o 2026. y bydd pob fferyllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys yn bresgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y targed o 50% i fod i gael ei gyrraedd erbyn mis Ebrill 2027.

Bydd yn gweithio gyda chontractwyr er mwyn cynyddu nifer y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

8.8.2.7 Gwasanaeth addasu offer stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd

Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr hwn yn 2024/25 ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, y cyflenwyd 83.0% gan gontractwyr offer cyflenwi a 72.7% yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26.

Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl y gofyn cyn ei anfon neu ddosbarthu i gleifion.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

8.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

8.8.3.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Caiff y gwasanaeth ei gomisiynu mewn ardaloedd lle mae galw mawr am y rhaglenni nodwyddau a chwistrellu.

Mae gwasanaethau sgrinio firysau a gludir yn y gwaed ar gael drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis clinigau iechyd rhywiol, meddygfeydd teulu, archebu pecynnau profion cartref ac ôl-sgrinio ar-lein drwy Iechyd Rhywiol Cymru neu gasglu pecynnau sgrinio o leoliadau cymunedol ar draws y bwrdd iechyd. Mae nifer o fferyllfeydd ar draws y bwrdd iechyd yn cadw stoc o'r pecynnau prawf ac ôl-sgrinio, gan sicrhau eu bod ar gael yn gyfleus i'r rhai y mae'n well ganddynt gael opsiwn mwy cynnil neu hyblyg.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

8.8.3.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru a'i ddarparu yn 2025/26. Mae fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaeth cyflenwi iddynt.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

8.8.3.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod naw o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pump ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26. Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu ar sail y galw.

Mae gwasanaethau ar gael o fewn y clwstwr drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis tîm Pen-y-bont ar Ogwr a Gorllewin y Fro sy'n gofalu am gleifion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain a chartrefi nyrsio yng Ngorllewin ardal y bwrdd iechyd. Maent hefyd yn darparu gofal lliniarol arbenigol i gleifion mewnol yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Maesteg a Glanrhyd ac Ysbyty Seren a thrwy fferyllfeydd y tu allan i'r clwstwr sydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

8.8.3.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod dwy ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

8.8.3.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod wyth fferyllfa wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai fferyllfa'n rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau, y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth gael ei ddarparu i drigolion cymwys y dref/pentref hwnnw. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os:

- Gellir diwallu'r angen gan un neu fwy o fferyllfeydd sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Mae darparwyr eraill sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Byddai caniatáu cais i gael ei gynnwys yn y rhestr fferyllol sy'n cynnig diwallu'r angen hwn yn arwain at gynnydd annymunol yn argaeledd gwasanaethau hanfodol yn y dref/pentref hwnnw.

8.8.3.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod un wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu gan y bwrdd iechyd ar sail strategol, gan sicrhau ei ddarparu o fewn ardaloedd mewn angen.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

8.8.3.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 11 fferyllfa wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

8.8.3.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod deg o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod deg ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26. Nododd fod fferyllfeydd ymhlith amrywiaeth o ddarparwyr y gwasanaeth gan gynnwys gwasanaethau Helpa fi i stopio i'r babi a Helpa fi i stopio yn yr ysbyty.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

8.8.3.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod wyth o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod saith fferyllfa wedi'i ddarparu yn 2025/26. Darperir y gwasanaeth ar sail y galw.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

8.8.3.10 Gwasanaethau meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth lefel 1 yn 2025/26, a bod un wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth lefel 2.

Oherwydd natur y gwasanaeth, caiff ei gomisiynu i sicrhau lledaeniad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y bwrdd iechyd.

Nid yw'r bwrdd iechyd felly wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

8.8.3.11 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod deg o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

9 Clwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr

9.1 Trosolwg

Clwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr yw'r ail fwyaf o'r tri chlwstwr o fewn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gwasanaethu poblogaeth o 43,552[236] sydd wedi cofrestru gyda phractis, a hynny mewn ardaloedd trefol a gwledig o gefn gwlad hardd a nodweddion naturiol mewn rhanbarth a ffurfiwyd gan hen dreftadaeth lofaol Cymoedd De Cymru.

Ceir 13 o fferyllfeydd yn y clwstwr a chwe meddygfa deulu. Mae gan ddwy o'r chwe meddygfa deulu safleoedd meddygfa cangen; mae gan y naill ohonynt ddau safle cangen ac mae gan y llall un safle cangen. Mae'r ddwy feddygfa deulu hyn hefyd yn bractisiau meddyg fferyllol. Gwneir y cyflenwi o safleoedd y meddygfeydd cangen, er bod un o'r safleoedd cyflenwi y tu allan i ardal y bwrdd iechyd yng Nghastell-nedd Port Talbot (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe) ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon.

Yn dilyn cynnydd o 4.5%[237] yn y boblogaeth rhwng 2011 (139,200) a 2021 (145,500), twf poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr oedd y trydydd uchaf yng Nghymru ar ôl Casnewydd (9.5%) a Chaerdydd (4.7%), gan fynd heibio i gyfartaledd cyffredinol Cymru (1.4%) hefyd. Pen-y-bont ar Ogwr yw'r seithfed dwysaf ei boblogaeth o'r 22 awdurdod lleol, sy'n golygu mai hwn yw'r wythfed awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru.

Mae gan awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr ddisgwyliad oes is adeg genedigaeth ar gyfer menywod (81.6 oed) a dynion (77.4 oed) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 81.8 oed (menywod) a 77.9 oed (dynion).

Mae amddifadedd wedi'i grynhoi'n drwm yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr - mae 37.3% o drigolion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru o'u cymharu ag 20.7% ledled Cymru a 24.7% ar draws y bwrdd iechyd.

Mae gan Ogledd Pen-y-bont ar Ogwr amcangyfrif uwch o gyffredinrwydd cyflyrau iechyd hirdymor, o'i gymharu â'r bwrdd iechyd a Chymru yn gyffredinol.

- Mae'n uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru o ran asthma, ffibriliad atrïaidd, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, clefyd coronaidd y galon, diabetes, methiant y galon, gorbwysedd, iechyd meddwl a strôc a phyliau o isgemia dros dro.
- Mae dementia yn cydredeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd, ond mae'n is na chyfartaledd Cymru

[236] Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - dadansoddi practisiau meddyg teulu a chofrestriadau cleifion yn ôl practis (Ionawr 2026).
[237] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Sut newidiodd y boblogaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr: Cyfrifiad 2021

Mae ymddygiadau ffordd o fyw o fewn y boblogaeth oedolion (16 oed a hŷn) ledled Pen-y-bont ar Ogwr, a gofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[238] ac a ddisgrifir ym mhroffil iechyd adran 9.2.4, yn datgelu cymysgedd o arferion cadarnhaol a heriau parhaus. Er enghraifft, mae preswylwyr yn ysmygu llai (gan gynnwys e-sigaréts), yn yfed llai o alcohol, ac yn bwyta mwy o ffrwythau a llysiau. Fodd bynnag, mae mwy o breswylwyr yn dweud eu bod dros bwysau a/neu'n ordew ac mae llai o breswylwyr yn ymgymryd â gweithgarwch corfforol na Chymru gyfan.

9.2 Nodweddion allweddol y boblogaeth

9.2.1 Amcanestyniad poblogaeth 2022 i 2032

Amcanestynnir y bydd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu hyd at 5.5% rhwng 2022 (146,173) a 2032 (154,189).

Rhagwelir y bydd awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, erbyn 2032[239] yn:

- Gweld gostyngiad yn nifer y bobl rhwng 0 a 15 oed
- Ymhlith wyth awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf a ragwelir yn y boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 a 64 oed
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 65 oed a throsodd ar draws pob awdurdod lleol. Pen-y-bont ar Ogwr fydd un o dri awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf (23.1%) ar ôl Sir Benfro (24.6%) a Bro Morgannwg (23.2%)
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 75 oed a throsodd

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn cael ei yrru'n bennaf gan fudo net, h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Disgwylir i nifer y genedigaethau leihau a nifer y marwolaethau gynyddu, gan arwain at newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau).

9.2.2 Cyfanswm disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a'r 'bwlch anghydraddoldeb' (2020 i 2022)

- Mae gan awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr ddisgwyliad oes ychydig yn is adeg genedigaeth ar gyfer menywod a dynion o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (tabl 9.1).
- Diffinnir mai disgwyliad oes iach[240] yw nifer y blynyddoedd y gall person ddisgwyl byw mewn iechyd da ac mae'n cael ei fesur ar lefel awdurdod lleol. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, y disgwyliad oes iach yw 61.3 oed i ddynion a 61.4 oed i fenywod. Yn gymharol, mae cyfartaledd Cymru ychydig yn is, sef 60.8 oed i ddynion a 60.2

[238] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)
[239] Llywodraeth Cymru - Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol: sail-2022
[240] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Disgwyliad oes iach, y DU: rhwng 2011 a 2013 a rhwng 2022 a 2024

oed i fenywod. Dengys hyn fod dynion a menywod ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn tueddu i fwynhau cyfnod hirach o iechyd da na'r cyfartaledd ledled Cymru.
- Cyfeirir at y gwahaniaethau mewn disgwyliad oes iach sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig fel y 'bwlch anghydraddoldeb'. Y bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yw 4.9 mlynedd i ddynion a 4.7 mlynedd i fenywod[241].

Tabl 9.1: Cyfanswm disgwyliad oes adeg genedigaeth menywod a dynion, 2020 i 2022[242]

Ardal	Benywod adeg genedigaeth (oed)	Gwrywod adeg genedigaeth (oed)
Awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr	81.6	77.4
Cymru	81.8	77.9

Ymwadiad**:** Er bod y data a gyflwynir o ran disgwyliad oes iach yn dangos ffigurau ar gyfer 2024, defnyddiwyd data o'r blynyddoedd 2020 i 2022 i sicrhau cysondeb a chymharedd ar draws pob blwyddyn.

9.2.3 Amddifadedd

Mae'r cysylltiad rhwng amddifadedd ac iechyd gwael wedi'i ddogfennu'n dda. O dri chlwstwr Pen-y-bont ar Ogwr, mae gan Ogledd Pen-y-bont ar Ogwr y gyfran uchaf o bobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (37.3%). Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (24.7%).

Fodd bynnag, mae ardaloedd bach o amddifadedd 'dwfn'[243] sydd wedi aros o fewn y 50 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n hafal yn fras i'r 2.6% brig o ardaloedd bach yng Nghymru ar gyfer y chwe chyhoeddiad diwethaf (2005, 2008, 2011, 2014, 2019 a 2025) o safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. O fewn y clwstwr, mae pocedi o amddifadedd difrifol rhwng Caerau a Phen-y-fai a lle mae amddifadedd yn bodoli, mae'r boblogaeth yn debygol o fod yn destun yr iechyd gwaethaf.

Dengys y tabl isod y ganran amcangyfrifedig o bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr, o'i gymharu â'r bwrdd iechyd.

[241] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus 2025
[242] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus -Disgwyliad oes dynion a menywod (2020 i 2022)
[243] Llywodraeth Cymru Rhagfyr 2025 - Adroddiad canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025: mynegai cyffredinol

Tabl 9.2: Amcangyfrif o'r ganran o gleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr a'r bwrdd iechyd (2025)[244]

Ardal	Canran
Clwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	37.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	24.7%

9.2.4 Proffil iechyd

Mae clefydau anhrosglwyddadwy[245], a elwir hefyd yn glefydau cronig, fel arfer yn hirdymor a chronig eu natur, sy'n deillio o gymysgedd o ddylanwadau genetig, ffisiolegol, amgylcheddol ac ymddygiadol. Gall y cyflyrau hyn effeithio'n sylweddol ar ansawdd bywyd ac yn aml mae angen sylw a rheolaeth feddygol arnynt. Y prif gategorïau o glefydau cronig yw:

- Clefydau cardiofasgwlaidd (fel trawiadau ar y galon a strôc)
- Canserau
- Clefydau anadlol cronig (megis clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac asthma)
- Diabetes

Dengys y tabl isod amcangyfrif o gyffredinrwydd clefydau cronig yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr o'i gymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru.

[244] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[245] Sefydliad Iechyd y Byd Medi 2025 - Clefydau anhrosglwyddadwy

Tabl 9.3: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[246]

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phyliau o isgemia dros dro
Clwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	8.4%	4.1%	3.1%	10.3%	1.9%	2.8%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	7.5%	3.6%	2.6%	9.0%	1.2%	2.4%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Dengys y tabl isod ganran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr, ochr yn ochr â'r cyfartaledd ar gyfer y bwrdd iechyd a Chymru gyfan. Mae'r data'n dangos bod Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr yn adrodd amcangyfrif ychydig yn uwch o gyffredinrwydd cyflyrau iechyd meddwl o'i gymharu â'r bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru (0.2% yn uwch). Mae cyffredinrwydd dementia yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr yn cydredeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd ond mae ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (0.1% yn is).

Tabl 9.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl a dementia, yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025[247]

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Clwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	1.3%	0.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	1.1%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Mae'r tabl isod yn dangos yr amcangyfrif o gyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd a gorbwysedd ymhlith pobl sydd wedi'u cofrestru ar gofrestrau meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr, o'i gymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru gyfan. Mae cyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru (0.3%

[246] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[247] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

yn uwch). Mewn cyferbyniad, mae cyffredinrwydd gorbwysedd yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr yn amlwg o uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (3.1% yn uwch) a chyfartaledd Cymru (4.1% yn uwch).

Tabl 9.5: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd gorbwysedd a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[248]

Ardal	Ffibriliad atrïaidd	Gorbwysedd
Clwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr	3.0%	20.4%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2.7%	17.3%
Cymru	2.7%	16.3%

Cyflwyna'r tabl isod ganran yr oedolion 16 oed a hŷn ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd wedi hunan-adrodd eu bod yn cymryd rhan mewn chwe ymddygiad ffordd o fyw allweddol, fel y cofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[249]. Mae'r wybodaeth hon yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr i'r arferion cyffredin a'r dewisiadau ffordd o fyw ymhlith y boblogaeth oedolion yn yr ardal.

Tabl 9.6: Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw yn ôl awdurdod lleol a Chymru rhwng 2021 a 2023

	Cyfrif	Cyffredinrwydd					
Ardal	Poblogaeth 16 oed a hŷn	Ysmygu (gan gynnwys e-sigaréts)	Yfed mwy na 14 uned yr wythnos	Dros bwysau gyda mynegai màs y corff o 25+	Gordew gyda mynegai màs y corff o 30+	Gweithgarwch corfforol am 150 munud yr wythnos	Bwyta pump y dydd
Awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr	122,161[250]	18%	14%	70%	30%	51%	32%
Cymru	2,641,000[251]	20%	16%	62%	25%	56%	29%

Awgryma hyn fod ymddygiadau ffordd o fyw cadarnhaol yn gyffredin ym Mhen-y-bont ar Ogwr o'i gymharu â Chymru gyfan, megis llai o ysmygu (2.0% yn is) ac yfed

[248] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[249] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)
[250] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024
[251] Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2025 - Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024

gormodol (2.0% yn is), yn ogystal â mwy o fwyta ffrwythau a llysiau (bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd) (3.0% yn uwch). Fodd bynnag, dywedodd nifer uwch o bobl eu bod dros bwysau (8.0% yn uwch), eu bod yn ordew (5.0% yn uwch) a'u bod yn gwneud llai o weithgarwch corfforol (5.0% yn is) na Chymru.

9.3 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol o fewn ardal y clwstwr


Mae 13 fferyllfa yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cael eu gweithredu gan saith contractwr gwahanol. Ceir hefyd ddau bractis meddyg fferyllol yn y clwstwr sy'n cyflenwi o dri safle, ac un ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd yng Nghastell-nedd Port Talbot (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe).

Yn 2024/25, cyflenwyd 85.9% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr. Cafodd 9.3% i gyd ei gyflenwi neu weinyddu'n bersonol gan y ddau bractis cyflenwi.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cyflenwyd 86.9% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr. Cafodd 9.0% i gyd ei gyflenwi neu weinyddu'n bersonol gan y ddau bractis cyflenwi.

Dylid nodi, lle mae eiddo mewn agosrwydd, bydd y cylchoedd sy'n eu cynrychioli yn croesi. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd gwyrdd, a'r safle meddygfeydd dosbarthu gan gylchoedd coch.

Map 9.1: Lleoliad safleoedd fferyllfeydd a phractisiau cyflenwi o fewn y clwstwr



Daearyddiaeth a Thechnoleg 022.26-27 Dyddiad 2026-9-11

© Hawlfraint a hawl cronfa ddata 2026. Arolwg Ordnans AC0000849488. Llywodraeth Cymru

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr asesiad o anghenion fferyllol a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad bod y fferyllfeydd a'r practisiau meddyg fferyllol yn y clwstwr hwn mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, ac o fewn ardaloedd o amddifadedd uwch neu gerllaw. Fel y gellir ei ddisgwyl, mae'r practisiau meddyg fferyllol mewn ardaloedd gwledig, sy'n deneuach eu poblogaeth. Yn ogystal, gallai pob preswylydd gyrraedd un o'r fferyllfeydd neu bractisiau meddyg fferyllol mewn car o fewn 20 munud, a'r mwyafrif o fewn 15 munud. Mae dwy ardal lle mae'n cymryd mwy nag 20 munud i gyrraedd fferyllfa neu feddyg fferyllol; mae'r ardaloedd hyn yn ardaloedd o laswelltir bryniog wedi'u hamgylchynu'n rhannol gan goetiroedd, ac yn cynnwys ffermydd gwynt, ac felly maent yn annhebygol o fod yn boblog. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd a'r practisiau meddyg cyflenwi wedi newid, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae trigolion

yn dal i allu cyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae un fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae pum fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ar fore Sadwrn.
- Mae saith fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener.

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor y fferyllfeydd, dangosir yr ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod.

Tabl 9.7: Oriau agor a chau fferyllfeydd

Dyddiau	Ystod oriau agor	Ystod oriau cau
Dydd Llun i ddydd Gwener	8.30am i 9.00am	5.30pm i 6.00pm (ac eithrio dydd Mawrth)
Dydd Sadwrn	8.30am i 9.00am	11.00am i 5.00pm

- Mae un fferyllfa yn cau am 2.00pm ar ddydd Mawrth
- Mae naw fferyllfa yn cau am 6.00pm ddydd Llun, dydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener
- Mae wyth fferyllfa yn cau am 6.00pm ar ddydd Mawrth, ac
- Mae un fferyllfa yn cau am 5.00pm ar ddydd Sadwrn

Er nad oes yr un fferyllfa'n agor yn rheolaidd ar ddydd Sul, mae gan y bwrdd iechyd drefniant gydag un fferyllfa a fydd yn agor ar ddydd Sul a gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc, yn ôl y gofyn.

Mae oriau agor y fferyllfeydd yn y ddau bractis cyflenwi fel a ganlyn.

- Llangeinor
    - Dydd Llun i ddydd Gwener 9.00am i 5.00pm.
    - Dydd Llun 1.30pm i 6.00pm.
- Betws
    - Dydd Llun i ddydd Iau 8.30am i 12.30pm.
    - Dydd Llun 1.00pm i 6.00pm
    - Dydd Mawrth i ddydd Iau 1.00pm i 5.00pm
    - Dydd Gwener 1.00pm i 3.00pm.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn oriau agor fferyllfeydd yn Atodiad L.

Ymatebodd 11 o'r fferyllfeydd i'r holiadur contractwr, a chymerwyd yr wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Mae pob un o'r 11 fferyllfa yn hygyrch i gadair olwyn ac mae gan naw ohonynt ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadair olwyn. Mae'r holl ardaloedd ymgynghori yn:

- ystafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad yn arferol o uchel heb gael eu clywed, ac
- wedi'u dynodi'n glir yn ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd tair fferyllfa fod ganddyn nhw siaradwyr Cymraeg ymhlith eu staff a chadarnhaodd tair fferyllfa fod eu staff yn siarad ieithoedd eraill.

- Mae gan un fferyllfa staff sy'n siarad Cantoneg a Mandarin,
- Mae gan un arall staff sy'n siarad Hindi, Gwjarati, Pwnjabeg ac Wrdw, ac
- Mae gan drydedd fferyllfa staff sy'n siarad Shona.

Mae naw fferyllfa yn cyflenwi pob math o offer, a dwy yn cyflenwi rhwymynnau yn unig ond ychwanegasant nad ydynt fel rheol yn cael presgripsiynau am offer gan fod y meddygfeydd yn eu hanfon yn syth at eu cyflenwyr ostomi eu hunain, ond gall y fferyllfeydd eu cael os oes angen.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu:

- Mae'r 11 fferyllfa yn casglu presgripsiynau gan feddygfeydd teulu
- Mae naw yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais (nododd un efallai y bydd angen newid hyn oherwydd y gostyngiad yn y cyllid) ac mae dwy yn ei ddarparu am ffi
- Mae un yn cyfyngu'r gwasanaeth i ardal CF34 yn unig

Nid oedd unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol presennol nad ydynt yn cael eu darparu yn yr ardal ar hyn o bryd.

Dywedodd dwy fferyllfa fod angen gwasanaeth monitro pwysedd gwaed am fod pobl yn aml yn gofyn iddynt am hyn, a'r meddygfeydd teulu yn anfon cleifion atynt.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt allu i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol:

- dywedodd naw fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu hadeiladau i ymdopi â chynnydd yn y galw. Dywedodd dwy nad oedd ganddynt gapasiti, ond y gallent wneud addasiadau i wneud hynny.
- dywedodd wyth fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw. Dywedodd tair nad oedd ganddynt gapasiti, ond y gallent wneud addasiadau i wneud hynny.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r safle neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, cafwyd yr ymatebion canlynol.

- Mae gan un bresgripsiynydd annibynnol dan hyfforddiant yn y fferyllfa. Mae'n gobeithio cynyddu'r ystod o wasanaethau preifat.

- Dywedodd dwy arall eu bod yn ystyried darparu gwasanaethau preifat.
- Mae un yn bwriadu cyflwyno gwasanaethau presgripsiynydd annibynnol a rhaglen rheoli pwysau. Mae ganddi hefyd gynlluniau i ailwampio'r adeilad i gyflwyno ystafell ymgynghori ychwanegol.
- Mae un fferyllfa wedi ehangu ei hystafell ymgynghori yn ddiweddar ac yn datblygu ei gwasanaeth presgripsiynydd annibynnol.
- Soniodd dwy fferyllfa fod angen cyllid ychwanegol er mwyn cyflawni gweledigaeth Presgripsiwn Newydd yn iawn. Mae angen mwy o staff arnynt ond ni allant ei ariannu o fewn yr adnoddau presennol. Maent yn aml yn colli arian ar eitemau presgripsiwn, ac ni all hynny barhau.

9.3.1 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

9.3.1.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

9.3.1.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae pob un o'r 13 fferyllfa wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 12,558 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 229 i 3,126)
- 2,574 o ymgynghoriadau ar gyfer profi a thrin dolur gwddf, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 1,357)
- 203 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 69)
- 393 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu brys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 59)
- 2,138 o gyflenwadau meddyginiaeth frys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 7 i 494)

Yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 8,507 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 238 i 1,881)
- 1,254 o ymgynghoriadau ar gyfer profi a thrin dolur gwddf, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 653)
- 416 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 7 i 157)
- 292 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu brys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 62)
- 1,582 o gyflenwadau meddygaeth frys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 5 i 438)

9.3.1.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Darparodd 12 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 373 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 69).

Darparodd 11 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 212 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 45).

9.3.1.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae pob un o'r 13 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pob un o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 2,135 o frechiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 22 i 474).

Darparodd yr holl fferyllfeydd y gwasanaeth ym mis Hydref a mis Tachwedd 2025, gan ddarparu cyfanswm o 2,033 o frechiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 44 i 618).

9.3.1.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Darparodd deg o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gyflenwi cyfanswm o 131 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 27).

Darparodd pump o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gyflenwi cyfanswm o 22 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 13).

9.3.1.6 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd

Mae saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pump o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 6,112 o ymgynghoriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 156 i 2,793).

Darparodd saith o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 3,791 o ymgynghoriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o dri i 1,398).

9.3.1.7 Gwasanaeth addasu stoma

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

9.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

9.3.2.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Mae pedair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd tair fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan sgrinio 12 gwaith i gyd (yn

amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 7 gwaith).

Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26.

9.3.2.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

9.3.2.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae deg o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Darparodd pedair fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 17 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o ddau i 7).

Darparodd dwy fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o wyth pecyn (yn amrywio ar lefel fferyllfa o dri i bump).

9.3.2.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae 12 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd un fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu 48 o ddyfeisiau i gyd.

9.3.2.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae pob un o'r 13 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Darparodd naw fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu siartiau i 26 o gleifion (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 5).

Darparodd 11 fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu siartiau i 56 o gleifion (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 7).

9.3.2.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Darparodd saith fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,656 o ddarpariaethau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 5 i 668).

Darparodd saith o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 1,290 o ddarpariaethau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 5 i 445).

9.3.2.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae pob un o'r 13 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Darparodd yr holl fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi cyfanswm o 509 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 147).

Darparodd 12 fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 216 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 5 i 49).

9.3.2.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae pob un o'r 13 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Darparodd 11 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi cyfanswm o 632 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 5 i 117).

Darparodd 11 fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 392 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 71).

9.3.2.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae 12 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd 11 o fferyllfeydd y gwasanaeth i 266 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 71), gan oruchwylio cyfanswm o 3,672 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o ddeg i 770).

Yn 2025/26, darparodd deg fferyllfa'r gwasanaeth i 171 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o un i 41), gan oruchwylio cyfanswm o 2,215 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 5 i 510).

9.3.2.10 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

9.3.2.11 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 2 (uwch)

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

9.3.2.12 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Darparodd 11 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o

705 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 270).

Darparodd deg fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 389 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 190).

9.4 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol y tu allan i ardal y clwstwr

Efallai y bydd rhai preswylwyr yn dewis cyrchu contractwyr y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gwasanaethau:

- Wedi'u cynnig gan gontractwyr offer cyflenwi
- Sy'n agos at eu mannau gwaith, siopa, neu fannau y maent yn ymweld â nhw at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yn 2024/2025 wedi'u cyflenwi gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (85.9%), cyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 3.0% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr
- 0.4% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr
- 0.4% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu eu cyflenwi gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (86.9%), a chyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 3.0% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr
- 0.4% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Yn ogystal, efallai y bydd preswylwyr wedi cael un neu ragor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl meintioli'r gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

9.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

9.6 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 9.3 a 9.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi'u cofrestru gydag un o'r meddygfeydd teulu yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i gyflenwi eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael at fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i gyflenwi gan fferyllfa neu gontractwr offer y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 200 o gontractwyr a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng

nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr, yr oedd 133 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Nid yw'r ffigur yn cynnwys y ddau bractis meddyg fferyllol. Cafodd 5,817 o eitemau presgripsiwn eu cyflenwi yn Lloegr.

Gwnaeth cyfanswm o 158 o gontractwyr a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2025/26 (hyd at fis Rhagfyr 2025) gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr, yr oedd 92 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 3,441 o eitemau presgripsiwn eu cyflenwi yn Lloegr.

9.7 Datblygiadau tai

Mae Cynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr 2018 i 2033[252] yn cynnwys cynlluniau datblygu ar draws ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r taflwybr ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun wedi'i gynnwys yng Nghynllun Monitro Blynyddol cynllun datblygu lleol 2018 i 2033[253] Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Hydref 2025). Mae'r wybodaeth isod yn crynhoi'r cynllun ar gyfer y datblygiadau mwy o faint (dros 100 o dai).

9.7.1 Hen safle Cooper Standard, Heol Ewenni, Maesteg

- 205 o anheddau
- Nifer y preswylwyr: (2.5 fesul aelwyd) 513
- Ers 2025/26, nid oes unrhyw anheddau newydd yn cael eu hadeiladu nac wedi'u cwblhau (wedi'u hadeiladu)
- Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr anheddau sydd i'w cwblhau rhwng 2025 a 2033

Tabl 9.8: nifer yr anheddau y rhagwelir y byddant yn cael eu cwblhau yn ôl blwyddyn

2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
20	40	40	40	40	25	0	0

- Nid oes unrhyw anheddau pellach wedi'u nodi y tu hwnt i'r cynllun.

9.7.2 Tir i'r De o Bont Rhyd-y-cyff

- 102 o anheddau
- Nifer y preswylwyr: (2.5 fesul aelwyd) 255. Ers 2025/26, nid oes unrhyw anheddau newydd yn cael eu hadeiladu nac wedi'u cwblhau (wedi'u hadeiladu)

[252] Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Cynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr 2018 i 2033
[253] Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Hydref 2025 - Adroddiad monitro blynyddol (2025) - Cynllun datblygu lleol 2018 - 2033

- Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr anheddau sydd i'w cwblhau rhwng 2025 a 2033

Tabl 9.9: nifer yr anheddau y rhagwelir y byddant yn cael eu cwblhau yn ôl blwyddyn

2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
15	25	25	37	0	0	0	0

- Nid oes unrhyw anheddau pellach wedi'u nodi y tu hwnt i'r cynllun.

9.7.3 Tir i'r De-ddwyrain o Bont Rhyd-y-cyff

- 140 o anheddau
- Nifer y preswylwyr: (2.5 fesul aelwyd) 350
- Ers 2025/26, nid oes unrhyw anheddau newydd yn cael eu hadeiladu nac wedi'u cwblhau (wedi'u hadeiladu)
- Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr anheddau sydd i'w cwblhau rhwng 2025 a 2033

Tabl 9.10: nifer yr anheddau y rhagwelir y byddant yn cael eu cwblhau yn ôl blwyddyn

2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
10	25	40	40	25	0	0	0

- Nid oes unrhyw anheddau pellach wedi'u nodi y tu hwnt i'r cynllun.

9.7.4 Tir i'r De-orllewin o Bont Rhyd-y-cyff

- 130 o anheddau
- Nifer y preswylwyr: (2.5 fesul aelwyd) 325
- Ers 2025/26, nid oes unrhyw anheddau newydd yn cael eu hadeiladu nac wedi'u cwblhau (wedi'u hadeiladu)
- Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr anheddau sydd i'w cwblhau rhwng 2025 a 2033

Tabl 9.11: nifer yr anheddau y rhagwelir y byddant yn cael eu cwblhau yn ôl blwyddyn

2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
10	45	45	30	0	0	0	0

- Nid oes unrhyw anheddau pellach wedi'u nodi y tu hwnt i'r cynllun.

9.7.5 Valley Gateway (Tondu)

- 450 o anheddau
- Nifer y preswylwyr: (2.5 fesul aelwyd) 1,125
- Mae 99 o anheddau wrthi'n cael eu hadeiladu neu wedi'u cwblhau (wedi'u hadeiladu)
- Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr anheddau sydd i'w cwblhau rhwng 2025 a 2033

Tabl 9.12: nifer yr anheddau y rhagwelir y byddant yn cael eu cwblhau yn ôl blwyddyn

2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
60	60	60	60	66	0	0	0

- Nid oes unrhyw anheddau pellach wedi'u nodi y tu hwnt i'r cynllun.

9.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau fferyllol a ddarperir mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod naw fferyllfa wedi dweud bod ganddynt gapasiti digonol yn eu safle i ymdopi â chynnydd yn y galw. Dywedodd dwy nad oedd ganddynt gapasiti, ond y gallent wneud addasiadau i wneud hynny.

Dywedodd wyth fferyllfa fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw. Dywedodd tair nad oedd ganddynt gapasiti, ond y gallent wneud addasiadau i wneud hynny.

9.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr a'r ffaith y gall y boblogaeth gyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud, a'r mwyafrif o fewn 15 munud. Er nodi nad oes car ar gael i bob aelwyd trwy gydol y dydd, mae natur y clwstwr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o drigolion ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Mae pum datblygiad tai hysbys i fod i ddigwydd yn ystod oes y ddogfen hon a fydd yn darparu hyd at 1,027 o dai newydd i 2,568 o breswylwyr (2.5 fesul aelwyd).
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Yn seiliedig ar yr uchod, ac yn arbennig ledaeniad presennol oriau agor fferyllfeydd trwy gydol yr wythnos, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaethau hanfodol o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y datblygiadau tai hysbys a fydd yn darparu tai yn y clwstwr yn ystod oes y ddogfen hon, ac y gallai rhai ddarparu tai y tu hwnt i fis Hydref 2031. Mae'n fodlon y bydd yr angen am wasanaethau hanfodol gan y rhai sy'n symud i'r tai newydd yn cael ei ddiwallu gan y fferyllfeydd presennol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

9.8.2 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

9.8.2.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr hwn yn 2024/25, ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Yn ogystal, o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, cyflenwyd 77.7% gan gontractwyr offer cyflenwi ac 83.5% yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Mae unigolion y mae angen y gwasanaeth adolygu defnydd offer arnynt yn debygol o gyrchu'r gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n cyflenwi eu presgripsiynau ar gyfer offer neu gallant ei gyrchu gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

9.8.2.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr 13 fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pob un wedi'i ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

9.8.2.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 12 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

9.8.2.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pob un wedi'i ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr. Gan fod meddygfeydd teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth hwn, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

9.8.2.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod deg o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod deg ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod y gwasanaeth hwn ar gael i grwpiau cleifion penodol yn unig. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

9.8.2.6 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac wedi'i ddarparu yn 2025/26. Mae tair fferyllfa arall yn bwriadu cyflwyno'r gwasanaeth.

Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau interim o 50% o fferyllfeydd erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn 2029. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y rhagwelir, o 2026. y bydd pob fferyllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys yn bresgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y targed o 50% i fod i gael ei gyrraedd erbyn mis Ebrill 2027.

Bydd yn gweithio gyda chontractwyr er mwyn cynyddu nifer y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth

fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

9.8.2.7 Gwasanaeth addasu offer stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr yn 2024/25 ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, y cyflenwyd 77.7% gan gontractwyr offer cyflenwi ac 83.5% yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

9.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

9.8.3.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pedair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod tair wedi'i ddarparu yn 2025/26. Caiff y gwasanaeth ei gomisiynu mewn ardaloedd lle mae galw mawr am y rhaglenni nodwyddau a chwistrellu.

Mae gwasanaethau sgrinio firysau a gludir yn y gwaed ar gael drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis clinigau iechyd rhywiol, meddygfeydd teulu, archebu pecynnau profion cartref ac ôl-sgrinio ar-lein drwy Iechyd Rhywiol Cymru neu gasglu pecynnau sgrinio o leoliadau cymunedol ar draws y bwrdd iechyd. Mae nifer o fferyllfeydd ar draws y bwrdd iechyd yn cadw stoc o'r pecynnau prawf ac ôl-sgrinio, gan sicrhau eu bod ar gael yn gyfleus i'r rhai y mae'n well ganddynt gael opsiwn mwy cynnil neu hyblyg.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

9.8.3.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaeth cyflenwi iddynt.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

9.8.3.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod deg o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pedair wedi'i ddarparu yn 2025/26. Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu ar sail y galw.

Mae gwasanaethau ar gael o fewn y clwstwr drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis tîm Pen-y-bont ar Ogwr a Gorllewin y Fro sy'n gofalu am gleifion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain a chartrefi nyrsio yng Ngorllewin ardal y bwrdd iechyd. Maent hefyd yn darparu gofal lliniarol arbenigol i gleifion mewnol yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Maesteg a Glanrhyd ac Ysbyty Seren a thrwy fferyllfeydd y tu allan i'r clwstwr sydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

9.8.3.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 12 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod un fferyllfa wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

9.8.3.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr 13 fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 11 wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai fferyllfa'n rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau, y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth gael ei ddarparu i drigolion cymwys y dref/pentref hwnnw. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os:

- Gellir diwallu'r angen gan un neu fwy o fferyllfeydd sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Mae darparwyr eraill sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Byddai caniatáu cais i gael ei gynnwys yn y rhestr fferyllol sy'n cynnig diwallu'r angen hwn yn arwain at gynnydd annymunol yn argaeledd gwasanaethau hanfodol yn y dref/pentref hwnnw.

9.8.3.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu gan y bwrdd iechyd ar sail strategol, gan sicrhau ei ddarparu o fewn ardaloedd mewn angen.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

9.8.3.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr 13 fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pob un wedi'i ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

9.8.3.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr 13 fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 11 wedi'i ddarparu yn 2025/26. Nododd fod fferyllfeydd ymhlith amrywiaeth o ddarparwyr y gwasanaeth gan gynnwys gwasanaethau Helpa fi i stopio i'r babi a Helpa fi i stopio yn yr ysbyty.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

9.8.3.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 12 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 11 ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26. Darperir y gwasanaeth ar sail y galw.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

9.8.3.10 Gwasanaethau meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth lefel 1 yn 2025/26, ond nad oes yr un wedi cofrestru i ddarparu lefel 2.

Oherwydd natur y gwasanaeth, caiff ei gomisiynu i sicrhau lledaeniad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y bwrdd iechyd.

Nid yw'r bwrdd iechyd felly wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

9.8.3.11 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 11 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 11 ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

10 Clwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

10.1 Trosolwg

Clwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yw'r lleiaf o'r tri chlwstwr o fewn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gwasanaethu poblogaeth o 34,529[254] sydd wedi cofrestru gyda phractis, a hynny mewn amgylchedd trefol yn bennaf. Mae'r ardal ddaearyddol yn cwmpasu Porthcawl, y Pîl, Mynydd Cynffig a Chorneli, sy'n arfordirol, gwledig a threfol gyda nifer o bocedi o amddifadedd. Mae Porthcawl yn gyrchfan wyliau ac yn gartref i barc carafanau statig mawr, sy'n arwain at boblogaeth uchel o gleifion dros dro a thymhorol. Mae wyth fferyllfa yn y clwstwr a thair meddygfa deulu, ac mae gan un ohonynt feddygfa gangen.

Yn dilyn cynnydd o 4.5%[255] yn y boblogaeth rhwng 2011 (139,200) a 2021 (145,500), twf poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr oedd y trydydd uchaf yng Nghymru ar ôl Casnewydd (9.5%) a Chaerdydd (4.7%), gan fynd heibio i gyfartaledd cyffredinol Cymru (1.4%) hefyd. Pen-y-bont ar Ogwr yw'r seithfed dwysaf ei boblogaeth o'r 22 awdurdod lleol, sy'n golygu mai hwn yw'r wythfed awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru.

Mae gan awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr ddisgwyliad oes is adeg genedigaeth ar gyfer menywod (81.6 oed) a dynion (77.4 oed) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 81.8 oed (menywod) a 77.9 oed (dynion).

Nid yw amddifadedd wedi'i grynhoi'n drwm yng nghlwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr. Mae 13.5% o'r trigolion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru o'u cymharu ag 20.7% ledled Cymru a 24.7% ar draws y bwrdd iechyd.

Mae gan Orllewin Pen-y-bont ar Ogwr amcangyfrif uwch o gyffredinrwydd cyflyrau iechyd hirdymor, o'i gymharu â'r bwrdd iechyd a Chymru yn gyffredinol.

- Mae'n uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru o ran asthma, ffibriliad atrïaidd, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, clefyd coronaidd y galon, dementia, methiant y galon, gorbwysedd, iechyd meddwl a strôc a phyliau o isgemia dros dro.

Mae diabetes islaw cyfartaledd y bwrdd iechyd, ond yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae ymddygiadau ffordd o fyw o fewn y boblogaeth oedolion (16 oed a hŷn) ledled Pen-y-bont ar Ogwr, a gofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[256] ac a ddisgrifir ym mhroffil iechyd adran 10.2.4, yn datgelu arferion cadarnhaol a heriau parhaus. Er enghraifft, mae preswylwyr yn ysmygu llai (gan gynnwys e-sigaréts), yn yfed llai o

[254] Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - dadansoddi practisiau meddyg teulu a chofrestriadau cleifion yn ôl practis (Ionawr 2026).
[255] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Sut newidiodd y boblogaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr: Cyfrifiad 2021
[256] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)

alcohol, ac yn bwyta mwy o ffrwythau a llysiau. Fodd bynnag, mae mwy o breswylwyr yn dweud eu bod dros bwysau a/neu'n ordew ac mae llai o breswylwyr yn ymgymryd â gweithgarwch corfforol na Chymru gyfan.

10.2 Nodweddion allweddol y boblogaeth

10.2.1 Amcanestyniad poblogaeth 2022 i 2032

Amcanestynnir y bydd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu hyd at 5.5% rhwng 2022 (146,173) a 2032 (154,189).

Rhagwelir y bydd awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, erbyn 2032[257] yn:

- Gweld gostyngiad yn nifer y bobl rhwng 0 a 15 oed
- Bod yn un o wyth awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf a ragwelir yn y boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 a 64 oed
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 65 oed a throsodd ar draws pob awdurdod lleol. Pen-y-bont ar Ogwr fydd un o dri awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf (23.1%) ar ôl Sir Benfro (24.6%) a Bro Morgannwg (23.2%)
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 75 oed a throsodd

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn cael ei yrru'n bennaf gan fudo net, h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Disgwylir i nifer y genedigaethau leihau a nifer y marwolaethau gynyddu, gan arwain at newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau).

10.2.2 Cyfanswm disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a'r 'bwlch anghydraddoldeb' (2020 i 2022)

- Mae gan awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr ddisgwyliad oes ychydig yn is adeg genedigaeth ar gyfer menywod a dynion o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (tabl 10.1).
- Diffinnir mai disgwyliad oes iach[258] yw nifer y blynyddoedd y gall person ddisgwyl byw mewn iechyd da ac mae'n cael ei fesur ar lefel awdurdod lleol. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, y disgwyliad oes iach yw 61.3 oed i ddynion a 61.4 oed i fenywod. Yn gymharol, mae cyfartaledd Cymru ychydig yn is, sef 60.8 oed i ddynion a 60.2 oed i fenywod. Dengys hyn fod dynion a menywod ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn tueddu i fwynhau cyfnod hirach o iechyd da na'r cyfartaledd ledled Cymru.
- Cyfeirir at y gwahaniaethau mewn disgwyliad oes iach sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig fel y 'bwlch

[257] Llywodraeth Cymru - Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol: sail-2022
[258] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Disgwyliad oes iach, y DU: rhwng 2011 a 2013 a rhwng 2022 a 2024

anghydraddoldeb'. Y bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw 4.9 mlynedd i ddynion a 4.7 mlynedd i fenywod[259].

Tabl 10.1: Cyfanswm disgwyliad oes adeg genedigaeth menywod a dynion, 2020 i 2022[260]

Ardal	Benywod adeg genedigaeth (oed)	Gwrywod adeg genedigaeth (oed)
Awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr	81.6	77.4
Cymru	81.8	77.9

Ymwadiad**:** Er bod y data a gyflwynir o ran disgwyliad oes iach yn dangos ffigurau ar gyfer 2024, defnyddiwyd data o'r blynyddoedd 2020 i 2022 i sicrhau cysondeb a chymharedd ar draws pob blwyddyn.

10.2.3 Amddifadedd

Mae'r cysylltiad rhwng amddifadedd ac iechyd gwael wedi'i ddogfennu'n dda. O dri chlwstwr Pen-y-bont ar Ogwr, mae gan Orllewin Pen-y-bont ar Ogwr yr ail gyfran uchaf o bobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (11.2%). Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (24.7%).

Ceir hefyd ardaloedd bach o amddifadedd 'dwfn'[261] sydd wedi aros o fewn y 50 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n hafal yn fras i'r 2.6% brig o ardaloedd bach yng Nghymru ar gyfer y chwe chyhoeddiad diwethaf (2005, 2008, 2011, 2014, 2019 a 2025) o safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Lle mae ardaloedd o amddifadedd yn bodoli, mae'r boblogaeth yn debygol o fod yn destun yr iechyd gwaethaf.

Dengys y tabl isod y ganran amcangyfrifedig o bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng nghlwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr, o'i chymharu â'r bwrdd iechyd.

Tabl 10.2: Amcangyfrif o'r ganran o gleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng nghlwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr a'r bwrdd iechyd (2025)[262]

Ardal	Canran
Clwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	11.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	24.7%

[259] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus 2025
[260] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus -Disgwyliad oes dynion a menywod (2020 i 2022)
[261] Llywodraeth Cymru Rhagfyr 2025 - Adroddiad canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025: mynegai cyffredinol
[262] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol

10.2.4 Proffil iechyd

Mae clefydau anhrosglwyddadwy[263], a elwir hefyd yn glefydau cronig, fel arfer yn hirdymor a chronig eu natur, sy'n deillio o gymysgedd o ddylanwadau genetig, ffisiolegol, amgylcheddol ac ymddygiadol. Gall y cyflyrau hyn effeithio'n sylweddol ar ansawdd bywyd ac yn aml mae angen sylw a rheolaeth feddygol arnynt. Y prif gategorïau o glefydau cronig yw:

- Clefydau cardiofasgwlaidd (fel trawiadau ar y galon a strôc)
- Canserau
- Clefydau anadlol cronig (megis clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac asthma)
- Diabetes

Dengys y tabl isod amcangyfrif o gyffredinrwydd clefydau cronig yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr o'i gymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru.

Tabl 10.3: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025[264]

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phyliau o isgemia dros dro
Clwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	8.5%	4.5%	2.7%	8.5%	1.7%	3.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	7.5%	3.6%	2.6%	9.0%	1.2%	2.4%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Dengys y tabl isod ganran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia yng nghlwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr, ochr yn ochr â'r cyfartaledd ar gyfer y bwrdd iechyd a Chymru gyfan. Mae'r data'n dangos bod Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yn crybwyll amcangyfrif ychydig yn uwch o gyffredinrwydd iechyd meddwl o'i gymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru (0.2% yn uwch), mae cyffredinrwydd dementia yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.1% yn uwch) a chyfartaledd Cymru (0.2% yn uwch).

[263] Sefydliad Iechyd y Byd Medi 2025 - Clefydau anhrosglwyddadwy
[264] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

Tabl 10.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl a dementia, yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025[265]

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Clwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	1.3%	0.9%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	1.1%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Mae'r tabl isod yn dangos yr amcangyfrif o gyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd a gorbwysedd ymhlith pobl sydd wedi'u cofrestru ar gofrestrau meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr, o'i gymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru gyfan. Mae cyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd yng nghlwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru (0.8% yn uwch). Mewn cyferbyniad, mae cyffredinrwydd gorbwysedd yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.3% yn uwch) ac yn uwch na chyfartaledd Cymru (1.3% yn uwch).

Tabl 10.5: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd gorbwysedd a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025[266]

Ardal	Ffibriliad atrïaidd	Gorbwysedd
Clwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr	3.5%	17.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2.7%	17.3%
Cymru	2.7%	16.3%

Cyflwyna'r tabl isod ganran yr oedolion 16 oed a hŷn ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd wedi hunan-adrodd eu bod yn cymryd rhan mewn chwe ymddygiad ffordd o fyw allweddol, fel y cofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[267]. Mae'r wybodaeth hon yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr i'r arferion cyffredin a'r dewisiadau ffordd o fyw ymhlith y boblogaeth oedolion yn yr ardal.

[265] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[266] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[267] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)

Tabl 10.6: Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw yn ôl awdurdod lleol a Chymru rhwng 2021 a 2023

	Cyfrif	Cyffredinrwydd					
Ardal	**Poblogaeth 16 oed a hŷn**	**Ysmygu (gan gynnwys e-sigaréts)**	**Yfed mwy na 14 uned yr wythnos**	**Dros bwysau gyda mynegai màs y corff o 25+**	**Gordew gyda mynegai màs y corff o 30+**	**Gweithgarwch corfforol am 150 munud yr wythnos**	**Bwyta pump y dydd**
Awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr	122,161[268]	18%	14%	70%	30%	51%	32%
Cymru	2,641,000[269]	20%	16%	62%	25%	56%	29%

Awgryma hyn fod ymddygiadau ffordd o fyw cadarnhaol yn gyffredin ym Mhen-y-bont ar Ogwr o'i gymharu â Chymru gyfan, megis llai o ysmygu (2.0% yn is) ac yfed gormodol (2.0% yn is), yn ogystal â mwy o fwyta ffrwythau a llysiau (bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd) (3.0% yn uwch). Fodd bynnag, dywedodd nifer uwch o bobl eu bod dros bwysau (8.0% yn uwch), eu bod yn ordew (5.0% yn uwch) a'u bod yn gwneud llai o weithgarwch corfforol (5.0% yn is) na Chymru.

10.3 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol o fewn ardal y clwstwr


Mae wyth fferyllfa yng nghlwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cael eu gweithredu gan wyth contractwr gwahanol.

Yn 2024/25, cyflenwyd 96.4% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cyflenwyd 97.1% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Pen-y-bont ar Ogwr gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr.

[268] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024
[269] Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2025 - Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024

Map 10.1: Lleoliad safleoedd fferyllfa o fewn y clwstwr



Daearyddiaeth a Thechnoleg 022.26-27 Dyddiad 2026-9-11

© Hawlfraint a hawl cronfa ddata 2026. Arolwg Ordnans AC0000849488. Llywodraeth Cymru

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr asesiad o anghenion fferyllol a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad bod y fferyllfeydd yn y clwstwr hwn mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, ac o fewn ardaloedd o amddifadedd uwch neu gerllaw. Yn ogystal, gallai pob preswylydd gyrraedd un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn 20 munud, a'r mwyafrif o fewn pump i ddeng munud. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd wedi newid, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae trigolion yn dal i allu cyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae dwy fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- Mae pedair ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ar fore Sadwrn
- Mae dwy fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor y fferyllfeydd, dangosir yr ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod.

Tabl 10.7: Oriau agor a chau fferyllfeydd

Dyddiau	Ystod oriau agor	Ystod oriau cau
Dydd Llun i ddydd Gwener	08.30am i 09.00am	5.30pm i 6.30pm
Dydd Sadwrn	08.30am i 09.00am	12.00pm i 5.30pm
Dydd Sul	10.00am	4.00pm

- Mae wyth fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener:
  - Mae un fferyllfa'n cau am 5.30pm
  - Mae chwe fferyllfa'n cau am 6.00pm
  - Mae un fferyllfa'n cau am 6.30pm
- Mae chwe fferyllfa ar agor ar ddydd Sadwrn:
  - Mae un fferyllfa'n cau am 5.00pm
  - Mae un fferyllfa'n cau am 5.30pm
- Mae dwy fferyllfa yn agor ar ddydd Sul; mae un fferyllfa'n cau am 4.00pm

Gellir dod o hyd i fanylion llawn oriau agor fferyllfeydd yn Atodiad L.

Ymatebodd saith fferyllfa i'r holiadur contractwr, a chymerwyd yr wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Mae'r saith i gyd yn hygyrch i gadair olwyn ac yn cynnwys ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadair olwyn. Nododd un fferyllfa ei fod yn bwriadu cynyddu maint ei hardal ymgynghori i ddarparu ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn yn well. Mae chwech o'r ardaloedd ymgynghori yn:

- ystafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad yn arferol o uchel heb gael eu clywed, ac
- wedi'u dynodi'n glir yn ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Nid yw'r seithfed yn caniatáu i'r claf a'r fferyllydd eistedd a siarad yn arferol o uchel heb gael eu clywed.

Cadarnhaodd pedair fferyllfa fod ganddyn nhw siaradwyr Cymraeg ymysg eu staff. Nid oes unrhyw ieithoedd eraill, heblaw Saesneg, yn cael eu siarad gan staff.

Mae'r saith fferyllfa i gyd yn cyflenwi pob math o offer.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu:

- mae saith fferyllfa yn casglu presgripsiynau gan feddygfeydd teulu.
- mae chwech yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais.

- mae un yn cyfyngu'r gwasanaeth i grwpiau cleifion penodol – un i gleifion sy'n gaeth i'r tŷ a'r rhai y mae angen dosbarthu iddynt oherwydd anableddau.
- mae un yn cyfyngu'r gwasanaeth i'r ardal leol, gan gwmpasu dalgylchoedd y meddygfeydd teulu lleol.

Roedd awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol presennol nad ydynt yn cael eu darparu ar hyn o bryd yn yr ardal yn cynnwys:

- monitro pwysedd gwaed gan fod pobl yn cael problemau yn cael apwyntiad yn eu meddygfa deulu ar gyfer y gwasanaeth hwn.
- Casglu nodwyddau diabetig.

Roedd awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau newydd nad ydynt ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys:

- monitro pwysedd gwaed (dwy fferyllfa), a
- gwasanaeth system dos wedi'i fonitro wedi'i ariannu – am fod llai o gyllid ar gael i'r gwasanaeth cyflenwi, mae'n dod yn fwy a mwy anodd eu darparu am ddim.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt allu i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol:

- mae gan y saith i gyd gapasiti digonol o fewn eu hadeiladau i reoli cynnydd yn y galw, ac
- mae gan chwech gapasiti digonol o fewn eu lefelau staffio, ond nid oes gan y seithfed.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r safle neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, cafwyd yr ymatebion canlynol.

- Mae un fferyllfa ar fin gosod system cofnodion meddyginiaeth cleifion Apotec i ryddhau amser fferyllydd i ddatblygu'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir.
- Hoffai un fferyllfa ehangu ei safle ond mae'n cael ei chyfyngu gan ei lleoliad. Mae'n barod i gymryd rhan yng ngwasanaethau'r GIG ac mae'n agored i ddatblygu gwasanaethau preifat.
- Mae un yn bwriadu cyflwyno gwasanaeth presgripsiynu annibynnol pan fydd y fferyllydd rheolaidd wedi cymhwyso.

10.3.1 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

10.3.1.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

10.3.1.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 4,633 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 188 i 931)
- 270 o ymgynghoriadau ar gyfer profi a thrin dolur gwddf, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 4 i 85)
- 90 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 24)
- 364 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu brys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 22 i 131)
- 1,848 o gyflenwadau meddyginiaeth frys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 44 i 410)

Yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 3,533 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 138 i 684)
- 200 o ymgynghoriadau ar gyfer profi a thrin dolur gwddf, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 54)
- 201 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 51)
- 198 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu brys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 10 i 76)
- 1,386 o gyflenwadau meddyginiaeth frys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 52 i 346)

10.3.1.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Darparodd saith o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 284 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 4 i 136).

Darparodd saith o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 150 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 81).

10.3.1.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae'r wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pob un o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,266 o frechiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 66 i 286).

Darparodd yr holl fferyllfeydd y gwasanaeth ym mis Hydref a mis Tachwedd 2025, gan ddarparu cyfanswm o 1,340 o frechiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 58 i 288).

10.3.1.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Darparodd saith o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gyflenwi cyfanswm o 152 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 67).

Darparodd un o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gyflenwi cyfanswm o bedwar pecyn.

10.3.1.6 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd

Mae pedair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd dwy o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 2,079 o ymgynghoriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 876 i 1,203).

Darparodd pedair o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 1,408 o ymgynghoriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 14 i 987).

10.3.1.7 Gwasanaeth addasu stoma

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

10.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

10.3.2.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Mae dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd un fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan sgrinio chwech o weithiau.

Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26.

10.3.2.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Mae dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25 nac yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26.

10.3.2.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae pump o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25 nac yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26.

10.3.2.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae pump o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Darparodd dwy fferyllfa y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 39 o ddyfeisiau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 11 i 28).

10.3.2.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Darparodd dwy fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu siartiau i bum claf (yn amrywio ar lefel fferyllfa o ddwy i dair).

Darparodd pedair fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu siartiau i 17 o gleifion (yn amrywio ar lefel fferyllfa o dair i chwech).

10.3.2.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Darparodd un fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ei ddarparu 82 o weithiau i gyd.

Darparodd un fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ei ddarparu 142 o weithiau i gyd.

10.3.2.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae'r wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Darparodd yr holl fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi cyfanswm o 321 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 5 i 69).

Darparodd chwe fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 148 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 51).

10.3.2.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae'r wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Darparodd chwe fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi cyfanswm o 281 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 26 i 70).

Darparodd pedair fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 119 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 24 i 36).

10.3.2.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Yn 2024/25, darparodd chwe fferyllfa'r gwasanaeth i 144 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o un i 74), gan oruchwylio cyfanswm o 2,150 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 4 i 1,302).

Yn 2025/26, darparodd pedair fferyllfa y gwasanaeth i 64 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 42), gan oruchwylio cyfanswm o 912 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 63 i 712).

10.3.2.10 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

10.3.2.11 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 2 (uwch)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

10.3.2.12 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Darparodd saith o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 392 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 273).

Darparodd tair o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 317 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 8 i 241).

10.4 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol y tu allan i ardal y clwstwr

Efallai y bydd rhai preswylwyr yn dewis cyrchu contractwyr y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gwasanaethau:

- Wedi'u cynnig gan gontractwyr offer cyflenwi
- Sy'n agos at eu mannau gwaith, siopa, neu fannau y maent yn ymweld â nhw at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yn 2024/25 wedi'u cyflenwi gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (96.4%), cyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 1.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr
- 0.5% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Cwm Rhondda
- 0.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr
- 0.3% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu eu cyflenwi gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (97.1%), a chyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 1.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr
- 0.6% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Cwm Rhondda
- 0.3% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Yn ogystal, efallai y bydd preswylwyr wedi cael un neu ragor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl meintioli'r gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

10.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

10.6 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 10.3 a 10.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi'u cofrestru gydag un o'r meddygfeydd teulu yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i gyflenwi eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael at fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i gyflenwi gan fferyllfa neu gontractwr offer y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 173 o gontractwyr a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr, yr oedd 112 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 3,657 o eitemau eu cyflenwi yn Lloegr.

Gwnaeth cyfanswm o 135 o gontractwyr a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2025/26 (hyd at fis Rhagfyr 2025) gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr, yr oedd 85 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 2,387 o eitemau eu cyflenwi yn Lloegr.

10.7 Datblygiadau tai

Mae Cyfnewidiad Cynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr 2018 i 2033[270] yn cynnwys cynlluniau datblygu ar draws ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r taflwybr ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun wedi'i gynnwys yng Nghynllun

[270] Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Cynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr 2018 i 2033

Monitro Blynyddol cynllun datblygu lleol 2018 i 2033[271] Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Hydref 2025). Mae'r wybodaeth isod yn crynhoi'r cynllun ar gyfer y datblygiadau mwy o faint (dros 100 o dai).

10.7.1 Tir i'r Dwyrain o'r Pîl

- 2,003 o anheddau
- Nifer y preswylwyr: (2.5 fesul aelwyd) 5,008 Rhwng 2025 a 2026 nid oes unrhyw anheddau newydd yn cael eu hadeiladu nac wedi'u cwblhau (wedi'u hadeiladu)
- Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr anheddau sydd i'w cwblhau rhwng 2026 a 2033

2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
70	150	150	150	150	150	150

- Mae 1,033 o anheddau pellach wedi'u nodi y tu hwnt i'r cynllun.

10.7.2 Glannau Porthcawl

- 1,100 o anheddau
- Nifer y preswylwyr: (2.5 fesul aelwyd) 3,550 (gan gynnwys 320 o anheddau y tu hwnt i'r cynllun)
- Rhwng 2025 a 2026 nid oes unrhyw anheddau newydd yn cael eu hadeiladu nac wedi'u cwblhau (wedi'u hadeiladu)
- Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr anheddau sydd i'w cwblhau rhwng 2026 a 2033

2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
60	120	120	120	120	120	120

- Mae 320 o anheddau pellach wedi'u nodi y tu hwnt i'r cynllun.

10.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau fferyllol a ddarperir mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod gan saith fferyllfa ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a bod gan chwech ddigon o gapasiti yn eu lefelau staffio, ond nid oes gan y seithfed.

Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

[271] Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Hydref 2025 - Adroddiad monitro blynyddol (2025) - Cynllun datblygu lleol 2018 - 2033

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr a'r ffaith y gall y boblogaeth gyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud, a’r mwyafrif o fewn pump i ddeng munud. Er nodi nad oes car ar gael i bob aelwyd trwy gydol y dydd, mae natur y clwstwr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o drigolion ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Mae dau ddatblygiad tai hysbys i fod i ddigwydd yn ystod oes y ddogfen hon a fydd yn darparu hyd at 1,750 o dai newydd i 4,375 o breswylwyr (2.5 fesul aelwyd). Nid yw hyn yn cynnwys nifer yr anheddau newydd y tu hwnt i'r cynllun (1,353).
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Yn seiliedig ar yr uchod, ac yn arbennig ledaeniad presennol oriau agor fferyllfeydd trwy gydol yr wythnos, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaethau hanfodol o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y datblygiadau tai hysbys a fydd yn darparu tai yn y clwstwr yn ystod oes y ddogfen hon, ac y gallai rhai ddarparu tai y tu hwnt i fis Hydref 2031. Mae'n fodlon y bydd yr angen am wasanaethau hanfodol gan y rhai sy'n symud i’r tai newydd yn cael ei ddiwallu gan y fferyllfeydd presennol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a’r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

10.8.2 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

8.8.2.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw’r un o’r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr hwn yn 2024/25, ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Yn ogystal, o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, cyflenwyd 85.8% gan gontractwyr offer cyflenwi ac 84.6% yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Mae unigolion y mae angen y gwasanaeth adolygu defnydd offer arnynt yn debygol o gyrchu’r gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n cyflenwi eu presgripsiynau ar gyfer offer neu gallant ei gyrchu gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

10.8.2.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pob un wedi'i ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

10.8.2.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod y saith i gyd wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

10.8.2.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru ac wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr. Gan fod meddygfeydd teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth hwn, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

10.8.2.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pob un wedi'i ddarparu yn 2025/26. Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

10.8.2.6 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pedair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pedair wedi'i ddarparu yn 2025/26. Cadarnhaodd un fferyllfa ei bod yn bwriadu dechrau darparu'r gwasanaeth hwn pan fydd ei fferyllydd rheolaidd wedi cymhwyso.

Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau interim o 50% o fferyllfeydd erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn 2029. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y rhagwelir, o 2026. y bydd pob fferyllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys yn bresgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y targed o 50% i fod i gael ei gyrraedd erbyn mis Ebrill 2027.

Bydd yn gweithio gyda chontractwyr er mwyn cynyddu nifer y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

10.8.2.7 Gwasanaeth addasu offer stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr hwn yn 2024/25 ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Yn ogystal, o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, cyflenwyd 85.8% gan gontractwyr offer cyflenwi ac 84.6% yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26.

Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl y gofyn cyn ei anfon neu ddosbarthu i gleifion.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

10.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

10.8.3.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod un wedi'i ddarparu yn 2025/26. Caiff y gwasanaeth ei gomisiynu mewn ardaloedd lle mae galw mawr am y rhaglenni nodwyddau a chwistrellu.

Mae gwasanaethau sgrinio firysau a gludir yn y gwaed ar gael drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis clinigau iechyd rhywiol, meddygfeydd teulu, archebu pecynnau profion cartref ac ôl-sgrinio ar-lein drwy Iechyd Rhywiol Cymru neu gasglu pecynnau sgrinio o leoliadau cymunedol ar draws

y bwrdd iechyd. Mae nifer o fferyllfeydd ar draws y bwrdd iechyd yn cadw stoc o'r pecynnau prawf ac ôl-sgrinio, gan sicrhau eu bod ar gael yn gyfleus i'r rhai y mae'n well ganddynt gael opsiwn mwy cynnil neu hyblyg.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

10.8.3.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaeth cyflenwi iddynt.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

10.8.3.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pump o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2025/26. Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu ar sail y galw.

Mae gwasanaethau ar gael o fewn y clwstwr drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis tîm Pen-y-bont ar Ogwr a Gorllewin y Fro sy'n gofalu am gleifion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain a chartrefi nyrsio yng Ngorllewin ardal y bwrdd iechyd. Maent hefyd yn darparu gofal lliniarol arbenigol i gleifion mewnol yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Maesteg a Glanrhyd ac Ysbyty Seren a thrwy fferyllfeydd y tu allan i'r clwstwr sydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

10.8.3.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pump o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod dwy ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

10.8.3.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pedair wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai fferyllfa'n rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau, y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth gael ei ddarparu i drigolion cymwys y dref/pentref hwnnw. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os:

- Gellir diwallu'r angen gan un neu fwy o fferyllfeydd sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Mae darparwyr eraill sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Byddai caniatáu cais i gael ei gynnwys yn y rhestr fferyllol sy'n cynnig diwallu'r angen hwn yn arwain at gynnydd annymunol yn argaeledd gwasanaethau hanfodol yn y dref/pentref hwnnw.

10.8.3.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod un wedi'i ddarparu yn 2025/26. Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

10.8.3.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pob un wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu gan y bwrdd iechyd ar sail strategol, gan sicrhau ei ddarparu o fewn ardaloedd mewn angen.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

10.8.3.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod chwech ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

10.8.3.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod chwech ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26. Darperir y gwasanaeth ar sail y galw.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

10.8.3.10 Gwasanaethau meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth lefel 1 yn 2025/26, a bod un wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth lefel 2.

Oherwydd natur y gwasanaeth, caiff ei gomisiynu i sicrhau lledaeniad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y bwrdd iechyd.

Nid yw'r bwrdd iechyd felly wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

10.8.3.11 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

11 Clwstwr Merthyr Tudful

11.1 Trosolwg

Mae clwstwr Merthyr Tudful yn gwasanaethu poblogaeth o 61,523[272] sydd wedi cofrestru gyda phractis mewn ardaloedd trefol a gwledig yn bennaf, ychydig i'r de o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae 13 fferyllfa yn y clwstwr a chwe meddygfa deulu, ac mae gan ddwy o'r chwe meddygfa deulu safleoedd meddygfa cangen; mae gan y naill ohonynt ddau safle cangen ac mae gan y llall un safle cangen. Mae un o'r meddygfeydd teulu yn feddygfa gyflenwi ac mae'n cyflenwi o'i meddygfa gangen.

Ychydig iawn y mae poblogaeth Merthyr Tudful wedi newid ers 2011[273]. Y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth rhwng 2022 a 2032 yw 1% ar draws pob grŵp oedran, gyda phoblogaeth ddisgwyliedig o 59,445 erbyn 2032.

Mae gan awdurdod lleol Merthyr Tudful ddisgwyliad oes is adeg genedigaeth ar gyfer menywod (79.4 oed) a dynion (76.1 oed) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 81.8 oed (menywod) a 77.9 oed (dynion).

Mae gan glwstwr Merthyr Tudful lefel uwch o amddifadedd a thlodi o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru.

Mae amddifadedd wedi'i grynhoi'n drwm ym Merthyr Tudful (Gogledd a De) - mae 31.1% o drigolion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru o'u cymharu ag 20.7% ledled Cymru a 24.7% ar draws y bwrdd iechyd.

Mae gan Ogledd Merthyr Tudful a De Merthyr Tudful broffiliau iechyd cymysg yn seiliedig ar yr amcangyfrif o gyffredinrwydd cyflyrau cronig o'u cymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru.

- Gogledd Merthyr Tudful
    - Yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru mewn ffibriliad atrïaidd, dementia ac iechyd meddwl
    - Yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru o ran clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, diabetes, a gorbwysedd.
    - Yn cydredeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn uwch na chyfartaledd Cymru o ran asthma, clefyd coronaidd y galon a strôc a phyliau o isgemia dros dro
    - Yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn is na chyfartaledd Cymru o ran methiant y galon

[272] Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - dadansoddi practisiau meddyg teulu a chofrestriadau cleifion yn ôl practis (Ionawr 2026).
[273] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Sut newidiodd y boblogaeth ym Merthyr Tudful: Cyfrifiad 2021

- De Merthyr Tudful
    - Yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru mewn ffibriliad atrïaidd, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, clefyd coronaidd y galon, dementia, methiant y galon, iechyd meddwl a strôc a phyliau o isgemia dros dro.
    - Yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn uwch na chyfartaledd Cymru o ran asthma, diabetes a gorbwysedd

Mae ymddygiadau ffordd o fyw o fewn y boblogaeth oedolion (16 oed a hŷn) ledled Merthyr Tudful, a gofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[274] ac a ddisgrifir ym mhroffil iechyd adran 11.2.4, yn datgelu heriau. Er enghraifft, mae trigolion yn ysmygu mwy (gan gynnwys e-sigaréts), mae mwy o drigolion yn crybwyll eu bod dros eu pwysau ac yn ordew, mae llai yn gwneud gweithgarwch corfforol ac maent yn bwyta llai o ffrwythau a llysiau na Chymru gyfan. Fodd bynnag, mae yfed gormodol ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.

Merthyr Tudful yw un o'r tri awdurdod lleol sydd â'r crynodiad uchaf (1.9%) [275]o bobl sy'n Bwylaidd.

11.2 Nodweddion allweddol y boblogaeth

11.2.1 Amcanestyniad poblogaeth 2022 i 2032

Amcanestynnir y bydd poblogaeth Merthyr Tudful yn cynyddu hyd at 1.0% rhwng 2022 (58,881) a 2032 (59,445).

Rhagwelir y bydd awdurdod lleol Merthyr Tudful, erbyn 2032[276], yn:

- Gweld gostyngiad yn nifer y bobl rhwng 0 a 15 oed
- Gweld y gostyngiad mwyaf a ragwelir yn nifer y genedigaethau (i lawr 9.0%)
- Bod yn un o dri awdurdod lleol i weld gostyngiad yn nifer y marwolaethau (y ddau awdurdod lleol arall yw Blaenau Gwent ac Abertawe)
- Bod yr isaf o bedwar awdurdod lleol (awdurdodau lleol gwledig yn bennaf) i weld y gostyngiad canrannol mwyaf yn y boblogaeth oedran gweithio (i lawr 0.5%)
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 65 oed a throsodd
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 75 oed a throsodd

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn cael ei yrru'n bennaf gan fudo net, h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Fel y sonnir uchod, disgwylir i nifer y

[274] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)
[275] Llywodraeth Cymru Tachwedd 2022 - Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)
[276] Llywodraeth Cymru - Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol: sail-2022

genedigaethau leihau a nifer y marwolaethau gynyddu, gan arwain at newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau).

11.2.2 Cyfanswm disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a'r 'bwlch anghydraddoldeb' (2020 i 2022)

- Mae gan awdurdod lleol Merthyr Tudful ddisgwyliad oes is adeg genedigaeth ar gyfer menywod a dynion o'i gymharu â chyfartaleddau Cymru (tabl 1).
- Diffinnir mai disgwyliad oes iach[277] yw nifer y blynyddoedd y gall person ddisgwyl byw mewn iechyd da ac mae'n cael ei fesur ar lefel awdurdod lleol. Ar gyfer Merthyr Tudful, mae'n 53.4 oed i ddynion a 51.1 oed i fenywod. I Gymru, y disgwyliad oes iach yw 60.8 oed i ddynion a 60.2 oed i fenywod. Mae hyn yn dangos bod dynion a menywod ym Merthyr Tudful yn mwynhau cyfnod byrrach o iechyd da na'r cyfartaledd ledled Cymru.
- Cyfeirir at y gwahaniaethau mewn disgwyliad oes iach sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig fel y 'bwlch anghydraddoldeb'. Y bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach ym Merthyr Tudful yw 6.7 mlynedd i ddynion a 3.9 mlynedd i fenywod[278].

Tabl 11.1: Cyfanswm disgwyliad oes adeg genedigaeth menywod a dynion, 2020 i 2022[279]

Ardal	Benywod adeg genedigaeth (oed)	Gwrywod adeg genedigaeth (oed)
Awdurdod lleol Merthyr Tudful	79.4	76.1
Cymru	81.8	77.9

Ymwadiad**:** Er bod y data a gyflwynir o ran disgwyliad oes iach yn dangos ffigurau ar gyfer 2024, defnyddiwyd data o'r blynyddoedd 2020 i 2022 i sicrhau cysondeb a chymharedd ar draws pob blwyddyn.

11.2.3 Amddifadedd

Mae'r cysylltiad rhwng amddifadedd ac iechyd gwael wedi'i ddogfennu'n dda. Mae gan Ferthyr Tudful grynodiad uchel o bobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (31.1%). Mae hyn yn uwch na'r bwrdd iechyd yn ei gyfanrwydd (24.7%).

Ceir hefyd ardaloedd bach o amddifadedd 'dwfn'[280] sydd wedi aros o fewn y 50 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n hafal yn fras i'r 2.6% brig o ardaloedd bach yng Nghymru ar gyfer y chwe chyhoeddiad diwethaf (2005, 2008, 2011, 2014, 2019 a

[277] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Disgwyliad oes iach, y DU: rhwng 2011 a 2013 a rhwng 2022 a 2024
[278] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus 2025
[279] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus -Disgwyliad oes dynion a menywod (2020 i 2022)
[280] Llywodraeth Cymru Rhagfyr 2025 - Adroddiad canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025: mynegai cyffredinol

2025) o safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Lle mae ardaloedd o amddifadedd yn bodoli, mae'r boblogaeth yn debygol o fod yn destun yr iechyd gwaethaf.

Dengys y tabl isod y ganran amcangyfrifedig o bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ym Merthyr Tudful, o gymharu â'r bwrdd iechyd.

Tabl 11.2: Amcangyfrif o'r ganran o bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ym Merthyr Tudful a'r bwrdd iechyd (2025)[281]

Ardal	Canran
Gogledd a De Merthyr Tudful	31.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	24.7%

11.2.4 Proffil iechyd

Mae clefydau anhrosglwyddadwy[282], a elwir hefyd yn glefydau cronig, fel arfer yn hirdymor a chronig eu natur, sy'n deillio o gymysgedd o ddylanwadau genetig, ffisiolegol, amgylcheddol ac ymddygiadol. Gall y cyflyrau hyn effeithio'n sylweddol ar ansawdd bywyd ac yn aml mae angen sylw a rheolaeth feddygol arnynt. Y prif gategorïau o glefydau cronig yw:

- Clefydau cardiofasgwlaidd (fel trawiadau ar y galon a strôc)
- Canserau
- Clefydau anadlol cronig (megis clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac asthma)
- Diabetes

Dengys y tabl isod amcangyfrif o gyffredinrwydd clefydau cronig yng Ngogledd a De Merthyr Tudful o'u cymharu â chyfraddau'r bwrdd iechyd a Chymru.

[281] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[282] Sefydliad Iechyd y Byd Medi 2025 - Clefydau anhrosglwyddadwy

Tabl 11.3: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[283]

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phyliau o isgemia dros dro
Gogledd Merthyr Tudful	7.5%	3.6%	3.5%	9.6%	1.3%	2.4%
De Merthyr Tudful	7.4%	3.1%	2.0%	8.8%	1.1%	2.0%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	7.5%	3.6%	2.6%	9.0%	1.2%	2.4%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Dengys y tabl isod ganran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia. Mae'n dangos bod cyfraddau iechyd meddwl a dementia ychydig yn is yng Ngogledd a De Merthyr Tudful o'u cymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru.

Tabl 11.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl a dementia, yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[284]

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Gogledd Merthyr Tudful	1.0%	0.6%
De Merthyr Tudful	1.0%	0.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	1.1%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Dengys y tabl isod amcangyfrif o gyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd a gorbwysedd yng Ngogledd a De Merthyr Tudful o gymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru. Mae Gogledd a De Merthyr Tudful yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru o ran ffibriliad atrïaidd (0.2% yn is). Ar gyfer gorbwysedd, mae Gogledd Merthyr Tudful yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.4% yn uwch) a Chymru (1.4% yn uwch) tra bo De Merthyr Tudful yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.9% yn is) ond yn uwch na chyfartaledd Cymru (0.1% yn uwch).

[283] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[284] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

Tabl 11.5: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd gorbwysedd a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[285]

Ardal	Ffibriliad atrïaidd	Gorbwysedd
Gogledd Merthyr Tudful	2.5%	17.7%
De Merthyr Tudful	2.5%	16.4%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2.7%	17.3%
Cymru	2.7%	16.3%

Cyflwyna'r tabl isod ganran yr oedolion 16 oed a hŷn ym Merthyr Tudful sydd wedi hunan-adrodd eu bod yn cymryd rhan mewn chwe ymddygiad ffordd o fyw allweddol, fel y cofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[286]. Mae'r wybodaeth hon yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr i'r arferion cyffredin a'r dewisiadau ffordd o fyw ymhlith y boblogaeth oedolion yn yr ardal.

Tabl 11.6: Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw yn ôl awdurdod lleol a Chymru rhwng 2021 a 2023

	Cyfrif	Cyffredinrwydd					
Ardal	Poblogaeth 16 oed a hŷn	Ysmygu (gan gynnwys e-sigaréts)	Yfed mwy na 14 uned yr wythnos	Dros bwysau gyda mynegai màs y corff o 25+	Gordew gyda mynegai màs y corff o 30+	Gweithgarwch corfforol am 150 munud yr wythnos	Bwyta pump y dydd
Awdurdod lleol Merthyr Tudful	47,880[287]	28%	15%	75%	33%	48%	22%
Cymru	2,641,000[288]	20%	16%	62%	25%	56%	29%

Dengys y data fod y defnydd o alcohol ychydig yn is (1.0% yn is) ym Merthyr Tudful na Chymru gyfan. Fodd bynnag, mae yna heriau, gan gynnwys lefelau uwch o ysmygu (8.0% yn uwch), cyfraddau uwch o bobl sy'n dweud eu bod dros bwysau (13% yn uwch) ac yn ordew (8.0% yn uwch). Mae llai o oedolion yn cwrdd â'r lefelau gweithgarwch corfforol a argymhellir (8.0% yn is), ac mae llai o bobl yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd (7.0% yn is) o gymharu â Chymru gyfan.

[285] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[286] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)
[287] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024
[288] Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2025 - Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024

11.3 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol o fewn ardal y clwstwr


Mae 13 o fferyllfeydd yng nghlwstwr Merthyr Tudful sy'n cael eu gweithredu gan bedwar gwahanol gontractwr. Mae yna hefyd un practis cyflenwi yn y clwstwr sy'n cyflenwi o'i feddygfa gangen.

Yn 2024/25, cyflenwyd 89.6% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Merthyr Tudful gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr. Cafodd 2.1% i gyd ei gyflenwi neu weinyddu'n bersonol gan y practis cyflenwi.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cyflenwyd 90.4% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Merthyr Tudful gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr. Cafodd 1.9% i gyd ei gyflenwi neu weinyddu'n bersonol gan y practis cyflenwi.

Dylid nodi, lle mae eiddo mewn agosrwydd, bydd y cylchoedd sy'n eu cynrychioli yn croesi. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd gwyrdd, a'r safle meddygfeydd dosbarthu gan gylchoedd coch.

Map 11.1: Lleoliad safleoedd fferyllfeydd a phractisiau cyflenwi o fewn y clwstwr



Daearyddiaeth a Thechnoleg 022.26-27 Dyddiad 2026-9-11

© Hawlfraint a hawl cronfa ddata 2026. Arolwg Ordnans AC0000849488. Llywodraeth Cymru

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr asesiad o anghenion fferyllol a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad bod y fferyllfeydd a’r practis meddyg cyflenwi yn

y clwstwr hwn mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, ac o fewn ardaloedd o amddifadedd uwch neu gerllaw. Fel y gellir ei ddisgwyl, mae'r practis meddyg cyflenwi mewn ardal wledig, sy'n deneuach ei phoblogaeth. Yn ogystal, gallai pob preswylydd gyrraedd un o'r fferyllfeydd neu bractisiau meddyg cyflenwi mewn car o fewn 20 munud, a'r mwyafrif o fewn deg munud. Mae'r ardal lle mae'n cymryd mwy nag 20 munud i gyrraedd fferyllfa neu feddyg cyflenwi yn lleoliad mynyddig anghysbell sy'n arwain at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac felly mae'n annhebygol o fod yn boblog. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd a'r practisiau meddyg cyflenwi wedi newid, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae trigolion yn dal i allu cyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae un fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos.
- Mae un fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae wyth fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ar fore Sadwrn.
- Mae tair fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener.

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor y fferyllfeydd, dangosir yr ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod.

Tabl 11.6: Oriau agor a chau fferyllfeydd

Dyddiau	Ystod oriau agor	Ystod oriau cau
Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener	8.30am i 9.30am	5.30pm i 7.00pm
Dydd Iau	8.30am i 9.30am	1.00pm i 7.00pm
Dydd Sadwrn	9.00am i 9.30am	12.00pm i 7.00pm
Dydd Sul	11.00am	4.00pm

- Mae 12 fferyllfa ar agor rhwng 5.30pm a 6.15pm ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener
- Mae un fferyllfa yn cau am 1.00pm ar ddydd Iau
- Mae 11 fferyllfa yn cau rhwng 5.00pm a 6.15pm ar ddydd Iau
- Mae un fferyllfa yn cau am 7.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener
- Mae deg fferyllfa ar agor ar ddydd Sadwrn:
    - Mae pum fferyllfa'n cau am 12.00pm
    - Mae dwy fferyllfa'n cau am 12.30pm
    - Mae un fferyllfa'n cau am 2.00pm
    - Mae un fferyllfa'n cau am 5.00pm
    - Mae un fferyllfa'n cau am 7.00pm
- Mae un fferyllfa yn agor ar ddydd Sul ac yn cau am 4.00pm

Mae un fferyllfa yn cael ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth canlynol y tu allan i oriau.

- Nosweithiau yn ystod yr wythnos (ac eithrio dydd Iau) rhwng 6.00pm a 7.00pm
- Dydd Sul rhwng 11.30am a 12.30pm a rhwng 6.00pm a 7.00pm
- Gwyliau banc rhwng 11.30am a 12.30pm a rhwng 6.00pm a 7.00pm
- Dydd Sul y Pasg rhwng 11.30am a 12.30pm a rhwng 6.00pm a 7.00pm
- Dydd Nadolig rhwng 11.30am a 12.30pm a rhwng 6.00pm a 7.00pm

Gellir dod o hyd i fanylion llawn oriau agor fferyllfeydd yn Atodiad L.

Dangosir oriau agor y fferyllfa ar gyfer y practis cyflenwi isod.

- Dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau – 9.00am i 5.00pm
- Dydd Mercher – 9.00am i 1.00pm
- Dydd Gwener – 9.00am i 2.00pm.

Ymatebodd 11 fferyllfa i'r holiadur contractwr, a chymerwyd yr wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Mae pob un o'r 11 fferyllfa yn hygyrch i gadair olwyn ac mae gan ddeg ohonynt ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadair olwyn. Mae'r holl ardaloedd ymgynghori yn:

- ystafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad yn arferol o uchel heb gael eu clywed, ac
- wedi'u dynodi'n glir yn ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd tair fferyllfa fod ganddyn nhw siaradwyr Cymraeg ymysg eu staff. Dywedodd pedair fferyllfa fod eu staff yn gallu siarad ieithoedd eraill. Mae gan un fferyllfa staff sy'n siarad Pwyleg, mae gan un arall staff sy'n siarad Tagalog, mae gan drydedd staff sy'n siarad Sbaeneg, ac mae gan bedwaredd staff sy'n siarad Wrdw.

Mae naw fferyllfa yn cyflenwi pob math o offer, un yn cyflenwi rhwymynnau yn unig, ac un yn cyflenwi pob math heblaw offer stoma ac anymataliaeth.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu:

- mae deg fferyllfa yn casglu presgripsiynau gan feddygfeydd teulu, ac
- mae'r 11 i gyd yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais i bob claf.

Roedd un awgrym ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol presennol nad ydynt yn cael eu darparu ar hyn o bryd yn yr ardal, sef monitro pwysedd gwaed am fod cleifion yn cael trafferth yn cael y gwasanaeth hwn yn eu meddygfa deulu.

Awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau newydd nad ydynt ar gael ar hyn o bryd oedd gwasanaeth rheoli pwysau a gwasanaeth oedi mislif.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt gapasiti i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol, dywedodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau a'u lefelau staffio i fodloni galw cynyddol am wasanaethau, a dywedodd dwy nad oedd ganddynt y capasiti ond y gallent wneud addasiadau.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r safle neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, dywedodd pump fod ganddynt.

- Mae un yn bwriadu cael presgripsiynydd annibynnol cyn pen y ddwy flynedd nesaf, mae gan un arall bresgripsiynydd annibynnol sydd wedi cymhwyso yn ddiweddar, ac mae gan drydedd fferyllydd sy'n hyfforddi i fod yn bresgripsiynydd annibynnol.
- Mae dwy yn bwriadu cynyddu ymwybyddiaeth cleifion o'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir yn y fferyllfeydd.
- Mae un yn bwriadu datblygu ei pherthynas â meddygfeydd teulu i gynyddu atgyfeiriadau, cyflwyno system newydd o gofnodi meddyginiaeth cleifion i ryddhau amser fferyllydd, a chynyddu nifer y cyflyrau sydd ar gael yn rhan o'r gwasanaeth presgripsiynydd annibynnol.

Yr unig offer y mae'r practis cyflenwi yn eu cyflenwi yw rhwymynnau. Mae'n darparu gwasanaeth dosbarthu i gleifion ac mae ganddo siaradwyr Cymraeg ymhlith ei staff. Nid oes unrhyw ieithoedd eraill yn cael eu siarad gan staff. Mae gan y practis ddigon o gapasiti ar ei safle i reoli'r cynnydd yn y galw am y gwasanaeth cyflenwi a gallai wneud addasiadau i'w lefelau staffio i reoli cynnydd.

11.3.1 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer

11.3.1.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

11.3.1.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 7,495 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 179 i 1,376)
- 501 o ymgynghoriadau ar gyfer profi a thrin dolur gwddf, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 180)
- 165 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 6 i 47)
- 521 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu brys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 167)
- 2,604 o gyflenwadau meddyginiaeth frys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 51 i 577)

Yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 5,163 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 164 i 935)
- 304 o ymgynghoriadau ar gyfer profi a thrin dolur gwddf, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o un i 94)
- 245 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 67)
- 353 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu brys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 145)
- 1,580 o gyflenwadau meddygaeth frys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 5 i 460)

11.3.1.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Darparodd 12 fferyllfa y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 572 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 7 i 174).

Darparodd 11 fferyllfa y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 286 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 87).

11.3.1.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae pob un o'r 13 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pob un o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,769 o frechiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 30 i 298).

Darparodd yr holl fferyllfeydd y gwasanaeth ym mis Hydref a mis Tachwedd 2025, gan ddarparu cyfanswm o 1,745 o frechiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 23 i 342).

11.3.1.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Darparodd chwe fferyllfa y gwasanaeth yn 2024/25, gan gyflenwi cyfanswm o 132 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 6 i 63).

Darparodd un fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gyflenwi un pecyn i gyd.

11.3.1.6 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd

Darparodd chwe fferyllfa y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,001 o ymgynghoriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 26 i 243).

Darparodd chwe fferyllfa y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 839 o ymgynghoriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 10 i 290).

11.3.1.7 Gwasanaeth addasu stoma

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

11.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

11.3.2.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Mae tair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25.

Darparodd tair fferyllfa y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan sgrinio 41 o weithiau i gyd (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 7 i 24).

11.3.2.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

11.3.2.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae pob un o'r 13 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pedair fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o naw pecyn (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 5).

Darparodd dwy fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 6 phecyn (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 5).

11.3.2.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, ni wnaeth yr un ohonynt ei ddarparu yn saith mis cyntaf 2025/26.

11.3.2.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae pob un o'r 13 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd 11 fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu siartiau i 95 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 13).

Darparodd 11 fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu siartiau i 59 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 7).

11.3.2.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae tair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd tair y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 961 o ddarpariaethau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 22 i 906).

Darparodd tair gyfanswm o 290 o ddarpariaethau yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 12 i 258).

11.3.2.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae 12 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd wyth fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi cyfanswm o 575 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 18 i 109).

Darparodd 11 fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 298 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 80).

11.3.2.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae 12 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd wyth fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi cyfanswm o 279 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 7 i 75).

Darparodd pum fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 141 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 16 i 55).

11.3.2.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae 11 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd deg fferyllfa'r gwasanaeth i 1,153 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 31 i 402), gan oruchwylio cyfanswm o 12,703 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 526 i 5,375).

Yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd deg fferyllfa'r gwasanaeth i 579 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 7 i 222), gan oruchwylio cyfanswm o 6,882 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 167 i 3,332).

11.3.2.10 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

11.3.2.11 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 2 (uwch)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

11.3.2.12 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Mae 12 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd 11 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 4,350 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 8 i 1,312).

Darparodd 11 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod chwe mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 2,302 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 668).

11.4 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol y tu allan i ardal y clwstwr

Efallai y bydd rhai preswylwyr yn dewis cyrchu contractwyr y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gwasanaethau:

- Wedi'u cynnig gan gontractwyr offer cyflenwi
- Sy'n agos at eu mannau gwaith, siopa, neu fannau y maent yn ymweld â nhw at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yn 2024/25 wedi'u cyflenwi gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (89.6%), cyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 4.4% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 2.4% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Taf Elái
- 0.4% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.2% gan fferyllfeydd yn Ne Cwm Cynon
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu eu cyflenwi gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (90.4%), a chyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 4.3% gan fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 2.4% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Taf Elái
- 0.4% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De Cwm Cynon
- 0.1% gan fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Yn ogystal, efallai y bydd preswylwyr wedi cael un neu ragor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl meintioli'r gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

11.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

11.6 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 11.3 a 11.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi'u cofrestru gydag un o'r meddygfeydd teulu yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i gyflenwi eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael at fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i gyflenwi gan fferyllfa neu gontractwr offer y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 255 o gontractwyr a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Merthyr Tudful, yr oedd 179 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Nid yw'r ffigur yn cynnwys y practis cyflenwi. Cafodd 8,404 o eitemau presgripsiwn eu cyflenwi yn Lloegr.

Gwnaeth cyfanswm o 265 o gontractwyr a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2025/26 (hyd at fis Rhagfyr 2025) gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Merthyr Tudful, yr oedd 156 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Nid yw'r ffigur yn cynnwys y practis cyflenwi. Cafodd 6,366 o eitemau presgripsiwn eu cyflenwi yn Lloegr.

11.7 Datblygiadau tai

Roedd Cyfnewidiad Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful 2016 i 2031[289] yn cynnwys cynlluniau datblygu o wahanol feintiau. Hyd at ddiwedd y flwyddyn 2024/25, mae 450 o anheddau wedi'u hadeiladu.

Mae'r taflwybr ar gyfer gweddill yr anheddau wedi'i gynnwys yn Adroddiad Monitro Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 2016 i 2031[290] (Hydref 2025). Mae'r tabl isod yn crynhoi'r cynllun ar gyfer y datblygiadau mwy o faint (dros 100 o dai).

Cynllun	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31
Safle ffatri Hoover	0	65	65	65	65	70
I'r de o Barc y Castell	10	30	30	30	30	30
Ysgol Gynradd Goetre	0	0	0	40	40	40
Twynyrodyn	54	54	0	0	0	0
Hen Ysbyty Maerdy	0	0	25	25	0	0
Ger Manor View, Trelewis	0	20	58	25	45	50
CYFANSWM	**64**	**169**	**178**	**185**	**180**	**190**

Nifer y preswylwyr: 2,415 (2.5 fesul aelwyd).

[289] Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Cyfnewidiad Cyntaf Cynllun Datblygu Lleol 2016 i 2031
[290] Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Hydref 2025 - Pumed adroddiad monitro blynyddol - Cyfnewidiad cynllun datblygu lleol 2016 i 2031

11.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau fferyllol a ddarperir nododd y bwrdd iechyd fod gan naw fferyllfa ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau a'u lefelau staffio i fodloni galw cynyddol am wasanaethau, a bod dwy wedi dweud nad oedd ganddynt y capasiti ond y gallent wneud addasiadau.

11.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr a'r ffaith y gall y boblogaeth gyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud, a'r mwyafrif o fewn deg munud. Er nodi nad oes car ar gael i bob aelwyd trwy gydol y dydd, mae natur y clwstwr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o drigolion ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Y datblygiadau tai hysbys.
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Yn seiliedig ar yr uchod, ac yn arbennig ledaeniad presennol oriau agor fferyllfeydd trwy gydol yr wythnos, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau hanfodol o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y datblygiadau tai hysbys a fydd yn darparu tai yn y clwstwr yn ystod oes y ddogfen hon, ac y gallai rhai ddarparu tai y tu hwnt i fis Hydref 2031. Mae'n fodlon y bydd yr angen am wasanaethau hanfodol gan y rhai sy'n symud i'r tai newydd yn cael ei ddiwallu gan y fferyllfeydd presennol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

11.8.2 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer

11.8.2.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr hwn yn 2024/25 ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Yn ogystal, o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, cyflenwyd 88.3% gan gontractwyr offer cyflenwi ac 86.4% yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Mae unigolion y mae angen y gwasanaeth adolygu defnydd offer arnynt yn debygol o gyrchu'r gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n cyflenwi eu presgripsiynau ar gyfer offer neu gallant ei gyrchu gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

11.8.2.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr 13 fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pob un wedi'i ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

11.8.2.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 12 o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

11.8.2.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pob un wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr. Gan fod meddygfeydd teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth hwn, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

11.8.2.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod chwech o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod y gwasanaeth hwn ar gael i grwpiau cleifion penodol yn unig. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

11.8.2.6 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod chwech o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae un fferyllfa'n bwriadu cael presgripsiynydd annibynnol cyn pen y ddwy flynedd nesaf, mae gan un arall bresgripsiynydd annibynnol sydd wedi cymhwyso'n ddiweddar, ac mae gan drydedd fferyllydd sy'n hyfforddi i fod yn bresgripsiynydd annibynnol.

Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau interim o 50% o fferyllfeydd erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn 2029. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y rhagwelir, o 2026. y bydd pob fferyllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys yn bresgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y targed o 50% i fod i gael ei gyrraedd erbyn mis Ebrill 2027.

Bydd yn gweithio gyda chontractwyr er mwyn cynyddu nifer y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

11.8.2.7 Gwasanaeth addasu offer stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r 27 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr hwn yn 2024/25 ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Fodd bynnag, o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, cyflenwyd 88.3% gan gontractwyr offer cyflenwi ac 86.4% yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl y gofyn cyn ei anfon neu ddosbarthu i gleifion.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

11.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

11.8.3.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod tair wedi'i ddarparu yn 2025/26. Caiff y gwasanaeth ei gomisiynu mewn ardaloedd lle mae galw mawr am y rhaglenni nodwyddau a chwistrellu.

Mae gwasanaethau sgrinio firysau a gludir yn y gwaed ar gael drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis clinigau iechyd rhywiol, meddygfeydd teulu, archebu pecynnau profion cartref ac ôl-sgrinio ar-lein drwy Iechyd Rhywiol Cymru neu gasglu pecynnau sgrinio o leoliadau cymunedol ar draws y bwrdd iechyd. Mae nifer o fferyllfeydd ar draws y bwrdd iechyd yn cadw stoc o'r pecynnau prawf ac ôl-sgrinio, gan sicrhau eu bod ar gael yn gyfleus i'r rhai y mae'n well ganddynt gael opsiwn mwy cynnil neu hyblyg.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

11.8.3.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaeth cyflenwi iddynt.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

11.8.3.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr 13 fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pedair wedi'i ddarparu yn 2025/26. Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu ar sail y galw.

Mae gwasanaethau ar gael o fewn y clwstwr drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis tîm Merthyr a Chynon sy'n gofalu am gleifion sy'n byw yn eu cartrefi a chartrefi nyrsio. Maent hefyd yn darparu gofal lliniarol arbenigol i gleifion mewnol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac unrhyw ysbytai cymunedol eraill, a thrwy fferyllfeydd y tu allan i'r clwstwr sydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

11.8.3.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Ni chafodd ei ddarparu gan yr un o'r fferyllfeydd yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

11.8.3.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr 13 fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 11 wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai fferyllfa'n rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau, y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth gael ei ddarparu i drigolion cymwys y dref/pentref hwnnw. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os:

- Gellir diwallu'r angen gan un neu fwy o fferyllfeydd sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Mae darparwyr eraill sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Byddai caniatáu cais i gael ei gynnwys yn y rhestr fferyllol sy'n cynnig diwallu'r angen hwn yn arwain at gynnydd annymunol yn argaeledd gwasanaethau hanfodol yn y dref/pentref hwnnw.

11.8.3.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod tair wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu gan y bwrdd iechyd ar sail strategol, gan sicrhau ei ddarparu o fewn ardaloedd mewn angen.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

11.8.3.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 12 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 11 ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

11.8.3.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 12 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r

gwasanaeth hwn, a bod wyth fferyllfa wedi'i ddarparu yn 2025/26. Nododd fod fferyllfeydd ymhlith amrywiaeth o ddarparwyr y gwasanaeth gan gynnwys gwasanaethau Helpa fi i stopio i'r babi a Helpa fi i stopio yn yr ysbyty.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

11.8.3.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 11 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod deg ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26. Darperir y gwasanaeth ar sail y galw.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

11.8.3.10 Gwasanaethau meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth lefel 1 yn 2025/26, a bod un wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth lefel 2.

Oherwydd natur y gwasanaeth, caiff ei gomisiynu i sicrhau lledaeniad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y bwrdd iechyd.

Nid yw'r bwrdd iechyd felly wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

11.8.3.11 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 12 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 11 ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

12 Clwstwr Gogledd Cwm Cynon

12.1 Trosolwg

Clwstwr Gogledd Cwm Cynon yw'r ail leiaf o bedwar clwstwr o fewn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf sy'n gwasanaethu poblogaeth o 32,522[291] sydd wedi cofrestru gyda phractis, a hynny mewn ardaloedd trefol a lled-wledig. Ceir saith fferyllfa yn y clwstwr a tair meddygfa deulu.

Cynyddodd poblogaeth awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf 1.4% o ryw 234,400 yn 2011 i 237,700 yn 2021[292]. Mae hyn yr un fath â'r cynnydd cyffredinol ar gyfer Cymru. Y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth rhwng 2022 a 2032 yw 4.9% ar draws pob grŵp oedran, gyda phoblogaeth ddisgwyliedig o 251,235 erbyn 2032.

Mae gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf ddisgwyliad oes is adeg genedigaeth ar gyfer menywod (80.7 oed) a dynion (76.9 oed) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 81.8 oed (menywod) a 77.9 oed (dynion).

Mae amddifadedd wedi'i grynhoi'n weddol yng nghlwstwr Gogledd Cwm Cynon; mae 29.4% o drigolion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru o'u cymharu ag 20.7% ledled Cymru a 24.7% ar draws y bwrdd iechyd.

Mae gan Ogledd Cwm Cynon broffil cymysg o gyflyrau iechyd hirdymor, yn seiliedig ar gyffredinrwydd amcangyfrifedig, o'i gymharu â'r bwrdd iechyd a Chymru yn gyffredinol.

- Yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn uwch na chyfartaledd Cymru o ran asthma, gorbwysedd a strôc a phyliau o isgemia dros dro
- Yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru o ran ffibriliad atrïaidd, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, clefyd coronaidd y galon, diabetes, ac iechyd meddwl
- Yn cyd-redeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn is na chyfartaledd Cymru o ran dementia a methiant y galon

Mae ymddygiadau ffordd o fyw o fewn y boblogaeth oedolion (16 oed a hŷn) ledled Rhondda Cynon Taf, a gofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[293] ac a ddisgrifir ym mhroffil iechyd adran 12.2.4, yn datgelu heriau parhaus. Er enghraifft, mae trigolion yn ysmygu mwy (gan gynnwys e-sigaréts), yn fwy dros eu pwysau ac yn ordew, yn gwneud llai o weithgarwch corfforol ac yn bwyta llai o ffrwythau a llysiau na Chymru gyfan. Fodd bynnag, mae yfed gormodol yn cydredeg â gweddill Cymru.

[291] Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - dadansoddi practisiau meddyg teulu a chofrestriadau cleifion yn ôl practis (Ionawr 2026).
[292] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Sut newidiodd y boblogaeth yn Rhondda Cynon Taf: Cyfrifiad 2021
[293] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)

12.2 Nodweddion allweddol y boblogaeth

12.2.1 Amcanestyniadau poblogaeth 2022 i 2032

Amcanestynnir y bydd poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn cynyddu hyd at 4.9% rhwng 2022 (239,494) a 2032 (251,235).

Rhagwelir y bydd awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, erbyn 2032[294] yn:

- Gweld gostyngiad yn nifer y bobl rhwng 0 a 15 oed
- Bod yn un o wyth awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf a ragwelir yn y boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 a 64 oed
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 65 oed a throsodd
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 75 oed a throsodd

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn cael ei yrru'n bennaf gan fudo net, h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Disgwylir i nifer y genedigaethau leihau a nifer y marwolaethau gynyddu, gan arwain at newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau).

12.2.2 Cyfanswm disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a'r 'bwlch anghydraddoldeb' (2020 i 2022)

- Mae gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf ddisgwyliad oes is adeg genedigaeth ar gyfer menywod a dynion o'i gymharu â chyfartaleddau Cymru (tabl 12.1).
- Mae disgwyliad oes iach[295] a ddiffinnir fel nifer y blynyddoedd y gall person ddisgwyl byw mewn iechyd da yn cael ei fesur ar lefel awdurdod lleol. Ar gyfer Rhondda Cynon Taf, mae'n 57.3 oed i ddynion a 56.1 oed i fenywod. I Gymru, y disgwyliad oes iach yw 60.8 oed i ddynion a 60.2 oed i fenywod.
- Cyfeirir at y gwahaniaethau mewn disgwyliad oes iach sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig fel y 'bwlch anghydraddoldeb'. Y bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach yn Rhondda Cynon Taf yw 6.9 mlynedd i ddynion a 5.3 mlynedd i fenywod[296].

[294] Llywodraeth Cymru - Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol: sail-2022
[295] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Disgwyliad oes iach, y DU: rhwng 2011 a 2013 a rhwng 2022 a 2024
[296] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus 2025

Tabl 12.1: Cyfanswm disgwyliad oes adeg genedigaeth menywod a dynion, 2020 i 2022[297]

Ardal	Benywod adeg genedigaeth (oed)	Gwrywod adeg genedigaeth (oed)
Awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf	80.7	76.9
Cymru	81.8	77.9

Ymwadiad: Er bod y data a gyflwynir o ran disgwyliad oes iach yn dangos ffigurau ar gyfer 2024, defnyddiwyd data o'r blynyddoedd 2020 i 2022 i sicrhau cysondeb a chymharedd ar draws pob blwyddyn.

12.2.3 Amddifadedd

Mae'r cysylltiad rhwng amddifadedd ac iechyd gwael wedi'i ddogfennu'n dda. O'r pedwar clwstwr yn Rhondda Cynon Taf, Gogledd Cwm Cynon sydd â'r trydydd crynodiad uchaf o bobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (29.4%), sy'n uwch na'r bwrdd iechyd yn ei gyfanrwydd (24.7%).

Fodd bynnag, mae ardaloedd bach o amddifadedd 'dwfn'[298] sydd wedi aros o fewn y 50 ardal fwyaf difreintiedig frig yng Nghymru, sy'n hafal yn fras i'r 2.6% brig o ardaloedd bach yng Nghymru ar gyfer y chwe chyhoeddiad diwethaf (2005, 2008, 2011, 2014, 2019 a 2025) o safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Lle mae ardaloedd o amddifadedd yn bodoli, mae'r boblogaeth yn debygol o fod yn destun yr iechyd gwaethaf.

Dengys y tabl isod y ganran amcangyfrifedig o bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng nghlwstwr Gogledd Cwm Cynon, o gymharu â'r bwrdd iechyd.

Tabl 12.2: Amcangyfrif o'r ganran o gleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Cwm Cynon a'r bwrdd iechyd (2025)[299]

Ardal	Canran
Gogledd Cwm Cynon	29.4%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	24.7%

12.2.4 Proffil iechyd

Mae clefydau anhrosglwyddadwy[300], a elwir hefyd yn glefydau cronig, fel arfer yn hirdymor a chronig eu natur, sy'n deillio o gymysgedd o ddylanwadau genetig,

[297] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Disgwyliad oes dynion a menywod (2020 i 2022)
[298] Llywodraeth Cymru Rhagfyr 2025 - Adroddiad canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025: mynegai cyffredinol
[299] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[300] Sefydliad Iechyd y Byd Medi 2025 - Clefydau anhrosglwyddadwy

ffisiolegol, amgylcheddol ac ymddygiadol. Gall y cyflyrau hyn effeithio'n sylweddol ar ansawdd bywyd ac yn aml mae angen sylw a rheolaeth feddygol arnynt. Y prif gategorïau o glefydau cronig yw:

- Clefydau cardiofasgwlaidd (fel trawiadau ar y galon a strôc)
- Canserau
- Clefydau anadlol cronig (megis clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac asthma)
- Diabetes

Dengys y tabl isod amcangyfrif o gyffredinrwydd clefydau cronig yng Ngogledd Cwm Cynon o'i gymharu â'r bwrdd iechyd a Chymru.

Tabl 12.3: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[301]

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phyliau o isgemia dros dro
Gogledd Cwm Cynon	7.2%	3.7%	3.0%	9.5%	1.2%	2.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	7.5%	3.6%	2.6%	9.0%	1.2%	2.4%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Dengys y tabl isod ganran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia. Mae iechyd meddwl yng Ngogledd Cwm Cynon ychydig yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru (0.1% yn uwch). Ar gyfer dementia, mae Gogledd Cwm Cynon yn cydredeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd ond mae ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (0.1% yn is).

[301] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

Tabl 12.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[302]

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Gogledd Cwm Cynon	1.2%	0.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	1.1%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Dengys y tabl isod amcangyfrif o gyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd a gorbwysedd yng Ngogledd Cwm Cynon o'i gymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru. Mae Gogledd Cwm Cynon yn uwch o ran ffibriliad atrïaidd na chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru (0.2% yn uwch) ac ar gyfer gorbwysedd mae'n is na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.4% yn is) ond yn uwch na chyfartaledd Cymru (0.6% yn uwch).

Tabl 12.5: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd a gorbwysedd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[303]

Ardal	Ffibriliad atrïaidd	Gorbwysedd
Gogledd Cwm Cynon	2.9%	16.9%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2.7%	17.3%
Cymru	2.7%	16.3%

Cyflwyna'r tabl isod ganran yr oedolion 16 oed a hŷn yn Rhondda Cynon Taf sydd wedi hunan-adrodd eu bod yn cymryd rhan mewn chwe ymddygiad ffordd o fyw allweddol, fel y cofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[304]. Mae'r wybodaeth hon yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr i'r arferion cyffredin a'r dewisiadau ffordd o fyw ymhlith y boblogaeth oedolion yn yr ardal.

[302] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[303] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[304] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)

Tabl 12.6: Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw yn ôl awdurdod lleol a Chymru rhwng 2021 a 2023

	Cyfrif	Cyffredinrwydd					
Ardal	**Poblogaeth 16 oed a hŷn**	**Ysmygu (gan gynnwys e-sigaréts)**	**Yfed mwy na 14 uned yr wythnos**	**Dros bwysau gyda mynegai màs y corff o 25+**	**Gordew gyda mynegai màs y corff o 30+**	**Gweithgarwch corfforol am 150 munud yr wythnos**	**Bwyta pump y dydd**
Awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf	199,852[305]	25%	16%	65%	28%	54%	22%
Cymru	2,641,000[306]	20%	16%	62%	25%	56%	29%

Mae hyn yn awgrymu bod llai o ymddygiadau cadarnhaol ffordd o fyw yn gyffredin yn y Rhondda o'i chymharu â Chymru gyfan, megis nifer uwch o bobl sy'n ysmygu (gan gynnwys e-sigaréts) (5.0% yn uwch), mwy o bobl sy'n dweud eu bod dros eu pwysau a/neu'n ordew (3.0% yn uwch), llai o bobl yn ymgymryd â gweithgarwch corfforol (2.0% yn is) a llai o bobl yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd (7.0% yn is) na Chymru gyfan. Fodd bynnag, mae yfed gormodol yn cydredeg â gweddill Cymru.

12.3 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol o fewn ardal y clwstwr


Mae saith fferyllfa yng nghlwstwr Gogledd Cwm Cynon sy'n cael eu gweithredu gan dri chontractwr gwahanol.

Yn 2024/25, cyflenwyd 89.6% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Gogledd Cwm Cynon gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cyflenwyd 89.8% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Gogledd Cwm Cynon gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr.

[305] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024
[306] Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2025 - Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024

Map 12.1: Lleoliad safleoedd fferyllfa o fewn y clwstwr



Daearyddiaeth a Thechnoleg 022.26-27 Dyddiad 2026-9-11

© Hawlfraint a hawl cronfa ddata 2026. Arolwg Ordnans AC0000849488. Llywodraeth Cymru

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr asesiad o anghenion fferyllol a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad bod y fferyllfeydd yn y clwstwr hwn mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, ac o fewn ardaloedd o amddifadedd uwch neu gerllaw. Yn ogystal, gallai pob preswylydd gyrraedd un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn 20 munud, a'r mwyafrif o fewn 15 munud. Mae dwy ardal lle mae'n cymryd mwy nag 20 munud i gyrraedd fferyllfa, ac mae'r ardaloedd hyn yn fryniog neu fynyddig gyda darnau o goetir, ac yn annhebygol o fod yn boblog iawn. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd wedi newid, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y

casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae trigolion yn dal i allu cyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae un fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae tair fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ar fore Sadwrn
- Mae tair fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor y fferyllfeydd, dangosir yr ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod.

Tabl 12.7: Oriau agor a chau fferyllfeydd

Dyddiau	Ystod oriau agor	Ystod oriau cau
Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener	9.00am i 9.30am	5.30pm i 6.00pm
Dydd Iau	9.00am i 9.30am	1.00pm i 6.00pm
Dydd Sadwrn	9.00am i 9.30am	1.00pm i 5.30pm

- Mae dwy fferyllfa yn cau am 1.00pm ar ddydd Iau
- Mae pum fferyllfa yn cau nos Iau am:
    - Mae un fferyllfa'n cau am 5.00pm
    - Mae un fferyllfa'n cau am 5.30pm
    - Mae tair fferyllfa'n cau am 6.00pm
- Mae pedair fferyllfa yn agor ar ddydd Sadwrn ac yn cau am:
    - Mae tair fferyllfa'n cau am 1.00pm
    - Mae un fferyllfa'n cau am 5.30pm

Mae un fferyllfa yn cael ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth canlynol y tu allan i oriau.

- Nosweithiau yn ystod yr wythnos rhwng 6.00pm a 7.00pm
- Dydd Sul rhwng 11.30am a 12.30pm
- Gwyliau banc rhwng 11.30am a 12.30pm

Gellir dod o hyd i fanylion llawn oriau agor fferyllfeydd yn Atodiad L.

Ymatebodd yr holl fferyllfeydd i'r holiadur contractwr, a chymerwyd yr wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Mae chwech yn hygyrch i gadair olwyn ac yn cynnwys ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadair olwyn. Mae gan y seithfed waith wedi'i drefnu a fydd yn sicrhau bod y fferyllfa a'r ardal ymgynghori yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae'r holl ardaloedd ymgynghori yn:

- ystafelloedd caeedig,

- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad yn arferol o uchel heb gael eu clywed, ac
- wedi'u dynodi'n glir yn ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd dwy fferyllfa fod ganddyn nhw siaradwyr Cymraeg ymysg eu staff. Mae gan un fferyllfa hefyd staff sy'n siarad Bengaleg.

Mae'r saith fferyllfa i gyd yn cyflenwi pob math o offer.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu:

- mae pob un o'r 7 fferyllfa yn casglu presgripsiynau gan feddygfeydd teulu.
- Mae chwech yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais, ac un yn ei ddarparu am ffi.

Nid oedd unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol presennol nad ydynt yn cael eu darparu yn yr ardal ar hyn o bryd.

Awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau newydd nad ydynt ar gael ar hyn o bryd oedd gwasanaeth oedi mislif a gwasanaeth tynnu cwyr clust, gan fod cleifion yn gofyn am y ddau ohonynt.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt gapasiti i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol, mae gan chwe fferyllfa ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw, ond nid oes gan y seithfed a fyddai'n ei chael yn anodd ymdopi â chynnydd yn y galw.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r safle neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, dywedodd pedair fod ganddynt.

- Nod un yw hyrwyddo'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig i'w gleifion, mae ar fin lansio'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol, a hefyd yn bwriadu cynnig gwasanaeth tynnu cwyr clust preifat. Mae eisoes yn darparu gwasanaeth rheoli pwysau preifat.
- Mae un yn ceisio recriwtio fferyllydd parhaol a phresgripsiynydd annibynnol.
- Mae un arall yn ceisio sefydlu ei gynnig gwasanaethau GIG, gyda fferyllydd newydd wedi'i recriwtio sydd wedi dechrau'r hyfforddiant presgripsiynydd annibynnol. Bydd y fferyllydd hwn yn ategu'r presgripsiynydd annibynnol presennol er mwyn estyn y gwasanaeth. Mae'n datblygu gwasanaeth rheoli pwysau preifat a lansiwyd yn ddiweddar ac yn ystyried cynnig pigiadau fitamin B12 fel gwasanaeth preifat.
- Mae'r bedwaredd fferyllfa wedi penodi fferyllydd yn ddiweddar sydd wrthi'n cofrestru ar y cwrs presgripsiynwyr annibynnol. Ar ôl cymhwyso, bydd y gwasanaeth presgripsiynu annibynnol yn cael ei gynnig. Mae nifer yr ymgynghoriadau a ddarperir gan y fferyllydd yn cynyddu'n raddol.

12.3.1 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer

12.3.1.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Nid yw'r un o'r saith fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

12.3.1.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r saith fferyllfa i gyd wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 4,139 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 229 i 1,334)
- 559 o ymgynghoriadau ar gyfer profi a thrin dolur gwddf, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 271)
- 85 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 4 i 34)
- 350 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu brys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 9 i 101)
- 1,283 o gyflenwadau meddyginiaeth frys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 6 i 357)

Yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 2,331 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 154 i 771)
- 131 o ymgynghoriadau ar gyfer profi a thrin dolur gwddf, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 6 i 59)
- 98 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 4 i 29)
- 175 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu brys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 6 i 58)
- 760 o gyflenwadau meddyginiaeth frys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 7 i 313)

12.3.1.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Darparodd pob un o'r saith fferyllfa y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 159 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 4 i 61).

Darparodd y saith fferyllfa i gyd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 37 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 13).

12.3.1.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae'r saith fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pob un o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 764 o frechiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 40 i 181).

Darparodd chwe fferyllfa'r gwasanaeth ym mis Hydref a mis Tachwedd 2025, gan ddarparu cyfanswm o 569 o frechiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 237).

12.3.1.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Darparodd pedair o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gyflenwi cyfanswm o 71 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 40).

Darparodd un o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, gan gyflenwi cyfanswm o chwe phecyn.

12.3.1.6 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd

Mae dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd un fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 52 ymgynghoriad.

Darparodd un fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 308 o ymgynghoriadau. (Fferyllfa wahanol i'r un a ddarparodd y gwasanaeth yn 2024/25).

12.3.1.7 Gwasanaeth addasu stoma

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

12.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

12.3.2.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac wedi darparu'r gwasanaeth yn 2024/25, gan sgrinio saith gwaith. Fe sgriniodd deirgwaith yn ystod saith mis cyntaf 2025/26.

12.3.2.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Mae tair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd un fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 29 pecyn.

Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26.

12.3.2.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, nac yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26.

12.3.2.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26.

12.3.2.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae'r saith fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pob fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu siartiau i 60 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 12).

Darparodd pum fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu siartiau i 25 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 7).

12.3.2.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae tair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd un fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 251 o ddarpariaethau, ac roedd yr un fferyllfa yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 wedi darparu cyfanswm o 160 o ddarpariaethau.

12.3.2.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd chwech o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi cyfanswm o 331 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 16 i 116).

Darparodd pedair fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 30 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 17).

12.3.2.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd chwe fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi cyfanswm o 324 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 27 i 134).

Darparodd tair fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 75 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 21 i 28).

12.3.2.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd chwe fferyllfa'r gwasanaeth i 818 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 46 i 235), gan oruchwylio cyfanswm o 7,173 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 376 i 2,683).

Yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd pum fferyllfa y gwasanaeth i 299 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 22 i 91), gan oruchwylio cyfanswm o 1,896 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 111 i 646).

12.3.2.10 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

12.3.2.11 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 2 (wedi'i wella)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

12.3.2.12 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Mae chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd chwe fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 935 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 45 i 438).

Darparodd chwe fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod chwe mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 412 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 134).

12.4 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol y tu allan i ardal y clwstwr

Efallai y bydd rhai preswylwyr yn dewis cyrchu contractwyr y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gwasanaethau:

- Wedi'u cynnig gan gontractwyr offer cyflenwi.
- Sy'n agos at eu mannau gwaith, siopa, neu fannau y maent yn ymweld â nhw at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y tair meddygfa deulu yn 2024/25 wedi'u cyflenwi gan y saith fferyllfa yn y clwstwr (89.6%), cyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 6.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De Cwm Cynon

- 2.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Taf Elái
- 0.4% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- 0.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Merthyr
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu eu cyflenwi gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (89.8%), a chyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 6.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De Cwm Cynon
- 2.5% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Taf Elái
- 0.5% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.2% gan fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- 0.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Merthyr
- 0.1% gan fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 0.1% gan fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Yn ogystal, efallai y bydd preswylwyr wedi cael un neu ragor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl meintioli'r gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

12.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

12.6 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 12.3 a 12.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi'u cofrestru gydag un o'r meddygfeydd teulu yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i gyflenwi eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael at fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i gyflenwi gan fferyllfa neu gontractwr offer y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 278 o gontractwyr a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Gogledd Cwm Cynon, yr oedd 189 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 4,207 o eitemau presgripsiwn eu cyflenwi yn Lloegr.

Gwnaeth cyfanswm o 291 o gontractwyr a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2025/26 (hyd at fis Rhagfyr 2025) gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Gogledd Cwm Cynon, yr oedd 174 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 3,517 o eitemau presgripsiwn eu cyflenwi yn Lloegr.

12.7 Datblygiadau tai

Nid oes unrhyw ddatblygiadau tai wedi'u nodi.

12.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau fferyllol a ddarperir mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod gan chwe fferyllfa ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw, ond nid oes gan y seithfed a fyddai'n ei chael yn anodd ymdopi â chynnydd yn y galw.

12.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr a'r ffaith y gall y boblogaeth gyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud, a'r mwyafrif o fewn 15 munud. Er nodi nad oes car ar gael i bob aelwyd trwy gydol y dydd, mae natur y clwstwr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o drigolion ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Oriau agor y fferyllfeydd.
- Y diffyg datblygiadau tai hysbys.

Yn seiliedig ar yr uchod, ac yn arbennig ledaeniad presennol oriau agor fferyllfeydd trwy gydol yr wythnos, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaethau hanfodol o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y datblygiadau tai hysbys a fydd yn darparu tai yn y clwstwr yn ystod oes y ddogfen hon, ac y gallai rhai ddarparu tai y tu hwnt i fis Hydref 2031. Mae'n fodlon y bydd yr angen am wasanaethau hanfodol gan y rhai sy'n symud i'r tai newydd yn cael ei ddiwallu gan y fferyllfeydd presennol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

12.8.2 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer

12.8.2.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd

Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr hwn yn 2024/25, ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Yn ogystal, o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, cyflenwyd 91.8% gan gontractwyr offer cyflenwi ac 88.9% yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26.

Mae unigolion y mae angen y gwasanaeth adolygu defnydd offer arnynt yn debygol o gyrchu'r gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n cyflenwi eu presgripsiynau ar gyfer offer neu gallant ei gyrchu gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

12.8.2.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y saith fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pob un wedi'i ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

12.8.2.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y saith fferyllfa i gyd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

12.8.2.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y saith fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pob un wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr. Gan fod meddygfeydd teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth hwn, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

12.8.2.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pedair o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth

hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod y gwasanaeth hwn ar gael i grwpiau cleifion penodol yn unig. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

12.8.2.6 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod dwy ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26. Mae gan ddwy fferyllfa arall fferyllwyr sy'n hyfforddi i fod yn bresgripsiynwyr annibynnol (Mawrth 2026) ac mae trydedd yn ceisio recriwtio fferyllydd sy'n bresgripsiynydd annibynnol.

Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau interim o 50% o fferyllfeydd erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn 2029. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y rhagwelir, o 2026. y bydd pob fferyllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys yn bresgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y targed o 50% i fod i gael ei gyrraedd erbyn mis Ebrill 2027. Bydd yn gweithio gyda chontractwyr er mwyn cynyddu nifer y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

12.8.2.7 Gwasanaeth addasu offer stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr hwn yn 2024/25 ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

O'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, cyflenwyd 91.8% gan gontractwyr offer cyflenwi ac 88.9% yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl y gofyn cyn ei anfon neu ddosbarthu i gleifion.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

12.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

12.8.3.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac wedi'i ddarparu yn 2025/26. Caiff y gwasanaeth ei gomisiynu mewn ardaloedd lle mae galw mawr am y rhaglenni nodwyddau a chwistrellu.

Fodd bynnag, mae gwasanaethau sgrinio firysau a gludir yn y gwaed ar gael drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis clinigau iechyd rhywiol, meddygfeydd teulu, archebu pecynnau profion cartref ac ôl-sgrinio ar-lein drwy Iechyd Rhywiol Cymru neu gasglu pecynnau sgrinio o leoliadau cymunedol ar draws y bwrdd iechyd. Mae nifer o fferyllfeydd ar draws y bwrdd iechyd yn cadw stoc o'r pecynnau prawf ac ôl-sgrinio, gan sicrhau eu bod ar gael yn gyfleus i'r rhai y mae'n well ganddynt gael opsiwn mwy cynnil neu hyblyg.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

12.8.3.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod un wedi'i ddarparu yn 2025/26. Mae fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaeth cyflenwi iddynt.
Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

12.8.3.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2025/26. Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu ar sail y galw.

Mae gwasanaethau ar gael o fewn y clwstwr drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis tîm Merthyr a Chynon sy'n gofalu am gleifion sy'n byw yn eu cartrefi a chartrefi nyrsio. Maent hefyd yn darparu gofal lliniarol arbenigol i gleifion mewnol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac unrhyw ysbytai cymunedol eraill, a thrwy fferyllfeydd y tu allan i'r clwstwr sydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

12.8.3.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

12.8.3.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r saith fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a phob un wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai fferyllfa'n rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau, y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth gael ei ddarparu i drigolion cymwys y dref/pentref hwnnw. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os:

- Gellir diwallu'r angen gan un neu fwy o fferyllfeydd sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Mae darparwyr eraill sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Byddai caniatáu cais i gael ei gynnwys yn y rhestr fferyllol sy'n cynnig diwallu'r angen hwn yn arwain at gynnydd annymunol yn argaeledd gwasanaethau hanfodol yn y dref/pentref hwnnw.

12.8.3.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod un wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu gan y bwrdd iechyd ar sail strategol, gan sicrhau ei ddarparu o fewn ardaloedd mewn angen.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

12.8.3.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

12.8.3.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth, a bod chwe fferyllfa wedi'i ddarparu yn 2025/26. Nododd fod

fferyllfeydd ymhlith amrywiaeth o ddarparwyr y gwasanaeth gan gynnwys gwasanaethau Helpa fi i stopio i'r babi a Helpa fi i stopio yn yr ysbyty.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

12.8.3.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod chwe fferyllfa wedi'i ddarparu yn 2025/26. Darperir y gwasanaeth ar sail y galw.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

12.8.3.10 Gwasanaethau meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth lefel 1 na'r gwasanaeth lefel 2 yn 2025/26.

Oherwydd natur y gwasanaeth, caiff ei gomisiynu i sicrhau lledaeniad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y bwrdd iechyd.

Nid yw'r bwrdd iechyd felly wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

12.8.3.11 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod chwe fferyllfa wedi'i ddarparu yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

13 Clwstwr De Cwm Cynon

13.1 Trosolwg

Clwstwr De Cwm Cynon yw'r lleiaf o'r pedwar clwstwr yn Rhondda Cynon Taf. Mae De Cwm Cynon yn gwasanaethu poblogaeth o 26,664[307], a hynny'n bennaf mewn ardaloedd trefol gyda phocedi o wledigrwydd. Ceir wyth fferyllfa yn y clwstwr a phedair meddygfa deulu.

Cynyddodd poblogaeth awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf 1.4% o ryw 234,400 yn 2011 i 237,700 yn 2021[308]. Roedd hyn yr un fath â'r cynnydd cyffredinol ar gyfer Cymru. Y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth rhwng 2022 a 2032 yw 4.9% ar draws pob grŵp oedran, gyda phoblogaeth ddisgwyliedig o 251,235 erbyn 2032.

Mae gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf ddisgwyliad oes is adeg genedigaeth ar gyfer menywod (80.7 oed) a dynion (76.9 oed) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 81.8 oed (menywod) a 77.9 oed (dynion).

Mae gan glwstwr De Cwm Cynon lefel uwch o amddifadedd a thlodi o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru.

Mae amddifadedd wedi'i grynhoi'n drwm yng nghlwstwr De Cwm Cynon - mae 41.5% o drigolion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru o'u cymharu ag 20.7% ledled Cymru a 24.7% ar draws y bwrdd iechyd.

Mae gan glwstwr De Cwm Cynon broffil cymysg cadarnhaol o gyflyrau iechyd hirdymor yn seiliedig ar gyffredinrwydd amcangyfrifedig, o'i gymharu â'r bwrdd iechyd a Chymru yn gyffredinol:

- Yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru o ran asthma, ffibriliad atrïaidd, clefyd coronaidd y galon, dementia, methiant y galon, iechyd meddwl a strôc a phyliau o isgemia dros dro
- Yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru o ran clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, diabetes, a gorbwysedd.

Mae ymddygiadau ffordd o fyw o fewn y boblogaeth oedolion (16 oed a hŷn) ledled Rhondda Cynon Taf, a gofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[309] ac a ddisgrifir ym mhroffil iechyd adran 13.2.4, yn datgelu heriau parhaus. Er enghraifft, mae trigolion yn ysmygu mwy (gan gynnwys e-sigaréts), yn fwy dros eu pwysau ac yn ordew, yn gwneud llai o weithgarwch corfforol ac yn bwyta llai o ffrwythau a llysiau na Chymru gyfan. Fodd bynnag, mae yfed gormodol yn cydredeg â gweddill Cymru.

[307] Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - dadansoddi practisiau meddyg teulu a chofrestriadau cleifion yn ôl practis (Ionawr 2026).
[308] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Sut newidiodd y boblogaeth yn Rhondda Cynon Taf: Cyfrifiad 2021
[309] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)

13.2 Nodweddion allweddol y boblogaeth

13.2.1 Amcanestyniadau poblogaeth 2022 i 2032

Amcanestynnir y bydd poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn cynyddu hyd at 4.9% rhwng 2022 (239,494) a 2032 (251,235).

Rhagwelir y bydd awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, erbyn 2032[310] yn:

- Gweld gostyngiad yn nifer y bobl rhwng 0 a 15 oed
- Bod yn un o wyth awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf a ragwelir yn y boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 a 64 oed
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 65 oed a throsodd
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 75 oed a throsodd

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn cael ei yrru'n bennaf gan fudo net, h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Disgwylir i nifer y genedigaethau leihau a nifer y marwolaethau gynyddu, gan arwain at newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau).

13.2.2 Cyfanswm disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a'r 'bwlch anghydraddoldeb' (2022 i 2022)

- Mae gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf ddisgwyliad oes is adeg genedigaeth ar gyfer menywod a dynion o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (tabl 13.1).
- Mae disgwyliad oes iach[311] a ddiffinnir fel nifer y blynyddoedd y gall person ddisgwyl byw mewn iechyd da yn cael ei fesur ar lefel awdurdod lleol. Ar gyfer Rhondda Cynon Taf, mae'n 57.3 oed i ddynion a 56.1 oed i fenywod. I Gymru, y disgwyliad oes iach yw 60.8 oed i ddynion a 60.2 oed i fenywod.
- Cyfeirir at y gwahaniaethau mewn disgwyliad oes iach sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig fel y 'bwlch anghydraddoldeb'. Y bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach yn Rhondda Cynon Taf yw 6.9 mlynedd i ddynion a 5.3 mlynedd i fenywod[312].

[310] Llywodraeth Cymru - Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol: sail-2022
[311] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Disgwyliad oes iach, y DU: rhwng 2011 a 2013 a rhwng 2022 a 2024
[312] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus 2025

Tabl 13.1: Cyfanswm disgwyliad oes adeg genedigaeth menywod a dynion, 2020 i 2022[313]

Ardal	Benywod adeg genedigaeth (oed)	Gwrywod adeg genedigaeth (oed)
Awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf	80.7	76.9
Cymru	81.8	77.9

Ymwadiad: Er bod y data a gyflwynir o ran disgwyliad oes iach yn dangos ffigurau ar gyfer 2024, defnyddiwyd data o'r blynyddoedd 2020 i 2022 i sicrhau cysondeb a chymharedd ar draws pob blwyddyn.

13.2.3 Amddifadedd

Mae'r cysylltiad rhwng amddifadedd ac iechyd gwael wedi'i ddogfennu'n dda. O'r pedwar clwstwr yn Rhondda Cynon Taf, De Cwm Cynon sydd â'r crynodiad uchaf o bobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (41.5%), sy'n uwch na'r bwrdd iechyd yn ei gyfanrwydd (24.7%).

Fodd bynnag, mae ardaloedd bach o amddifadedd 'dwfn'[314] sydd wedi aros o fewn y 50 ardal fwyaf difreintiedig frig yng Nghymru, sy'n hafal yn fras i'r 2.6% brig o ardaloedd bach yng Nghymru ar gyfer y chwe chyhoeddiad diwethaf (2005, 2008, 2011, 2014, 2019 a 2025) o safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Lle mae ardaloedd o amddifadedd yn bodoli, mae'r boblogaeth yn debygol o fod yn destun yr iechyd gwaethaf.

Dengys y tabl isod y ganran amcangyfrifedig o bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng nghlwstwr De Cwm Cynon, o gymharu â'r bwrdd iechyd.

Tabl 13.2: Amcangyfrif o'r ganran o gleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Ne Cwm Cynon a'r bwrdd iechyd (2025)[315]

Ardal	Canran
De Cwm Cynon	41.5%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	24.7%

13.2.4 Proffil iechyd

Mae clefydau anhrosglwyddadwy[316], a elwir hefyd yn glefydau cronig, fel arfer yn hirdymor a chronig eu natur, sy'n deillio o gymysgedd o ddylanwadau genetig,

[313] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus -Disgwyliad oes dynion a menywod (2020 i 2022)
[314] Llywodraeth Cymru Rhagfyr 2025 - Adroddiad canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025: mynegai cyffredinol
[315] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[316] Sefydliad Iechyd y Byd Medi 2025 - Clefydau anhrosglwyddadwy

ffisiolegol, amgylcheddol ac ymddygiadol. Gall y cyflyrau hyn effeithio'n sylweddol ar ansawdd bywyd ac yn aml mae angen sylw a rheolaeth feddygol arnynt. Y prif gategorïau o glefydau cronig yw:

- Clefydau cardiofasgwlaidd (fel trawiadau ar y galon a strôc)
- Canserau
- Clefydau anadlol cronig (megis clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac asthma)
- Diabetes

Dengys y tabl isod amcangyfrif o gyffredinrwydd clefydau cronig yn Ne Cwm Cynon o'i gymharu â'r bwrdd iechyd a Chymru.

Tabl 13.3: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[317]

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phyliau o isgemia dros dro
De Cwm Cynon	6.5%	3.5%	3.1%	10.0%	1.0%	2.0%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	7.5%	3.6%	2.6%	9.0%	1.2%	2.4%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Dengys y tabl isod ganran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia. Mae iechyd meddwl a dementia ill dau yn is yn Ne Cwm Cynon na'r cyfartaledd ar gyfer y bwrdd iechyd a Chymru.

Tabl 13.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl a dementia, yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[318]

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
De Cwm Cynon	1.0%	0.5%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	1.1%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Dengys y tabl isod amcangyfrif o gyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd a gorbwysedd yn Ne Cwm Cynon o'i gymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru. Mae De Cwm Cynon yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru o

[317] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[318] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

ran ffibriliad atrïaidd (0.2% yn is) ond, mewn cyferbyniad, mae gorbwysedd yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.5% yn uwch) a chyfartaledd Cymru (1.5% yn uwch).

Tabl 13.5: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd a gorbwysedd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[319]

Ardal	Ffibriliad atrïaidd	Gorbwysedd
De Cwm Cynon	2.5%	17.8%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2.7%	17.3%
Cymru	2.7%	16.3%

Cyflwyna'r tabl isod ganran yr oedolion 16 oed a hŷn yn Rhondda Cynon Taf sydd wedi hunan-adrodd eu bod yn cymryd rhan mewn chwe ymddygiad ffordd o fyw allweddol, fel y cofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[320]. Mae'r wybodaeth hon yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr i'r arferion cyffredin a'r dewisiadau ffordd o fyw ymhlith y boblogaeth oedolion yn yr ardal.

Tabl 13.6: Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw yn ôl awdurdod lleol a Chymru rhwng 2021 a 2023

	Cyfrif	Cyffredinrwydd					
Ardal	Poblogaeth 16 oed a hŷn	Ysmygu (gan gynnwys e-sigaréts)	Yfed mwy na 14 uned yr wythnos	Dros bwysau gyda mynegai màs y corff o 25+	Gordew gyda mynegai màs y corff o 30+	Gweithgarwch corfforol am 150 munud yr wythnos	Bwyta pump y dydd
Awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf	199,852[321]	25%	16%	65%	28%	54%	22%
Cymru	2,641,000[322]	20%	16%	62%	25%	56%	29%

[319] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[320] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)
[321] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024
[322] Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2025 - Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024

Mae hyn yn awgrymu bod llai o ymddygiadau cadarnhaol ffordd o fyw yn gyffredin yn y Rhondda o'i chymharu â Chymru gyfan, megis nifer uwch o bobl sy'n ysmygu (gan gynnwys e-sigaréts) (5.0% yn uwch), mwy o bobl sy'n dweud eu bod dros eu pwysau a/neu'n ordew (3.0% yn uwch), llai o bobl yn ymgymryd â gweithgarwch corfforol (2.0% yn is) a llai o bobl yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd (7.0% yn is) na Chymru gyfan. Fodd bynnag, mae yfed gormodol yn cydredeg â gweddill Cymru.


13.3 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol o fewn ardal y clwstwr

Mae wyth fferyllfa yng nghlwstwr De Cwm Cynon sy'n cael eu gweithredu gan bedwar contractwr gwahanol.

Yn 2024/25, cyflenwyd 83.8% o'r eitemau presgripsiwn a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr De Cwm Cynon gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cyflenwyd 85.2% o'r eitemau presgripsiwn a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr De Cwm Cynon gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr.

Map 13.1: Lleoliad safleoedd fferyllfa o fewn y clwstwr



© Hawlfraint a hawl cronfa ddata 2026. Arolwg Ordnans AC0000849488. Llywodraeth Cymru

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr asesiad o anghenion fferyllol a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad bod y fferyllfeydd yn y clwstwr hwn mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, ac o fewn ardaloedd o amddifadedd uwch neu gerllaw. Yn ogystal, gallai pob preswylydd gyrraedd un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn 20 munud, a'r mwyafrif o fewn deg munud. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd wedi newid, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae trigolion yn dal i allu cyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae un fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae tair fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ar fore Sadwrn.
- Mae pedair fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener.

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor y fferyllfeydd, dangosir yr ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod.

Tabl 13.7: Oriau agor a chau fferyllfeydd

Dyddiau	Ystod oriau agor	Ystod oriau cau
Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener	9.00am	5.30pm i 6.00pm
Dydd Iau	9.00am	1.00pm i 6.00pm
Dydd Sadwrn	9.00am	12.30pm i 5.30pm
Dydd Sul	Ar gau	Ar gau

- Mae 7 fferyllfa yn cau am 6.00pm ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener
- Mae 4 fferyllfa yn cau am 1.00pm ar ddydd Iau
- Mae 3 fferyllfa yn cau am 6.00pm ar ddydd Iau
- Mae 4 fferyllfa ar agor ar ddydd Sadwrn; mae un yn cau am 5.30pm
- Nid yw’r un fferyllfa ar agor ar ddydd Sul

Gellir dod o hyd i fanylion llawn oriau agor fferyllfeydd yn Atodiad L.

Ymatebodd 5 fferyllfa i'r holiadur contractwr, a chymerwyd yr wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Mae’r pum fferyllfa i gyd yn hygyrch i gadair olwyn ac yn cynnwys ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadair olwyn. Mae’r holl ardaloedd ymgynghori yn:

- ystafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad yn arferol o uchel heb gael eu clywed, ac
- wedi’u dynodi'n glir yn ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Mae un fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddi siaradwyr Cymraeg yn ei staff. Nid oes unrhyw ieithoedd eraill, heblaw Saesneg, yn cael eu siarad gan staff.

Mae'r pum fferyllfa i gyd yn cyflenwi pob math o offer.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu, mae'r pum fferyllfa i gyd yn casglu presgripsiynau gan feddygfeydd teulu ac yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais.

Nid oedd unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol presennol nad ydynt yn cael eu darparu yn yr ardal ar hyn o bryd, nac awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau newydd nad ydynt ar gael ar hyn o bryd.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt gapasiti i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol, dywedodd y pum fferyllfa i gyd fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau a'u lefelau staffio.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r safle neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, dywedodd pedair fod ganddynt.

- Mae un wedi estyn ei hardal ymgynghori yn ddiweddar er mwyn darparu mwy o wasanaethau.
- Mae tair yn bwriadu parhau i ddatblygu’r dosbarthu ac ymwybyddiaeth cleifion o'r gwasanaethau a ddarperir.

13.3.1 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer

13.3.1.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Nid yw’r un o’r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

13.3.1.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae’r wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, nid yw pob un wedi darparu pob elfen.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 4,546 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 107 i 1,087)
- 406 o ymgynghoriadau ar gyfer profi a thrin dolur gwddf, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 132)
- 121 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 78)
- 177 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu brys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 11 i 46)
- 1,785 o gyflenwadau meddyginiaeth frys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 35 i 730)

Yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 2,964 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 33 i 806)
- 220 o ymgynghoriadau ar gyfer profi a thrin dolur gwddf, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 7 i 64)
- 133 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 58)
- 112 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu brys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 10 i 24)
- 982 o gyflenwadau meddyginiaeth frys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 20 i 302)

13.3.1.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Darparodd saith o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 284 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 6 i 126).

Darparodd chwech o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 165 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 66).

13.3.1.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae'r wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pob un o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 706 o frechiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 4 i 169).

Darparodd yr holl fferyllfeydd y gwasanaeth ym mis Hydref a mis Tachwedd 2025, gan ddarparu cyfanswm o 775 o frechiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 49 i 208).

13.3.1.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Darparodd pump o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gyflenwi cyfanswm o 239 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 5 i 198).

Darparodd pedair o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, gan gyflenwi cyfanswm o 84 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 66).

13.3.1.6 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd

Mae pedair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd tair fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,270 o ymgynghoriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 19 i 649).

Darparodd pedair fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 787 o ymgynghoriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 380).

13.3.1.7 Gwasanaeth addasu stoma

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

13.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

13.3.2.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

13.3.2.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

13.3.2.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae pump o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd tair fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o saith pecyn (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 5).

Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26.

13.3.2.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ond nid oedd yr un ohonynt wedi'i ddarparu yn ystod saith mis cyntaf 2025/26.

13.3.2.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae'r wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd yr holl fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu siartiau i 68 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 13).

Darparodd pob fferyllfa y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu siartiau i 40 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 7).

13.3.2.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae tair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd dwy fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 158 o ddarpariaethau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 22 i 136).

Darparodd yr un ddwy fferyllfa gyfanswm o 118 o ddarpariaethau yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 21 i 97).

13.3.2.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae'r wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd chwech o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi cyfanswm o 286 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 11 i 108).

Darparodd pedair fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 54 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 7 i 17).

13.3.2.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd chwech o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi cyfanswm o 584 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 45 i 188).

Darparodd pum fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 142 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 8 i 47).

13.3.2.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd pum fferyllfa y gwasanaeth i 289 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 128), gan oruchwylio cyfanswm o 2,274 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 58 i 918).

Yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd pedair fferyllfa y gwasanaeth i 185 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 11 i 74), gan oruchwylio cyfanswm o 1,568 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 171 i 681).

13.3.2.10 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

13.3.2.11 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 2 (uwch)

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

13.3.2.12 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Darparodd pob un o'r wyth fferyllfa y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,119 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 403).

Darparodd saith o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod chwe mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 645 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 7 i 308).

13.4 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol y tu allan i ardal y clwstwr

Efallai y bydd rhai preswylwyr yn dewis cyrchu contractwyr y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gwasanaethau:

- Wedi'u cynnig gan gontractwyr offer cyflenwi.
- Sy'n agos at eu mannau gwaith, siopa, neu fannau y maent yn ymweld â nhw at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yn 2024/25 wedi'u cyflenwi gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (83.8%), cyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 13.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Cwm Cynon
- 1.5% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Taf Elái
- 0.4% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu eu cyflenwi gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (85.2%), a chyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 12.0% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Cwm Cynon
- 1.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Taf Elái
- 0.5% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Yn ogystal, efallai y bydd preswylwyr wedi cael un neu ragor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl meintioli'r gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

13.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

13.6 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 13.3 a 13.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi'u cofrestru gydag un o'r meddygfeydd teulu yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i gyflenwi eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael at fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i gyflenwi gan fferyllfa neu gontractwr offer y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 212 o gontractwyr a oedd yn masnachu yn 2024/25 gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr De Cwm Cynon, yr oedd 130 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 3,363 o eitemau eu cyflenwi yn Lloegr.

Gwnaeth cyfanswm o 194 o gontractwyr a oedd yn masnachu yn 2025/26 (hyd at fis Rhagfyr 2025) gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr De Cwm Cynon, yr oedd 98 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 2,626 o eitemau eu cyflenwi yn Lloegr.

13.7 Datblygiadau tai

Nid oes unrhyw ddatblygiadau tai wedi'u nodi.

13.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau fferyllol a ddarperir mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pum fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd a'u lefelau staffio.

13.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr a'r ffaith y gall y boblogaeth gyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud, a'r mwyafrif o fewn deg munud. Er nodi nad oes car ar gael i bob aelwyd trwy gydol y dydd, mae natur y clwstwr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o drigolion ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Oriau agor y fferyllfeydd.
- Y diffyg datblygiadau tai hysbys.

Yn seiliedig ar yr uchod, ac yn arbennig ledaeniad presennol oriau agor fferyllfeydd trwy gydol yr wythnos, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaethau hanfodol o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y datblygiadau tai hysbys a fydd yn darparu tai yn y clwstwr yn ystod oes y ddogfen hon, ac y gallai rhai ddarparu tai y tu hwnt i fis Hydref 2031. Mae'n fodlon y bydd yr angen am wasanaethau hanfodol gan y rhai sy'n symud i'r tai newydd yn cael ei ddiwallu gan y fferyllfeydd presennol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

13.8.2 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer

13.8.2.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr hwn yn 2025/26. Mae un o'r contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn ogystal, o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, cyflenwyd 93.1% gan gontractwyr offer cyflenwi a 91.9% yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Mae unigolion y mae angen y gwasanaeth adolygu defnydd offer arnynt yn debygol o gyrchu'r gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n cyflenwi eu presgripsiynau ar gyfer offer neu gallant ei gyrchu gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

13.8.2.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos.

Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

13.8.2.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

13.8.2.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr. Gan fod meddygfeydd teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth hwn, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

13.8.2.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pump o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod y gwasanaeth hwn ar gael i grwpiau cleifion penodol yn unig. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

13.8.2.6 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pedair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau interim o 50% o fferyllfeydd erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn 2029. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y rhagwelir, o 2026. y bydd pob fferyllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys yn bresgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y targed o 50% i fod i gael ei gyrraedd erbyn mis Ebrill 2027. Bydd yn gweithio gyda chontractwyr er mwyn cynyddu nifer y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth

fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

13.8.2.7 Gwasanaeth addasu offer stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr hwn yn 2024/25 ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Fodd bynnag, o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, cyflenwyd 93.1% gan gontractwyr offer cyflenwi a 91.9% yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl y gofyn cyn ei anfon neu ddosbarthu i gleifion.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

13.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

13.8.3.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Caiff y gwasanaeth ei gomisiynu mewn ardaloedd lle mae galw mawr am y rhaglenni nodwyddau a chwistrellu.

Mae gwasanaethau sgrinio firysau a gludir yn y gwaed ar gael drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis clinigau iechyd rhywiol, meddygfeydd teulu, archebu pecynnau profion cartref ac ôl-sgrinio ar-lein drwy Iechyd Rhywiol Cymru neu gasglu pecynnau sgrinio o leoliadau cymunedol ar draws y bwrdd iechyd. Mae nifer o fferyllfeydd ar draws y bwrdd iechyd yn cadw stoc o'r pecynnau prawf ac ôl-sgrinio, gan sicrhau eu bod ar gael yn gyfleus i'r rhai y mae'n well ganddynt gael opsiwn mwy cynnil neu hyblyg.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

13.8.3.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaeth cyflenwi iddynt.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

13.8.3.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pump o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu ar sail y galw.

Mae gwasanaethau ar gael o fewn y clwstwr drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis tîm Merthyr a Chynon sy'n gofalu am gleifion sy'n byw yn eu cartrefi a chartrefi nyrsio. Maent hefyd yn darparu gofal lliniarol arbenigol i gleifion mewnol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac unrhyw ysbytai cymunedol eraill, a thrwy fferyllfeydd y tu allan i'r clwstwr sydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

13.8.3.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

13.8.3.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai fferyllfa'n rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau, y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth gael ei ddarparu i drigolion cymwys y dref/pentref hwnnw. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os:

- Gellir diwallu'r angen gan un neu fwy o fferyllfeydd sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Mae darparwyr eraill sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Byddai caniatáu cais i gael ei gynnwys yn y rhestr fferyllol sy'n cynnig diwallu'r angen hwn yn arwain at gynnydd annymunol yn argaeledd gwasanaethau hanfodol yn y dref/pentref hwnnw.

13.8.3.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod dwy ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu gan y bwrdd iechyd ar sail strategol, gan sicrhau ei ddarparu o fewn ardaloedd mewn angen.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

13.8.3.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod chwech ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

13.8.3.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod chwech ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26. Nododd fod fferyllfeydd ymhlith amrywiaeth o ddarparwyr y gwasanaeth gan gynnwys gwasanaethau Helpa fi i stopio i'r babi a Helpa fi i stopio yn yr ysbyty.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

13.8.3.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pump ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26. Darperir y gwasanaeth ar sail y galw.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

13.8.3.10 Gwasanaethau meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth lefel 1 na'r gwasanaeth lefel 2.

Oherwydd natur y gwasanaeth, caiff ei gomisiynu i sicrhau lledaeniad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y bwrdd iechyd.

Nid yw'r bwrdd iechyd felly wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

13.8.3.11 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr wyth fferyllfa i gyd wedi cofrestru i ddarparu'r

gwasanaeth hwn, a bod pob un wedi'i ddarparu yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

14 Clwstwr Cwm Rhondda

14.1 Trosolwg

Mae clwstwr Cwm Rhondda yn gwasanaethu poblogaeth o 88,336[323] a hynny'n bennaf mewn ardaloedd trefol gyda phocedi o wledigrwydd. Ceir 27 o fferyllfeydd yn y clwstwr a deg meddygfa deulu.

Cynyddodd poblogaeth awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf 1.4% o ryw 234,400 yn 2011 i 237,700 yn 2021[324]. Roedd hyn yr un cynnydd cyffredinol ag ar gyfer Cymru. Y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth rhwng 2022 a 2032 yw 4.9% ar draws pob grŵp oedran, gyda phoblogaeth ddisgwyliedig o 251,235 erbyn 2032.

Mae gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf ddisgwyliad oes is adeg genedigaeth ar gyfer menywod (80.7 oed) a dynion (76.9 oed) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 81.8 oed (menywod) a 77.9 oed (dynion).

Mae amddifadedd wedi'i grynhoi'n drwm yng nghlwstwr Gogledd a De Cwm Rhondda - mae 38.0% o drigolion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru o'u cymharu ag 20.7% ledled Cymru a 24.7% ar draws y bwrdd iechyd.

Mae gan Ogledd a De Cwm Rhondda broffiliau cymysg o gyflyrau iechyd hirdymor yn seiliedig ar gyffredinrwydd amcangyfrifedig, o'u cymharu â'r bwrdd iechyd a Chymru yn gyffredinol.

- Gogledd Cwm Rhondda
    - Mae methiant y galon yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru.
    - Yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru mewn ffibriliad atrïaidd, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, clefyd coronaidd y galon, diabetes, gorbwysedd, iechyd meddwl a strôc a phyliau o isgemia dros dro.
    - Mae dementia yn cydredeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd ond mae'n is na Chymru
    - Mae asthma yn cydredeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd ond mae'n uwch na Chymru

- De Cwm Rhondda
    - Yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru mewn ffibriliad atrïaidd a methiant y galon
    - Yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru mewn asthma, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, clefyd coronaidd y galon a diabetes

[323] Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - dadansoddi practisiau meddyg teulu a chofrestriadau cleifion yn ôl practis (Ionawr 2026).
[324] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Sut newidiodd y boblogaeth yn Rhondda Cynon Taf: Cyfrifiad 2021

- Mae strôc a phyliau o isgemia dros dro yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn cydredeg â chyfartaledd Cymru
- Mae dementia yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn cydredeg â chyfartaledd Cymru
- Mae gorbwysedd yn cydredeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd, ond mae'n uwch na chyfartaledd Cymru
- Mae iechyd meddwl yn cydredeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru.

Mae ymddygiadau ffordd o fyw o fewn y boblogaeth oedolion (16 oed a hŷn) ledled Rhondda Cynon Taf, a gofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[325] ac a ddisgrifir ym mhroffil iechyd adran 14.2.4, yn datgelu heriau parhaus. Er enghraifft, mae trigolion yn ysmygu mwy (gan gynnwys e-sigaréts), yn fwy dros eu pwysau ac yn ordew, yn gwneud llai o weithgarwch corfforol ac yn bwyta llai o ffrwythau a llysiau na Chymru gyfan. Fodd bynnag, mae yfed gormodol yn cydredeg â gweddill Cymru.

14.2 Nodweddion allweddol y boblogaeth

14.2.1 Amcanestyniadau poblogaeth 2022 i 2032

Amcanestynnir y bydd poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn cynyddu hyd at 4.9% rhwng 2022 (239,494) a 2032 (251,235).

Rhagwelir y bydd awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, erbyn 2032[326] yn:

- Gweld gostyngiad yn nifer y bobl rhwng 0 a 15 oed
- Bod yn un o wyth awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf a ragwelir yn y boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 a 64 oed
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 65 oed a throsodd
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 75 oed a throsodd

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn cael ei yrru'n bennaf gan fudo net, h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Disgwylir i nifer y genedigaethau leihau a nifer y marwolaethau gynyddu, gan arwain at newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau).

14.2.2 Cyfanswm disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a'r 'bwlch anghydraddoldeb' (2020 i 2022)

- Mae gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf ddisgwyliad oes is adeg genedigaeth ar gyfer menywod a dynion o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (tabl 14.1).

[325] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)
[326] Llywodraeth Cymru - Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol: sail-2022

- Mae disgwyliad oes iach[327], a ddiffinnir fel nifer y blynyddoedd y gall person ddisgwyl byw mewn iechyd da, yn cael ei fesur ar lefel awdurdod lleol. Ar gyfer Rhondda Cynon Taf, mae'n 57.3 oed i ddynion a 56.1 oed i fenywod. I Gymru, y disgwyliad oes iach yw 60.8 oed i ddynion a 60.2 oed i fenywod.
- Cyfeirir at y gwahaniaethau mewn disgwyliad oes iach sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig fel y 'bwlch anghydraddoldeb'. Y bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach yn Rhondda Cynon Taf yw 6.9 mlynedd i ddynion a 5.3 mlynedd i fenywod[328].

Tabl 14.1: Cyfanswm disgwyliad oes adeg genedigaeth menywod a dynion 2020 i 2022[329]

Ardal	Benywod adeg genedigaeth (oed)	Gwrywod adeg genedigaeth (oed)
Awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf	80.7	76.9
Cymru	81.8	77.9

Ymwadiad: Er bod y data a gyflwynir o ran disgwyliad oes iach yn dangos ffigurau ar gyfer 2024, defnyddiwyd data o'r blynyddoedd 2020 i 2022 i sicrhau cysondeb a chymharedd ar draws pob blwyddyn.

14.2.3 Amddifadedd

Mae'r cysylltiad rhwng amddifadedd ac iechyd gwael wedi'i ddogfennu'n dda. O'r pedwar clwstwr yn Rhondda Cynon Taf, Gogledd a De Cwm Rhondda sydd â'r ail grynodiad uchaf o bobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (38.0%), sy'n uwch na'r bwrdd iechyd yn ei gyfanrwydd (24.7%).

Fodd bynnag, mae ardaloedd bach o amddifadedd 'dwfn'[330] sydd wedi aros o fewn y 50 ardal fwyaf difreintiedig frig yng Nghymru, sy'n hafal yn fras i'r 2.6% brig o ardaloedd bach yng Nghymru ar gyfer y chwe chyhoeddiad diwethaf (2005, 2008, 2011, 2014, 2019 a 2025) o safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Lle mae ardaloedd o amddifadedd yn bodoli, mae'r boblogaeth yn debygol o fod yn destun yr iechyd gwaethaf.

Dengys y tabl isod y ganran amcangyfrifedig o bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng nghlwstwr Cwm Rhondda, o'i chymharu â'r bwrdd iechyd.

[327] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Disgwyliad oes iach, y DU: rhwng 2011 a 2013 a rhwng 2022 a 2024
[328] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus 2025
[329] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus -Disgwyliad oes dynion a menywod (2020 i 2022)
[330] Llywodraeth Cymru Rhagfyr 2025 - Adroddiad canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025: mynegai cyffredinol

Tabl 14.2: Amcangyfrif o'r ganran o gleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng nghlwstwr Cwm Rhondda a'r bwrdd iechyd (2025)[331]

Ardal	Canran
Gogledd a De Cwm Rhondda	38.0%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	24.7%

14.2.4 Proffil iechyd

Mae clefydau anhrosglwyddadwy[332], a elwir hefyd yn glefydau cronig, fel arfer yn hirdymor a chronig eu natur, sy'n deillio o gymysgedd o ddylanwadau genetig, ffisiolegol, amgylcheddol ac ymddygiadol. Gall y cyflyrau hyn effeithio'n sylweddol ar ansawdd bywyd ac yn aml mae angen sylw a rheolaeth feddygol arnynt. Y prif gategorïau o glefydau cronig yw:

- Clefydau cardiofasgwlaidd (fel trawiadau ar y galon a strôc)
- Canserau
- Clefydau anadlol cronig (megis clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac asthma)
- Diabetes

Dengys y tabl isod amcangyfrif o gyffredinrwydd clefydau cronig yng Ngogledd a De Cwm Rhondda o'i gymharu â'r bwrdd iechyd a Chymru.

Tabl 14.3: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[333]

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phyliau o isgemia dros dro
Gogledd Cwm Rhondda	7.5%	4.2%	3.5%	10.0%	1.1%	2.6%
De Cwm Rhondda	7.8%	3.6%	2.7%	9.6%	1.0%	2.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	7.5%	3.6%	2.6%	9.0%	1.2%	2.4%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

[331] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[332] Sefydliad Iechyd y Byd Medi 2025 - Clefydau anhrosglwyddadwy
[333] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

Dengys y tabl isod ganran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia. Mae iechyd meddwl yng Ngogledd Cwm Rhondda yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru (0.2% yn uwch). Mewn cyferbyniad, mae De Cwm Rhondda yn cydredeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru. Ar gyfer dementia, mae Gogledd Cwm Rhondda yn cydredeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd ac yn is na chyfartaledd Cymru (0.1% yn is), ond yn Ne Cwm Rhondda, mae dementia yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.1% yn uwch) ond yn cydredeg â chyfartaledd Cymru.

Tabl 14.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl a dementia, yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[334]

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Gogledd Cwm Rhondda	1.3%	0.7%
De Cwm Rhondda	1.1%	0.8%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	1.1%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Mae'r tabl isod yn dangos y gwahaniaeth rhwng Gogledd Cwm Rhondda a De Cwm Rhondda o ran amcangyfrif cyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd a gorbwysedd o gymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru. Mae Gogledd Cwm Rhondda yn uwch o ran ffibriliad atrïaidd na chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru (0.2% yn uwch) ac ar gyfer gorbwysedd mae'n uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (1.5% yn uwch) a Chymru (2.5% yn uwch). Tra bod De Cwm Rhondda yn is o ran ffibriliad atrïaidd na chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru (0.1% yn is), ond ar gyfer gorbwysedd yn cydredeg â chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn uwch na chyfartaledd Cymru (1.0% yn uwch).

Tabl 14.5: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd a gorbwysedd a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[335]

Ardal	Ffibriliad atrïaidd	Gorbwysedd
Gogledd Cwm Rhondda	2.9%	18.8%
De Cwm Rhondda	2.6%	17.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2.7%	17.3%
Cymru	2.7%	16.3%

Cyflwyna'r tabl isod ganran yr oedolion 16 oed a hŷn yn Rhondda Cynon Taf sydd wedi hunan-adrodd eu bod yn cymryd rhan mewn chwe ymddygiad ffordd o fyw allweddol, fel y cofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[336]. Mae'r wybodaeth hon

[334] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[335] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[336] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)

yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr i'r arferion cyffredin a'r dewisiadau ffordd o fyw ymhlith y boblogaeth oedolion yn yr ardal.

Tabl 14.6: Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw yn ôl awdurdod lleol a Chymru rhwng 2021 a 2023

	Cyfrif	Cyffredinrwydd					
Ardal	**Poblogaeth 16 oed a hŷn**	**Ysmygu (gan gynnwys e-sigaréts)**	**Yfed mwy na 14 uned yr wythnos**	**Dros bwysau gyda mynegai màs y corff o 25+**	**Gordew gyda mynegai màs y corff o 30+**	**Gweithgarwch corfforol am 150 munud yr wythnos**	**Bwyta pump y dydd**
Awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf	199,852[337]	25%	16%	65%	28%	54%	22%
Cymru	2,641,000[338]	20%	16%	62%	25%	56%	29%

Mae hyn yn awgrymu bod ymddygiadau ffordd o fyw llai cadarnhaol yn gyffredin yn y Rhondda o'i chymharu â Chymru gyfan, megis nifer uwch o bobl sy'n ysmygu (gan gynnwys e-sigaréts) (5.0% yn uwch), mwy o bobl sy'n dweud eu bod dros eu pwysau a/neu'n ordew (3.0% yn uwch), llai o bobl yn ymgymryd â gweithgarwch corfforol (2.0% yn is) a llai o bobl yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd (7.0% yn is) na Chymru gyfan. Fodd bynnag, mae yfed gormodol yn cydredeg â chyfartaledd Cymru.

14.3 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol o fewn ardal y clwstwr


Mae 27 o fferyllfeydd yng nghlwstwr Cwm Rhondda sy'n cael eu gweithredu gan 10 o wahanol gontractwyr.

Yn 2024/25, cyflenwyd 96.4% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Cwm Rhondda gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cyflenwyd 97.0% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Cwm Rhondda gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr.

[337] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024
[338] Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2025 - Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024

Map 14.1: Lleoliad safleoedd fferyllfa o fewn y clwstwr



Daearyddiaeth a Thechnoleg 022.26-27 Dyddiad 2026-9-11

© Hawlfraint a hawl cronfa ddata 2026. Arolwg Ordnans AC0000849488. Llywodraeth Cymru

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr asesiad o anghenion fferyllol a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad bod y fferyllfeydd yn y clwstwr hwn mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, ac o fewn ardaloedd o amddifadedd uwch neu gerllaw. Yn ogystal, gallai pob preswylydd gyrraedd un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn 20 munud, a'r mwyafrif o fewn deg munud. Mae'r ardaloedd lle mae'n cymryd mwy nag 20 munud i gyrraedd fferyllfa yn ardaloedd bryniog neu fynyddig yn bennaf a ddefnyddir fel ffermydd gwynt wedi'u hamgylchynu gan ardaloedd coetir, neu laswelltir agored a chaeau, ac felly maent yn annhebygol o fod yn boblog. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd wedi newid, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae trigolion yn dal i allu cyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae tair fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Sadwrn.
- Mae 12 o fferyllfeydd ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ar fore Sadwrn.
- Mae 12 fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener.

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor y fferyllfeydd, dangosir yr ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod.

Tabl 14.7: Oriau agor a chau fferyllfeydd

Dyddiau	Ystod oriau agor	Ystod oriau cau
Dydd Llun i ddydd Gwener	8.30am i 9.30am	5.30pm i 6.00pm
Dydd Sadwrn	9.00am i 9.30am	12.00pm i 5.30pm

- Mae dwy fferyllfa yn agor am 8.30am o ddydd Llun i ddydd Gwener
- Mae 24 fferyllfa yn agor am 9.00am ddydd Llun i ddydd Gwener
- Mae un fferyllfa yn agor am 9.30am ddydd Llun i ddydd Gwener
- Mae 11 fferyllfa yn cau am 5.30pm ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener
- Mae 16 fferyllfa yn cau am 6.00pm ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener
- Mae 27 fferyllfa yn cau rhwng 12.30pm a 6.00pm ar ddydd Iau:
    - Mae pum fferyllfa yn cau rhwng 12.30pm a 2.00pm
    - Mae dwy fferyllfa yn cau rhwng 4.00pm a 4.30pm
    - Mae saith fferyllfa'n cau am 5.00pm
    - Mae pum fferyllfa'n cau am 5.30pm
    - Mae wyth fferyllfa'n cau am 6.00pm
- Mae 15 fferyllfa ar agor ar ddydd Sadwrn:
    - Mae pum fferyllfa'n cau am 12.00pm
    - Mae pum fferyllfa'n cau am 12.30pm
    - Mae dwy fferyllfa'n cau am 1.00pm
    - Mae un fferyllfa'n cau am 5.00pm
    - Mae dwy fferyllfa'n cau am 5.30pm

Mae un fferyllfa (Pentre) yn cael ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth canlynol y tu allan i oriau.

- Nosweithiau yn ystod yr wythnos (ac eithrio gŵyl y banc) rhwng 5.30pm a 6.30pm
- Dydd Sul rhwng 6.00pm a 7.00pm
- Gwyliau banc rhwng 6.00pm a 7.00pm

Gellir dod o hyd i fanylion llawn oriau agor fferyllfeydd yn Atodiad L.

Ymatebodd 21 fferyllfa i'r holiadur contractwr, a chymerwyd yr wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Dywedodd pob un o'r 21 fferyllfa fod eu safle yn hygyrch i gadair olwyn a bod ganddynt ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadair olwyn. Mae'r holl ardaloedd ymgynghori yn:

- ystafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad yn arferol o uchel heb gael eu clywed, ac
- wedi'u dynodi'n glir yn ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddyn nhw siaradwyr Cymraeg ymysg eu staff. Adroddodd tair fferyllfa fod staff yn siarad ieithoedd eraill.

- Mae un aelod o staff yn siarad ychydig bach o Ffrangeg, Sbaeneg ac Eidaleg.
- Yr ieithoedd eraill a siaredir yw Bengaleg a Maleieg.

Mae 20 fferyllfa yn cyflenwi pob math o offer, ac mae un yn cyflenwi rhwymynnau yn unig.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu:

- Mae pob un o'r 20 fferyllfa yn casglu presgripsiynau gan feddygfeydd teulu.
- Mae pob un o'r 20 yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais, ond mae pedair yn cyflwyno taliadau o fis Ebrill 2026 ymlaen.

Mae awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol presennol nad ydynt yn cael eu darparu ar hyn o bryd yn yr ardal yn cynnwys:

- Cyfnewid chwistrelli a nodwyddau a phrofion firysau a gludir yn y gwaed.
- Monitro pwysedd gwaed – byddai'n darparu gwasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi gan gleifion.
- Gallai'r gwasanaeth atal cenhedlu gael ei estyn i bigiadau Depo.
- Ehangu gwasanaeth heintiau'r llwybr wrinol i gynnwys y gallu i anfon samplau er mwyn dewis gwrthfiotigau priodol.
- Mwy o fewnbwn gan fferylliaeth gymunedol ar y broses benderfynu ar gyfer pwy sy'n gymwys ar gyfer siartiau cofnod rhoi meddyginiaeth/hambyrddau system dosau wedi'u monitro a "Pivotell".

Roedd awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau newydd nad ydynt ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Trin heintiau'r glust.
- Tynnu cwyr clust.
- Sgrinio pwysedd gwaed.
- Triniaeth colli pwysau.
- Unrhyw fath o wasanaeth lle mae canlyniad pendant o brawf swabio neu brawf dipio sy'n rhoi canlyniadau cywir ac effeithlon i gleifion ac angen i'w trin yn gyflym a fyddai'n gwneud gwahaniaeth.

- Creu cyfarwyddiadau grŵp cleifion ar gyfer heintiau'r frest a fyddai y tu hwnt i'r gwasanaeth profi a thrin dolur gwddf gyda chanllawiau llym o ran pryd i atgyfeirio a phryd i drin.
- Cyfarwyddiadau grŵp cleifion ar gyfer yr eryr.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt gapasiti i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol, dywedodd 20 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau a'u lefelau staffio, a dywedodd un nad oedd ganddi'r capasiti ond y gallai wneud addasiadau.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r safle neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, cafwyd yr ymatebion canlynol.

- Mae un fferyllfa wrthi'n cwblhau'r broses o ehangu'r lle ymgynghori i bedair ystafell ymgynghori.
- Mae un arall yn addasu'r fflat uwchben y fferyllfa yn ystafelloedd ymgynghori ar gyfer darparu gwasanaethau technegydd a fferyllydd dan hyfforddiant.
- Mae un fferyllfa yn gweithio'n galed i gynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau GIG Cymru drwy well ymwybyddiaeth cleifion, a defnyddio technoleg cofnodion meddyginiaeth cleifion uwch i 'ryddhau' amser y fferyllydd.
- Mae tîm fferyllwyr newydd ar waith, gyda chynlluniau iddynt gymhwyso'n bresgripsiynwyr, i ategu ail-lansio holl ddarpariaeth gwasanaethau'r GIG.
- Yn unol â strategaeth y cwmni, mae un fferyllfa yn hybu proffil holl wasanaethau'r GIG i annog cynnydd yn y niferoedd.
- Mae un fferyllfa yn bwriadu datblygu'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gyda fferyllydd newydd ei benodi ymhlith y cyflogeion.
- Mae gan fferyllfa arall fferyllydd newydd sydd ar fin cofrestru ar hyfforddiant presgripsiynydd annibynnol i ganiatáu lansio gwasanaeth, ac mae pob gwasanaeth arall ar fin cael ei ail-lansio (yn enwedig y gwasanaeth anhwylderau cyffredin) am fod fferyllydd newydd bellach wedi cwblhau triniaeth cynnal bywyd sylfaenol ar ôl symud i Gymru o Loegr.
- Mae'r fferyllydd mewn un fferyllfa ar fin cymhwyso'n bresgripsiynydd annibynnol a bydd y fferyllfa yn estyn y gwasanaethau GIG a gynigir ar hyn o bryd yn y 6-8 wythnos nesaf (Ebrill 2026).
- Mae un fferyllfa yn gweithio i wella'r berthynas â phractisiau ar gyfer gwell cydweithio ac i gynyddu atgyfeiriadau i'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin.
- Mae fferyllfa arall yn bwriadu cyflwyno'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol dros y 12 mis nesaf (Ebrill 2026).
- Mae gan un fferyllfa yr opsiwn o addasu'r lle i fyny'r grisiau yn ystafelloedd ymgynghori a/neu driniaeth. Mae hefyd yn ymchwilio i bosibilrwydd cynnal ymgynghoriadau rhithwir i'w chleifion sy'n gaeth i'r tŷ. Hoffai hefyd ymchwilio i bosibilrwydd ychwanegu rhyw fath o awtomeiddio at y broses gyflenwi.
- Mae un fferyllfa wedi defnyddio grant Cymru i adeiladu ystafell ymgynghori fwy o faint wrth i'r cwmpas ymarfer ehangu.

14.3.1 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer

14.3.1.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

14.3.1.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae pob un o'r 27 fferyllfa wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd y fferyllfeydd:

- 25,474 o ymgynghoriadau ar gyfer ymgynghoriadau anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 105 i 2,972)
- 3,545 o ymgynghoriadau ar gyfer profi a thrin dolur gwddf, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o un i 822)
- 580 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 127)
- 671 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu brys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 65)
- 5,849 o gyflenwadau meddyginiaeth frys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 6 i 1,070)

Yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 15,678 o ymgynghoriadau ar gyfer ymgynghoriadau anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 81 i 2,100)
- 1,632 o ymgynghoriadau ar gyfer profi a thrin dolur gwddf, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 4 i 333)
- 577 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 128)
- 393 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu brys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 46)
- 3,279 o gyflenwadau meddyginiaeth frys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 485)

14.3.1.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Darparodd pob un o'r 27 fferyllfa y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,171 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 241).

Darparodd 24 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 658 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 4 i 130).

14.3.1.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae pob un o'r 27 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pob un o'r 27 fferyllfa y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 5,096 o frechiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 11 i 783).

Darparodd 26 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth ym mis Hydref a mis Tachwedd 2025, gan ddarparu cyfanswm o 4,361 o frechiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 22 i 673).

14.3.1.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Darparodd 18 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gyflenwi cyfanswm o 345 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 94).

Darparodd tair o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, gan gyflenwi cyfanswm o 25 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 14).

14.3.1.6 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd

Mae wyth o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd wyth o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 8,878 o ymgynghoriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 2,978).

Darparodd wyth fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 5,309 o ymgynghoriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 82 i 1,601).

14.3.1.7 Gwasanaeth addasu stoma

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

14.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

14.3.2.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Mae tair fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd tair fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan sgrinio 25 gwaith i gyd (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 5 i 11).

Darparodd un fferyllfa y gwasanaeth o fewn saith mis cyntaf 2025/26, gan sgrinio deg gwaith i gyd.

14.3.2.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Mae tair fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, nac yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26.

14.3.2.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae 25 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o ddau becyn.

Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26.

14.3.2.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae 18 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26.

14.3.2.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae pob un o'r 27 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Darparodd 25 fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu siartiau i 243 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 13).

Darparodd 24 fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu siartiau i 133 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 7).

14.3.2.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae 9 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Darparodd wyth fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,461 o ddarpariaethau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 534).

Darparodd chwe fferyllfa gyfanswm o 766 o ddarpariaethau yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 377).

14.3.2.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae pob un o'r 27 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd 22 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi cyfanswm o 491 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 76).

Darparodd 17 fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 161 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 32).

14.3.2.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae pob un o'r 27 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd 20 fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi cyfanswm o 1,323 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 167).

Darparodd 16 fferyllfa'r gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 636 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 132).

14.3.2.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae 25 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd 25 o fferyllfeydd y gwasanaeth i 2,123 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 4 i 209), gan oruchwylio cyfanswm o 17,949 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 17 i 1,940).

Yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd 25 o fferyllfeydd y gwasanaeth i 1,186 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 7 i 111), gan oruchwylio cyfanswm o 9,798 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 30 i 1,049).

14.3.2.10 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

14.3.2.11 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 2 (uwch)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

14.3.2.12 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Darparodd 25 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 3,680 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 791).

Darparodd 24 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod chwe mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 2002 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 505).

14.4 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol y tu allan i ardal y clwstwr

Efallai y bydd rhai preswylwyr yn dewis cyrchu contractwyr y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gwasanaethau:

- Wedi'u cynnig gan gontractwyr offer cyflenwi.
- Sy'n agos at eu mannau gwaith, siopa, neu fannau y maent yn ymweld â nhw at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yn 2024/25 wedi'u cyflenwi gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (96.4%), cyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 1.9% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Taf Elái
- 0.5% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- 0.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De Cwm Cynon

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu eu cyflenwi gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (97.0%), a chyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 1.8% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Taf Elái
- 0.6% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Yn ogystal, efallai y bydd preswylwyr wedi cael un neu ragor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl meintioli'r gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

14.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

14.6 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 14.3 a 14.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi'u cofrestru gydag un o'r meddygfeydd teulu yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i gyflenwi eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael at fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i gyflenwi gan fferyllfa neu gontractwr offer y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 327 o gontractwyr a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Cwm Rhondda, yr oedd 218 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 14,625 o eitemau eu cyflenwi yn Lloegr.

Gwnaeth cyfanswm o 343 o gontractwyr a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2025/26 (hyd at fis Rhagfyr 2025) gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Cwm Rhondda, yr oedd 196 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 12,426 o eitemau eu cyflenwi yn Lloegr.

14.7 Datblygiadau tai

Mae'r cynlluniau datblygu lleol ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn cynnwys y canlynol.

Mae'r wybodaeth isod yn crynhoi'r cynllun ar gyfer y datblygiadau mwy o faint (dros 100 o dai).

Ardal	Trefi wedi'u cwmpasu	Nifer y cartrefi newydd	Amserlen gyflawni ddangosol	Nifer y preswylwyr (2.5 fesul aelwyd)
Pentref Penrhys	Tylorstown / Ynys-hir	500	2026 -	1,250

14.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau fferyllol a ddarperir mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 20 o'r fferyllfeydd wedi dweud bod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau a'u lefelau staffio, a dywedodd un nad oedd ganddi'r capasiti ond y gallai wneud addasiadau.

14.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr a'r ffaith y gall y boblogaeth gyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud, a'r mwyafrif o fewn deg munud. Er nodi nad oes car ar gael i bob aelwyd trwy gydol y dydd, mae natur y clwstwr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o drigolion ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Y datblygiad tai hysbys.
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Yn seiliedig ar yr uchod, ac yn arbennig ledaeniad presennol oriau agor fferyllfeydd trwy gydol yr wythnos, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaethau hanfodol o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y datblygiadau tai hysbys a fydd yn darparu tai yn y clwstwr yn ystod oes y ddogfen hon, ac y gallai rhai ddarparu tai y tu hwnt i fis Hydref 2031. Mae'n fodlon y bydd yr angen am wasanaethau hanfodol gan y rhai sy'n symud i'r tai newydd yn cael ei ddiwallu gan y fferyllfeydd presennol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

14.8.2 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer

14.8.2.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr hwn yn 2024/25, ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Yn ogystal, o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, cyflenwyd 64.7% gan gontractwyr offer cyflenwi a 53.3% yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Mae unigolion y mae angen y gwasanaeth adolygu defnydd offer arnynt yn debygol o gyrchu'r gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n cyflenwi eu presgripsiynau ar gyfer offer neu gallant ei gyrchu gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

14.8.2.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pob un ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

14.8.2.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

14.8.2.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pob un wedi'i ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr. Gan fod meddygfeydd teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth hwn, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

14.8.2.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 18 o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod y gwasanaeth hwn ar gael i grwpiau cleifion penodol yn unig. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

14.8.2.6 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod wyth o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod wyth fferyllfa wedi'i ddarparu yn 2025/26. Cadarnhaodd pump arall eu bod ar fin dechrau darparu'r gwasanaeth (Ebrill 2026).

Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau interim o 50% o fferyllfeydd erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn 2029. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y rhagwelir, o 2026. y bydd pob fferyllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys yn bresgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y targed o 50% i fod i gael ei gyrraedd erbyn mis Ebrill 2027. Bydd yn gweithio gyda chontractwyr er mwyn cynyddu nifer y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

14.8.2.7 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr hwn yn 2025/26.

Yn ogystal, o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, cyflenwyd 64.7% gan gontractwyr offer cyflenwi a 53.3% yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl y gofyn cyn ei anfon neu ddosbarthu i gleifion.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

14.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

14.8.3.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Mae gwasanaethau sgrinio firysau a gludir yn y gwaed ar gael drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis clinigau iechyd rhywiol, meddygfeydd teulu, archebu pecynnau profion cartref ac ôl-sgrinio ar-lein drwy Iechyd Rhywiol Cymru neu gasglu pecynnau sgrinio o leoliadau cymunedol ar draws y bwrdd iechyd. Mae nifer o fferyllfeydd ar draws y bwrdd iechyd yn cadw stoc o'r pecynnau prawf ac ôl-sgrinio, gan sicrhau eu bod ar gael yn gyfleus i'r rhai y mae'n well ganddynt gael opsiwn mwy cynnil neu hyblyg.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

14.8.3.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaeth cyflenwi iddynt.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

14.8.3.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 25 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod un fferyllfa wedi'i ddarparu yn 2025/26. Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu ar sail y galw.

Mae gwasanaethau ar gael o fewn y clwstwr drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis tîm Rhondda a Thaf Elái sy'n gofalu am gleifion sy'n byw yn eu cartrefi a chartrefi nyrsio. Maent hefyd yn darparu gofal lliniarol arbenigol i gleifion mewnol yn Ysbyty Cwm Rhondda, yn ogystal ag Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac unrhyw ysbytai cymunedol eraill a thrwy fferyllfeydd y tu allan i'r clwstwr sydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

14.8.3.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 18 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r

gwasanaeth hwn. Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

14.8.3.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 25 ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai fferyllfa'n rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau, y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth gael ei ddarparu i drigolion cymwys y dref/pentref hwnnw. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os:

- Gellir diwallu'r angen gan un neu fwy o fferyllfeydd sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Mae darparwyr eraill sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Byddai caniatáu cais i gael ei gynnwys yn y rhestr fferyllol sy'n cynnig diwallu'r angen hwn yn arwain at gynnydd annymunol yn argaeledd gwasanaethau hanfodol yn y dref/pentref hwnnw.

14.8.3.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod naw o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod wyth fferyllfa wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu gan y bwrdd iechyd ar sail strategol, gan sicrhau ei ddarparu o fewn ardaloedd mewn angen.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

14.8.3.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 23 ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

14.8.3.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 20 ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

14.8.3.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 25 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 25 ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26. Darperir y gwasanaeth ar sail y galw.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

14.8.3.10 Gwasanaethau meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth lefel 1 yn 2025/26, a bod un wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth lefel 2.

Oherwydd natur y gwasanaeth, caiff ei gomisiynu i sicrhau lledaeniad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y bwrdd iechyd.

Nid yw'r bwrdd iechyd felly wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

14.8.3.11 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 25 o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

15 Clwstwr Taf Elái

15.1 Trosolwg

Clwstwr Taf Elái yw'r mwyaf o'r pedwar clwstwr yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, ac mae'n gwasanaethu poblogaeth practis o 100,004[339]. Mae ardal ogleddol y clwstwr yn drefol i raddau helaeth, tra bod gan yr ardal ddeheuol ardaloedd gwledig a threfol. Ceir 21 o fferyllfeydd yn y clwstwr a saith o feddygfeydd teulu.

Cynyddodd poblogaeth awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf 1.4% o ryw 234,400 yn 2011 i 237,700 yn 2021[340]. Roedd hyn yr un cynnydd cyffredinol ag ar gyfer Cymru. Y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth rhwng 2022 a 2032 yw 4.9% ar draws pob grŵp oedran, gyda phoblogaeth ddisgwyliedig o 251,235 erbyn 2032.

Mae gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf ddisgwyliad oes is adeg genedigaeth ar gyfer menywod (80.7 oed) a dynion (76.9 oed) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 81.8 oed (menywod) a 77.9 oed (dynion).

Nid yw amddifadedd wedi'i grynhoi'n drwm yng nghlwstwr Gogledd a De Taf Elái - mae 15.7% o drigolion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru o'u cymharu ag 20.7% ledled Cymru a 24.7% ar draws y bwrdd iechyd.

Mae gan Ogledd a De Taf Elái broffil cymysg o gyflyrau iechyd hirdymor yn seiliedig ar gyffredinrwydd amcangyfrifedig, o'i gymharu â'r bwrdd iechyd a Chymru yn gyffredinol.

- Gogledd Taf Elái
    - Yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru mewn ffibriliad atrïaidd, clefyd coronaidd y galon, dementia, methiant y galon, pwysedd gwaed uchel, iechyd meddwl a strôc a phyliau o isgemia dros dro
    - Yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn cydredeg â chyfartaledd Cymru mewn asthma a diabetes
    - Mae clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn uwch na chyfartaledd Cymru

- De Taf Elái
    - Yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd a Chymru mewn ffibriliad atrïaidd, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, clefyd coronaidd y galon, dementia, diabetes, methiant y galon, pwysedd gwaed uchel, ac iechyd meddwl
    - Mae strôc a phyliau o isgemia dros dro yn is na'r bwrdd iechyd ond yn uwch na Chymru
    - Mae asthma yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru

[339] Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - dadansoddi practisiau meddyg teulu a chofrestriadau cleifion yn ôl practis (Ionawr 2026).
[340] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Sut newidiodd y boblogaeth yn Rhondda Cynon Taf: Cyfrifiad 2021

Mae ymddygiadau ffordd o fyw o fewn y boblogaeth oedolion (16 oed a hŷn) ledled Rhondda Cynon Taf, a gofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[341] ac a ddisgrifir yn adran 15.2.4 proffil iechyd, yn datgelu heriau parhaus. Er enghraifft, mae trigolion yn ysmygu mwy (gan gynnwys e-sigaréts), yn fwy dros eu pwysau ac yn ordew, yn gwneud llai o weithgarwch corfforol ac yn bwyta llai o ffrwythau a llysiau na Chymru gyfan. Fodd bynnag, mae yfed gormodol yn cydredeg â gweddill Cymru.

15.2 Nodweddion allweddol y boblogaeth

15.2.1 Amcanestyniadau poblogaeth 2022 i 2032

Amcanestynnir y bydd poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn cynyddu hyd at 4.9% rhwng 2022 (239,494) a 2032 (251,235).

Rhagwelir y bydd awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, erbyn 2032[342] yn:

- Gweld gostyngiad yn nifer y bobl rhwng 0 a 15 oed
- Bod yn un o wyth awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf a ragwelir yn y boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 a 64 oed
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 65 oed a throsodd
- Gweld cynnydd yn y boblogaeth 75 oed a throsodd

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn cael ei yrru'n bennaf gan fudo net, h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i'r ardal nag allan ohoni. Disgwylir i nifer y genedigaethau leihau a nifer y marwolaethau gynyddu, gan arwain at newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau).

15.2.2 Cyfanswm disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a'r 'bwlch anghydraddoldeb' (2020 i 2022)

- Mae gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf ddisgwyliad oes is adeg genedigaeth ar gyfer menywod a dynion o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (tabl 15.1).
- Mae disgwyliad oes iach[343] a ddiffinnir fel nifer y blynyddoedd y gall person ddisgwyl byw mewn iechyd da yn cael ei fesur ar lefel awdurdod lleol. Ar gyfer Rhondda Cynon Taf, mae'n 57.3 oed i ddynion a 56.1 oed i fenywod. I Gymru, y disgwyliad oes iach yw 60.8 oed i ddynion a 60.2 oed i fenywod.
- Cyfeirir at y gwahaniaethau mewn disgwyliad oes iach sy'n bodoli ar draws ardal rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig

[341] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)
[342] Llywodraeth Cymru - Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol: sail-2022
[343] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Disgwyliad oes iach, y DU: rhwng 2011 a 2013 a rhwng 2022 a 2024

fel y 'bwlch anghydraddoldeb'. Y bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach yn Rhondda Cynon Taf yw 6.9 mlynedd i ddynion a 5.3 mlynedd i fenywod[344].

Tabl 15.1: Cyfanswm disgwyliad oes adeg genedigaeth menywod a dynion 2020 i 2022[345]

Ardal	Benywod adeg genedigaeth (oed)	Gwrywod adeg genedigaeth (oed)
Awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf	80.7	76.9
Cymru	81.8	77.9

Ymwadiad: Er bod y data a gyflwynir o ran disgwyliad oes iach yn dangos ffigurau ar gyfer 2024, defnyddiwyd data o'r blynyddoedd 2020 i 2022 i sicrhau cysondeb a chymharedd ar draws pob blwyddyn.

15.2.3 Amddifadedd

Mae'r cysylltiad rhwng amddifadedd ac iechyd gwael wedi'i ddogfennu'n dda. O'r pedwar clwstwr yn Rhondda Cynon Taf, Gogledd a De Taf Elái sydd â'r crynodiad isaf o bobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (15.7%), sy'n is na'r bwrdd iechyd yn ei gyfanrwydd (24.7%).

Fodd bynnag, mae ardaloedd bach o amddifadedd 'dwfn'[346] sydd wedi aros o fewn y 50 ardal fwyaf difreintiedig frig yng Nghymru, sy'n hafal yn fras i'r 2.6% brig o ardaloedd bach yng Nghymru ar gyfer y chwe chyhoeddiad diwethaf (2005, 2008, 2011, 2014, 2019 a 2025) o safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Lle mae ardaloedd o amddifadedd yn bodoli, mae'r boblogaeth yn debygol o fod yn destun yr iechyd gwaethaf.

Dengys y tabl isod y ganran amcangyfrifedig o bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng nghlwstwr Taf Elái, o'i chymharu â'r bwrdd iechyd.

Tabl 15.2: Amcangyfrif o'r ganran o gleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Nhaf Trelái a'r bwrdd iechyd (2025)[347]

Ardal	Canran
Gogledd a De Taf Elái	15.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	24.7%

[344] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus 2025
[345] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus -Disgwyliad oes dynion a menywod (2020 i 2022)
[346] Llywodraeth Cymru Rhagfyr 2025 - Adroddiad canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025: mynegai cyffredinol
[347] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol

15.2.4 Proffil iechyd

Mae clefydau anhrosglwyddadwy[348], a elwir hefyd yn glefydau cronig, fel arfer yn hirdymor a chronig eu natur, sy'n deillio o gymysgedd o ddylanwadau genetig, ffisiolegol, amgylcheddol ac ymddygiadol. Gall y cyflyrau hyn effeithio'n sylweddol ar ansawdd bywyd ac yn aml mae angen sylw a rheolaeth feddygol arnynt. Y prif gategorïau o glefydau cronig yw:

- Clefydau cardiofasgwlaidd (fel trawiadau ar y galon a strôc)
- Canserau
- Clefydau anadlol cronig (megis clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac asthma)
- Diabetes

Dengys y tabl isod amcangyfrif o gyffredinrwydd clefydau cronig yng Ngogledd a De Taf Elái o'i gymharu â'r bwrdd iechyd a Chymru.

Tabl 15.3: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[349]

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phyliau o isgemia dros dro
Gogledd Taf Elái	7.1%	3.1%	2.4%	8.4%	1.0%	2.0%
De Taf Elái	7.9%	3.3%	1.8%	7.7%	0.8%	2.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	7.5%	3.6%	2.6%	9.0%	1.2%	2.4%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Dengys y tabl isod ganran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia. Mae Gogledd a De Taf Elái yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru o ran iechyd meddwl a dementia.

[348] Sefydliad Iechyd y Byd Medi 2025 - Clefydau anhrosglwyddadwy
[349] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

Tabl 15.4: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[350]

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Gogledd Taf Elái	1.0%	0.6%
De Taf Elái	0.9%	0.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	1.1%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Dengys y tabl isod y gwahaniaeth rhwng Gogledd Taf Elái a De Taf Elái o ran cyfraddau ffibriliad atrïaidd a gorbwysedd o gymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru. Mae Gogledd Taf Elái a De Taf Elái yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru o ran ffibriliad atrïaidd a phwysedd gwaed uchel.

Tabl 15.5: Amcangyfrif o ganran cyffredinrwydd ffibriliad atrïaidd a gorbwysedd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau meddygfeydd teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru 2025[351]

Ardal	Ffibriliad atrïaidd	Gorbwysedd
Gogledd Taf Elái	2.2%	16.0%
De Taf Elái	2.6%	16.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2.7%	17.3%
Cymru	2.7%	16.3%

Cyflwyna'r tabl isod ganran yr oedolion 16 oed a hŷn yn Rhondda Cynon Taf sydd wedi hunan-adrodd eu bod yn cymryd rhan mewn chwe ymddygiad ffordd o fyw allweddol, fel y cofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[352]. Mae'r wybodaeth hon yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr i'r arferion cyffredin a'r dewisiadau ffordd o fyw ymhlith y boblogaeth oedolion yn yr ardal.

[350] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[351] Llywodraeth Cymru StatsCymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu
[352] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw (2021 i 2023)

Tabl 15.6: Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n adrodd am ymddygiadau ffordd o fyw yn ôl awdurdod lleol a Chymru rhwng 2021 a 2023

	Cyfrif	Cyffredinrwydd					
Ardal	**Poblogaeth 16 oed a hŷn**	**Ysmygu (gan gynnwys e-sigaréts)**	**Yfed mwy na 14 uned yr wythnos**	**Dros bwysau gyda mynegai màs y corff o 25+**	**Gordew gyda mynegai màs y corff o 30+**	**Gweithgarwch corfforol am 150 munud yr wythnos**	**Bwyta pump y dydd**
Awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf	199,852[353]	25%	16%	65%	28%	54%	22%
Cymru	2,641,000[354]	20%	16%	62%	25%	56%	29%

Mae hyn yn awgrymu bod ymddygiadau ffordd o fyw llai cadarnhaol yn gyffredin yn y Rhondda o'i chymharu â Chymru gyfan, megis nifer uwch o bobl sy'n ysmygu (gan gynnwys e-sigaréts) (5.0% yn uwch), mwy o bobl sy'n dweud eu bod dros eu pwysau a/neu'n ordew (3.0% yn uwch), llai o bobl yn ymgymryd â gweithgarwch corfforol (2.0% yn is) a llai o bobl yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd (7.0% yn is) na Chymru gyfan. Fodd bynnag, mae yfed gormodol yn cydredeg â gweddill Cymru.

15.3 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol o fewn ardal y clwstwr


Mae 21 o fferyllfeydd yng nghlwstwr Taf Elái sy'n cael eu gweithredu gan 13 o wahanol gontractwyr.

Yn 2024/25, cyflenwyd 86.8% o'r eitemau presgripsiwn a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Taf Elái gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cyflenwyd 87.8% o'r eitemau presgripsiwn a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Taf Elái gan un o'r fferyllfeydd o fewn y clwstwr.

[353] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024
[354] Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2025 - Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024

Map 15.1: Lleoliad safleoedd fferyllfa o fewn y clwstwr



Daearyddiaeth a Thechnoleg 022.26-27 Dyddiad 2026-9-11

© Hawlfraint a hawl cronfa ddata 2026. Arolwg Ordnans AC0000849488. Llywodraeth Cymru

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr asesiad o anghenion fferyllol a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad bod y fferyllfeydd yn y clwstwr hwn mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, ac o fewn ardaloedd o amddifadedd uwch neu gerllaw. Yn ogystal, gallai pob preswylydd gyrraedd un o'r fferyllfeydd mewn car

o fewn 20 munud, a'r mwyafrif o fewn deg munud. Mae'r ardal lle mae'n cymryd mwy nag 20 munud i gyrraedd fferyllfa yn cwmpasu Coetiroedd Gelliwion, glaswelltir a chaeau agored, ac felly mae'n annhebygol o fod yn boblog. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd wedi newid, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae trigolion yn dal i allu cyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae dwy fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos.
- Mae un fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae 12 o fferyllfeydd ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ar fore Sadwrn.
- Mae chwe fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener.

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor y fferyllfeydd, dangosir yr ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod.

Tabl 15.7: Oriau agor a chau fferyllfeydd

Dyddiau	Ystod oriau agor	Ystod oriau cau
Dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener	8.00am i 9.30am	5.30pm i 8.00pm
Dydd Mawrth	8.00am i 9.30am	5.00pm i 8.00pm
Dydd Iau	8.00am i 9.30am	1.00pm i 8.00pm
Dydd Sadwrn	8.00am i 9.00am	12.00pm i 8.00pm
Dydd Sul	10.00am	4.00pm

- Mae 19 fferyllfa yn cau rhwng 5.30pm a 6.00pm ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener
- Mae 18 fferyllfa yn cau rhwng 5.30pm a 6.00pm ar ddydd Mawrth
- Mae un fferyllfa yn cau am 1.00pm ar ddydd Iau
- Mae 17 fferyllfa yn cau rhwng 5.30pm a 6.00pm ar ddydd Iau
- Mae dwy fferyllfa yn cau am 8.00pm ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae 15 fferyllfa ar agor ar ddydd Sadwrn:
    - Mae dwy fferyllfa'n cau am 12.00pm
    - Mae dwy fferyllfa'n cau am 12.30pm
    - Mae wyth fferyllfa'n cau am 1.00pm
    - Mae un fferyllfa'n cau am 5.30pm
    - Mae dwy fferyllfa'n cau am 8.00pm
- Mae dwy fferyllfa yn agor ar ddydd Sul ac yn cau am 4.00pm

Mae dwy fferyllfa yn cael eu comisiynu trwy "gytundeb ymlaen llaw" i agor am awr (yr un) ar ŵyl banc.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn oriau agor fferyllfeydd yn Atodiad L.

Ymatebodd 12 fferyllfa i'r holiadur contractwr, a chymerwyd yr wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Dywedodd 12 o fferyllfeydd fod eu safle yn hygyrch i gadair olwyn a bod ganddynt ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadair olwyn. Mae 11 o'r ardaloedd ymgynghori yn:

- ystafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad yn arferol o uchel heb gael eu clywed, ac
- wedi'u dynodi'n glir yn ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Nid yw'r deuddegfed yn caniatáu i'r claf a'r fferyllydd siarad yn arferol o uchel, ond mae trefniadau amgen ar gyfer trafodaethau cyfrinachol.

Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddyn nhw siaradwyr Cymraeg ymysg eu staff. Cadarnhaodd tair fferyllfa fod eu staff yn siarad ieithoedd eraill.

- Mae gan un fferyllfa staff sy'n siarad Maleieg a Chantoneg.
- Mae gan un arall staff sy'n siarad Cantoneg, Mandarin a Japaneg, ac
- Mae gan drydedd staff sy'n siarad Mandarin a Bahasa Melayu.

Mae pob un o'r 12 fferyllfa yn dosbarthu pob math o offer.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu:

- Mae pob un o'r 12 fferyllfa yn casglu presgripsiynau gan feddygfeydd teulu.
- Mae deg yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais, ac un yn ei ddarparu am ffi. Bydd y deuddegfed yn dosbarthu os nad yw'r claf yn gallu dod i'r fferyllfa ac os nad oes ganddo neb a allai gasglu ei feddyginiaeth ar ei ran.

Nid oedd unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol presennol nad ydynt yn cael eu darparu yn yr ardal ar hyn o bryd.

Roedd awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau newydd nad ydynt ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Gwasanaeth tynnu cwyr clust
- Gellid ychwanegu llid acíwt y glust at elfen gwasanaeth anhwylderau cyffredin y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol
- Clinig teithiol
- Brechu rhag meningitis.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt allu i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol:

- Dywedodd 11 fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safle.

- Dywedodd 9 fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu lefelau staffio, dywedodd un nad oes ganddi'r capasiti ond y gallai wneud addasiadau, a dywedodd un nad oes ganddi'r capasiti ac y byddai'n cael anhawster yn ymdopi â chynnydd yn y galw.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r safle neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, cafwyd yr ymatebion canlynol.

- Mae ail fferyllydd wedi cymhwyso'n fferyllydd annibynnol yn un o'r fferyllfeydd a dylai fod ar waith ymhen ychydig fisoedd (Ebrill 2026). Mae'r fferyllfa'n aros i weld effaith y gwasanaeth presgripsiwn electronig i weld a oes angen iddi addasu lefelau staffio. Mae un o'r tîm wedi cael ei gofrestru ar y cwrs technegydd i gynyddu capasiti a helpu i reoli'r llif gwaith cyflenwi moddion. Mae'r fferyllfa yn ystyried addasu ei horiau agor trwy gael gwared ar yr egwyl ginio a chau'n gynharach.
- Mae fferyllydd mewn fferyllfa arall newydd gymhwyso'n rhagnodydd annibynnol a bydd yn dechrau darparu gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllydd.
- Mae ail fferyllfa yn bwriadu cyflwyno'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd tua dechrau haf 2026 pan fydd y fferyllydd wedi cymhwyso.
- Mae trydedd fferyllfa wedi lansio'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol yn ddiweddar a bydd yn parhau i gefnogi a datblygu'r gwasanaeth. Bydd yn dechrau gwasanaeth rheoli pwysau preifat cyn hir.
- Mae fferyllfa arall wedi estyn ei hystafell ymgynghori.

15.3.1 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer

15.3.1.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

15.3.1.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r holl fferyllfeydd wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 14,488 o ymgynghoriadau ar gyfer ymgynghoriadau anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 74 i 1,405)
- 2,159 o ymgynghoriadau ar gyfer profi a thrin dolur gwddf, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o un i 356)
- 526 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 4 i 128)
- 1,142 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu brys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 189)
- 4,478 o gyflenwadau meddygaeth frys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 9 i 614)

Yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 10,504 o ymgynghoriadau ar gyfer ymgynghoriadau anhwylderau cyffredin, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 134 i 1,269)
- 1,208 o ymgynghoriadau ar gyfer profi a thrin dolur gwddf, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o un i 252)
- 626 o ymgynghoriadau ar gyfer haint y llwybr wrinol, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 168)
- 707 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu brys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 148)
- 2,988 o gyflenwadau meddygaeth frys, (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 9 i 459)

15.3.1.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Darparodd 15 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 688 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 144).

Darparodd 19 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 428 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 57).

15.3.1.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae 20 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd 20 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 4,194 o adolygiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 397).

Darparodd 20 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth ym mis Hydref a mis Tachwedd 2025, gan ddarparu cyfanswm o 4,953 o frechiadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 46 i 463).

15.3.1.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Mae 14 o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd 13 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gyflenwi cyfanswm o 324 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 86).

Darparodd 7 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, gan gyflenwi cyfanswm o 34 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 16).

15.3.1.6 Gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllydd

Mae deg o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pump o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 2,383 o ymgynghoriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 22 i 1,267).

Darparodd saith o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 1,513 o ymgynghoriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 10 i 668).

15.3.1.7 Gwasanaeth addasu stoma

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

15.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

15.3.2.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Mae dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, nac yn ystod saith mis cyntaf 2025/26.

15.3.2.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Mae dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 40 ymweliad. Darparodd yr un fferyllfa gyfanswm o 27 ymweliad yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26.

15.3.2.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae 19 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd chwe fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 31 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 14).

Darparodd tair o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 15 o becynnau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 7).

15.3.2.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn ystod saith mis cyntaf 2025/26.

15.3.2.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae'r holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd 19 fferyllfa'r gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu siartiau i 168 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 16).

Darparodd 19 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu siartiau i 117 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 7).

15.3.2.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae pump o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pump o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,023 o ddarpariaethau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 5 i 450).

Darparodd pump o'r fferyllfeydd gyfanswm o 590 o ddarpariaethau yn ystod saith mis cyntaf 2025/26 (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 3 i 329).

15.3.2.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae'r holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd 16 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi cyfanswm o 617 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 5 i 100).

Darparodd 15 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 320 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 55).

15.3.2.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae 19 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd 14 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi cyfanswm o 786 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 11 i 127).

Darparodd 13 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod saith mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 458 o bobl (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 8 i 65).

15.3.2.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae'r holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd 19 o fferyllfeydd y gwasanaeth i 968 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 4 i 206), gan oruchwylio cyfanswm o 11,724 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 47 i 2,241).

Yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd 19 o fferyllfeydd y gwasanaeth i 594 o gleientiaid (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 7 i 142), gan oruchwylio cyfanswm o 6,807 dos (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 27 i 1,461).

15.3.2.10 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae tair fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

15.3.2.11 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 2 (uwch)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

15.3.2.12 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Mae 20 o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd 19 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 3,042 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 2 i 1,115).

Darparodd 19 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth yn ystod chwe mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 1,377 o ymyriadau (yn amrywio ar lefel fferyllfa o 1 i 437).

15.4 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol y tu allan i ardal y clwstwr

Efallai y bydd rhai preswylwyr yn dewis cyrchu contractwyr y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gwasanaethau:

- Wedi'u cynnig gan gontractwyr offer cyflenwi.
- Sy'n agos at eu mannau gwaith, siopa, neu fannau y maent yn ymweld â nhw at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yn 2024/25 wedi'u cyflenwi gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (86.8%), cyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 5.7% gan fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- 4.5% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De Cwm Cynon
- 1.2% gan fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 0.4% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Cwm Rhondda

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yn 2025/26 eu cyflenwi gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (87.8%), a chyflenwyd y gweddill y tu allan i'r clwstwr.

- 5.4% gan fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- 4.4% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De Cwm Cynon
- 1.1% gan fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 0.4% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Cwm Rhondda

Yn ogystal, efallai y bydd preswylwyr wedi cael un neu ragor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl meintioli'r gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

15.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

15.6 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 15.3 a 15.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi'u cofrestru gydag un o'r meddygfeydd teulu yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i gyflenwi eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael at fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi'i gyflenwi gan fferyllfa neu gontractwr offer y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Gwnaeth cyfanswm o 374 o gontractwyr a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Taf Elái, yr oedd 267 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 11,093 o eitemau eu cyflenwi yn Lloegr.

Gwnaeth cyfanswm o 373 o gontractwyr a oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2025/26 (hyd at fis Rhagfyr 2025) gyflenwi eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Taf Elái, yr oedd 233 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 7,761 o eitemau eu cyflenwi yn Lloegr.

15.7 Datblygiadau tai

Mae'r cynllun datblygu lleol ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn cynnwys y canlynol. Mae'r wybodaeth isod yn crynhoi'r cynllun ar gyfer y datblygiadau mwy o faint (dros 100 o dai).

Ardal	Trefi wedi'u cwmpasu	Nifer y cartrefi newydd	Amserlen gyflawni ddangosol	Nifer y preswylwyr (2.5 fesul aelwyd)
Bute Farm	Pentre'r Eglwys	140	2026 -	350
Llanharan	Tir i'r dwyrain o Ffordd Llanhari	150	2026 -	375
Ystrad Barwig Isaf	Llanilltud Faerdref	500	2026 -	1,250
Pant Talbot, i'r de o'r A473, Heol y Bont-faen	Llantrisant / Tonysguboriau	100	2026 -	250

Ardal	Trefi wedi'u cwmpasu	Nifer y cartrefi newydd	Amserlen gyflawni ddangosol	Nifer y preswylwyr (2.5 fesul aelwyd)
Tir oddi ar Heol Penycoedcae, Beddau	Beddau / Tynant	140	2026 -	350
Clwb Golff Llantrisant a Phont-y-clun	Llantrisant / Tonysguboriau	500	2026 -	1,250
Tir i'r gogledd ac i'r de o Ffordd Llanhari	Brynsadler	250	2026 -	625
Tir ar safle hen waith glo brig Llanilid	Brynna / Llanharan	2,500	2026 -	6,250

Nodwyd bod cynlluniau'n cael eu datblygu i ddarparu gwasanaethau meddygol cyffredinol o adeiladau yn y datblygiad ar safle hen waith glo brig Llanilid oherwydd maint y datblygiad.

O fis Hydref 2025[355]:

- Mae Cam 1 y datblygiad (216 o unedau preswyl) yn agosáu at ei gwblhau.
- Mae gwaith adeiladu safle ar yr ail (421 o unedau preswyl) a'r trydydd camau (494 o unedau preswyl) ar y gweill (Hydref 2025).
- Mae clirio'r safle yn y cam ysgol gynradd ar y gweill.
- Nid oes unrhyw gamau pellach wedi'u cymeradwyo hyd yma, ond rhagwelir y bydd y safle ehangach yn cael ei ddatblygu trwy ddeg cam i gyd, sef wyth cam preswyl, cam ysgol gynradd, a cham ardal defnydd cymysg/canol tref (sy'n cael ei ystyried o hyd).

15.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau fferyllol a ddarperir mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 11 fferyllfa wedi dweud bod ganddynt gapasiti digonol yn eu safle. Dywedodd 9 fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu lefelau staffio, dywedodd un nad oes ganddi'r capasiti ond y gallai wneud addasiadau, a dywedodd un nad oes ganddi'r capasiti ac y byddai'n cael anhawster yn ymdopi â chynnydd yn y galw.

15.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

[355] Pwyllgor cynllunio a datblygu Rhondda Cynon Taf – Adroddiad: Cyfarwyddwr Ffyniant a Datblygu cais rhif: 19/1200/RES (MF) Hydref 2025

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr a'r ffaith y gall y boblogaeth gyrraedd fferyllfa mewn car o fewn 20 munud, ac i lawer y bydd yr amser teithio yn fyrrach.
- Er nodi nad oes car ar gael i bob aelwyd trwy gydol y dydd, mae natur y clwstwr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o drigolion ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Y datblygiadau tai hysbys.
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Yn seiliedig ar yr uchod, ac yn arbennig ledaeniad presennol oriau agor fferyllfeydd trwy gydol yr wythnos, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y datblygiadau tai hysbys a fydd yn darparu tai yn y clwstwr yn ystod oes y ddogfen hon, ac y gallai rhai ddarparu tai y tu hwnt i fis Hydref 2031. Mae'n fodlon y bydd yr angen am wasanaethau fferyllol gan y rhai sy'n symud i'r tai newydd yn cael ei ddiwallu gan y fferyllfeydd presennol ar gyfer pob datblygiad ond un. Fodd bynnag, mae wedi nodi y bydd un datblygiad yn creu tai ychwanegol ar gyfer tua 6,250 o bobl - tir ar hen safle gwaith glo brig Llanilid.

Ystyriwyd y cynnydd tebygol yn y galw am wasanaethau fferyllol y bydd y datblygiad hwn yn ei gynhyrchu. Mae gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2025 yn dangos mai nifer cyfartalog yr eitemau a ragnodwyd fesul person sydd wedi'i gofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru oedd 25.9 o eitemau yn 2024/25[356], sef ychydig bach o gynnydd o 0.2 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Amcangyfrifir felly y byddai cyfanswm o 161,875 o eitemau ar gyfartaledd yn cael eu rhagnodi bob blwyddyn ar gyfer y bobl sy'n byw yn y datblygiad hwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi dadansoddi nifer yr eitemau a gyflenwyd gan y pedair fferyllfa sydd agosaf at y datblygiad ac wedi nodi bod yr ystod o eitemau a gyflenwyd fesul fferyllfa rhwng tuag 80,700 a 232,800 yn 2024/25. Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26 yr amrediad oedd 60,660 a 181,600. Pe bai nifer yr eitemau a ragwelir yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y pedair fferyllfa, byddai hyn yn cyfateb i 40,500 o eitemau ychwanegol fesul fferyllfa (yn fras) a byddai'n cynrychioli cynnydd sylweddol ar gyfer tair o'r fferyllfeydd (rhwng 32.7% a 50.2% ar lefel fferyllfa). Yn ogystal, byddai cynnydd cysylltiedig yn y galw am y gwasanaethau fferyllol eraill a ddarperir gan y fferyllfeydd. Fodd bynnag, cydnabyddir ei bod yn annhebygol y byddai'r nifer cynyddol o eitemau yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y pedair fferyllfa, ond mae cyfanswm nifer yr eitemau y rhagwelir y byddent yn cael eu cynhyrchu yn cynrychioli cynnydd o 30% ar nifer yr eitemau a gyflenwyd i gyd gan y fferyllfeydd yn 2024/25.

Cwblhaodd dwy o'r fferyllfeydd holiadur y contractwr. Nid yw un yn hygyrch i gadeiriau olwyn, a dywedodd un nad oes ganddi gapasiti yn ei safle i reoli unrhyw gynnydd yn y galw ond y gallai wneud addasiadau i'w lefelau staffio i ymdopi â chynnydd. Dywedodd y llall fod ganddi ddigon o gapasiti yn ei safle a'i lefelau staffio.

[356] Llywodraeth Cymru – Presgripsiynau gofal sylfaenol: mis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025

O ystyried yr uchod, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon y bydd angen fferyllfa yn y dyfodol yn y datblygiad ar y tir ar safle hen waith glo brig Llanilid ar ôl cwblhau 5,000% o'r anheddau (h.y. 5,000 yn seiliedig ar gyfanswm o 6,250) sy'n darparu gwasanaethau fferyllol canlynol.

- Gwasanaethau hanfodol
- Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol (neu unrhyw wasanaeth newydd cyfatebol)
- Gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaeth newydd cyfatebol)

Mae'r gwasanaethau uchod i'w darparu o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ar fore Sadwrn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

15.8.2 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer

15.8.2.1 Gwasanaeth adolygu defnydd o offer

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr hwn yn 2024/25 ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Yn ogystal, o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, cyflenwyd 81.5% gan gontractwyr offer cyflenwi ac 83.7% yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Mae unigolion y mae angen y gwasanaeth adolygu defnydd offer arnynt yn debygol o gyrchu'r gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n cyflenwi eu presgripsiynau ar gyfer offer neu gallant ei gyrchu gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

15.8.2.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pob un wedi'i ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

15.8.2.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 19 o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

15.8.2.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 20 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pob un wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr. Gan fod meddygfeydd teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth hwn, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

15.8.2.5 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 14 o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod y gwasanaeth hwn ar gael i grwpiau cleifion penodol yn unig. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

15.8.2.6 Gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod deg o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Bydd dwy fferyllfa arall yn dechrau darparu gwasanaeth rhagnodwr annibynnol y fferyllydd yn 2026.

Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i bob fferyllfa gael rhagnodwr annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau interim o 50% o fferyllfeydd erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn 2029. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y rhagwelir, o 2026. y bydd pob fferyllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys yn rhagnodwr annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y targed o 50% i fod i gael ei gyrraedd erbyn mis Ebrill 2027. Bydd yn gweithio gyda chontractwyr er mwyn cynyddu nifer y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllydd (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

15.8.2.7 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae yna bedwar contractwr offer cyflenwi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyflenwodd 0.1% o'r eitemau a ragnodwyd gan feddygfeydd teulu yn y clwstwr hwn yn 2024/25 ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Yn ogystal, o'r eitemau a gyflenwyd yn Lloegr yn 2024/25, cyflenwyd 81.5% gan gontractwyr offer cyflenwi ac 83.7% yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl y gofyn cyn ei anfon neu ddosbarthu i gleifion.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

15.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

15.8.3.1 Gwasanaeth sgrinio firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Ni ddarparodd yr un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2025/26. Caiff y gwasanaeth ei gomisiynu mewn ardaloedd lle mae galw mawr am y rhaglenni nodwyddau a chwistrellu.

Mae gwasanaethau sgrinio firysau a gludir yn y gwaed ar gael drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis clinigau iechyd rhywiol, meddygfeydd teulu, archebu pecynnau profion cartref ac ôl-sgrinio ar-lein drwy Iechyd Rhywiol Cymru neu gasglu pecynnau sgrinio o leoliadau cymunedol ar draws y bwrdd iechyd. Mae nifer o fferyllfeydd ar draws y bwrdd iechyd yn cadw stoc o'r pecynnau prawf ac ôl-sgrinio, gan sicrhau eu bod ar gael yn gyfleus i'r rhai y mae'n well ganddynt gael opsiwn mwy cynnil neu hyblyg.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

15.8.3.2 Gwasanaeth cymorth ar gyfer cartrefi gofal - ymweliadau cymorth rheoli meddyginiaethau Lefel 1

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod un wedi'i ddarparu yn 2025/26. Mae fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaeth cyflenwi iddynt.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

15.8.3.3 Gwasanaeth wrth gefn (pecynnau gofal lliniarol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 19 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod chwe fferyllfa wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Mae gwasanaethau ar gael o fewn y clwstwr drwy nifer o ddarparwyr eraill yn ardal y bwrdd iechyd, megis tîm Rhondda a Thaf Elái sy'n gofalu am gleifion sy'n byw yn eu cartrefi a chartrefi nyrsio. Maent hefyd yn darparu gofal lliniarol arbenigol i gleifion mewnol yn Ysbyty Cwm Rhondda, yn ogystal ag Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac unrhyw ysbytai cymunedol eraill a thrwy fferyllfeydd y tu allan i'r clwstwr sydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

15.8.3.4 Gwasanaeth dyfais atgoffa am feddyginiaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Ni chafodd ei ddarparu gan yr un o'r fferyllfeydd yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

15.8.3.5 Gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 20 ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai fferyllfa'n rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau, y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth gael ei ddarparu i drigolion cymwys y dref/pentref hwnnw. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os:

- Gellir diwallu'r angen gan un neu fwy o fferyllfeydd sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu

- Mae darparwyr eraill sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Byddai caniatáu cais i gael ei gynnwys yn y rhestr fferyllol sy'n cynnig diwallu'r angen hwn yn arwain at gynnydd annymunol yn argaeledd gwasanaethau hanfodol yn y dref/pentref hwnnw.

15.8.3.6 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pump o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pump ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu gan y bwrdd iechyd ar sail strategol, gan sicrhau ei ddarparu o fewn ardaloedd mewn angen.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

15.8.3.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 17 ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

15.8.3.8 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 19 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 16 ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26. Nododd fod fferyllfeydd ymhlith amrywiaeth o ddarparwyr y gwasanaeth gan gynnwys gwasanaethau Helpa fi i stopio i'r babi a Helpa fi i stopio yn yr ysbyty.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

15.8.3.9 Gwasanaeth rhoi methadon a bwprenorffin dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod 19 ohonynt wedi'i ddarparu yn 2025/26. Darperir y gwasanaeth ar sail y galw.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol neu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

15.8.3.10 Gwasanaethau meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r

gwasanaeth lefel 1 yn 2025/26 ac un wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth lefel 2. Oherwydd natur y gwasanaeth, caiff ei gomisiynu i sicrhau lledaeniad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y bwrdd iechyd.

Nid yw'r bwrdd iechyd felly wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

15.8.3.11 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 20 o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn y clwstwr.

16 Casgliadau at ddibenion atodlen 1 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol wedi ystyried y gwasanaethau fferyllol a ddarperir ar hyn o bryd ar draws ardal y bwrdd iechyd ochr yn ochr ag anghenion demograffeg ac iechyd y boblogaeth. Mae wedi dadansoddi a yw'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu anghenion y boblogaeth ac a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau fferyllol a ddarperir naill ai nawr neu o fewn oes y ddogfen hon.

16.1 Y ddarpariaeth bresennol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi mai'r gwasanaethau canlynol sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal:

- Gwasanaethau hanfodol, y gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer a'r gwasanaethau clinigol ychwanegol a ddarperir mewn safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr fferyllol.
- Y gwasanaeth cyflenwi a ddarperir gan y meddygfeydd teulu hynny sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr meddygon fferyllol.

Mae adrannau blaenorol o'r ddogfen hon wedi nodi darpariaeth y gwasanaethau hyn ym mhob clwstwr.

Mae'r bwrdd iechyd hefyd wedi nodi bod darpariaeth y gwasanaethau uchod gan gontractwyr y tu allan i'w ardal, boed hynny mewn mannau eraill yng Nghymru neu yn Lloegr, yn cyfrannu tuag at ddiwallu'r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal.

16.2 Gwasanaethau eraill y GIG

Wrth gynnal yr asesiad hwn o anghenion fferyllol, mae'r bwrdd iechyd yn ystyried bod gwasanaethau eraill canlynol y GIG yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol ac wedi eu hystyried:

- Gwasanaethau ysbyty
- Darparu cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar ar gyfer triniaeth ar unwaith neu weinyddu eitemau yn bersonol gan feddygon teulu
- Gwasanaeth GIG 111 a meddygon teulu y tu allan i oriau
- Unedau mân anafiadau
- CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc
- System gwasanaeth archebu heb bresgripsiwn ar-lein ar gyfer rhwymynnau
- Presgripsiwn gan ddeintyddion ac optometryddion
- Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu o dan eu contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
- Gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc
- Tîm cyffuriau ac alcohol cymunedol
- Tîm iechyd meddwl cymunedol i oedolion

Ceir rhagor o fanylion am y rhain ym mhennod 6.

16.3 Bylchau presennol yn y ddarpariaeth

16.3.1 Mynediad presennol at wasanaethau hanfodol

Er mwyn asesu darpariaeth y gwasanaethau hanfodol yn erbyn anghenion y boblogaeth, roedd y bwrdd iechyd o'r farn mai mynediad (amseroedd teithio ac oriau agor) oedd y ffactor pwysicaf wrth benderfynu i ba raddau y mae'r gwasanaethau hanfodol a ddarperir ar hyn o bryd yn diwallu anghenion y boblogaeth.

Cytunwyd ar safon amser teithio o 20 munud mewn car ac mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod mwyafrif helaeth y preswylwyr yn gallu cyrraedd fferyllfa o fewn 20 munud mewn car, a llawer ohonynt o fewn llai o amser teithio. Mae'r bwrdd iechyd wedi dadansoddi'r ardaloedd hynny nad ydynt o fewn 20 munud mewn car ac mae'n fodlon:

- Eu bod yn ardaloedd bryniog neu fynyddig yn bennaf, sy'n aml yn cynnwys ffermydd gwynt, a choetiroedd. Bod un ardal yn laswelltir agored a chaeau â choetir,
- Nad oes gan yr ardaloedd hyn fawr o boblogaeth breswyl, os o gwbl, ac nad oes digon o bobl yn byw ynddynt i wneud fferyllfa yn ariannol hyfyw,
- Y bydd trigolion yn gadael yr ardaloedd ar gyfer mwyafrif eu hanghenion pob dydd, os nad y cyfan, a
- Bod preswylwyr yn debygol o gael meddyginiaeth gan eu meddygfa deulu.

Yn seiliedig ar yr uchod ac oriau agor presennol y fferyllfeydd, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw fylchau cyfredol yn y gwasanaethau hanfodol a ddarperir, ac felly nid oes unrhyw anghenion cyfredol amdanynt.

16.3.2 Mynediad cyfredol at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer a gwasanaethau clinigol ychwanegol

Mae'r bwrdd iechyd wedi adolygu darpariaeth y gwasanaethau hyn gan fferyllfeydd a'r datganiadau a wnaed gan y fferyllfeydd mewn perthynas â'u gallu i ymdopi â chynnydd yn y galw. Yn seiliedig ar yr uchod, a nifer cynyddol y fferyllfeydd sydd â rhagnodwr annibynnol, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw fylchau cyfredol yn narpariaeth y gwasanaethau hyn, nac felly unrhyw anghenion cyfredol amdanynt.

16.3.3 Mynediad cyfredol i wasanaeth cyflenwi gan feddygon teulu

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r gwasanaeth cyflenwi a ddarperir gan dri o'r meddygfeydd teulu i gleifion cymwys, gan nodi bod un practis yn cyflenwi o safle sydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd, ac nid yw wedi nodi unrhyw fylchau cyfredol yn narpariaeth y gwasanaeth hwn, nac felly unrhyw anghenion cyfredol amdano.

16.4 Bylchau presennol yn y ddarpariaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y materion canlynol:

- y twf poblogaeth a ragwelir,
- y boblogaeth sy'n heneiddio,
- y datblygiadau tai hysbys,
- y cyfeiriad teithio a nodir yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach, a
- gallu fferyllfeydd i reoli cynnydd yn y galw.

16.4.1 Mynediad yn y dyfodol at wasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y datblygiadau tai hysbys a fydd yn darparu tai yn ystod oes y ddogfen hon, ac y gallai rhai ddarparu tai y tu hwnt i fis Hydref 2031. Mae'n fodlon y bydd yr angen am wasanaethau fferyllol gan y rhai sy'n symud i'r tai newydd yn cael ei ddiwallu gan y fferyllfeydd presennol ar gyfer pob datblygiad ond un. Fodd bynnag, mae wedi nodi y bydd un datblygiad yn creu tai ychwanegol ar gyfer tua 6,250 o bobl - tir ar hen safle gwaith glo brig Llanilid.

O ystyried yr wybodaeth a nodir yn adran 15.8.1, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon y bydd angen fferyllfa yn y dyfodol yn y datblygiad ar y tir ar hen safle gwaith glo brig Llanilid ar ôl cwblhau 80% o'r anheddau (h.y. 5,000 yn seiliedig ar gyfanswm o 6,250) sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ar foreau Sadwrn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r angen canlynol am wasanaethau hanfodol yn y dyfodol mewn perthynas â phob un o'r clystyrau.

Nododd yr asesiad o anghenion fferyllol hefyd, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

16.4.2 Mynediad yn y dyfodol at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer a gwasanaethau clinigol ychwanegol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi angen yn y dyfodol sy'n benodol i glwstwr Taf Elái. O ystyried yr wybodaeth a nodir yn adran 15.8.1, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon y bydd angen fferyllfa yn y dyfodol yn y datblygiad ar y tir ar hen safle gwaith glo brig Llanilid ar ôl cwblhau 80% o'r anheddau (h.y. 5,000 yn seiliedig ar gyfanswm o 6,250) sy'n darparu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllwyr (neu unrhyw wasanaeth newydd cyfatebol), ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ar foreau Sadwrn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r anghenion canlynol am wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a gwasanaethau contractwr offer yn y dyfodol mewn perthynas â phob un o'r clystyrau.

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol hefyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu'n ôl fferyllfa o'r rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa

newydd yn y dyfodol yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllwyr (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu ragor o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai fferyllfa'n rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cofnodi rhoi meddyginiaethau, y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth gael ei ddarparu i drigolion cymwys y dref/pentref hwnnw. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os:

- Gellir diwallu'r angen gan un neu fwy o fferyllfeydd sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Mae darparwyr eraill sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Byddai caniatáu cais i gael ei gynnwys yn y rhestr fferyllol sy'n cynnig diwallu'r angen hwn yn arwain at gynnydd annymunol yn argaeledd gwasanaethau hanfodol yn y dref/pentref hwnnw.

16.4.3 Mynediad yn y dyfodol at wasanaeth cyflenwi gan feddygon teulu

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw fylchau yn narpariaeth y gwasanaeth hwn ac felly nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol mewn perthynas ag ef.

Atodiad A – cyd-destun polisi a phapurau cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu'r strwythur cyffredinol y mae fferyllfeydd cymunedol, contractwyr offer dosbarthu a meddygon dosbarthu yn gweithredu o'i fewn drwy ddarparu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi. O fewn y fframwaith, mae'r cyfrifoldeb dros gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol wedi'i roi i fyrddau iechyd, ac y mae'n rhaid iddynt hwy gynllunio gwasanaethau iechyd i ddiwallu anghenion eu poblogaethau preswyl. Mae hyn yn cynnwys pennu nifer a lleoliad fferyllfeydd a chontractwyr offer dosbarthu yn eu hardaloedd.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol i sicrhau darpariaeth gwasanaethau fferyllol, fel gydag agweddau eraill ar wasanaethau gofal sylfaenol y GIG, wedi'i rhoi'n uniongyrchol i fyrddau iechyd o dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 (Deddf 2006). Mae byrddau iechyd yn rheoli rhestrau lleol o ddarparwyr cymeradwy, y cyfeirir atynt fel rhestrau fferyllol, ac mae cynnwys safleoedd contractwyr fferyllfeydd ac offer dosbarthu ar restrau fferyllol yn rhoi'r hawl i gontractwyr ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG yn y safleoedd hynny.

Mae'r trefniadau hyn yn llywodraethu darparu gwasanaethau fferyllol ac nid yr hawl i agor a chynnal busnes fferyllfa yng Nghymru. Ymdrinnir â hynny o dan ddeddfwriaeth ar wahân ledled y DU, sef Deddf Meddyginiaethau 1968.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau a dyletswyddau helaeth i wneud rheoliadau a chyhoeddi cyfarwyddiadau i fyrddau iechyd, sy'n llywodraethu manylion y system gwasanaethau fferyllol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys pennu'r telerau gwasanaeth ar gyfer fferyllfeydd a chontractwyr offer dosbarthu a chymhwyso'r prawf rheoli mynediad, sef y prawf y byddai'n rhaid ei fodloni tan 1 Hydref 2021 cyn y byddai bwrdd iechyd yn caniatáu cais i gael mynediad, neu'n diwygio cofnod, ar y rhestr fferyllol.

O dan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 (Rheoliadau 2013), a rheoliadau blaenorol, cyflwynodd y rhai a oedd yn dymuno darparu gwasanaethau fferyllol gais i'r bwrdd iechyd yn unol â Rheoliadau 2013. Yna penderfynodd y bwrdd iechyd a oedd y cais yn bodloni'r prawf perthnasol ai peidio. Roedd Rheoliadau 2013 yn caniatáu herio penderfyniad y bwrdd iechyd drwy gyflwyno apêl i Weinidogion Cymru.

Felly, y rhai a oedd am ddarparu gwasanaethau fferyllol oedd yn gyrru'r system flaenorol o ddarparu gwasanaethau fferyllol. Nhw oedd yn penderfynu pa wasanaethau yr oeddent am eu darparu ac o ba leoliad.

Roedd hynny'n golygu bod y system yn ymatebol i geisiadau ac nad oedd byrddau iechyd yn gallu cynllunio ble roedd fferyllfeydd na chontractwyr offer dosbarthu wedi'u lleoli, na chyfarwyddo pa wasanaethau y mae'n rhaid eu darparu o'r lleoliadau hynny.

Rhesymeg dros y newid

Yn 2010, sefydlodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r fframwaith rheoleiddio, i ystyried polisi Llywodraeth Cymru ar reoli mynediad a darparu gwasanaethau fferyllol gan weithwyr gofal iechyd heblaw fferyllwyr (e.e. meddygon) ac i wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth, os yw'n briodol, er mwyn sicrhau system hirdymor, gost-effeithiol a chynaliadwy a fyddai'n rhoi mynediad priodol i gleifion at wasanaethau fferyllol.

Yn 2011, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar argymhellion y grŵp Gorchwyl a Gorffen. Roedd yr ymgynghoriad “Cynigion i ddiwygio a moderneiddio Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992” yn ceisio barn ar gynigion i gyflwyno dull newydd o benderfynu ar geisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol yng Nghymru yn seiliedig yn fwy ar asesiad o anghenion lleol gan fyrddau iechyd. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod gwneud newid o'r fath yn gofyn am greu a chynnwys pwerau priodol yn Neddf 2006.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, daeth Rheoliadau 2013 i rym ar 10 Mai 2013 ond nid oeddent yn cynnwys darpariaethau i gyflwyno Asesiadau Anghenion Fferyllol.

Fe wnaeth Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Deddf 2017) fewnosod adran 82A i mewn i Ddeddf 2006 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer dyletswydd newydd i fyrddau iechyd yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi asesiad o'r angen am wasanaethau fferyllol. Rhoddodd Adran 82A bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi'r gofynion ar gyfer asesiadau o anghenion fferyllol yng Nghymru.

Effaith fwriadedig a chanlyniadau buddiol

Y bwriad wrth gyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol yw gwella cynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol drwy sicrhau bod y byrddau iechyd yn ystyried anghenion fferyllol eu poblogaethau yn drylwyr ac yn alinio gwasanaethau'n agosach â nhw. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd fabwysiadu dull mwy integredig o nodi anghenion fferyllol poblogaethau, gan gynnwys ystyried cyfraniad pob darparwr gwasanaethau fferyllol (e.e. fferyllfeydd a meddygon sy'n dosbarthu meddyginiaethau). Mae byrddau iechyd yn defnyddio'r asesiadau hyn i nodi ble mae angen safleoedd ychwanegol, ble mae darparwyr presennol yn mynd i'r afael ag anghenion fferyllol yn ddigonol, a ble mae angen gwasanaethau ychwanegol o safleoedd presennol.

Mae'r newid yn rhoi mwy o sicrwydd i gontractwyr, gan leihau risg busnes a chaniatáu iddynt fuddsoddi mewn darparu gwasanaethau ehangach nag a wnaethant o'r blaen. Yn bwysig, bydd fferyllfeydd yn benodol hefyd yn dod yn fwy ymatebol i anghenion y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu ac yn darparu gwasanaethau'n effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion fferyllol a nodwyd.

Polisi, fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddio

Mae Adran 80 o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd i wneud trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau fferyllol a nodir yn is-adrannau 80(3)(a) i (d). Y gwasanaethau fferyllol craidd hyn yw'r gwasanaethau hanfodol a nodir bellach yn Rhan 2 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n llywodraethu'r ffordd y mae byrddau iechyd yn gwneud y trefniadau hyn.

Mae Adran 81 o Ddeddf 2006 yn nodi'r trefniadau y gall Gweinidogion Cymru eu gwneud ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol ychwanegol. Diffinnir 'gwasanaethau fferyllol ychwanegol' fel gwasanaethau o fath nad ydynt yn dod o dan adran 80, h.y. y gwasanaethau fferyllfa gymunedol genedlaethol a chontractwyr offer (a elwid gynt yn 'gwasanaethau uwch'), a'r gwasanaethau clinigol ychwanegol fferyllfa gymunedol (a elwid gynt yn 'gwasanaethau gwell'). Mae Adran 81 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i fwrdd iechyd:

(i) ei gwneud yn ofynnol iddo drefnu i ddarparu gwasanaethau fferyllol ychwanegol, neu
(ii) (ii) awdurdodi'r bwrdd iechyd i drefnu darparu gwasanaethau fferyllol os yw'n dymuno.

Mae Adran 83 o Ddeddf 2006 yn cynnwys craidd pwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â darparu gwasanaethau fferyllol ac, ymhlith pethau eraill, yn nodi'r gofyniad i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i fwrdd iechyd baratoi a chyhoeddi rhestr fferyllol, ac yn nodi'r profion y mae'n rhaid i'r rhai sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol eu pasio er mwyn gwneud hynny (a elwir yn 'brawf rheoli mynediad').

Mae adran 84 yn nodi gofyniad i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer hawliau apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan fyrddau iechyd wrth arfer pwerau a roddir iddynt gan reoliadau a wneir o dan adran 83.

Gwnaeth Rhan 7 o Ddeddf 2017 ddarpariaeth i ddiwygio Deddf 2006 mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol. Mewnosododd adran 111 o Ddeddf 2017 adran 82A newydd i Ddeddf 2006 sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag asesiadau o anghenion fferyllol. Daeth Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 4) 2019 â Rhan 7 o Ddeddf 2017 i rym ar 1 Ebrill 2019. O ganlyniad, gwnaeth Gweinidogion Cymru is-ddeddfwriaeth yn nodi gofynion ar gyfer asesiadau o anghenion fferyllol yng Nghymru.

Dirymwyd Rheoliadau 2013 a'u disodli gan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Mae Rhan 2 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn gosod y gofynion cyfreithiol ar fyrddau iechyd i gwblhau asesiadau o anghenion fferyllol.

Daeth Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 i rym ar 1 Hydref 2020 ac roedd gan fyrddau iechyd tan 1 Hydref 2021 i gyhoeddi eu hasesiad cyntaf o anghenion fferyllol.

Yn gryno, mae Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn nodi'r canlynol:

- Gwasanaethau sydd i'w cynnwys yn yr asesiad anghenion fferyllol
- Gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr asesiad o anghenion fferyllol (dylid nodi bod byrddau iechyd yn rhydd i gynnwys unrhyw wybodaeth arall y maent yn teimlo sy'n berthnasol)
- Y dyddiad pryd mae'n rhaid i fyrddau iechyd gyhoeddi eu hasesiad cyntaf o anghenion fferyllol
- Gofyniad ar fyrddau iechyd i gyhoeddi asesiadau pellach o anghenion fferyllol bob pum mlynedd
- Gofyniad i gyhoeddi asesiad diwygiedig yn gynt nag unwaith bob pum mlynedd mewn rhai amgylchiadau
- Gofyniad i gyhoeddi datganiadau atodol mewn rhai amgylchiadau
- Gofyniad i ymgynghori â phobl a sefydliadau penodol o leiaf unwaith yn ystod cynhyrchu'r asesiad o anghenion fferyllol, am o leiaf 60 diwrnod; a
- Materion y mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd eu hystyried wrth gynhyrchu ei asesiad o anghenion fferyllol.

Unwaith y bydd bwrdd iechyd wedi cyhoeddi ei Asesiad Anghenion Fferyllol cyntaf, mae'n ofynnol iddo gynhyrchu asesiad anghenion fferyllol diwygiedig o fewn pum mlynedd neu'n gynt os yw'n nodi newidiadau i'r angen am wasanaethau fferyllol sydd o raddfa sylweddol. Yr unig eithriad i hyn yw lle mae'r bwrdd iechyd yn fodlon y byddai cynhyrchu asesiad anghenion fferyllol diwygiedig yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny.

Yn ogystal, gall bwrdd iechyd gyhoeddi datganiad atodol lle mae'n nodi newidiadau i argaeledd gwasanaethau fferyllol sy'n berthnasol i ganiatáu ceisiadau y cyfeirir atynt yn Adran 83 o Ddeddf 2006, a

- Mae'n fodlon y byddai gwneud asesiad diwygiedig yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny, neu
- Mae wrthi'n gwneud asesiad diwygiedig ac mae'n fodlon bod addasu ei asesiad o anghenion fferyllol ar unwaith yn hanfodol er mwyn atal niwed i'r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol yn ei ardal.

Datblygu'r gofynion manwl

Sefydlwyd gweithgor ym mis Tachwedd 2015 i ddatblygu'r gofynion manwl ar gyfer cynnal Asesiad Anghenion Poblogaidd ac i adolygu a diwygio'r profion a'r gweithdrefnau fel y maent yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG. Roedd y grŵp, a gyfarfu nifer o weithiau, yn cynnwys arweinwyr fferyllfeydd y byrddau iechyd â gwybodaeth am y system rheoli mynediad flaenorol ac arbenigedd mewn fferyllfeydd cymunedol, arweinwyr gofal sylfaenol (fferyllfeydd) Partneriaeth

Gwasanaethau a Rennir y GIG, sydd ag arbenigedd yn y broses o benderfynu ar geisiadau rheoli mynediad, a staff Llywodraeth Cymru. Gwnaeth y grŵp gyfraniad sylweddol at ddatblygiad polisi Llywodraeth Cymru ar asesiadau o anghenion fferyllol, gan gynnwys y cynigion canlyniadol a gynhwysir yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

Adolygiad o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

Yn 2024 cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r rheoliadau i werthuso'r asesiadau o anghenion fferyllol a gyflwynwyd er mwyn asesu a yw eu cyflwyno'n gweithio fel y bwriadwyd ac i nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol o'r polisi.

Atodiad B – gwasanaethau hanfodol

1. Dosbarthu presgripsiynau

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cyflenwi meddyginiaethau ac offer a archebir ar bresgripsiynau'r GIG, ynghyd â gwybodaeth a chyngor, i alluogi defnydd diogel ac effeithiol gan gleifion, a chynnal cofnodion priodol.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn meddyginiaethau ac offer a archebir yn ddiogel ac yn briodol gan y fferyllfa:

- Cynnal gwiriadau cyfreithiol, clinigol a chywirdeb priodol
- Cael systemau gweithredu diogel, yn unol â gofynion llywodraethu clinigol
- Cael systemau ar waith i warantu uniondeb y cynhyrchion a gyflenwir
- Cadw cofnod o'r holl feddyginiaethau ac offer a gyflenwir y gellir eu defnyddio i gynorthwyo gofal cleifion yn y dyfodol
- Cynnal cofnod o'r cyngor a roddir, ac ymyriadau ac atgyfeiriadau a wneir, lle mae'r fferyllydd yn barnu ei fod yn briodol yn glinigol.

Er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu defnyddio eu meddyginiaethau a'u hoffer yn effeithiol gan staff y fferyllfa:

- Darparu gwybodaeth a chyngor i'r claf neu ei gynrychiolydd ar ddefnyddio ei feddyginiaeth neu ei offer yn ddiogel
- Darparu cyngor ehangach i'r claf ar y feddyginiaeth pan fo'n briodol, er enghraifft ei sgîl-effeithiau posibl a'i rhyngweithiadau arwyddocaol â sylweddau eraill.

2. Dosbarthu presgripsiynau ailadroddadwy

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Rheoli a dosbarthu presgripsiynau ailadroddus y GIG ar gyfer meddyginiaethau ac offer mewn partneriaeth â'r claf a'r rhagnodwr.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys gofynion ychwanegol at y rhai ar gyfer dosbarthu, fel bod y fferyllydd yn canfod angen y claf am gyflenwad dro ar ôl tro ac yn cyfleu unrhyw faterion o bwys clinigol i'r rhagnodwr.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

- Er mwyn cynyddu dewis a chyfleustra cleifion, drwy ganiatáu iddynt gael eu meddyginiaethau a'u cyfarpar presgripsiwn rheolaidd yn uniongyrchol o fferyllfa gymunedol am gyfnod y cytunwyd arno gan y rhagnodwr

- I leihau gwastraff drwy leihau nifer y meddyginiaethau a'r offer a roddir nad oes eu hangen ar y claf
- Lleihau llwyth gwaith meddygfeydd cyffredinol, drwy leihau baich rheoli presgripsiynau ailadroddus.

3. Gwaredu cyffuriau diangen

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Fferyllfeydd cymunedol yn derbyn meddyginiaethau diangen y mae angen eu gwaredu'n ddiogel o gartrefi preifat a phobl sy'n byw mewn cartref gofal preswyl. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd drefnu casglu a gwaredu meddyginiaethau gwastraff o fferyllfeydd.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

- Er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd ddull hawdd o gael gwared ar feddyginiaethau diangen yn ddiogel
- Lleihau nifer y meddyginiaethau diangen sy'n cael eu storio yng nghartrefi pobl drwy ddarparu llwybr gwaredu a thrwy hynny leihau'r risg o wenwyno damweiniol yn y cartref a dargyfeirio meddyginiaethau i bobl eraill nad ydynt wedi'u hawdurdodi i'w meddu
- Er mwyn lleihau'r risg o amlygu'r cyhoedd i feddyginiaethau diangen sydd wedi'u gwaredu trwy ddulliau anniogel
- Er mwyn lleihau'r difrod amgylcheddol a achosir gan ddulliau gwaredu amhriodol ar gyfer meddyginiaethau diangen.

4. Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu cyngor ar ffordd o fyw iach ac iechyd y cyhoedd, sy'n gyfleus i gleifion sy'n derbyn presgripsiynau ac sy'n ymddangos yn dioddef o, neu mewn perygl o ddatblygu, problem iechyd niweidiol a chyfranogiad rhagweithiol mewn ymgyrchoedd cenedlaethol/lleol, i hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ymwelwyr fferyllfeydd cyffredinol yn ystod cyfnodau ymgyrchoedd penodol wedi'u targedu

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

- Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth cleifion a'r cyhoedd o negeseuon allweddol am ffordd iach o fyw ac iechyd y cyhoedd fel eu bod wedi'u grymuso i gymryd camau a fydd yn gwella eu hiechyd.
- Targedu'r sectorau 'anodd eu cyrraedd' o'r boblogaeth nad ydynt yn aml yn agored i weithgareddau hyrwyddo iechyd mewn rhannau eraill o'r sector iechyd neu ofal cymdeithasol.

5. Gwybodaeth gyfeirio

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu gwybodaeth i bobl sy'n ymweld â'r fferyllfa, sydd angen cymorth, cyngor neu driniaeth bellach na all y fferyllfa ei darparu ond sydd ar gael gan ddarparwyr gofal iechyd a chymdeithasol eraill neu sefydliadau cymorth a allai fod yn gallu cynorthwyo'r person. Lle bo'n briodol, gall hyn fod ar ffurf atgyfeiriad.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

- I hysbysu neu gynghori pobl sydd angen cymorth, na all y fferyllfa ei ddarparu, am ddarparwyr gofal iechyd a chymdeithasol neu sefydliadau cymorth priodol eraill
- Er mwyn galluogi pobl i gysylltu â gofal a chymorth pellach sy'n briodol i'w hanghenion a/neu gael mynediad atynt
- Er mwyn lleihau defnydd amhriodol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

6. Cymorth ar gyfer hunanofal

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu cyngor a chymorth gan staff fferyllfa i alluogi pobl i gael y budd mwyaf o ofalu amdanyn nhw eu hunain neu eu teuluoedd.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

- I wella mynediad a dewis i bobl sy'n dymuno gofalu amdanyn nhw eu hunain neu eu teuluoedd
- Mae pobl, gan gynnwys gofalwyr, yn cael cyngor priodol i'w helpu i hunanreoli cyflwr hunangyfyngol neu hirdymor, gan gynnwys cyngor ar ddewis a defnyddio unrhyw feddyginiaethau priodol
- Mae pobl, gan gynnwys gofalwyr, yn cael cyngor hyrwyddo iechyd ar gyfle pan fo'n briodol, yn unol â'r cyngor a ddarperir yn y gwasanaeth hanfodol – gwasanaeth hyrwyddo ffyrdd iach o fyw
- Mae pobl, gan gynnwys gofalwyr, yn gallu gofalu amdanyn nhw eu hunain yn well neu reoli cyflwr ar unwaith ac yn y dyfodol, drwy fod yn fwy gwybodus am yr opsiynau triniaeth sydd ganddyn nhw, gan gynnwys rhai nad ydynt yn rhai ffarmacolegol.
- Er mwyn lleihau defnydd amhriodol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Atodiad C – gwasanaethau contractwyr cyfarpar a fferyllfeydd cymunedol cenedlaethol

1. Y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol yn cynnwys tair elfen.

- Gwasanaeth anhwylderau cyffredin,
- Gwasanaeth atal cenhedlu, a
- Gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng.

Er mwyn darparu'r gwasanaeth, rhaid i gontractwyr fferyllfa ddarparu'r tri chydran.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

- Darparu gofal iechyd darbodus gan ddefnyddio model gofal 'fferyllfa gymunedol yn gyntaf', ar gyfer cleifion y gellir eu rheoli'n briodol yn y lleoliad fferyllfa gymunedol, a thrwy hynny gynyddu mynediad at ofal amserol gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol.
- Er mwyn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy gynyddu mynediad (yn amserol ac yn ddaearyddol) at wasanaethau sy'n diwallu anghenion cleifion am ofal heb ei gynllunio, atal cenhedlu, neu gyngor ar heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

O dan y gwasanaeth hwn, mae cleifion yn cofrestru gyda'r fferyllfa o'u dewis er mwyn derbyn cyngor a thriniaeth ar restr benodol o anhwylderau cyffredin sy'n cynnwys haint y llwybr wrinol a dolur gwddf. Gall hyn gynnwys cyflenwi un neu fwy o feddyginiaethau a restrir ar y fformiwlari cenedlaethol.

Gwasanaeth atal cenhedlu

Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion rhwng 13 a 54 oed, sydd â'r potensial i gael plant ac:

- sydd wedi cael cyfathrach rywiol heb amddiffyniad yn ystod y pum diwrnod diwethaf, neu
- eisiau defnyddio dull atal cenhedlu progestogen yn unig fel dull atal cenhedlu dros dro (Bridging) neu QuickStart.

Pan fo'r claf yn 13, 14 neu 15 oed, cynigir y gwasanaeth yn unol â chymhwysedd Gillick, canllawiau Fraser ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â darparu cyngor a/neu driniaeth iechyd rhywiol cyfrinachol i gleifion 13 oed neu hŷn.

Lle mae asesiad yn penderfynu ei bod yn briodol cyflenwi dulliau atal cenhedlu brys, bydd y feddyginiaeth berthnasol yn cael ei chyflenwi trwy gyfarwyddyd grŵp cleifion i'w bwyta ar unwaith ar y safle. Mae darpariaeth atal cenhedlu Bridging neu QuickStart hefyd trwy gyfarwyddyd grŵp cleifion i'w ddefnyddio mewn mannau eraill.

Cyflenwad meddyginiaethau brys

Fel arfer, dim ond lle mae contractwr y fferyllfa yn credu na fyddai'n ymarferol i'r claf gael y meddyginiaethau a ragnodir yn flaenorol sydd eu hangen arnynt o fewn amserlen briodol yn glinigol drwy'r llwybr arferol y darperir y gwasanaeth hwn.

Er mwyn gwneud cyflenwad, rhaid i gontractwr y fferyllfa gyfweld â'r claf a bod yn fodlon bod:

- bod angen brys am y feddyginiaeth a gyflenwir, a
- ei bod yn anymarferol cael presgripsiwn heb oedi gormodol; a
- bod triniaeth gyda'r feddyginiaeth wedi'i rhagnodi ar achlysur blaenorol gan ragnodwr perthnasol ar gyfer y person sy'n gofyn amdani; a
- ynghylch y dos y byddai'n briodol i'r person hwnnw ei gymryd yn yr amgylchiadau.

2. Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Bydd y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau yn darparu cefnogaeth i gleifion a ryddhawyd yn ddiweddar rhwng lleoliadau gofal drwy sicrhau bod newidiadau i feddyginiaethau cleifion a wneir mewn un lleoliad gofal (e.e. yn ystod derbyniad i'r ysbyty) yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd yn y gymuned, gan helpu i leihau'r risg o broblemau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau y gellir eu hatal a chefnogi ymlyniad wrth feddyginiaeth a ragnodir yn ddiweddar.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys dau gam.

- Mae'r cam cyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i'r fferyllydd neu'r technegydd fferyllfa yn y fferyllfa wirio bod y meddyginiaethau a ragnodir mewn un lleoliad gofal yn cyfateb i'r rhai a ragnodir gan feddyg teulu'r claf neu'r tîm gofal sylfaenol perthnasol pan fydd y claf yn symud i leoliad gofal arall, a all fod yn gartref iddo. Os oes unrhyw anghysondebau, cânt eu codi gyda'r feddygfa deulu, y tîm gofal sylfaenol perthnasol, y claf yn y lleoliad gofal neu'r gofalwr yn ôl yr angen.
- Mae'r ail gam yn rhoi cyfle i'r claf gael trafodaeth gyda fferyllydd a/neu dechnegydd fferyllfa i sefydlu darlun o ddefnydd y claf o'i feddyginiaethau neu atgyfeirio ymlaen i leoliad priodol i'w adolygu ymhellach. Bydd yr adolygiad hefyd yn helpu cleifion i ddeall eu meddyginiaethau a bydd yn nodi unrhyw broblemau maen nhw'n eu profi ynghyd ag atebion posibl.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Diben sylfaenol y gwasanaeth hwn, gyda chytundeb y claf, yw cyfrannu at leihau'r risg o gamgymeriadau meddyginiaeth a digwyddiadau niweidiol gyda chyffuriau drwy, yn benodol –

- Cynyddu argaeledd gwybodaeth gywir am feddyginiaethau claf,
- Gwella cyfathrebu rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac eraill sy'n ymwneud â throsglwyddo gofal cleifion, a chleifion a'u gofalwyr,
- Cynyddu cyfranogiad cleifion yn eu gofal eu hunain drwy eu helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'u meddyginiaethau, a
- Lleihau'r tebygolrwydd o bresgripsiynau diangen neu ddyblyg yn cael eu dosbarthu, a lleihau gwastraff meddyginiaethau.

3. Gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllydd

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Rhaid i unrhyw gontractwr fferyllfa sy'n dymuno darparu'r gwasanaeth hwn fod yn darparu'r gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol hefyd. Mae'n cynnwys tair cydran:

- Rhagnodi dulliau atal cenhedlu arferol,
- Rheoli anhwylderau cyffredin, nad ydynt fel arfer yn cael eu rheoli gan y gwasanaeth anhwylderau cyffredin cenedlaethol, a
- Darparu gwasanaeth rhagnodi y cytunwyd arno gan y bwrdd iechyd lleol perthnasol.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Dyma amcanion sylfaenol y gwasanaeth hwn:

- i ddarparu mynediad at feddyginiaethau presgripsiwn yn unig ar gyfer trin anhwylderau cyffredin sy'n gofyn am driniaeth gyda meddyginiaethau presgripsiwn yn unig nad ydynt ar gael o dan y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol,
- i ganiatáu i bresgripsiynwyr annibynnol gynnal lefel o archwiliad clinigol sydd y tu allan i gwmpas manyleb y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol,
- i ddarparu mynediad at atal cenhedlu brys neu reolaidd lle na ellir diwallu'r anghenion hynny o dan y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol; a
- ar gyfer darparu unrhyw wasanaeth arall y mae'r contractwr fferyllfa yn cytuno â'r bwrdd iechyd lleol perthnasol i'w ddarparu.

4. Gwasanaeth brechu ffliw tymhorol

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Rhaid i unrhyw gontractwr fferyllfa sy'n dymuno darparu'r gwasanaeth hwn fod yn darparu'r gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol hefyd.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Diben sylfaenol y gwasanaeth yw i'r fferyllydd cofrestredig neu'r technegydd fferyllfa roi brechiad ffliw i glaf o dan gyfarwyddyd grŵp cleifion neu roi brechiad ffliw i glaf o dan brotocol a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 247A o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (Protocolau sy'n ymwneud â brechiadau ac imiwneiddiadau coronafeirws a ffliw).

5. Addasu offer stoma

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Addasu offer stoma yw addasu nifer o fwy nag un offer stoma, lle:

- Mae'r teclyn stoma i'w addasu wedi'i restru yn Rhan IXC o'r Tariff Cyffuriau.
- Mae'r addasu yn cynnwys addasu i'r un fanyleb o sawl rhan union yr un fath i'w defnyddio gydag offer; a
- Mae'r addasiad yn seiliedig ar fesuriad y claf neu gofnod o'r mesuriadau hynny ac, os yw'n berthnasol, templed.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Diben sylfaenol y gwasanaeth yw:

- Sicrhau bod claf yn defnyddio'r ddyfais stoma'n gywir ac yn ei ffitio'n gyfforddus; a
- Gwella hyd defnydd yr offer, a thrwy hynny leihau gwastraff offer o'r fath.

6. Adolygiad Defnyddio Cyfarpar

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae adolygiad defnydd o offer yn ymwneud â helpu cleifion i ddefnyddio eu hoffer yn fwy effeithiol. Gall argymhellion a wneir i ragnodwyr hefyd ymwneud ag effeithiolrwydd clinigol neu gost-effeithiolrwydd triniaeth.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Diben sylfaenol y gwasanaeth, gyda chytundeb y claf, yw gwella gwybodaeth a defnydd y claf o unrhyw offer penodol drwy, yn benodol:

- Sefydlu'r ffordd y mae'r claf yn defnyddio'r teclyn penodedig a phrofiad y claf o'r defnydd hwnnw
- Nodi, trafod a chynorthwyo i ddatrys defnydd gwael neu aneffeithiol o'r offer penodedig gan y claf
- Cynghori'r claf ar storio'r offer penodedig yn ddiogel ac yn briodol

- Cynghori'r claf ar waredu'r offer penodedig sy'n cael eu defnyddio neu nad oes eu hangen yn ddiogel ac yn briodol.

7. Gwasanaeth cyflenwi prawf llif ochrol

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Dim ond ar gyfer cleifion a allai fod yn gymwys ar gyfer triniaethau COVID-19 y mae'r gwasanaeth hwn. O dan y gwasanaeth, mae contractwyr fferyllfa yn cyflenwi profion llif ochrol i gleifion cymwys neu eu cynrychiolwyr er mwyn i'r claf allu rhoi'r profion iddyn nhw eu hunain i ffwrdd o'r fferyllfa.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Cynnig mynediad at brofion llif ochrol i gleifion sydd â chyflwr iechyd sydd yn eu gwneud yn gymwys i gael triniaeth COVID-19, er mwyn galluogi profion gartref am COVID-19, yn dilyn symptomau haint. Bydd canlyniad prawf llif ochrol positif yn cael ei ddefnyddio i lywio asesiad clinigol i benderfynu a yw'r claf yn addas ar gyfer triniaethau COVID-19 a argymhellir gan NICE ac a fydd yn elwa o'r triniaethau hynny.

Atodiad D – gwasanaethau clinigol ychwanegol

1. Gwasanaeth monitro gwrthgeulydd, y mae ei bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa brofi amser ceulo gwaed y claf, adolygu'r canlyniadau ac addasu (neu argymell addasiad i) dos y gwrthgeulydd yn unol â hynny.

2. Gwasanaeth cartref gofal, y mae ei ddiben sylfaenol yn cynnwys i'r contractwr fferyllfa ddarparu cyngor a chymorth i breswylwyr a staff mewn cartref gofal ynghylch—

- Archebu cyffuriau ac offer yn briodol ac yn effeithiol er budd preswylwyr yn y cartref gofal
- Defnydd clinigol a chost-effeithiol o gyffuriau
- Gweinyddu cyffuriau ac offer yn briodol ac yn effeithiol yn y cartref gofal
- Storio a thrin cyffuriau ac offer yn ddiogel ac yn briodol, a
- Chofnodi cyffuriau ac offer a archebir, a drafodir, a weinyddir, a storir neu a waredir.

3. Gwasanaeth rheoli sy'n benodol i glefydau, y mae ei bwrpas sylfaenol yn cynnwys i'r contractwr fferyllfa gynghori ar driniaeth cleifion â chyflyrau penodol, eu cefnogi a'u monitro, a lle bo'n briodol, atgyfeirio'r claf at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

4. Gwasanaeth cyflenwi triniaeth a phroffylacsis pandemig brys –

- Y diben sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa roi brechiad i glaf o dan gyfarwyddyd neu brotocol grŵp cleifion a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 247A o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (Protocolau sy'n ymwneud â brechiadau ac imiwneiddiadau coronafeirws a ffliw), a
- Os yw contractwr fferyllfa yn trefnu i ddarparu'r gwasanaeth hwn, rhaid iddo ei ddarparu am hyd y trefniant y mae wedi cytuno arno gyda'r bwrdd iechyd lleol.

5. Gwasanaeth brechu pandemig brys -

- Y diben sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa roi brechiad i glaf o dan gyfarwyddyd neu brotocol grŵp cleifion a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 247A o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (Protocolau sy'n ymwneud â brechiadau ac imiwneiddiadau coronafeirws a ffliw), a
- Os yw contractwr fferyllfa yn trefnu i ddarparu'r gwasanaeth hwn, rhaid iddo ei ddarparu am hyd y trefniant y mae wedi cytuno arno gyda'r bwrdd iechyd lleol.

6. Gwasanaeth cyflenwi bwyd di-glwten, y mae ei bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa gyflenwi bwydydd di-glwten i gleifion.

7. Gwasanaeth dosbarthu cartref, y mae ei bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa ddosbarthu i gartrefi cleifion-

- Cyffuriau, a
- Offerynnau, ac eithrio offerynnau penodedig o fewn ystyr rheoliad 2(1) o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

8. Gwasanaeth mynediad iaith, y mae ei bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa ddarparu cyngor a chymorth, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i gleifion mewn iaith y maent yn ei deall ynghylch—

- Cyffuriau maen nhw'n eu defnyddio
- Eu hiechyd,
- Materion iechyd cyffredinol sy'n berthnasol iddyn nhw, a
- lle bo'n briodol atgyfeiriad at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

9. Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau, y mae ei bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa —

- Cynnal adolygiad o'r cyffuriau a ddefnyddir gan glaf ar sail gwybodaeth a chanlyniadau profion sydd wedi'u cynnwys yng nghofnod gofal y claf, gyda'r nod o ystyried priodoldeb ac effeithiolrwydd parhaus y cyffuriau i'r claf,
- Cynghori a chefnogi'r claf ynghylch defnyddio eu cyffuriau, gan gynnwys annog cyfranogiad gweithredol y claf mewn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'u defnydd o gyffuriau, a
- Lle bo'n briodol, i gyfeirio'r claf at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

10. Gwasanaeth cymorth asesu a chydymffurfiaeth meddyginiaethau, y mae ei bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa —

- Asesu gwybodaeth am gyffuriau, cydymffurfiaeth â nhw a'r defnydd ohonynt gan gleifion agored i niwed a chleifion ag anghenion dysgu ychwanegol, a
- Chynnig cyngor, cefnogaeth a chymorth i gleifion agored i niwed a chleifion ag anghenion dysgu ychwanegol ynghylch defnyddio cyffuriau gyda'r nod o wella eu gwybodaeth am gyffuriau o'r fath, eu cydymffurfiaeth â nhw a'u defnydd ohonynt.

11. Gwasanaeth cyflenwi nodwyddau a chwistrellau, y mae ei bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa —

- Darparu nodwyddau, chwistrelli a deunyddiau cysylltiedig di-haint i gamddefnyddwyr cyffuriau
- Derbyn nodwyddau, chwistrelli a deunyddiau cysylltiedig a ddefnyddiwyd gan gamddefnyddwyr cyffuriau, a
- Chynnig cyngor i gamddefnyddwyr cyffuriau a, lle bo'n briodol, atgyfeirio'r camddefnyddiwr cyffuriau at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall neu ganolfan arbenigol ar gyfer trin cyffuriau.

12. Gwasanaeth cyffuriau arbenigol sydd ar gael ar alw, y mae ei bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa sicrhau bod gan gleifion neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol fynediad prydlon at gyffuriau arbenigol.

13. Gwasanaethau y tu allan i oriau gwaith, y mae eu pwrpas sylfaenol yn i'r contractwr fferyllfa ddosbarthu cyffuriau ac offer yn ystod y cyfnod y tu allan i oriau gwaith (boed ar gyfer y cyfnod y tu allan i oriau gwaith cyfan ai peidio).

14. Gwasanaeth cyfarwyddo grwpiau cleifion, y mae ei bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa gyflenwi neu roi meddyginiaethau presgripsiwn yn unig i gleifion o dan gyfarwyddiadau grŵp cleifion.

15. Gwasanaeth cymorth rhagnodwyr, y mae ei bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa gefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n rhagnodi cyffuriau, ac yn benodol i gynnig cyngor ar—

- Defnydd clinigol a chost-effeithiol o gyffuriau
- Polisïau a chanllawiau rhagnodi, a
- Rhagnodi rheolaidd.

16. Gwasanaeth ysgolion, y mae ei bwrpas sylfaenol yn cynnwys i'r contractwr fferyllfa ddarparu cyngor a chymorth i blant a staff mewn ysgolion ynghylch—

- Defnydd clinigol a chost-effeithiol o gyffuriau yn yr ysgol
- Gweinyddu a defnyddio cyffuriau ac offer yn briodol ac yn effeithiol yn yr ysgol
- Storio a thrin cyffuriau ac offer yn ddiogel ac yn briodol, a
- Chofnodi cyffuriau ac offer a archebir, a drafodir, a weinyddir, a storir neu a waredir.

17. Gwasanaeth sgrinio, y mae ei bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa —

- Nodi cleifion sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd neu gyflwr penodol
- Cynnig cyngor ynghylch profi am glefyd neu gyflwr penodol
- Cynnal prawf o'r fath gyda chydsyniad y claf, a
- Cynigiwch gyngor yn dilyn prawf ac atgyfeiriwch at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall yn ôl yr angen.

18. Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu, y mae ei bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa—

- Cynghori a chefnogi cleifion sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu, a
- Lle bo'n briodol, cyflenwi cyffuriau a chymhorthion priodol.

19. Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, y mae ei bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa oruchwylio gweinyddu meddyginiaethau rhagnodedig yn eu hadeiladau.

20. Gwasanaeth rhagnodi, y mae ei bwrpas sylfaenol yn cynnwys i'r contractwr fferyllfa sy'n rhagnodwr annibynnol, neu sy'n cyflogi neu'n ymgysylltu â rhagnodwr annibynnol, ragnodi meddyginiaethau mewn amgylchiadau a bennir gan y bwrdd iechyd lleol perthnasol.

21. Gwasanaeth casglu cyffuriau gwrthfeirysol, y mae ei bwrpas sylfaenol yn cynnwys i'r contractwr fferyllfa gyflenwi meddyginiaethau gwrthfeirysol, yn unol â rheoliad 247 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (Eithriad ar gyfer cyflenwi rhag ofn neu wrth ragweld clefyd pandemig), i gleifion ar gyfer triniaeth neu broffylacsis.

22. Gwasanaeth lleihau gwastraff, y mae ei ddiben sylfaenol yn nodi meddyginiaethau neu offer presgripsiwn nad oes eu hangen ar y claf ar adeg eu cyflenwi.

Atodiad E – telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr offer dosbarthu

1. Dosbarthu presgripsiynau

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cyflenwi offer a archebir ar bresgripsiynau'r GIG, ynghyd â gwybodaeth a chyngor a threfniadau atgyfeirio priodol rhag ofn na ellir gwneud cyflenwad, er mwyn galluogi defnydd diogel ac effeithiol gan gleifion, a chynnal cofnodion priodol.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn offer a archebir yn ddiogel ac yn briodol gan y contractwr offer dosbarthu:

- Cynnal gwiriadau cyfreithiol, clinigol a chywirdeb priodol
- Cael systemau gweithredu diogel, yn unol â gofynion llywodraethu clinigol
- Cael systemau ar waith i warantu uniondeb y cynhyrchion a gyflenwir
- Cadw cofnod o'r holl offer a gyflenwir y gellir eu defnyddio i gynorthwyo gofal cleifion yn y dyfodol
- Cynnal cofnod o'r cyngor a roddir, ac ymyriadau ac atgyfeiriadau a wneir, lle mae contractwr yr offer dosbarthu yn barnu ei fod yn briodol yn glinigol
- Darparu'r eitemau ychwanegol priodol fel bagiau tafladwy a weips
- Dosbarthu'r eitemau priodol os oes angen gwneud hynny mewn modd amserol ac mewn pecynnu addas sy'n ddisylw.

Er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu defnyddio eu hoffer yn effeithiol trwy staff yn darparu gwybodaeth a chyngor i'r claf neu'r gofalwr ar ddefnyddio eu hoffer(au) yn ddiogel.

2. Dosbarthu presgripsiynau ailadroddadwy

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Rheoli a dosbarthu offer presgripsiynau ailadroddus y GIG mewn partneriaeth â'r claf a'r rhagnodwr.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys y gofynion sy'n ychwanegol at y rhai ar gyfer dosbarthu, fel bod contractwr yr offer dosbarthu yn canfod angen y claf am gyflenwad dro ar ôl tro ac yn cyfleu unrhyw faterion o bwys clinigol i'r rhagnodwr.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

- Er mwyn cynyddu dewis a chyfleustra cleifion, drwy ganiatáu iddynt gael eu hoffer presgripsiwn rheolaidd yn uniongyrchol gan gontractwr offer dosbarthu am gyfnod y cytunwyd arno gan y rhagnodwr.
- I leihau gwastraff drwy leihau nifer yr offer a roddir nad oes eu hangen ar y claf

- Lleihau llwyth gwaith meddygfeydd teulu, drwy ostwng baich rheoli presgripsiynau ailadroddus.

3. Gwasanaeth Danfon i'r Cartref

Disgrifiad o'r gwasanaeth

I ddarparu gwasanaeth dosbarthu cartref mewn perthynas â rhai offer.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Er mwyn diogelu urddas cleifion drwy sicrhau bod rhai offer yn cael eu danfon:

- Gyda phrydlondeb rhesymol, ar y pryd cytuno â'r claf
- Mewn pecyn nad yw'n arddangos unrhyw ysgrifen na marciau eraill a allai nodi ei gynnwys; a
- Yn y fath fodd fel nad yw'n bosibl nodi'r math o offer sy'n cael ei ddanfon.

4. Cyflenwad eitemau atodol priodol

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu eitemau ychwanegol fel cadachau tafladwy a bagiau gwaredu mewn cysylltiad â rhai offer.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Er mwyn sicrhau bod gan gleifion gyflenwad digonol o weips i'w defnyddio gyda'u teclyn a'u bod yn gallu cael gwared arnynt mewn ffordd ddiogel a hylan.

5. Darparu cyngor clinigol arbenigol ynghylch yr offer

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu cyngor clinigol arbenigol gan berson sydd wedi'i hyfforddi'n addas sydd â phrofiad perthnasol mewn perthynas â rhai offer.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu ceisio cyngor priodol ar eu teclyn er mwyn cynyddu eu hyder wrth ddewis teclyn sy'n addas i'w hanghenion yn ogystal â magu hyder i addasu i'r newidiadau yn eu bywyd a dysgu sut i reoli teclyn.

6. Lle darperir llinell gofal ffôn, yn ystod y cyfnod pan fydd contractwr yr offer dosbarthu ar gau, dylid darparu cyngor naill ai drwy'r llinell ofal neu dylid cyfeirio galwyr at Galw Iechyd Cymru.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu cyngor ar rai offer trwy linell gofal ffôn y tu allan i oriau agor cytundebol y contractwr offer dosbarthu. Nid oes gofyn i gontractwr yr offer dosbarthu staffio'r llinell ofal drwy'r dydd, bob dydd, ond pan nad oes staff rhaid rhoi rhif ffôn neu fanylion cyswllt gwefan Galw Iechyd Cymru i alwyr y gellir ymgynghori â nhw am gyngor.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Mae galwyr i'r llinell gofal ffôn yn gallu cael cyngor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos ar rai offer er mwyn rheoli eu hoffer.

7. Gwybodaeth gyfeirio

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Pan fydd claf yn cyflwyno presgripsiwn ar gyfer teclyn nad yw'r contractwr teclyn dosbarthu yn ei gyflenwi, mae'r presgripsiwn naill ai:

- Gyda chydsyniad y claf, wedi'i drosglwyddo i ddarparwr offer arall, neu
- Os nad yw'r claf yn cydsynio, rhoddir manylion cyswllt iddynt ar gyfer o leiaf dau gontractwr arall sy'n gallu ei ddosbarthu.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu cael eu presgripsiwn wedi'i ddosbarthu.

Atodiad F – aelodaeth grŵp llywio asesiad anghenion fferyllol

Enw	Rôl	Sefydliad
Julie Denley	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Samantha Fisher	Dirprwy Gyfarwyddwr Fferylliaeth – Gofal Sylfaenol a Chymunedau	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Alexandra Davies	Rheolwr cyfathrebu ac ymgysylltu	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Lee Wood	Arbenigwr cymorth cyllid	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Jason Carroll	Prif fferyllydd – gwasanaethau cymunedol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Meinir Davies	Swyddog cymorth rheoli meddyginiaethau	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Jayne Howard	Cyfarwyddwr cysylltiol gwasanaethau contractwyr	Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Daniel Price	Cyfarwyddwr rhanbarthol	Llais
Kevin Thomas	Cyfarwyddwr Meddygol	Pwyllgor Meddygol Lleol Bro Taf

Cefnogodd y staff bwrdd iechyd canlynol ddatblygiad y ddogfen a mynychodd gyfarfodydd y grŵp llywio.

- Sian Bingham, rheolwr grŵp gwasanaethau clinigol
- Eizabeth Beadle, cyfarwyddwr cynorthwyol trawsnewid
- Julie Powell-Jones, rheolwr cymorth busnes cynllunio
- Carys James, hwylusydd fferylliaeth gymunedol

Atodiad G – arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd

Arolwg cyhoeddus ar gyfer asesiad o anghenion fferyllol (AAFf) Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn eich gwahodd i ddweud wrthym ni am y gwasanaethau fferylliaeth yn eich ardal. Nod hyn yw helpu'r bwrdd iechyd i gynllunio gwasanaethau ar gyfer ein cleifion nawr ac yn y dyfodol, er mwyn gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau'n diwallu eich anghenion, gan ddefnyddio proses o'r enw 'asesiad o anghenion fferyllol'.

Bydd eich atebion yn helpu'r bwrdd iechyd i gael gwybod p'un a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaeth ai peidio, er enghraifft yr angen am fferyllfa mewn ardal benodol, neu'r angen i ragor o fferyllfeydd ddarparu gwasanaeth penodol.

Bydd y bwrdd iechyd hefyd yn edrych ar y gwasanaeth presgripsiynau mae rhai meddygfeydd yn ei ddarparu mewn ardaloedd gwledig – mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi meddygon teulu i roi moddion presgripsiwn i bobl yn hytrach na rhoi presgripsiwn iddyn nhw er mwyn mynd ag ef i fferyllfa.

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd y bwrdd iechyd yn ystyried beth allai newid dros y pum mlynedd nesaf a ph'un a fydd digon o fferyllfeydd ai peidio yn y mannau cywir sy'n darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl, er enghraifft, wrth i ragor o dai gael eu hadeiladu.

Mae eich barn yn bwysig felly cymerwch ychydig funudau'n llenwi'r holiadur hwn. Bydd yn cymryd rhyw 10 i 15 munud i chi ei lenwi yn dibynnu ar faint o wybodaeth yr ydych am ei rhannu am eich profiad o ddefnyddio fferyllfeydd.

Mae'r holiadur yn ddienw a fydd dim modd eich adnabod chi drwy unrhyw wybodaeth byddwch chi'n ei rhoi.

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth ynglŷn â'r holiadur neu os oes cwestiynau gyda chi ynglŷn â sut i lenwi'r holiadur, e-bostiwch CTM.PNAqueries@wales.nhs.uk gyda'r pwnc "holiadur AAFf".

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi comisiynu Comisiynu Gofal Sylfaenol CIC (PCC) i ddrafftio'r asesiad o anghenion fferyllol. Bydd PCC yn cadw eich ymatebion a bydd yn eu defnyddio dim ond at ddiben drafftio'r asesiad o anghenion fferyllol. Byddem yn gofyn i chi beidio â darparu unrhyw wybodaeth a allai ei gwneud yn bosibl i bobl eich adnabod, fodd bynnag, bydd pob data a ddarperir yn eich ymateb yn cael ei gadw gan PCC yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data 1998 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU.

Amdanoch chi

Beth yw eich cod post?

Drwy roi pedwar nod cyntaf eich cod post, rydych chi'n rhoi cydsyniad i ni ddefnyddio'r wybodaeth hon er mwyn gwybod ym mha ran o ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg rydych chi'n byw. Fydd yr wybodaeth hon ond yn cael ei defnyddio at ddibenion yr holiadur hwn, er mwyn i ni wybod p'un a ydyn ni wedi cael ymatebion o ledled ardal y bwrdd iechyd neu o ardaloedd penodol.

Peidiwch â rhoi eich cod post llawn i ni. Er enghraifft, os mai CF45 4SN yw eich cod post, rhowch CF45 yn y blwch isod.

Pa iaith mae'n well gyda chi ei defnyddio wrth ddefnyddio gwasanaethau mewn fferyllfa neu feddygfa?

- Cymraeg
- Saesneg
- Arall [blwch testun]

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael eu presgripsiynau mewn fferyllfa, ond mae rhai pobl yn cael eu presgripsiynau yn eu meddygfa. Yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg mae pedair meddygfa sy'n rhoi presgripsiynau ar gyfer rhai o'u cleifion:

- Y ddosbarthfa ym Meddygfa Llynfi (Bryn)
- Y ddosbarthfa ym Meddygfa Cwm Garw (Betws)
- Y Y ddosbarthfa ym Meddygfa Cwm Garw (Llangeinwyr)
- Y ddosbarthfa ym Meddygfa Oakland (Bedlinog)

Ydych chi'n casglu eich moddion o:

- fferyllfa
- eich meddygfa

Casglu eich moddion o'ch meddygfa

Y fan yn eich meddygfa lle mae'r staff yn rhoi eich presgripsiynau yw'r ddosbarthfa.

1. Faint o'r gloch yw'r adeg fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio'r ddosbarthfa yn eich meddygfa?

- 8am i 12pm
- 12pm i 2.30pm
- 2.30pm i 6.30pm
- Does dim ffafriaeth gyda fi

2. Pa ddiwrnod sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio'r ddosbarthfa yn eich meddygfa?

- Dydd Llun
- Dydd Mawrth
- Dydd Mercher
- Dydd Iau
- Dydd Gwener
- Yn ystod yr wythnos yn gyffredinol
- Does dim ffafriaeth gyda fi

3. Oes adeg wedi bod yn ddiweddar pan nad oeddech chi'n gallu defnyddio'r ddosbarthfa yn eich meddygfa?

- Oes
- Nac oes
- Ddim yn berthnasol

4. Os ateboch chi 'oes' i gwestiwn 3, beth wnaethoch chi?
Ticiwch bob datganiad sy'n berthnasol.

- Es i i fferyllfa
- Arhosais i nes bod y ddosbarthfa ar agor yn fy meddygfa
- Es i'r adran ddamweiniau ac achosion brys
- Es i i uned mân anafiadau
- Ffoniais GIG 111 Cymru
- Arall [blwch testun]

Teithio i'ch meddygfa ar gyfer eich moddion

5. Sut ydych chi'n cyrraedd eich meddygfa fel arfer i gasglu eich moddion?

- Cerdded
- Ar fws
- Yn y car
- Ar feic
- Mewn tacsi
- Ar sgwter symudedd
- Arall [blwch testun]
- Ddim yn berthnasol

6. ...a pha mor hir mae'n ei gymryd i gyrraedd yno fel arfer?

- Llai na 5 munud
- Rhwng 5 a 15 munud
- Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud
- 20 munud neu fwy

7. Fyddech chi'n dweud eich bod chi'n cael trafferth wrth gyrraedd y ddosbarthfa yn eich meddygfa?

- Byddwn
- Na fyddwn
- Ddim yn berthnasol

8. Os ydych chi'n cael trafferth wrth gyrraedd y dosbarthfa yn eich meddygf, dywedwch pam.

[Blwch testun]

9. Ydych chi hefyd yn defnyddio fferyllfa?

- Ydw
- Nac ydw

Y ffordd rydych chi'n defnyddio eich fferyllfa – naill ai yn bersonol neu drwy gael rhywun arall i fynd yno ar eich cyfer chi

10. Pam ydych chi'n mynd i fferyllfa fel arfer? Ticiwch unrhyw flwch neu bob blwch sy'n berthnasol.

- I gasglu neu gael gafael ar bresgripsiwn ar fy nghyfer i
- I brynu moddion ar fy nghyfer i
- I gael cyngor ar fy nghyfer i
- Ar gyfer gwasanaethau eraill, fel brechiad rhag y ffliw i fi fy hun
- I gasglu neu gael gafael ar bresgripsiwn ar gyfer rhywun arall
- I brynu moddion ar gyfer rhywun arall
- I gael cyngor ar gyfer rhywun arall
- Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa gan fy mod i'n defnyddio fferyllfa ar-lein
- Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa gan fod fy moddion yn cael eu hanfon ataf fi
- Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa, mae rhywun yn mynd yno ar fy rhan
- Arall [blwch testun]

11. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio fferyllfa?

- Bob dydd
- Bob wythnos
- Bob pythefnos
- Misol/pob pedair wythnos
- Bob chwarter
- Pryd bynnag y bydd angen
- Dydw i ddim yn defnyddio fferyllfa
- Arall [blwch testun]

12. Faint o'r gloch sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?

- Cyn 9am
- 9am-12pm
- 12pm-2pm
- 2pm-6pm
- 6pm-9pm
- Does dim ffafriaeth gyda fi

13. Pa ddiwrnod sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?

- Dydd Llun
- Dydd Mawrth
- Dydd Mercher
- Dydd Iau
- Dydd Gwener
- Dydd Sadwrn
- Dydd Sul
- Yn ystod yr wythnos yn gyffredinol
- Ar y penwythnos yn gyffredinol
- Does dim ffafriaeth gyda fi

14. Oes adeg wedi bod yn ddiweddar pan nad oeddech chi'n gallu defnyddio eich fferyllfa arferol?

- Oes
- Nac oes
- Ddim yn berthnasol

15. Os ateboch chi 'oes' i gwestiwn 14, beth wnaethoch chi? Ticiwch bob datganiad sy'n berthnasol.

- Es i i fferyllfa arall
- Arhosais nes bod y fferyllfa ar agor
- Es i weld fy meddyg teulu
- Es i'r adran ddamweiniau ac achosion brys
- Es i i uned mân anafiadau
- Ffoniais GIG 111 Cymru
- Arall [blwch testun]

Eich dewis o fferyllfa

16. Allech chi ddweud wrthym a ydych chi:

- Yn defnyddio'r un fferyllfa drwy'r amser
- Yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd, ond mae'n well gennyf fynd i un fferyllfa'n fwy aml.

- Yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd drwy'r amser
- Ddim yn defnyddio fferyllfa yn aml
- Byth yn defnyddio fferyllfa?

17. Allech chi ddweud wrthym pa beth sy'n dylanwadu ar eich dewis o fferyllfa? Ticiwch bob datganiad sy'n berthnasol i chi.

- Mae'n agos i fy nghartref
- Mae'n agos i ble rwy'n gweithio
- Mae'n agos i fy meddyg
- Mae'n agos i ysgol neu feithrinfa fy mhlant
- Mae'n agos i siopau eraill
- Mae'n hawdd ei chyrraedd
- Mae'n hawdd parcio yno
- Rydw i'n gallu siarad â'r staff yno yn fy newis iaith
- Rydw i'n hoffi'r staff sy'n gweithio yno ac yn ymddiried ynddyn nhw
- Mae'r staff yn fy adnabod i ac yn gofalu amdanaf i
- Dydy'r staff ddim yn fy adnabod i
- Rydw i wedi defnyddio'r fferyllfa hon erioed
- Mae'r gwasanaeth yn gyflym
- Mae beth sydd ei angen arna i yno fel arfer
- Mae oriau agor da gyda'r fferyllfa
- Mae'r fferyllfa'n casglu fy mhresgripsiwn ac/neu'n anfon fy moddion ataf i
- Cafodd y fferyllfa ei hargymell i mi
- Mae'r fferyllfa'n rhoi gwybodaeth a chyngor da
- Y gwasanaeth cwsmeriaid
- Mae'n hygyrch e.e. mae'n addas i gadeiriau olwyn/coets babi.
- Mae'n gadwyn fawr adnabyddus
- Nid un o'r cadwyni mawr yw hi
- Mae man preifat ar gael os oes angen i mi siarad â'r fferyllydd
- Rydw i'n gallu archebu fy moddion rheolaidd ar-lein neu drwy ddefnyddio'r ap
- Yr ystod o wasanaethau sydd ar gael
- Mae'r fferyllfa yn darparu gwasanaeth y mae angen i mi ei ddefnyddio, er enghraifft y gwasanaeth mân anhwylderau, brechiadau ffliw, a'r gwasanaeth atal cenhedlu.
- Arall [blwch testun]

18. Oes fferyllfa fwy cyfleus a/neu agosach nad ydych chi'n ei defnyddio?

- Oes
- Nac oes
- Ddim yn gwybod

19. ...ac os ydych chi wedi ateb 'oes' i gwestiwn 18, pam nad ydych chi'n defnyddio'r fferyllfa honno?

- Dydy hi ddim yn hawdd parcio yno
- Rydw i wedi cael profiad gwael yn y gorffennol

- Mae’r gwasanaeth yn rhy araf
- Mae’r staff yn newid drwy’r amser
- Dydy’r staff ddim yn fy adnabod i
- Rydw i’n adnabod y staff a byddai’n well gyda fi pe na baen nhw’n gwybod pa foddion rydw i’n eu cymryd
- Dydy beth sydd ei angen arnaf i ddim yno
- Dydy’r fferyllfa ddim yn danfon moddion
- Does dim digon o breifatrwydd
- Dydy hi ddim ar agor pryd mae angen i mi ei defnyddio
- Dydy hi ddim yn addas i gadeiriau olwyn/bygis
- Arall [blwch testun]

Teithio i fferyllfa

20. Os ydych chi’n mynd i’r fferyllfa ar eich pen eich hun neu gyda rhywun, sut ydych chi’n cyrraedd yno fel arfer?

- Cerdded
- Ar fws
- Yn y car
- Ar feic
- Mewn tacsi
- Ar sgwter symudedd
- Arall [blwch testun]
- Ddim yn berthnasol

21. ...a pha mor hir mae’n ei gymryd i gyrraedd yno fel arfer?

- Llai na 5 munud
- Rhwng 5 a 15 munud
- Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud
- 20 munud neu fwy

22. Fyddech chi’n dweud eich bod chi’n cael trafferth wrth gyrraedd fferyllfa?

- Byddwn
- Na fyddwn
- Ddim yn berthnasol

23. Os ydych chi’n cael trafferth wrth gyrraedd fferyllfa, dywedwch pam.

[Blwch testun]

Gwasanaethau fferylliaeth yn gyffredinol

24. Hoffem ni wybod sut rydych chi’n cael gwybodaeth ynglŷn â fferyllfa, fel oriau agor neu’r gwasanaeth sy’n cael ei gynnig. Ticiwch unrhyw flwch neu bob blwch sy’n berthnasol.

- Byddwn i'n ffonio'r fferyllfa
- Byddwn i'n ffonio GIG 111 Cymru neu'n defnyddio eu gwefan
- Byddwn i'n chwilio ar y we
- Byddwn i'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- Byddwn i'n holi ffrind
- Byddwn i'n galw heibio'r fferyllfa ac yn holi'r staff yno
- Byddwn i'n edrych ar y ffenest
- Byddwn i'n cael gwybod drwy ddarllen y cylchgrawn neu bapur newydd lleol
- Ddim yn berthnasol
- Arall [blwch testun]

25. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n gallu trafod rhywbeth preifat â'ch fferyllydd?

- Ydw
- Nac ydw
- Dydw i erioed wedi gorfod gwneud hynny
- Dydw i ddim yn gwybod

26. Ydych chi'n ymwybodol y gallech chi ddefnyddio'r gwasanaethau canlynol mewn fferyllfeydd yn rhan o'r GIG? Dewiswch y rheiny rydych chi'n ymwybodol ohonyn nhw.

- Brechu rhag y ffliw (i'r rheiny sy'n perthyn i un o'r grwpiau sydd mewn categori agored i risg)
- Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau'r claf – mae'r gwasanaeth hwn i bobl mae eu moddion wedi newid yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty. Mae'r gwasanaeth yn eu helpu nhw i ddeall y newidiadau a gwneud yn siŵr bod y moddion cywir yn cael eu presgripsiynu iddyn nhw yn y dyfodol.
- Gwasanaeth adolygu'r defnydd o ddyfeisiau – dyma gyfle i chi drafod dyfeisiau, fel y rheiny ar gyfer stoma a cholostomi, â fferyllydd neu nyrs arbenigol er mwyn gwneud yn siŵr bod eich dyfeisiau'n gwneud beth mae angen iddyn nhw ei wneud.
- Gwasanaethau atal cenhedlu, gan gynnwys y 'bilsen bore wedyn'
- Cymorth i roi'r gorau i ysmygu
- Cynllun mân anhwylderau – mae fferyllwyr yn gallu rhoi cyngor i chi, yn ogystal â thriniaeth rhad ac am ddim, ar gyfer mân anhwylderau, fel dolur gwddf a heintiadau y llwybr wrinol (a elwir hefyd yn UTIs) fel nad oes angen i chi weld meddyg teulu.
- Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllydd - mae rhai fferyllwyr ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg yn cynnig y gwasanaeth fferyllydd-ragnodydd annibynnol, sy'n golygu y gallai fferyllydd allu trin cyflyrau ychwanegol, y tu hwnt i gwmpas y mân anhwylderau, heb yr angen i weld eich meddyg teulu.
- Darpariaeth nodwyddau a chwistrellau a chymryd cyffuriau o dan oruchwyliaeth – mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi pobl sy'n cael triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau

- Cyflenwadau brys o foddion – mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi pobl i gael cyflenwadau brys o'u moddion drwy eu fferyllfa
- Na - ewch i gwestiwn 28

27. Ydych chi wedi defnyddio unrhyw rai o'r gwasanaethau sydd wedi eu rhestru yng nghwestiwn 26?

- Brechiadau rhag y ffliw
- Y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau cleifion
- Y gwasanaeth Adolygu Defnyddio Cyfarpar
- Gwasanaethau Atal Cenhedlu
- Cymorth i roi'r gorau i ysmygu
- Cynllun mân anhwylderau
- Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd
- Darpariaeth nodwyddau a chwistrelli
- Cymryd cyffuriau o dan oruchwyliaeth
- Cyflenwadau brys o foddion
- Na fyddwn

28. Hoffech chi ddweud unrhyw beth arall wrthym ni am eich profiad o'ch fferyllfa neu wasanaethau meddyg teulu lleol?

[Blwch testun]

29. Oes unrhyw rwystrau dydych chi ddim wedi sôn amdanyn nhw sy'n eich atal chi rhag defnyddio gwasanaethau eich fferyllfa neu eich meddyg teulu?

[Blwch testun]

30. Oes unrhyw wasanaethau yr hoffech eu gweld yn cael eu darparu yn y fferyllfeydd?

- Oes [insert text]
- Nac oes

Monitro cydraddoldeb

Er mwyn monitro effeithiolrwydd ein Polisi a'n harferion Cydraddoldeb, ac i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n deg i bawb ac yn rhydd rhag rhagfarn, byddem yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad wrth ddarparu, ar sail gwbl wirfoddol, y wybodaeth a ofynnir isod. Mae'r wybodaeth yn gyfrinachol ac yn ddienw a chaiff ei defnyddio at ddibenion monitro ystadegol yn unig ac i wella ein gwasanaethau.

Mae hyn yn wahanol i unrhyw ohebiaeth rydyn ni wedi ei chael gennych chi a bydd yn cael ei ddileu'n ddiogel ar ôl i ni gasglu'r wybodaeth.

Oed: nodwch eich ystod oedran drwy dicio'r blwch priodol

- 0-15 oed
- 16-24 oed
- 25-34 oed
- 35-44 oed
- 45-54 oed
- 55-64 oed
- 65-74 oed
- 75 neu'n hŷn

Rhyw: beth yw eich rhyw?

- Dyn
- Menyw
- Arall
- Gwell gen i beidio â dweud

Grŵp ethnig: beth yw eich grŵp ethnig?

- Gwyn
    - Prydeinig
    - English
    - Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
    - Albanaidd
    - Cymreig
    - Gwyddelig
    - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

- Cymysg/Cymysg Prydeinig
    - Gwyn/Du Caribïaidd
    - Gwyn/Du Affricanaidd
    - Gwyn/Asiaidd
    - Unrhyw gefndir cymysg arall

- Du / Du Prydeinig
    - Caribïaidd
    - Affricanaidd
    - Unrhyw gefndir Du arall

- Asiaidd/Asiaidd Prydeinig
    - Indiaidd
    - Bangladeshaidd
    - Pacistanaidd
    - Tsieineaidd
    - Asiaidd – arall

- Arabaidd

- Gwell gen i beidio â dweud
- Arall [blwch testun]

Cyfeiriadedd rhywiol: pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau y ffordd rydych chi'n ystyried eich hun?

- Heterorywiol/Syth
- Dyn hoyw
- Menyw hoyw/Lesbïaidd
- Deurywiol
- Gwell gen i beidio â dweud
- Arall [blwch testun]

Statws priodasol: ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gen i beidio â dweud

Crefydd neu gredo: beth yw eich crefydd?

- Cristion (pob enwad)
- Bwdhydd
- Hindŵ
- Mwslim
- Sikh
- Iddew
- Anffyddiwr
- Dim crefydd
- Gwell gen i beidio â dweud
- Arall [blwch testun]

Anabledd: Mae adran 6(1) Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gan berson anabledd os:

a) oes gan y person hwnnw nam corfforol neu feddyliol, ac
b) os yw'r nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r person hwnnw i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, ydych chi'n credu bod anabledd gyda chi?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gen i beidio â dweud

Hunaniaeth rhywedd: ydy eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a neilltuwyd i chi adeg eich genedigaeth?

- Ydy
- Nac ydy
- Gwell gen i beidio â dweud

Cyfrifoldebau gofal: Ydych chi'n gofalu am neu'n rhoi cymorth neu gefnogaeth i aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd naill ai:

a) salwch neu anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor neu
b) problemau'n ymwneud â henaint?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gen i beidio â dweud

Wrth gyflwyno'r ffurflen hon, rydw i'n cydnabod ac yn rhoi cydsyniad diamwys i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ddefnyddio fy nata personol, gan gynnwys yr holl ddata cydraddoldeb sensitif (ee cyfeiriadedd rhywiol / ailbennu rhywedd) sydd wedi cael eu darparu'n wirfoddol gennyf fi at ddibenion monitro ac adrodd cyfreithlon, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb.

Atodiad H – ymatebion i'r holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd

Mae'r holl ymatebion fel y'u rhoddwyd oni bai bod practis, fferyllfa, lleoliad neu aelod o staff wedi'u henwi. Mewn achos o'r fath, mae'r ymateb wedi'i anonymeiddio.

Rhowch bedwar digid cyntaf eich cod post i ni.

Cod post	Nifer yr ymatebion
CF15	1
CF31	20
CF32	8
CF33	4
CF34	25
CF35	5
CF36	4
CF37	18
CF38	20
CF39	16
CF40	20
CF41	15
CF42	22
CF43	6
CF44	31
CF45	7
CF46	3
CF47	11
CF48	13
CF61	1
CF72	24
CF83	1
LD3	1
NP24	1
SA13	1
SA2	1
Dewis peidio â darparu	7

A allech chi ddweud wrthym eich dewis iaith pan fyddwch chi'n cael mynediad at wasanaethau mewn fferyllfa?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Cymraeg	4
Saesneg	278
Arall	1
Dewis peidio ag ateb	3

Ymhelaethodd y person a ddewisodd "Arall" ar eu hateb - "Saesneg".

O ble rydych chi'n casglu eich meddyginiaeth fel arfer?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Fferyllfa	280
Meddygfa eich meddyg	5
Dewis peidio ag ateb	1

Pa amser sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio eich meddyg teulu?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
8am i 12pm	1
12pm i 2.30pm	0
2.30 i 6.30pm	0
Nid oes gennyf ffafriaeth	5

Pa ddiwrnod sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio eich meddyg teulu?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Dydd Llun	0
Dydd Mawrth	0
Dydd Mercher	0
Dydd Iau	0
Dydd Gwener	0
Dyddiau'r wythnos yn gyffredinol	1
Nid oes gennyf ffafriaeth	5

A oedd amser yn ddiweddar pan nad oeddech chi'n gallu defnyddio gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau eich meddyg teulu?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Oedd	2
Nag oedd	3
Ddim yn berthnasol	0

Allwch chi ddweud wrthym beth wnaethoch chi?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Es i i fferyllfa	2
Arhosais nes bod y gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau ar agor	0
Es i i'r adran damweiniau ac achosion brys	0
Es i i uned mân anafiadau	0

Wnes i ffonio GIG 111 Cymru (gwasanaeth y tu allan i oriau)	0
Arall	1

Lle dewiswyd "Arall", rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol.

- Nid oedd y meddyg teulu am fy ngweld i, a dywedwyd wrthyf i fynd i fferyllfa. Dydw i ddim yn gallu gyrru ac mae'r fferyllfa agosaf yr holl ffordd i ffwrdd yn [lleoliad]. Mae hynny'n rhy bell i gerdded, yn enwedig fel rhywun sydd mewn poen cronig ac sydd â symudedd cyfyngedig. Bu'n rhaid i mi fenthyg arian ar gyfer tacsi a gostiodd £20 yno ac yn ôl. Rydw i wedi gorfod mynd heb driniaeth a meddyginiaeth sawl tro oherwydd nad oes fferyllfa yn [lleoliad] a dydw i ddim yn gallu fforddio'r tacsi i fferyllfa arall

Sut ydych chi fel arfer yn cyrraedd eich meddygfa i gasglu eich meddyginiaethau?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Cerdded	2
Ar y bws	0
Mewn car	2
Ar feic	0
Mewn tacsi	0
Ar sgwter symudedd	0
Arall	1

Gadawyd dau sylw mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

- Rydyn ni ar y gofrestr bobl sy'n gaeth i'r tŷ, felly mae'r meddyg teulu yn archebu meddyginiaethau amlroddadwy ac yn eu danfon i'r tŷ.
- Rydw i mor falch bod gan ein meddyg teulu wasanaeth dosbarthu meddyginiaethau. Fyddwn i ddim yn gallu mynd i fferyllfa

... a pha mor hir mae'n ei gymryd fel arfer i gyrraedd yno?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Llai na 5 munud	1
Rhwng 5 a 15 munud	3
Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud	0
Mwy na 20 munud	1

A fyddech chi'n dweud eich bod chi'n cael trafferth cyrraedd y gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau ym meddygfa eich meddyg?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Byddwn	1
Na fyddwn	4
Ddim yn berthnasol	0

Os ydych chi'n cael trafferth cyrraedd y gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau ym meddygfa eich meddyg, dywedwch wrthym pam.

- Rydyn ni'n anabl ac yn byw gyda phoen cronig a materion eraill. Dydyn ni ddim yn gallu gyrru ac allwn ni ddim fforddio tacsi i gasglu meddyginiaethau bob mis. Gan nad oes fferyllfa yn [lleoliad], y broblem fwyaf yw nad oes gennym unrhyw ffordd i gael triniaeth na meddyginiaethau nad ydynt yn cael eu dosbarthu gan y meddyg teulu. Er enghraifft, yn ddiweddar cefais lid yr amrannau a haint yn y glust ond dywedodd y feddygfa wrthyf nad ydyn gallu fy ngweld i, mae'n rhaid i mi gael fy ngweld mewn fferyllfa. Bu'n rhaid i mi fenthyg arian i gyrraedd yno gan nad oeddwn yn gallu fforddio'r tacsi a gostiodd £20. Prin ydyn ni'n gallu byw fel y mae. Rydw i wedi gorfod mynd heb driniaeth sawl gwaith oherwydd nad oeddwn yn gallu fforddio teithio mewn tacsi i fferyllfeydd. Mae dirfawr angen un arnom yma yn [lleoliad].

Ydych chi'n defnyddio fferyllfa hefyd?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Ydw	3
Nag ydw	2
Ddim yn berthnasol	0

Pam ydych chi fel arfer yn ymweld â fferyllfa?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
I gael neu gasglu presgripsiwn i mi fy hun	254
I brynu meddyginiaethau i mi fy hun	118
I gael cyngor i mi fy hun	128
Ar gyfer gwasanaethau eraill fel brechiad rhag y ffliw i mi fy hun	63
I gael neu gasglu presgripsiwn i rywun arall	162
I brynu meddyginiaethau i rywun arall	68
I gael cyngor i rywun arall	44
Dydw i ddim yn ymweld â fferyllfa gan fy mod yn defnyddio fferyllfa ar-lein/rhyngrwyd	0

Dydw i ddim yn ymweld â fferyllfa gan fod fy meddyginiaethau yn cael eu danfon ataf	7
Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa; mae rhywun yn mynd ar fy rhan	3
Arall	9

Lle dewiswyd "Arall", rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol.

- brechiadau gwyliau
- Profi ar gyfer llwnc tost
- Mân anhwylderau
- Mynd â chi bach tywys yno i ddysgu am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud tra bod rhywun yn casglu presgripsiwn. Maen nhw'n dysgu dod o hyd i sedd i'r person ac i setlo wrth aros
- Defnyddio gwasanaethau Dewis Fferyllfa e.e. haint y llwybr wrinol (UTI)
- Fel yn y sylwadau blaenorol, pan nad yw presgripsiwn gan y meddyg teulu, ni fydd y gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau yn ei ddosbarthu sy'n golygu mai'r unig opsiwn yw teithio allan o'r ardal i fferyllfa arall. Y rhan fwyaf o'r amser, dydw i ddim yn gallu fforddio gwneud hyn felly rhaid i fi geisio ei gael ar-lein sy'n gallu cymryd dyddiau neu fynd heb driniaeth yn gyfan gwbl. Mae meddygon teulu yn gwrthod gweld “mân” gyflyrau nawr fel UTI, heintiau ac ati ac os nad oes gennych fynediad i fferyllfa rydych chi'n gorfod mynd heb driniaeth.
- Mae fy ngŵr fel arfer yn mynd at y meddyg teulu ar fy rhan i am bresgripsiynau amlroddadwy. Os yw'n bresgripsiwn acíwt, byddaf yn galw i mewn ar y ffordd adref o'r feddygfa
- Rydw i’n rheoli cartref gofal ac felly’n defnyddio’r fferyllfa leol yn rheolaidd
- Ni allaf bob amser eistedd yn bersonol, felly mae'n rhaid i mi gael rhywun arall i'm helpu

Pa mor aml ydych chi'n defnyddio fferyllfa?

Opsiynau ateb	**Nifer yr ymatebion**
Bob dydd	5
Bob wythnos	21
Bob pythefnos	15
Bob mis/bob pedair wythnos	182
Chwarterol	3
Fel a phryd y mae angen i mi wneud hynny	53
Dydw i ddim yn defnyddio fferyllfa	0
Arall	4
Dewis peidio ag ateb	3

Lle dewiswyd "Arall", rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol.

- Mae gen i bresgripsiwn deufisol - byddai'n well gen i gyfnod hirach ond ni fydd y cyfarwyddwr yn rhagnodi - byddai'n arbed arian ac amser i bob un ohonom
- Bob 2 fis
- Fel uchod
- Bob yn ail fis

Pa amser sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Cyn 9am	4
9am i 12 hanner dydd	74
12 hanner dydd i 2pm	29
2pm i 6pm	53
6pm i 9pm	28
Nid oes gennyf ffafriaeth	95
Dewis peidio ag ateb	3

Pa ddiwrnod yw'r mwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Dydd Llun	8
Dydd Mawrth	3
Dydd Mercher	7
Dydd Iau	3
Dydd Gwener	7
Dydd Sadwrn	16
Dydd Sul	0
Dyddiau'r wythnos yn gyffredinol	59
Penwythnosau yn gyffredinol	26
Nid oes gennyf ffafriaeth	154
Dewis peidio ag ateb	3

A oedd amser yn ddiweddar pan nad oeddech chi'n gallu defnyddio eich fferyllfa arferol?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Oedd	75
Nag oedd	184
Ddim yn berthnasol	22
Dewis peidio ag ateb	5

Allwch chi ddweud wrthym beth wnaethoch chi/nhw?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Es i i fferyllfa arall	47
Arhosais nes bod y fferyllfa ar agor	22
Es i at fy meddyg teulu	3
Es i i'r adran damweiniau ac achosion brys	2
Es i i uned mân anafiadau	1
Wnes i ffonio GIG 111 Cymru (gwasanaeth y tu allan i oriau)	3
Arall	3

Lle dewiswyd "Arall", rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol.

- Roedd yn rhaid i mi fynd heb driniaeth
- Bu'n rhaid i mi ddychwelyd oherwydd oriau egwyl cinio
- Cysylltais â'r clinig Glawcoma yn Ysbyty'r Tywysog Siarl

A allech chi ddweud wrthym a ydych chi:

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Yn defnyddio'r un fferyllfa bob amser	217
Yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd ond mae'n well gen i ymweld ag un gan amlaf	62
Yn defnyddio fferyllfeydd gwahanol bob amser	3
Yn defnyddio fferyllfa yn anaml iawn	1
Byth yn defnyddio fferyllfa	0
Dewis peidio ag ateb	3

Hoffem wybod beth sy'n dylanwadu ar eich dewis o fferyllfa. Allech chi ddweud wrthym pam rydych chi'n defnyddio'r fferyllfa hon? (Gellid dewis mwy nag ar opsiwn.)

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Yn agos at fy nghartref	190
Yn agos at ble rwy'n gweithio	31
Yn agos at fy meddyg	110
Yn agos at ysgol neu feithrinfa'r plant	9
Yn agos at siopau eraill	24
Mae lleoliad y fferyllfa yn hawdd i'w gyrraedd	103
Mae'n hawdd parcio yn y fferyllfa	62

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Gallaf siarad â'r staff yn fy newis iaith	16
Rydw i'n staff sy'n gweithio yno ac yn ymddiried ynddyn nhw	116
Mae'r staff yn fy adnabod ac yn gofalu amdanaf	81
Dydy'r staff ddim yn fy adnabod	3
Rydw i wedi defnyddio'r fferyllfa hon erioed	71
Mae'r gwasanaeth yn gyflym	60
Fel arfer mae ganddyn nhw'r hyn sydd ei angen arnaf mewn stoc	73
Mae gan y fferyllfa oriau agor da	54
Mae'r fferyllfa yn casglu fy mhresgripsiwn a/neu'n danfon fy meddyginiaethau	66
Argymhellwyd y fferyllfa i mi	8
Mae'r fferyllfa yn darparu cyngor a gwybodaeth dda	81
Y gwasanaeth i gwsmeriaid	85
Mae'n hygyrch e.e. addas i gadeiriau olwyn/bygi babi	15
Mae'n gadwyn fawr adnabyddus	17
Nid yw'n un o'r cadwyni mawr	46
Mae yna fan preifat os oes angen i mi siarad â'r fferyllydd	86
Gallaf archebu fy meddyginiaethau amlrodddwy ar-lein neu drwy ddefnyddio eu ap	40
Yr ystod o wasanaethau a ddarperir	34
Mae'r fferyllfa yn darparu gwasanaeth y mae angen i mi ei ddefnyddio, er enghraifft y gwasanaeth anhwylderau cyffredin, brechiadau rhag y ffliw, y gwasanaeth atal cenhedlu	70
Arall	9

Lle dewiswyd "Arall", rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol.

- Mae'n fferyllfa leol ac maen nhw'n eich trin chi fel person nid rhif!
- Fel y soniwyd droeon, gallu fforddio mynd i fferyllfa yw'r ffactor cyfyngol mwyaf. Mae'n rhaid i mi bob amser ffonio ymlaen llaw gan na fyddwn yn gallu ymweld â mwy nag un, ac weithiau ni fyddant yn dweud wrthych chi ar y ffôn beth sydd ganddyn nhw mewn stoc. Mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd neu'n amhosibl cael mynediad at driniaeth. Mae dirfawr angen fferyllfa arnom yma yn [lleoliad].
- Fferyllydd Presgripsiynu
- Ddim ar agor ddydd Sadwrn a'r un nesaf agosaf ar gau hefyd

- Cael fy anfon gan dderbynfa’r meddyg teulu pan fydd y meddyg teulu yn rhy brysur. Gwneud prawf gwaed ac yn rhoi presgripsiwn os oes angen.
- Mae fy fferyllfa yn archebu fy meddyginiaeth sy'n anodd ei chael
- Fferyllydd ardderchog
- Rydw i’n defnyddio'r ap y GIG i archebu meddyginiaethau

A oes fferyllfa fwy cyfleus a/neu agosach nad ydych chi'n ei defnyddio?

Opsiynau ateb	**Nifer yr ymatebion**
Oes	94
Nag oes	178
Ddim yn gwybod	10
Dewis peidio ag ateb	4

Allech chi ddweud wrthym pam nad ydych chi’n defnyddio'r fferyllfa honno?

Opsiynau ateb	**Nifer yr ymatebion**
Dydy hi ddim yn hawdd parcio yn y fferyllfa	21
Rydw i wedi cael profiad gwael yn y gorffennol	23
Mae'r gwasanaeth yn rhy araf	29
Mae'r staff bob amser yn newid	12
Dydy’r staff ddim yn fy adnabod	7
Rydw i’n adnabod y staff a byddai'n well gen i nad ydyn nhw’n gwybod pa feddyginiaethau rydw i'n eu cymryd	1
Nid oes ganddyn nhw'r hyn sydd ei angen arnaf mewn stoc	23
Nid yw'r fferyllfa yn danfon meddyginiaethau	2
Nid oes digon o breifatrwydd	14
Nid yw' ar agor pan fydd ei hangen arnaf	12
Nid yw’n addas i gadeiriau olwyn/bygi babi	1
Arall	25

Lle dewiswyd "Arall", rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol.

- Oriau agor yn ystod yr wythnos yn unig. Rydw i’n gweithio tan 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- ei [enw]
- Rydw i bob amser wedi cael gwasanaeth gwych yn fy fferyllfa ddewisol a dydw i ddim eisiau newid, hyd yn oed i un sy’n agosach.
- Rydw i’n defnyddio’r un sydd agosaf at fy meddyg teulu a bob amser yn ei defnyddio er fy mod wedi symud
- Nid yw'r oriau agor yn gyfleus

- Mae gan y ferch epilepsi ac mae angen iddi gadw at yr un brand a dywedwyd wrthych fod yn rhaid i chi dderbyn beth a roddir i chi
- Nid oes unrhyw beth negyddol am y fferyllfa hon ond rydw i bob amser yn defnyddio'r un arall yn y dref
- Maen nhw'n ofnadwy, yn anghwrtais ac yn dda i ddim
- Mae'n rhy bell o fy ngwaith
- Byddai'n rhaid i mi ffonio i archebu fy meddyginiaeth amlroddadwy
- Dydy'r staff ddim yn helpu, diffyg gwybodaeth. Gwasanaeth aneffeithlon. Yn aml yn cael ei ddosbarthu'n anghywir neu nid oes ganddynt feddyginiaethau mewn stoc.
- Mae'n well gen i'r un rydw i'n ei defnyddio
- Nid yw gwasanaethau fel heintiau ar y glust a llwnc tost yn cael eu cynnig
- Dydw i ddim yn meddwl eu bod nhw'n casglu presgripsiynau amlroddadwy o fy meddygfa
- Nid yw cystal â'r un rwy'n ei defnyddio
- Mae'r gwasanaeth a'r staff yn fy fferyllfa bresennol o'r radd flaenaf
- Rhy brysur, mae'r staff yn ofnadwy o brysur ac yn aml yn methu dod o hyd i'm meddyginiaethau
- Oedi cyson wrth gael fy mhresgripsiwn. Camgyfathrebu rhwng y fferyllfa a'r meddyg teulu a minnau. Gormod o gamgymeriadau.
- Mae'r fferyllydd rydw i bellach yn ei ddefnyddio yn gallu gwneud profion gwaed a rhagnodi os oes angen
- Mae staff yn anghwrtais a dydyn nhw ddim yn gofyn unrhyw gwestiynau pan fyddaf yn casglu meddyginiaeth rhywun arall
- Diffyg meddyginiaeth gywir pan fydd ei hangen arnaf
- Mae'n well gen i gadw at y fferyllfa rydw i wedi'i defnyddio ers blynyddoedd
- Mae'n well gen i'r un rydw i'n ei defnyddio

Os ydych chi'n mynd i'r fferyllfa ar eich pen eich hun neu gyda rhywun, sut ydych chi'n cyrraedd yno fel arfer?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Cerdded	79
Ar y bws	9
Mewn car	189
Ar feic	0
Mewn tacsi	1
Ar sgwter symudedd	0
Ddim yn berthnasol	1
Arall	4
Dewis peidio ag ateb	3

Lle dewiswyd "Arall", rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

- Rydw i’n cerdded i'm fferyllfa arferol ond yn teithio mewn car i'r fferyllfa sy'n darparu brechlynnau Covid y gellir talu amdanynt (yr un agosaf i mi yw [enw], [lleoliad])
- Cerdded a bws ac yn y car
- Pan fyddaf yn dod oddi ar y trên wrth ddod adref o'r gwaith
- Weithiau Tacsi weithiau car

... a pha mor hir mae'n ei gymryd fel arfer i gyrraedd yno?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Llai na 5 munud	96
Rhwng 5 a 15 munud	159
Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud	15
20 munud neu fwy	10
Dewis peidio ag ateb	6

A fyddech chi'n dweud eich bod fel arfer yn cael trafferth cyrraedd fferyllfa?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Byddwn	25
Na fyddwn	250
Ddim yn berthnasol	8
Dewis peidio ag ateb	3

Os ydych chi'n cael trafferth cyrraedd fferyllfa, dywedwch wrthym pam.

- Bysiau annibynadwy ac opsiynau parcio gwael
- Mae'n rhaid i mi ddal 2 fws
- Gweithio yn ystod eu horiau agor. Rydw i'n defnyddio [enw] oherwydd bod y fferyllfa ar agor tan 7pm (ar gyfer fp10 a roddir gan yr ysbyty). Rydw i hefyd yn defnyddio fferyllfa wahanol ar gyfer fy meddyginiaeth amlroddadwy, rydw i’n defnyddio hon gan ei bod yn yr un adeilad â fy meddyg teulu. Ond mae gan yr un yma oriau agor byrrach felly mae'n rhaid i mi trefnu gorffen y gwaith yn gynnar i gasglu.
- Dydy fy fferyllfa ddim ar agor pan fydd ei hangen arnaf. Mae ar cau pan fyddaf yn mynd i'r gwaith ac ar gau pan fyddaf fel arfer yn dod yn ôl ac nid yw bellach ar agor ar ddydd Sadwrn
- Gwaith shifft 6-6 - fferyllfa ar gau
- Fi yw'r prif ofalwr ar gyfer fy ngŵr a dim ond pan fydd gen i rywun i eistedd gydag ef y gallaf fynd allan.
- Dydw i ddim yn gallu gyrru oherwydd fy anabledd ac mae fy mhartner yn gweithio'n llawn amser felly nid yw bob amser ar agor pan fydd e’n gallu mynd ar fy rhan
- Mae gen i broblemau gyda fy nglun

- Dydw i ddim yn gyrru ac nid yw'r fferyllfa o fewn pellter cerdded posibl
- Fel y soniwyd droeon, dydw i ddim yn gallu fforddio cyrraedd yno gan nad wyf yn gallu gyrru ac yn dibynnu ar dacsi. Mae'n gallu bod mor ddrud weithiau. Yr un agosaf yw [lleoliad] sy'n costio tua £20 i mi gyrraedd yno, ond weithiau nid oes ganddyn nhw bethau mewn stoc sy'n golygu bod yn rhaid i mi "siopa o gwmpas" trwy ffonio pob fferyllfa bosibl er mwyn dod o hyd i rywun sydd â'r feddyginiaeth sydd ei hangen arnaf mewn stoc. Weithiau dydyn nhw ddim yn dweud wrthych chi. Dydw i ddim yn gallu fforddio mynd i bob un ohonynt. Byddai cyrraedd rhai o'r rhai sydd ymhellach, fel yr un y tu mewn i [enw] yn [lleoliad] yn costio £40 i mi gyrraedd. Nid oes gennyf y math hwnnw o arian. Mae dirfawr angen fferyllfa arnom yn [lleoliad]. Yn amlach na pheidio, mae'n rhaid i mi naill ai fynd ar-lein ac aros sawl diwrnod i'w derbyn neu mewn rhai achosion dim ond mynd heb driniaeth gan ei bod yn amhosibl cael gafael ar feddygon teulu, does ganddyn nhw fyth apwyntiadau a dydyn nhw ddim bellach yn delio â "man" gyflyrau fel heintiau ar y llygad, heintiau ar y glust, UTI ac ati. Mae angen presgripsiynau ar y pethau hynny felly mae angen i chi gael eich gweld gan rywun, boed yn feddyg teulu neu'n fferyllydd, i gael y presgripsiwn. Dydy hi ddim yn bosibl jyst eu prynu ar-lein. Mae'n rhaid i chi weld rhywun wyneb yn wyneb. Ac os allwch chi ddim fforddio mynd i fferyllfa neu os allwch chi ddim cerdded yno oherwydd problemau symudedd, mae'n broblem. Mae'n golygu bod y rhai ohonom sy'n anabl a/neu'n rhy dlawd yn methu cael mynediad at ofal yn llythrennol.
- Problemau iechyd
- Poen yng ngwaelod y cefn ac emffysema bullea
- Oherwydd gwaith mae'n aml ar gau erbyn i mi gyrraedd adref
- Ar hyn o bryd dydw i ddim yn gallu gyrru na defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae gen i hefyd boen cronig a ME, felly yn aml dydw i ddim yn gallu gadael y tŷ
- Dim parcio
- Coesau gwael a phroblem gyda'r bledren oherwydd copd
- Angen cymryd bws a ddim yn berchen ar gar
- Ar y gofrestr anabledd
- Parcio'r car gerllaw'r Fferyllfa.
- dydy'r drws ddim yn agor ar ei ben ei hun
- Mae'r amseroedd y mae angen i mi ymweld fel arfer oriau prysuraf o ran traffig. Nid yw'r trefniadau parcio yn ddigonol.
- Mae llawer o fferyllfeydd bellach ar gau ar benwythnosau. Mae'r rhai a arferai fod ar agor ar ddydd Sadwrn bellach wedi'u cau, sy'n anodd i'r rhai sy'n gweithio.
- Os nad wyf yn gallu gyrru neu os ydw i'n sâl, ni allaf gyrraedd y Fferyllfa. Mae'n rhaid i mi ddibynnu ar ffrindiau neu archebu tacsi. Pan fyddwch chi'n hŷn, nid yw pethau'r un fath bob dydd. Mae rhai dyddiau'n dda a rhai ddim.. mae angen i arolygon adlewyrchu'r gwahaniaethau
- Ddim yn ddigon symudol

Hoffem wybod sut rydych chi'n dod o hyd i wybodaeth am fferyllfa fel oriau agor neu'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig.

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Byddwn i'n rhoi galwad iddyn nhw	94
Byddwn yn ffonio GIG 111 Cymru neu ddefnyddio eu gwefan	10
Byddwn i'n chwilio ar y we	204
Byddwn i'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol	46
Byddwn yn gofyn i ffrind	16
Byddwn i'n galw heibio a gofyn iddyn nhw	75
Edrych yn y ffenestr	41
Byddwn i'n dod i wybod o ddarllen y papur newydd neu gylchgrawn lleol	1
Ddim yn berthnasol	4
Arall	3
Dewis peidio ag ateb	3

Lle dewiswyd "Arall", rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol.

- Roeddwn i'n arfer gweithio yno
- Dydy fy fferyllfa byth yn ateb eu ffonau

Ydych chi'n teimlo eich bod yn gallu siarad am rywbeth preifat/sensitif gyda fferyllydd?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Ydw	194
Nag ydw	29
Heb fod angen gwneud hynny erioed	48
Ddim yn gwybod	12
Dewis peidio ag ateb	3

Ydych chi'n ymwybodol y gallech gael mynediad i'r gwasanaethau canlynol gan fferyllfeydd fel rhan o'r GIG? Dewiswch y rhai rydych chi'n ymwybodol ohonynt.

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Brechiadau rhag y ffliw (i'r rhai sydd yn un o'r grwpiau sy'n wynebu risg)	249
Y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau – mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer pobl y mae eu	77

meddyginiaethau wedi newid yn ystod arhosiad yn yr ysbyty, i'w helpu i ddeall y newidiadau sydd wedi'u gwneud ac i wneud yn siŵr bod presgripsiynau yn y dyfodol ar gyfer y meddyginiaethau cywir.	
Gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar - dyma gyfle i drafod cyfarpar fel y rhai ar gyfer stomas a cholostomïau gyda fferyllydd neu nyrs arbenigol i sicrhau bod eich cyfarpar yn gwneud yr hyn sydd angen iddo ei wneud.	32
Gwasanaethau atal cenhedlu, gan gynnwys y 'bilsen bore wedyn'	134
Help i roi'r gorau i ysmygu	134
Cynllun anhwylderau cyffredin – gall fferyllwyr roi cyngor a thriniaeth am ddim i chi ar gyfer mân anhwylderau a salwch cyffredin fel nad oes angen i chi weld meddyg teulu, er enghraifft dolur gwddf a heintiau'r llwybr wrinol (a elwir hefyd yn UTI)	239
Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd - mae rhai fferyllwyr ledled rhanbarth Cwm Taf Morgannwg yn cynnig y gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllydd, sy'n golygu y gallai fferyllydd efallai drin cyflyrau ychwanegol, y tu hwnt i gwmpas y gwasanaeth anhwylderau cyffredin, heb yr angen i weld eich meddyg teulu.	115
Darparu nodwyddau a chwistrellau a gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi pobl sy'n derbyn triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau	61
Cyflenwad brys o feddyginiaeth – mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi pobl i gael mynediad at gyflenwadau brys o'u meddyginiaeth trwy eu fferyllfa	102
Nag ydw	13
Dewis peidio ag ateb	6

Ydych chi wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau a restrir?

Opsiynau ateb	**Nifer yr ymatebion**
Brechiadau rhag y ffliw	116
Y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau	15
Gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar	3
Gwasanaethau atal cenhedlu	29
Help i roi'r gorau i ysmygu	10
Cynllun anhwylderau cyffredin	157
Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllydd	48
Darparu nodwyddau a chwistrellau	5

Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth	4
Nag ydw	35
Dewis peidio ag ateb	19

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am wasanaethau fferyllol lleol?

Yn ddiweddar mae fferyllfeydd wedi bod yn ofnadwy o ran dosbarthu stoc neu beidio â chael y presgripsiynau i mewn. Mae yna un fferyllfa rwy'n mynd iddi oherwydd dyma'r unig le lleol sy'n gallu cael presgripsiwn fy merch ac yn ddiweddar mae hi wedi mynd tri mis hebddo ac nid oedd yn gywir pan wnes i ei gasglu. Mae'r staff wedi bod yn anghwrtais i gwsmeriaid ac nid ydynt yn ymddangos fel eu bod yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud y rhan fwyaf o'r amser. Presgripsiynau yn cael eu harchebu ond yna dweud nad ydynt wedi'u harchebu neu'n dweud wrthym hyd yn oed ar ôl wythnos neu fwy nad ydyn nhw dal heb ddod i mewn. Mae'n gyson ar bob ymweliad.
Rydw i wedi gweld bod y Fferyllfa yn well na'r meddyg teulu. Mae'r rhan fwyaf o'm cwynion iechyd yn fach, os nad yw'r Fferyllydd yn gallu fy nhrin byddant yn fy atgyfeirio a byddaf yn cael fy ngweld yn gyflymach gan y meddyg teulu. Rydw i'n hoffi eich bod yn gallu gerdded i mewn, ond aros 5-10 munud a chael eich gweld heb fod angen apwyntiad. Maen nhw'n fwy cyfeillgar na'r meddyg teulu hefyd!
Mae rhai staff yn anghwrtais a dydyn nhw ddim yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud.
Mae Fferyllfa [enw] yn ardderchog. Mae gwasanaethau anhwylderau cyffredin yn anhygoel fel ag y mae gwasanaethau iechyd preifat e.e. brechiadau ar gyfer gwyliau
Dydyn nhw byth â stoc i mewn. Maen nhw'n colli fy mhresgripsiwn yn aml. Byth yn ceisio helpu pan fydd rhywbeth allan o stoc. Yn fy anfon yn ôl at fy meddyg teulu i sortio pethau syml e.e. newid hufen i eli pan fydd allan o stoc. Gor-archebu fy meddyginiaethau pan fyddaf yn dweud wrthyn na nad oes angen rhywbeth arnaf. Dweud fod rhywbeth allan o stoc gyda'r gwneuthurwyr pan fydd y fferyllfa i lawr y ffordd yn gallu ei gael i mewn o'r un lle. Yn beio meddygfa fy meddyg teulu yn rheolaidd am broblemau gyda fy archeb am feddyginiaeth. Byth ag ateb y ffôn pan fyddaf angen siarad â nhw.
Yn cymryd gormod o amser i weinyddu a llenwi'ch presgripsiwn
Gorfod aros yn hir i gael presgripsiynau, weithiau nid oes ganddynt y feddyginiaeth felly mae angen ei archebu sydd wedyn yn golygu gorfod mynd yn ôl. Aros yn hir yn y ciw, yn aros i rywun ddod ataf i gymryd y presgripsiwn tra bod staff yn siarad. Mae rhai staff yn anghwrtais iawn (Fferyllfa [Enw])
Mae'r holl staff yn gyfeillgar a chymwynasgar iawn ac yn gwybod beth yw anghenion eu cwsmeriaid
Mae'r fferyllydd yn amhroffesiynol yn trafod cleifion o flaen cwsmeriaid. Anghwrtais gyda chwsmeriaid. Felly rydw i'n teimlo na allwn siarad â hi yn gyfrinachol.
Yn cau am ginio

Ar ôl cael profiadau gwael yn y gorffennol, roeddwn i'n ddigon ffodus i ddod o hyd i'r fferyllfa rydw i'n ei defnyddio nawr. Maen nhw'n barod i helpu, gwneud yn siŵr bod fy mhresgripsiwn yn gywir ac ar amser, rydw i'n gallu trafod unrhyw bryderon gyda nhw. Rydw i wedi eu hargymell i bobl eraill oherwydd eu gwasanaeth. Fe wnaethon nhw sortio pethau i mi pan roddodd y meddyg y presgripsiwn anghywir i mi.
Mae'r bobl yn wych. Nid yw'r amseroedd cystal
Gall fod yn straen oherwydd bod y gweithwyr weithiau'n anghwrtais a ddim yn gwybod ble mae eich meddyginiaeth.
Dydw i ddim yn meddwl bod y gwasanaeth presgripsiynau amlroddadwy yn gweithio'n dda iawn, mae'n anodd iawn dod o hyd i bresgripsiwn amlroddadwy sydd ar goll, mae'r fferyllfa yn beio'r feddygfa ac i'r gwrthwyneb, ac rydych chi'n sownd yn y canol yn ceisio gweithio allan ble mae'r presgripsiwn
Dydyn nhw byth yn ateb y ffôn ac mae hyn yn gallu bod yn rhwystredig pan fydd angen presgripsiwn wedi'i wneud i fyny
Mae fy fferyllfa leol yn barod iawn i helpu ac mae'n llawer mwy cyfleus defnyddio'r gwasanaeth hwn ar gyfer mân anhwylderau na chael apwyntiad meddyg teulu. Maen nhw'n cynnig gwasanaeth amhrisiadwy
Dydy eitemau ddim bob amser mewn stoc a rhaid eu harchebu felly mae'n rhaid aros tan y diwrnod wedyn i'w casglu
Yn ddiweddar bûm yn yr ysbyty am gyfnod oherwydd llawdriniaeth a rhoddwyd chwistrellau i'w chwistrellu yn fy stumog am 5 diwrnod... wnes i fynd â'r chwistrellau gwag yn ôl ond nid oeddent yn fodlon eu derbyn
Dydy fy mhresgripsiwn byth yn barod pan ddylai fod
Bob amser yn gyfeillgar a phroffesiynol
Mae ein fferyllfa leol wedi bod yn ardderchog yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer fy mam-yng-nghyfraith pan fydd gofyn amdanynt ar frys
Anodd dod o hyd i bresgripsiwn, mae rhai wedi'u colli
Rydyn ni o dan Caerdydd a'r Fro ond yn defnyddio [Enw] yn [lleoliad] ar gyfer brechiadau Covid preifat - mae'r pris yn rhesymol (o'i gymharu ag eraill) ac maent bob amser yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar, weithiau ychydig yn anhrefnus ond maen nhw'n brysur iawn yno i fod yn deg
Fel arfer, does ganddyn nhw ddim amser i siarad â chi os oes angen i chi siarad â'r fferyllydd
Mae angen iddynt gofio bod tabledi yn cael eu dosbarthu bob 4 wythnos. Dylai gwasanaethau fferyllol fynd yn ôl i fod ar gael yn yr ysbyty. Dylai pob fferyllfa leol fod ar agor o leiaf ar fore Sadwrn.
Problemau gyda stoc
Mae'n effeithlon. Mae'r oedi yn gorwedd gyda meddygfa'r meddyg teulu sydd angen 7 diwrnod o rybudd ar gyfer presgripsiynau amlroddadwy
Staff da iawn yn [Enw]
Gwasanaeth personol, bob amser yn gwneud amser i gynnig help
Dydyn nhw ddim yn dda iawn

Mae'r fferyllydd rydw i wedi bod yn ei ddefnyddio yn aml yn gwneud llanast o fy mhresgripsiwn ac yn dweud nad yw fod ar gael; y mis hwn, es i gasglu fy mhresgripsiwn ac fe wnaethon nhw roi'r un o fis Rhagfyr 2025 i mi a ddywedon nhw ei fod ar gael. Wnes i hefyd fynd heb oherwydd hyn. Maen nhw hefyd nawr yn methu cael fy mhresgripsiwn oherwydd problemau gweithgynhyrchu felly mae'n rhaid i mi chwilio bobman.
Mae fferyllydd wrth y byd
Gwasanaeth rhagorol gan y meddyg teulu a'r fferyllfa
Maen nhw'n cael eu gorweithio. Dim digon o staff i helpu ac yn gorfod aros mor hir wrth gasglu meddyginiaethau
Mae fy fferyllydd lleol bob amser yn barod iawn i helpu gan fod angen i ni archebu meddyginiaethau arbennig ar gyfer fy merch a gallant bob amser gael gafael arnynt pan nad yw eraill yn gallu
Mae'n rhaid i mi ddefnyddio fferyllfa [Enw] gan mai dyna lle mae fy mhresgripsiwn yn mynd o'm meddygfa. Fodd bynnag, mae'r staff yn anghwrtais iawn, ac wedi gwneud i mi grio ar sawl achlysur. Rydw i wedi cael fy ngwrthod sawl gwaith gan fod yr eitemau allan o stoc ac ati. Yna maen nhw'n eich anfon i'ch meddygfa am bresgripsiwn newydd i'w gyflwyno yn rhywle arall. Er bod y meddyginiaethau yr un fath bob mis. Rydw i'n gofalu am aelod o'r teulu ac mae'n rhwystredig ac yn ofidus iawn.
Gwasanaeth ardderchog yn archebu fy mhresgripsiwn amlroddadwy ar yr ap
Eithriadol o ddibynadwy. Caredig. Barod i helpu
Ychydig iawn o feddyginiaethau sydd mewn stoc, gorfod cyfnewid a newid meddyginiaeth rydw i wedi bod arni am flynyddoedd ers newid i fferyllfa [Enw] ac amser agor cyfyngedig iawn
Rydw i'n mwynhau Gwasanaeth fy fferyllfa leol.
Bob amser yn brysur iawn ac ychydig iawn o ddewis o [lleoliad]
Barod iawn i helpu. Yn enwedig pan fydd yn rhaid i mi archebu meddyginiaeth meddyg ymgynghorol yn unig
Mae'n cymryd dros 8 diwrnod nawr i gael presgripsiwn amlroddadwy
Mae angen ail fferyllydd arnoch i allu darparu'r holl wasanaethau ychwanegol hyn. Mae angen staff cymwys cofrestredig arnoch i fod yn atebol pan fydd y fferyllydd oddi ar y siop/llawr yn darparu gwasanaethau ychwanegol. Gallwch weld y straen ar wasanaethau yn enwedig yn [Enw]. Alla i ddim credu eu bod yn gadael i fferyllfeydd redeg gyda chyn lleied o staff.
Bob amser yn aros am hydoedd neu nid yw'r presgripsiwn yn barod er gwaethaf cael neges destun
Gallaf argymell Fferyllfa [Enw] yn llwyr. Dydy'r staff a'r fferyllwyr ddim yn gallu gwneud digon i chi
Fferyllfa ynghlwm wrth [meddygfa.] Gwasanaethau ofnadwy, staff anghwrtais a staff yn newid yn gyson. Dydy nhw ddim yn ateb y ffôn (wedi diffodd y sŵn canu, ond yn eich cadw'n hongian ar y ffôn). Diffyg trefn, ciwiau cyson. Gwasanaeth araf iawn iawn. Diffyg stoc, meddyginiaethau. Dim preifatrwydd i siarad â fferyllydd, os ydynt wir yn fodlon siarad â chi. Cadw cwsmeriaid yn aros y tu hwnt i gyfnod rhesymol. Gallwn fynd ymlaen .....
Byddai'n dda petaent ar agor amser cinio neu ar benwythnosau

Nid oes gwasanaeth presgripsiynu ar ôl 5pm neu ar benwythnosau
Mae'n ofnadwy, does ganddyn nhw byth y meddyginiaethau amlroddadwy yn barod ar amser ac mae yna giw hir bob amser
Mae ein fferyllfa leol yn darparu gwasanaeth rhagorol
Unwaith eto, fel y soniwyd droeon, mae dirfawr angen fferyllfa leol ar [lleoliad]. Mae'r rhai ohonom sy'n anabl ac ar incwm isel yn llythrennol yn methu cael mynediad at ofal ar adegau. Weithiau mae'n benderfyniad rhwng trin salwch neu fwyta neu gael gwres. Dim ond hyn a hyn y gellir ei archebu ar-lein ac mae'n ei gwneud mor anodd i'r rhai ohonom sydd heb y fantais o fod â char.
Mae fel petai nad yw'r Fferyllfa yn deall cysyniad presgripsiwn 28 diwrnod. Y presgripsiwn newydd, o'r claf i'r meddyg, yn cael ei drosglwyddo i Fferyllfa, a'r claf yn ei gasglu; mae hyn yn cymryd llawer o amser, ac yn anghyfleus, Yn enwedig pan fydd cleifion yng nghanol eu 80au. Mae'n sylfaenol anghywir.
Pan fydd taflenni yn cael eu hanfon gyda salwch penodol, gall fferyllydd edrych neu ragnodi meddyginiaethau, yn amlach na pheidio, dywedir wrthych i fynd i weld eich meddyg teulu, am ba reswm, dydw i ddim yn gwybod. Efallai nad oes prif fferyllydd yno, neu maen nhw'n rhy brysur, mae fy fferyllfa yn brysur bob tro rydw i'n mynd yno
Weithiau mae'r fferyllfa wedi bod yn fwy o gymorth i mi adeg salwch pan nad oeddwn yn gallu cael apwyntiad meddyg. Oni bai am y fferyllydd yn y fferyllfa, rydw i'n credu y byddwn wedi bod yn ddifrifol wael gan fod yn rhaid i mi fynd at y meddyg teulu yn y diwedd a gorfod cael 2 gwrs ychwanegol o wrthfiotigau
Hoffwn weld pob fferyllydd yn fwy ymwybodol o'r cynllun chwistrellwyr adrenalin sbâr mewn ysgolion. Roedd ysgol fy mhlentyn yn dymuno defnyddio hwn ond nid oedd gan sawl fferyllfa yn yr ardal unrhyw wybodaeth amdano. Roedd yn rhaid i mi eu cyfeirio at y wybodaeth berthnasol a hyd yn oed wedyn dim ond un fferyllydd oedd yn barod i ddarparu'r chwistrellwyr adrenalin.
Mae ciwiau hir yno'n aml, felly gellid aros am hanner awr iddynt ddosbarthu'r presgripsiwn
Ddim yn stocio digon o feddyginiaeth
Heb gael y feddyginiaeth, colli presgripsiynau, anghwrtais iawn, staff newydd bob amser, yn ddiweddar rydw i wedi newid ar ôl 25 mlynedd, fydda i byth yn mynd yn ôl i [Enw] yn [lleoliad].
Yn fy marn i, allwch chi ddim curo fy fferyllfa leol, bob amser yno pan fyddwch mewn angen
Mae [enw] yn wych
Oedi wrth lenwi presgripsiwn ar gyfer meddyginiaeth hanfodol
Mae angen i fwy fod ar gael ar benwythnosau, dydy salwch ddim yn gyfyngedig i ddydd Llun i ddydd Gwener
Defnyddiol iawn ac yn cael y brandiau yr wyf yn gallu eu cymryd gan fy mod yn cael adweithiau gyda rhai meddyginiaethau
Mae'n rhaid aros 30-40 munud bob amser i bresgripsiynau gael eu llenwi hyd yn oed pan fyddant wedi eu derbyn o'm meddygfa sawl diwrnod cyn hynny.
Yn debyg iawn i'r Cynllun Anhwylderau Cyffredin a gwasanaethau IP, mae'n ddefnyddiol iawn. Er bod y terfynau fesul blwyddyn ar anhwylderau cyffredin ychydig yn rhwystredig.

Mae fferyllfa [enw] yn wych, rydw i'n eu defnyddio ar gyfer ein holl bresgripsiynau ac wedi eu defnyddio ar gyfer y cynllun anhwylderau cyffredin, proffesiynol a gofalgar
Mae'r staff yn hyfryd ac weithiau dim ond galw heibio am sgwrs
Llawer haws i gael mynediad a chyngor cystal â'r meddygon, wrth fy modd â'r gwasanaethau a pha mor hawdd ydy eu cyrchu.
Mae argaeledd rhai meddyginiaethau yn fater o hap a damwain, maen nhw'n cael eu harchebu ac weithiau'n cymryd dyddiau i gyrraedd gan nad ydyn nhw ar gael, sy'n golygu gorfod dychwelyd dro ar ôl tro heb wybod a ydych chi'n mynd i gael y feddyginiaeth sydd ei hangen
Mae fferyllfa [enw] yn anhygoel, maen nhw bob amser yn gyfeillgar ac yn rhoi'r cyngor gorau os ydyn nhw'n sylwi bod fy meddyginiaeth i neu rhai fy nai wedi newid.
Mae'r fferyllfa rydw i'n defnyddio ar hyn o bryd yn dweud yn gyson eu bod yn brin o staff, yn brysur iawn ac y bydd aros hir. Mae sawl camgymeriad wedi'i wneud yn ddiweddar lle nad ydyn nhw wedi dosbarthu eitem ar bresgripsiwn amlroddadwy. Mae hyn wedyn yn golygu bod fy ngŵr yn mynd nôl ac ymlaen rhwng y feddygfa a'r fferyllydd i gael y presgripsiwn a'r eitemau wedi'u dosbarthu. Ar ddau achlysur mae fy mam bron yn ei dagrau oherwydd bod y staff wedi bod yn ddryslyd ac yn anghywir ynglŷn â'r eitemau i'w dosbarthu.
Dydw i ddim yn meddwl rhyw lawer o'r fferyllfa yn gyffredinol, mae'r lle yn llawn bocsys a bocsys o feddyginiaethau ar y llawr, mae hefyd angen glanhau'r lle yn drylwyr, nid yw'n addas i'r diben.
Rhwng y meddyg teulu a'r fferyllydd, mae oedi yn aml. Stoc yn hwyr yn cyrraedd
Weithiau nid yw meddyginiaethau cyffredin ar gael.
Cael neges destun i ddweud bod y feddyginiaeth yn barod i'w chasglu sy'n dda ond yn aml wrth gasglu nid yw un eitem ar gael sy'n golygu ymweliad arall i'w chasglu yn ddiweddarach
Mae fferyllfa [Enw] yn anhygoel, mor gyfeillgar yn wahanol i lawer o fferyllfeydd eraill
Maen nhw'n aml yn brysur iawn a dydyn nhw ddim yn gallu dosbarthu eitemau mor gyflym ag sydd ei angen. Ni fydd y meddyg teulu yn gwneud presgripsiynau brys os ydych wedi rhedeg allan o feddyginiaeth
Amseroedd aros hir
Maen nhw'n rhoi cyngor gwael ac anghywir iawn ar gyfer anhwylderau cyffredin. Clywais fferyllydd yn dweud wrth rywun i roi alcohol yn uniongyrchol ar glwyf drwg iawn. Byddai'n hynod boenus ac yn ddinistriol i'r celloedd newydd. Fe wnaeth fferyllydd roi diagnosis o frathiadau chwain a tharwden ar fy merch ond ar ôl gofyn i feddyg teulu, erythema multiforme oedd y broblem. Roedd hynny mor beryglus oherwydd ni fyddai hi wedi gwybod byth i gymryd cyffuriau NSAIDS eto oherwydd y risg uwch o EM mawr. Fe wnaethon nhw hefyd roi'r driniaeth anghywir i ni. Fe wnaethon nhw roi eli gwrth-ffwngaidd i ni ond roedd angen eli steroid arni. Maen nhw'n wybodus am feddyginiaeth ond dydyn nhw ddim yn wybodus am fodau dynol. Does ganddyn nhw ddim profiad clinigol felly dylent gadw at ddosbarthu nid rhoi diagnosis

Staff hyfryd. Fferyllydd gwybodus (gwell na fy mhractis meddyg teulu). Derbyn meddyginiaethau yn brydlon. Anfon neges destun i roi gwybod bod popeth yn barod i'w gasglu. Staff cymwynasgar.
Er bod gan y fferyllfa lawer o staff, gall yr amser aros i gael sylw fod yn eithaf hir weithiau.
Ydy, mae ein fferyllfa leol eisiau codi £5 arnom am wasanaethau. Alla i ddim fforddio hynny felly ni fyddaf yn cael fy meddyginiaeth mwyach
Rydw i'n ymddiried yn y fferyllwyr rydw i'n eu defnyddio ac yn aml yn mynd atynt am gyngor ar anhwylder yn hytrach na mynd at fy meddyg teulu. Mae'n gyflymach ac nid oes rhaid i mi ffonio am 8am am apwyntiad. Maen nhw'n hynod wybodus.
Gwrthod archebu brand penodol o feddyginiaeth gan nad yw wedi'i nodi ar y presgripsiwn. Fodd bynnag, mae'r presgripsiwn wedi cael ei ysgrifennu gan ymgynghorydd NDT ac ni ddylai amrywio o ran brand gan ei bod yn feddyginiaeth sy'n rhyddhau dan reolaeth. Maen nhw'n dweud wrthyf na fyddan nhw'n eu harchebu gan eu bod yn ddrytach
Mae fy fferyllfa yn anhygoel. Mae'r staff yn wych. Rydw i'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi a'u bod yn gwrando arnaf.
Dydy [Enw} byth yn cael digon o'ch meddyginiaeth, bob amser angen rhoi mwy i fi, bob amser yn ciwio, yna gorfod aros yn hir am feddyginiaeth. Ddim yn dda o gwbl.
Weithiau mae'r cyfnod aros yn hirach nag o'r blaen, fel arfer gan nad ydyn nhw wedi cael y feddyginiaeth
Gweithio'n dda o dan bwysau
Hoffwn i'r Fferyllfa fod ar agor am fwy o oriau.
Mae'r fferyllfa leol yn ardderchog
Mae fferyllfa [enw] yn ardderchog.
Weithiau rydw i wedi cael staff anghwrtais neu feirniadol. Mae'n rhaid i fy mhartner gymryd disulfiram ar gyfer alcoholiaeth oherwydd ei fod yn gwella ac weithiau mae staff wedi edrych arno neu siarad ag ef mewn ffordd negyddol oherwydd hynny. Mae rhai ohonynt yn ddiystyriol yn hytrach na chynnig cyngor neu gymorth i'ch gwasanaethu'n well.
Dydw i ddim yn gweithio'n lleol felly mae ceisio casglu fy mhresgripsiwn bob amser yn broblem, gall gymryd wythnos i mi gyrraedd yno gan nad ydyn nhw'n cynnig gwasanaeth danfon
Nid oes fferyllfeydd ar agor ar gyfer argyfwng y tu allan i oriau
Angen mwy o staff, maen nhw wedi'u llethu ar adegau ac mae'r amser aros rhy hir, fel arfer yn mynd yn ôl diwrnod wedyn
Mae fferyllwyr yn brysur iawn ac mae angen mwy o system apwyntiadau ar gyfer gwasanaethau gan nad yw bob amser ar gael fel gwasanaeth cerdded i mewn. Mae fferyllfeydd yn gyffredinol angen mwy o staff yn fy marn i
Mae'r fferyllfa yn aml yn llawn dop o feddyginiaethau amlroddadwy. Nid oes digon o le storio ar gyfer nifer y presgripsiynau maen nhw'n eu dosbarthu bob mis, felly weithiau mae staff yn cymryd mwy o amser i ddod o hyd i feddyginiaeth.
Dylent fod ar agor bob dydd ac am oriau hirach. Byddai hyn yn sicr yn tynnu'r straen oddi ar feddygfeydd ac ysbytai. Mae fy un lleol ar agor o 9am tan 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. 9am tan 1pm ac ar gau drwy'r dydd ar ddydd Sul. Gall

hyn ei gwneud hi'n anodd iawn cael mynediad os ydych chi'n gweithio'n llawn amser ac os ydych chi'n gweithio ar benwythnosau.
Maen nhw'n colli presgripsiynau yn rheolaidd
Maen nhw bob amser yn gyfeillgar ac mae'r gwasanaeth yn ardderchog.
Mae'r fferyllfa leol yn rhan amhrisiadwy o'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu mewn gofal preswyl
Araf
Rydw i'n defnyddio Fferyllfa [Enw] bob dydd, mae'r cwmni'n darparu meddyginiaeth bob mis i 24 o'r unigolion sydd dan fy ngofal i. Maen nhw'n cynnig cyngor a chymorth unrhyw adeg o'r dydd. Gwasanaeth anhygoel a thîm gwych.
Maen nhw'n darparu gwasanaeth da mewn ardal brysur iawn
Maen nhw'n anghwrtais a dydy'r feddyginiaeth fyth ar gael. Mae staffio yn wael a dydyn nhw ddim yn drefnus
Mae'r presgripsiwn amlroddadwy bob amser yn iawn. Ond nid yw fy meddyginiaeth adhd misol sy'n dod o [Enw] byth mewn stoc ac mae hyn yn fy ngadael heb feddyginiaeth. Hefyd ar adegau dydy'r fferyllfa ddim yn gallu archebu'r feddyginiaeth gan eu cyflenwr sydd wedyn yn golygu fy mod yn gorfod teithio o amgylch yn ceisio dod o hyd i rywun sy'n gallu ei archebu gan fy ngadael eto heb feddyginiaeth yn hirach.
Rhaid aros yn aml, dydyn nhw ddim yn gallu dod o hyd i'm presgripsiwn. Yn aml mae eitemau ar goll
Beth â stoc pan ragnodir meddyginiaeth newydd, a gall gymryd dyddiau cyn iddynt dderbyn cyflenwad.
Mae [enw] yn ardderchog, mae'r fferyllydd a enwir yn eithriadol
Rydw i wedi bod yn defnyddio gwasanaethau presgripsiwn amlroddadwy ers 21 mlynedd ar gyfer fy mab ac wedi defnyddio fferyllfeydd lleol amrywiol ac mae'n ymddangos bod ganddynt yr un math o broblemau waeth beth fo'r fferyllfa a ddefnyddir. Y peth mwyaf rhwystredig yw cael trafferth i gael gafael ar bresgripsiwn fy mab er gwaethaf caniatáu digon o amser i archebu. Mae'n gallu cymryd hyd at 5 wythnos i gael rhai eitemau weithiau oherwydd nad ydynt yn cael eu harchebu gan y fferyllfa pan ofynnir amdanynt, problemau cyflenwi gan y gwneuthurwr neu eitemau yn cael eu tynnu o'r presgripsiwn oherwydd nad ydynt yn cael eu harchebu yn ddigon aml (rydyn ni ond yn archebu pan fo angen gan fod rhai eitemau â dyddiadau hir arnyn nhw ac yn anaml yn cael eu defnyddio a hynny mewn argyfwng yn unig) neu wrthod dosbarthu'r presgripsiwn oherwydd ei fod yn rhy gynnar. Mae'r diffyg brys neu weithio o gwmpas yn y fferyllfa yn rhwystredig iawn gan nad yw offer monitro inswlin a siwgr yn y gwaed yn rhywbeth y gallwch oroesi hebddo, yn enwedig pan fydd y ddwy eitem yn cael eu defnyddio gyda'i gilydd mewn system pwmp dolen gaeedig.
Mae'r amser ar gyfer dosbarthu presgripsiynau a anfonir i fferyllfa gan feddyg teulu yn araf.
Bob amser yn bleser i'w defnyddio
Gwasanaeth gwych

Mae'n lle gwych i gael diagnosis a thrin problemau syml, fel llwnc tost. A gallwch gael cyngor amhrisiadwy gan y fferyllydd ar lawer o anhwylderau cyffredin. Mae hyn yn gyffredinol yn llawer cyflymach na mynd i'ch meddygfa leol. Os bydd hyn yn angenrheidiol, bydd y fferyllydd yn eich cynghori i wneud hynny.
Gwasanaeth proffesiynol cyfeillgar rhagorol
Mae archebu ar yr ap yn dda
Mae gan Fferyllfa [Enw] staff cyfeillgar ac mae'r fferyllydd yn ddymunol, yn gymwynasgar ac wedi buddsoddi'n sylweddol i allu darparu gwasanaeth gwych
Rydw i'n defnyddio fferyllfa [Enw] yn [lleoliad] mae'r staff yno yn anhygoel, yn gymwynasgar iawn a chyfeillgar
Mae'r fferyllydd a'r staff yn eithriadol
Mae [enw] yn anhygoel. Mae [staff] yn wych ac mae pob aelod o'i thîm bach yn anhygoel a bob amser yn hapus i helpu. [Staff] - am wasanaeth gwych maen nhw'n ei ddarparu i'n tref
Nid yw'r fferyllfa rydw i'n defnyddio yn aml yn cynnwys yr eitemau a ragnodir gan fy meddyg teulu. Yn ddiweddar casglais fy mhresgripsiwn misol a meddwl, pan oeddwn yn eu rhoi yn fy mocs tabledi, fy mod wedi colli un bocs o feddyginiaeth. Ar ddiwedd y mis, fe wnes i ddod o hyd i slip "dyledus" ar waelod y bag y fferyllfa. Nid oedd y fferyllfa wedi rhoi gwybod i mi nad oeddent wedi gallu dosbarthu fy meddyginiaeth. Roedd yn lwcus bod gen i becyn sbâr o'r cyfnod pan oedd yn rhaid i mi roi'r gorau i gymryd y feddyginiaeth honno am ychydig wythnosau. Hefyd, nid oes preifatrwydd wrth y cownter, a hyd yn oed wrth ofyn cyfeiriad i wirio cyn rhoi meddyginiaethau,mae'n bosibl i bawb arall eich clywed.
Gwasanaeth da iawn. Mae'r fferyllfa rydw i'n ei defnyddio yn arfer bod ar agor ar ddydd Sadwrn ond bellach wedi cau.
Mae'r cynllun mân anhwylderau yn wych, hefyd y profion gwddf/ tonsillitis sy'n golygu nad oes angen i chi eistedd ac aros ym meddygfa'r meddyg teulu
Fferyllfa hynod o ddibynadwy. Staff anhygoel. Fferyllydd dibynadwy.
Does ganddyn nhw fyth â digon o feddyginiaeth ac mae'n rhaid i chi ddychwelyd am y rhai nad oes ganddyn nhw.
Nid yw presgripsiwn misol byth yn barod, felly rydw i bob amser heb feddyginiaeth am sawl diwrnod.
Gallent wneud gyda mwy o staff.
Maen nhw bob amser yn brysur iawn, efallai y byddai staff ychwanegol yn helpu
Gall fod yn straen a rhaid aros yn hir, dim digon o staff i ymdopi â'r galw.
Mae'n ymddangos bod meddygon teulu yn llawer tawelach ond mae'n ymddangos bod y fferyllfa yn fwyfwy prysur
Nid yw'n ymddangos bod digon o staff i ymdopi â'r galw. Ciwiau hir. Yn enwedig ar fore Sadwrn a phrynhawn ysgol
Mae fy Fferyllfa a'r staff yn ardderchog. Rydw i'n teimlo bod mwy o bwysau arnyn nhw gyda'r brechlyn ffliw ychwanegol, mân anhwylderau ac ati. Mae'r fferyllydd yn gweithio oriau hir, mae'n rhaid ei fod yn flinedig.
Byddai gwasanaeth danfon yn ddefnyddiol gan fod oriau agor yr un fath ag oriau gwaith felly yn aml mae angen mynd i fferyllfa mewn archfarchnad

Efallai fy mod yn ymwybodol o wasanaethau, ond dydw i ddim yn eu defnyddio. Nid ydych wedi caniatáu ar gyfer hynny yn eich arolwg
Gwasanaeth gwych ond bob amser yn brysur. Methu cael apwyntiad.
Cofiwch gleifion Powys, rydyn ni mor ddiolchgar fod gennym [Enw].
Mae'n eithaf gwael ar adegau ac weithiau'n wael iawn, ond dyma'r agosaf ataf ac mae'n gysylltiedig â'r meddyg teulu
Byddai'n ddefnyddiol cael fferyllydd presgripsiynu gan fod yr un agosaf mewn tref wahanol.
Mae newidiadau i feddyginiaeth amlrodddwy rheolaidd yn hunllef rhwng y meddyg teulu a'r fferyllfa a'u cael i gyd at ei gilydd.
Rydyn ni wedi newid yn ddiweddar o fferyllfa, nad oedd yn ymddangos fel eu bod yn deall presgripsiwn meddygol 28 diwrnod. Rydyn ni bellach gyda Fferyllfa annibynnol sydd gobeithio yn deall hynny.

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am eich profiad o'ch fferyllfa leol neu wasanaethau dosbarthu meddygon teulu?

Cefais UTI yn ddiweddar. Cefais fy ngweld cyn pen 5 munud o gerdded i mewn, roedd presgripsiwn yn barod 5 munud wedi i'r ymgynghoriad ddod i ben. Gweithiodd y feddyginiaeth a ddarparwyd i mi yn wych. Rydw i wedi gorfod mynd i'r ysbyty yn y gorffennol gyda haint yr arennau a oedd yn boenus iawn ac roeddwn mor ddiolchgar bod y Fferyllydd wedi fy ngweld yn syth. Rydw i'n credu bod y gwasanaeth presgripsiynu yn wych. Dydw i ddim yn deall pam nad yw'n cael ei hyrwyddo fwy.
Mae fferyllfa [enw] yn rhagorol.
Rydw i bellach wedi gadael y fferyllfa honno i fynd i'm fferyllfa fwy lleol sy'n gymaint gwell!! ([lleoliad])
Nid yw fy presgripsiwn byth yn cael ei baratoi waeth ba mor hir y byddaf yn ei adael sy'n cymryd amser gwaith gwerthfawr.
Rhaid archebu 7 diwrnod cyn casglu
Gofynnais yn y fferyllfa ar ran rhywun arall a allent ddarparu tabledi atal cenhedlu a dywedwyd wrthynt y gallent ac iddynt alw i mewn y diwrnod hwnnw ar ôl 2pm. Fe wnaethon nhw hynny ac yna dywedwyd wrthynt nad oeddent yn eu rhagnodi ac fe'u hanfonwyd at fferyllydd arall allan o'n hardal .. dim gwasanaeth da iawn
Roedd gen i lygad drwg yr haf diwethaf... es i weld y fferyllydd a gofynnais a allai roi cyngor i mi a dywedodd na allai ddelio â hynny.... nid wnaeth gynnig unrhyw gyngor o gwbl
Staff anghwrtais, presgripsiwn byth yn barod pan fyddant wedi ei dderbyn ers dyddiau.
Yn agos at fy meddyg teulu
Byddai gallu olrhain presgripsiwn ar-lein yn dda gan feddyg, fferyllfa i'w gwblhau ac yna ei gasglu
Mae'r meddyg teulu yn wastraff amser, dydyn nhw byth yn ceisio helpu, maen nhw'n dweud wrthych am fynd heibio'r fferyllfa

Cefais fy nhroi i ffwrdd am 10:30am a dweud nad ydynt yn derbyn mwy o bresgripsiynau
Rydw i'n eu gweld yn ceisio cynorthwyo a phlesio os oes ymholiad
Yn aml iawn ni allaf gael y meddyginiaethau .....gorfod ailymweld
Staff hynod anghwrtais a digymell yn [enw]
Mae'r staff yn fy adnabod, a bob amser yn barod i helpu, heb gael problem erioed
Oes, dydy'r feddyginiaeth ddim mewn stoc ac mae'n rhaid mynd nôl sawl gwaith bob amser
Angen bod yn fwy ond dim lleoliadau ar gael
Mae fy meddyginiaeth ragnodedig amlroddadwy bob amser yn barod i mi ei chasglu.
Dylai fod fferyllydd ar gyfer dosbarthu ar wahân i'r un sy'n asesu ar gyfer mân anhwylderau a rhagnodi. Gormod i un fferyllydd ac yn cynyddu'r risg o gamgymeriadau gyda chyffuriau oherwydd rhuthro
Mae'n ymddangos bod fferyllfeydd yn ceisio eu gorau ond mae angen hyfforddiant ar bwy sy'n briodol i'w cyfeirio at fferyllfa ac mae angen adolygiad staff arnynt i sicrhau lefelau staffio diogel cyn cael contractau a derbyn taliadau am wasanaethau ychwanegol. Mae cymaint o fferyllwyr cymunedol wedi cyrraedd pen eu tennyn. Mae'n drosedd cyfeirio cymaint o waith ychwanegol atynt heb sicrhau lles a staffio digonol.
Maen nhw'n rhedeg allan o gyflenwadau cyffuriau yn gyson ac ni chaniateir iddynt newid i gyffur gwahanol er ei fod yn gwneud yr un peth!
Gwasanaeth o'r ansawdd uchaf bob amser
Mae dirfawr angen fferyllfa arnom yn [lleoliad].
Rydyn ni wedi newid fferyllfa i un sy'n rhoi mwy o gymorth ac sy'n dangos mwy o gydymdeimlad.
Nid yw'r derbynnydd yn ei gwneud hi'n hawdd gweld eich meddyg teulu felly rydyn ni'n dibynnu'n fawr ar wasanaethau fferyllwyr nawr neu rwy'n tueddu i fynd ar-lein i mi fy hun am fy mhilsen atal cenhedlu gan fod yn rhaid i mi aros oesoedd i weld fy meddyg teulu i'w chael. Doeddwn i ddim eisiau aros mor hir
Dydyn nhw ddim bob amser yn archebu tabledi felly mae'n rhaid mynd heb feddyginiaeth
Gwasanaeth ofnadwy
nid fferyllfa [enw] yw fy un lleol ond maen nhw'n wych pan wnes i eu defnyddio ar gyfer y cynllun anhwylderau cyffredin roedd eu gwasanaeth dydd Sul yn achubiaeth a dylent fod ar gael yn fwy rhwydd.....rydw i wedi cael gwasanaeth a gwybodaeth mwy trylwyr yno na chyda fy meddyg teulu
Mae'r fferyllydd yn wych ac yn fy arbed rhag ceisio cael apwyntiad meddyg
Bob amser yn edrych yn lân ond mae angen gwaith ar flaen y siop!
Mae'n ymddangos yn brysur iawn
Yn barod i helpu bob amser

Mae'n wirioneddol anghyfleus bod fy ngŵr yn gorfod gofyn am eitemau amlroddadwy bob 28 diwrnod. Byddwn yn bendant yn defnyddio fferyllfa wahanol yn fy mhentref pe baent yn casglu presgripsiynau o'm meddygfa.
Mae'n ymddangos bod staff y fferyllfa wedi'u gorlethu ac yn anhrefnus, nid ydynt yn broffesiynol yn eu hagwedd at gwsmeriaid. Dim trefn wrth ddosbarthu presgripsiynau
Mae angen gwella'r broses, yn enwedig amserlenni
Dydy'r staff ddim bob amser yn gyfeillgar ac mae'n ymddangos eu bod dan straen
Maen nhw'n brin o staff
Mae eu cyngor clinigol yn syfrdanol o ddrwg. Clywais fferyllydd yn dweud wrth rywun ag anaf i'w ben i edrych allan am syrthni. Dim sôn am gur pen nad yw poenladdwyr yn ei leddfu neu gyfog neu chwydu, pob arwydd a fyddai'n dangos problem cyn iddynt ddechrau teimlo syrthni. Dydyn nhw wedi'u hyfforddi ar gyfer y math hwn o beth. Maen nhw'n beryglus
Gwael iawn
Mae gofal cwsmeriaid yn eithriadol.
Er eich bod yn ticio gofynion ar bresgripsiwn o'r eitemau sydd eu hangen, maen nhw'n aml iawn yn rhagnodi pob eitem sy'n wastraff, rydw i nawr yn casglu'r presgripsiynau o'r feddygfa gan fod llawer o gamgymeriadau neu nid oedd eich presgripsiynau ar gael yn y fferyllfa a oedd yn golygu mynd nôl ac ymlaen.
Hoffwn fod posibl cael presgripsiynau yn fferyllfa'r ysbyty lleol.
Byddai oriau agor y penwythnos yn dda
Mae'r rhan fwyaf o fferyllfeydd ar gau ddydd Sadwrn a nid yw hynny'n gwasanaethu'r gymuned o gwbl sydd heb [enw] neu [enw] lleol sydd â fferyllfa yn y siop
Mae [enw] yn cael ei rhedeg yn wael iawn, ciwiau yn ymestyn allan o'r drws bron bob dydd, maen nhw'n araf IAWN gydag agwedd wael heb roi llawer o help. Maen nhw'n dweud wrthych fod eich presgripsiwn yn barod dros y ffôn, yna byddwch yn mynd yno i'w gasglu ac maen nhw'n dweud celwydd ac yn dweud ei fod yn dal gyda'r meddygon Cael ei rhedeg yn wael iawn
Mae'r holl staff yn hynod gyfeillgar a chymwynasgar.
Mae angen iddynt fod ar agor yn amlach
Dydy meddyginiaethau byth yn barod ar amser
Gwnewch hi'n haws gwneud apwyntiad yn y feddygfa. Mae angen i bob fferyllydd gael ei hyfforddi i wneud Anhwylderau Cyffredin ac ar gael pan fydd y fferyllfa ar agor.
Mae'r staff yn broffesiynol ac yn gyfeillgar
Presgripsiynau byth yn barod
Mae'r fferyllfa rydw i'n ei defnyddio at ddibenion gwaith yn anhygoel, bob amser ar ben arall y ffôn i gynnig cyngor
Ddim yn wych
Yn cymryd hydoedd i gael unrhyw beth. Mae'r staff yn hyfryd. Mae llaeth presgripsiwn fy merch bob amser yno pan fydd ei angen arnom hefyd.

Meddygon da ond bod y fferyllfa a’r meddygon yn cau ddydd Sadwrn
Mae fferyllfa [enw] yr oeddwn yn ei defnyddio yn y gorffennol wedi cael trafferth cadw staff ac nid oedd awyrgylch dda yno. Doeddwn nhw ddim yn cynnig y gwasanaethau ychwanegol.
Proffesiynol, croesawgar, barod i helpu a bob amser yn hapus i helpu gydag unrhyw beth
Mae fferyllfa [enw] yn drysor yn ein dyffryn ac rydyn ni mor ddiolchgar i [staff] a'r gang
Mae llawer yn dibynnu ar fferyllwyr locwm felly nid oes parhad
Anfantais yw bod fferyllfa [enw] ar agor Llun-Gwener yn unig. Byddai agor ar ddydd Sadwrn, hyd yn oed hanner diwrnod yn ddefnyddiol.
Ddim bob amser yn cael presgripsiwn cyflawn.
Na, eithriadol o ystyried y pwysau.
Mae angen mwy o gefnogaeth yn fy fferyllfa leol
Rhoi o’u gorau pan fyddant yn ymddangos o dan bwysau mawr i ffitio popeth i mewn
Gwasanaeth da iawn ar y cyfan
Nid oes gan fy Fferyllfa leol ddigon o le. Mae'n brysur iawn oherwydd ei bod drws nesaf i'r feddygfa, mae pump neu chwech o bobl yn gweithio mewn lle eithaf cyfyng. Mae yna le preifat i siarad â fferyllydd ond mae'n fach iawn ac yn llawn o bob math o bethau eraill. Nid yw'n addas i gynnal sgwrs breifat a phan mae'n teimlo y gallai pobl eraill glywed eich clywed.
Mae'r staff yn anghwrtais
Ddim yn siŵr sut i gwyno pan fo gwasanaeth gwael
Mae [enw] yn fferyllydd ystyriol iawn, mae staff y siop hefyd yn barod i helpu. Byddai agor bore dydd Sadwrn yn ein helpu ni sy’n gweithio o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Mae meddygfa’r meddyg teulu wedi ceisio fy nhawelu gydag anadlydd asthma gwahanol, er bod fy asthma dan reolaeth a meddyginiaeth wedi cael ei rhagnodi'n wreiddiol gan y Clinig Anadlol yn yr ysbyty. Y tro cyntaf i hyn ddigwydd, bu’n rhaid mynd i’r ysbyty gan nad oedd yr anadlydd amgen yn gweithio cystal i mi. Yr wythnos diwethaf fe geisiodd meddygfa’r meddyg teulu wneud hyn eto ac fe wnes i ei wrthod yn y Fferyllfa, yna roedd yn rhaid i mi wneud *econsult* gyda’r meddyg teulu, yna cymerodd ddyddiau i'm fferyllfa ei gael gan fy mod yn sâl ac yn methu casglu presgripsiwn o'r feddygfa. Ddim yn gwybod pam maen nhw'n gofyn i mi gasglu unrhyw bresgripsiynau ychwanegol o’r feddygfa pan fyddaf yn casglu presgripsiynau amlroddadwy o fferyllfa yn fisol ac nid y feddygfa dan sylw yw'r un agosaf at fy nghartref. Mae gen i ddiagnosis o covid hir ers 7 mlynedd a syndrom blinder cronig, does gen i ddim egni i barhau i fynd ar drywydd pethau fel hyn.
Cyfeillgar a chymwynasgar

A oes unrhyw wasanaethau yr hoffech eu gweld yn cael eu darparu mewn fferyllfeydd?

Opsiynau ateb	Nifer yr ymatebion
Oes	65
Nag oes	165
Dewis peidio ag ateb	56

Archwiliadau pwysedd gwaed, heintiau ar y frest a pheswch.
Mynediad at ddiweddariad electronig ar yr hyn sydd ganddynt mewn stoc.
Rhagnodi ar gyfer anhwylderau cyffredin
Gall fferyllydd ymgymryd ag asesiad clinigol
Gwybodaeth am feddyginiaethau i bobl hŷn
Triniaethau UTI
Darpariaeth locwm ar gael yn hytrach na methu â dosbarthu os yw'r fferyllydd yn absennol e.e. wedi'i alw i gyfarfod ac ati
Sawl gwaith nid yw'r fferyllydd yn gymwys i roi cyngor a rhagnodi eitemau ... angen fferyllwyr cymwys
Hoffwn allu cael mynediad at frechiad Covid yn agosach at fy nghartref ond rwy'n ymwybodol na fyddai hynny yn eich ardal chi!
Rydw i'n credu y dylai pob ⚕ gael fferyllydd presgripsiynu ond hefyd cael yr amser i siarad â chi, nid bod yr unig fferyllydd yn y fferyllfa
Menopos a HRT. Maen nhw'n arbenigwyr mewn meddyginiaeth a byddwn i'n teimlo'n fwy gwybodus yn seiliedig ar eu cyngor
Siartiau MAR Cymru Gyfan a pheiriannau digidol i ddosbarthu meddyginiaeth
Gwneud yn siŵr bod ganddynt y feddyginiaeth briodol mewn stoc.
Archebu ar-lein yn hytrach na rhoi fy mhresgripsiwn i mewn i feddyg teulu bob mis, yna mynd i geisio ei gasglu mewn fferyllfa, a wedyn nid oes ganddyn nhw'r eitem, ac yna mae'n rhaid i mi chwilio ym mhob man amdano
Mwy o gymorth gydag anhwylderau
Nid yw'r gwasanaethau rydych chi wedi'u rhestru ar gael ar y cyfan ac mae'r amseroedd agor yn gyfyngedig iawn
Rheoli Cholestrol a phrofion rheolaidd.
Rhyddhau brechlyn rhag y ffliw yn gynharach bob blwyddyn hyd yn oed os ydych chi'n talu amdano
Effeithlonrwydd
Atal cenhedlu i fenywod
Mwy o bresgripsiynwyr a'r gallu i newid cyffuriau i fersiwn debyg os ydyn nhw wedi rhedeg allan
Gallu gofyn yn awtomatig am bresgripsiynau amlroddadwy
Byddai cael brechiad B12 heb fynd i'r feddygfa yn wych

Derbyn a gwaredu chwistrellwyr adrenalin wedi'u defnyddio/heb eu defnyddio. Cyngor cyhoeddus gan sefydliadau alergedd bob amser yw "ewch â nhw i'ch fferyllfa" ond mae pawb yn gwrthod cymryd y chwistrellwyr. Mae'n golygu nad oes gan y cleifion unrhyw fodd o'u gwaredu.
Ymdrin â phob mân salwch. Mwy o fferyllfeydd sy'n cynnig swabiau gwddf yn enwedig ar benwythnosau
Cyflogi gweithwyr cymorth iechyd meddwl
Oriau penwythnos ac ar agor yn hwyrach na 6pm
Danfon presgripsiynau.
Pigiadau atal cenhedlu fel depo provera
Mwy o apwyntiadau ar gael ar gyfer mân broblemau
Mwy o anhwylderau cyffredin efallai pwysedd gwaed, diabetes
Pob fferyllydd i allu rhagnodi, nid dim ond un ar ben y dyffryn neu yn y dyffryn arall, mae hynny'n digwydd ar hap a damwain ac nid yw'n gyfleus
Tîm niwro-ddatblygiadol yn gallu anfon presgripsiynau i fferyllfeydd yn hytrach nag ysbytai
Rydw i'n credu y dylai fferyllwyr hyrwyddo SPF yn rhagweithiol. Ar gyfer amddiffyn yr wyneb bob dydd ond yn enwedig yn yr wythnosau lle mae angen go iawn amdano!
Mae angen mwy o ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau fferyllol yn hwyrach gyda'r nos ac ar benwythnosau ar gyfer y cleifion hynny sydd mewn cyflogaeth llawn amser
Fferyllfa sy'n presgripsiynu yn lleol
Gwasanaeth/cyngor brechiadau gwyliau/teithio
Meddyginiaeth colli pwysau
Mwy o fân anhwylderau
Adolygiadau meddyginiaeth
Efallai mwy o gyflyrau o dan y cynllun anhwylderau cyffredin
Cynllun dosbarthu cartref
Hoffwn archebu apwyntiadau a meddyginiaethau ar-lein. Nid yw fy meddygfa yn gwneud hyn eto! Mae angen iddyn nhw symud gyda'r amseroedd.
Dylent fod ar agor ar ddydd Sadwrn os mai dim ond yn y bore fel o'r blaen
I fod yn onest, rydw i'n credu eu bod yn gwneud digon, felly mae'r amseroedd aros yn eu hôl.
Adolygiadau meddyginiaeth. Ces i drafferth cael apwyntiad meddyg teulu dim ond i adolygu fy mhresgripsiwn ar gyfer Citalopram. Byddwn wedi elwa o ymweld â'r fferyllfa ar gyfer hyn neu allu cysylltu â nhw mewn rhyw ffordd, i arbed trafferth i fy meddyg teulu ac i minnau.
Rhagnodi a dosbarthu meddyginiaeth pwysedd gwaed oherwydd gallant gymryd fy mhwysedd gwaed bob tro
Gwasanaethau brechu ychwanegol i ryddhau amser i feddygon teulu ddarparu gofal i'r rhai sydd angen gweld meddyg teulu. Gadewch i'r fferyllfeydd edrych ar ôl y rhai sydd eisiau aros yn iach!
Brechiadau teithio
Mae'n rhaid aros bob amser i gael sylw

Mae angen hyfforddi pob cynorthwyydd fferyllfa sut i roi gwasanaeth cwsmeriaid da hyd yn oed pan fyddant o dan bwysau.
Dim ond eisiau i rywun wneud y pethau sylfaenol yn dda
Monitro pwysedd gwaed,
Profion colesterol
Peidio â rhoi fy enw a'm cyfeiriad yn uchel o flaen pobl eraill sy'n aros
Mae holl wasanaethau [enw] yn anhygoel ond y gwasanaeth gorau yw gofalu
Mwy o bwyslais ar gefnogaeth gyda mân anafiadau (brathiadau, toriadau) a mwy o brofion ar gyfer pethau fel heintiau bacteriol a gwrthfiotigau ac ati.
MOT y gellir talu amdano. Archwilio arwyddion hanfodol, siwgr gwaed, pwysau, BMI, ac ati.
Adolygiadau Hrt
Gwasanaeth colli pwysau'r GIG
Agor ar y penwythnos a gyda'r nos i bobl sy'n gweithio'n llawn amser
Ehangu gwasanaethau presgripsiynu annibynnol e.e. ar gyfer heintiau ar y frest ac ati
Gwybodaeth am wasanaethau cymorth iechyd eraill fel ciropodi, ffisiotherapi, cymorth iechyd meddwl, gweithgarwch corfforol, deintydd gyda gwybodaeth ynghylch a ydynt yn rhad ac am ddim neu a oes rhaid talu amdanynt. A syniad o ba mor bell y byddai'n rhaid i ni deithio i gael mynediad atynt.
Rhoi mwy o amser iddynt weld cleifion
Rhagnodi
Agor ar fore Sadwrn fel yr oeddynt yn arfer ei wneud.

Monitro cydraddoldeb

Oedran: nodwch eich ystod oedran drwy dicio'r blwch priodol	**Nifer yr ymatebion**
0-15	0
16-24	3
25-34	27
35-44	40
45-54	59
55-64	73
65-74	60
75 a hŷn	21
Dewis peidio ag ateb	3

Rhyw: beth yw eich rhyw?	**Nifer yr ymatebion**
Benyw	244
Gwryw	37
Arall	0

Mae'n well ganddynt beidio â dweud	2
Dewis peidio ag ateb	3

Grŵp ethnig: beth yw eich grŵp ethnig?	**Nifer yr ymatebion**
Gwyn - Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig	276
Gwyn - Gwyddelig	0
Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	0
Gwyn - Unrhyw gefndir gwyn arall	3
Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd	0
Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribïaidd	1
Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd	0
Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig	0
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Tsieineaidd	0
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Pacistanaidd	0
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Bangladeshaidd	0
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd	0
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Unrhyw gefndir arall	0
Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Affricanaidd	0
Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Caribïaidd	0
Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Unrhyw gefndir arall	0
Arab	0
Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch isod)	0
Mae'n well ganddynt beidio â dweud	3

Dywedodd dau berson eu bod yn Gymry.

Cyfeiriadedd rhywiol: pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n meddwl amdanoch chi'ch hun?	**Nifer yr ymatebion**
Heterorywiol/ Strêt	253
Dyn hoyw	2

Cyfeiriadedd rhywiol: pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n meddwl amdanoch chi'ch hun?	Nifer yr ymatebion
Menyw hoyw/ Lesbiaid	2
Deurywiol	4
Mae'n well ganddynt beidio ag ateb	19
Arall	1

Dywedodd y person a ddewisodd "Arall" eu bod yn panrywiol.

Statws priodasol: ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil?	Nifer yr ymatebion
Ydw	183
Nag ydw	80
Mae'n well ganddynt beidio â dweud	20
Dewis peidio ag ateb	3

Crefydd neu gred: beth yw eich crefydd?	Nifer yr ymatebion
Cristnogaeth (pob enwad)	141
Bwdhaeth	1
Hindŵaeth	0
Islam	0
Siciaeth	0
Iddewiaeth	1
Anffyddiwr	6
Dim Crefydd	116
Arall	10
Dewis peidio ag ateb	11

Ymhelaethodd pedwar o bobl a ddewisodd "Arall" ar eu hateb.

- Bedyddwyr
- Jedi
- Mae'n well ganddynt beidio â dweud
- Pabyddiaeth

**Anabledd: Mae adran 6(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gan berson
anabledd os:**

c) mae gan y person hwnnw amhariad corfforol neu feddyliol, a
d) mae'r amhariad yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r person hwnnw i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd

Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Nifer yr ymatebion
Ydw	78
Nag ydw	188
Mae'n well ganddynt beidio ag ateb	16
Dewis peidio ag ateb	4

Hunaniaeth rhywedd: a yw eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a neilltuwyd ar enedigaeth?	Nifer yr ymatebion
Ydy	10
Nag ydy	262
Mae'n well ganddynt beidio ag ateb	12
Dewis peidio ag ateb	2

Cyfrifoldebau gofalu: Ydych chi'n gofalu am aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill neu'n rhoi cymorth neu gefnogaeth iddynt oherwydd naill ai: a) salwch neu anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor neu b) problemau sy'n ymwneud â henaint?	Nifer yr ymatebion
Ydw	129
Nag ydw	141
Mae'n well ganddynt beidio â dweud	13
Dewis peidio ag ateb	3

Atodiad I – holiadur contractwyr fferyllfa

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn paratoi ei asesiad anghenion fferyllol nesaf neu PNA y bwriedir ei gyhoeddi erbyn 1 Hydref 2026, ac mae angen eich help arnom i gasglu rhywfaint o wybodaeth i gefnogi ei ddatblygiad.

Wrth ddatblygu'r holiadur, rydym ond yn gofyn am wybodaeth sydd ei hangen ond nad yw'n cael ei chadw na'i chasglu yn rheolaidd. Fel y gwelwch, rydym wedi cadw'r holiadur mor fyr â phosibl.

Er ei fod ar gael tan 7 Ebrill 2026, byddem yn eich annog i lenwi'r holiadur nawr.

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â'r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu'r atebion sydd eu hangen, e-bostiwch CTM.PNAqueries@wales.nhs.uk gyda theitl pwnc 'Holiadur contractwr PNA BIPCTM'.

Manylion y safle

Cod y contractwr (cod ODS)	
Enw'r contractwr (h.y. enw'r unigolyn, y bartneriaeth neu'r cwmni sy'n berchen ar y fferyllfa)	
Enw masnachu	
Cyfeiriad y fferyllfa	
Cyfeiriad e-bost y fferyllfa	
Rhif ffôn y fferyllfa	
Rhif ffacs y fferyllfa (os yw'n berthnasol)	
Cyfeiriad gwefan y fferyllfa (os yw'n berthnasol)	
A gaiff y bwrdd iechyd storio'r wybodaeth uchod a'i defnyddio i gysylltu â chi?	☐ Caiff ☐ Na chaiff

Cyfleusterau ymgynghori

Ydy'r adeilad yn hygyrch mewn cadair olwyn? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

A oes ardal ymgynghori:

- ar gael (â mynediad i gadeiriau olwyn), neu ☐ Oes
- ar gael (heb fynediad i gadeiriau olwyn), neu ☐ Oes
- wedi'i gynllunio o fewn y 12 mis nesaf, neu ☐ Oes
- dim ardal ymgynghori ar gael, neu ☐

- arall (nodwch) Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.

(Dewiswch un opsiwn.)

Ble mae'r ardal ymgynghori:

- A yw'n ystafell gaeedig? ☐ Ydy☐ Nac ydy
- a yw'n ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd? ☐ Ydy☐ Nac ydy
- ydy'r claf a'r fferyllydd yn gallu siarad ar lefelau arferol heb i staff y fferyllfa nac ymwelwyr â'r fferyllfa eu clywed? ☐ Ydynt ☐ Nac ydynt
- A yw'n cael ei ddynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa? ☐ Ydy☐ Nac ydy

Os nad oes ardal ymgynghori, a oes trefniadau amgen ar gyfer trafodaethau cyfrinachol? ☐ Oes ☐ Nac oes

Oes gennych chi staff sy'n siarad Cymraeg? ☐ Oes

A oes unrhyw ieithoedd eraill yn cael eu siarad gan staff (yn ogystal â'r Saesneg)? ☐ Oes ☐ Nac oes

Os oes, dywedwch pa rai isod.

Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.

Gwasanaethau

Ydy'r fferyllfa'n dosbarthu offer?

- Ydy, pob math ☐ Ydy
- Ydy, heblaw am offer stoma ☐ Ydy
- Ydy, heblaw am offer anymataliaeth ☐ Ydy
- Ydy, heblaw am offer stoma ac anymataliaeth ☐ Ydy
- Ydy, dim ond rhwymau ☐ Ydy
- Arall Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.
- Dim ☐ Ydy

Gwasanaethau heb eu comisiynu

Ydy'r fferyllfa'n darparu unrhyw un o'r canlynol?

- Casglu presgripsiynau o bractis meddyg teulu ☐ Ydy
- Dosbarthu meddyginiaethau sydd wedi'u rhoi ar bresgripsiwn – am ddim ☐ Ydy ar gais
- Dosbarthu meddyginiaethau sydd wedi'u rhoi ar bresgripsiwn – cleifion penodol ☐ Ydy grwpiau (rhestrwch y meini prawf)
  Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.
- Dosbarthu meddyginiaethau sydd wedi'u rhoi ar bresgripsiwn – ardaloedd penodol ☐ Ydy (rhestrwch yr ardaloedd)
  Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.
- Dosbarthu meddyginiaethau sydd wedi'u rhoi ar bresgripsiwn – taladwy ☐ Ydy
- Pwynt casglu awtomataidd ar y safle ☐ Ydy

Yn eich barn chi, a oes galw am wasanaeth clinigol ychwanegol presennol nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn eich ardal chi? Os felly, beth yw'r gofyniad penodol a pham.

Yn eich barn chi, a oes galw am wasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd? Os felly, beth yw'r gofyniad penodol a pham.

Capasiti

Mae'r galw am wasanaethau fferyllol yn gyffredinol yn cynyddu. Gan feddwl am eich fferyllfa:

	Safle	**Lefelau staffio**
Mae gennym ddigon o gapasiti i reoli'r cynnydd yn y galw yn ein hardal.	☐ Cytuno	☐ Cytuno
Nid oes gennym ddigon o gapasiti ar hyn o bryd ond gallem wneud addasiadau i reoli'r cynnydd yn y galw yn ein hardal.	☐ Cytuno	☐ Cytuno

	Safle	Lefelau staffio
Nid oes gennym ddigon o gapasiti a byddai'n anodd i ni reoli cynnydd yn y galw.	☐ Cytuno	☐ Cytuno

Datblygu busnes

Oes gennych chi unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eich safle neu'r gwasanaeth rydych chi'n ei ddarparu?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os oes, allwch chi roi manylion?

Manylion y person sy'n llenwi'r ffurflen hon:

Enw cyswllt y person sy'n llenwi'r holiadur, rhag ofn y bydd angen i ni drafod eich ymateb gyda chi.

Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.

Cyfeiriad e-bost cyswllt

Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.

Atodiad J – Holiadur practis meddyg teulu sy’n dosbarthu

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn paratoi ei asesiad anghenion fferyllol nesaf y bwriedir ei gyhoeddi erbyn 1 Hydref 2026, ac mae angen eich help arnom i gasglu rhywfaint o wybodaeth i gefnogi ei ddatblygiad.

Wrth ddatblygu'r holiadur, rydym ond yn gofyn am wybodaeth sydd ei hangen ond nad yw'n cael ei chadw na'i chasglu yn rheolaidd. Fel y gwelwch, rydym wedi cadw'r holiadur mor fyr â phosibl.

Er ei fod ar gael tan 7 Ebrill 2026, byddem yn eich annog i lenwi'r holiadur nawr.

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â'r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu'r atebion sydd eu hangen, e-bostiwch CTM.PNAqueries@wales.nhs.uk gyda theitl pwnc 'Holiadur contractwr PNA BIPCTM'.

Rhowch enw'r practis rydych chi'n cwblhau'r holiadur ar ei ran:

Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.

Rhowch gyfeiriad neu gyfeiriadau'r safle y mae gan y practis safle ganiatâd i ddosbarthu ohono:

Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.

Cwblhewch y tabl isod o ran amseroedd y mae'r fferyllfa ar agor gan ddefnyddio'r cloc 24 awr.

	Cyfeiriad -	Cyfeiriad –	Cyfeiriad -
Dydd Llun			
Dydd Mawrth			
Dydd Mercher			
Dydd Iau			
Dydd Gwener			
Dydd Sadwrn			
Dydd Sul			

A oes offer yn cael eu dosbarthu o'r safle?

- Oes, pob math ☐ Cytuno
- Oes, heblaw am offer stoma ☐ Cytuno
- Oes, heblaw am offer anymataliaeth ☐ Cytuno
- Oes, heblaw am offer stoma ac anymataliaeth ☐ Cytuno
- Ydy, dim ond rhwymau ☐ Cytuno
- Arall Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.
- Dim ☐ Cytuno

Dosbarthu eitemau sydd wedi'u rhoi ar bresgripsiwn

Ydy'r fferyllfa'n darparu unrhyw un o'r canlynol?

- Dosbarthu meddyginiaethau sydd wedi'u rhoi ar bresgripsiwn – am ddim ☐ Ydy ar gais
- Dosbarthu meddyginiaethau sydd wedi'u rhoi ar bresgripsiwn – cleifion penodol ☐ Ydy grwpiau (rhestrwch y meini prawf)
  Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.
- Dosbarthu meddyginiaethau sydd wedi'u rhoi ar bresgripsiwn – ardaloedd penodol ☐ Ydy (rhestrwch yr ardaloedd)
  Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.
- Dosbarthu meddyginiaethau sydd wedi'u rhoi ar bresgripsiwn – taladwy ☐ Ydy

Oes gennych chi staff sy'n siarad Cymraeg? ☐ Oes

Pa ieithoedd, yn ogystal â Saesneg, sydd ar gael i gleifion gan staff ar y safle bob dydd – rhestrwch y prif ieithoedd a siaredir.

Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.

Capasiti

Mae'r galw am wasanaethau iechyd yn gyffredinol yn cynyddu. Gan feddwl am eich gwasanaeth dosbarthu yn unig:

	Safle	Lefelau staffio
Mae gennym ddigon o gapasiti i reoli'r cynnydd yn y galw yn ein hardal.	☐ Cytuno	☐ Cytuno
Nid oes gennym ddigon o gapasiti ar hyn o bryd ond gallem wneud addasiadau i reoli'r cynnydd yn y galw yn ein hardal.	☐ Cytuno	☐ Cytuno
Nid oes gennym ddigon o gapasiti a byddai'n anodd i ni reoli cynnydd yn y galw.	☐ Cytuno	☐ Cytuno

Gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â dosbarthu

Allwch chi roi manylion am unrhyw weithgareddau eraill rydych chi'n eu darparu o ran eich gwasanaeth dosbarthu, er enghraifft siartiau MARs, 'pecynnau rhag ofn' ac offer miniog ar gyfer cleifion.

Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.

Manylion y person sy'n llenwi'r ffurflen hon:

Enw cyswllt y person sy'n llenwi'r holiadur, rhag ofn y bydd angen i ni drafod eich ymateb gyda chi.

Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.

Cyfeiriad e-bost cyswllt

Cliciwch neu bwyswch yma i nodi testun.

Atodiad K – adroddiad ar yr ymgynghoriad

1 Cyflwyniad

Yn rhan o'r broses o lunio'r asesiad o anghenion fferyllol, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gynnal ymgynghoriad am 60 diwrnod o leiaf gyda sefydliadau penodol. Diben yr ymgynghoriad yw canfod a yw'r darparwyr fferyllol a'r gwasanaethau sy'n cefnogi poblogaeth ardal y Bwrdd Iechyd yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y ddogfen asesiad o anghenion fferyllol derfynol. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ystyriaethau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn disgrifio'r broses gyffredinol o gynnal yr ymgynghoriad.

2 Proses ymgynghori

I gwblhau'r broses hon, ymgynghorodd y bwrdd iechyd â'r bobl hynny a restrir yn rheoliad 7 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, i sefydlu a yw'r asesiad o anghenion fferyllol drafft yn mynd i'r afael â materion yr oeddent yn eu hystyried yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau fferyllol.

- Fferylliaeth Gymunedol Cymru
- Pwyllgor Meddygol Lleol Bro Taf
- Contractwyr sydd wedi'u cynnwys ar restr fferyllol y bwrdd iechyd
- Meddygon teulu sydd wedi'u cynnwys ar restr meddygon dosbarthu'r bwrdd iechyd
- Meddygfeydd
- Llais
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Anfonwyd e-bost at y sefydliadau uchod, yn eu gwahodd i gyflwyno eu barn ar yr asesiad o anghenion fferyllol. Roedd copi o'r asesiad o anghenion fferyllol drafft wedi'i gynnwys gyda'r e-bost, gyda'r crynodeb gweithredol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd dolenni gwe i'r asesiad o anghenion fferyllol a holiaduron hefyd wedi'u cynnwys yn yr e-bost.

Rhoddwyd cyfle i gyrff ymateb drwy gwblhau cyfres o gwestiynau a/neu drwy gyflwyno sylwadau ychwanegol. Roedd yr holiadur ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg ond ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion yn y Gymraeg.

Nod y cwestiynau oedd asesu'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol, gan roi sylw i unrhyw amgylchiadau penodol yn y dyfodol lle gallai'r sefyllfa bresennol

newid yn sylweddol, ynghyd â nodi unrhyw fylchau presennol a bylchau posibl yn y dyfodol o ran gwasanaethau fferyllol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad o 19 Mehefin i 18 Awst 2026.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ystyriaethau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cafwyd dau ymateb i'r holiadur ar-lein, a derbyniwyd un ymateb oddi ar y system gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru.

Dewisiadau ateb	**Canran yr ymatebion**	**Nifer yr ymatebion**
Ar ran fferyllfa/contractiwr presgripsiynau dyfeisiau/meddygfa fferyllol	33.3%	1
Ar ran sefydliad	66.7%	2

3 Crynodeb o gwestiynau ar-lein, ymatebion ac ystyriaethau'r bwrdd iechyd

Mae'r holl sylwadau a wnaed fel rhan o'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys air am air.

Wrth ofyn **“Ydy diben yr asesiad o anghenion fferyllol wedi’i esbonio?”,** mae’r bwrdd iechyd yn falch o nodi bod y ddau ymatebydd wedi dweud “Ydy”.

Ehangodd un ymatebydd ar ei ymateb gan ddweud:

“Mae’r Asesiad o Anghenion Fferyllol drafft yn egluro ei bwrpas yn glir, gan gynnwys asesu’r ddarpariaeth fferyllol bresennol, nodi’r angen yn y dyfodol a llywio penderfyniadau ynghylch gwasanaethau fferyllol ar draws ardal y bwrdd iechyd.”

Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylwadau canlynol.

“Mae'r Asesiad o Anghenion Fferyllol drafft yn rhoi esboniad defnyddiol o'r berthynas rhwng yr AAFf, anghenion iechyd y boblogaeth a darparu gwasanaethau fferyllol. Fodd bynnag, byddai'n elwa o gydnabyddiaeth fwy penodol o swyddogaeth statudol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol o fewn fframwaith mynediad i'r farchnad. Yn benodol, mae'r AAFf yn rhan o'r sail dystiolaethol y mae ceisiadau i ymuno â rhestr fferyllol neu restr meddygon dosbarthu, ynghyd â rhai ceisiadau adleoli, yn cael eu hasesu yn ei herbyn o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Mae cydnabyddiaeth glir o'r rôl statudol hon yn bwysig, gan y bydd y casgliadau a gyrhaeddir o fewn yr AAFf yn cael effaith uniongyrchol ar benderfyniadau mynediad i'r farchnad yn y dyfodol. Felly mae'n hanfodol bod y sail dystiolaeth, y fethodoleg asesu a'r casgliadau sy'n deillio o hynny yn ddigon clir, cynhwysfawr a chadarn i wrthsefyll craffu ac i gefnogi gwneud penderfyniadau cadarn.

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd yn falch o nodi bod yr ymatebwyr yn fodlon bod diben y ddogfen wedi'i egluro. Mae Adran 1.1 wedi'i diwygio mewn ymateb i'r sylw gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru ynghylch rôl yr asesiad o anghenion fferyllol wrth benderfynu ar geisiadau i'w cynnwys yn y rhestr fferyllol.

Gofynnod y cwestiwn nesaf, **“Ydy’r asesiad o anghenion fferyllol yn adlewyrchu'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol yn eich ardal?”** Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un ymatebydd wedi dweud “Ydy”, ac un wedi dweud “Nac ydy”.

Esboniodd yr ymatebydd a ddywedodd “Nac ydy” pam ei fod wedi ateb felly.

“Er bod y drafft yn rhoi trosolwg defnyddiol o wasanaethau fferyllol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o’r farn nad yw’n adlewyrchu’n llawn y profiadau a’r heriau a nodwyd gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion. Dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i fynediad teg ar draws cymunedau, galw cynyddol am gymorth meddyginiaeth cymunedol, capasiti gweithlu fferyllfeydd, cyflenwi meddyginiaethau, allgáu digidol, anghenion grwpiau agored i niwed, darparu gwasanaethau gwledig, trefniadau presgripsiynu iechyd meddwl, gwasanaethau anabledd dysgu a galw demograffig yn y dyfodol. Dylid adlewyrchu'r materion hyn yn gliriach yn yr asesiad terfynol i gefnogi cynllunio gwasanaethau effeithiol.

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r sylw hwn, ond yn absenoldeb esboniad o'r profiadau a'r heriau a nodwyd gan y tîm gofal cymdeithasol i oedolion, nid yw'n glir pa newidiadau y dylid eu gwneud i'r asesiad o anghenion fferyllol.

Mae'r bwrdd iechyd yn comisiynu dau wasanaeth penodol gan fferyllfeydd sy'n darparu cefnogaeth i'r rhai a allai gael problemau wrth gymryd eu meddyginiaethau. Yn ogystal, mae dyletswydd gyfreithiol ar bob contractwr i wneud addasiadau rhesymol i'r gwasanaethau y mae’n eu darparu.

Mae contractwyr yn gyfrifol am eu lefelau staffio, ac amrediad y staff sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau fferyllol. Yn gyffredinol, bydd contractwyr yn hyblyg o ran mathau a lefelau staffio fel y gwelant yn dda ac ni all y bwrdd iechyd ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny.

Mae dosbarthu meddyginiaeth yn wasanaeth preifat y mae rhai contractwyr yn dewis ei ddarparu, naill ai am ddim neu am ffi. Gan ei fod yn benderfyniad masnachol a wneir gan gontractwyr, nid yw'r bwrdd iechyd yn gallu gorfodi ei ddarpariaeth.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y ddarpariaeth o wasanaethau i'r rhai mewn ardaloedd gwledig lle mae darpariaeth gwasanaethau fferyllol gan fferyllwyr ar gontract yn cael ei hategu gan ddarpariaeth gwasanaeth dosbarthu gan dri o'r practisau meddygon teulu. Mae'r rheolau ynghylch i bwy y gall eu meddygfa

ddosbarthu meddyginiaethau wedi'u gosod mewn deddfwriaeth ac nid yw o fewn gallu'r bwrdd iechyd i newid y rheini.

Mae presgripsiynu meddyginiaeth y tu allan i gwmpas yr asesiad o anghenion fferyllol sy'n canolbwyntio ar roi presgripsiynau a gwasanaethau cysylltiedig.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y newidiadau demograffig a ragwelir ac wedi nodi'r angen yn y dyfodol am ddarparu gwasanaethau fferyllol mewn un lleoliad penodol. Mae hefyd wedi ceisio sicrhau bod y lefel bresennol o fynediad yn cael ei chynnal o leiaf pe bai fferyllfa'n cau.
Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon nad oes angen unrhyw newidiadau i'r asesiad o anghenion fferyllol mewn perthynas â'r sylw hwn.

Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylwadau canlynol.

“Mae'r AAFf drafft yn adlewyrchiad cywir ar y cyfan o'r ddarpariaeth fferyllfeydd cymunedol bresennol ar draws ardal BIPCTM. Mae'n tynnu ar ystod briodol o dystiolaeth, gan gynnwys data cytundebol, data gweithgarwch dosbarthu a gwasanaeth, gwybodaeth y Bwrdd Iechyd lleol a ffurflenni holiadur hunan-ddatganedig fferyllwyr ar gontract. Gyda'i gilydd, mae'r ffynonellau hyn yn darparu asesiad lefel uchel rhesymol o'r ddarpariaeth bresennol ar draws rhwydwaith fferyllfeydd cymunedol.

Mae'r holiadur fferyllwyr ar gontract yn rhoi cipolwg defnyddiol ar y ddarpariaeth gwasanaeth a'r amodau gweithredu cyfredol o fewn rhannau o'r rhwydwaith. Fodd bynnag, dylid ystyried y capasiti a adroddir fel asesiad ar adeg benodol yn hytrach nag arwydd pendant o wydnwch yn y dyfodol. Mae parhau i ddarparu gwasanaethau fferyllol yn parhau i fod yn gysylltiedig yn annatod â lefel y cyllid sydd ar gael drwy fframwaith cytundebol fferyllfeydd cymunedol, sydd â dylanwad uniongyrchol ar gapasiti contractwyr, cynaliadwyedd y gweithlu a'r gallu i gynnal darpariaeth gwasanaethau. Yn absenoldeb buddsoddiad ychwanegol sylweddol, mae risg sylweddol na fydd lefel y ddarpariaeth a ddisgrifir yn yr AAFf yn gynaliadwy dros oes yr asesiad.

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr ymatebion gan gontractwyr ynghylch eu gallu i reoli cynnydd yn y galw am wasanaethau fferyllol ar bwynt penodol mewn amser a gallant newid yn ystod oes y ddogfen. Mae hefyd wedi nodi pryderon Fferylliaeth Gymunedol Cymru ynghylch y risg i ddarpariaeth gwasanaethau wrth i'r pwysau ar gontractwyr gynyddu oherwydd lefel y cyllid sydd ar gael drwy'r fframwaith cytundebol.

Pan ofynnwyd “**Oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau, h.y. pryd, ble a pha wasanaethau sydd ar gael nad ydynt wedi’u nodi yn yr asesiad o anghenion fferyllol?”** dywedodd un ymatebydd “Oes”, a dywedodd un “Nac oes”.

Esboniodd yr ymatebydd a ddywedodd “Oes” pam ei fod wedi ateb felly.

“Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystyried bod sawl bwlch pwysig sydd angen mwy o gydnabyddiaeth yn yr Asesiad o Anghenion Fferyllol terfynol. Mae'r rhain yn cynnwys galw cynyddol am gymorth meddyginiaeth cymunedol, capasiti gweithlu fferyllfeydd, gwasanaethau rhoi meddyginiaethau, allgáu digidol, mynediad cyfartal ar draws gwahanol leoliadau, anghenion grwpiau agored i niwed (gan gynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu, pobl sy'n profi digartrefedd a'r rhai â salwch meddwl), trefniadau dosbarthu gwledig, parhad presgripsiynu iechyd meddwl rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd, a'r galw disgwyliedig yn y dyfodol yn deillio o newid demograffig. Byddai mwy o gydnabyddiaeth o’r materion hyn yn cefnogi cynllunio gwasanaethau fferyllol yn y dyfodol ar draws ardal Cwm Taf Morgannwg yn well.”

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i'r pwyntiau hyn uchod.

Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylwadau canlynol.

“Mae BIPCTM wedi nodi, at ddibenion yr AAFf, lawer o’r wybodaeth berthnasol sy’n ymwneud â phryd mae gwasanaethau fferyllol ar gael, ble cânt eu darparu, a pha wasanaethau a gynigir gan fferyllfeydd cymunedol, contractwyr offer a meddygon fferyllol. Ymddengys bod yr asesiad hwn wedi'i lywio gan ddata a dynnwyd o amrywiaeth o ffynonellau sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag oriau agor, lleoliadau adeiladau a darpariaeth gwasanaethau. Fodd bynnag, nid yw Fferylliaeth Gymunedol Cymru mewn sefyllfa annibynnol i wirio cyflawnrwydd neu gywirdeb y wybodaeth honno ac, yn unol â hynny, ni all gadarnhau a oes unrhyw fylchau ychwanegol yn y ddarpariaeth gwasanaeth y tu hwnt i'r rhai a nodwyd yn yr AAFf drafft.

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd yn falch o nodi nad yw Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth.

Pan ofynnwyd “**Ydy’r asesiad o anghenion fferyllol yn adlewyrchu anghenion poblogaeth eich ardal?**” dywedodd un ymatebydd “Ydy”, a dywedodd dau “Nac ydy”.

Esboniodd yr ymatebwyr a ddywedodd “Nac ydy” pam ei fod wedi ateb felly.

“Er bod y drafft yn rhoi trosolwg defnyddiol o wasanaethau fferyllol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o’r farn nad yw’n adlewyrchu’n llawn yr anghenion presennol a’r anghenion yn y dyfodol a nodwyd drwy Ofal Cymdeithasol i Oedolion. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar anghydraddoldebau o ran mynediad at wasanaethau fferyllol, y galw cynyddol am gymorth meddyginiaeth yn y gymuned, rhwystrau a grëwyd gan lai o wasanaethau dosbarthu meddyginiaeth, allgáu digidol, pwysau ar y gweithlu, mynediad i ardaloedd gwledig, ac anghenion poblogaethau agored i niwed. Dylai'r asesiad hefyd roi mwy o ystyriaeth i atal, cefnogi annibyniaeth

a'r cynnydd disgwyliedig yn y galw sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio a chymhlethdod cynyddol yr angen.

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i'r pwyntiau hyn uchod.

Ymatebodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru fel a ganlyn.

“Mae BIPCTM wedi nodi gofyniad yn y dyfodol ar gyfer darparu Gwasanaethau Hanfodol a Gwasanaethau Ychwanegol yn y datblygiad sydd wedi'i leoli ar dir yn hen safle glo brig Llanilid. Dywedir bod y gofyniad hwn yn berthnasol o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar foreau Sadwrn.

Mae BIPCTM hefyd wedi gwneud datganiadau ynghylch y posibilrwydd o golli Gwasanaethau Hanfodol yn y dyfodol oherwydd cau fferyllfeydd mewn trefi neu bentrefi lle mae dim ond un fferyllfa ar hyn o bryd.

Yn ogystal, mae BIPCTM wedi cyfeirio at ddarparu gwasanaethau Fferyllydd-bresgripsiynydd Annibynnol yn y dyfodol, Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol a Gwasanaeth Cofnod Rhoi Meddyginiaethau.

a) ADRAN 16.4.1 a 16.4.2 – ANGEN YN Y DYFODOL AM FFERYLLFA I DDARPARU GWASANAETHAU HANFODOL A GWASANAETHAU CLINIGOL YCHWANEGOL PENODOL YN LLANILID

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru o'r farn nad yw'r AAFf drafft ar hyn o bryd yn darparu sail dystiolaethol ddigon cadarn ar gyfer nodi angen yn y dyfodol am fferyllfa yn Llanilid.

i) Mae casgliad y Bwrdd Iechyd yn ddibynnol ar gwblhau 80% o'r anheddau arfaethedig. Fodd bynnag, nid yw'r AAFf drafft yn darparu tystiolaeth glir bod y trothwy hwn yn debygol o gael ei gyrraedd o fewn oes yr AAFf. Mae'r AAFf drafft hefyd yn cyfeirio at ffigur poblogaeth o 5,000, sy'n ymddangos ei fod yn deillio o feddiannaeth aelwydydd gyfartalog dybiedig o 2.5 o breswylwyr. Er y gallai'r cyfrifiad hwnnw fod yn gyson yn rhifyddol â'r trothwy o 80% o anheddau, dylai'r AAFf ddatgan y berthynas hon yn glir a dangos tystiolaeth o ba un a yw'r sbardun perthnasol yn debygol o gael ei gyrraedd erbyn 30 Medi 2031. Gan mai dim ond anghenion sy'n codi o fewn oes yr AAFf y dylid eu cynnwys, mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru o'r farn bod angen gwybodaeth fwy diweddar a dibynadwy am amserlen y datblygu cyn y gellir nodi hyn yn briodol fel angen posibl yn y dyfodol.

ii) Ymddengys nad yw'r AAFf drafft yn cynnwys map sy'n dangos y datblygiad mewn perthynas â'r ddarpariaeth fferyllfa bresennol ychwaith. Ar y wybodaeth sydd ar gael, mae'n ymddangos bod Llanilid o fewn tua 10 munud o daith mewn car o fferyllfeydd yn Llanharan, Llanhari a Phencoed, gyda fferyllfeydd ychwanegol ar gael o fewn 20 munud o daith mewn car.

Cyn nodi'r angen am ddarpariaeth newydd, dylai'r AAFf nodi sail dystiolaethol glir dros ddod i'r casgliad y byddai'r mynediad presennol yn annigonol, yn enwedig lle mae amseroedd teithio ymddangosiadol yn dod o fewn y meini prawf derbyniol.

iii) Ni ddylid trin cynnydd yn nifer y presgripsiynau, ynddo'i hun, fel tystiolaeth o angen am fferyllfa newydd. Dylai unrhyw asesiad ystyried a allai fferyllfeydd presennol ymdopi â galw ychwanegol pan gyrhaeddir y trothwy perthnasol, gan ystyried twf y boblogaeth, patrymau presgripsiynu a chapasiti contractwyr ar y pryd. Heb dystiolaeth gliriach ar amserlenni cyflawni a'r galw tebygol o fewn cyfnod yr AAFf, byddai casgliad o'r fath yn gynamserol.

iv) Er bod yr AAFf drafft yn cyfeirio at gynlluniau ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn y datblygiad, ni ddarperir amserlen weithredu. Yn absenoldeb tystiolaeth bod safle o'r fath yn debygol o ddod yn weithredol yn ystod cyfnod yr AAFf, dylid rhoi pwysau cyfyngedig ar y ffactor hwn wrth asesu'r angen fferyllol yn y dyfodol.

Yn unol â hynny, nid yw Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn ystyried bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr AAFf drafft yn ddigonol i gyfiawnhau nodi angen yn y dyfodol am fferyllfa yn Llanilid. Ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, byddai'n rhy gynnar i ddod i'r casgliad bod angen o'r fath yn debygol o godi o fewn oes yr AAFf.

Felly, mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn ystyried y dylid, ar y mwyaf, nodi Llanilid fel ardal ar gyfer monitro parhaus oni bai a hyd nes y bydd tystiolaeth gadarn y bydd y sbardun datblygu perthnasol yn cael ei gyrraedd, ac na fydd y ddarpariaeth fferyllol bresennol yn gallu bodloni'r galw, o fewn y cyfnod a gwmpesir gan yr AAFf.

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried yn ofalus y pwyntiau a godwyd gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru. Mae'n parhau i fod o'r farn ei bod yn briodol nodi'r angen hwn yn y dyfodol am y rhesymau canlynol.

- Mae hwn yn brosiect adfywio sylweddol a fydd yn arwain at bobl yn symud i ddatblygiad cwbl newydd.
- Mae'r nifer a ragwelir o eitemau a fydd yn cael eu presgripsiynu yn cynrychioli cynnydd sylweddol yn y galw am y fferyllfeydd agosaf fel y'i dogfennir ym mhennod 15.
- Nid oes gan un o'r fferyllfeydd agosaf fynediad i gadeiriau olwyn, a dywedodd un nad oes ganddi'r capasiti o fewn ei hadeiladau i ymdopi â chynnydd yn y galw.
- Mae'r angen yn y dyfodol yn cael ei sbarduno gan gwblhau 80% o'r nifer rhagweledig o anheddau. Os na fydd hynny'n digwydd yn ystod oes yr asesiad o anghenion fferyllol (ac mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod y gall y

gyfradd y mae tai'n cael eu cwblhau amrywio yn ystod y cyfnod pum mlynedd) yna ni fydd yr angen yn y dyfodol yn codi.
- Byddai unrhyw geisiadau sy'n cynnig diwallu'r angen a nodwyd yn y dyfodol yn cael eu penderfynu yn unol â'r rheoliadau a chyfarwyddir y bwrdd iechyd i roi ystyriaeth benodol i'r asesiad o anghenion fferyllol wrth ddod i benderfyniad.

Mae'r Bwrdd Iechyd felly wedi penderfynu nad oes angen unrhyw ddiwygiad i'r asesiad o anghenion fferyllol.

"**b) Adran 16.4.1 – Angen posibl yn y dyfodol sy'n deillio o'r posibilrwydd o golli gwasanaethau hanfodol yn sgil cau fferyllfeydd mewn trefi neu bentrefi"**

Mae'r AAFf yn cynnwys y datganiad canlynol o angen yn y dyfodol:

> *Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi, pe bai **gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli o ganlyniad i fferyllfa'n cael ei thynnu oddi ar y rhestr fferyllol**, y byddai angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yn yr un dref neu bentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol am 40 awr agor craidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu fwy o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw.*

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn gwrthwynebu cynnwys y datganiad hwn am y rhesymau a nodir isod.

Rhaid i'r angen yn y dyfodol fod yn real, yn ddangosadwy ac o fewn oes yr AAFf

Mae'r canllawiau anstatudol sy'n cyd-fynd â Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn nodi:

Dim ond anghenion sydd angen eu diwallu ar unwaith neu a <u>fydd</u> yn codi o fewn oes yr AAFf sydd i'w cynnwys yn y AAFf.

Mae datganiad y Bwrdd Iechyd yn ddibynnol ar ddigwyddiadau a allai byth ddigwydd. Nid yw'n nodi angen sy'n bodoli ar hyn o bryd, nac angen y gellir dod i'r casgliad yn rhesymol y bydd yn codi yn ystod cyfnod yr AAFf. Yn hytrach, mae'n rhagweld canlyniadau posibl newidiadau yn y farchnad yn y dyfodol ac felly mae'n ddamcaniaethol ei natur.

Pwrpas yr AAFf yw asesu'r angen fferyllol presennol a'r angen y gellir ei ddangos yn y dyfodol. Nid yw i gadw safbwynt cyffredinol mewn perthynas â thynnu'n ôl gan ddarparwyr damcaniaethol. Nid yw'r datganiad yn glir chwaith ynghylch sut, a chan bwy, y byddai gallu'r fferyllfeydd sy'n weddill i amsugno'r galw cynyddol yn cael ei asesu. Am y rhesymau hyn, mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru o'r farn y dylid dileu'r datganiad.

Mae'r fframwaith rheoleiddio eisoes yn darparu mecanwaith ar gyfer newid yn y dyfodol

Mae Rheoliad 6 a'r canllawiau anstatudol cysylltiedig yn cydnabod y gall newidiadau i angen neu argaeledd gwasanaethau godi yn ystod cylch pum mlynedd yr AAFf ac yn nodi sut y dylai Byrddau Iechyd ymateb. Mae'r canllaw yn datgan:

"Os bydd newidiadau naill ai i'r anghenion am wasanaethau fferyllol neu i argaeledd gwasanaethau fferyllol o fewn y cylch pum mlynedd, a bod y newidiadau hynny'n berthnasol i geisiadau mynediad i'r farchnad, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd Lleol ystyried a ddylid mynd trwy'r broses o adolygu ei AAFf ai peidio..."

Pe bai fferyllfa yn tynnu'n ôl, byddai'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ystyried a oedd y newid yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau AAFf diwygiedig neu, lle bo'n briodol, datganiad atodol. Felly, nid yw'n angenrheidiol nac yn briodol cynnwys asesiadau sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth o sefyllfaoedd o'r fath yn yr AAFf presennol.

Heb ragfarnu safbwynt sylfaenol Fferylliaeth Gymunedol Cymru y dylid dileu'r datganiad, rhaid i unrhyw ddatganiad o angen yn y dyfodol a gedwir gael ei gefnogi gan asesiad cadarn, penodol i leoliad, o hygyrchedd ac anghenion cleifion.

Asesiad o fylchau

Ymddengys bod y Bwrdd Iechyd yn tybio y byddai cau fferyllfa bresennol yn creu angen yn awtomatig am ddarpariaeth newydd yn yr un dref neu bentref. Nid yw'r dybiaeth honno'n gyfiawn. Byddai angen i unrhyw asesiad yn y dyfodol gymhwyso'r meini prawf rheoleiddiol perthnasol i'r amgylchiadau sy'n bodoli ar y pryd.

Nid yw bodolaeth fferyllfa neu feddygfa fferyllol ar hyn o bryd yn dangos, ynddo'i hun, y byddai angen darpariaeth yn ei lle yn y dyfodol. Y cwestiwn perthnasol fyddai a oedd y tynnu'n ôl wedi creu angen heb ei ddiwallu am wasanaethau fferyllol, gan ystyried mynediad cleifion, amseroedd teithio, darparwyr amgen, defnydd o wasanaethau, anghenion y boblogaeth a'r rhwydwaith fferyllol ehangach.

Yn unol â hynny, mae'r geiriad presennol mewn perygl o ragfarnu canlyniad asesiad yn y dyfodol. Yn hytrach, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal asesiad newydd, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar adeg unrhyw dynnu'n ôl cyn penderfynu a oes angen yn bodoli a sut y dylid mynd i'r afael ag ef.

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y pwyntiau a godwyd yn ofalus, ac yn nodi pryderon Fferylliaeth Gymunedol Cymru ynghylch hyfywedd fferyllfeydd a grybwyllwyd mewn ymateb i gwestiwn cynharach.

Mae'r bwrdd iechyd yn ymwybodol o ddarpariaethau rheoliad 6 a'i ddyletswyddau unwaith y bydd yr asesiad o anghenion fferyllol wedi'i gyhoeddi. Mae wedi nodi y

byddai'n ofynnol iddo gynhyrchu asesiad o anghenion fferyllol newydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl nodi newidiadau, sydd o raddfa sylweddol, ers cyhoeddi ei asesiad o anghenion fferyllol sy'n berthnasol i ganiatáu ceisiadau y cyfeirir atynt yn adran 83 o Ddeddf 2006, oni bai ei fod yn fodlon y byddai gwneud asesiad diwygiedig yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny.

Felly, gallai ddewis peidio â diogelu ei asesiad o anghenion fferyllol ar gyfer y dyfodol yn y ffordd hon. Fodd bynnag, mae'n ymwybodol, os bydd un neu fwy o fferyllfeydd yn cau, na all ddiweddaru'r bennod neu'r penodau lleol perthnasol a chyhoeddi asesiad newydd o anghenion fferyllol. Byddai'n ofynnol ymgynghori â rhanddeiliaid, ailysgrifennu'r ddogfen gan y byddai data mwy cyfoes am anghenion demograffig ac iechyd, cynnal ymgynghoriad 60 diwrnod, adolygu ymatebion i'r ymgynghoriad, cwblhau, cymeradwyo ac yna cyhoeddi'r ddogfen newydd. Byddai hyn yn cymryd cryn dipyn o amser, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gallai fod yn anodd i drigolion gael mynediad at wasanaethau fferyllol.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon dim ond pe bai un o'r amgylchiadau canlynol yn codi y byddai'r angen yn y dyfodol, fel y'i geirfawyd:

- Nad oedd unrhyw fferyllfa arall yn y pentref neu'r dref, neu
- Na allai'r fferyllfa neu'r fferyllfeydd sy'n weddill ateb y cynnydd yn y galw.

Felly, byddai angen i'r bwrdd iechyd gynnal asesiad ynghylch a allai'r fferyllfeydd sy'n weddill ymdopi ai peidio, ac yn hyn o beth byddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r contractwyr hynny wneud sylwadau ar y cais pan gaiff ei hysbysu iddynt. Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod y byddai angen iddo roi proses gadarn ar waith er mwyn asesu a allai'r fferyllfa neu'r fferyllfeydd sy'n weddill ymdopi.

Felly mae'r bwrdd iechyd yn fodlon nad oes angen unrhyw ddiwygiad i'r angen hwn yn y dyfodol.

"c) ADRAN 16.4.2 - ANGEN YN Y DYFODOL O RAN DARPARU'R GWASANAETH PRESGRIPSIYNU ANNIBYNNOL GAN FFERYLLWYR (PIPS) A GWASANAETH FFERYLLIAETH GYMUNEDOL GLINIGOL (CCPS)"

Fel rhan o'i asesiad o angen yn y dyfodol, mae BIPCTM wedi gwneud y datganiad canlynol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi mabwysiadu'r dyhead a nodir yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru lachach lle bydd gan bob fferyllfa bresgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 a thargedau interim o 50% o fferyllfeydd i fod yn darparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn Ebrill 2029.

Os na fydd y targedau dros dro yn cael eu cyrraedd mewn ardal, bydd angen yn y dyfodol i ddigon o fferyllfeydd yn yr ardal honno ddarparu'r gwasanaeth hwn i gyrraedd y ddau darged.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai colli gwasanaethau hanfodol oherwydd tynnu fferyllfa oddi ar y rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref yn y dyfodol i ddarparu'r gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol a'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol i fferyllwyr (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu fwy o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw.

Mae BIPCTM yn nodi'r angen yn y dyfodol am PIPS mewn lleoliadau lle nad yw'r targedau dros dro a nodir yn Fferylliaeth: *Cyflwyno Cymru Iachach* yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen honno yn bolisi a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ganllaw statudol nac yn ddatganiad ffurfiol o bolisi'r Llywodraeth. Mae'n weledigaeth heb ei chostio, wedi'i harwain gan y proffesiwn, a ddatblygwyd gan Bwyllgor Fferyllol Cymru i gefnogi datblygiad hirdymor gwasanaethau fferylliaeth gymunedol. Er ei fod yn cyd-fynd ag uchelgeisiau ehangach *Cymru Iachach* ac yn cael cefnogaeth Llywodraeth Cymru, amcanion datblygu gwasanaethau uchelgeisiol yw ei dargedau, nid asesiadau o angen fferyllol. Felly, nid yw methu â chyflawni'r targedau hynny yn dangos angen fferyllol heb ei ddiwallu ac ni all, heb dystiolaeth bellach, gyfiawnhau nodi angen yn y dyfodol o fewn yr AAFf.

Ni all yr AAFf sefydlu angen heb ei ddiwallu dim ond oherwydd nad yw cyfran benodol o fferyllfeydd yn darparu PIPS erbyn dyddiad penodol. Rhaid i unrhyw asesiad o angen yn y dyfodol fod yn seiliedig ar y meini prawf statudol perthnasol, gan gynnwys gofynion rhesymol y boblogaeth, hygyrchedd gwasanaethau, defnydd gwasanaethau ac argaeledd darparwyr amgen. Ar gyfer gwasanaethau presgripsiynu, efallai y bydd cleifion hefyd yn gallu cael mynediad at ofal cyfatebol drwy feddygfeydd teulu a gwasanaethau eraill y GIG.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd yn datgan, lle mae gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli yn dilyn tynnu fferyllfa oddi ar y rhestr fferyllol:

bydd angen fferyllfa newydd yn y dyfodol yn yr un dref/pentref - ***gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol (CCPS) a'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol i fferyllwyr (PIPS)*** *(neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos.*

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn cefnogi datblygu gwasanaethau drwy gomisiynu priodol, nid drwy bwysau i ddod i mewn i'r farchnad. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gydnabod bod yr AAFf yn ddogfen mynediad i'r farchnad statudol. Rhaid iddo ddarparu asesiad gwrthrychol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o angen fferyllol ac ni ddylid ei ddefnyddio i roi pwysau ar gontractwyr presennol i ddarparu gwasanaethau penodol. Ni ddylai awgrymu ychwaith y bydd peidio â darparu gwasanaeth gan fferyllfeydd presennol yn creu bwlch mynediad i'r farchnad nac yn cyfiawnhau fferyllfa ychwanegol. Byddai dull o'r fath yn anghyson â diben yr AAFf.

Rhaid i unrhyw asesiad o'r angen yn y dyfodol am PIPS a CCPS fod yn seiliedig ar y meini prawf statudol perthnasol, gan gynnwys gofynion rhesymol y boblogaeth, hygyrchedd gwasanaethau, defnydd gwasanaethau ac argaeledd darparwyr amgen. Ni ddylai'r AAFf awgrymu bod angen nas diwallwyd yn bodoli ar sail methiant i

gyflawni targedau gwasanaeth dyheadol yn unig, yn enwedig lle y gall cleifion gael mynediad at ofal cyfwerth drwy feddygfeydd teulu neu wasanaethau eraill y GIG.

Gor-ddarpariaeth o Wasanaethau Hanfodol

Rhaid i BIPCTM fod yn arbennig o ymwybodol o'r risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig ag adnabod anghenion honedig nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau fferyllol hanfodol, yn enwedig lle mae'r pwrpas amlwg yw hwyluso darpariaeth gwasanaethau clinigol ychwanegol. Mae creu bwlch mynediad i'r farchnad ar y sail honno yn peryglu gorddarpariaeth ddiangen o wasanaethau hanfodol a sefydlu fferyllfeydd ychwanegol lle nad oes digon o alw i'w cynnal yn gynaliadwy.

Mae hwn yn risg sylweddol. Yn yr amgylchedd ariannu presennol, mae llawer o fferyllfeydd cymunedol eisoes yn gweithredu o dan bwysau ariannol sylweddol. Gall creu contractau ychwanegol heb angen profadwy am wasanaethau hanfodol rannu gweithgaredd presennol rhwng darparwyr lluosog, gan adael fferyllfeydd presennol a rhai newydd yn anhyfyw yn ariannol. Byddai'r canlyniad hwnnw'n cynyddu'r risg o fethiant contractwyr a chau gwasanaethau, a fyddai o bosibl yn lleihau mynediad a gwydnwch yn groes i amcanion yr AAFf. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd fod yn ofalus iawn cyn nodi anghenion fferyllol sy'n canolbwyntio ar ehangu gwasanaethau yn hytrach nag angen heb ei ddiwallu y gellir ei ddangos.”

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi ailystyried yr angen hwn yn y dyfodol mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru.

Er nodi bod Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach wedi'i gynhyrchu gan y proffesiwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith Perfformiad GIG Cymru 2026-27 a'r mesur perfformiad cyntaf ym mhrif nod pedwarplyg 2 yw canran y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol i fferyllwyr. Felly mae'r bwrdd iechyd yn dymuno gweithio gyda chontractwyr er mwyn cynyddu nifer y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn. Gan nodi pryderon Fferylliaeth Gymunedol Cymru, mae'r bwrdd iechyd wedi diwygio'r angen hwn yn y dyfodol fel a ganlyn.

“Mae'r bwrdd iechyd wedi mabwysiadu'r dyhead a nodir yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach lle bydd gan bob fferyllfa bresgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 a thargedau interim o 50% o fferyllfeydd i fod yn darparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn Ebrill 2029.

Bydd yn gweithio gyda chontractwyr er mwyn cynyddu nifer y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai colli gwasanaethau hanfodol oherwydd tynnu fferyllfa oddi ar y rhestr fferyllol, y bydd angen fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref yn y dyfodol i ddarparu'r gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol a'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol i fferyllwyr (neu unrhyw wasanaethau cyfatebol yn y dyfodol) am 40 awr agor graidd yr wythnos. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn

codi os oes un neu fwy o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw."

"d) ADRAN 16.4.2 - ANGEN YN Y DYFODOL O RAN DARPARIAETH Y GWASANAETH COFNOD RHOI MEDDYGINIAETHAU (MAR)

Fel rhan o'i asesiad o angen yn y dyfodol, mae BIPCTM wedi gwneud y datganiad canlynol.

*Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai fferyllfa'n rhoi'r gorau i ddarparu'r **gwasanaeth cofnodion rhoi meddyginiaethau**, y bydd angen darparu'r gwasanaeth yn y dref/pentref hwnnw yn y dyfodol. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os oes un neu fwy o fferyllfeydd yn y dref/pentref sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw.*

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio'n adeiladol gyda chontractwyr a'r Bwrdd Iechyd i gefnogi datblygu gwasanaethau trwy gomisiynu priodol. Fodd bynnag, mae'r Asesiad o Anghenion Fferyllol yn ddogfen statudol ar gyfer dangos tystiolaeth o benderfyniadau mynediad i'r farchnad. Nid yw'n offeryn rheoli perfformiad ac ni ddylid ei ddefnyddio i roi pwysau ar gontractwyr i ddarparu gwasanaethau penodol. Mae defnyddio'r AAFf at y diben hwnnw yn amhriodol ac yn anghyson â'i swyddogaeth statudol.

Mae AAFf yn arbennig o bryderus ynghylch cynnwys y gwasanaeth Siart Cofnod Rhoi Meddyginiaethau (MAR) yn y cyd-destun hwn. Mae BIPCTM yn ymwybodol o bryderon hirhoedlog a heb eu datrys ynghylch darparu gwasanaethau diogel, gan gynnwys llywodraethu, indemniad, cyfrifoldeb gweithredol a chyllid. Mae'r materion hyn yn parhau i fod yn gyfredol, yn arwyddocaol ac yn destun trafodaeth barhaus. Serch hynny, ymddengys bod yr AAFf drafft yn anwybyddu'r pryderon dilys hynny ac yn defnyddio'r fframwaith mynediad i'r farchnad i orfodi darpariaeth gwasanaeth ehangach.

Mae'r AAFf drafft yn rhoi'r argraff bod darpariaeth gyffredinol o wasanaeth Siart MAR wedi dod yn amcan pennaf, heb ystyriaeth ddigonol i'r rhwystrau ymarferol a phroffesiynol sylweddol i ddarpariaeth ddiogel a chynaliadwy. Mae hyn yn peri risg o roi uchelgais comisiynu o flaen diogelwch cleifion, atebolrwydd proffesiynol a hyfywedd gwasanaeth. Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi cynnig atebion ymarferol dro ar ôl tro, gan gynnwys systemau digidol priodol, ymgysylltiad ystyrlon gan bartneriaid gofal cymdeithasol a chyllid digonol. Dylai BIPCTM fynd i'r afael â'r rhwystrau hynny'n uniongyrchol, yn hytrach na dibynnu ar y broses AAFf i ddilyn amcan comisiynu nad oedd erioed wedi'i fwriadu ar ei gyfer. Byddai'r dull hwnnw'n gyfystyr â chamddefnydd difrifol o fframwaith yr AAFf ac yn peryglu tanseilio hyder yng nghyfanrwydd y system mynediad i'r farchnad.

Mae contractwyr wedi cynghori Fferylliaeth Gymunedol Cymru eu bod yn teimlo bod y dull gorfodol hwn yn gyfystyr â bwlio, oherwydd gallai peidio â darparu'r gwasanaeth Siart MAR arwain at nodi bwlch mynediad i'r farchnad a chaniatáu fferyllfa newydd gerllaw. Mae hynny'n annerbyniol. Ni ddylid defnyddio'r AAFf, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, i orfodi contractwyr presennol i ddarparu

gwasanaeth lle mae pryderon difrifol yn parhau heb eu datrys mewn perthynas â diogelwch, llywodraethu, indemniad, cyfrifoldeb gweithredol a chyllid.

Dylai'r Bwrdd Iechyd hefyd gydnabod y gallai nodi bwlch mynediad i'r farchnad yn yr amgylchiadau hyn arwain at or-ddarparu gwasanaethau fferyllol hanfodol. Yn yr amgylchedd ariannol presennol, gallai hyn greu darpariaeth fferyllfa ychwanegol lle nad oes angen amlwg am wasanaethau hanfodol, gan danseilio hyfywedd fferyllfeydd presennol ac unrhyw newydd-ddyfodiad.

Am y rhesymau hyn, mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn ystyried bod rhaid tynnu'r datganiad o'r AAFf drafft.

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y materion a godwyd gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru mewn perthynas â phwysigrwydd y gwasanaeth cofnodion rhoi meddyginiaethau i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae wedi penderfynu diwygio'r angen a nodwyd fel a ganlyn.

“Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai fferyllfa’n rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cofnodion rhoi meddyginiaethau, y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth gael ei ddarparu i drigolion cymwys y dref/pentref hwnnw. Ni fydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi os:

- Gellir diwallu'r angen gan un neu fwy o fferyllfeydd sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Oes darparwyr eraill sy'n gallu diwallu'r cynnydd yn y galw, neu
- Byddai caniatáu cais i gael ei gynnwys yn y rhestr fferyllol sy'n cynnig diwallu'r angen hwn yn arwain at gynnydd annymunol yn argaeledd gwasanaethau hanfodol yn y dref/pentref hwnnw.”

Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ynghylch a yw'r **asesiad o anghenion fferyllol wedi darparu gwybodaeth i lywio penderfyniadau a wnaed gan y bwrdd iechyd mewn perthynas â cheisiadau am fferyllfeydd newydd ac adeiladau contractwyr offer fferyllol, a cheisiadau gan feddygon fferyllol.** Nododd y bwrdd iechyd fod un ymatebydd wedi dweud “Nac ydy”, ac nad oedd un yn gwybod. Ehangodd y ddau ar eu hymateb.

- “Er bod y drafft yn darparu gwybodaeth gefndir ddefnyddiol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystyried y byddai mwy o gydnabyddiaeth o’r galw presennol a’r galw disgwyliedig yn y dyfodol, capasiti’r gweithlu, anghydraddoldebau o ran mynediad, darpariaeth wledig ac anghenion poblogaethau agored i niwed yn cryfhau ei allu i lywio penderfyniadau mynediad i’r farchnad yn y dyfodol. Byddai asesiad mwy cynhwysfawr o’r ffactorau hyn yn cefnogi penderfyniadau ynghylch darpariaeth fferyllol yn y dyfodol yn well.”
- “O ran y bwlch a amlygwyd yn safle gwaith glo brig Llanilid, byddai’n ddefnyddiol pe bai tudalen 310 o’r AAFf yn egluro faint o anheddau sy’n

cyfateb i gwblhau 80% o'r datblygiad. Lle nodir y ffigur (h.y. 5,000 yn seiliedig ar gyfanswm o 6,250), a ellid hefyd egluro'n glir a yw'r nifer hwnnw'n cyfeirio at nifer y bobl sy'n byw yn y datblygiad."

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i'r pwynt cyntaf uchod.

O ran yr ail bwynt, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod yr asesiad o anghenion fferyllol yn nodi'n glir y bydd yr angen hwn yn y dyfodol yn codi ar ôl cwblhau 80% o'r anheddau. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd cyfanswm o 6,250 o anheddau yn cael eu hadeiladu. Mae'r bwrdd iechyd o'r farn y bydd sbardun yn seiliedig ar nifer yr anheddau a gwblhawyd yn haws i'w fonitro nag un yn seiliedig ar nifer y bobl sy'n byw yn y datblygiad.

Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylwadau canlynol.

"a) Fel yr amlinellwyd mewn ymateb i Gwestiwn 4, nid oes tystiolaeth gadarn wedi'i rhoi o'r anghenion a nodwyd yn y AAFf drafft. Felly nid yw'n glir a ydynt yn gyfystyr ag anghenion perthnasol at ddibenion mynediad i'r farchnad. Mae trin diffyg darparu gwasanaeth fel angen heb ei ddiwallu yn creu bwlch mynediad posibl i'r farchnad a gall wahodd ceisiadau i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Lle nodir bylchau o'r fath heb dystiolaeth ddigonol, neu heb gymhwyso'r fframwaith rheoleiddio yn gywir, gall yr AAFf ddylanwadu ar benderfyniadau mynediad i'r farchnad ar sail casgliadau diffygiol neu gasgliadau heb eu sail yn ddigonol. Felly mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn ystyried bod yn rhaid datrys y materion a nodwyd mewn ymateb i Gwestiwn 4 cyn y gellir dibynnu'n briodol ar yr AAFf fel sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau mynediad i'r farchnad.

b) Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru o'r farn nad yw'r AAFf yn darparu digon o wybodaeth am leoliadau rheoledig.

Mae'r AAFf yn cydnabod bod darpariaeth meddygon fferyllol yn dibynnu ar gleifion yn byw o fewn lleoliadau rheoledig ac ar bractisau sy'n dal y cydsyniad a'r cymeradwyaethau safle gofynnol. Fodd bynnag, nid yw'n nodi penderfyniadau lleoli rheoledig cyfredol, ardaloedd cydsyniad amlinellol meddygon fferyllol, na'r mapiau lleoli rheoledig perthnasol, ac nid yw'n cyfeirio at ble y gellir archwilio'r mapiau hynny.

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn tynnu sylw'r Bwrdd Iechyd at ganllawiau anstatudol Llywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd â Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Mae'r canllawiau hynny'n nodi y dylai AAFf gynnwys gwybodaeth am ardaloedd cydsyniad amlinellol meddygon fferyllol ac yn nodi y dylid darparu mapiau lleoli rheoledig, neu ddolenni i'r mapiau hynny. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen i gynnal ffiniau lleol rheoledig cywir lle gall datblygiad neu batrymau aneddiadau newidiol effeithio ar benderfyniadau blaenorol.

Mae'r canllawiau'n ei egluro'n glir, heb fapiau wedi'u diffinio'n glir sy'n tystio i ffiniau ardaloedd rheoledig, na all Bwrdd Iechyd benderfynu a yw'r darpariaethau ardaloedd

rheoledig yn Rhan 5 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn berthnasol i gais. Mae hyn yn adlewyrchu'r gofyniad statudol yn Rheoliad 13 ac Atodlen 4 bod rhaid pennu lleoliadau rheoledig yn ffurfiol cyn y gellir cymhwyso'r darpariaethau lleoliad rheoledig a lleoliad neilltuedig yn gyfreithlon.

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi nodi na fydd mapiau ardaloedd rheoledig yn cael eu cynnwys yn yr AAFf. Er nad yw cynnwys yn yr AAFf yn ofyniad statudol, mae hepgor y mapiau ac unrhyw arwyddion atynt yn golygu nad yw'r AAFf yn dangos bod penderfyniadau lleoli rheoledig cyfredol yn bodoli nac yn nodi ble y gellir archwilio'r penderfyniadau a'r mapiau hynny.

Heb benderfyniad lleoli dan reolaeth gyfredol wedi'i ategu gan fap priodol, nid oes sicrwydd bod cleifion yn gymwys i dderbyn gwasanaethau dosbarthu gan feddyg, a yw ardal yn elwa o ddiogelwch lleoliad neilltuedig, neu a all y Bwrdd Iechyd gymhwyso'r darpariaethau lleoli dan reolaeth yn gyfreithlon wrth benderfynu ar geisiadau fferyllol. Dyma ystyriaethau perthnasol ar gyfer cynllunio gwasanaethau fferyllol a mynediad i'r farchnad. Felly mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn ystyried bod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd nodi'n glir yr ardaloedd rheoledig presennol, ardaloedd cydsyniad amlinellol meddygon fferyllol, a lleoliad y mapiau cysylltiedig o fewn, neu ochr yn ochr â, yr AAFf terfynol.

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i'r pwyntiau yn (a) uchod.

O ran cynnwys y map lleoliad rheoledig yn yr asesiad o anghenion fferyllol, mae trafodaethau wedi digwydd gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru. Mae'r bwrdd iechyd wedi penderfynu na ddylid cynnwys y map o'r ardaloedd dan reolaeth.

Yna gofynnodd yr arolwg **a oedd y ddogfen wedi darparu gwybodaeth i lywio sut y gellir comisiynu gwasanaethau fferyllol yn y dyfodol.** Nododd y bwrdd iechyd fod un ymatebydd wedi dweud “Oedd”, ac un wedi dweud “Nac oedd”.

Ehangodd yr ymatebydd a ddywedodd “Nac oedd” ar ei ymateb.

“Mae’r asesiad yn darparu sylfaen ddefnyddiol; fodd bynnag, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystyried y byddai comisiynu yn y dyfodol yn cael ei gryfhau gan fwy o bwyslais ar gefnogaeth meddyginiaeth gymunedol, capasiti fferyllfeydd, cyflenwi meddyginiaethau, cynhwysiant digidol, atal, gweithio integredig gyda gofal cymdeithasol a’r galw disgwyliedig yn y dyfodol. Byddai adlewyrchu’r materion hyn yn cefnogi penderfyniadau comisiynu cynaliadwy, teg ac sy’n canolbwyntio ar y person yn well.”

Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylwadau canlynol.

Nod yr AAFf hwn yw asesu a nodi sut y gall darparu gwasanaethau fferyllol ddiwallu anghenion iechyd y boblogaeth yn ardal y Bwrdd Iechyd am gyfnod o hyd at bum mlynedd. Nid oes unrhyw ddarpariaeth o fewn yr AAFf i edrych y tu hwnt i gyfnod o bum mlynedd.

Fel yr amlinellwyd yng Nghwestiwn 4, mae pryderon ynghylch yr anghenion presennol a'r anghenion yn y dyfodol a nodwyd.

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i'r pwyntiau hyn uchod.

Gan droi at **a yw'r asesiad o anghenion fferyllol wedi darparu digon o wybodaeth i gontractwyr gynllunio darpariaeth gwasanaethau fferyllol yn y dyfodol.** Nododd y bwrdd iechyd fod un ymatebydd wedi dweud “Ydy”, a dau wedi dweud “Nac ydy”.

Ehangodd yr ymatebwyr a ddywedodd “Nac ydy” ar eu hymateb.

“Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o’r farn, er bod y drafft yn rhoi trosolwg defnyddiol, y byddai’n elwa o ystyriaeth fanylach i’r galw yn y dyfodol, capasiti’r gweithlu, mynediad cyfartal, cefnogaeth i feddyginiaethau yn y gymuned, cyflenwi meddyginiaethau, cynhwysiant digidol ac anghenion grwpiau agored i niwed. Byddai cryfhau’r meysydd hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth fwy cadarn i lywio cynllunio gwasanaethau fferyllol yn y dyfodol.”

“Er bod yr Asesiad o Anghenion Fferyllol drafft yn cynnwys sail dystiolaeth resymol mewn sawl maes, nid yw Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn ystyried ei fod yn darparu digon o dystiolaeth i gefnogi pob casgliad cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

Yn benodol, nid yw Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn credu bod yr AAFf drafft yn dangos yn gadarn y bydd angen am fferyllfa newydd yn Llanilid yn codi o fewn oes yr AAFf. Mae'r asesiad yn dibynnu'n fawr ar dybiaethau ynghylch graddfa ac amseriad datblygu tai, twf poblogaeth yn y dyfodol, galw am wasanaethau, hygyrchedd a chapasiti fferyllfeydd presennol, a darpariaeth gwasanaethau meddygol cyffredinol yn y dyfodol. Mae ansicrwydd sylweddol yn parhau ym mhob un o'r meysydd hyn.

O ystyried yr ansicrwydd hwn, byddai'n rhy gynnar i nodi Llanilid fel ardal o angen fferyllol yn y dyfodol. Yn hytrach, dylai'r ardal barhau i gael ei hadolygu, gydag unrhyw asesiad o angen yn y dyfodol yn cael ei lywio gan dystiolaeth gliriach ar gynnydd datblygu, lefelau meddiannaeth y boblogaeth a chynhwysedd y gwasanaethau fferyllol presennol i ddiwallu'r galw.

Yn ogystal, rhaid darllen casgliadau'r asesiad ar gapasiti yng nghyd-destun y pwysau ariannol a gweithlu sylweddol sy'n wynebu'r sector. Mae unrhyw dybiaeth y gellir ehangu neu gynnal y capasiti presennol yn ddibynnol ar gyllid rheolaidd diogel a gweithlu digonol. Mae tystiolaeth glir ar draws y rhwydwaith bod pwysau ariannol eisoes yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau ac, i rai contractwyr, hyfywedd busnes. Mae nifer fach ond cynyddol bellach ar y pwynt lle mae eu cynaliadwyedd parhaus dan sylw. Yn unol â hynny, er bod yr AAFf yn darparu fframwaith cynllunio defnyddiol, dim ond drwy fuddsoddiad ystyrlon a chynaliadwy a chefnogaeth gytundebol briodol y bydd unrhyw gapasiti a nodwyd yn cael ei wireddu. Felly mae

Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn annog y Bwrdd Iechyd i gydnabod yn benodol bod casgliadau'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth yn dibynnu ar gyllid rheolaidd cynaliadwy a digon o gapasiti gweithlu.

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i'r pwyntiau hyn uchod.

Yna gofynnodd yr ymgynghoriad **a oes unrhyw wasanaethau fferyllol y gellid eu darparu yn y dyfodol gan fferyllfeydd nad ydynt wedi'u hamlygu.** Nododd y bwrdd iechyd fod un ymatebydd wedi dweud “Oes”, ac un wedi dweud “Nac oes”.

Ehangodd yr ymatebydd a ddywedodd “Oes” ar ei ymateb.

“Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystyried y gellid rhoi mwy o bwyslais ar ehangu cefnogaeth feddyginiaeth gymunedol, optimeiddio meddyginiaethau ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth, gwell cefnogaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu, ymyriadau iechyd ataliol, cefnogaeth i gynnal annibyniaeth, ac integreiddio agosach rhwng fferyllfeydd cymunedol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Dylid ystyried hefyd ddulliau arloesol, gan gynnwys technoleg gynorthwyol a chefnogaeth well i boblogaethau agored i niwed.”

Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylwadau canlynol.

“O bosibl, ond dim ond lle mae gwasanaethau o’r fath yn cael eu comisiynu, eu hariannu a’u cefnogi’n briodol. Er enghraifft, mae Adran 3.2.2.2 yn tynnu sylw at y cynnydd mewn gordewdra ymhlith oedolion yng Nghymru, maes lle gallai gwasanaethau rheoli pwysau mewn fferyllfeydd wneud cyfraniad ystyrlon.

Fodd bynnag, byddai darparu gwasanaethau fel rheoli pwysau ac ymyriadau eraill sy'n canolbwyntio'n glinigol **yn gofyn am fuddsoddiad ychwanegol sylweddol y tu hwnt i'r Fframwaith Cytundebol Fferylliaeth Gymunedol (CPCF) presennol.** Awgrymir bod y Bwrdd Iechyd yn ystyried yr anghenion iechyd a nodwyd hyn yn fanylach, yn datblygu gwasanaethau yn unol ag egwyddorion Fferylliaeth Gymunedol o’r Cychwyn, ac yn sicrhau cyllid rheolaidd priodol i gefnogi eu darpariaeth gynaliadwy trwy rwydwaith fferylliaeth gymunedol.

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i bwyntiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr uchod.

Mewn perthynas â'r ymateb gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru, gall y bwrdd iechyd gadarnhau y bydd fferyllwyr ar gontract yn cael eu hystyried fel darparwr gwasanaethau sy'n briodol yn glinigol a ddatblygir fel rhan o ddull gweithredu Fferylliaeth Gymunedol o’r Cychwyn. Mae'n cydnabod yr angen i sicrhau bod rhaid i wasanaethau a gomisiynir gan fferyllwyr ar gontract yn y dyfodol gael eu talu'n briodol.

Er mwyn sicrhau bod yr **asesiad o anghenion fferyllol wedi nodi unrhyw anghenion a allai godi o fewn ei oes pum mlynedd**, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd unrhyw ddatblygiadau, er enghraifft datblygiadau tai, prosiectau adfywio neu safleoedd newydd ar gyfer darparu gwasanaethau'r GIG, wedi'u methu. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un ymatebydd wedi dweud “Oedd”, ac un wedi dweud “Nac oedd”.

Ehangodd yr ymatebydd a ddywedodd “Oedd” ar ei ymateb.

“Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o’r farn y dylai’r asesiad roi mwy o ystyriaeth i’r newid demograffig a ragwelir, twf y boblogaeth, poblogaeth sy’n heneiddio, cymhlethdod cynyddol anghenion iechyd a gofal cymdeithasol, datblygiadau tai ac adfywio lle bo’n berthnasol, a’r symudiad parhaus tuag at ofal cymunedol. Mae'n debygol y bydd y ffactorau hyn yn cynyddu'r galw am wasanaethau fferyllol yn ystod oes yr asesiad a dylid eu hadlewyrchu mewn cynllunio yn y dyfodol.”

Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylwadau canlynol.

“Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau a allai godi o fewn oes yr AAFf hwn sydd heb eu nodi. Fodd bynnag, mae’n bosibl iawn y bydd fferyllwyr unigol ar gontract, aelodau’r cyhoedd ac eraill sydd â gwybodaeth leol yn rhoi gwybod i’r Bwrdd Iechyd am unrhyw ddatblygiadau y maent yn ymwybodol ohonynt.”

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i bwyntiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr uchod.

Mae'n falch o nodi nad yw Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi nodi unrhyw ddatblygiadau coll.

Yna gofynnodd yr ymgynghoriad a oedd yr ymatebwyr **yn cytuno â chasgliadau'r asesiad o anghenion fferyllol.** Nododd y bwrdd iechyd fod un ymatebydd wedi dweud “Ydw”, a dau wedi dweud “Nac ydw”.

Ehangodd yr ymatebwyr a ddywedodd “Nac ydw” ar eu hymateb.

“Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn croesawu’r Asesiad o Anghenion Fferyllol drafft ac yn cefnogi ei ddiben cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor o'r farn y dylai'r casgliadau roi mwy o bwyslais ar fynediad teg, capasiti fferyllfeydd cymunedol, cefnogaeth i feddyginiaethau, cyflenwi meddyginiaethau, cynhwysiant digidol, poblogaethau agored i niwed, atal, a galw yn y dyfodol. Byddai cryfhau’r meysydd hyn yn sicrhau bod yr asesiad terfynol yn darparu sail fwy cynhwysfawr ar gyfer cynllunio gwasanaethau fferyllol yn y dyfodol.”

“Ni all Fferylliaeth Gymunedol Cymru gytuno â chasgliadau’r asesiad o anghenion fferyllol gan y teimlir nad yw anghenion heb eu diwallu wedi’u dangos yn ddigonol am y rhesymau a amlinellir yng Nghwestiwn 4.”

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i'r pwyntiau hyn uchod.

Yn olaf, gofynnwyd i’r rhai a ymatebodd i’r ymgynghoriad **a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach.** Cafodd un sylw ei gwneud.

“Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn croesawu’r cyfle i wneud sylwadau ar yr Asesiad o Anghenion Fferyllol drafft ac yn gwerthfawrogi’r gwaith a wnaed wrth baratoi’r ddogfen. Bwriad sylwadau'r Cyngor yw cefnogi datblygiad asesiad terfynol sy'n adlewyrchu anghenion trigolion Iedled ardal Cwm Taf Morgannwg yn llawn. Yn benodol, rydym yn annog pwyslais parhaus ar fynediad cyfartal, capasiti fferyllfeydd cymunedol, cefnogaeth a chyflenwi meddyginiaethau, cynhwysiant digidol, atal, cefnogaeth i grwpiau agored i niwed, a galw yn y dyfodol i sicrhau bod gwasanaethau fferyllol yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn ymatebol i anghenion newidiol y boblogaeth.

I gloi, dywedodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru y canlynol.

“Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn croesawu’r cyfle i ymateb i’r AAFf drafft ac yn cydnabod y gwaith a wnaed gan BIPCTM wrth ei baratoi. Fodd bynnag, mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru o'r farn nad oes digon o dystiolaeth o sawl angen a nodwyd yn y dyfodol a'u bod mewn perygl o ragori ar bwrpas priodol yr AAFf fel asesiad gwrthrychol o angen fferyllol a sail ar gyfer penderfyniadau mynediad i'r farchnad. Felly mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn gofyn i'r Bwrdd Iechyd adolygu'r adrannau perthnasol, dileu datganiadau dyfalu neu ddatganiadau heb ddigon o dystiolaeth, a sicrhau bod unrhyw angen a nodwyd ar hyn o bryd neu yn y dyfodol yn cael ei gefnogi gan sail dystiolaethol gadarn sy'n gyson â'r fframwaith rheoleiddio.

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i'r pwyntiau hyn uchod.

4 Casgliadau Cryno

Mae'r bwrdd iechyd yn nodi mai dim ond tri ymgynghorai a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Mae'n falch o nodi nad oes unrhyw bryderon wedi'u nodi a fyddai'n golygu nad yw'r asesiad o anghenion fferyllol yn cydymffurfio â'r rheoliadau, neu fod unrhyw wasanaethau, anghenion neu ddatblygiadau wedi'u methu.

Mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud tri newid i'r drafft ymgynghori, gan ddileu un angen yn y dyfodol ac egluro rôl y ddogfen pan fydd ceisiadau i'w cynnwys yn y rhestr fferyllol yn cael eu penderfynu.

Hoffai'r bwrdd iechyd ddiolch i'r rhai a gymerodd yr amser i ddarllen y ddogfen ac ymateb i'r ymgynghoriad.

5 Diwygiadau

Mae'r gwelliannau canlynol wedi'u gwneud i'r asesiad o anghenion fferyllol.

- Mae Adran 1.1 wedi'i diwygio i wneud y cysylltiad rhwng yr asesiad o anghenion fferyllol a phenderfynu ar geisiadau i'w cynnwys yn rhestrau'r meddygon fferyllol yn fwy eglur.
- Mae'r angen yn y dyfodol sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr wedi'i ddiwygio ym mhenodau 8 i 16 yn gynhwysol.
- Mae'r angen yn y dyfodol sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth adolygu rhoi meddyginiaeth wedi'i ddiwygio ym mhenodau 8 i 16 yn gynhwysol.

Atodiad L – oriau agor fferyllfeydd



Atodiad L.xlsx